DECHREUAD A CHYNNYDD CREFYDD yn yr ENAID.

A eglurwyd mewn amryw

GYFARCHIADAU

Difrifol ac ymarferol,

wedi eu cymhwyso

At bob Mâth ac Amgylchiad o Ddynion;

GYDA

DUWIOL FYFYRDOD, NEU WEDDI,

Wedi ei 'chwanegu at bob Pennod.

Gan P. DODDRIDGE, D. D.

A gyfieithwyd i'r Gymraeg allan o'r unfed ar ddêg Argraffiad yn Saesneg, er llês i'r Cymru un Iaith,

Gan JOHN GRIFFITH, Gweinidog yr Efengyl.

Gan dystiolaethu — yr Edifeirwch sy tuag at Dduw, a'r Ffydd sy tuag at ein Harglwydd Iesû Grist. *Actau* xx. 21.

'r hwn ydym ni yn ei bregethu, gan rybyddio pob Dyn, a dysgu pob Dyn ym mhob doethineb, fel y cyflwynom bob Dyn yn berffaith yn Ghrist Iesu. *Col.* i. 28.

YN Y MWYTHIG:

Argraffwyd ac ar werth gan J. a W. EDWARDS, a chan yr Awdwr yn ABERGAFENNY, 1788.

[*Pris* 2s. *mewn papur glâs, neu* 2s. 6c. *wedi ei rwymo.*]



RHAGYMADRODD.

YMAE yr hyn a ddywedais yn y bennod gyntaf o'r traethawd hwn, ynghylch trefn a diben neillduol y gwaith, yn gwneud *rhagymadrodd hir*, yn afreidiol. Fe a allai fod rhai o'm darllenwyr yn cofio i mi er ys rhai blynyddoedd roddi addewid o'r gorchwyl yn y rhagymadrodd i'r ail argraffiad o'm *Pregethau ar allu a gras Crist*, &c. Fe a ddarfu i fy nghyfail tra anrhydeddus *Doctor Watts*, ofod i lawr drefn y gwaith hwn, yn enwedig y rhan gyntaf: Eithr o blegid yr afiechyd trwy ba un y bu dda gan Dduw ymweled ac ef (er mawr alar i'r eglwyfydd) fe fethodd ei 'chwanegu y traethawd hwn at yr amrywiol lyfrau eraill a gyhoeddodd ef er lleſhâd i eneidiau anfarwol; ac am hynny fe fu da yn ei olwg, mewn modd taer a ſerchiadol, i'm hannog i i'w gymmeryd ef yn llaw. Ac yr wyf yn bendithio Duw â'm holl galon, nid yn unig am iddo fy nerthu i fyned trwy y *gorchwyl hyfryd* (canys felly yn wîr y bu i mi) ond hefyd am iddo arbed y perſon hawddgar hynny nês ei weled ef ar ben; ac am ei alluogi ef i edrych dros gymmaint o hono er mwyn ei ddiwygio. Gan iddo ef gymmeradwyo 'r gwaith hwn, trwy y fâth ymadroddion, nad yw yn *weddus* i mi eu hadrodd, yr wyf yn gobeithio ei fod wedi ei gyflawnu yn y fâth fodd, ac a'i gwnelo ef, dan fendith Duw, o ryw faint o wa-

ſanaeth cyffredinol. Ac yr wyf yn diſgwyl y bydd ef felly, o blegid ei fod hefyd yn awr yn dyfod ar lêd i'r bŷd, nid yn unig gyda 'm *gweddiau i a'm cyfaill Doctor Watts*, eithr gyda *gweddiau llawer o gyfeillion duwiol eraill*, y rhai y bum i yn neillduol ofalus i'w ceiſio er mwyn ei wneuthur yn llwyddiannus.

I BA ddwylaw bynnag y delo 'r gwaith hwn, rhaid i mi ddymuno arnynt i'w ddarllain ei gyd, cyn rhoddi barn arno; fel y gwelont y cŷd-gordiad ac ſydd rhwng y naill ran o hono a'r llall. Yr wyf yn dymuno hyn, o blegid i mi ſylwi dros hîr amſer, fod *criſtianogion o wahanol enwau* yn cymmeryd gafael ar ryw *rannau neillduol o ddwyfol wirionedd*, ac felly yn dadleu yn eu cylch, fel pe buaſai *un ran* y *cwbl oll*; neu fel pe byddai *gwahanu aelodau* oddiwrth eu gilydd, ac oddiwrth y *pen*, yn foddion o *ddiogelu y corph*, yn llê i *ddiſtrywio* ef. Y maent yn cynnal ac yn amddiffyn gyda mawr ſêl, anrhydedd a defnyddgwarch, *un rhan* o wirionedd, yn *neullduedig* oddiwrth ran arall; ond y mae yn ymddangos i mi fod *buddioldeb* ac *anrhydedd* y gwirioneddau dwyfol yn ymddibynnu mewn meſur mawr ar eu *cyſſylltiad â'u gilydd*. Ac am fod *un blaid* yn fawr ei ſêl dros *un rhan*, a phlaid arall yn fawr ei ſêl dros *ran arall* o'r gwirionedd, y mae amheuon a drŵg dybiau yn fynych yn cyfodi ymmŷſg yr amddiffynwyr, a'r rhai hynny mor afreſymmol, a phe bae yr holl *barottôadau* i achub *un rhan o long* mewn yſtorom, i gael eu hyſtyried fel *bwriad i ſoddi y rhannau eraill*. Y mae 'm gweddi ar Dduw am roddi i'w holl weinidogion a'i bobl fwy o yſpryd doethineb, o gariad, ac o iawn farn, ac i ſymmud ymaith yr holl anghymmod a'r drwgdybiau ſydd yn ein plîth, y rhai ſydd yn ein hattal rhag cyduno, megis ac y dylem, er mwyn rhyfela 'n llwyddianus *yn erbyn gelynion y grefydd griſtianogol*. — Sicr yw y bydd i'r gelynion

gelynion hynny gwneud defnydd o'n rhaniadau aml, a'n dadleuon creulon â'n gilydd, er mwyn cynnill y frwydr arnom; etto hwy a gollant dîr o angenrheidrwydd, yn ol y grâdd y bo i egwyddorion criſtianogaeth gael eu teimlo yn eu grym, yn uno ac yn cyfnewid calonnau'y ſawl ac ſydd yn gwneuthur proffes o honynt.

Mi a arferais y *iaith mwyaf eglur* ac oedd boſſibl yn y llyfr hwn, fel y gallai 'r gwaelaf o'm darllenwyr, os yw boſſibl, ddeall pob gair; ac yr wyf yn gobeithio y bydd i'r dyſgedigion faddeu i mi hyn o fai, gan ei fod yn ymddangos i mi yn ddarn o eulufen angenrheidiol. Mewn *yſgrifenadau ymarferol*, y mae gofal am lefaru yn eglur yn ymddangos i mi yn un ffordd i *anrhydeddu pawb*, yr hyn beth y mae ein Crefydd hawddgar a goſtyngedig yn ei ddyſgu i ni: Ac yr wyf dan rwymau neillduol i'r parchedig *Doctor Watts* am ei waith yn byrhâu fy ymadroddion ac yn goſod fy meddwl allan mewn geiriau mwy ſathredig ac eglur. Etto y mae yn ddiammau gennyf, na fydd y llyfr ddim i gael ei yſtyried yn waeth, o herwydd myned o hono trwy ei ddwylaw ef.

Rhaid i mi ddal ſulw ar un peth yn y man hyn ym mhellach, yr hyn a ddymunſwn i beidio a'i eſguluſo yn yr argraffiad cyntaf, *Sef*, Er fy mod yn yſtyried fy narllenydd yn y llyfr hwn yn myned trwy amrywiol amgylchiadau, gan ddechreu gyda 'r *pechadur diofal*, a chan ei arwain ef trwy lawer o raddau *argyhoeddiad* a *dychryn*, &c. fel pethau angenrheidiol tuag at ei wneud ef yn foddlon i dderbyn yr efengyl, ac i ymroddi i waſanaeth Duw; etto ni a ewyllyſiwn i mewn un modd ddywedyd fod *pob un* ac ſydd yn cael ei ddwyn i'r penderfyniad a'r ſefyllfa happus hyn, yn cael ei ddwyn trwy 'r *camrau neillduol* hynny, neu i fod yn rhaid i bob un deimlo ar ei feddwl gynhyrfiadau i'r unrhyw raddau

ac a ddarluniais i yma. Gwîr yw i fod rhyw faint o deimlad o bechod, a rhyw râdd o adnabyddiaeth ſyml a goſtyngedig o'n perygl ac o'n trueni mewn canlyniad o hono, yn angenrheidiol i'n tueddu ni i dderbyn grâs yr efengyl, a'r iachawdwr ac ſydd yno yn cael ei ddatguddio trwy ffŷdd. Etto y mae yr Arglwydd yn gweled yn dda i ddechreu gwaith ei râs ar galonnau rhai ym mron mor gynted ac y mae rheſwm yn gwawrio ynddynt; ac felly yn ei ddwyn ef ymlâen yn y fath fôdd eſmwyth ac annheimladwy, fel ac y mae llawer o ddynion rhagorol, a chwedi cynhyddu yn fawr mewn duwioldeb, y rhai nâs gallant i roddi un hanes neillduol am eu *troedigaeth:* Ac mŏr belled ac y gellais i ddeall, dyma fel y mae hi fynycha gyda'r ſawl a *ddyged i fynu yn grefyddol* ac ni adawyd i benrhydd did a drygioni yn eu ieuengctid. Na atto Duw gan hynny i neb o'r fath ddynion fod mor annheimladwy o'u dedwyddwch, a chael eu gadael i ſyrthio i betruſder mewn perthynas i'w cyflwr yſprydol, a hynny am nas gallant i gael yn eu meddyliau y fath *ddechreuad o Grefyddd*, ac oedd yn angenrheidiol i mi i ddarlunio a'i amlygu yma, yn ol trefn y gwaith hwn.—Mi a oſodais allan fy meddyliau ar y pen hyn mor gyflawn, yn yr wythfed o'm *pregethau ar adenedigaeth*, fel yr wyf yn meddwl nas gall neb ac a ddarllenodd y cyfryw, ac ſydd heſyd yn cofio ei chynhwyſiad, fod mewn perygl o gamſynnied fy meddwl yn y traethawd hwn. Ond fel y mae 'n dra theby-gol i'r llyfr hwn ddyfod i ddwylaw llaweroedd ac na ddarllenodd y bregeth honno, mi a dybiais i fod yn gymmwys roddi y gocheliad hwn yma yn yr rhagymadrodd; ac yr wyf yn rhwymedig iawn i'm cyfaill teilwng a rhagorol, pa un a ddygodd ar gôf i mi y [illegible]ioldeb o'r fath ocheliad.

Y Cyf-

Fy anwyl gydwladwyr,

NA anfoddlonwch wrthyf am fy ngwaith yn ceiſio trwy fawr draul a llafur i oſod yn eich dwylaw y llyfr gwerthfawr a ganlyn, yn eich iaith eich hunain; canys fy amcan trwy y cyfryw orchwyl oedd, dwyn ymlâen eich tragywyddol ddedwyddwch. Y mae yn achos o fawr lawenydd i bob dŷn duwiol, i feddwl am yr aml ragorfreintiau crefyddol a roddodd yr Arglwydd i'r Brutaniaid o oes i oes: Etto nis gall y fawl a ddygwyd o farwolaeth i fywyd, lai na galaru wrth edrych ar gyflwr truenus miloedd yn ein mŷſg; ſef, y rhai ſydd yn diyſtyru Criſt a iechydwriaeth grâs, gan chwerthin a diofalhâu ar geulan tragywyddol ddiſtryw. Fe a welodd Duw 'n dda i ddonio ac i ddanfon ar lêd amryw o wenidogion ffyddlon, i gyhoeddi mewn amſer ac allan o amſer i fod maddeuant a chymmod i bechaduriaid euog yn Ghriſt; ac i fod pob peth yn barod i gael ei gyfrannu 'n rhâd er mwyn gwneud yn dragywyddol ddedwydd y rhai oll a ddychwelont atto ef. Ond och i feddwl! y mae *torfeydd lawer* yn dywedyd yn eglur am yr anwyl *Ieſu*, trwy eu hymddygiadau, '*ni fynnwn ni mo 'r dŷn hwn i deyrnaſu arnom.*'—Gyda golwg at ddychweliad *rhai o leiaf*, o'r cyfryw eneidiau truenus, mi a gymmerais yn llaw y gwaith poenfawr o gyfieithu y llyfr a ganlyn; rhodded yr Arglwydd ei fendith i gydgerdded ac ef i'r diben gogoneddus hynny! Pa fodd bynnag y meddylio eraill, yr wyf fi yn edrych ar y traethawd hwn yn un o'r llyfrau mwyaf defnyddiol ac ſydd mewn bod (oddieithr y Bibl ſanctaidd) i ddŷn yn achos iechydwriaeth ei enaid.—Y mae yma olwg eglur yn çael ei roddi yn gydunol â'r yſgrythur, ar y *gwir amniol* ac y mae pob dŷn ynddo fel troſeddwr o berffaith

ac anghyfnewidiol gyfraith Dduw; ac hefyd ar annigonolrwydd pob ymgais o eiddo 'r pechadur i roddi *iawn* am ei droſeddau gynt; *gyfnewid* ei dufewnol *anian*; nac i *ryddhâu* ei hun o dan *iau* y gelyn diafol. Ac wrth yſtyried pwy mor hanffodol yw golwg ar, a chrediniaeth o'r pethau hyn tuag at argyhoeddiad, edifeirwch, a dychweliad pechaduriaid, diddadl yw, mae y pregethwyr a'r llyfrau mwyaf defnyddiol yw y rhai ac ſydd yn eu goſod allan yn y modd mwyaf eglur. Fe ellir yn briodol i alw y llyfr hwn yn *gorph o ddefnyddiaeth broſiadol*; canys y mae yr awdwr ynddo yn rhoddi darluniad o waith grâs yn y criſtion yn ei holl rannau, o amſer ei argyhoeddiad hyd ei gyflawn addfedrwydd i ogoniant.—Gwîr yw, i ſod llawer o'r ſawl a elwir yn griſtianogion yn ein dyddiau ni, yn barod i *wawdio broſiad* neu *deimliad* mewn Crefydd, fel pe bae y fath beth yn hollol anyſgrythurol ac yn afreſymmol: Ond beth er hynny, a wna eu hanghrediniaeth hwy ffŷdd Duw yn ofer? Megis nas gall gwaith *dŷn dall* yn dywedyd nad oes un haul nac amryw lywiau i beri i'r hwn ſydd yn gweled y cyfryw bethau i gredu mai twyll ydynt; felly nis dichon *gwawdiaeth* y criſtianogion nad oes ganthynt ond *enw o ſod yn fyw*, byth i beri i'r ſawl a aned o Dduw i gredu mae peth ffygiol yw *teimliad* o weithrediadau Yſpryd y grâs ar eu heneidiau. Pe bae 'r fath beth a chael dŷn na theimlodd erioed na *newyn na ſyched yn ei gorph*, neu un nas cafodd ei effeithio erioed yn ei feddwl gan na *galar* na *llawenydd*, fe ellid yn rheſymmol ddiſgwyl i'r cyfryw gyhoeddi nad oes y fath bethau yn bod; ac felly i wawdio y ſawl a ddywedent eu bod yn eu *teimlo*. A chan ſod miloedd o wŷr a gwragedd, o feibion a merched, dan *ſŵn yr efengyl*, heb deimlo dim o'r cyfryw bethau erioed yn yſprydol, nis gellir yn rheſymmol ddiſgwyl i'r cyfryw rai ddywedyd dim yn gredinol ac

yn

yn barchus am *Grefydd brofiadol.*—Pan y mae 'r yſgrythur yn ſôn am yr *annuwiol*, y mae hi yn ei gyfrif ef yn *farw*; ac nid oes gan y marw un *teimlad* o'i gyflwr: Ond pan ſonir am dduwiolion, y maent yn cael eu hyſtyried yn greaduriaid *newydd*, ac yn greaduriaid *byw*; ac y mae teimliadau priodol yn perthyn i bob peth byw, ac nis gall lai na gwybod eu bod hwynt. Y mae 'n eglur nas gall y *byw* mewn un modd i beri i'r *marw* wybod y pethau ac y mae efe yn eu profi; felly nis gall y criſtion byth beri i'r *dyn anianol* a'r proffeſwr heb ddim o'n *Crefydd haneſol*, ddeall dim yn iawn am y profiadau ac ſydd yn ei galon ef o weithrediadau *Yſpryd Duw.* Etto ſulwn, mae er nad yw *profiadau* plant Duw o waith ei râs ef ar eu heneidiau o unrhyw fûdd i *eraill*, eu bod er hynny iddynt hwy eu *hunain* yn brawf anffaeledig o wirionedd eu Crefydd, ac o'u bod hwy wedi eu ſymmud o farwolaeth i fywyd; ac y mae yn amhoſſibl i *ſicrwydd ffydd* darddu oddi ar un peth heblaw yr hyn y mae y criſtion yn *deimlo o air y bywyd*, canys trwy ei *weithrediadau* yn *dychwelyd* ac yn *ſanctteiddio* y pryn-edigion, y mae Yſpryd Duw yn cyd-dyſtiolaethu â'u hyſprydoedd hwy eu bod yn blant i Dduw. Mi a ewyllyſiwn i bawb ſylwi yn y man hyn ym mhellach, nad yw awdwr y traethawd canlynol wrth ſôn am y rhan *brofiadol o Grefydd* yn edrych ar hynny y cwbl oll o honi; eithr ei fod ef hefyd yn golygu y rhan *ymarferol* yn beth o fawr bwys; ac yn beth ac ſydd yn tarddu yn *angenrheidiol*, oddiwrth allu grâs yn y dŷn oddifewn. Y mae llawer o ddynion yn edrych ar yr athrawiaethau efangylaidd, a ſonir am danynt yma, fel pethau yn arwain i *benrhydd-did pechaduru*; ond nid felly yr oedd awdwr duwiol y llyfr hwn yn edrych arnynt: Eithr y mae efe yn eu hyſtyried hwynt ar unllaw fel y *gureiddyn* a'r *bywyd*, heb ba rai

nis

nis gall neb *ddwyn ffrwyth da, na gwneuthur dim* yn gymmeradwy gan Dduw, Ioan xv. ac ar y llaw arall, y mae efe yn edrych ar *dduwioldeb ymarferol* fel canghennau yn tarddu yn angenrheidiol oddiwrthynt. Canys pa le bynnag y mae 'r fath egwyddorion wedi gwreiddio, y maent yn peri na bo neb yn *ſegur nac yn ddiffrwyth*; eithr yn *helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn waſtadol, ac yn awyddus i weithredoedd da.* O'r tu arall, y mae rhai wrth ſôn am athrawiaethau grâs gyda mawr ſêl droſtynt, yn darlunio y creadur newydd fel peth wedi ei grëu gan Dduw yn *ddigyfrwng*; ac felly yn *byw* ac yn *cynnyddu*, er eſgeuluſo *dyledſwyddau* ac *ordinhadau* yr efengyl. Ond nid felly yr oedd y parchedig *Doctor Doddridge* yn meddwl: Eithr y mae efe yn goſod allan *nad oes iechydwriaeth*, oddieithr i'r cyflawniad o'r *addewidion diammodol* o du Dduw, i ddwyn yr enaid i ffordd Duw, i'r diben o gael hawl ym mreintiau ac *addewidion ammodol* yr efengyl. Y mae y traethawd hwn yn goſod allan yn eglur, yr angenrheidrwydd anhepgorol ac ſydd i griſtion ddiſgwyl wrth yr Arglwydd yn barhâus, trwy yr *ymarferiad o bob ordinhâd*, i'r diben o fod yn *gadarn* ac i *gynnyddu* mewn Crefydd; ac i fod yn amhoſſibl i neb fod yn *gyſſurus yn eu profiad*, tra fônt yn *eſgeulus* o orchymmynnion Duw a Chrefydd ymarferol.

Fe allai dybied wrth glywed rhai yn darlunio cyflwr a ſefyllfa y duwiolion, eu bod trwy rinwedd eu perthynas â Chriſt wedi eu goſod yn y fath 'ſtâd, fell nas gall pechod byth eu drygu mwy. Ond fe fyddai 'r fath feddwl yn gyfeiliornad erchyll; am hynny Duw a'm gwaredo ni oll rhagddo!---Gwîr yw, nid oes dim *damnedigaeth* i'r rhai ſydd yn Ghriſt Ieſu; er hynny nid yw Duw yn dywedyd nad oes *cerydd* iddynt pan droſeddont: Canys od oes neb ac ſydd yn proffeſu eu hunain yn ddiſgyblion i Griſt, heb gerydd yn duſewnol neu yn allanol pan bechont

bechont yn erbyn Duw, yna baſdardiaid ydynt. Y mae pechod y gwîr gredadyn mor *ddamniol yn ei natur*, ac yw pechod yr annychweledig; ac y mae pechodau 'r ſainct yn dwyn gyda hwynt ddyfnach euogrwydd, yn gyfattebol i'r amgylchiadau tra gogoneddus y maent ynddynt yn eu gwaith yn torri cyfreithiau 'r nêf: lë, y mae pechodau y rhai a brynwyd, ac a alwyd trwy râs, o'r fath ganlyniad dinyſtriol, fel oni bae fod Duw o'i anfeidrol drugaredd a thrwy foddion effeithiol yn attal eu *parhâd ynddynt*, ni byddai gadwedig un cnawd oll. Y mae 'r Ieſu yn gwared ei bobl oddiwrth eu pechodau; nid yn unig oddiwrth yr *euogrwydd damniol* ac ſydd yn cydfyned â hwynt, eithr hefyd rhag *ewyllyſgarwch* i fyw yn yr *ymarferiad* o honynt. Ac un o'r moddion appwyntiedig i'r diben mawr hynny, yw *Ceryddon rhagluniaeth*, a *cholled o gymdeithas gyſſurus Duw 'r grâs yn yr enaid.* Y mae Duw yn dywedyd am bobl ei gyfammod fel hyn pan bechont, *Mi a fyddaf fel llew iddynt; cyfarfyddaf â hwynt fel arth wedi colli ei chenawon; rhwygaf orchgûdd eu calon hwynt.* Hoſ. xiii. 7, 8. *Mi a gauaf ei ffordd; mi a furiaf fur, fel na chaffo hi ei llwybrau.* Hoſ. ii. 6. A phan ſo 'r Arglwydd yn ymddwyn fel hyn tuag attynt, y maent yn gweiddi gyda *Dafydd, Cuddiaiſt dy wyneb a bum helbulus*; a chyda 'r eglwys gynt, *Af a dychwelaf at fy ngûr cyntaf, canys gwell oedd arnaf yna nag yr awr hon.* Hoſ. ii. 7. Eglur yw gan hynny, nad oes dim perthynas gadwedigol rhwng y cyfryw rai â Duw, ac ſydd yn cael *llwyddiant ac eſmwythder* mewn ymarferiad o bechod yn ei erbyn ef. Gan fod pechod yn ſicr o dorri cyſſuron plant yr Arglwydd, ac o beri iddynt gyda *Phedr, i wylo 'n cherw doſt*, boed i bawb geiſio *ymgadw rhag pob rhith drygioni*; a chan fod Duw yn taro 'r plentyn er mwyn *llâdd pechod*, rhag i'r pechod i'w lâdd ef, boed i ni oll gyd-uno i ganu am

drugaredd

drugaredd a barn, gan yſtyried ceryddon yr hollalluog yn foddion angenrheidiol i'n iechydwriaeth. Wrth feddwl pa mor groes i natur Duw, ac i ddedwyddwch enaid yw pechod, nid oes un criſtion cywir yn ymfoddlōni ar gael perthynas â'r Arglwydd trwy gyfiawnhâd a mabwyſiad, heb gael hefyd gyffelybrwydd iddo trwy *ſancteiddhâd yr Yſpryd a ffydd i'r gwirionedd*; am hynny nis gall y llyfr hwn lai na bod yn werthfawr yngolwg pob dyn gwîr dduwiol, gan ei fod yn amlygu 'r ſyſfaen mor oleu rhag i neb gael eu gadael i adeiliadu ar y tywod; ac hefyd yn amddiffyn anrhydedd llywodraeth foeſol Duw mewn modd tra rhagorol.

FRUTANIAID hawddgar, nid rhaid i mi ymhelaethu mewn perthynas i werthfawrogrwydd y llyfr; canys wele ſe yn awr yn dyfod attoch fel y llefaro droſto 'i hun: Duw a roddo iddo gael ſyml wrandawiad, a llwyddiant mawr yn eich plîth! Am y *cyfeithiad*, nid oes gennyf ddim i ddywedyd droſof fy hun, ond yn unig i mi wneuthur fy ngoreu; etto mi a wn fod amryw feiau yn y iaith, rhyngof fi a'r argraffwaſg: Am hynny rhaid i mi ddymuno ar y ſawl a welont wallau, i beidio a barnu yn anrhugarog, gan gofio yn waſdadol, fod yn llawer haws i weled *beiau eraill*, na bod ein hunain yn berffaith. Wrth gyfeithu, ni cheiſiais i ddim roddi gair am air; ond fy amcan i oedd, i roddi meddwl yr awdwr yn y geiriau mwyaf eglur: Ac yr wyf yn meddwl y gallaf ſicrhâu, nad wyf fi yn un rhan o'r cyfieithiad wedi dywedyd un peth, pan yr oedd yr awdwr yn meddwl peth arall; am hynny mi a obeithiaf y bydd i bob darllenydd gydymddwyn â'r dull o ymadroddi, er ei fod weithiau yn annymunol. — Ni newidiais i ddim ar drefn y llyfr; ond mi a'i rhoddais i chwi fel ac y mae yn ſaeſonaeg, oddieithr cynhwyſiad y pennodau, yr hyn a adawais i allan er mwyn gwneud y gwaith yn fyrrach ac yn rhattach

rhattach. Y mae y traethawd hwn yn cael ei werthu yn ſaeſonaeg am *dri ſwllt*, ond yr wyf fi yn ei roddi ef am *ddau ſwllt* heb ei rwymo, i edrych a gâf fi werthu mwy o rifedi, a thrwy hynny wneuthur mwy o ddaioni.

Dyma fi yn awr yn darfod yſgrifennu, gan ddymuno ar bob un a bryno 'r llyfr i beidio a'i ddibrifio eithr ei ddarllain trwyddo oll; — i weddio 'n ſyml ar Dduw am roddi ei fendith i gydgerdded ac ef; — ac i daer weddio dros y cyfeithydd, ar i Dduw ei gynnal a'i wneuthur yn fwy-fwy defnyddiol i danu gwybodaeth o Griſt ac i ynnill deiliad i'w deyrnas ef. — Gan gredu mae *llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn*, mi a fum ofalus i fegian gweddiau bugeiliaid amrywiol eglwyſydd, at ba rai y danfonais i y llyfr hwn, am i Dduw ei wneuthur ef yn fendith gyffredinol; ac yr wyf yn gobeithio y bydd iddynt hwy, a phawb ac a garant ein Harglwydd Ieſu Griſt, wneuthur felly. A chan wybod y dichon Duw gwneuthur pethau mawrion trwy offerynnau gwael, mi a obeithiaf a bydd i'r cyfeithiad hwn fod o fendith i rai o honoch, *Gymry anwyl*, ac yn foddion *i'ch dwyn at Ieſu am fywyd*; ac y câf fi eich clywed yn canmol yr Arglwydd am ei ddaioni i chwi trwyddo, pan fo chwi a minnau yn ſefyll o flaen gorſeddfainge barn.

Yr hwn wyf eich ewyllyſwr da,

JOHN GRIFFITH.

Abergafenny,
Hydref 16, 1787.

CYN-

CYNHWYSIADAU.

PENNOD I.

ARWEINIAD i mewn, ynghŷd ac amlygiad cyffredin o Ddiben y Gwaith. Tu ãalen 1

Pen. 2. *Y Pechadur diofal yn cael ei ddeffroi.* 13

Pen. 3 *Y Pechadur wedi ei ddeffroi yn cael ei annog i yſtyried ei gyflwr yn ddiattreg, ac i ochelyd diofalhâu.* 26

Pen. 4. *Y Pechadur yn cael ei gyhuddo a'i euogfarnu.* 36

Pen. 5. *Y Pechadur yn cael ei ddioſg o'i ddadleuon ofer.* 49

Pen. 6. *Y Pechadur yn cael ei euogfarnu.* 61

Pen. 7. *Analluog Gyflwr y Pechadur dan Gondemniad.* 71

Pen. 8. *Newydd o Iechydwriaeth trwy Griſt yn cael ei ddwyn at y Pechadur euog.* 79

Pen. 9. *Hanes mwy neillduol o'r ffordd, trwy ba un y mae cael Iechydwriaeth.* 89

Pen. 10. *Y Pechadur yn cael ei annog mewn modd difrifol i dderbyn Iechydwriaeth yn ffordd Duw.* 100

Pen. 11. *Difrifol annerch at y ſawl ni chymmerant eu perſwadio i gwympo i mewn â galwad ac â diben yr Efengyl.* 109

Pen. 12. *Gair at yr enaid a waſgwyd i lawr yn y ſath fodd, gan deimlad o fawredd ei bechodau, fel nas dichon ddyfod at Griſt gydag unrhyw obaith o gael Iechydwriaeth.* 127

Pen.

PEN. 13. *Yr Enaid amheus yn cael ei gynnorthwyo mewn modd mwy neillduol yn ei ymofyniadau ynghylch Gwirionedd ei Ffydd a'i Edifeirwch.* 137

PEN. 14. *Mwy neillduol olwg ar amrywiol ganghennau 'r Dymmer Gristianogol; trwy ba un y gall y Darllenydd gael ei gynnorthwyo i iawn farnu pa beth yw ei gyflwr, a pha beth a ddylai fod.* 146

PEN. 15. *Y Darllenydd yn cael ei alw i ystyried yr angenrheidrwydd o gynnorthwyon* YSPRYD DUW *i'w ffurfio i'r dymmer uchod; a pha annogaeth sydd iddo i obeithio am danynt.* 166

PEN. 16. *Y Cristion yn cael ei rybuddio ynghylch, a'i galonnogi yn erbyn, y rhwystrau pa rai sydd raid iddo ddisgwyl gyfarfod â hwynt yn ei yrfa Grefyddol.* 174

PEN. 17. *Y Cristion yn cael ei annog i'r, a'i gynnorthwyo yn, y weithred o hunan-ymroddiad i wasanaeth Duw.* 181

PEN. 18. *Ynghylch mynediad y Cristion i gymmundeb eglwysig, trwy barchus dderbyniad o Swpper yr Arglwydd.* 191

PEN. 19. *Rhai Hyfforddiadau mwy neillduol er mwyn cynnal cymmundeb gwastadol â Duw, neu aros yn ei ofn ar hŷd y dydd.* 201

PEN. 20. *Annogaethau difrifol tuag at dreulio 'n dyddiau yn y modd ac y dangosŵyd yn y bennod o'r blaen.* 221

PEN. 21. *Y Cristion ieuangc yn cael ei annog i ochelyd y Temtasiwnau, pa rai a allant ei attal i redeg yr yrfa a osodais o'i flaen.* 234

PEN. 22. *Y Cyflwr o ddadfeiliad ysprydol ac o nychdod mewn Crefydd, yn cael ei ystyried.* 247

PEN. 23. *Galarus gyflwr dŷn wedi ei syrthio i bechod adnabyddus a gwirfoddol, ar ol rhoddi*

ei

ei hun mewn modd ſyml i Ddduw, ac ar ol meſur o gynnydd mewn Crefydd. 260

Pen. 24. *Cyflwr y Criſtion wedi colli llewyrch wyneb Duw.* 274

Pen. 25. *Y Criſtion yn ymorcheſtu dan ddirfawr Gyſtuddiau.* 290

Pen. 26. *Y Criſtion yn cael ei gynnorthwyo yn ei ymofynniadau ynghylch cynnydd ei Râs.* 299

Pen. 27. *Y Criſtion wedi mawr gynnyddu mewn Grâs, yn cael dwyn ar gôf iddo amryw drugareddau yr Arglwydd, a'i annog i'w garu ef, ac i ymlawenhâu ynddo.* 312

Pen. 28. *Y Criſtion ſefydlog yn cael annogaeth i ymegnio, i'r diben o fod yn ddefnyddiol.* 325

Pen. 29. *Y Criſtion yn gorfoleddu yngolwg Angau a Barn.* 339

Pen. 30. *Y Criſtion yn anrhydeddu Duw trwy ei ymddygiad ym Marwolaeth.* 351

DECHREUAD A CHYNNYDD CREFYDD YN YR ENAID.

PENNOD I.

Arweiniad i mewn, ynghyd ac amlygiad cyffredin o Ddiben y Gwaith.

§ 1. PAN edrychom yn graff o'n cwmpas, ac yſtyriaid nodau ac ymgyrchiadau dynion, ni welwn yn eglur fod llawer o honynt mewn modd cywilyddus yn eſgeuluſo Crefydd; er mae hwynt hwy yn unig o'r holl greaduriaid ac ſydd ar wyneb y ddaiar, o herwydd galluoedd eu natur, ſydd wrthrychau cymmwys o honi. A pheth bynnag o wahanol dybiau all dynion gymmeryd i fewn am yr hyn a alwant yn CREFYDD, mae pawb yn rhwym i addef nad yw hi yn beth *Cyffredin*.

§ 2. CREFYDD yn yr yſtyr helaethaf, yw 'r cyfryw deimlad o Dduw ar yr enaid, a'r cyfryw argyhoeddiad o'n rhwymedigaethau iddo, ac o'n hymddibynniad arno, ac a baro i ni wir ofalu i ymddwyn yn y fath fodd, ac y gallom yn rheſymmol i gredu, fod yn rhyngu bodd yn ei olwg ef. Wedi rhoddi yr hanes hyn o CREFYDD, nid rhaid i ni ſyned i chwilio ymmyſg y cenhedloedd gwylltion o *Affrica* neu *America* am ſiamplau o'r fawl ſydd yn *ddieithriaid iddi*. Pan ſylwom ar ymddygiad y cyffredinolrwydd o bobol gartref, ymmyſg y *genedl*

griſtianogol a phroteſtanaidd, yr hon ſydd dan fwy rhwymedigaethau i Dduw na neb dynion dan y nef, a all neb i ryfygu dywedyd fod gan Grefydd lywodraeth gyffredinol yn ein plith? A ddichon neb feddwl ei bod yn ffynnu ac yn llywodraethu yng *ngh alonnau a bywydau pawb?* Och i feddwl am y dideuwiaeth, yr halogiad o enw a dŷdd Duw, y medd-dod, yr anlladrwydd, a'r anghyfiawnder, y twyll, y balchder, a'r afradlondeb, yr hunandŷb, a'r ſynn anheimladrwydd o'r hyn a berthyn i'n dedwyddwch yſprydol a thragywyddol ein hunain ac eraill, ſydd yn ymddangos mor gyffredin yn ein myſg; pa rai ſy 'n tyſtiolaethu i'r gwrthwyneb!— Wrth hyn fe allai un dybiaid i fod miloedd a myrddiynau yn edrych ar yr *eſgeuluſtra*, ie, ar y *dibriſiad* o Grefydd, yn ogoniant, yn hytrach nac yn wradwydd. A pha lê mae 'r gymmydogaeth, y gymdeithias; ie, pa lê mae 'r dedwydd deulu (yn cynnwys cryn rifedi) am yr hwn y gallem wrth fanwl ſylwi arno i ddywedyd, " *wele mae Crefydd yn llawn 'r cylch bychan hyn?*" Mae yn boſſibl eu bod yn rhydd oddiwrth ddrygau mawrion a chywilyddus; hwy allant fod o ymddygiad gweddaidd yn allanol, ac yn ſylwi ar ffurfiau allanol o addoliad cyhoeddus, ac o boſſibl (rai o honynt) yn y teulu; ac er hynny, nid oes ynddynt ddim ac ſydd yn edrych yn debyg i wir weithrediadau yr yſprydol a'r ddwyfol *Anian*. Nid oes dim ymddangoſiad o gariad at Dduw, o barch i'w breſennoldeb ef, na dymuniad am dano fel y *daioni pennaf:* Nid oes dim gwir grediniaeth yn efengyl yr iechydwriaeth, dim cywir ofal i ffoi rhag y ddamnedigaeth a heyddaſom trwy bechod, nac am ſicrhau 'r bywyd tragywyddol yr hwn a bwrcaſodd Chriſt i'w bobl, ac ſy 'n cael ei gynnyg yn rhad i bawb a'i derbyniant ef. Pa beth bynnag allo ſerch cyfaill neu rieni wneuthur; er cryfed eu tueddiadau i obeithio pob peth,

ac

ac i gredu pob peth, ac a fo 'n ffafrol; etto tyſtiolaeth i'r gwrthwyneb a wthia ei hun i'r meddwl, ac a bâr iddynt addef a dywedyd, pa beth bynnag allo fod yn ddymunol yn yr anwyl gyfaill hyn, neu yn y plentyn hoff accw, "*nid yw Crefydd yn preſwylio yn ei fynwes ef.*"

§ 3. Dyma un o'r yſtyriaethau mwyaf galarus yn y bŷd, i galon ac ſy'n cadarn gredu 'r efengyl, ac yn yſtyriaid *perſonau* a *phethau* yng ngoleuni tragywyddoldeb! Ac yn wir i'r cyfryw, mae 'r holl helbylon a'r drygau eraill a berthynant i'r natur ddynol, yn ymddangos yn bethau diſtadl mewn cymhariaeth â'r drwg hwn; ſef y diffyg ó wir Grefydd, a'r gwrthwynebrwydd hynny iddi, ac ſydd yn llywodraethu miloedd o ddynol ryw! Boed i'r drwg hwn gael ei feddyginiaethu, ac fe fydd yn hawdd dwyn y lleill; ie, daioni a dynnir allan o honynt. Ond os hwn a erys, efe a ddwg *ffrwyth i farwolaeth* (a); ac mewn canlyniad o hono, torfeydd a wnaethpwyd yn gyfrannogion o bethau dymunol rhagluniaeth, a gânt mewn ychydig ſynyddoedd eu 'ſgubo ymmaith i *hollol ddiſtryw*, a'u trochi mewn *lloſg ſeydd tragywyddol*, heb obaith o ymwared.

§ 4. Nid wyf yn ammau nad oes llaweroedd ymmyſg yr amryw enwau crefyddol (i ba rai yr ydym ni yn y deyrnas hon wedi ymrannu mor anhappus) yn galaru am y pethau hyn, nid yn unig yn *gyhoedd*, os yw eu ſefyllfa mewn bywyd yn rhoddi iddynt gyfleuſtra felly i wneud, ond hefyd yn y *dirgel* o flaen Duw; y rhai allant alw yr hwn ſydd yn chwilio 'r calonnau, yn dyſt ar uniondeb eu dymuniadau i allel adfywio achos gwir griſtianogaeth a duwioldeb, pa un ſydd mor lleſg. Ac ym mhlith eraill, ſe all *awdwr y traethawd hwn* mewn hyder ddywedyd, mai hyn a'i gyrrodd ef at y gorchwyl preſennol, ymmyſg cynnifer o *ofalon* a *gorchwylion*

(a) Rhuf. vii. 5.

lion eraill. I'r diben hyn mae efe yn rhoddi heibio yn ewyllyſgar gywrain chwilio 'r *celfyddydau*, pa rai mae ganddo hoffter ynddynt, ac o boſſibl y gallent ei wneuthur yn anrhydeddus ymmyſg y dyſgedigion. I'r diben hyn, mae 'n chwennych gadael heibio bob rhyw lafurus addurniadau ymadrodd, fel y gallo y rhan fwyaf annyſgedig o ddynolryw ei ddeall; i'r diben hyn fe chwennychai i oleuo *deall*, ac i gyrrhaeddyd *calon* pob darllenydd: Ac mewn gair, fe chwennychai i'r diben hyn (heb ofni yr enw o *Enthuſiaſt*, pwy bynnag a'i taflo yn ei erbyn ar antur, ar yr achlyſur hwn) i fyned gyda chwi i'ch yſtafell o ddydd i ddydd; a chyda phob eglurdeb, oneſtrwydd, a difrifwch, i ymddiddan â chwi ynghylch y pethau mawrion ac a ddyſgodd ef allan o'r yſcrythur, ar ba rai y mae efe 'n gwybod i fod eich tragywyddol ddedwyddwch yn ymddibynnu: Fel os byw y fuoch hyd yn hyn heb Grefydd, y caffoch eich deffroi i'r yſtyriaeth o honi, a'ch addyſgu i adnabod ei nhatur a'i gwerthfawrogrwydd; neu os ydych yn awr trwy ddwyfol râs yn brofiadol o honi, y bo i chwi gael eich nerthu i fyned rhagoch ar gynnydd.

§ 5. GAN ein bod yn awr yn myned ynghylch gwaith o fawr bwys, y mae 'r awdwr yn dymuno ar i'r darllenydd i roddi gwrandawiad aſtud a difrifol. Fe ddymunai i'r cyfarchiadau a'r myfyrdodau hyn i gael ymarfer â hwynt ar bob cyfleuſtra, a'u dirgel yſtyriaid. Mae efe ym mhellach yn dymuno arnoch i wneuthur y cyfiawnder hyn ac ef, ac a'ch hunain, ſef credu fod y *darlyniadau* a wnair, a'r *rhybuddion* a roddir yma, yn tarddu oddiar gariad ac *oneſtrwydd*; eu bod yn tarddu o galon, yr hon ni fynnai 'n fwriadol i roddi afreidiol boen, tros un funud, i'r creadur gwaelaf ar wyneb y ddaiar; â llawer llai i un meddwl dynol. Os yw yn *daer*, yr achos yw, ei fod *ef* o leiaf yn gweled rheſwm

cyfiawn

cyfiawn i fod felly; ac mae efe 'n ofni rhag ym mhlith y torfeydd a ddiniſtrîr o herwydd eu hollol eſgeuluſtra o Grefydd, ac ymmyſg y rhai a golledir yn fawr o eiſieu mwy dewr a chyſſon ymroddiad iddi, mai hyn all fod cyflwr rhai o'r cyfryw y daw 'r traethawd hwn i'w dwylaw.

§ 6. Yr hwn ac allo edrych ar *ofidiau* ei gydgreaduriaid heb ddim *dymuniad*, o leiaf i fod ar ei law i'w cynnorthwyo, fydd *Farbarian*, ac ni haeddai ei alw yn ddŷn. Diammau y byddai 'r ddaiar yn nefoedd i'r hwn ac allai fyned o gwmpas o lê i lê gan gyfrannu happuſrwydd pa le bynnag y delai, er na byddai ond y corph yn unig yn derbyn eſmwythâd; ac er nas gallai gyfrannu dim gwell na dedwyddwch y bywyd hwn. Ond mae 'r happuſrwydd yn cyſodi 'n uwch yn ol *natur* a *grâdd* y daioni fydd yn cael ei wneuthur. Dedwydd (yr ydym yn barod i ddywedyd) oedd y gweiſion anrhydeddus hynny o eiddo Criſt, pa rai ym moreuddydd ei eglwys oeddynt yn offerynnau cymmwynaſgar a chydymdeimliol i gyfrannu gwrthiol iachâd i'r cyfryw ac yr oedd eu cyflwr yn ymddangos yn anobeithiol; pa rai a roddent i'r dall ac i'r byddar, y pleſſer o weled ac o glywed, ac a alwaſent y meirw i weithredu a mwynhâu. Ond happuſrwydd ac anrhydedd yw y rhain, nad yw 'n gymmwys i Dduw eu cyfrannu i ddynion yn gyffredin. Etto fe fu ym mhob oes, a bendigedig y fyddo ei enw, mae hyd yn hyn y cyfryw yn ein plith ni, ac y gwelodd Duw 'n dda eu gwneuthur yn offerynnau i gyfrannu bendithion gwell, a mwy parhaus i'w cydgreaduriaid, na 'r rhai hynny. Marwolaeth a gaeodd gluſtiau ac a dywyllodd lygaid y rhai a dderbyniaſent wrthiol iachâd, er ys talm, ac fe ynnillodd angau ei lywodraeth dros y fawl a alwyd unwaith o'u beddau. Ond yr eneidiau hynny a wnaethpwyd yn foddlon i dderbyn yr efengyl, a

fyddant *fyw byth.* Fe arddelodd Duw lafurwaith ei weiſion ym mhob oes o'r bŷd i ddwyn i ben yr effeithiau gogoneddus hyn; a rhai o honynt, er eu bod yn feirw, ydynt yn *llefaru etto* (b), gydag awdurdod a llwyddiant yn yr achos pwysfawr hyn. Na ryfeddwch gan hynny fy mod i, pa un bynnag ai byw ai marw, yn ymgais at yr anrhydedd hyn; na ryfeddwch fy mod yn agor fy ngenau yn ddidderbyn wyneb, pan y gallaf mewn gwirionedd ddywedyd, *fy nghalon a ehangwyd* (c).

§ 7. Wrth lunio 'r traethawd bychan hwn, mi ofalais ar iddo, hyd ac yr oedd boſſibl, i gynnwys rhywbeth addas i gyflwr pawb a'i darllenant. Gan hynny mi gaf yſtyriaid y *dŷn*, a'r *criſtion*, mewn amrywiol amgylchiadau. Yn gyntaf mi gaf yſtyriaid fy hun yn ymddiddan ac un o'r dorf anyſtyriol hynny o greaduriaid Duw, ac a fu hyd yn hyn yn hollol eſgeulus ynghylch Crefydd; i edrych a allaf trwy eglur a difrifol gyfarchiad ei ddeffroi ef o'r cwſg diniſtriol hwn, i ofal, *(Pen.* 2.*)* i ofal gwreſog a diattreg yn ei chylch. *(Pen.* 3.*)* Mi a ymdrechaf argraffu ar ei gydwybod ddyfn argyhoeddiad o'i *euogrwydd. (Pen.* 4.*)* A'i ddioſg ef o'i holl wâg eſgusodion a'i obaith twyllodrus. *(Pen.* 5.*)* Mi ddarllenaf iddo (ac O na allwn ſefydlu ar ei galon) y farn ofnadwy, ac y mae 'r cyfiawn, a'r holl-alluog Dduw wedi ei chyhoeddi yn ei erbyn ef fel pechadur, *(Pen.* 6.*)* ac mi geiſiaf ddangos iddo y cyflwr analluog y mae ynddo dan y farn hon, o ran unrhyw gymmwyſder ac ſydd ynddo ef i wared ei hunan. *(Pen.* 7.*)* Ond nid wyf yn meddwl gadael neb yn y fath ſefyllfa ddychrynllyd: Mi gyhoeddaf yn llawen y *newyddion da*, o bardwn ac jechydwriaeth trwy Jeſu Ghriſt ein Harglwydd, yr hon yw unig gynhaliaeth a hyder fy enaid fy hun: *(Pen.* 8.*)* Ac mi roddaf olwg gyffredinol ar y ffordd ac

(b) Heb. xi. 4. (c) 2 Cor. vi. 11.

ac y mae hi i'w chael; *(Pen.* 9.*)* gan annog y pechadur yn y modd mwyaf ſerchog ac y gallwyf i'w derbyn. *(Pen.* 10.*)*

§ 8. Mae 'n rhy debygol ar ol hyn oll, y bydd rhai yn aros yn anheimladwy; gan hynny, fel na bo eu hathriſt gyflwr hwynt i ſefyll yn ffordd yr erthygleu canlynol, mi gymmeraf fy nghennad oddiwrthynt yn y man hyn, yn y modd mwyaf pryſſur; *(Pen.* 11.*)* Gan gyfeirio fy ymadrodd yn y modd mwyaf cydymdeimliol ac y gallwyf, at gyflyrau cwbl wahanol: Sef at enaid ar lawr dan deimlad o fawredd ei bechodau, ac yn crynu dan y baich, fel pe ni byddai obaith mwyach iddo ef yn Nuw. *(Pen.* 12.*)* Ac fel na bo dim yn cael ei adael heibio, ac a allo weini didwyll gyſſur i'r yſpryd cyſtuddiedig, mi gaf geiſio ei arwain at y *nodau* hynny o wîr edifeirwch a *ffydd*; *(Pen.* 13.*)* yr hyn a gaf ei amlygu ym mhellach, trwy roddi golwg mwy neillduol ar amryw ganghennau 'r dymmer griſtianogol, yr hyn a gynnorthwya 'r darllenydd i adnabod pa beth yw ei gyflwr preſennol, yn gyſtal a pha beth y ddylai efe ymdrechu i fod. *(Pen.* 14.*)* Hyn a'n harwain i weled yr angenrheidrwydd o ddylanwadau yr yſpryd bendigedig, i'n cynnorthwyo yn y gwaith pwyſfawr ac anhawdd a berthyn i'r gwîr griſtion; ac hefyd y ſylfaenau ſydd gennym i obeithio am y dwyfol gynnorthwyon hyn. *(Pen.* 15.*)* Gyda goſtyngedig ymddibynniad ar y cyfryw, mi gaf ddechreu yſtyried yr amryw *achoſion* a ddigwyddant yn fynych yn yr yrfa Griſtianogol; ac yma fe fydd yn fuddiol ac angenrheidiol i mi lefaru wrth y gydwybod.

§ 9. Gan fod rhai rhwyſtrau neillduol yn ymddangos i'r criſtion jeuangc yn ei waith yn dechreu ei yrfa griſtianogol, mi geiſiat yn flaenaf dim, ei galonnogi ef yn eu herbyn. *(Pen.* 16.*)* Ac fel y byddo i hyn gael ei wneuthur mewn modd effeithiol,

mi gaf ei annog i ymroddi ei hun i Dduw yn y modd mwyaf difrifol, *(Pen.* 17.*)* yr hyn a ddylai gael ei gadarnhau trwy ddyneſſiad at y *bwrdd ſanctaidd*, mewn cyflawn gymmundeb ac eglwys Dduw. *(Pen.* 18.*)* Ac fel y bo i'r rhwymedigaethau hyn gael eu cyflawnu mewn modd dyladwy, mi roddaf neillduol ddarluniad o'r *yrfa*, yr hon y dylem ei rhedeg bob dydd: *(Pen.* 19.*)* Ac oblegid y gall y darlyniad fyned uwchlaw ymarweddiad cyffredin hyd yn nod *dynion da*, mi geiſiaf berfwadio 'r darllenydd i wneuthur cynnyg i'w rhedeg, er mor anhawdd y dichon ymddangos; *(Pen.* 20.*)* ac mi a'i rhybuddiaf ef i ochelyd yr amrywiol *demtaſiwnau* y rhai os amgen, a'i tynnant ef o'r neilldu i eſgeuluſtra a phechod. *(Pen.* 21.*)*

§ 10. DA i'r darllenydd os bydd yr annogaethau a'r rhybuddion hyn gael eu hyſtyriaid gyda pharch dyladwy; ond gan fod yn rhy debyg er hyn i gyd, y bydd gwendidau a llygredigaethau natur weithiau 'n gorchfygu, mi gaf yſtyriaid y cyflwr o *farweiddra* ac o *nychdod* mewn Crefydd, yr hwn ſy 'n dyfod arnom yn fynych yn ddiarwybod; *(Pen.* 22.*)* o ba gyflwr, mae 'n hawdd i ni fyned trwodd i'r un ofnadwy hynny, ſef i gyflwr o bechod gwirfoddol. *(Pen.* 23.*)* Ac am fod y naill fel y llall o'r rhai hyn yn tueddu yn ol eu graddau i annog y Duw bendigedig i *guddio ei wyneb*, a'r Yſpryd glân, yr hwn y pechwyd yn ei erbyn, i *ymadael*, mi gaf yn enwedigol yſtyriaid y cyflwr galarus hwnnw. *(Pen.* 24.*)* Mi gaf wedi hynny yſtyried y cyflwr o fawr a thrwm gyſtuddiau mewn bywyd; *(Pen.* 25.*)* diſgybliaeth, pa un ſydd raid i'r goreu o ddynion ei diſgwyl, yn enwedig pan y gwrthgiliont oddiwrth Dduw, ac yr ymollyngont i'w gelynion yſprydol.

§ 11. SIAMPLAU o'r natur hyn, a fyddant yr wyf yn ofni, yn rhy aml; etto mi obeithiaf y bydd llawer eraill, a'u llwybr fel y goleuni, *yn llewyrchu fwy*

fwy fwy hyd ganol dydd (d): Am hynny mi ymdrechaf i gynnorthwyo 'r criſtion i roddi iawn farn ynghylch cynnydd grâs yn ei galon; *(Pen.* 26.) ſel y gwneuthym o'r blaen wrth farnu gwirionedd ei râs. Ac ſel nad oes dim yn dwyn ym mlaen gynnydd grâs yn fwy na bywiog weithrediadau cariad at Dduw, a llawenydd ſanctaidd ynddo ef, mi gaf ddwyn ar gof i'r criſtion yn y man hyn, y trugareddau hynny ac ſy 'n tueddu i lenwi 'r galon o gariad a llawenydd; *(Pen.* 27.) ac yn yr olwg arnynt i'w gyffroi ef i'r grymmus ymdrechiadau, pa rai ſy 'n angenrheidiol tuag at ddefnyddioldeb mewn bywyd; yr hyn ſy 'n gweddu mor dda iddo ſel deiliad i Griſt, ac yn effeithiol i beri i'w goron ddiſgleirio tu draw i'r bêdd. *(Pen.* 28.) Gan feddwl y bydd iddo ymddwyn yn llyn, mi geiſiaf amlygu 'r *llawenydd* gyda pha un y dichon efe edrych ar y pethau ofnadwy ac a berthynant i *angau* a *barn*. *(Pen.* 29.) Ac mi a benderfynaf y darluniad o'r criſtion trwy gyd-fyned ac ef hyd at gyffiniau 'r *dyffryn tywyll*, trwy yr hwn y bydd yn rhaid iddo fyned i ogoniant; gan roddi 'r cyfryw hyfforddiadau iddo ac a'i cynnorthwyo ef i anrhydeddu Duw ac i harddu Crefydd yn wyneb angau. *(Pen.* 30.) Ac yr wyf yn gobeithio trwy ddwyfol râs, y byddaf mor llwyddiannus a gadael rhai yn *byddygoliaethu* yn wyneb barn a thragywyddoldeb, ac yn gogoneddu Duw mewn bywyd ac angau; er eu bod unwaith yn crynu wrth feddwl am y trueni ac oedd i ddyfod; neu mewn llawer mwy peryglus a thruenus amgylchiad na hynny; ſef wedi ſoddi i anheimladrwydd ſynn, ac i angof o'r pethau ac a berthynant i ddedwyddwch y meddwl ar ol darfod y bywyd hwn.

§ 12. Diammau y bydd yn rhaid i mi drîn yr amryw bennau hyn mor fyrred ac y byddo boſſibl, gan fy mod yn meddwl eu cynnwys hwynt mewn llyfr o gymmhedrol faintioli. Ni chaf fi gan hynny

(d) Diar. iv. 18.

ddim eu hagor yn y modd ac y gallai *pregethwr* mewn pregethau yn briodol i wneud, ym mha rai y mae gwirioneddau Crefydd mewn modd enwedigol yn cael eu hegluro a'u dyſgu, eu hamddiffyn a'u defnyddio, mewn modd tra helaeth, trwy amryw bennau, rheſymmau, gwrthddywediadau, attebion, a chaſgliadau, wedi eu cyfrif a'u trefnu dan eu priodol deſtynnau. Ond mi gaf yma i lefaru mewn modd mwy rhydd a didrefn, fel y naill gyfaill wrth y llall; fel y gwnawn pe bawn yn *dirgel ymddiddan* ac un a fawn yn garu 'n anwyl, *carecter*, ac amgylchiadau pa un fawn yn weled i fod yn debyg i'r ſawl a ddiſgrifir yn y traethawd hwn. Ac wedi ymddiddan ac ef ennyd fàch, yr hyn nis bydd ond anfynych dros *hanner awr*, mi gaf fyned o'r neilldu, a'i adael i fyfyrio ar yr hyn a glywodd, neu ynte ei gynnorthwyo ef, i dywallt *erfyniadau* gwreſog ger bron Duw, ac fyddo yn gymmwys i gydfyned à'r cyfryw *fyfyrdodau*. Yn y cyfamſer mi a gymmeraf fy rhydd-did yn y fan hyn i *weddio* dros y darllenydd, ac am lwyddiant i'r gwaith hwn; gan ei orchymmyn i *ddwyfol fendith*, fel *arwydd* o'm hollol ymddibynniad ar yr unrhyw. Ac yr wyf yn cwbl gredu i fod y fath feddyliau a hyn, yn perthyn yn gyffredinol i bob gweinidog ffyddlon, ac i bob criſtion gwirioneddol.

GWEDDI *am lwyddiant y Gwaith hwn, er mwyn dechreu a chynnhyddu Crefydd.*

'O ARGLWYDD! Tydi wyt y tragywyddol 'ddechreuad, ac awdwr mawr o'r holl 'fodau creuedig, ac o bob dedwyddwch! Mi 'ddymunwn i'th addoli di, yr hwn a greuaiſt ddŷn 'yn greadur cymmwys o Grefydd, ac a gyfrennaiſt 'i'n natur ni yr anrhydedd a'r dedwyddwch hyn, 'fel y bai i ni gael ein dyſgu i ddywedyd, *pa le mae*

'yr

'*r Duw a'n gwnaeth* (e)? Mae 'n alar gennyf i feddwl am y dirywiad ſydd wedi ymdannu dros yr holl hiliogaeth ddynol, yr hyn a *drôdd ein gogoniant yn gywilydd* (f) ac a barodd angof o Dduw (er mor annaturiol) i fod mor ehang a chyffredin yn ein plith. O Dâd ſanctaidd, ni a wyddom mai 'th addyſg a'th breſennoldeb di yw yr unig foddion ac allant ddychwelyd dy blant afradlon; tydi yn unig a elli beri fod teimlad ac argraffiad effeithiol a pharhaus o ddwyfol bethau ar y galon. Oddiwrthyt ti y tardd dymuniadau a bwriadau daionus; ac yn bennaf y dymuniad, o allel tannu doethineb, duwioldeb a dedwyddwch yn y bŷd; yr hwn (er ei fod wedi ſyrthio i'r fath ddyfn wrthgiliad) y mae 'th anfeidrol drugaredd heb ei hollol adael. Tydi, O Arglwydd, a adwaenoſt galon meibion dynion (g); ac y mae 'r enaid duwiol ymmyſg pob rhyw *ſennau* a *drwgdybiau*, yn llawenhau wrth feddwl dy fod ti yn gwybod ei *feddyliau* mwyaf dirgelaidd, a'r *egwyddorion* oddiar ba rai y tarddodd ei holl weithredoedd. Tydi a wyddaiſt ddymuniadau cywir a gwreſog dy *anheilwng waſanaethwr*, i allel lledu gwybodaeth o'th enw, ac arogl dy efengyl ymmyſg pawb ac y daw y gwaith hwn attynt. Pe buaſit yn rhoddi i mi helaethrwydd o'r bŷd hwn, tydi a wyddaiſt, mae 'r pleſſer mwyaf a allaſai hynny roddi i mi fuaſai cael bod dy *eluſennwr*, i rannu 'th ddaionus fendithion i'r rheidus a'r anghenus, ac felly peri i'r galon athriſt i ymlawenhau yn dy ddaioni di. Ti a wyddaiſt pe derbyniaſwn oddiwrthyt ti y dalent o *jachau*, mewn ffordd arferol neu anarferol, y buaſai yn hyfrydwch bob dŷdd i mi allel eſmwythâu poenau, doluriau, a gwendidau corphorol dynion; llawenydd y fuaſai gennyf weled yr wyneb nychlyd yn diſgleirio trwy adferiad iechyd a ſirioldeb, a mwy o

(e) Job xxxv. 10. (f) Huſ. iv. 7. (g) 2 Cron. vi. 30.

'lawer i weled y meddwl gwibiog a gwallgofus yn 'cael ei ddwyn i dawelwch ac eſmwythder, yn yr 'ymarferiad o'i alluoedd rheſymmol; etto llawer mwy 'dedwydd y cyfrifaf fy hun, yn yr amgylchiadau 'iſel y goſododd dy ragluniaeth fi, os bydd i ti 'anrhydeddu fy ymdrechiadau gweinion hyn â'th 'fendith, tuag at eſmwythâu a chyfoethogi eneidiau 'dynion; i'w dwyn yn ôl o wallgofrwydd pechadu-'rus, i adnabyddiaeth a mwynhâd o honot ti, ac 'i'th waſanaethu; neu i gynnhyddu 'r ſawl ac a 'ddygwyd yn barod.

'O CAFFED y fath effaith ar bwy bynnag a 'ddarlleno, neu a glywo y llinellau hyn! *Na addi-'giaid fy Arglwydd*, os rhyfygaf i ofyn, er gwaeled yr 'ymddangoſo 'r gwaith hwn i blant y bŷd, ac er 'mor amherffaith yw ef mewn gwirionedd, ac 'er anheilynged yr awdwr o hono, iddo er hynny '*gael byw ger dy fron di*; a thrwy ddwyfol allu, 'boed yn effeithiol i ddechreu a chynnyddu Crefydd 'yng nghalonnau llaweroedd, mewn mannau pell 'o'r bŷd, a chenhedloedd etto i ddyfod. O Dduw, 'na chyfrif yn feius fy ymgais hwn, ſef, i'r gwaith 'ynghylch pa un yr wyf yn myned yn dy nerth di, 'gael ei gyflawnu ac ymdannu 'n helaeth, doed y 'ddêl o'm henw i. Boed iddo gyrrhaeddyd y rhai 'ſydd etto heb eu geni, a dyſgu iddynt *dy enw a'th 'fawl*, pan bo 'r awdwr wedi hîr aros yn y prîdd: 'Ac felly pan yr ymddangoſwyf o'th flaen yn y 'dydd mawr o gyfrif, y byddo fy *llawenydd* yn 'cynnhyddu, a'm *coron* yn llewyrchu 'n fwy, wrth 'weled llaweroedd yn dyfod i'r bywyd, ac oeddynt 'o'r blaen yn ddieithr i ti ac i'w gilydd! Ond os 'yw y deiſyfiad hwn yn ormod i'w roddi i un nad 'oes ganddo *hawl* i ddim, rho i mi gael bod yn 'fendigedig offeryn yn dy hollall uog lawi ddychwe-'lyd ac i achub *un enaid*: Ac os na bydd ond *un*, a 'hwnnw y gwaelaf o'r ſawl a dderbyniant y trae-

'thawd

'thawd hwn, mi dderbyniaf hynny yn y modd 'mwyaf diolchgar, fel cyflawn daledigaeth am fy 'holl lafur; ac er miloedd o ſiommedigaethau, fe 'fydd hwn yn deſtyn o fawl diddiwedd i ti, O 'fendigedig Dduw, gan bob enaid ac a achubaiſt 'trwy *waed Jeſu a grâs dy Yſpryd ſanctaidd*; a 'thragywyddol anrhydedd a roddir, *gan y myrddiwn 'o angylion, a chan gymmanſa a chynnulleidfa y cyntaf-'anedig yn y nefoedd, i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd 'glân.* Amen.'

PENNOD II.

Y pechadur diofal yn cael ei ddeffroi.

§ 1. ER mor gywilyddus y mae Crefydd yn cael ei heſgeuluſo yn y bŷd, etto bendigedig fyddo 'r Arglwydd, y mae iddi rai diſgyblion dihocced; *plant doethineb*, gan ba rai (yn yr oes ynfyd a dirywiedig hon) mae hi yn cael ei *chyfiawnhâu* (h); y rhai wedi eu dwyn trwy ddwyfol râs i'r adnabyddiaeth o Dduw yn Ghriſt, a roddaſant eu calonnau yn ffyddlon iddo, ac yn ganlynol eu bywydau i'w waſanaeth ef. A phe bawn yn ſiçr na ſyrthiai 'r traethawd hwn i ddwylaw neb ond y cyfryw, fe fyddai fy ngwaith yn fyrrach, yn hawſach, ac yn fwy pleſerus.

§ 2. Ond ymmyſg y miloedd ac ydynt yn eſgeuluſo Crefydd, mae yn bur debygol y bydd rhai o honynt yn darllain y gwaith hwn: Ac y mae eu cyflwr anhappus yn cael y fath effaith arnaf, fel ac y mae *tymmer fy nghalon*, yn gyſtal a *threfn y gwaith*, yn fy arwain yn y lle cyntaf i ymddiddan â hwynt, ac i gyfeirio fy ymadrodd at bob un o honynt; ac felly attat *ti*, O ddarllenydd, pwy bynnag wŷt, ac ſydd dan yr enw *pechadur diofal*.

§ 3. Na

(h) Mat. xi. 19.

§ 3. NA fydd ddîg wrth yr *enw*, yr wyf yn attolwg arnat. Canys rhaid i *feddygon eneidiau*, lefaru yn eglur, rhag iddynt *lâdd* y ſawl a chwennychent *iachâu*. Ni ewyllyſiwn i gynnwys dim meddyliau ſarrug ac afreſymmol am danat. Ni chwennychwn i gyhuddo ddim pellach nac y byddo yn hollol angenrheidiol er peri i ti gredu mae *wrthyt ti* yr wyf yn llefaru. Ni thybiaf gan hynny dy fod di yn un halogedig, echryſlon ac anfad. Mi feddyliaf nad wyt yn rhydd i gablu Duw trwy dyngu a chywilyddus halogi ei ſabbath, na thrwy gyffredin eſgeuluſo ei addoliad cyhoeddus ac arbennig. Ni thybiaf i ti ddrygu 'th gymmydogion, yn eu purdeb, meddiannau, na'u bywydau, trwy na thrais na thwyll; neu i ti yn gywilyddus i ddaroſtwng natur reſymmol dŷn trwy aflan anghymmedrolder, yr hyn ſy 'n ein gwneud yn gyffelyb i'r creaduriaid a ddifethir, neu yn waelach o ryw râdd nac un o honynt.

§ 4. OND i'r gwrthwyneb, mi gymmeraf yn ganniattâol dy fod ti yn credu 'r bôd o Dduw, a rhagluniaeth, a gwirionedd y Grefydd griſtianogol fel datguddiad oddiwrtho ef: Ond os oes un ammheuaeth ynghylch y pethau hyn, rhaid i mi ddymuno arnat yn ddiattreg i 'mofyn am foddlonrwydd mewn lle arall†. Yr wyf yn dywedyd yn ddiattreg; oblegid bod heb gredu 'r pethau hyn yw eu gwadu hwynt mewn effaith, ac fe wnaiff dy ddiſtryw yn hollol mor *ſicr* a phe bai ddiyſtyrwch a gwrthwynebiad yn cyd-fyned ac ammheuaeth, ac eſgeuluſtra; er y gall dy *goſp* i fod yn *llai ei phwys*. Ond gan feddwl dy fod yn griſtion mewn enw, ac nid yn *ddeiſt*, nac yn *ſceptic*;‡ mi gymmeraf yn ganniattâol

† Mae 'r awdwr yn cyfeirio y darllenydd at *dair pregeth*, o'i eiddo ef, *ar brawf o wirionedd y Grefydd griſtianogol*; ac at yr un ddiweddaf a bregethodd efe *ar allu a gras Criſt*, i'r diben o gael boddlonrwydd am y gwirioneddau uchod.

‡ *Deiſt* yw 'r dyn ſy 'n gwadu dwyfol ddatguddiad; *ſceptic* yw un yn gwadu rhagluniaeth.

attâol i fod dy fuchedd ymmyſg dynion, nid yn unig yn *ddifai*, ond hefyd yn *hardd*; ac i fod y ſawl a'th adwaenant oreu yn gorfod addef, dy fod yn gyfiawn ac yn ſobr, yn ddynol ac yn fwynaidd, yn drugarog ac yn haelionus; etto, fe all fod yr *un peth hynny yn eiſiau* (i) ar ba un y mae 'th dragywyddol ddedwyddwch yn ymddibynnu.

§ 5. O ddarllenydd! Pwy bynnag wyt, mi attolygaf arnat yn awr i ofyn y cweſtiwn hyn i'th galon mewn modd difrifol, ſef, *A ydwyf fi yn wîr grefyddol?* A ydyw cariad Duw yn egwyddor lywodraethol yn fy mywyd? Ydwŷf fi yn rhodio dan deimlad o'i hollbreſennoldeb ef? Ydywf fi yn dal cymdeithas ag ef o ddŷdd i ddŷdd, yn yr ymarferiad o weddi a mawl? Ac a ydwyf, ar y cwbl, yn gwneuthur ei waſanaeth ef fy neges a'm hyfrydwch pennaf, gan ei anrhydeddu ef fel fy nhâd a'm llywodraethwr?

§ 6. Fy ngwaith preſennol yw ymddiddan â'r ſawl ac y mae ei gydwybod yn atteb i'r gwrthwyneb. Ac mi chwennychwn gyfeirio fy ymadroddion gyda 'r unrhyw rydd-did ac eglurdeb, at yr uchel a'r iſel, y cyfoethog a'r tylawd: Ac attat ti, yr hwn, fel y dywed yr yſgrythur, wyt yn *byw heb Ddduw yn y bŷd* (k); a thra yr ydwyt yn addef i fod Duw trwy eiriau a ffurfiau yr ydwyt ar *weithredoedd yn ei wadu ef* (l), ac yn byw ar y cwbl, os rhoddwn heibio ychydig o ſeremoniau allanol, fel pe bait yn *credu nad oes un Duw*. O greadur annedwydd! Pwy bynnag wyt, mae dy *galon* dy hun yn dy gondemnio yn ddiattreg; a pha faint mwy y Duw hwnnw, pa un ſy 'n fwy na'th galon ac a *wyr bob peth* (m). Mae efe yn y *dirgel* yn gyſtal ac yn yr amlwg (n); ac nis gall geiriau byth oſod allan yr hyfrydwch gyda pha un y mae ei blant yn cymdeithiaſu ac ef o'r neilldu: Ond nid ydwyt ti yn ei gydnabod

(i) Marc x. 21. (k) Eph. ii. 12. (l) Tit. i. 16.
(m) 1 Joan iii. 20. (n) Mat. vi. 6.

gydnabod ef yn y dirgel, nid wy tnac yn ei *glodfori ef*, nac yn *gweddio* arno yn dy yſtafell. Fe all cyfrifon, yſgrifennadau, a myfyrdodau i'th ddwyn yn aml i'r yſtafell, ond pe bait heb ddim i wneud yno onid *addoli Duw*, fe fyddai 'r llê yn gwbl *ddieithr i ti*. Fel hyn yr wyt yn myned yn y blaen o ddydd i ddydd, mewn angef o Dduw, ac mor ddiofal yng-hylch Crefydd, a phe buaſit er ys talm wêdi eglur brofi i ti dy hun, nad oedd hi ond *breuddwyd* yn unig. Os clâf y fyddi, ti a elwi ar Dduw o boſſibl am iechyd; ac os byddi mewn rhyw fawr berygl, ti a godi 'th lygaid tu a 'r nef, ac a leſi am waredigaeth: Ond am faddeuant pechod a bendithion eraill yr efengyl, nid oes ynnot dufewnol ymofyniad am danynt, er dy fod yn proffeſſu fod yr efengyl yn ddwyfol ddatguddiad, a'i bendithion yn dragywyddol werth-fawr. Mae 'th *oriau* a'th *feddyliau* yn cael eu rhannu rhwng *gorchwylion*, a *phleſſerau* 'r bywyd hwn; ac er y gall rhyw ragluniaeth, neu bregeth ddifrifol, neu lyfr da i'th ddeffroi ar amſerau, etto ni bydd hynny ond dros ychydig o *ddyddiau*, ie, mae 'n boſſibl, ond dros ychydig o *oriau*, ac yr wyt yn ymddangos yn greadur mor *ddiofal* ac erioed! Ac ar y cwbl, yr ydwyt yn ymddwyn fel pe bait wedi penderfynu i adael y peth ar *antur*, ac i dreio ar dy goſt dy hun, pa un ai bod y *canlyniadau* o eſgeuluſo Crefydd mor ofnadwy ac y mae gweinidogion ac eraill yn ddywedyd eu bod. Mae 'r darluniadau a roddant, yn gwthio 'u hunain weithiau yn dy ffordd, ac (wrth yſtyriaid yr *oes* a'r *wlâd* yr ydwyt yn byw ynddynt) maent bron yn annocheladwy ar bob amſer; ond yr wyt o boſſibl fel gwrandawyr *Eſay*, am ba rai y dywaid yr Arglwydd, "*gan glywed clywch, ond na ddeallwch; a chan weled gwelwch, ond na wybyddwch; braſſâodd dy galon, trymhâodd dy gluſtiau, a chaeodd dy lygaid* (o)," fel y mae 'th *feddyliau* (hyd yn nod pan byddo 'th gorph yn

(o) Eſay vi. 9, 10.

yn yr addoliad ac mewn ymarferiad o ordinhadau) *ynghŷrrau 'r bŷd* (p). Yr ydwyt yn croesawi pob difyrrwch o eiddo 'r dychymmyg, os bydd i hynny ond arwain dy feddwl ymmaith oddiwrth beth mor ddiflâs ac annymunol ac yw Crefydd. Tŷdi ymddygaiſt yn yr addoliad y tro diweddaf o boſſibl, fel pe buaſit yn meddwl na wyddai Duw ddim am danat; neu fel pe buaſit yn credu nad oedd o ddiben da yn y bŷd i ofalu yn y meſur lleiaf, a oedd efe yn cael ei *foddloni* neu nid oedd, trwy 'r fath ymddygiad.

§ 7. Och ddŷn! A wyt ti wedi dwad i'r penderfyniad hyn, ſef (er dy fod yn credu 'r bôd o Dduw, rhagluniaeth, a gwirionedd yr yſgrythur) *nad yw Crefydd yn beth o werth i feddwl am dani!* Na thâl i ti roddi un awr i ddifrifol yſtyriaid " y fath yw *Duw* a *Chriſt*; y fath wyt *ti dy hun*, a pha fath ſydd raid i ti fod tros bŷth?" Pa le gan hynny mae 'th alluoedd rheſymmol? Pa fodd maent yn cael eu harfer, neu 'n hytrach, pa fodd maent mor farw a dideimlad?

§ 8. Mae *ſicrwydd* a *phwys* y pethau yr wyf yn ymddiddan yn eu cylch mor amlwg oddiwrth dy egwyddorion di dy hunan, fel y gellit braidd i roddi *plentyn*, neu *hyrtyn* (idiot) i ymreſymmu yn eu cylch mewn modd cymmwys; ac etto maent yn cael eu heſgeuluſo gan y fawl ac ſydd wedi tyfu fynu i ddealldwriaeth; ac o boſſibl i'r fath *ragorol wybodaeth*, fel y meddylient eu hunain yn cael mawr gam, os na chyfrifid hwynt ymmyſg y rhan wychaf, a mwyaf dyſgedig o ddynolryw.

§ 9. Ond nis dichon eu *heſgeuluſtra* hwynt o'r pethau hyn i ddiddymmu na'r bod o honynt, na'u gwerthfawrogrwydd; er y gall hynny eu diſtrywio *hwynt hwy*. Canniattâ i mi fel un a ddeffrowyd i ddyfod attat ac i ddywedyd wrthyt fel y dywedodd y morwyr wrth *Jonah*, yr hwn oedd yn cyſgu mewn

(p) Diar. xvii. 24.

mewn yſtorom o lawer llai perygl na'r ſefyllfa yr ydwyt ti ynddi, *Pa beth a ddarfu iti gyſgadur? Cyfod, galw ar dy Dduw* (q). Oes ynnot ammheuaeth ynghylch y rheſymmoldeb a'r angenrheidrwydd o hynny? Yr wyf yn gofyn, *mynega yr hyn a ofynnwyf i ti* (r): Atteb i foddlonrwydd dy gydwybod dy hun, fel un a raid rhoddi cyfrif mwy manwl ar fyrr.

§ 10. YR ydwyt yn addef fod Duw; ac y mae 'n reſymmol i ti wneud felly; oblegid nis gelli agor dy lygaid heb weled eglur brawf o'i fod, o'i breſennoldeb, ac o'i weithrediad. Ti a'i gweli ef ym mhob gwrthrych o'th gwmpas. Yr ydwyt yn ei brofi ef (os gallaf felly ddywedyd) ym mhob gwythen, ac ym mhob gewyn. Ti weli nid yn unig iddo 'th *wneuthur* trwy 'r fath gywrain ddoethineb, yr hon nis gall un dŷn ei hamlygu na'i chynnwys, ond ei fod ef yn waſtad *gyda thi:* pa le bynnag yr ydwyt, a pha beth bynnag wyt yn ei wneuthur, nôs a dŷdd, *ynddo ef yr wyt yn byw, yn ſymmud ac yn bod* (s). Rheſwm a dyſtia mai nid dy ddoethineb, dy allu, a'th ofal *di*, yw 'r *achos* i'th galon guro, i'th waed i gylchynu, ac a bâr i'th *anadl* anſicr fyned i mewn ac allan yn dy *ffroenau* (t). Mae 'r pethau hyn yn cael eu gwneud pan yr wyt ti 'n *cyſgu*, yn gyſtal a phan yr wyt yn effro; ie, hyd yn nod pan nad wyt yn *meddwl* am gylchyniad y gwaed na'r angenrheidrwydd o anadlu, a phan nad ydwyt yn *cofio* i fod ynnot galon ac yſgyfaint. Onid yw hyn yn profi fod *llaw Dduw*, yr hon a wnaeth y pethau rhyfeddol hynny mewn dŷn, yn eu cyffroi ac yn eu cynnal yn waſtadol?

§ 11. NID am danat ti mae efe yn gofalu yn unig; ond pan yr edrychech o'th amgylch hyd yr eithafoedd, ti weli fod ei ofal yn ymdannu ar bob tu: Ac Oh! Pa faint mwy mae ei ddaionus ofal yn ymdannu tu hwnt i'th amgyffred di! Yſtyria 'r goleuni

(q) Jonah i. 6. (r) Job xxxviii. 3. (s) Actau xvii. 28. (t) Eſay ii. 22.

goleuni a'r gwrês ac y mae 'r haul yn gyfrannu i bob lle; i'r awyr, ac fy'n cylchynu 'n daiar ni, ar *dymmeroldeb* pa un y mae bywyd holl ddynolryw 'n ymddibynnu, a bywyd yr holl greaduriaid eraill a bresfwyliant ar y ddaiar. Yftyria y rhagddarbod addas a daionus a wnaeth efe er cynnhaliaeth *dŷn* ac *anifail*; fef yr ydau, y borfa, a'r amrywiol ffrwythau, llyfiau, a blodau; yftyria bob peth a wnaeth er ein magwraeth a'n hyfrydwch, ac yno dywaid onid ydynt yn cyhoeddi 'n uchel ac yn eglur, fod ein hollalluog wneuthurwr yn agos attom, ac yn ofalus am danom, ac yn gymmwynafgar i ni? A thra mae 'r pethau hyn yn cyhoeddi ei ddaioni ef, onid ydynt yn yr un modd yn gofod allan ei allu! Canys pa allu a ellir gyffelybu i'r gallu ac fy 'n cyfrannu 'r fath fendithion ardderchog? Ac yn ddiflino yn dwyn oddiamgylch effeithiau mor ardderchog a rhyfeddol, dros wyneb yr holl ddaiar, a thrwy holl ardaloedd y nefoedd o ddŷdd i ddŷdd, ac o oes i oes?

§ 12. Eglur yw gan hynny i fod Duw 'n *bresennol*, ie yn bresennol gyda thydi y *funud hon*; y Duw, a'th wnaeth, ac fy 'n dy gynnal; Duw, ac a wnaeth ac fy 'n cynnal pob peth gweledig ac anweledig. Ac onid yw efe 'n bresennol i'r diben o fanwl fylwi ar dy ymddygiadau di mewn bod? *Oni wêl yr hwn a luniodd y llygad? Oni chlyw 'r hwn a blannodd y gluft? Yr hwn fydd yn dyfgu gwybodaeth i ddŷn* (yn rhoddi iddo ei allu oedd rhefymmol, ac yn tywallt ar ei feddwl yr holl oleuni ac y mae efe yn dderbyn trwyddynt) *oni ŵyr efe* (u)? Efe, yr hwn fy 'n gweled holl ddiffygiadau ei greaduriaid, ac fy 'n parottoi mor amferol ar eu cyfer, oni wêl ef eu *gweithredoedd* hwynt hefyd? A chan weled, oni farna efe hwynt? A roddodd efe i ni adnabyddiaeth ar dda a drwg, o'r hyn fydd wîr ac o'r hyn fydd anwîr, o'r hyn fydd ddymunol ac annymunol mewn tymmer

(u) Salm xciv. 9, 10.

tymmer ac ymarweddiad; ac a ydyw ef yn amddifad o'r wybodaeth hon ei hunan? Paid a chellwair â'th gydwybod, yr hon ſydd yn dywedyd i ti ei fod ef yn profi pob beth, ei fod yn eu cymmeradwyo neu yn eu condemnio fel ac y maent yn brydferth neu 'n wrthyn, yn rheſymmol neu 'n afreſymmol, ynddynt eu hunain; ac i fod y farn ac mae efe 'n roddi, o ganlyniad anfeidrol i'w holl greaduriaid.

§ 13. Ac yn awr, er mwyn cymmwyſo hyn oll attat dy hun, rho gennad i mi i ofyn i ti 'n bryſur, A ydyw yn beth gweddaidd a rheſymmol i fod y fath gymmwynaſwr mawr a gogoneddus yn cael ei ddiyſtyru gan ei greaduriaid? Gan y ſawl ac ydynt gymmwys mewn rhyw râdd i'w adnabod, a'i addoli? A yw 'n beth gweddaidd a rheſymmol *iti* i'w anghofio a'i eſgeuluſo ef? A ydwyt ti o holl weithredoedd ei ddwylaw yn cael dy eſgeuluſo a'th anghofio ganddo ef? O bechadur! er mor anyſtyriol, nis beiddi ddywedyd na meddwl dy fod. Nid rhaid i ti fyned yn ol at yr amſer ac yr oeddyt yn *faban* analluog er mwyn cael ſicrwydd i'r gwrthwyneb. Ac nid oes achos i ti i'r diben hyn i adgofio 'r gwaredigaethau rhyfeddol a gefaiſt fynyddoedd aethant heibio: Canys mae 'r orphwyſfa a gefaiſt y nôs ddiweddaf, yr ymborth a'r cyſſur y gefaiſt y dydd hwn; ie y trugareddau pa rai ydwyt y funud hon yn eu derbyn, oll yn tyſtiolaethu i fod Duw yn cofio am danat; er hynny nid ydwyt ti yn ei yſtyriaid nac yn ei barchu! O greadur anniolchgar! A allaſit ymddwyn fel hyn tuag at rhyw gymmwynaſwr da o blith dynion? A ydyw yn boſſibl i ti allel diyſtyru un rhyw gyfaill neu rieni tirion ac haelionus, y rhai ymddygaſant yn dirion tuag attat tros ychydig o ſiſoedd? A ellit ti fod yn ddiſylw o'th gyfaill tra yn ei breſennoldeb; yn anniolchgar yn y mwynhâd o'i roddion; yn ddiymdrech i allel gwneud rhyw gydnabyddiaeth iddo am ei holl ddaioni; er maint yw dirywiad y

natur

natur ddynol, nid yw wedi ſyrthio mor ddyfn a hyn. Ie nid yw 'r *natur anifeiliaid* gynddrwg. Os wyt yn byw yn ddideimlad o ddaioni Duw, ſicr yw i fod pob anifail o'th gwmpas er cywilydd i ti. Os ymddygi yn dirion tuag at dy *gî* dros ychydig o ddyddiau, gan ei borthi ef a'r briwſion oddi ar dy fwrdd, efe a'th waſanaetha, ac a gâr fod yn agos attat; fe fydd yn chwannog i'th ganlyn o lê i lê; a phan ddychwelech wedi bod oddicartref dros ychydig, efe a ymdrecha trwy filoedd o ffyrdd i ddywedyd pwy mor dda ganddo 'th weled drachefn. Ie yſgrybliaid, o lawer llai eu deall a'u hamgyffred na chwn, ſydd ganddynt deimlad o'n daioni tuag attynt; ac yn eu ffordd, ydynt yn ceiſio gwneud cydnabyddiaeth: Fel ac y mae 'r bendigedig Dduw yn dywedyd, *yr ŷch a edwyn ei feddiannydd, a'r aſyn breſeb ei berchennog* (w). Pa fath ddirywiad galarus yw gan hynny, dy fod *ti heb wybod*, dy fod *ti*, yr hwn a gyfrifwyd ymmyſg pobl broffeſſedig yr Arglwydd, heb yſtyriaid dy rwymedigaethau iddo ef!

§ 14. Os oes ynnot ddim teimlad, rhaid dy fod yn galaru ac yn cywilyddio wrth edrych yn ol ar dy ymddygiadau; ond os amgen, canniattâ i mi ymreſymmu â thydi ym mhellach ar y pen hyn, gan geiſio goſod pethau mewn goleuni gwahanol. A elli di olygu dy hun mewn cyflwr diogel tra yr ydwyt yn ymddwyn yn llyn? Wyt ti ddim yn credu yn dy gydwybod i fod barn i ddyfod? Ac i fod yſtâd dragywyddol ac anweledig? Fel criſtianogion proffeſedig yr ydwym bawb yn credu 'r pethau hyn; canys nid pethau *dadleugar* yw rhain; ond pethau ac ſy 'n cael eu goſod allan mor eglur yn y 'ſcrythur, fel er mor gywraint a manwl yw dynion mewn cyfeiliornadau, nis gallaſant etto gael allan ffordd i wadu 'r gwirioneddau hyn. Gan gredu hyn oll, wyt ti ddim yn gweled, tra yr ydwyt yn corwydro yn llyn oddiwrth

(w) Eſay i. 3.

wyth dy Dduw, i fod *diſtryw ac aſiwydd yn dy ffyrdd* (x)? A fydd y dymmer fuſgrell ac eſgeulus hon yn un rhyw ddiogelwch i ti? A ddichon hi 'th gadw rhag angau a barn? Mae 'n fwy rheſymmol i ti feddwl y gwnai 'th waith di yn *cau dy lygaid* i'th gadw rhag cynddeiriogrwydd *llew* ac a fynnai 'th yſglyfaethu; ac y gwnai 'th waith yn *troi dy wyneb* oddiwrth y gwnn neu 'r cleddyf, i achub dy gorph rhag cael ei *niweidio*. Duw, pan y mae 'n llefaru am fawr ynfydrwydd ei greaduriaid anyſtyriol, ac na fynnant wrando ar un rhyw rybuddion mewn dŷdd o râs, a ddywaid, " *Yn y dyddiau diwaethaf y deallwch hynny yn eglur* (y)." Ac oni ellir cymmwyſo y geiriau hyn *attat ti?* Oni orfydd iti ryw amſer, naill ai o fôdd neu o anfôdd, i yſtyriaid y pethau hyn? Ac onid yw yn eglur mae difrifol yſtyriaeth o honynt mewn pryd, yw 'r unig ffordd, trwy ddwyfol râs, i ragflaenu 'th golledigaeth?

§ 15. O BECHADUR, nid rhaid amlhau geiriau am y peth hyn; canys mae 'th gydwybod yn dufewnol yn gweled y gwirionedd eiſioes, er y gall fod dy *falchder* yn anfoddlon i addef hynny. Ac er prawf o hyn, mi ofynnaf i ti un cweſtiwn ym mhellach, ſef, a wyt ti yn *awr*, ar un rhyw ammodau ac yſtyriaethau, wedi hollol fwriadu rhoddi heibio bob rhyw feddwl a gofal pellach ynghylch Crefydd o'r dŷdd a'r awr hon, ac i dderbyn y canlyniadau o'r fath eſgeuluſtra? Yr wyf yn meddwl i fod yn anhawdd cael dŷn byw yn meddu hyfdra digonol i ddwad i'r fath benderfyniad: Ie 'r wyf yn credu y byddai 'r *meddwl* am y fath beth, yn foddion i beri i'r rhann fwyaf o'm darllenwyr grynu.

§ 16. Ac os oes achos i feddwl ryw amſer am y pethau a berthynant i ddduwioldeb, anghenraid yw eu cymmeryd dan dy yſtyriaeth ar frys; canys nid yw 'r bywyd ei hun cyhyd a chyn ſicred, ac y byddai i un

(x) Rhuf. iii. 16. (y) Jer. xiii. 20.

i un dŷn *doeth* anturio llawer ar ei barhâd. Ac yr wyf yn gobeithio ar yr ofteg nefaf, y gallaf dy argyhoeddi di o'r angenrheidrwydd fydd i yſtyriaid y pethau a berthynant i Grefydd, yn *ddiattreg*; canys y peth nefa' i'r ynfydrwydd o fwriadu *peidio meddwl byth am Grefydd*, yw dywedyd, *mi feddyliaf am dani ryw amſer i ddyfod.* Yn y cyfamſer, myfyria ar y pethau a goffawyd yn barod, a hwy a'th gymmhwyſant i dderbyn yr hyn a ganlyn.

Myfyrdodau *'r Pechadur ac a fu yn anyſtyriol, ond fydd yn awr yn dechreu deffroi.*

'O FY enaid anghofus, deffro, deffro o'th freu-
'ddwydion yn y rhai y crwydraiſt. Dychwel
'o'r yrfa hon o wagedd, a chymmer dy berſwadio,
'tros funud o leiaf, trwy 'r holl yſtyriaethau hyn, i
'edrych o'th *flaen*, i edrych i'r *lann*. Canys digon
'yw 'r oriau a'r diwrnodau a roddaiſt eiſioes at dra-
'fferthon a digrifon y bywyd hwn. Na rwgnach i
'roddi rhai munudau, i chwilio dy hunan, ac i
'yſtyriaid yr hyn a berthyn yn fwy neillduol i'th
'ddedwyddwch tragywyddol; i yſtyriaid pwy, a
'pha beth ydwyt; pa fodd y daethoſt fel hyn i fod
'ar y ddaiar; a pha ryw un y raid i ti fod ar frys!

'Ydyw 'r peth fel ac y darluniwyd uchod? O fy
'enaid, creadur. Duw ydwyt? Efe a'th wnaeth, ac
'efe a'th ddiwalodd; efe a'th roddodd yn y corph
'a wnaeth er dy fwyn, ac y mae efe yn cynnal;
'corph, yn yr hwn, ni arfaethodd i ti fyw ond dros
'ennyd fâch. O! meddwl, pwy mor gynted y
'rhaid i'r *babell hon i ymddatfod* (z), ac i titheu *ddych-*
'*welyd at Dduw* (a). Ac a fydd i ti barchu y Bôd
'anfeidrol, tragywyddol, y byth-fendigedig, a'r byth-
'ogoneddus yn llai na neb? Wyt ti yn foddlon
'marw yn y cyflwr hyn, gan ddywedyd bob dydd,
'trwy bob rhyw weithred, *wrth* Duw, *cilia oddi-*
'*wrthyf*

(z) 2 Cron. v. 1. (a) Preg. xii. 7.

'*wrthyf, canys nid ydwyf yn chwennych gwybod dy ffyrdd* (b)? Mae gennyt eſguſodion y boreu a 'chanol-dydd, yr hwyr, y nôs, a phob rhann o'th 'amſer dros dy eſgeuluſtra. Ond, Oh fy enaid, pa 'fath y fyddant o flaen DUW? Hwy allant fy ſiom-'mi i, ond nis gallent ei dwyllo ef.

'O ARGLWYDD, fy Nghymmwynaſwr da, mi 'wneuthym gamwedd yn dy erbyn, mi 'th amnogais i 'lid ac a'th eſgeuluſais! A phan yr yſtyriwyf dy '*fawredd* a'th *ddaioni*, yr wyf yn ſynnu oblegid an-'heimladrwydd fy nghalon. Y *mae arnaf gywilydd* '*a gorchwyledd i godi fy llygaid attat ti* (c). Pan yr 'edrychwyf yn ôl yn y meſur lleiaf, yr wyf yn gweled 'i mi wneuthur yn ynfyd, ac i mi gyfeiliorni 'n 'ddirfawr (d). Ac etto mae fy nghalon ddrwg am 'wneud fy ngwaith yn dy eſgeuluſo cyhyd, yn rheſwm 'i fyned rhagof i'th ddiyſtyru etto ym mhellach. Yr 'wyf yn gweled y gellit yn gyfiawn i ddiſgwyl i 'bawb o'th greaduriaid rheſymmol i fod yn llawn o 'ufudd-dod a chariad: I fod pob calon yn llawn 'teimlad o'th hollbreſennoldeb; ac i ofal am 'ryngu dy fodd, i lwyr lyngcu pob gofal arall. Er 'hynny *nis cefaiſt lê yn fy holl feddyliau i* (e)! A 'chrefydd, yr hon yw diben a gogoniant fy natur, a 'gafodd mor hynod ei goſod o'r neilldu, fel na ddarfu 'i mi yn iawn i ofyn i'm calon, pa beth ydoedd.— 'Mi welaf, os parhâf yn y cyflwr hyn mai colledig 'y fyddaf; ac etto yr wyf yn profi yn fy natur gyn-'dyn, ddirgel anewyllyſgarwch i feddwl am bethau 'crefyddol; y mae tueddiad ynnof os nid i roddi hei-'bio yn hollol, etto i roddi heibio i feddwl am y fath 'bethau *yn awr*. Y mae fy meddyliau 'n derfyſglyd, 'etto mae yn ſicr gennyf y gwyddaiſt ti, yr hwn 'a'm gwnaethoſt, pa beth ſydd oreu ar fy llês. Gan 'hynny yr wyf yn attolygu arnat i'm tywys er 'mwyn dy enw (f). Nâ âd i mi oedi hyd oni byddo

(b) Job xvi. 14. (c) Ezra ix. 6. (d) 1 Sam. xxvi. 21.
(e) Salm 2, 4. (f) Salm xxxi. 3.

'byddo yn rhy ddiweddar.—*O tyn fi fel pentewyn allan o'r gynneu dân* (g). Tyn ymaith y ſwyn-'gyfaredd ddiniſtriol ac ſydd yn cadw fy *ſerch* ar 'wrthrychau, yr rhai wyf mewn cymmariaeth yn 'ddibriſio yn fy *neall:* A dŵg fi o'r diwedd i'r 'fath happus gyflwr, fel na bo arnaf ddim ofn i 'feddwl am danat ti, nac am danaf fy hunan; 'fel na bo i mi gael fy nhemtio i chwennych, i ti 'fod heb fy ngrheu, neu i ti allel fy anghofio byth; 'ac fel na bo fy ngobaith pennaf, i mi allel *darfod* 'fel y creaduriaid direſwm.

'Os bydd yr hyn a ddarllenwyf ym mhellach yn 'unol â'r gwirionedd, ac â rheſwm; ac os bydd yn 'tueddu i ddwyn ym mlaen fy nedwyddwch, ac yn 'arwyddoccâd o'th ewyllys tuag attaf; O Dduw! 'boed i mi allel gwrando ac ufuddhau. Pâr i 'eiriau dy wâs, pan fo yn dadleu dy achos, fod fel 'ſymbylau i drywanu fy meddwl, fel y bo i mi 'deimlo a dolurio, yn hytrach na marw: Ië pâr eu 'bod fel hoelion wedi eu ſicrhau mewn lle diogel (h); 'fel pa ddirgeledigaethau bynnag ſydd etto heb eu 'gwybod, a pha anhawſderau bynnag ſydd mewn 'Grefydd (os yw 'n angenrheidiol) na bo i mi mwy-'ach ei heſgeuluſo. O boed i'th râs i ddyſgu i mi 'r wers, yr hon yr wyf mor hwyrfrydig i'w dyſgu; 'a gorchfyga y gwrthwynebiad cryf ac wyt yn 'deimlo yn fy nghalon yn erbyn, hyd yn nôd y '*meddwl* am Grefydd! Gwrando yr annrhefnys 'weddiau hyn, er mwyn dy Fâb, yr hwn a ddyſgodd 'ac a achubodd lawer creadur mor wrthnyſig ac wyf 'finneu; ac a all o'r *meini hyn i godi plant i Abra-'ham* (i)! Amen.'

(g) Amos, iv. 11. (h) Preg. xii. 11. (i) Mat. iii. 9.

PENNOD III.

Y Pechadur wedi ei ddeffroi yn cael ei annog i ystyriaid ei gyflwr yn ddiattreg, ac i ochelyd diofalhau.

§ 1. YR wyf yn gobeithio i'r hyn a ddywedais eisioes i ddeffroi fy narllenydd mor belled a bwriadu cymmaint a hyn, sef, y bydd iddo ryw bryd i ystyriaid yr hyn a berthynent i Grefydd. Ond gâd i mi yn ddifrifol i ofyn i ti, 'Pa bryd y bydd hynny?' *Dôs ymaith yn awr, a phan gaffwyf amser cyfaddas mi alwaf am danat*, oedd iaith, a distryw *Felix* annedwydd (k), pan grynodd trwy ymresymmiadau yr apostol. Ni ryfygodd y temtiwr i'w annog ef i roddi heibio bob rhyw feddyliau pellach ynghylch edifeirwch a diwygiad; ond yn unig (ac ystyriaid yr amrywiol bethau ac oeddynt yn galw am eu sulw) i fod yn angenrheidiol i roddi 'r ystyriaeth o honynt heibio hyd ryw *ddydd pellach*, a mwy addas. Fe lwyddodd y ddichell, a *Felix* a gollwyd!

§ 2. O DDARLLENYDD, a fydd i ti fy nanfon i ymaith yn llyn? O gariad attat, ac o dyner dosturi at dy enaid anfarwol, nid allaf yn ewyllysgar i gymmeryd y fath esgus, a myned ymaith; ie pe enwit *amser*, a dywedyd, y flwyddyn nesaf, y mis, yr wythnos, neu 'r diwrnod nesaf, nis gallwn dy adael. Fel cyfaill mi ewyllysiwn droi attat gyda 'r taerni a'r tynerwch eithaf, ac i ddymuno arnat i ddwyn y peth i benderfyniad *yn awr*. Canys os dywedi, mi ystyriaf y pethau hyn y *foru*, ni bydd gennyf ond gobaith gwan, ac mi allaf benderfynu, fod yr hyn a 'sgrifennais i, a'r hyn a ddarllenaist ditheu, *oll yn ofer*.

§ 3. PAN

(k) Actau xxiv. 25.

§ 3. Pan yr wyf yn dy alw i ofal am, ac ymarferiad o Grefydd, fe allid rhyfeddu fod achos i mi yn y modd mwyaf ſerchog i hîr-ddadleu â thi, tuag at dy wneuthur yn foddlon i'w pharchu, a chydſynio â hi! Mae 'r hyn yr wyf yn dy alw atto, mor wŷch a rhagorol yntho 'i hun, mor addas, ac yn teilyngu mor dda i ti fel creadur rheſymmol, yn beth mor ddoeth a gwrol, fel y gellid meddwl y byddai yr hanes cyntaf am dano, yn peri 'th fod megis ar dân am ei fwynhau; ie, y byddai i'r fath hyfryd olwg yn ddioed i lanw 'th holl enaid a math o ddigllonedd yn dy erbyn dy hun, am na buaſit cyn hyn yn ei geiſio. 'Rheſymmol fyddai i ti ofyn, 'A feidd af fi godi fy llygaid a'm henaid at Dduw? I roddi fy hun iddo? A ydyw 'n boſſibl i mi *yr awr hon* i ddechreu cyfeillach ac ef? Cyfeillach pa un a bâr byth, ac fydd yn hyfrydwch, yn ddiogelwch, ac yn ogoniant fy enaid anfarwol?' Ac a gâf fi dynnu 'n ol a dywedyd, 'Na fydded i mi ddechreu y gyfeillach hon yn *rhy fuan:* Boed i mi o leiaf i fyw rhai wythnoſau, neu rai dyddiau etto, *heb Dduw yn y byd!*' Diammau ei bod yn llawer mwy rheſymmol i ti droi i mewn a dywedyd, 'O fy enaid! ar ba *gibau* aflan y buaiſt yn *ymborthi*, gan anghofio, a phechu yn erbyn dy *neſol dâd?* Ac a gâf fi geiſio amlhau dyddiau fy nhylodi, fy ngwaradwydd, a'm truemi?' Ar yr olwg hyn, ſicr yw ei bod yn rheſymmol i ti ddewis dychwelyd yn ddioed at Dduw, na *chwareu 'r annoeth yn hwy*, gan fyned rhagot ychydig ym mhellach i'w anfoddloni ef, ac i newynu, ac archolli 'th enaid dy hun: Er cael ſicrwydd o barhâd dy fywyd dros flynyddoedd lawer, ac o allu i droi at Dduw a'th ddyledſwydd, yn awr, a phob munud etto i ddyfod;

diammau mae 'th ddyledſwydd a'th fraint yw ymadael â'th ffyrdd pechadurus yr awr hon.

§ 4. Ond pwy, a pha beth ydwyt ti i gyfrif blynyddoedd neu fiſoedd etto i ddyfod? Pa beth yw dy *einioes?* Onid yw megis *tarth, yr hwn ſydd ddros ychydig yn ymddangos, ac wedi hynny yn diflannu* (l)? Pa beth gan hynny yw 'th ſail i ymorphwys mor belled ar ei barhâd, ac i wyſtlo 'th enaid ar hynny? Ti ddywedi o boſſibl, 'Yr wyf etto yn jeuangc, ym mlodau a grym fy amſer: Ac mi wela gannoedd o'm cwmpas yn fwy na chymmaint arall fy oedran i; ac y mae y rhan fwyaf o *honynt hwy* yn ei gweled hi yn rhy fuan etto i feddwl am Grefydd. Yr ydwyt yn golygu 'r *byw*, ac yn ymddiddan fel hyn; ond yr wyf yn attolwg arnat i yſtyriaid y *meirw* hefyd. Dychwel yn dy feddyliau at y beddau hynny llê gadawaiſt rai o'th gymdeithion a'th gyfeillion jeuangc. Ti gwelaiſt hwynt yn ddiweddar yn fywiog ac yn dacclus; yn wreſog mewn bywyd, yn llawn o obaith ac amcanion. Hwy a'i cymmeraſent yn beth chwithig, mewn un rhyw gyfaill a fynnaſai attal eu gorchwylion a'u pleſſeràu, trwy ddifrifol ymddiddan â hwynt ynghylch angau a thragywyddoldeb; er eu bod ar eu cyffiniau hwynt. Ti welaiſt wedi hynny, eu cyrph, yn eu harch *(coffins)*; ac yr ydwyt o boſſibl yn dwyn o'th amgylch *arwyddion galar*, pa rai a gefaiſt ar eu claddedigaeth. Y cyrph bywiog a thêg hynny o'u heiddo, ydynt yn awr yn pydru yn y prîdd; a hynny mor analluog a dideimlad a neb o'r rhai a ddygwyd yno yn bedwarugain oed. A pheth ſy 'n haeddu ei yſtyriaid yn anfeidrol fwy yw hyn, ſef, fod eu heneidiau, parod neu amharod erbyn y cyfnewidiaid mawr, wedi gorfod ymddangos ger bron Duw; ac y maent y funud hon wedi eu ſefydlu naill ai

(l) Jago iv. 14.

ai yn y nefoedd neu yn uffern! Yn awr gâd i mi ofyn i ti mewn modd difrifol, a fyddai fe 'n beth *dieithr* a *gwrthiol*, pe bai 'r un ddamwain yn dy gyfarfod dithau? Pa fodd y gelli fod yn ſicr, nad oes rhyw glefyd marwol yn dechreu gweithio yn dy waed y dŷdd hwn? Pa fodd y gwyddaiſt y byddi ar ol y *funud hon* yn abl darllain a myfyrio, os eſgeuluſi yr hyn wyt yn awr yn ddarllain, ac os na wnai yſtyriaid yr hyn ſydd yn ymgynnig i'th feddwl y funud hon? Mae o leiaf yn boſſibl i'r fath gyfnewidiad diſymmwth i gymmeryd llê; ac os felly, fe fydd mewn gwirionedd, yn gyfnewidiad *ofnadwy* i ti! Cael dy yrru yn ddiſymmwth i breſennoldeb Duw, yr anghofiaiſt ei *fod ef*; cael dy dorri ymaith ar unwaith oddiwrth y bŷd, wrth yr hwn yr oedd dy holl galon a'th enaid wedi ymlynu; bŷd ac a aeth â'th holl feddyliau, a'th ofalon, dy lafur, a'th ſerchiadau; cael dy ſefydlu mewn yſtât, yr hon ni chymmeraiſt dy berſwadio erioed i feddwl am dani, mor belled a threulio *un awr* yn ddifrifol i ymbarottoi ar ei chyfer: O! pa fodd y gelli lai na chrynu wrth feddwl am y fath gyfnewidiad? Onid yw yn llanw y galon â dychryn? Mae 'n beth i'w ryfeddu na bait yn y fath amgylchiad yn barod i *walltgoſi*, wrth yſtyriaid anſicrwydd bywyd; ïe, na bait yn marw o *ofn* marwolaeth! Fe fyddai 'th waith yn byw ym mhellach yn yr eſgeuluſtra o Dduw, ar ol yr holl rybyddion difrifol hyn, yn beth a gyffroai ei lîd yn fwy; yr hyn, wedi 'th bechodau o'r blaen, a allai fod yn foddion i'th ddiſtrywio: Canys nis gelli ddiſgwyl llai, nac iddo 'th dorri lawr yn ddiattreg, a'th wneuthur yn ſiampl i'th gydgreaduriaid anyſtyriol ac ſydd yn byw fel ditheu.

§ 5. Ac a fydd i ti, er hyn oll, i anturio byw yn y fath gyflwr ym mhellach? I ba ryw ddi-

ben y gwnai felly? Wyt ti yn meddwl y daw Crefydd o oedi yn llai *angenrheidiol*, neu 'n *hawsach?* Ti wyddaiſt yn well nac y gelli feddwl y fath bethau. Ti wyddaiſt pa beth bynnag y mae 'r Duw bendigedig yn ei ofyn yn awr, y bydd iddo ofyn hynny oddiwrthyt ym mhen ugain a dengmlynedd ar hugain etto i ddyfod, os byw y fyddi i weled yr amſer hynny. Mae 'r *dreſn* ac apwyntiodd Duw i dderbyn pechaduriaid, ac i faddeu iddynt eu pechodau, wedi ei ſefydlu mewn modd anghyfnewidiol yn yr efengyl. A fydd iddo byth gyfnewid y ffordd honno? Ac onis gwna *efe*, a ddichon *dŷn* ei chyfnewid hi? Nid ydwyt yn foddlon i ymoſtwng dy hun mewn edifeirwch o flaen Duw, fel y derbyniech gyfiawnder a bywyd trwy ei rŷdd râs yn Ghriſt; ac yr wyt yn anfoddlon uwchlaw poh peth, i ddychwelyd at Dduw trwy *ufudd-dod ſanctaidd*. Ond a fydd iddo un amſer i roddi heibio 'r pethau hyn, a chyhoeddi *efengyl arall*, gan addo bywyd ac iechydwriaeth i *bechaduriaid anedifeiriol*, *angrhediniol*, os *gakwant* eu hunain yn griſtianogion, ac ymoſtwng i rai *defodau allanol?* Dros ba hyd yr wyt yn tybiaid y gelli ddiſgwyl am y fath gyfnewidiad yn natur pethau? Ti wyddaiſt y dal angau afael ynnot; ac nis gelli lai na chredu yn dy galon, y bydd i'r holl fŷd i ymoſtwng, cyn bo i *Dduw* yn llyn i *wadu ei hun*, a gwrthddywedyd ei holl briodoliaethau, a'i ddatguddiedigaethau.

§ 6. Os bydd Duw 'r un byth yn ei ofynion, fel mae 'n ſier y bydd, wyt ti yn meddwl y bydd rhyw beth ac ſydd yn awr yn anaddas i ti ynddynt, yn fwy dymunol ryw amſer i ddyfod? A fydd dy gariad at bechod yn llai ar ol iddo reddfu ym mhellach ynnot, a phan y bo cydwybod wedi myned yn fwy lleſg ac halogedig?

dig? Os wyt yn *blino rhedeg* gyda 'r *gwŷr traed*, pa fodd yr *ymdrewi â'r gwŷr meirch* (m)? Ni ddywedit ddim mewn rhyw afiechyd ac fai 'n debyg i fyned a'th fywyd ymaith, 'Mi oedaf hyd onid elwyf beth yn *waeth*, ac wedi hynny mi ymofynnaf am y meddyg; fe gaiff y clefyd i wreiddio ym mhellach yn y rhannau hanfodol i fywyd, a chwedi hynny, mi edrychaf beth ellir wneud tuag at ei ſymmud ymaith.' Nid felly, canys ynghylch yr hyn a berthyn i fywyd yr *enaid*, y mae dynion yn ymddwyn yn y fath fodd ynfyd a hyn: Oblegid y mae iechyd a bywyd y corph, yn ymddangos yn rhy werthfawr i'w taflu ymaith yn y fath fodd.

§ 7. Pe bait byth yn cael dy achub ar ol y fath ymddygiad peryglus, fe fyddai hynny trwy weithrediad dwyfol râs ar dy enaid, mewn modd mwy galluog a mwy rhyfeddol, yn gyfattebol i gynnydd a pharhâd dy heintiau yſprydol. Ac a elli di feddwl y bydd i'r Yſpryd glân i fod yn fwy *parod* i'th nerthu ar ol i ti mewn modd cywilyddus i gellwair ac ef a'i ddigio? Mae efe hyd yma mewn rhyw feſur yn ymſymmud ar dy galon; ac os wyt yn teimlo dim tufewnol dynerwch ynddi tra yr ydwyt yn darllain y pethau hyn, mae yn arwydd dy fod heb dy roddi fynu 'n hollol. Ond pwy all ddywedyd llai nad dyma 'r tro diweddaf y bydd iddo byth i gyffwrdd â'r galon, pa un a ymgaledodd cyhyd yn ei erbyn ef? Pwy ŵyr na bydd i Dduw y dŷdd hwn i *dyngu yn ei lid na chai di byth fyned i mewn i'w orphwyſfa ef* (n)? Mi ddywedais i ti y gellit *farw 'n ddiſymmwth*, ac yr ydwyt yn addef i fod hynny 'n boſſibl. Ac a wyddaiſt ti am un peth mor ofnadwy? O bechadur, mi ddywedaf i ti un peth ac fy 'n *fwy ofnadwy na mar-*

(m) Jer. xii. 5. (n) Heb. iii. 18.

wolaeth a damnedigaeth ſydyn; ſef y gall y Duw bendigedig i ddywedyd am danat, ‘ Boed i'r creadur truenus accw, pa un a'm diyſtyrodd ac a'm digiodd i dros gyhyd a amſer, boed iddo etto i *fyw*; boed iddo i fyw mewn *llawnder* a *llwyddiant:* Boed iddo i fyw hefyd dan ordinhadau mwyaf pur a grymmus yr efengyl; fel y bo iddo eu camddefnyddio hwynt er mwyn gwneud ei farn yn drymach, ac y byddo farw dan *faith gymmaint euogrwydd a melldith*. Ni roddaf iddo ddim grâs i yſtyriaid ei ffyrdd yn ddifrifol, dros funud yn hwy; ond fe gaiff fyned rhagddo waeth waeth i gyflawnu meſur ei anwireddau, hyd oni ddalio marwolaeth ef mewn awr anniſgwyliadwy; ac hyd oni *ddelo digofaint Duw arno hyd yr eithaf* (o).’

§ 8. Ti elli feddwl i fod hyn yn beth anghyffredin; ond yr wyf yn ofni i'r gwrthwyneb am lawer. Yr wyf yn ofni nad oes fawr gynnulleidfaoedd lle cafodd gair Duw ei bregethu 'n ffyddlon, a lle cafodd ei hîr ddibriſio, yn neilldual gan y ſawl a ddeffroed unwaith, nad yw *llygaid Duw* yn gweled llaweroedd o'r fath eneidiau truenus; er fod yn ammhoſſibl i ni benderfynu pwy ydynt.

§ 9. Nis gallaf fi ddywedyd pa fodd y bydd i Dduw i wneuthur â thi, O ddarllenydd, pa un a fydd iddo 'th dorri ymaith yn ddiattreg, neu ynte 'th roddi fynu 'n hollol i anedifeirwch a chaledwch calon: Neu a fydd iddo yn y diwedd trwy râs i'th ddeffroi i yſtyriaid dy ffyrdd, ac i ddychwelyd atto ef, a hynny pan fo 'th galon wedi ymgaledu etto 'n fwy. Canys nid oes dim yn rhy anhawdd i hollalluog râs; fe all droi 'r graig *farbl* yn ddŷn ac yn ſaint. Ond hyn a ddywedaf yn hŷ, os eſgeuluſi yn hwy, y daw amſer, pan yr *edifarhei di 'n chwerw* am y fath eſgeuluſtra;

(o) 2 Theſſ. ii. 16.

eſgeuluſtra; a hynny trwy alar calon ger bron Duw yma, neu ynte trwy felldithio 'th ffolineb a'th ynfydrwydd yn uffern iſod. Ac os colledig, ti fyddi 'n dymuno (er mor ofnadwy yw uffern) i ti allel ſyrthio iddi yn gynt, yn hytrach na byw ymmyſg cynnifer o drugareddau ac a wnaethant dy goſp yn raddau mwy annioddefol, a'r teimlad o honi yn llawer mwy poenus, oblegid i ti eu camddefnyddio hwynt.

§ 10. Yr wyf gan hynny yn dy gynghori yn ddifrifol, yn *enw ein Harglwydd Jeſu Ghriſt*, a thrwy yr yſtyriaeth o *werth*, ïe os dioddefi 'r ymadrodd, trwy *waed dy enaid anfarwol*, pa un ſydd ar geulan diſtryw, na bo i ti eſgeuluſo *diwrnod*, nac *awr* yn hwy. Na ddyro *gwſg i'th lygaid na hûn i'th amrantau* (p), mewn diofalwch bellach am y pethau pwyſig hyn; ond *cymmer eiriau gyda thi, a dychwel at yr Arglwydd* (q): Ac os yw 'n boſſibl, cwymp ar dy liniau yn y man yr wyt, yn ei breſennoldeb ſanctaidd, a thywallt dy galon allan yn y fath eiriau, neu o leiaf i'r perwyl hyn.

Gweddi *i un ſy'n cael ei demtio i eſgeuluſo Crefydd, er ei fod yn gweled ei gwerthfawrogrwydd mewn rhan.*

'O ARGLWYDD, tydi wyt Frenin cyfiawn 'a ſanctaidd nefoedd a daiar! Mae fy 'anadl yn dy law, a'm holl ffyrdd yn eiddo i ti (r). 'Yr wyf yn cyfaddef fy mod ym mhell yn ol o 'th ogoneddu, ac o rodio yn ol rheolau 'th ewyllys 'ddatguddiedig. Mae gennyf achos i ryfeddu 'th hir-amynedd a'th ddaioni, na buaſit er ys 'llawer dŷdd yn attal fy anadl, ac yn fy nhorri

(p) Diar. vi. 4. (q) Hoſ. xiv. 2. (r) Dan. v. 23.

'ymaith o *dir y rhai byw*. Yr wyf yn dy glod-
'fori, na buaſwn er ys miſoedd a blynyddoedd
'aethant heibio, yn un o ddeiliaid uffern; lle mae
'miloedd o bechaduriaid yn awr, a thros byth,
'yn griddfan ac yn galaru am eu ffolineb yn
'eſgeuluſo iechydwriaeth. Ond O Dduw! Pa
'mor boſſibl yw y bydd i'm calon ofer yn y
'diwedd i'm bradychu, a'm dwyn innau i'r un-
'rhyw ddiſtryw! Ac och i feddwl! i ddiſtryw
'gwaeth, yn ol dy holl amynedd a'th hirymaros.
'Mi wela fod yn rhaid i mi ryw bryd i ofalu
''n ddifrifol am Grefydd, neu gael fy ngholli
'byth. Er hynny mae fy nghalon ynfyd am dyn-
'nu 'n ol o dan y iau: Etto yr wyf yn ymeſ-
'tyn ar y gwely o ddiogi, gan weiddi am ychy-
'dig *ragor o gyſgu, o heppian, ac o blethu dwylaw*
'*i gyſgu* (s). Dyma fel ac y mae fy nghalon
'lygredig yn dadleu dros ei *diogi*, yn wrthwy-
'neb i'm *deall* ac ŵyr yn well. Pa beth y ddy-
'wedaf? O *Arglwydd, gwared fi rhagof fy hun!*
'Gwared fi rhag twyll a dichellion pechod; gwared
'fi rhag brâd fy natur gyndyn a dirywiedig, ac
'argraffa ar fy meddwl yr hyn a ddarllenais yr
'awr hon!

'O ARGLWYDD, nid oedd y gwirioneddau hyn
'guddiedig rhagof o'r blaen. Llawer gwaith y
'cefais fy rhybuddio ynghylch anſicrwydd am-
'ſer, a dŷdd iechydwriaeth. Mi ffurfiais rai bwria-
'dau yſgafn, ac mi ddechreuais rai camrau an-
'wadal i ddyfod attat ti. Ond och, ni bum ond
'megis *bwbwman ynghylch Crefydd*, heb allel erioed
'*ſefydlu arni*. Fy holl fwriadau a waſgarwyd fel
'mŵg, ac fel tarth o flaen y gwynt. O na bai
'i ti ddwyn y pethau hyn at fy nghalon gydâ
'mwy galluog argyhoeddiad, nac y profais hwynt
'erioed o'r blaen! O na bai i ti 'm canlyn â
'hwynt

(s) Diar. vi. 10.

'hwynt, hyd yn nôd pan bwyf yn ffoi oddiwr-
'thynt, os bydd i mi byth i fod mor ynfyd a
'cheiſio diangc rhagddynt mwyach. Boed i'th
'yſpryd i lefaru wrthyf mewn modd effeithiol a
'dychrynadwy; ac i arfer y moddion mwyaf
'galluog, pa rai wyddaiſt ti ſy 'n angenrheidiol i'm
'deffroi o'r cyſgadrwydd hyn; yr hwn, os amgen,
'a fydd yn achos o'm tragywyddol ddiſtryw. Boed
'adſain y pethau hyn yn fy nghluſtiau *pan elwyf*
'*allan a phan ddelwyf i mewn, pan orweddwyf i lawr*
'*a phan gyfodwyf i fynu* (t). Ac os bydd i'm
'gorphwyſfa 'r nôs, a'm galwedigaethau 'r dŷdd
'i gael eu hattal dros amſer trwy hynny, boed
'felly, O Dduw, os bydd i mi ond dwyn ym-
'mlaen yn well, yr hyn a berthyn i'm tragyw-
'yddol ddedwyddwch; a chael yn y diwedd or-
'phwyſfa ynnot ti, yn lle yr holl ddychryn
'wyf yn awr yn brofi, *pan gofiwyf am Dduw ac*
i'm cythryblir (v).

'O ARGLWYDD, *dychrynedd fy nghnawd rhag*
'*dy ofn, ac ofnais rhag dy farnedigaethau* (w).
'Yr wyf yn ofni, rhag i ti yr awr hon, tra 'r
'wyf yn dechreu meddwl am Grefydd, i'm tor-
'ri lawr, cyn y bo i'm meddyliau i ddyfod i
'unrhyw addfedrwydd; ac i beri 'r blaen-darddiad
'o honi yn fy meddwl, i wywo mewn tragy-
'wyddol farwolaeth. O *arbed* fi, yr wyf yn
'taer ymbil arnat; er mwyn dy drugaredd, arbed
'fi ychydig ym mhellach: Ac mae 'n boſſibl i
'mi trwy 'th râs i allel dychwelyd attat. Os
'bydd i'th amynedd etto i barhau tuag attaf, fe
'allai y bydd i mi, yr hwn wyf *ddiffrwythwr dy*
'*dir* (x), i ddwyn peth ffrwyth gwell. A boed
'coffadwriaeth o'th hîrymaros tuag attaf yr
'amſer aeth heibio, i'm hattal rhag cellwair â
'thydi, nac â'm henaid fy hun, yn hwy. O

(t) Deut. vi, 7. (v) Salm lxxvi. 3. (w) Salm cxix. 120.
(x) Luc xiii. 7, 8,

'Arglwydd, boed i mi o'r dŷdd hwn, ïe o'r awr 'a'r funud hon, i brofi mwy parhaus argraffiadau 'o Grefydd ar fy nghalon, nac fu erioed o'r 'blaen, trwy yr hyn oll a glywais ac a ddar-'llenais!' Amen.'

PENNOD IV.

Y Pechadur yn cael ei gyhuddo a'i euogfarnu.

§ 1. GAN fy mod yn ceisio 'th ddwyn at *wîr* Grefydd, ac nid at ffurf allanol o honi yn unig, yr wyf yn gweled nas gallaf lwyddo yn hyn, ond trwy 'th ddwyn i *ddyfn ostyngeiddrwydd*. Gan feddwl i fod yr hyn a ddarllenaist eisoes dan fendith Duw, wedi 'th berswadio i gymmeryd Crefydd at dy ystyriaeth, mi ymdrechaf yn y modd mwyaf difrifol ac y gallaf, i'th wneuthur yn wîr deimladwy o'th *euogrwydd* o flaen Duw. Canys yr ydwyf yn sicr, oddieithr i ti gael dy argyhoeddi yn *effeithiol* o hyn, y bydd i holl ddarpariadau grâs yr efengyl gael eu dibrisio, a'th enaid gael ei distrywio 'n anffaeledig, ymmysg y moddion mwyaf rhagorol ac a drefnwyd er ei dychweliad. Yr wyf yn hollol gredu fod miloedd yn *byw* ac yn *marw* mewn gyrfa o bechod, heb *deimlo* yn eu calonnau eu bod yn bechaduriaid; er nas gallant hai rhag cywilydd, na chyfaddef eu bod, mewn geiriau. Canniattâ i mi gan hynny i ymddwyn yn *ffyddlon* tuag attat, er gall fod fy ymadrodd yn ymddangos yn *erwin*; canys ni ddylai mwyneidd-dra i reoli ymadroddion yn yr hyn a berthyn i fywyd dy enaid.

§ 2. Rhaid i ti, O bechadur, i roddi cennad i mi i ystyriaid fy hun yn *eiriolwr dros Dduw*; fel

fel un a anfonwyd i ddadleu yn dy erbyn di yn ei enw ef, ac i'th gyhuddo o ddim llai na bradwriaeth a gwrthryfelgarwch yn erbyn llywydd mawr y nefoedd a'r ddaiar. Pa beth bynnag yw 'th ſefyllfa ymmyſg dynion; pe bai 'r gwaed gwychaf yn rhedeg trwy 'th wythennau; pe bai 'th eiſteddfod ymmyſg tywyſogion, a'th fraich *yn arſwyd i'r cedyrn yn nhir yr rhai byw* (y); rhaid i mi ddywedyd wrthyt, a dywedyd yn eglur hefyd, i ti dorri cyfreithiau Brenin y Brenhinoedd, a'th fod trwy hynny wedi dyfod yn agored i'w gyfiawn farn ef.

§ 3. Mae 'th gydwybod yn dywedyd i ti gael dy *eni* yn *ddeiliad naturiol i Dduw*; a hynny dan rwymedigaethau anhepcorol i gadw ei gyfreithiau ef. Mae 'n eglur fod y galluoedd rheſymmol, pa rai ſy 'n dy wneuthur yn gymmwys i dderbyn cyfraith oddiwrth Dduw, yn dy rwymo i roddi ufudd-dod i'r unrhyw. Ac onid yw mor eglur a ſicr, na ddarfu i ti hollol ufuddhau i'r gyfraith hon; ïe i ti ei thorri amrywiol o weithiau mewn modd erchyll.

§ 4. Ac a feiddi di wadu hyn? A elli di haeru 'th fod yn ddiniwaid? Cofia fod yn rhaid i'th ddiniweidrwydd fod yn gyfangwbl: Rhaid cael cyfiawnder perffaith hefyd, cyn y gallo fod o ddim defnydd i ti, ym mhellach na phrofi, er dy fod yn bechadur dan farn, nad wyt yn hollol gynddrwg ac eraill o'th gwmpas, ac na fydd dy lê di gan hynny yn uffern, yn gwbl mor boethed a'u llefydd hwynt. Pan yſtyriech hyn, a elli di ddywedyd, dy fod yn ddieuog? Chwilia goflyfrau 'th gydwybod, canys mae Duw yn eu chwilio hwynt: Gofyn yn bryſur, 'A bechaiſt ti erioed yn dy fywyd, yn erbyn Duw?' *Solomon* a ddywedodd am y rhai oeddynt yn byw yn ei ddyddiau ef, *nid oes un*

(y) Ezec. xxxii. 27.

un cyfiawn ar y ddaiar, a wna ddaioni ac ni phecha (z): Ac mae yr Apoſtol *Paul*, yn lleſaru yr un peth, pan ddywaid, *pawb a bechaſant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw* (a); i fod *Iuddewon a chenhedloedd* (yr hyn ſy 'n cynnwys holl ddynolryw) *oll dan bechod* (b). Ac a oes unrhyw reſwm i gredu fod y bŷd wedi dwad gymmaint yn well ar ol eu dyddiau hwynt, fel y gallai un ddywedyd, *nid dyma fy nghyflwr i?* Neu a fydd *i ti* gyfodi 'n rhyfygus yn erbyn y Duw hollwybodol a dywedyd, '*myfi yw 'r dŷn dibechod?*'

§ 5. Gan farnu fel o'r blaen dy fod yn rhŷdd oddiwrth weithrediadau anfoeſol, pa rai ydynt niweidol i'r wladwriaeth, ac am hynny 'n goſpadwy gan gyfreithiau 'r tîr; a elli di ddywedyd er hynny, na thorraiſt ti trwy reolau *duwioldeb, dirweſt a chariad?* Oes neb o'th *gyfeillion* ac a'th adwaenant oreu, yn abl tyſtio i ti ddywedyd neu wneuthur rhyw beth allan o lê? Neu os nis gallant hwy, onid all dy *galon dy hun?* Onid yw hi yn dy euogfarnu o falchder, o nwydau drwg, ac o drythyllwch, o ormod gariad at y bŷd a'i fwyniant, ac o rwgnachrwydd, o leiaf yn ddirgel, yn erbyn Duw, pan yr oeddit dan ddyrnodiau rhyw ragluniaeth orthrymmus; o gamddefnyddio llawer o'th amſer; o waſtraffu llawer o haelionus roddion Duw i ddibenion ofer, os nid rai gweithiau i ddibenion pechadurus; o'i watwor ef, pan gymmeraiſt arnat ei waſanaethu ef, *gan neſſau atto â'th enau ac â'th wefuſau, tra 'r ydoedd dy galon yn ymbellhau oddiwrtho* (c)? Onid yw 'th gydwybod yn dy gondemnio o ryw *un bai*, o leiaf yn erbyn y gyfraith? Ac onid wyt ti gan hynny mewn yſtyr, ïe yſtyr yſcrythurol hefyd, yn *euog o'r cwbl* (d)? Ac onid yw mor anhawdd i ti gael dy

(z) Preg. vii. 20. (a) Rhuf. iii. 23. (b) Rhuf. iii. 9.
(c) Eſay xxix. 13. (d) Jago ii. 10.

dy gyfiawnhau trwy 'th ufudd-dod dy hun, a phe buaſit yn euog o ddeng mîl o feiau? Ond mewn gwirionedd y mae deng mîl, a llawer rhagor, yn cael eu rhoddi yn dy erbyn. Pan edrychech yn ol ar dy bechodau o *ommeddiad*, yn gyſtal ar pechodau o droſeddiad; pan ſylwech ar y prydiau yr *attoliaiſt i wneuthur daioni, pan yr oedd ar dy law ei wneuthur* (e); ar dy eſgeuluſtra o ddyledſwyddau Crefydd, yn enwedig yn y *dirgel*; ac ar yr holl bethau hynny, trwy ba rai y dangoſaiſt ſynn eſgeuluſtra o geiſio anrhydeddu Duw, a dwyn ymmlaen ddedwyddwch amſerol a thragywyddol dy gyd-greaduriaid: Pan yr yſtyriech yr holl bethau hyn meddaf, onid yw y *ſwm* uwchlaw cyfrifiad? Ac yn peri i ti weiddi allan, *amlach yw fy anwireddau na gwallt fy mhen* (f)! Hwy a ymddangoſant yn y fath fodd ger dy fron, fel y bydd i'th *galon dy hun* i'th gyhuddo o feiau anneirif; a pha faint mwy i'th gyhuddir *gan Dduw, yr hwn ſy 'n fwy na 'th galon, ac a ŵyr bob peth* (g)?

§ 6. O BECHADUR! a yw'n beth *bach* yn dy olwg i ti ddiyſtyru awdurdod Duw 'r nefoedd, a thorri ei gyfreithiau ef, pe buaſit yn gwneuthur felly ond yn unig trwy eſgeuluſtra, a diofalwch? Pa faint mwy atgas gan hynny yw 'th euogrwydd, gan i ti wneuthur felly lawer gwaith o'th wîrfodd, ac yn erbyn goleuni? Canniattâ i mi yn ddifrifol i ofyn i ti, ac yr wyf yn attolwg arnat ti ofyn i'th enaid dy hun, *pwy a ddifenwaiſt, ac yn erbyn pwy y derchefaiſt dy lêf* (h), neu y codaiſt dy law wrthryfelgar? Ar gyfraith pwy y ſethraiſt ti yn y fath fodd rhyfygus, O bechadur? A thrwy hynny, cyfeillgarwch pwy y gollaiſt, a digofaint pwy y haeddaiſt? Ai rhyw lywydd daiarol yn unig, *yr hwn nis gall ond lladd y corph, ac*

(e) Diar. iii. 27. (f) Salm xl. 12. (g) 1 Joan iii. 20.
(h) Bren. xix. 22.

ac wedi hynny heb ddim mwy ganddo i'w wneuthur (i)? O bechadur, ni feiddiafit i ymddwyn tuag at frenin amſerol, fel yr ymddygaiſt tuag at y *brenin tragywyddol*, *anfarwol* ac *anweledig* (k). Nis cymmeraſit dy gyflogi am unrhyw brîs, i ryfela yn erbyn dy frenin daiarol, yn y modd y gwneuthoſt yn erbyn y Duw hwnnw, o flaen pa un y mae'r cerubiaid a'r ſeraphiaid yn ymgrymmu 'n waſtadol. Nid oes *un gair* gwrthwynebus, dadleugar, na grwg nachgar, i'w glywed ymmyſg y nefolion luoedd pan mae ei ewyllys ef yn cael ei chyhoeddi iddynt. A phwy wyt ti, O ddŷn truenus! pwy wyt ti meddaf, fel y dadleuit yn ei erbyn ef? Pa beth wyt ti pan yr wyt yn gwrthwynebu ac yn cyffroi llîd y Duw hwnnw, ac ſy'n *anfeidrol ofnadwy a galluog?* Duw ac allai, pe 'r ewyllyſiai, i'th dorri ymaith oddiwrth dy holl feddiannau; oddiwrth bob gobaith; ïe ac allai, mewn munudyn, i'th droi allan o fôd: Neu (yr hyn ſy'n anfeidrol waeth) i'th roddi troſodd i'r poenau mwyaf dirfawr a pharhaus. Er hyn oll, dyma 'r Duw y pechaiſt yn ei erbyn; dyma y bôd a ddigiaiſt, trwy dorri ei gyfreithiau hyd yn oed yn ei breſennoldeb: A thyma 'r Duw o flaen pa un yr ydwyt yn ſefyll yn euog. Tydi a euogfarnwyd, nid am un neu ddau o feiau yn unig, ond am filoedd a myrddiynau; ïe o *yrfa* o wrthryfelgarwch, a hynny 'n barhaus mewn meſur mwy neu lai, er pan yr ydwyt mewn bôd: A phob amgylchiad yn yr hon yr oeddit yn pechu, ſydd yn trymhau 'th euogrwydd, ac yn gwneuthur dy feiau yn fwy. Edrych yn ol ar dy ffyrdd, a gwâd y cwyn os beidd!.

§ 7. Os yw *gwybodaeth* yn trymhau euogrwydd, wele 'th euogrwydd di, O bechadur, a drymhawyd yn ddirfawr! Ti gefaiſt dy *eni* ar dîr *Emmanuel*;

(i) Luc xii. 4. (k) 1 Tim. i. 17.

manuel; a Duw a 'ſcrifennodd attat ti *bethau mawrion ei gyfraith, a thi a'u cyfrifaiſt hwynt fel dieithr beth* (l). *Ti wybuaiſt i wneuthur daioni, ac nis gwnaethoſt* (m); ac am hynny mae 'r *ammeddiad* ynnot *ti* yn fawr bechod. *Oni wyddoſt? Oni chlywaiſt* (n)? Oni ddyſgwyd i ti ewyllys Duw yn foreu, ym mlynyddoedd dy ieuengctid? Oni chefaiſt addyſgiadau ar addyſgiadau, yn y cyhoedd ac yn y dirgel, trwy bregethiad a darlleniad gair Duw, pa rai drachefn a thrachefn oeddynt yn tueddu i'th annog i wneuthur ei ewyllys et? Mewn rhai pethau, onid oedd dy ddyledſwydd mor eglur, (pe buaſit heb unrhyw gyfrwyddiadau) ac y gallaſai 'th reſwm dy hun ei dangos allan yn hawdd? Oni chefaiſt hefyd dy rybuddio o'r *canlyniadau* o anufudd-dod? Ac oni wyddit ti *gyfiawn farn Duw, fod y rhai ſy'n gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth* (o)? Er hynny mae 'n boſſibl i ti, nid yn unig wneuthur y cyfryw bethau ond hefyd i ti *gydymfoddloni* â'r rhai oedd yn eu gwneuthur hwynt; ti a'u dewiſaiſt hwynt i fod dy gyfeillion mwyaf agos a neillduol; ac felly, trwy ſiampl a chydymddiddan, yr ydych yn cryfhau dwylaw 'r naill y llall mewn anwiredd.

§ 8. Mwy na hyn oll, os yw *dwyfol gariad* a *thrugaredd*, yn achos o drymhau pechodau, mae 'n rhaid, O bechadur, fod dy feiau di wedi erchyll drymhau ac ymhelaethu! Ac a wyt ti ddim yn rhwym i gydnabod hyn, O greadur ynfyd ac anghall? Oni chefaiſt dy feithrin a'th ddwyn i fynu gan *Dduw fel ei blentyn*, ac er hynny ti a *wrthryfelaiſt yn ei erbyn* (p)? Onid Duw a'th dynnodd o'r grôth (q)? Oni wiliodd ef droſot yn nyddiau dy fabandod, ac oni chadwodd efe di rhag

(l) Hoſ. viii. 12. (m) Iago vi. 27. (n) Eſay vi. 28.
(o) Rhuf. i. 32. (p) Eſay i. 2. (q) Salm xxii. 9.

rhag lliaws o berygl'on, pa rhai nas gallaſai y *rhieni*, neu'r *fammaeth* mwyaf gofalus, eu gweled, na'u cadw ymaith? Onid efe a roddodd i ti 'th alluoedd rheſymmol? Ac onid oddiwrtho ef y cefaiſt bob rhyw gyfleuſtra i allel eu dîwygio a'u iawnymarfer hwynt? Oni ddarfu i Dduw bob dŷdd ddiwallu 'th angenrheidiau di mewn modd haelionus a diflino; ac mewn perthynas i lawer ac a ddarllenant y traethawd hwn oni 'chwanegodd ef roddi iddynt lawer o *foethau*, yn gyſtal ac angenrheidiau 'r bywyd hwn? A ddarfu iddo ddim gwrando ar dy lêf pan fu *cyfyngder arnat* (r); a'th aml waredu, pan mewn trallodion natur y gelwaiſt arno am gymmorth? A fu iddo ddim dy waredu o ddiniſtr pan yr ydoedd yn barod i'th lyngcu? ac hefyd i feddyginiaethu 'th glefydau, pan yr ymddangoſodd i bawb o'th gwmpas, y byddai i ti gael dy *dorri ymaith ynghanol dy ddyddiau* (s)? Os na bu hyn, onid yw hîr barhâd dy iechyd yn ddidorr tros gynnifer o flynyddoedd, yn dy oſod dan yr un fath rwymedigaethau? Edrych o'th amgylch ar dy holl feddiannau, a dywed, a oes *unrhyw beth* gennit yn y bŷd, heblaw 'r hyn a rhoddodd ei ddaioni ef i ti, ac a gadwodd ef yn dy feddiant hyd yma? At hyn oll chwanega 'r wybodaeth a roddodd ef i ti o'i ewyllys; y tyner ymreſymmiadau a ymarferodd tuag attat, i'r diben o'th ddwyn i ddoethach a gwell tymmer; ac addyſgiadau, a galwedigaethau yr efengyl, yr hon a wrandawaiſt ac a ddibrifiaiſt: Ac ar ol yſtyriaid hyn oll, dywed, pa un a bod dy wrthryfelgarwch wedi ei drymhau trwy 'r anniolchgarwch mwyaf atcas, ai nid yw? ac a ellir yſtyriaid y pechod yn y goleu hyn, yn beth o *ychydig bwys*?

§ 9. Ym mhellach, os yw pechu yn erbyn cydwybod yn trymhau pechod, ſe fu i'th feiau di O bech-

(r) Job xxvii. 9. (s) Salm cii. 24.

O bechadur, felly gael eu trymhau. Chwilia ei *chôfyfrau*, ac yna dadleu 'r peth, os gelli. Y mae *Yſbryd mewn dŷn, ac yſbrydoliaeth yr Hollalluog ſy 'n gwneuthur iddo ddeall* (t); ac fe fydd i'r deall hynny weithredu; ac y mae dirgel grêd ein bod ni yn gyfrifol i'n gwneuthurwr a'n cynhaliwr, yn anwahanol oddiwrth ei weithrediadau. Mae'n hawdd dadleu yn erbyn rheſymmiadau dynol, a rhoi cam liwiau ar bethau o flaen dynion; ond mae'r *galon* yn aml yn barnu 'n euog, pan fo 'r *tafod* yn eſguſodi. O ddarllenydd, oni phrofaiſt ti hi felly? Oni ddarfu i'th gydwybod ddywedyd yn erbyn dy ſuchedd gynt, ac oni fu 'r dywediadau hynny yn boenus iawn hefyd i ti? Gwr bonheddig geirwir a ſicrhâodd i mi, ſef pan yr oedd efe yn canlyn holl drythyll bleſerau 'r bywyd hwn, ac yn cael ei gyfrif yn un o'r *dedwyddaf o ddynol-ryw*, iddo weled cî yn dyfodi mewn i'r yſtafell llê 'r oedd ef ymmyſg ei gyfeillion llawen, ac ar yr olwg, iddo orfod ochneidio 'n dufewnol, a dywedyd, '*Oh na buaſwn i y cî yna!*' O bechadur, a deimlaiſt ti ddim yn gyffelyb i hyn? A gafodd dy gydwybod di felly ei ſyfyrdanu, a'i ſerio megis â haiarn poeth (v), fel na ddarfu iddi erioed weiddi allan, am y gormeſau a wnaid iddi? A ddarfu iddi erioed dy rybuddio di ynghylch y canlyniadau dinyſtriol o'r hyn a wnaiſt mewn gwrthwynebiad iddi? Y rhybuddion hyn, ydynt mewn effaith, *lais Duw*; cynghorion ydynt, pa rai a roddodd efe i ti trwy ei *raglaw* yn dy fynwes. A phan fo ei farn ef yn dy erbyn am dy weithredoedd drwg, yn cael ei rhoddi mewn grym arnat mewn tragywyddol farwolaeth, ti gai glywed y llêf hon yn dywedyd wrthyt drachefn, mewn modd uwch, a chreulonach, nac erioed o'r blaen: a thi a boenir gan ei dannodiau

(t) Job xxxii. 8. (v) 1 Tim. iv. 2.

dannodiau tros dragywyddoldeb, am na wrandawſit mewn amſer, ar ei rhybyddion.

§ 10. Canniatta i mi chwanegu ym mhellach, os yw pechod yn fwy, oblegid ei gyflawnu ar ol bod yſbryd Duw 'n ymſymmud ar y meddwl, diau fod dy bechod di wedi ei drymhau trwy *hyn hefyd*. Tan y weinidogaeth Iuddewig, er mor dywyll ac ammherffaith ydoedd, yſbryd Duw a weithredoedd ar yr Iuddewon; pe amgen, nis gallaſai *Stephen* ddwyn y fath achwyniad yn eu herbyn, trwy eu holl genhedlaethau, gan ddywedyd, *Yr ydych chwi yn waſtadol yn gwrthwynebu yr Yſbryd glân* (w). Yn awr yn ſicr, ni allwn yn fwy rheſymmol i feddwl, ei fod ef yn gweithredu ar bechaduriaid dan yr efengyl. O bechadur, a brofaiſt ti ddim yn debyg i hyn, hyd yn oed pan nad oedd dim amgylchiadau allanol i'th ddeffroi, nac un pregethwr duwiol yn agos attat? A fu erioed i ti brofi unrhyw ddirgel gymhelliad ar dy feddwl, yn tueddu i'th arwain i feddyliau ynghylch Crefydd; gan dy annog i feddwl yn ddifrifol yn ei chylch ar frys; yn dy alw i wneuthur prawf o honi, gan dy rybuddio i alaru am dy fod mor fuſgrell yn ei chylch yr amſer aeth heibio? Oh bechadur, pa ham na yſtyriaiſt y fath ddedwydd gynhyrfiadau? Pa ham na buaſit megis yn lledu allan holl hwyliau dy enaid, i'r diben o gael dy ddwyn ym mlaen gan y fath awel dirion a nefolaidd? Ond mewn modd difraw, ti a'i heſgeuluſaiſt: Ti a attaliaiſt y cyfryw ddylanwadau: A phwy mor rheſymmol gan hynny, y gallaſit ddiſgwyl i'r *ſentens* fyned allan mewn cyfiawn anfoddlonrwydd yn dy erbyn, gan ddywedyd, *ni chaiff fy Yſbryd ymryſon ac ef mwy* (x). A phwy all ddywedyd nad yw 'r fath farn yn barod wedi myned allan? Os nad ydwyt ti 'n teimlo dirgel gyffroad meddwl, dim euogrwydd, dim deffroad, tra 'r ydwyt yn darllen

(w) Actau vii. 51. (x) Gen. vi. 3.

darllen y fath ymddiddanion a hyn, mae achos mawr i ofni i fod hyn yn wîr.

§ 11. Un peth yn ychwaneg ac fy'n gwneuthur pechod yn dra phechadurus, ac na buaiſt ti 'n euog o hono; ſef ei fod yn cael ei gyflawnu yn erbyn difrifol rwymedigaethau cyfammod: Yr hyn amgylchiad, a bwyſodd yn drwm ar gydwybodau llaweroedd, pa rai mae 'n boſſibl ar y cwbl, a waſ'naethaſant Dduw gyda mawr oneſtrwydd trwy y rhan fwyaf o'u bywyd. Ond os nad ydwyt ti yn euog o hyn, gâd i mi ofyn i ti, pa fodd yr ymddengys hynny? Ai o herwydd na ddarfu i ti mewn modd ſyml a pherſonol broffeſu rhoddi dy hunan i Dduw erioed mewn cyfammod? Na fu i ti erioed i wneuthur un peth ac a ymddangoſodd i ti yn weithred, trwy ba un y cyfammodaiſt ac ef; er i ti glywed llawer am ei gyfammod, a chael dy alw mewn modd tyner a phryſur i'r unrhyw? Yn awr yn y goleu hyn, pwy mor ofnadwy mae 'r amgylchiad hyn yn ymddangos, yr hon a gafodd ei chrybwyll i'r diben o yſgafnhâu 'th euogrwydd? Etto rhaid i ni 'chwanegu dywedyd, nad ydwyt ti mor rhŷdd oddiwrth euogrwydd ar y pen hyn, ac mae 'n boſſibl i ti feddwl dy fod. Ni châf fi ddim aros i ſylwi ar y cyfammod a wnaeth dy rieni droſot ac yn dy enw, pan roddaſent di i Dduw trwy fedydd; er fod hyn mewn gwirionedd yn *beth o bwys*; a thrwy alw dy hun yn *griſtion*, yr wyt yn proffeſu cyfaddef, ac yn 'cadarnhau yr hyn a wnaethent hwy y pryd hynny. Ond mi alwaf i'th gôf, bethau ac oeddynt yn weithredoedd o'th eiddo di 'n fwy neillduol a pherſonol. A fu i'th galon o'th ieuengctid, ymgaledu i'r fath râdd anghyffredin, fel na bu i ti erioed lefain ar Dduw mewn un amſer o berygl ac o anhawſdra? Ac a fu i ti ddim un amſer gymmyſgu *addunedau* â'th weddiau? A ddarfu i ti ddim addo os byddai i Dduw dy wrando a'th waredu

waredu yn yr awr honno o galedi, y byddai i ti adael dy bechodau, a'i wasanaethu ef trwy dy holl fywyd? Efe a'th wrandawodd ac a'th gynnorthwyodd, pe amgen, ni buasit ti yn darllain y llinellau hyn yn awr; a thrwy 'r fath waredigaeth, fe a rwymodd dy addunedau arnat; ac am hynny yr ydwyt yn euog ger ei fron ef yn y torriad o honynt, er dy fod di mor ddifraw a'u hanghofio. Nid yw Duw yn anghofio un peth, nac yn pasio heibio un peth; ac mae dŷdd yn dyfod, pan orfydd i tithau edrych ar y gêfreſtr.

§ 12. Yn awr, O bechadur, dwys yſtyria ynnot dy hun, pa fath amddiffynniad a elli wneuthur i'r pethau hyn? Galw ynghŷd dy dyſtion; appelia oddiwrthô ef, yr hwn y pechaiſt yn ei erbyn, at ryw farnwr uwch, os oes y fath un. Och ddŷn, mae 'r fath eſgusodion mor wan ac annigonol, fel ac y gallai un o'th gydgreaduriaid yn hawdd eu diddymmu; fel ac y ceiſiaf ddangos i ti yn fuan. Ond mae 'th ddaroganus gydwybod yn barod yn gweled y diwedd. Yr ydwyt ti wedi 'th gael yn euog; yn euog o fawrion bechodau. Ni ddaroſtyngaiſt ti dy galon, eithr *ymddercheſaiſt yn erbyn Arglwydd y neſoedd* (y); *a'th farn a ddaw oddi ger ei fron ef* (z). Ti dorraiſt ei gyfraith, yr hon oedd hyſpys i ti; ti ddiyſtyraiſt, ac a gamddeſnyddiaiſt ei aneirif drugareddau, ti a dramgwyddaiſt dy gydwybod, yr hon yw ei raglaw ef yn yr enaid; ti a wrthwynebaiſt ac a driſtaiſt yr Yſbryd glân; nid oeddit ond megys cellwair ac ef yn dy rîth ymoſtyngiadau: mewn gair, a hwnnw ei air ef ei hun, *ti wnaethoſt yr hyn oedd ddrwg hyd ac y gellaiſt* (a). Mae 'n ddiammheuol fod miloedd yn barod yn uffern, euogrwydd pa rai ni bu erioed yn gymmaint a'th euogrwydd di; ac y mae 'n beth i'w ryfeddu, iddo 'th arbed di i ddarllain y darluniaid hyn o'th gyflwr

(y) Dan. v. 22, 23. (z) Salm xvii. 2. (a) Jer. iii. 5.

gyflwr, neu i fyfyrio yn ei gylch. Oh! na threulia y funud werthfawr hon yn ofer, ond dôs yn y modd mwyaf aſtud a goſtyngedig, at y cyfryw fyfyrdodau ac fy 'n berthynol i gyflwr mor alarus ac ofnadwy, ac yw 'th gyflwr di.

Cyfaddefiad Pechadur, *pa un a argyhoeddwyd mewn rhan o'i Euogrwydd.*

'O DDUW! Tydi ydwyt y penllywydd, yn 'erbyn pa un y gwnaethum gamwedd. 'Tydi yw yr hwn fy'n treiddio trwy 'r holl grea-'digaeth, a'r barnwr hollalluog! Pa beth a ddyweda-'daf am yr achwyniad hyn yn fy erbyn? A gaf fi 'geiſio dywedyd fy mod yn cael cam, ac felly 'ſefyll i amddiffyn fy hun yn dy breſennoldeb? 'Nis beiddaf wneud felly, canys ti a *adwaenoſt fy* 'ynfydrwydd, *ac nid yw fy nghamweddau 'n guddiedig* 'rhagot (b). Mae fy nghydwybod yn dywedyd 'wrthyf, na wnai fy ngwaith yn gwadu fy meiau, 'ond eu hamlhâu hwynt, ac felly 'chwanegu tan-'wydd i ennyn tân dy ddigofaint yn fy erbyn, yr 'hyn wyf yn gyfiawn haeddu. Os ymgyfiawnhâf, 'fy ngenau a'm barn yn euog; os perffaith y dyw-'edaf fy mod, *efe a'm barn yn gildyn* (c). *Canys dry-'gau anifeiriol a'm cylchynaſant o amgylch; fy mhecho-'dau a 'm daliaſant, fel na allwn edrych i fynu: Amlach 'ydynt* (medd dy air) *na gwâllt fy mhen, am hynny 'y pallodd fy nghalon gennyf* (d). Yr ydwyf yn fwy 'euog nac y mae 'n boſſibl i neb arall wybod, ac i 'oſod allan; mae fy *nghalon* yn dywedyd mwy nag 'un cyhuddwr arall; *ac yr ydwyt ti, O Arglwydd, yn 'llawer mwy na 'm calon, ac a wyddaiſt bob peth* (e).

'Pa beth oedd fy holl fywyd, ond gyrfa o wrth-'ryfelgarwch yn dy erbyn di, O Dduw? Nid yw 'n ddigon

(b) Salm lxix. 5. (c) Job ix. 20. (d) Salm xl. 12.
(e) 1 Joan iii. 12.

'n ddigon i mi alaru o herwydd y weithred *hyn* ac *arall*; canys ni fu dim yn iawn, yn fy egwyddorion, fy ngolygiadau, na 'm dibennion. Fy holl enaid a anhwylwyd. Fy holl feddyliau, ſerchiadau, a'm dymyniadau, a gawſant eu dieithro a'u troi oddiwrthyt ti, yn y modd mwyaf truenus. Fy ngweithredoedd a fuant ddrwg, a'm geiriau a fuant waeth na hynny; ond, O Arglwydd ſanctaidd, pa faint mwy llygredig yw fy *nghalon* na'r cwbl! Pa fath ffynnon ddiddiſpydd o bechod ſydd ynthi? Ffynnon o lwgr gwreiddiol, ffrydiau chwerwon pa un a ymgymmyſgaſant â'm meddyliau ac a'm gweithredoedd cyntaf, pan yn blentyn; a pha rai ydynt yn rhedeg trwy 'r cwbl o'm heiddo, hyd y dŷdd hwn. Mae hyn yn ymddangos yn eglur wirionedd, mewn perthynas i'r hyn oll ac *wyf fi* 'n allel ddirnad am fy nghyflwr. Ond O! pa gynnifer o fiſoedd, a blynyddoedd o'm bywyd a anghofiais i? Am ba rai nid oes gennyf ond hyn i ddywedyd, ſef eu bod yn gyffredin, yn gyffelyb i'r rhai yr wyf yn eu cofio; oddieithr hyn, ſef fy mod yn myned yn waeth waeth, ac yn cyffroi dy amynedd fwy fwy, er fod pob ymddangoſiad newydd o honi, yn fwy fwy rhyfeddol.

'O fel yr wyf yn ſynnu, fod dy ddioddefgarwch etto 'n parhau! Yr achos o hyn yw, dy fod di 'n *Ddaw* ac nid *dyn* (f). Pe buaſwn i, abwydyn pechadurus, yn cael fy annog yn llyn, nis gallaſwn ei ddioddef. Pe buaſwn i 'n dywyſog, myfi roddaſwn gyfiawnder er ys llawer dŷdd yn erbyn gwrthwynebwr, beiau pa un, ni headdaſent eu cyffelybu i'm beiau i. Pe tâd a fuaſwn, mi fwriaſwn ymaith er ys amſer hîr y cyfryw blentyn anniolchgar, yr hwn a ymddygaiſai tuag attaf, fel ac y bu i mi ymddwyn tuag attat ti trwy fy holl fywyd,

(f) Hoſ. xi. 9.

'fywyd, *tâd yr yſbrydoedd!* Fe fuaſai 'r fflâm o 'ſerchiadau naturiol wedi diffodd; ei enw, a'r 'olwg arno, fuaſai 'n ffieidd gennyf. Pa ham 'gan hynny, O Arglwydd, nad wyf fi wedi fy 'mwrw allan o'th olwg (g)? Pa ham na chaewyd 'fi fynu dan farn ddigyfnewid i ddiſtryw? Dy 'dynerwch di yw 'r achos fy mod i 'n fyw. 'Ond, O Arglwydd, os oes etto ffordd o ym-'wared, os oes etto unrhyw obaith i'r fath grea-'dur euog, boed iddi ymagor i mi trwy yr efen-'gyl a'th râs! Ac os oes ychwaneg o gyffroad, 'dychryn, ac o oſtyngeiddrwydd yn angenrheidiol 'er fy niogelwch a'm hiechydwriaeth, boed i mi 'gyfarfod â hwynt, a'u dioddef hwynt oll! Clwyfa 'fy nghalon, O Arglwydd, os bydd i ti wedi 'hynny ei hiachau; boed i ti ei dryllio, os bydd 'i ti yn y diwedd ond ei meddyginiaethu (h).'

PENNOD V.

Y Pechadur yn cael ei ddioſg o'i ddadleuon ofer.

§ 1. YN fy ymddiddan diweddaf, mi adawais y pechadur mewn amgylchiad dychrynadwy a thruenus; ſef, yn ddrwgweithredwr euog wrth orfedd Duw, wedi ei ddioſg o bob rhyw beth ac oedd ganddo yn cael ei gyfrif yn ufudd-dod dibechod, ac yn berffaith ddiniweidrwydd, ac felly yn agored i farn y gyfraith ſanctaidd, yr hon ni wnai lwfio dim am unrhyw droſedd, hyd yn oed y lleiaf; ond ſy 'n cyhoeddi melldith, a marwolaeth, yn erbyn pob gweithred o anufudd-dod: A pha faint mwy, yn erbyn y mawrion a'r anneirif weithredoedd o wrthryfel-

D garwch

(g) Jer. lii. 3. (h) Hoſ. vi. 2.

gârwch, pa rai, O bechadur, y mae 'th gydwybod di yn dy euog-farnu o flaen Duw o'ũ plegid? Mi obeithiaf y bydd i rai o'm darllenwyr mewn modd oneſt blygu dan yr argyhoeddiad, heb feddwl gwneuthur unrhyw amddiffynniad: Canys yr wyf yn ſicr, mai gwaeddi *euog*, wrth orfeddfaingc Duw, yw 'r peth mwyaf gweddus, ac ar y cwbl, y peth doethaf ac ellir wneud yn y fath amgylchiad anhappus. Er hynny, mi a adwaen *dwyll*, a hunan-weniaeth y galon bechadurus a llygredig. Mi a wn pa ryw eſguſodion mae hi yn eu gwneuthur, a pha fodd wedi ei gyrru allan o un *noddfa*, y mae hi yn ffoi i un *arall*, i'r diben o ſicrhau ei hun yn erbyn argyhoeddiad; ac felly i geiſio perſwadio, nid yn unig arall, ond ei *hunan*, 'Cs bu hi mewn rhai pethau i'w beio, etto nid yn gymmaint ac y goſodwyd allan: I fod yſtyriaethau yn pledio o'i thu, pa rai o leiaf, os ni allant ei chyfiawnhau, a allant ei heſguſodi.' Dirgel eſguſodion o'r fath hyn, er nad ydynt wedi eu llunio i neillduol yſtyriaethau, ydynt er hynny, yn torri grym argyhoeddiad, ac yn mynych attal dyfn ymoſtyngiad o flaen Duw; yr hyn yw 'r arwydd mwyaf neillduol o fod dihangfa 'n agos. Mi gâf gan hynny, chwilio ychydig i mewn i'r pethau hyn; ac i'r diben hynny, mi ewyllyſiwn ofyn yn ddifrifol i ti, O bechadur, pa beth ſydd gennyt *ti* i bledio yn erbyn y farn? Pa beth ſydd gennyt i ddywedyd droſot dy hun, i broſi na ddylai barn Duw gael ei chyhoeddi allan yn dy erbyn, ac na ddylit ſyrthio yn llaw cyfiawnder?

§ 2. OND hyn a ddywedaf ym mlaenllaw, nid fy ngofyniad yw, pa fodd yr attebit *i mi*, bryfyn gwan a phechadurus, fel dy hunan, pa un raid ar fyr ſefyll gyda thi wrth yr un faingc *(rhodded yr Arglwydd i mi gael trugaredd gan yr Arglwydd*

Arglwydd yn y dŷdd hwnnw (i)*!* Ond pa beth a attebi di i'r barnwr mawr? Pa beth ellit ddywedyd pe bait yn awr o flaen ei orſeddfaingc; ym mha lê, ni wnai amlhau geiriau ofer, a llunio eſguſodion gwâg, ond ychwanegu at dy euogrwydd? Diammau yw, fod y *meddwl* o ymddangos yn ei wydd, yn diddymmu miloedd o'r eſguſodion diſylwedd, ac ſydd yn awr yn twyllo y genhedlaeth, pa un ſydd lân yn ei golwg ei hunan, *er ei bod heb ei glanhau oddiwrth ei haflendid* (k): Neu tra maent yn profi eu bod yn afian, ydynt yn ymddiriaid mewn geiriau ni wnaet lês (l), ac yn *hyderu ar ffon gorſen ddrylliedig* (m).

§ 3. Mi obeithiaf yn ſicr, na fydd i ti yn y fath amgylchiad ddywedyd, 'Mi ddiſgynais o rieni duwiol.' Yr ydoedd hynny 'n wîr yn rhagorfraint; a gwae di, ddarfod i ti gamddefnyddio r cyfryw un, *a gwrthod Arglwydd Dduw dy dadau* (n). Fe ddaeth *Iſhmael* o lwynau *Abraham*, cyfaill Duw; ac *Eſau* oedd fâb i *Iſaac*, pa un a nwyd yn ol yr addewid: Etto ti wyddaiſt iddynt gael eu torri ymaith oddiwrth y *fendith*, i ba un barnaſent fod ganddynt fath dreftadol hawl. Ti elli weled a chofio, fod ein Harglwydd nid n unig yn llefaru am un ac allaſai alw *Abraham* n dâd, yr hwn oedd er hynny yn y fflammau (o); ond hefyd yn cyhoeddi mewn modd diamheuol y bydd i lawer o blant y *deyrnas* gael eu au allan o honi; a thra bo eraill o rannau pella r bŷd yn dyfod i eiſtedd i lawr ynddi, hwyntwy gânt eu gwahaniaethu oddiwrth eu cymeithion mewn trueni, trwy ſcrechau o alarnad wch, a rhingcian dannedd mwy cynddeiriog (p).

) 2 Tim. i. 18. (k) Diar. xxx. 12. (l) Jer. vii. 8. (m) Eſay xxxvi. 24. (n) Cron. vii. 22. (o) Luc xvi. 24. (p) Mat. viii. 11, 12.

§ 4. NI bydd i ti 'r pryd hynny ddadleu gan ddywedyd, 'Mi ymarferais fy meddyliau yng-hylch y rhannau nosionol o Grefydd:' Canys i ba ddibeh, oddieithr ychwanegu at dy ddamnedigaeth! Gan i ti dorri cyfraith Dduw, a gwrthddywedyd y rhwymedigaethau mwyaf eglur o Grefydd; ym-resymmu, a bod yn ymosyngar yn ei chylch, fy 'n amgylchiad ac a brawf fod dy bechod yn fwy haerllug, a'th euogrwydd yn waeth. Pa beth? a feddyliaist ti nad oedd Crefydd wedi ei rhoddi i ddim ond i ymarfer y *deall* yn unig, ac felly fod yn foddion i ddifyrru cywreinrwydd dynion? Pe buasit yn ymresymmu yn ei chylch oddi wrth egwyddorion synwyr naturiol, rhaid fuasai i ti i farnu a phrofi ei bod yn beth *ymarferol:* Ac os felly, pa ham nas ymarferaist hi? Ti adweinit y canghennau neillduol a berthynent iddi: Pa ham gan hynny na sylwaist ar bob un o honynt? Pe gellit bledio anwybodaeth *anhepgorol*, dyna 'r pe goreu i ti wneud; ïe hyd yn oed anwybodaeth gwirfoddol fuasai 'n lleihau 'th euogrwydd mewn rhyw ran. Ond os (yn ol dy gyfaddefiad dy hun) *gwyddit feddwl dy feistr, ac nis gwnaethoc* yr ydwyt yn dwyn tystiolaeth yn dy erbyn dy hun, sef dy fod yn haeddu *cael dy guro â llawer o ffonnodiau* (q).

§ 5. NI leihâ i ti ddywedyd, ym mhellach 'Mi iawn-gredais athrawiaethau a gorchymmyn-ion yr efengyl:' Canys yr ydoedd yn haws i hynny i ti *ymarferyd* â hi: Ond iawn-ddeall, a iawn-ymarfer, ni ymddangosant byth yr un pet ym marn Duw, na dynion. Yn dy waith y credu fod un Duw, yr oeddit yn gwneuthur y dda; ond mae 'r *cythreuliaid hefyd yn credu, a yn crynnu* (r). Da 'r oeddit yn gwneud i addo fod Crist yn fâb, ac yn sanct Duw; ond gwe fo

(q) Luc. xii. 47. (r) Jago ii. 19.

ſod yr yſbrydion aſlan yn addeſ yr un peth (s), ac er hynny *maent mewn cadwynau tragywyddol, dan dywyllwch, i farn y dydd mawr* (t). Ac a fydd i ti ddirgel orphwys ar yr *hyn* ac allai 'r yſbrydion uffernol i ddadleu yn gyſtal a thitheu? Na atto Duw.

§ 6. Ond ſe allai y bydd i ti ddadleu 'I ti *wneuthur* rhyw beth mewn Crefydd.' Wedi barnu beth oedd iawn-grêd, a pha eglwys oedd buraf yn ei haddoliad, 'Ti a roddaiſt dy hun i'r gymdeithas, llê 'r oedd erthyglau gwîr ffydd yn cael eu proffeſu, a'r ffurfiau o addoliad mwyaf pur yn cael eu harfer; ymmyſg y cyfryw, ti ragoraiſt ar lawer, trwy gadw 'n fanwl ac aſtud at dy lê, trwy 'th zêl yn achos y cyfryw gymdeithas, a thrwy 'th waith yn dadleu mewn modd difrifol, dros y cyfryw egwyddorion ac ymarferion.' O bechadur, yr wyf yn ofni i'th zêl hon, ynghylch pethau *amgylchiadol* mewn Crefydd, i chwyddo dy gyfrif, yn hytrach na 'i leihau: Eſe, 'r hwn ſy 'n gweled dy galon, a wyr o ba le tarddodd, a phwy mor belled yr ymdannodd. Mae efe o boſſibl yn gweled, nad yw 'r cwbl ond *rhagrith*; ie, llen gyfrwys tan ba un yr oeddit yn dwyn ym mlaen dy ddibenion gwael, am bethau 'r *byd hwn*; a hynny, tra 'r oedd enw ſanctaidd Duw, a Chrefydd, yn cael eu cablu a'u ſathru, yn y modd mwyaf ffiaidd: Ac os felly, yr ydwyt yn neilldyol felldigedig, am dy waith fel hyn yn taflu *dirmyg* mor hŷ ar hollwybodaeth, yn gyſtal a chyfiawnder Duw. Neu mae 'n boſſibl nad oedd y difrifwch, trwy ba un yr oeddit yn ymdrechu dros y ffydd a'r addoliad, a rodded unwaith i'r ſaint (u), neu 'r hyn oeddit ti yn fyrbwyll yn gyfrif yn ddifrifwch, ond balchder a chwerder yſbryd: A'r holl zêl a ddangoſaiſt, f'allai iddi gyfodi

(s) Luc iv. 34. (t) Judas adnod 6. (u) Judas 3.

oddiar ormod hyder ar dy ddealltwriaeth dy hun, neu 'th waith yn methu dioddef dy wrthddywedyd, neu ynte oddiwrth ryw ddrwg yſbryd ac oedd yn dirgel hyfrydu mewn barnu, ïe herlid eraill; pa un (os dioddefwch yr ymadrodd) ſy 'n creulon *ymborthi ar Grefydd*, fel y creadur yſglyfaethus ar yr oen; ac felly, yn newid ei hanian i'r hyn ſy 'n hollol wrthwyneb iddi ei hun. Ac a fydd i'r fath beth dy amddiffyn di o flaen y barnwr mawr? Oni bydd yn hytrach yn achos o gyffroi ei lîd?

§ 7. ER dy fod yn bwriadu pethau rhagorol trwy 'r gyfryw zêl dros dybiau a ffurfiau; a'i bod hefyd wedi ei iawn lywodraethu; etto ni thâl hi ddim i'w goſod mewn cyferbynniad i'th aml eſgeuluſtra a'th anuſudd-dod; pa rai a 'ſcrifenwyd yn dy erbyn yn llyfr coffadwriaeth Duw. Barna fod athrawiaethau dadguddiedig yr efengyl i gael eu difrifol amddiffyn (fel y dylent yn wîr) ac a oedd y mawr ymarferol ddiben i ba un y dadguddiwyd hwynt i gael ei anghofio oblegid hynny? Pa beth, *degymmu 'r mintis a'r anys, a'r cwmin, a gadael heibio bethau trymmach y gyfraith* (w); hyd yn oed y cariad hynny at Dduw, yn ofynol yn ei gorchymmyn cyntaf (x)? Ch pa fodd y gelli gyfiawnhau y farn fwyaf uniawn a roddaiſt yn erbyn eraill am eu hangrhediniaeth neu eu hanufudd-dod, heb gael dy farnu allan o'th *enau dy hun* (y)!

§ 8. A FYDD i ti gan hynny etto ddadleu'n *ſoeſoldeb*, a'th weithredoedd o *gyfiawnder a thrugaredd?* Pe buaſai 'th ufudd-dod i gyfraith Dduw yn berffaith, fe fuaſai 'th ddadl yn dderbyniol, fel peth o bwys. Ond mi a brofais uchod, fod cydwybod yn tyſtio i'r gwrthwyneb; ac nis beiddi di yn awr ei gwrthddywedyd. Ym mhellach, pe buaſai 'r gweithredoedd ar ba rai yr ydwyt yn gorphwys,

(w) Mat. xxiii. 23. (x) Mat. xxii. 38. (y) Luc xix. 22.

gorphwys, yn tarddu oddiar *wîr gariad tûag at Dduw*, a gwîr *ffŷdd yn Jeſu Griſt*, ni buaſit yn meddwl eu dadleu hwynt i unrhyw ddiben amgen, nac *amlygiad* o'th *hawl* yng nghŷfammod yr eſengyl a'i ſendithion, pa rai a bwrcaſwyd trwy gyfiawnder a gwaed ein prynwr: A phe buaſai 'th ffŷdd yn ddiffuant, ſe fuaſai 'r fath ddyfn ymoſtyngiad yn cyd-fyned â hi, ac hefyd y fath olwg ar burdeb a gogoniant Duw, ſel yn lle dadleu dy weithredoedd o'i flaen, y buaſit yn gorfod begian maddeuant am y *cymmyſgedd* o bechadurus amherffeithrwydd ac oedd yn cyd-fyned â'r goreu o honynt. Yn awr gan dy fod yn ddieithr i'r fath egwyddor oſtyngedig a ſanctteiddiedig (fel yr wyf yn barnu dy fod) mae 'n hollol angenrheidiol, i ddywedyd wrthyt, nas gall *cymhedroldeb*, *uniondeb*, na *dynoldeb*, dy gyfiawnhau ger bron Duw, pan goſodo *farn wrth linin*, *a chyfiawnder wrth bwys* (z) yn dy erbyn; a phan y chwilio dy holl weithredoedd a'th holl feddyliau yn y modd mwyaf manwl. Fe allai na buaiſt na meddwyn, godinebwr, na lleidr; a da yw 'r peth. Rhaid i ti ſefyll o flaen y Duw cyfiawn, yr hwn a wna gyfiawnder; ac felly, nis barn efe di am fedd-dod, godineb, na lledrad. Ond ti a'i hanghofiaiſt ef, dy wneuthurwr a'th gymmwynaſwr; *ti a dorraiſt ymaith ofn*, *ac a attaliaiſt weddi ger ei fron ef* (a); ti ddiyſtyraiſt *waed* ei anwyl fâb, a'r holl fendithion a bwrcaſodd efe. Ac am yr hyn a ymddangoſodd yn dy dymmer a'th ymarweddiad, yn debyg i rinwedd a dynoldeb, fe 'u gwobrwywyd mewn meſur, yn yr ymarferiad, os oeddynt ddim yn well na *ffurf a lliw*; ac yr oedd amryw ddoniau rhagluniaeth i ti, ymmyſg dy aneirif bechodau, yn fîl o weithiau 'n fwy eu gwerth na'r holl ammherffaith rinweddau ac oedd ynnot ti. Yr

(z) Eſay xxviii. 17. (a) Job xv. 4.

ydwyt gan hynny yn fefyll yn euog o filoedd o bechodau, dros ba rai, nid oes gennyt un eſgus i'w roddi; er diange rhag rhai pechodau gwaradwyddus. Ni bydd i'r gweithredoedd gan hynny, ar ba rai yr ydwyt yn gorphwys, i'th gyfiawnhau di ger bron Duw, mwy nac y byddai i haelioni dŷn at ei *gymmydog* i'w ryddhau, pan oedd wedi ei farnu 'n euog o fradwriaeth yn erbyn ei *lywydd*.

§ 9. OND fe allai dy fod yn barod i atteb, a dywedyd, 'Nid oeddwn i ddim yn meddwl fod y canlyniadau o eſgeuluſo Crefydd mor ddinyſtriol.' Pa fodd nad oeddit? Pa fodd na holaiſt yn fwy manwl a diduedd? Pa ham y dioddefaiſt i falchder ac ynfydrwydd dy galon i ymfoddloni yn y fath dwyllodrus ymddangoſiadau, a dychymmygion dy feddwl rhagfarnllyd, yn wrthwyneb i eglur dyſtiolaeth gair Duw? Pe buaſit yn yſtyriaid yr Arglwydd fel penllywydd y bŷd, fe fuaſai 'r angenrheidrwydd o ddŷdd barn yn ymddangos i'r diben o wobrwyo dynion. Pe gwrandawſit ar lais yr yſcrythur, dwyfol awdurdod pa un wyt yn proffeſu ei gredu, fe fuaſai pob rhan o honi yn dy ddyſgu i ddiſgwyl am y fath ddŷdd. Yr wyt yn dywedyd 'Nas meddyliaiſt am Grefydd.' Am ba beth yr oeddit yn meddwl, pan yr anghofiaiſt ac yr eſgeuluſaiſt hi? Oedd gennyt ormod o bethau eraill i feddwl am danynt? Pa ryw bethau attolwg? A oedd rhyw ddiben yn dy olwg o gyffelyb bwys? Y mae cydwybod yn dywedyd er dy holl ofalon, fod dy fywyd a'th amſer yn faich arnat, o eiſiau cymmeryd pleſer ar amſerau mewn *myſyrdod:* Er hynny yr oeddit yn gwilied rhag y fath beth fel rhag dy elyn, yr hwn fuaſai 'n ceiſio 'th oreſgyn ar bob tu. Fe wyddei Duw dy fod yn anyſtyriol, ac am hynny yr anfonodd attat *orchymmyn ar orchymmyn, llin ar lin* (b); mewn iaith

(b) Eſay xxviii. 10.

iaith mor eglur, fel ac y gellit yn hawdd ei deall. Fe 'th brofodd hefyd trwy gyſtuddiau yn gyſtal a thrugareddau, i'r diben i'th ddeffroi o'th gyſgadrwydd dinyſtriol: Ac er dy ddeffroi, yr ydwyt yn chwennych gorwedd drachefn ar y gwely o ddiogi. Ac er mor ddymunol yw 'th freuddwydion yn awr, cofia, *mewn gofid y gorweddi* (c). Myfyrdod o'r diwedd a'th oddiweddodd, a rhaid gwrando ar y gydwybod yn awr fel poenwr, gan na wrandawſit arni gynt yn llefaru fel cyfaill.

§ 10. Ond mae 'n boſſibl y tybia rhai fod un amddiffynniad o fawr bwys etto heb ei glywed, ac i fod llê i ddywedyd am bechaduriaid, 'fod eu *hanian* yn eu gyrru o angenrheidrwydd at y pethau ac ſy 'n cael eu rhoddi yn eu herbyn yn awr fel beiau; pan nad oedd yn eu gallu hwynt i gilio rhagddynt yn y fath amgylchiadau ac yr oeddynt.' Os yw 'r fath eſgus yn dda i ddim, mae 'n eglur ei fod yn *addo* gormod; yr hyn ſy'n ei wneuthur yn gwbl ddilês. Pe bawn yn atteb yn ol dy egwyddorion ynfyd dy human, mi allwn brofi, fod yr yſtyriaethau, pa rai a 'th *rwymodd di i droſeddu*, hefyd yn *rhwymo Duw i goſpi*; ac nis gall ef lai na choſpi. Ym mhellach, mi allwn ddywedyd gydag yſcrifennydd rhagorol * yn yr oes hon, 'fod y cyfryw bethau ac ſy 'n diſtrywio *anghyfiawnder pechod*, hefyd yn diſtrywio *anghyfiawnder y goſp am bechod*.' Ond er hyn oll, mae 'n boſſibl i ti atteb, ei fod yn anghyfiawnder i'th goſpi di am weithred, yr hon oedd yn amhoſſibl ei gochelyd; ond trwy 'r fath atteb, yr ydwyt yn gwrthddywedyd dy hun, fel ac y ſylwais uchod. Gâd i gydwybod i farnu, pa fath athrawiaeth ſyddai honno, ac a farnai *bob rhyw goſp yn anghyfiawn*, pa un bynnag ai dwyfol neu ddynol

(c) Eſay l. 11.

* Bp. of Briſtol's Analogy, &c. p. 135. 8vo Edition.

y fo. 'Rwyf yn ſicr pe bai un o'th weiſion yn dy 'ſpeilio, ac yn lloſgi 'th dŷ, nas gellit ddim credu 'n dufewnol, ei fod yn rhwym i wneud felly; nis gellit feddwl wrth ei waith yn dywedyd, 'Nis gallaſwn lai,' ei fod ef gan hynny 'n ddifai ac yn haeddu dim coſp. 'Rwyf yn credu 'th fod mor belled ò ryfygu dwyn y fath eſgus ger bron Duw yn y dŷdd mawr, fel nas gelli anturio ymorphwys arno 'n awr mewn gweddi. Dychymmyg dy fod yn gweled drwgweithredwr yn marw â'r fath eiriau a hyn yn ei enau; 'O Dduw, mae 'n wîr i mi 'ſpeilio a llâdd fy nghydgreaduriaid; ond ti wyddaiſt fod fy amgylchiadau i wedi eu trefnu yn y fath fôdd, fel nas gallaſwn wneuthur yn amgen: yr oedd fy ewyllys wedi ei thueddu mewn modd anwrthwynebol, trwy 'r annogaethau pa rai oſodaiſt ti ger fy mron; a chyſtal y gallaſwn yſgwyd ſylfaenau 'r ddaiar, neu dywyllu 'r haul yn y ffurfafen, a gwrthwynebu 'r cymmhelliad ac oedd yn fy ngyrru ymmlaen. Yr wyf yn gofyn i'th gydwybod, oni fyddai i ti edrych ar y fath araeth atgas, fel un mawr ddrwg yn cael ei chwanegu at y lleill. Etto, os byddai 'r fath eſgus o bwys yn dy enau di, fe fyddai o gymmaint yn ei enau ynte; ac fe fyddai 'n iawn ei wneud ar bob rhyw achos. Ond mae hyn mor groes i reſwm, fel nas gallaf feddwl y bydd i un dŷn yn drwadl, ac mewn modd difrifol, ei gredu; ac mi feddyliwn fod yr amſer yn cael ei gam dreulio yma, pe rhoddwn fy hun i ymladd â'r cyfryw ac ſy'n llunio rhyw fath o reſymmau dros y fath eſgus, ac yn ceiſio 'u teccau trwy dwyll, a nwyfiant natur.

§ 11. Ti weli gan hynny, O ddarllenydd, wagder dy holl eſguſodion, a phwy mor hawdd i ddŷn marwol fel dy hunan, i roddi taw ar y gorau o honynt oll: Pa faint hawſach gan hynny iddo ef

ef, yr hwn fy 'n chwilio 'r calonnau, ac a allai mewn munud, beri i'r argyhoeddiad mwyaf grymmus ac anwrthwynebol, i fflamychu ar y gydwybod? Pa beth elli wneuthur, pan fych yn fefyll yn euog o flaen Duw? Pa beth a ddyliit wneuthur 'n awr ond fefyll yn fûd dan deimlad o'th euogrwydd aneſguſodol, a pharottoi dy hun i glywed y ſentens, yr hon mae ei gyfraith yn ei chyhoeddi i'th erbyn. Rhaid i ti ddioddef y cyflawniad o honi, os na bydd i'r efengyl i'th waredu; rhaid i ti deimlo rhan o'i dychryn, cyn y bo i ti gael dy gyffroi i ymofyn am waredigaeth trwy 'r efengyl.

Myfyrdod *y Pechadur a euogfarnwyd, yn rhoddi heibio 'i Eſguſodion dilês ger bron Duw.*

'O Gyflwr truenus i ba un i'm dygwyd! 'Mi a bechais; pa beth a wnâf i ti, O 'geidwad dŷn (u)? Pa beth a feiddiaf ddywedyd? 'O! 'r fath ynfyd oeddwn, gan i mi ddifyrru 'fy hun â'r fath eſguſodion ofer, a meddwl y 'byddent o bwys yn dy breſennoldeb ofnadwy 'di; i mi dybiaid y gallwn eu crybwyll hwynt 'yno! O nis gallaf ryfygu eu henwi. Yr ydwyf 'yn fûd, ac wedi fy ngywilyddio. Och! mae fy 'ngobaith wedi darfod, ac mae fy enaid ei hun 'yn barod i drengu, mor belled ac y mae 'n 'boſſibl i enaid anfarwol felly fod: Ac yr ydwyf 'yn barod i ddywedyd, O na allwn hollol farw! 'Yr ydwyf yn greadur euog yn llaw cyfiawnder, 'gwedi fy nghwbl ddioſg o'r arfau i ba rai yr 'ymddiriedais. Ni wna rhagrith ond rhoi annog 'aeth at annogaeth i gyffroi dy lîd. Mi addefaf 'gan hynny fy mai yn rhŷdd ac yn eglur. Mi 'weithredais, fel pe tybiaſwn fod *Duw 'n gwbl fel 'fi fy hun:* Ond efe a ddywedodd, *mi a'th argy-*

(d) Job vii. 20.

'*oeddaf ac a drefnaf dy bechodau o flaen dy lygaid* (e). O pa ryw ddychrynllyd lu maent yn ymddangos! Ac O fel maent yn fy amgylchynu fel mad oes posſiblrwydd i ddiangc rhagddynt! O fy enaid! yr ydwyt megis carcharor ganddynt; ac maent yn dy ddwyn ymaith tuag at orſeddfaingc barn.

'RHAID i ti ymddangos o'i blaen! Rhaid i ti ſefyll ger bron yr ofnadwy a'r tragywyddol farnwr (f), yr hwn a brawf hyd yn oed yr arennau; ac ni raid iddo wrth dyſt arall, canys yr oedd ef ei hun yn gwybod, ac yn dyſt o'th holl wrthryfelgarwch (g). Ti gai ei weled ef, O fy enaid! yn eiſtedd mewn barn yn dy erbyn: A phan *graffo ar anwiredd* (h), pa fodd yr attebi iddo am *un o fil* (i)! Ac os ni elli atteb iddo, ym mha ryw iaith y llefara fe wrthyt! O Arglwydd, wrth yſtyriaid fy nghyflwr preſennol, nid oes gennyf lê i ddiſgwyl am ddim ond barn! A pha ryw farn! O fy enaid! myfyria arni; darllen dy ſentens cyn y bo i ti glywed ei chyhoeddi mewn modd anghyfnewidiol yn dy erbyn! Mi wela 'r farn yn 'ſcrifenedig yn llyfr Duw, ac mi wela fod y datguddiad o honi wedi ei roddi i ddibennion graſlawn. Mi wela fod y mawrhydi nefol am ein deffroi, rhag ein diſtrywio. Llefara wrthyf fi gan hynny, O Dduw, tra yr ydwyf ar derfynau gobaith. Llefara mewn modd dychrynadwy ac effeithiol, ond boed i ti 'm gwared rhag hollol anobaith. A boed i'th air (er poeni yn ei weithrediadau) fod fel cleddyf llym dau-finiog (k). Na âd i mi ofer wenieithio i mi fy hun: Na âd fi yn yſclyfaeth i'r cyfryw rai ac ewyllyſiant i brophwydo i mi *ſiommedigaeth* (l), hyd oni bo i mi

'gael

(e) Salm l. 20. (f) Jer. xvii. 10. (g) Jer. xxix. 23. (h) Salm cxxx. 3. (i) Job ix. 3. (k) Heb. iv. 12. (l) Eſay xxx. 10.

'gael ſy *nghaead* i fynu dan ddigofaint, a theimlo 'cyfiawnder yn trywanu fy enaid, a *gwenwyn dy* 'ſaethau di yr Hollalluog yn yſed i fynu fy yſbryd (m).

'Cyn y caffwyf neillduol olwg, mi wn mai 'peth ofnadwy yw ſyrthio yn nwylaw 'r Duw byw '(n). O Dduw, yr ydwyf mewn rhan yn barod 'wedi ſyrthio i'th ddwylaw. Yr ydwyf yn agored, 'yn gyfiawn agored i'th anfoddlonrwydd; a pha 'beth bynnag fo 'th farn pan ddelo allan yn y 'diwedd oddi ger dy fron (o), rhaid i mi gon-'demnio fy hunan, a'th gyfiawnhau di. Nis gelli 'ymddwyn tuag attaf mewn modd mwy creulon 'nac y mae fy anwireddau 'n haeddu: A phwy 'chwerwed bynnag fo 'r *cuppan erchyll* (p), pa 'un a drefnaiſt i mi, yr ydwyf yn euogfarnu fy 'hun, ac yn addef fy mod yn haeddu cael 'gwaſgu allan, ac yſed ei waelodion (q).'

PENNOD VI.

Y Pechadur yn cael ei euogfarnu.

§ 1. GWRANDO, O bechadur, ac mi lefaraf unwaith etto yn enw Duw, yn enw Duw dy hollalluog farnydd; yr hwn, oni wrandawi ar lais ei weiſion, a lefara ar frŷs wrthyt mewn modd mwy digyfrwng, ac mewn modd mor bwerol a dychrynnadwy ac y bydd yn rhaid i ti wrando.

§ 2. Ti a euog-farnwyd megis ger ei fron, a'th eſguſodion a aethant yn ddilês. Mae 'n eglur o flaen Duw, yn eglur o flaen dy gydwybod hefyd,

(m) Job vi. 4. (n) Heb. x. 31. (o) Salm xvii. 2.
(p) Eſay li. 17. (q) Salm lxxv. 8.

hefyd, nad oes gennyt ddim i ddywedyd yn ychwaneg yn erbyn gafaeliad y farn; gan hynny gwrando 'r ſentens, a galw ar holl bwerau 'th enaid i edrych a ellì ddioddef y cyflawniad o honi. Gwîr yw, cael ein barnu gan farn *dŷn*, ſydd beth bychan; ond efe 'r hwn ſy 'n dy farnu di yw 'r Arglwydd (r). Gwrando gan hynny a chryn, tra bwyf yn goſod ger dy fron yr hyn a ddywed wrthyt; neu 'n hytrach, tra dangoſwyf allan trwy eglur yſcrythurau, yr hyn mae efe yn ei ddywedyd wrthyt yr awr hon; efe, 'r hwn a ddywedodd yr â 'r *nêf a'r ddaiar heibio, ond nid â un jot nac un tippin o'r Gyfraith heibio* (s).

§ 3. Nid yw cyfraith Dduw yn llefaru wrthyt *ti* yn unig, O bechadur, ond yn yr iaith mwyaf helaeth wrth ei holl droſeddwyr; ac y mae hi 'n cyfeirio 'i bygythion yn erbyn pob rhyw droſedd; mawr a bâch, heb *arbed un*. A dyma 'i llais, Melldigedig yw pob un nid yw 'n aros yn yr holl bethau 'ſcrifennwyd yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt (t). Hyn y mae hi 'n gyhoeddi uwch ben yr holl fŷd; a hyn mae hi 'n gyhoeddi uwch dy ben *di*, O bechadur. Mae 'n perthyn i ti 'n berſonol, O ddarllenydd, i yſtyriaid ei hofnadwy gynhwyſiad; ac mae 'th gydwybod yn addef hyn. Mor belled wyt o aros yn yr holl bethau 'ſcrifennwyd ynddi i'w gwneuthur hwynt, fel nas gelli lai na theimlo, fod *drygau anifeiriol wedi 'th amgylchynu o amgylch* (u). Mae 'n eglur am hynny mae tydi yw 'r dŷn mae hi 'n ei farnu; melldigedig ydwyt trwy felldith (w); trwy felldith y Duw goruchaf: Mae hyd yn oed yr holl felldithion a 'ſcrifennwyd yn llyfr y gyfraith wedi eu cyfeirio i'th erbyn (x). Fe all Duw, a hynny 'n gyfiawn, eu goſod i'th ran y funud hon;

(r) 1 Cor. iv. 3, 4. (s) Mat. v. 18. (t) Gal. iii. 10.
(u) Salm xl. 12. (w) Mal. iii. 9. (x) Deut. xxix. 20.

hon; ac er nad ydwyt yn awr yn teimlo 'r un o honynt, etto os ni bydd i anfeidrol drugaredd i attal, mae 'r amſer ar ddyfod, pan ddelont *i'th berfedd fel dwfr, ac fel olew i'th eſgyrn* (y).

§ 4. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, *Yr enaid a becho, hwnnw a fydd farw* (z); tydi a bechaiſt, ac am hynny yr ydwyt dan ſentens marwolaeth. O greadur anhappus, pa ryw farwolaeth! Pa beth fydd diwedd y pethau hyn? I orfod dioddef gloefon pa rai a'th gylchynant ar ollyngdod natur; i'th enaid orfod cael ei thorri ymaith oddiwrth dy gorph egwan, a thithau ddychwelyd i'r prîdd o ba lê 'th gymmerwyd (a), ſy 'n ofnadwy effeithiau pechod: A thrwy 'r pethau hyn y dangoſodd Duw, trwy holl genhedlaethau ac oeſoedd y bŷd, ei gyfiawn anfoddlonrwydd yn ei erbyn. Ond och ddŷn! Nid yw dychrynfeydd marwolaeth, ond megis agoriad drws, i fwy ofnadwy olygiadau. Nid ydynt ond megis trwm ergyd trwy ba un mae 'r llyfytheiriau 'n cael eu tynnu ymaith, pan fo 'r carcharor euog yn caël ei arwain allan i'w arteithio.

§ 5. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, *Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern, a'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw* (b). Er bod o honynt deyrnaſoedd cyfain, ni bydd eu rhifedi na 'u gallu o un diben er eu hamddiffyn. Hwy gânt eu dychwelyd i uffern ynghŷd; i'r carchar hwnnw o dân, a barattôdd dwyfol ddialedd; i'r *tophet* a ddarparwyd er doe, hyd yn oed i bechaduriaid o frenhinol fawredd, yn gyſtal ac eraill; (pa beth a dal mawredd?) *efe a'i dyfnhaodd hi, ac a'i ehengodd; ei chynneuad ſydd dân a choed lawer; gnadl yr Arglwyad, megis afon o frwmſtan, ſydd yn ei hennyn hi* (c); ac fe fydd i'r ffrwd loſgedig i redeg iddi

(y) Salm cix. 18. (z) Ezec. xviii. 4. (a) Salm civ. 29.
(b) Salm ix. 17. (c) Eſay xxx. 33.

iddi mor gyflym, fel y bydd yn fuan, yn fôr o dân berwedig; neu fel y dywed yr yſcrythur, *yn llyn ſy 'n lloſgi â thân a brwmſtan yn oes oeſoedd* (d). Dyma 'r ail farwolaeth; a'r farwolaeth, i ba un yr ydwyt *ti*, O bechadur, yn agored, medd gair Duw.

§ 6. A fydd i'r farn a rowd arnat, ſefyll ar lyfr Duw 'n ofer? A fydd i'r gyfraith a'r efengyl eu chyhoeddi, ac heb byth gael eu chyflawni? A fydd i Dduw byth ddwyn i ben y goſp? O bechadur, fe dery, er ei fod yn oedi dros amſer. Canys ti a wyddaiſt yn dda iddo oſod diwrnod, ym mha un y barna efe 'r holl fŷd mewn cyfiawnder, trwy y gŵr a ordeiniodd efe, gan roddi llawn ffŷdd i bawb, o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddiwrth y meirw (e). A phan farno Duw 'r bŷd, O ddarllenydd, pwy bynnag wyt, y pryd hynny 'th fernir *dithau*. *A chan wybod ofn yr Arglwydd* (f), mi chwennychwn ymdrechu yn y modd mwyaf eglur ac oneſt, i wared fy enaid fy hun, a'th enaid dithau.

§ 7. Yr ydwyf gan hynny yn ail adrodd y rhybudd, gan ddywedyd wrthyt, O bechadur, fod yn rhaid i ti ſefyll o flaen brawdle Criſt (g). Ti gai weled yr ymddangoſiad gogoneddus; darluniad o ba un ſy wedi myned yn beth mor gyffredin gennyt, fel nad yw 'r adroddiad yn cael dim argraff ar dy feddwl. Ond cofia er mor gyſglyd ydwyt 'n awr, fe fydd i grôch-lef utgorn yr archangel i'th ddeffroi ac yſgwyd dy enaid: Ac os nad oes dim arall a'th ddihuna, di gai dy ddeffroi trwy 'r pangau a'r flammau ac fo 'n peri i'r greadigaeth i ymollwng. Duw a baro i ti ddihuno 'n gynt, ac a roddo i ti feddiannu ei iechydwriaeth.

§ 8. A

(d) Dat. xxi. 8. (e) Actau xvii. 31. (f) 2 Cor. v. 11.
(g) 2 Cor. v. 10.

§ 8. A wyt ti 'n hollol gredu mae unig ddiben Criſt pan yr ymddangoſo 'r dŷdd diweddaf, fydd galw ei bobl ei hun allan o'u beddau, a'u cyfodi i ogoniant a gwynfyd? Pa ſicrwydd bynnag ſydd gennyt, y bydd adgyfodiad i'r cyfiawn; mae yr unrhyw ſicrwydd wedi ei roddi, y bydd adgyfodiad i'r anghyfiawn (h). Wedi cyfodi 'r meirwon, y *barnwr d'yn didol bwynt oddiwrth eu gilydd, megis y didola 'r bugail y defaid oddiwrth y geifr* (i). Neu wyt ti 'n tybiaid, pan ddywedir, y bydd i'r *meirw fychain a mawrion ſefyll ger bron Duw* (k), nad oes i ni feddwl dim rhagor nac i fod ef yn bwriadu coſpi rhai pechaduriaid rhyfygus yn unig; ſef y ſa .' a wybuent feddwl eu Harglwydd &c. ac nis gwnaethant? Cofia iddo ef, yr hwn *ni wyby feddwl ei Arglwydd* (ac am hynny yn fwy eſguſodol) gael ei *guro*; er cael llai o ffonnodiau (l). Elli di feddwl y bydd i'r farn a gaffo ei chyhoeddi gyda 'r fath frenhinol fawredd; ſentens, trwy ba un yr amlygir cyfiawn farn Duw; a fydd hon meddi di yn ddi-fylwedd? Neu a fydd y goſp, i ba un y rhŷdd hi 'r pechadur, yn yſgafn? Oni buaſai llê i dybiaid hynny, pe gadawſai Duw ni wrth oleu rheſwm yn unig i yſtyriaid ei natur. Ond nid felly 'n gadawyd: Ein Harglwydd Jeſu Griſt, o'i anfeidrol ymoſtyngiad a'i doſturi, a welodd yn dda roddi i ni gopi o'r farn, (a diammau 'i fod yn gywir) ac mae 'r geiriau ſy 'n ei chynnwys, yn haeddu cael eu 'ſcrifennu ar bob calon. Y brenin (o ganol y gogoniant ym mha un yr ymddengys) a ddywed wrth y rhai ar ei ddeheulaw, *Dewch chwi fendigedigion blant fy nhâd, etifeddwch y deyrnas a barottowyd i chwi er ſeiliad y bŷd* (m)! A lle byddo gair y brenin, y mae gallu

(h) Actau xxiv. 15. (i) Mat. xxv. 32. (k) Dat. xx. 12.
(l) Luc xii. 48. (m) Mat. xxv. 34.

gallu (n). Ac mae gallu yn y geiriau hyn, ac fy 'n ddigon adfywio calon y criſtion goſtyngedig, yn y triſtwch mwyaf, gan ei lenwi â llawenydd *annhraethadwy a gogoneddus* (o). Cael eu galw 'n wynfydedigion yr Arglwydd! Cael eu galw i deyrnas! Cael eu galw i dragywyddol fwynhâd o'r fath deyrnas gyflawn, ogoneddus, ac mor hollol addas i atteb holl angenrheidiau creaduriaid a luniwyd ac a adnewyddwyd mor rhagorol, fel mai 'n ymddangos yn deilwng o ragderfynedig gyngor Duw ei pharottoi, ac o'i gariad i'w rhoddi i'w bobl! O pa fawrion freintiau! Wele obaith, ïe 'n wîr, gobaith gogoneddus a bywiol, i ba un i'n hadgenhedlwyd trwy adgyfodiad Jeſu Griſt oddiwrth y meirw (p), ac a weithiwyd trwy ſanctaidd ddylanwadau yſbryd Duw a'r ein meddyliau. Ond gobaith yw, oddiwrth ba un, O bechadur, yr ydwyt *ti* 'n breſennol wedi 'th gau allan: Ac mi feddyliwn i fod yn beth gofidus i ti orfod dywedyd, 'Criſt a lefara yn y graſol eiriau uchod wrth rai; ïe wrth dorfeydd, ond nid *wrthyf fi:* Nid oes dim gwynfydedigrwydd yn cael ei gyhoeddi i *mi*, nag un deyrnas wedi pharottoi ar fy medr.' Ai dyna 'r cwbl, O bechadur? Och nage; mae ofnadwy gyflwr yn y bŷd a ddaw yn wrthwynebol i wynfyd y ſaint. Ac mae 'n Harglwydd wedi amlygu pa beth a ddywedir wrthyt ti yn nŷdd barn, os arhoſi yn y cyflwr preſennol; wrthyt ti, ac wrth holl genhedloedd anedifeiriol ac angrhediniol y bŷd, er amled a gwyched y fyddont. Yr Arglwydd a ddywed wrth *frenhinoedd* y ddaiar a wrthryfelaſent yn ei erbyn; wrth y *gwŷr mawr a chyfoethog*; *y pen-capteniaid a'r gwŷr cedyrn*; *yn gyſtal a phob gŵr cacth a phob gŵr rhŷdd*, o ſefyllfa îs

(n) Preg. viii. 4. (o) 1 Pedr i. 8. (p) 1 Pedr i. 3.

îs (q); *ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barottowyd i ddiafol ac i'w angylion* (r). O bechadur, myfyria ychydig ar y geiriau pwyfig hyn, hyd oni bo i ti weled rhan o'u mawr gynhwyfiad.

§ 9. Fe ddywed EWCH ODDI WRTHYF: Ti gai 'th fwrw allan o'i wydd gyda chywilydd: O'i wydd ef, yr hwn yw ffynnon bywyd a gwynfyd: digrwydd; yn yr agofrwydd atto, mae tri golion y nefoedd yn llawenhau yn waftadol: rhaid i ti ymadael yn FELLDIGEDIG: Ti a dorraift gyfraith Dduw, ac mae ei melldith hi yn fyrthio arnat; yr ydwyt, ac a fyddi byth, dan y felldith honno. O'r dydd hwnnw allan fe fydd Duw a'i greaduriaid yn edrych arnat fel peth atgas, a'r peth mwyaf truenus a ffieidd yn yr holl greadigaeth! Rhaid i ti fyned ymaith i'r TAN: Ac O! yftyria i ba fath dân! Ai rhyw ffiam angerddol, pa un a'th ddifa mewn munud awr, er trwy ddirfawr boen? Fe fyddai hynny yn ofnadwy. Ond O! nid yw yn haeddu cael ei cyffl'lybu i'r poenau a raid i ti ddioddef. Y tân i'r hwn i'th deflir di, O bechadur, fy 'n dân TRAGYWYDDOL: Ac am hynny y dywaid ein Harglwydd, wrth rybuddio pechaduriaid, dair gwaith am uffern, ei bod yn llê, nad yw 'r prŷf byth yn marw, na'r tân byth yn diffodd (s). Ni pharottowyd y tân hwn i ti yn unig, ond yn flaenaf i ddiafol a'i angylion; ond gan i ti gyduno â hwynt mewn gwrthgiliad, rhaid i ti foddi gyda hwynt i'r diftryw tanllyd; ïe foddi 'n ddyfnach na hwynt, o gymaint ac i ti *ddibrifio* IACHAWDWR, yr hwn ni chawfant hwy gynnyg arno. Y cythreuliaid gan hynny, fydd dy gyfeillion a'th boenwyr di, gyda pha rai y gorfydd i ti breftwylio byth. Ai myn yn unig fy 'n dywedyd hyn, ac onid yw 'r gyfraith a'r

(q) Dat. vi. 15. (r) Mat. xxv, 41. (s) Marc. ix. 44, 46, 48.

a'r efengyl yn dywedyd yr un peth? Onid yw 'r Arglwydd Jefu Grift, y tŷft ffyddlon, yn cyhoeddi hyn (t), efe, 'r hwn fy 'n barnu 'r byw a'r meirw?

§ 10. A phan mae ef yn cyhoeddi 'r fentens, oni chyflawnir hi? Pwy all feddwl yn amgen? Pwy all ddychymmyg fod y fath farn yn cael ei datguddio er llanw 'r meddwl o ddychryn, a'r cwbl wêdi hynny 'n diflannu fel mŵg? Di elli 'n hawdd weled y byddai hyn yn dwyn mwy o waradwydd ar ddwyfol llywodraeth Duw, na phe buafai 'r fentens erioed heb ei rhoddi. Ni allwn gan hynny gafglu oddiwrth gyhoeddiad y farn, y bydd iddi gymmeryd llê. Ond rhag ofn i ddrwg galon y pechadur ei dwyllo trwy wâg obaith, mae ficrwydd o'i chyflawniad yn cael ei ofod o'n blaen mewn geiriau amlwg; *Y drygionus a ânt i gofpedigaeth dragywyddol* (u): A thithau, O ddarllenydd, pwy bynnag wyt, gan dy fod yn un o'r rîf, a gai fyned gyda hwynt, y torfeydd truenus, i dragywyddol ddiftryw. Pyrth llydain uffern a ymagorant i'th dderbyn; a hwy gaeant arnat i'th garcharu byth; a'u barrau a ddiogelir gan hollalluog law dwyfol gyfiawnder, er attal pob gobaith, a phob poffibilrwydd o ddihangfa, i dragywyddoldeb.

§ 11. Yn awr parottoa dy hun i gyfarfod â'r Arglwydd dy Dduw (w): Galw ynghŷd dy holl alluoedd, i glywed, ac i ddiodde 'r cyflawniad o'r farn hon: Canys nid fel dŷn i'th gyferfydd (x); calon pa un a dawdd ynddo, pan fo ynghylch rhyw weithred greulon etto 'n angenrheidiol, ac felly tofturi 'n llywodraethu yn erbyn cyfiawnder a rhefwm. Nid felly, ond fe gyferfydd â thi fel Duw, arfaethau pa un, fy 'n ddigyfnewid. Yr wyf gan hynny yn dwyn tyftiolaeth

(t) Dat. iii. 14. (u) Mat. xxv. 46. (w) Amos iv. 12. (x) Efay xlvii. 3.

tiolaeth i ti y dŷdd hwn yn ei enw ef, ſef os yw Duw 'n wirionedd, fe lefara wrthyt fel hyn ryw ddŷdd; ac os yw 'n alluog, fe wna fel y dywedwyd uchod. Ac yn awr, O bechadur, gan feddwl y bydd i ti barhau yn anedifeiriol ac yn anghrediniol, yr ydwyt wedi dyfod i'r amgylchiad truenus hyn; ſef os yw Duw yn eirwîr, ac yn hollalluog, yna yr ydwyt ti wedi 'th ddiſtrywio, a'th ddiſtrywio dros byth!

Myfyrdodau *'r Pechadur wedi ei daro â dychryn y cyfryw Farn.*

'O DDYN truenus ac ydwyf, pa beth y 'wnâf! neu i ba lê y ffoaf? Fe 'm 'pwyſwyd yn y clorian ac a'm cafwyd yn brin. '(y) Dyma fy marn; barn a raid i mi ddiſgwyl 'allan o enau Criſt ei hun; o'i enau ef, a fu 'farw er prynedigaeth ac iechydwriaeth dynion. O 'ſentens ofnadwy! Yn fwy ofnadwy yn gymmaint 'a'i bod yn cael ei chyhoeddi gan y cyfryngwr 'mawr! At bwy y troaf fy llygaid am waredi-'gaeth? Ar ba beth y galwaf? A gas fi alw ar y 'creigiau, ſyrthiwch arnaf, ac ar y brynniau, cu-'ddiwch fi (z)? Pa lês oddiwrth hyn? Pe bawn 'wedi fy nghorchguddio gan greigiau a mynyddoedd, etto ni 'm *cuddir* rhag ei lygaid ef; 'ac fe fyddai mor hawdd iddo fy nhgyrraedd â'i 'law oddiyno, ac o un llê arall.

'Ys truan ac wyf fi! O na buaſwn erioed 'heb fy ngeni! Gwae fi erioed feddiannu gallu-'oedd rheſymmol! Yr hyn fy 'n fy ngwneuthur 'i 'n agored i farn Duw a'i lîd! Gwae fi gael 'fy addyſgu yn ewyllys Duw, gan i mi fel hyn 'ei ddiyſtyru a'i throſeddu hi! Och Dduw, na bua-'ſwn

(y) Dan. v. 27. (z) Luc xxiii. 31.

'ſwn yn dwyn perthynas â'r rhai gwaelaf o 'ddynolryw, ac ſy 'n neſaf at y creaduriaid afre-'ſymmol, yn llê cael fy rhan gyda'r rhai a gwr-'teithiwyd trwy fanteiſion ac ymarferiad rheſwm! 'Ac och i feddwl, cael fy rhan gyda 'r ſawl a 'feddiannent gynnifer o ragorfreintiau crefyddol 'hefyd! Ac felly gwyrdroi 'r cwbl fel hyn, 'i'm diſtryw fy hun! O na bai i Dduw gym-'meryd yr enaid rheſymmol hwn a'i ddiddymmu! 'Ond och, fe fydd byw 'n dragywydd; fe fydd 'byw i deimlo gloeſion marwolaeth dragywyddol. 'O pa ham y cefais weled harddwch a gogoni-'ant y bŷd hwn, gan fod yn rhaid myned o 'honof i'r carchar tanllyd? Pa ham y cefais 'gynnifer o roddion da fy ngrheawdwr, gan y 'bydd yn rhaid i mi yn y diwedd i yfed gwae-'lodion ei ddigofaint ef! Pa ham y cefais wybod 'am yr hyfrydwch ſydd yn cyfodi oddiwrth 'ymddibynniad, a chariadus gyfeillach â'm cyd-'greaduriaid, gan y bydd yn rhaid i mi fyned i 'blith cythreuliaid ac yſbrydion colledig yn *tophet!* 'O pwy all fyw gyda hwynt yn y tân yſol! 'Pwy all orwedd gyda hwynt yn y tragywyddol, 'tragywyddol, tragywyddol loſgfeydd (a)!

'OND pwy ſydd i mi feio yn hyn oll, ond 'fy hunan? Beth ſydd gennyf i ddywedyd, ond 'beio ar fy ynfydrwydd fy hun? Yr achos fy 'mod yn y cyflwr ofnadwy a dinyſtriol hyn 'yw, fy mod wedi torri cyfraith Dduw; a chwedi 'gwrthod ei efengyl ef hefyd!

'ETTO fy enaid, aros ymmyſg yr holl achwynion 'galarus hyn. A allaf fi ddywedyd i mi 'n hollol, 'a thros byth wrthod yr efengyl? Onid wyf hyd y 'dŷdd hwn o fewn ei ſŵn hi? Nid yw 'r farn etto 'wedi myned allan yn fy erbyn, mewn modd

'ſafadwy

(a) Eſay xxxiii. 14.

'ſafadwy ac anghyfnewidiol. Trwy ganol yr holl 'gymmylau, mae un pelydr o obaith yn torri i 'fewn, ſef fod yn *boſſibl* i mi gael fy ngwared.

'O FEDDWL cyſſurus! O fy enaid, er crynu, 'etto llawenhâ yn hyn; a dychwel yn fuan at 'y Duw hwnnw, pa un a annogaiſt i ddigofaint 'trwy filoedd o weithredoedd drwg, ac er hynny, 'mae efe etto heb dyngu yn ei lîd, na chai di 'byth ddyfod i mewn i'w orphwysfa ef (b).

'YR ydwyf gan hynny, O Dduw, yn ymoſt-'wng yn y llŵch o'th flaen di. 'Rwyf yn addef 'fy mod yn greadur euog a thruenus. Ond yr 'ydwyf o'r un iaith a'r publican, *Duw bydd 'drugarog wrthyf fi bechadur* (c)! Mae gennyf 'ryw ammherffaith olwg ar y ffordd trwy ba un 'mae 'n boſſibl i mi fod yn gadwedig. O 'Dduw, gâd i mi adnabod y ffordd honno mor 'eglur, fel na chyfeiliornwyf. Ac Oh, cymmoda 'fy nghalon â hi, pa boen, pa oſtyngeiddrwydd byn-'nag fo 'n angenrheidiol. Sicr yw fod gennyf 'lawer i'w ddyſgu, ond, O Arglwydd, dŷſg di 'fi! Dal dy law dros ennyd fach; ac yn dy 'anfeidrol doſturi oeda 'r ddyrnod, hyd oni 'wypwyf yn well pa fodd i'w gochelyd byth. 'Amen.'

PENNOD VII.

Analluog Gyflwr y Pechadur dan Gordemniad.

§ 1. OBECHADUR, ti a glywaiſt y farn ac a roddodd Duw arnat, ac y mae hi 'n ſefyll ar gofreſtr ei air anghyfnewidiol

(b) Heb. iv. 3. (c) Luc xviii. 13.

newidiol ef. Ac a wyt ti 'n bwriadu trwy anobaith, i aros dani byth? Ac a fydd iti ddim i geiſio ymdrechu rhywfaint i gael rhyddhâd, gan nad yw hi 'n cyhoeddi dim llai na thragywyddol farwolaeth i'th enaid? Pe bai gan ddrwg-weithredwr a farnwyd i farwolaeth, hyd yn oed gan gyfreithiau dynion, y cyſgod lleiaf o obaith o ymwared, fe ymegniai mewn modd aſtud i ddal gafael ar y cyfleuſtra. Os bydd gantho ryw gyfaill ac a all' fod o ddenfydd iddo, O gyda pha daerni y deiſyf ei gynnorthwy! A thra byddo o flaen y barnwr, pa mor anhawdd ei yrru ymaith, tra fo 'n gobeithio, ac yn llefain am gael trugaredd, trugaredd, trugaredd, er yn anamſerol? Y *poſſiblrwydd* yn unig y bydd i'w lêf i gael rhyw ychydig o argraff ar y barnwr, ſy'n ei wneuthur yn ëon, ac yn anfoddlon i ymadael, ac i ddiſtewi.

§ 2. A fydd i ti ddim, O bechadur, cyn yr elo 'r farn allan yn dy erbyn yn y cyflawniad o honi, yr hyn a all fod y dydd hwn, a fydd i ti meddaf, ddim ymofyn am ryw foddion i'th waredu? A pha foddion? Yſtyria 'n bryſſur, canys mae 'r peth o fawr bwys. Nis gelli ymarfer dy ddoethineb, dy allu, dy araethyddiaeth, na chynnorthwy i'th gyfeillion, mewn un peth o gymmaint pwys. Os gelli achub dy hun, bryſſia at y gwaith. Os oes gennyt unrhyw ddirgel allu o ymwared, na ddos allan o honot dy hunan am gynnorthwy. Pa aberthau, pa gyfeillion, a pha allu bynnag ſydd gennyt ar y ddaiar, neu yn y bŷd anweledig, ac a ddichon dy achub, gwnâ ddefnydd o honynt, er mwyn attal dy golledigaeth. Ond, O bechadur, dywaid o flaen Duw, pa aberth, pa allu, a pha ryw gyfaſthrach, a elli ddwyn ar y fath achlyſur? Nid oes gennyt un ſail i obeithio am waredigaeth trwy 'r fath bethau.

§ 3. Mae

§ 3. Mae cyfiawnder Duw wedi anfoddloni: Oes gennyt ti iawn i'w roddi dros dy bechod? Beth pe 'r ymofynnyt gyda 'r pechadur gynt, a dywedyd, 'A pha beth y deuaf ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymmaf ger bron yr uchel Dduw? A ddeuaf fi ger ei fron ef â phoeth-offrymmau, ac â dyniewid? A foddlonir yr Arglwydd â miloedd o feheryn, neu â myrddiwn o ffrydiau olew (d)?' Pa beth ellit ddywedyd gan na feddi 'r fath gyfiawnder? Ond pe bait dywyfog mawr a chyfoethog fel *Solomon* ei hun, a phe gellit ddwyn y fath aberthau, etto euog y fyddit. Canys nid digon *Libanus i gynneu tân*; nid digon ei fwyftfilod ychwaith *yn boeth-offrwm* (e). Dan yr oruwchwiliaeth gynt, ac oedd mewn mefur mawr yn gofyn aberthau, nis gallafai gwaed teirw a geifr (er gwared y trofeddwr rhag cofp amferol) *dynnu ymaith bechodau* (f); nac mewn un modd, buro 'r gydwybod ger bron Duw. A'r dŷn a wnai bechod mewn rhyfyg, ni chai ddwyn unrhyw aberth, ond rhaid iddo farw heb drugaredd (g). Duw, a'th gydwybod ditheu ŵyr, na bu 'th feiau di yn unig trwy anwybodaeth ac anyftyriaeth, ond ti a bechaift mewn amryw amgylchiadau â llaw uchel ac â braich eftynedig, megis y cyfaddefaift yn barod. Pe rhoddit dy gyntaf-anedig dros dy anwiredd, a ffrwyth dy grôth dros bechod dy enaid (h), nis gwnai gwaed dy anwyl blentyn yn y fath achos, ond lliwio 'th feiau 'n ddyfnach; a'u gwneuthur yn fwy dychrynllyd nac o'r blaen. Ti bechaift yn erbyn bôd o anfeidrol fawredd, ac os trwy waed yr heddychir ef, rhaid ei fod yn waed, nad yw 'n rhedeg yn dy wythennau

E

(d) Mic. vi. 6, 7. (e) Efay xl. 16. (f) Heb. x. 4.
(g) Num. xv. 30. (h) Mic. vi. 6. 7.

thennau di, na 'th blentyn mwyaf anwyl a diniweid.

§ 4. Elli di ddioddef cosp, hyd oni bo iawn wedi roddi? Ond ym mha lê y gwnai 'r cyfryw iawn? A fydd hyn trwy ddioddef rhyw drallodion yn y bywyd byrr a marwol hwn? Ydyw cyfiawnder Duw gan hynny 'n beth mor fach, ac y gall gofidiau dros rai diwrnodau, atteb ei ofynion? — Neu a wyt ti 'n meddwl am ddioddefiadau i ddyfod yn y bŷd anweledig? Os wyt, nid gwaredigaeth yw hynny; etto mi ddywedaf yn hŷ, pa bryd bynnag y gwnelych gyflawn daledigaeth, di gai ryddhâd: pan dalech y ffyrling eithaf o'th ddyled, fe agorir dryfau 'th garchar: Ond yn y cyfamfer, rhaid i ti wneuthur dy *wely yn uffern* (i): Ac a elli di orwedd i lawr yno, O greadur anhappus, gyda dirgel obaith y daw 'r amfer, ym mha un nis gall dwyfol gyfiawnder ychwanegu dim rhagor o gosp nac a ddioddefaift eifoes, a phan y gallech ddifgwyl dy rhyddhâd mewn ffordd o ddyled? Pe gellit gario gyda thi y fath obaith, er mor dwyllodrus, dâ fyddai 'r peth; Ond och ddŷn, os i uffern y difgyni, ti gai weled na fydd i 'r fath feddyliau, ond dy adael mewn tragywyddol anobaith. Yr un gair hynny yn dy fentens, TRAGYWYDDOL dân! Yr un cyhoeddiad hwnnw, fef, nid yw 'r *prŷf byth* yn marw, na'r tân *byth* yn diffodd; a lâdd bob gobaith o ymwared, ac a lanw 'th feddwl o ddychryn ac ing diddarfod.

§ 5. Wyt ti 'n meddwl y bydd dy *ddiwygiad* rhagllaw, a'th *ddiwidrwydd* mewn dyledfwydd yn yr amfer i ddyfod, i beri rhyddhâd i ti o dan y farn? O bechadur, yftyria 'n fanwl pa fath ufudd-dod wyt yn fwriadu roi i'r Duw fanctaidd. Rhaid ei fod yn gyflawn ac yn ddi-

frycheulyd

(i) Salm cxxxix. 8.

frycheulyd: Nid oes i ddim anwadalwch, angôf, nac unrhyw gymmyſgedd o bechod i gyd-fyned ac ef; os amgen, nis derbyn Duw, fy'n anfeidrol ſanctaidd, mo hono. Ac a elli di, yr hwn wanhawyd trwy lygredd gwreiddiol, a chynnifer o reddfau pechadurus, a ddaethant i'th enaid trwy weithredoedd drwg heb rifedi, ac a elli di meddaf, yn y fath gyflwr, roddi 'r fath ufudd-dod; a hynny trwy 'th holl fywyd? Yn ofer yr ymgeiſi dros un diwrnod. Euogrwydd newydd, a'th daflai ar frys i ddiſtryw newydd. Ond pe ni byddai felly; pe gellit o'r funud hon hyd awr dy farwolaeth, roddi ufudd-dod mor berffaith ac oedd cyfraith Dduw 'n ofyn oddiwrth *Adda* ym mharadwys; a wnai hynny dalu 'r hên ddyled a ſymmud yr hên euogrwydd? Cynnyg hyn i'th gymmydog, edrych a dderbyn ef dy *fwriad da rhagllaw*, yn lle tâl o'th ddyled; ac onis gwnâ, pa fodd y gelli ryfygu cynnyg y fath beth i Dduw?

§ 6. Ond ni 'chwanegaf amlhau geiriau ar beth mor eglur; canys tra 'r wyf yn llefaru fel hyn, mae amſer yn myned heibio, ac angau 'n agoſhâu; ïe mae 'r farn ar bwys: A pha beth a'th wared rhag y fath olygiadau, neu a all dy gynnal ynddynt? A all y bŷd, yr hwn yw 'r ddelw dwyllodrus ac ſy 'n myned â'th ſerch a'th holl ddymuniadau ar ei ol, ac i ba un yr ydwyt yn aberthu, hyd yn oed y bŷd tragywyddol? Da y gwyddaiſt nas gwna; ond y bydd iddo 'th adael pan fo arnat fwyaf o'i eiſiau. Da gwyddaiſt na ddaw 'r un o'i bethau dymunol gyda thi i'r bŷd anweledig; hyd yn oed y peth lleiaf, er mwyn ei gofio, pe bai cyfaill mor anwadal a thwyllodrus yn haeddu ei gofio.

§ 7. Pan fyddych yn marw, neu wedi marw,

a all dy gyfeillion pechadurus dy wared di? A oes un o honynt, pe 'r ewyllyſiai, ac all roddi iawn i Dduw droſot (k); i'th wared rhag myned i lawr i'r bêdd ac i uffern? Pan ddelych i lann y bêdd, di fyddi mor belled o feddwl y gall y fath rai dy wared, fel na chwennychit weled mo'r cyfryw ac a fuant unwaith dy gyfeillion mwyaf anwyl. Fe fyddai 'r olwg arnynt i'th boeni, yn hytrach nac i'th ryddhau: O pa faint mwy analluog y fyddant i'th wared o flaen gorſeddfainge Duw, pan fyddont eu hunain dan farn!

§ 8. Ac am alluoedd y tywyllwch, ti wyddaiſt eu bod hwy ym mhell o feddiannu gallu nac ewyllys i'th wared. Fe fu Satan yn ymdrechu i ddwyn ym mlaen dy ddiſtryw, ac fe lawenhâ pan ddêl i ben. Pe bai ryw gyttundeb cariadus rhyngoch, ni byddai efe ond cyfaill mewn colledigaeth. Canys dŷdd barn yr anwir ddynion a fydd hefyd yn farn i'r yſbrydion gwrthryfelgar; a'r tân i ba un y bwrir di, O bechadur, ſy wedi ei barottoi i ddiafol a'i angylion (l).

§ 9. A FYDD i'r yſbrydion gogoneddus, trwy eu gallu a'u gweddiau gynnyg dy achub? Na fydd; canys wedi 'r farn fyned allan i'th erbyn, ni byddai 'r fath ymdrechiad ond gwrthryfel yn erbyn Duw; yr hyn y mae 'r creaduriaid gogoneddus a ſanctaidd yn y nêf yn ffieiddio. Pan fyddont yn deall ewyllys y barnwr, yn hytrach na begian yn ofer dros y pechadur truenus, hwy ymbarottoant, mewn mawr ſêl dros ogoniant eu Harglwydd, a chydſyniad â'i ddoethineb a'i gyfiawnder, i gyflawnu 'r unrhyw. Fe fydd gweiſion Criſt, a'th berth'naſau mwyaf agos, ac ſy 'n awr yn y modd mwyaf tyner yn dy garu, ac yn ceiſio 'th iechydwriaeth, yn rhoddi

AMEN

(k) Salm xlix. 7. (l) Mat. xxv. 41.

Amen gyda 'r farn. Mae hyn yn anhawdd ei gredu etto; canys mae eu perfedd yn rhuo am danat, a'u llygaid yn tywallt dagrau yn dy achos: Maent yn awr tra 'r wyt ar dîr gobaith, yn dadleu â Duw ar dy ran; i edrych a fydd iddo trwy ryw foddion, i'th gippio fel pentewyn o'r gynneu dân (m). Nid ydwyt ti 'n gwneuthur cyfrif o'u cynghorion; ac am eu gweddiau, pa beth allant ofyn, ond hyn, ſef cael o honot weled dy hun yn golledig? I ti gael dy ddwyn i anobeithio am achubaeth trwy 'th hunan allu, neu unrhyw allu creadigol; fel y bo i ti ſyrthio ger bron Duw mewn modd drylliedig a goſtyngedig, gan gyfaddef ei gyfiawn farn; fel y bo i ti allel megis o waelodion uffern i godi 'th olygon tuag atto ef, yr hwn a ddichon gymmeryd toſturi arnat; ac felly i'th dywys at ffordd iechydwriaeth; pa un yn dy amgylchiadau preſennol, nis gall na daiar, uffern, na'r nêf ei rhoddi.

Galarnad *y Pechadur yn ei Gyſtwr truenus.*

'O GYFLWR galarus, anghyſſurus, ac 'analluog! Gwae fi ddwyn o honof 'fy hunan i'r fath amgylchiad! O greadur gwâg, 'tylawd, anfad, a thruenus! Pa lê yn awr mae 'fy malchder, a'm hycheldrem? Pa lê yn awr 'mae fy nuwiau gau, y rhai a gerais, a wa'ſanaethais, y rhodiais ar eu hol ac a geiſiais '(n), gan amlhau fy anwireddau yn erbyn mawr'hydi 'r nefoedd? A oes un galon a gymmer 'doſturi arnaf? Oes un llaw ac all fy achub? '*Trugarhêwch wrthyf, trugarhêwch wrthyf, fy ngby'feillion*; *canys llaw Dduw a gyffyrddodd â mi* '(o), a'm daliodd! Y mae 'n fy ngwaſgu; a '*pha beth a wnâf?* Os oes unrhyw gymmorth,

(m) Amos iv. 11. (n) Jer. viii. 2. (o) Job xix. 21.

'unrhyw noddfa o fewn y greadigaeth, dywedwch 'pa lê; dangoswch y ffordd iddi; ïe 'n hytrach 'tywyswch fi erbyn fy llaw i fewn.

'O CHWI weinidogion yr Arglwydd, gwaith 'pa rai yw tywys a chyssuro eneidiau trallodedig, trugarhêwch wrthyf fi! Yr ydwyf yn ofni 'nad wyf ond pattrwn o lawer o greaduriaid 'analluog eraill mewn diffyg o'ch cymmorth. 'Rhoddwch heibio 'ch gofalon daiarol, fel y gofaloch am eneidiau; fel y gofaloch am fy enaid 'anfarwol i, pa un (os cymmwys yr ymadrodd) 'sy 'n gwaedu i farwolaeth, tra 'r ydych chwi 'n myned heibio o'r naill du, heb braidd edrych 'arnat (p). Ond beth dal yr hyn ellwch chwi ei wneuthur yn yr achos hyn; oni achub yr 'Arglwydd fi, pa fodd yr achubwch chwi fi (q)!

'O DDUW, *Duw ysprydion pob cnawd* (r), yr 'ydwyf yn cyfodi fy llygaid tuag attat, ac yn 'gwaeddi arnat megis o fol uffern (s). Yr 'ydwyf yn llefain arnat, o leiaf, o gyffiniau 'uffern; a thra 'r wyf o'th flaen yn y fath 'orthrymder annrhaethadwy, mi wn y gall dy 'anfeidrol râs, a'th hollalluog law, drefnu ffordd 'o ymwared i mi.

'TYDI yw yr hwn a ddrygais ac a ddigiais 'yn fwy na neb; etto ar at ti yn unig rhaid i 'mi lefain am gymmorth. Yn dy erbyn di, '*dydi dy hunan y pechais, ac y gwneuthym y drwg 'hyn yn dy olwg* (t); ac am hynny fe 'th gy'fiawnhâer pan lefarych, a byddi bur pan far'nech, er bod i ti 'r funud hon fy marnu i 'dragywyddol drueni. Etto Arglwydd, yr wyf 'yn teimlo ynnof ddirgel ogwyddiad tuag attat, fel 'pe bai 'm dedwyddwch i gyfodi o'r llê y gallaf 'yn gyfiawn ddiſgwyl y diſtryw mwyaf erchyll.

'O Dduw

(p) Luc x. 31. (q) 2 Bren. vi. 27. (r) Num. xvi. 22.
(s) Jonah ii. 2. (t) Salm li. 4.

'O Dduw bendigedig, mi ddiſtrywiais fy hun, ag 'ynnot ti mae fy nghymmorth (u), os oes i 'mi gymmorth i'w gael.

'Mi wn mae nid ein meddyliau ni yw 'th 'feddyliau di, ac ein ffyrdd ni yw 'th ffyrdd 'di, ond yn uwch na hwynt, yn gymmaint ac 'yw 'r nefoedd yn uwch na 'r ddaiar (w). Tru-'garhâ gan hynny wrthyf, O Dduw, yn ol dy 'drugarogrwydd, yn ol lliaws dy doſturiaethau, 'dilea fy anwireddau (x). O dangos y llwybr 'i'r DDINAS NODDFA; O arwain fi dy hunan 'yn y *ffordd dragywyddol* (y)! Mi welaf mae 'th efengyl yw 'r ffordd gyffredin o waredi-'gaeth; O dyſg dy weiſion i'w gweinidogaethu! 'Parottoa fy nghalon innau i'w derbyn! Na 'âd i'r ddrwg anian yn fy natur, i droi phyſy-'gwriaeth ragorol yn wenwyn, megis y gwnaeth 'lawer gwaith cyn hyn! Amen.'

PENNOD VIII.

Newydd o Iechydwriaeth trwy Griſt yn cael ei dwyn at y Pechadur euog.

§ 1. DDARLLENYDD anwyl! Prif ddiben yr efengyl, a'i gogoneddus effeithiau hefyd, pa lê bynnag y caffo 'i derbyn, yw llanw 'r galon o feddyliau cariadus; ac i'n dyſgu i gaſau, pob rhyw greulonder na fo 'n an-genrheidiol; ac i ymhyfrydu, nid mewn trallod, ond dedwyddwch ein cŷd-greaduriaid. Nis gwn i pa fodd y gall hwnnw fod yn *griſtion*, ac a gymmero bleſſer yng ngorthrymder, hyd yn oed

(u) Hos. xiii. 9. (w) Eſay iv. 8, 9. (x) Salm li. 1. (y) Salm cxxxix. 24.

anifail; llawer llai yng ngofid y meddwl dynol; ac yn enwedigol, y *fath ofid* ac mae 'r pethau a grybwyllais i yn ficr o'i ddwyn, os cânt eu dwys yſtyriaid. Mi brofais dufewnol driſtwch, tra 'r oeddwn yn eu goſod allan, ac mi ddymunaſwn o'm calon na buaſai yn *angenrheidiol* eu goſod allan mewn dull mor ofnadwy. Ond yr wyf yn awr yn dyfod at y rhan hynny o'm gwaith ſc wyf yn myned yn ei gylch gydag hyfrydwch annhraethadwy; y rhan ac oedd yn bennaf yn fy ngolwg yn yr holl bethau ofnadwy ac oſodais yn barod o'th flaen. Mi ddangoſais i ti, os byw yn anedifeiriol y wnaethoſt mewn ſtât o bechod hyd yn hyn, dy fod wedi 'th farnu gan gyfiawn farn Duw; ac nad oes dim gobaith, na phoſſibilrwydd o ymwared ynnot dy hun. Ond nid wyf yn bwriadu 'th adael di yn y fath gyflwr, i orwedd i lawr a marw mewn anobaith; gan feio ar y fêl greulon, pa un a'th *boenodd cyn yr amſer* (a).

§ 2. Cyfod, O enaid trallodedig, yr hwn ydwyt yn ymgrymmu yn y llwch o flaen Duw, ac yn crynu dan ddychryn ei gyfiawn farn ef; canys mae gennyf gommiſſwn i ddywedyd wrthyt, ſef, er i ti ddiniſtrio dy hun, *fod i ti gymmorth yn Nuw* (b). Yr wyf yn dwyn y newydd da o lawenydd mawr (c), yr hyn ſy'n cyffuro fy nghalon tra 'r ydwyf yn ei oſod allan, ac a obeithiaf y bydd iddo gyrhaeddyd, ac adfywio 'th galon dithau, ſef y newydd o iechydwriaeth yng ngwaed a chyfiawnder y prynwr mawr. Ac er mwy o ficrwydd, mi a'i rhoddaf i ti yng ngeiriau 'r graſol Dduw; ſef *ei fod ef yn Ghriſt yn cymmodi y bŷd ac ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau* (d).

§ 3. Dyma

(a) Mat. viii. 29. (b) Hoſ. xiii. 9. (c) Luc ii. 10.
(d) 2 Cor. v. 19.

§ 3. Dyma 'r newydd goreu a glybywyd; dyma 'r gennadwri oreu, a mwyaf pwysfawr, a ddanfonodd Duw at ei greaduriaid erioed: A chan dy fod yn byw mewn gwlâd grist'nogol, nid wyf yn ammau na chlywaist hyn, filoedd a miloedd o weithiau o'r blaen; etto, mi a'i dygaf ar gôf i ti mewn modd difrifol ac eglur, fel pe buasit erioed heb fod dan sŵn yr efengyl. Os bydd i ti 'n awr ond ei theimlo, O bechadur, er ei bod yn gyffredin yn dy glustiau, hi ymddengys megis efengyl newydd yn dy olwg; am hynny nid yw 'n flîn i mi adrodd yr hyn sy 'n hysbys eisoes, gan ei fod yn ddiogel ac yn angenrheidiol i ti (e). Y rhai hynny ac sydd yn ei hadnabod oreu, a'u gwrandawant gyda neillduol hyfrydwch, ac ni bydd iddynt ymlenwi yn y fath fodd ac i ddiflasu ar y fath ymborth jachusol: Ac am y rhai y darfu eu hesgeuluso hyd yn hyn, mae 'n ficr fod achos iddynt hwy ei chlywed drachefn a thrachefn. Mae 'n bossibl y bydd i ryw un enaid o leiaf, i ddarllain y traethawd hyn, yr hwn ni addysgwyd yn eglur ac yn gyflawn yn yr athrawiaeth bwysfawr hon; er bod ei dragywyddol ddedwyddwch yn ymddibennu ar yr adnabyddiaeth a'r derbyniad o honi. Mi gymmeraf i ofalu gan hynny, na chaffo 'r cyfryw un ymesgusodi o flaen gorseddfainge Duw, gan ddywedyd, 'Er i mi fyw mewn gwlâd grist'nogol, etto ni chlywais i erioed osod allan yn ffyddlon ac yn eglur, yr Athrawiaeth o iechydwriaeth trwy Grist, y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd, trwy 'r hwn yn unig y mae i ni ddyfod at y Tâd (f).'

§ 4. Yr wyf y dŷdd hwn yn tystio ger dy fron, na ddarfu i frenin nêf a daiar, ar ei ragweliad o gwymp holl ddynol-ryw, fwriadu ymweled â ni mewn ffordd o greulondeb, gan ein

(e) Phil. iii. 1. (f) Joan xiv. 6.

rhoddi trwodd i diſtryw hollol, ac i ddamnedigaeth anwrthwynebol; ond i'r gwrthwyneb, ſe fwriadodd ſefydlu cyfammod o heddwch; ac i gyhoeddi i bawb, llê danfonai 'r efengyl, y cynhygiad o fywyd a gogoniant, trwy 'r cyfryw fôdd ac y barnodd ei anfeidrol ddoethineb yn addas i amddiffyn purdeb ei natur, ac anrhydedd ei lywodraeth. Y ffordd trwy yr hon y mae iechydwriaeth dŷn yn cael ei dwyn i ben, ſydd ryfeddol; yr hon, er ei bod yn beth cyffredin yn ein meddyliau, ac ar ein tafodau, nis gallaf lai na ſynnu wrth feddwl, ac wrth ſôn am dani. I agor y ffordd hon, Duw a ddanfonodd ei unig-anedig FAB i'r bŷd, diſgleirdeb ei ogoniant, a gwir lûn ei berſon (g), yr hwn oedd yn ogyfuwch ac ef mewn dwyfol briódoliaethau ac anrhydedd. Ac fe a ddaeth i fod, nid yn unig yn ddyſgawdwr cyfiawnder, ac yn gyhoeddwr o râs, ond hefyd yn ABERTH dros bechodau dynion! Ac am nas gallaſent gael eu hachub ar unrhyw dilerau amgen, rhaid oedd i Grîſt, nid yn unig i fyw, ond hefyd i *farw* yn eu hachos.

§ 5. YN ganlynol yn yr amſer y gwelodd anfeidrol ddoethineb yn iawn, yr Arglwydd Iefu Grîſt a ymddangoſodd yn y cnawd; ac wedi iddo fyned trwy 'r goſidiau a'r drygau parhâus, pa rai allaſai llîd ac anniolchgarwch dynion roddi yn ei ffordd, o'i wirfodd ſe ymoſtyngodd ei hun i angau, ïe angau 'r GROES (h); ac wedi ei draddodi dros ein PECHODAU, ſe gyfododd er ein *cyfiawnhâd* (i). Ac ar ol ei adgyfodiad, fe arhoſodd amſer digonol ar y ddaiar, i'r diben o roddi tyſtiolaeth ſier i'w ganlynwyr iddo orchfygu angau; ſe a eſgynnodd i'r nefoedd yn eu golwg hwynt (k); ac fe ddanfonodd i lawr oddi yno yr *Yſpryd Glân*, er gallŵogi ei apoſtolion i bregethu

(g) Heb. i. 3. (h) Phil. ii. 8. (i) Rhuf. iv. 25. (k) Actau i. 9-11.

bregethu 'r efengyl yn y modd mwyaf awdurdodol a llwyddiannus (l): Ac fe roddodd orchymmyn iddynt hwy, a'r ſawl a'u canlynent yn mhob oes yn eu ſwydd, i'w chyhoeddi i bob creadur (m); gan ddywedyd, y ca y ſawl a'i credant, eu hachub trwy rinwedd ei thufewnol allu, a thrwy allu anghyfnewidiol râs ei dwyfol awdwr, yr hwn ſy 'r un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd (n).

§ 6. Yr efengyl hon gan hynny, wyf yn awr yn gyhoeddi ae yn bregethu i ti, O ddarllenydd, gan wîr ddymuno ei bod y dŷdd hwn trwy ddwyfol râs, yn iechydwriaeth i'th enaid (o). Gwybydd gan hynny, ac yſtyria, pwy bynnag wyt, mae mor ſicr a bod y geiriau rhain yn awr o flaen dy lygaid, i Fâb Duw yn y cnawd, gael ei wneuthur yn ddrŷch i'r bŷd, ac i'r angylion, ac i ddynion (p): I'w gefn gael ei archolli trwy fflangellau, a'i ben gan ddrain, ei aelodau a ddirdynnwyd ac a hoeliwyd wrth y pren melldigedig. Fe ſu farw fel hyn, dan ſarhâd a gwawd ei elynion creulon, pa rai oeddynt yn ſychedu am ei waed; a mwy na hyn oll, fe ddibennodd y bywyd mwyaf diniweid, perffaith, a defnyddiol ac a dreuliwyd erioed ar y ddaiar, trwy 'r arteithiau mwyaf, heb fwynhâu 'r dwyfol gyſſuron ac a deimlodd dynion pechadurus, pan oeddynt yn dioddef yn achos cydwybod dda. Dynion a dorraſant allan lawer gwaith mewn llawenydd, caniadau o glôd, a gorfoledd anarferol, tra 'r oedd eu dihenyddwyr yn goſod allan eu llîd uffernol yn eu herbyn, ac yn llunio 'r poenau trymmaf ac allent roddi arnynt; ond wele *'r Ieſu croeſhoeliedig* yn llefain allan yn chwerder ei enaid difrycheulyd, " *Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaiſt* (q)?

(l) Luc xxiv. 40. (m) Marc xvi. 15. (n) Heb. xiii. 8.
(o) Luc xix. 9. (p) 1 Cor. iv. 9. (q) Mat. xxvii. 46.

§ 7. Gwel ein prynwr anwyl! Edrych i fynu ar yr hyn beth galarus, ofnadwy, ac etto, mewn yſtyr, y peth dymunol, ac fy 'n cael ei ddwyn ymmlaen ar ben Calfaria; ac yna gofyn i'th galon, 'Wyf fi 'n credu i'r Ieſu ddioddef a marw, fel hyn? I ba ddiben y bu ef farw? Gâd i mi atteb yng ngeiriau Duw ei hun; *Fe archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni: Coſbedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef, a thrwy ei gleiſiau ef y iachawyd ni: Yr Arglwydd a fynnei ei ddryllio, a'i glwyfo, pan oſododd ei enaid yn aberth dros bechod; canys yr Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gŷd* (r). Am hynny yr ydwyf yn dywedyd yng ngeiriau 'r apoſtol wrthyt ti, mai trwy hwn yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant pechodau (s); megis y gorchymynodd ef wedi adgyfodi o feirw, i edifeirwch a maddeuant pechodau gael eu pregethu yn ei enw ef ym mhlith yr holl genhedloedd, gan ddechreu yn Jeruſalem (t); y llê tywalltwyd ei waed ef mewn modd creulon. Attoch chwi y danfonwyd gair yr iechydwriaeth hon (u); i ti, O ddarllenydd, y mae Duw yn awr mewn modd difrifol yn cynnyg ei bendithion hi; ac felly, er dy fod yn euog o dorri ei gyfraith, fel ac y profais o'r blaen, ni'th ddiſtrywir, os na bydd i ti wrthod yr efengyl. Canys yr wyf yn tyſtio yng ngeiriau 'r apoſtol, i Griſt gael ei wneuthur yn Bechod (hynny yw 'n *bech-aberth)* drоſom ni, er nad adnabu bechod, fel y'n gwnelid ni yn Gyfiawnder Duw ynddo ef (x); hynny yw, fel y caem ni, trwy 'r cyfiawnder a weithredodd a'r iawn a roddodd ef, ein derbyn yn gyfiawn ger bron Duw; a chael, nid yn unig faddeuant, ond ein derbyn i'w ffafr, a bod yn gyfeillion. Nis gall y

(r) Eſay liii. 5, 6, 10. (s) Actau xiii. 38. (t) Luc xxiv. 47.
(u) Actau xiii. 26. (x) 2 Cor. v. 21.

y llengoedd hynny o bechodau (pa rai fy 'n byddino i'th erbyn) i'th ddiſtrywio, os na fydd i anghredinïaeth eu dwyn ymmlaen; a hollol anedifeirwch eu cynnorthwyo yn y frwydr. Mi wn i fod euogrwydd yn peri i ti ddychrynu; am hynny mi lefaraf wrthyt yng ngeiriau Duw ei hun, ac nis gall dim fod yn fwy cyffurus; *Yr hwn fy 'n credu yn y Mâb, y mae ganddo fywyd tragywyddol* (y); ac ni ddaw i farn (z): Nid oes gan hynny 'n awr ddim DAMNEDIGAETH, dim unrhyw na gradd, i'r rhai, i neb o honynt, fydd yn CHRIST IESU; y rhai fy 'n rhodio, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr yſpryd (a). Ti fuoſt yn wîr yn bechadur mawr; er hynny, ti elli lawenhâu gan fod yn ſicr, mai llê 'r amlhaodd pechod, rhagor yr amlhaodd grâs (b); mai llê teyrnaſodd pechod i farwolaeth (lle cafodd lywodraeth gyffredinol, a'r oruchafiaeth mwyaf anwrthwynebol) y bydd i gyfiawnder i deyrnaſu i fywyd tragywyddol, trwy Iefu Griſt ein Harglwydd (c). Y *cyfiawnder* hynny, y bydd gennyt hawl iddo trwy *gredu ynddo ef*, a fydd nid yn unig i dorri 'r cadwynau hynny, trwy ba rai mae *pechod* yn dy lufgo megis wrth olwynion ei gerbyd yn dra ffyrnig i dragywyddol ddiſtryw; ond hefyd i'th wiſgo â gwiſgoedd iechydwriaeth, i'th oſod ar orſedd o ogoniant, lle bydd i ti fyw a theyrnaſu yn mhlith tywyſogion y nefoedd. Yno cei deyrnaſu mewn *barddwch* a llawenydd diddarfod, heb un *graith* yn aros arnat o anfoddlonrwydd Duw; heb un rhyw *nêd*, trwy yr hwn y gellir deall i ti fod un amſer yn ddaroſtyngedig i'w felldith a'i lid, oddieithr y *gân* honno o *fawl i'r oen a fu farw, ac a'th olchodd oddiwrth dy bechodau 'yn ei waed ei hun* (d).

§ 8. Ac

(y) Joan iii. 36. (z) Joan v. 24. (a) Rhuf. viii. 1.
(b) Rhuf. v. 20. (c) Rhuf. v. 2. (d) Dat. i. 5.

§ 8. Ac nid oes angenrhaid i ti (tuag at gael dy ryddhau o tan ungrwydd, a chael *hawl* i'r gwynfyd mawr a chyflawn hyn) cyn dy ddyfod at yr *Iesu*, i ddwyn unrhyw *weithredoedd da o'th eiddo dy hun*, er mwyn cael derbyniad ger ei fron. Sicr yw os yw 'th ffydd yn wirioneddol, y bydd hi 'n gyflawn o honynt: Etto, mae gennyf awdurdod *gair Duw* i ddywedyd wrthyt, mai os *credi* y dŷdd hwn yn enw *Mâb Duw*, y cai 'r dŷdd hwn dy ddwyn tan ei efal ef, a'th gyfrif yn un o'i *ddefaid*, wrth ba rai y dywedodd yn rasol, y rhoddai iddynt *fywyd tragywyddol*, ac na chyfrgollant *byth* (e). Nid oes achos i ti gan hynny ofyn, pwy a esgyn i'r *nêf*, neu pwy a ddesgyn i'r *ddaiar* yn fy enw i? Canys mae 'r gair yn agos attat, yn dy *enau* ac yn dy *galon* (f). Gan gyhoeddi 'r newyddion gorfoleddus hyn, pa rai fy 'n haeddu pob *derbyniad* (g); gan gyhoeddi 'r *efengyl* hon, pa un yw fy *mywyd* i, ac os nas gwrthwynebi, a fydd yn *fywyd i titheu*; gan gyhoeddi hon meddaf, yr wyf yn dy adael dros ennyd.

ADFYFYRDOD *y Pechadur ar y Newyddion da uchod.*

'O Fy enaid, pa ryfeddol gennadwri a ddan'fonwyd attat y dŷdd heddyw! Mi glywais 'y *newydd da* lawer gwaith cyn hyn; ac mae 'n 'beth mor *gyffredin*, fel nad wyf yn teimlo ei 'gwerth megis ac y dylwn. O fy enaid, ystyria 'pa *beth* y glywaist; a dywed i mi onid yw enw 'r IACHAWDWR (cennadwri pa un y ddechreuaist) yn deilwng o gael ei alw 'n *rhyfeddol gynghorwr* (h), gan ei fod yn gosod ger dy fron y 'fath

(e) Ioan x. 28. (f) Rhuf. x. 6, 7, 8. (g) 1 Tim. i. 15.
(h) Esay ix. 6.

'fath *ryfeddol gariad*, ac yn cynnyg y fath *gynghor-*
'*ion o heddwch*?

'O Iesu bendigedig, a yw hyn oll yn wir-
'ionedd! Neu ynte rhyw ddychymmyg ddynol
'ydyw? A yw 'n beth eglur, a gwirioneddol i
'ti o dosturi ar y fath greadur truenus a myfi,
'i adael gogoniant a llawenydd y nefol fyd! Pe
'buasit ond edrych unwaith i lawr o'th *ddedwydd-*
'*wch* ac uchder dy *ogoniant* dros funudyn, a
'danfod attaf ryw air grasol trwy y gwaelaf o'th
'weision, er fy hyfforddiad a'm cyssur, cyfiawn
'fuasai i mi ymostwng ger dy fron gyda diolch-
'garwch ryfeddol; ac i gyssanu camrau yr hwn
'a gyhoeddasai yr *Iechydwriaeth* (i). Gwirionedd
'yw i ti dy hun i ymostwng i ddwyn y gennad-
'wri nefol! O pa fath *râs*, pe buasit ond dysod
'yn *bersonol unwaith* i gyhoeddi 'r fath bethau,
'ac felly dychwelyd o honot yn ddiattreg i'th
'orsedd, oddiar ba un y parodd dwysol dosturi i
'ti ddesgyn! Ond nid hyn oedd y cwbl a wnaeth
'dy dosturi a'th râs. Dy gariad at bechaduriaid,
'nid yn unig a'th ddygodd i lawr, ond a'th gad-
'wodd ar y ddaiar mewn adail frau a thruenus,
'tros flynyddoedd lawer; ac yn y diwedd, a'th
'dueddodd i roddi lawr dy *fywyd* fel drwg-wei-
'thredwr ar y groes, wedi dioddef *dirmyg* a
'*chreulondeb*; y *meddwl* am ba bethau, fy 'n ddigon
'i archolli fy nghalon. Fel hyn ti foddlonaist
'*gyfiawnder*, ac a'm *prynaist* i Dduw trwy dy
'waed dy hun (k).

'Pa beth a ddywedaf? Arglwydd, yr wyf yn
'*credu*, cymmorth fy angrhediniaeth (e)! Mae 'r
'hyn a wnaethost ar ran fy enaid yn wir ym-
'mhell uwchlaw 'r hyn ac a all *rhesymm* ei ddychym-
'myg; ac mae *ffŷld* yn cael gorchest eu derbyn
'a'u credu.' Bendigedig byth fo dy *enw*, *O Dâd*
'*y truga-*

(i) Esay lii. 7. (k) Dat. v. 9. (l) Marc ix. 24.

'y *trugareddau*, am agor ffordd i *fyned!* Tragywyddol glôd i'r oen a fu *farw*, ac i'r hwn a ddanfonodd air yr *iechydwriaeth* hon hyd attaf fi! O na âd i mi er mil o fydoedd, i dderbyn *gràs Duw 'n ofer* (m)! O argraffa 'r efengyl hon ar fy enaid, hyd oni bo 'i rhinwedd feddyginiaethol gael ei gwaſgaru trwy bob cynneddf. Pâr i mi, nid yn unig i glywed a phroffeſu 'r efengyl, ond hefyd ei *theimlo*. Gwna hi 'n *allu Duw er fy iechydwriaeth* (n); a dŵg fi yn gyflawn o'r diolchgarwch, a'r ſêl hynny yn dy waſanaeth, ac a weddai fod yn meddiannu yr hwn y maddeuwyd cymmaint iddo (o), ïe y maddeuwyd ar y fath *dilerau* a hyn!

'Yr ydwyf yn teimlo *tân* yn ennyn yn fy nghalon, tra mae 'r fath hyfryd newyddion yn ſwnio yn fy nghluſtiau! O na âd fy llawenydd hyn i fod yn ddiflannedig! O na fydded yr hyn a fynnwn ei alw fy llawenydd crift'nogol, ſel, *chwerthiniad dŷn ynfyd*, pa un fy'n darfod fel clindarddach drain dan grochan (p)! O dŷſg fi i allel diogelu 'r tendith fawr hon, a'r gobaith gogoneddus o iechydwriaeth, yn y ffordd a drefnaiſt di; a chadw fy enaid rhag camgymmeryd *llawenydd natur*, tra mae hi 'n cael golwg ar ei gwaredigaeth o ddiſtryw, am y gràs hwnnw o *ffŷdd*, pa un fy 'n ſicrhâu ac yn cofleidio iechydwriaeth! Amen.'

(m) 2 Cor. vi. 1. (n) Rhuf. i. 16. (o) Luc vii. 47.
(p) Preg. vii. 6.

PEN.

PENNOD IX.

Hanes *mwy neilldual o'r ffordd, trwy ba un mae cael Iechydwriaeth.*

§ 1. ODDARLLENYDD, mi debygwn fy mod yn dy weled yn dyfod attaf yn awr gan ymofyn gyda 'r Iuddewon gynt, y rhai a ddywedafent wrth ein Harglwydd, 'Pa beth a wnawn ni fel y gweithredom *weithredoedd Duw* (q)?' Pa ffordd a gymmeraf i'r diben o ſicrhâu 'r brynedigaeth a'r iechydwriaeth ac wyf yn glywed i Griſt i ddwyn oddiamgylch i'w bobl?' Mi attebaf dy ofyniad yn y modd mwyaf difrifol a gofalus ac fy 'n boſſibl; fel un ſy 'n gwybod yr *angenrheidrwydd* i ti gael dy iawn hyfforddi yn y peth hyn; ac fel un ſydd hefyd yn gwybod y *cyfrif manwl* a raid iddo roddi i Dduw, am y *cyweirdeb* a'r *gofal*, trwy ba rai y rhoddodd ei *atteb*. Boed i mi allel *lleſaru* megis *geiriau Duw* (r), hynny yw, yn y fath fodd ac a baro gywir *adſain* o'r hyn ac y mae ei ſanctaidd eiriau ef yn *ddyſgu*.

§ 2. Ac fel y byddo i mi allel bod yn ſicr o ganlyn arweinwyr mwyaf diogel, a'r ſiamplau mwyaf difrycheulyd, rhaid i mi bregethu i ti iechydwriaeth mewn ffordd o *edifeirwch* tuag at Dduw, a *ffydd* yn ein Harglwydd Ieſu Griſt (s): Dyma 'r hên athrawiaeth a bregethodd yr apoſtolion, yr hon nis dichon *un dyn* gymmeryd arno ei *gwyrdroi*, heb *beryglu* ei enaid, ac eneidiau 'r ſawl a wrandawant arno.

§ 3. 'Rwyf yn barnu 'th ſod erbyn hyn, wedi 'th argyhoeddi o'th euogrwydd a'th ddamnedigaeth; ac hefyd o'th anallu i achub dy hun.

Dioddef

(q) Joan iv. 28. (r) 1 Pedr iv. 11. (s) Actau xx. 21.

Dioddef i mi er hynny i 'th annog i ymofyn am *deimlad* mwy dwfn o hyn ar dy enaid; ſef i ti *ddiſtrywio* dy hun, ac nad yw 'th *gymmorth* o'r hyn ac elli di ei wneuthur (t). Cymmer dy berſwadio gan hynny mewn modd ſyml a diragrith, i roddi heibio bob rhyw ymddibynniad arnat *dy hun*; yr hyn, os na wili yn ei erbyn, a ddaw arnat drachefn yn ddiarwybod, ac a'th arwain i geiſio *adeiliadu* yr hyn a ddiniſtriaiſt.

§ 4. Bydd ſicr o hyn, os *cadwedig* byth y fyddi, rhaid i ti gyfrif yr iechydwriaeth honno i *rŷdd râs Duw*. Euog a thruenus ac wyt, os bydd i ti gael dy dderbyn a'th goroni, rhaid i ti fwrw 'th goron i lawr ger bron yr orſeddfaingc gyda 'r diolchgarwch ;'r goſtyngeiddrwydd mwyaf (u). Nis dichon un cnawd *orfoleddu* ger ei fron ef; gan hynny, yr hwn ſy 'n *ymffroſtio*, a raid ymffroſtio yn yr *Arglwydd:* Canys o hono ef yr ydych chwi yn Ghriſt Ieſu, *yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Duw, yn ddoethineb, yn gyfiawnder, yn ſanctteiddrwydd ac yn brynedigaeth* (w). Rhaid i ti deimlo nad oes mo'r pethau hyn ynnot dy hun, fel y bo i ti allel ymofyn am danynt mewn arall. Rhaid i ti deimlo 'th fod yn anwybodus, yn euog, yn gaeth ac yn aflân; neu (fel y dywed ein Harglwydd am rai ac oeddynt yn proffeſu 'r Grefydd griſtïnogol) 'th fod fel pechadur, *yn druan, yn reſynol, yn dylawd, yn ddall, ac yn noeth* (x).

§ 5. Os yw 'r pethau hyn wedi eu dwys argraffu ar dy feddwl, yr ydwyt yn barod i dderbyn yr hyn fydd gennyf i lefaru wrthyt. Clyw gan hynny, mewn ychydig o eiriau, dy ddyledſwydd, dy feddyginiaeth, a'th ddiogelwch; yr hyn bethau ſy 'n gynnwyſedig yn hyn; ſef yn dy waith yn *ymroddi* i Griſt, gan ddwys *ffieiddio* dy *bechodau*

(t) Hoſ. xiii. 9. (u) Dat. iv. 10. (w) 1 Cor. i. 29, 30, 31.
(x) Dat. iii. 17.

bechodau gynt, a chyda bwriad crŷf i *ymadael* â hwynt; gan lunio 'r bwriad hwnnw yn nerth ei *râs* ef, ac ymorphwys arno am dderbyniad gyda Duw, hyd yn oed pan fyddlech yn bwriadu, ac yn gweithredu *oreu*.

§ 6. Y CYNGOR cyntaf o fawr bwys, a chwennychwn ei roddi i ti yn dy *amgylchiadau* presennol, yw *edrych* ar, *a ffoi* at GRIST. Ac na ddywed yr awr yn dy galon, pwy *a esgyn* i'r nêf, i'w ddwyn ef i lawr attaf (y)? neu pwy a'm *cyfyd* i, ac a'm gosod ger ei fron ef? Canys y bendigedig Iesu, yn yr hwn y mae *pob peth yn cydsefyll* (z), er ei fod mewn angof gan lawer ac sy'n arddel ei enw, nid yw neppell oddiwrth bob un o honom (a); ac oni buasai 'i fod ef yn meddu ar y ddwyfol briodoledd o *hollbresennoldeb*, nis gallasai roddi 'r *addewid* o fod llê bai dau neu dri wedi ymgyfarfod yn ei enw ef (b). Os ydwyt ti gan hynny, O bechadur, yn chwennych cael *Iechydwriaeth*, ffô at yr IACHAWDWR; ac er cael dy orchguddio gan euogrwydd, cywilydd, ofn, a dychryn, fel nas gelli agor dy enau o'i flaen, er hynny cwymp wrth ei orsedd, ac *edrych* arno fel *oen Duw*, yr hwn sy 'n tynnu ymaith *bechodau* 'r bŷd (c).

§ 7. EDRYCH arno gyda llygad astud, a dyweid, onid yw 'r *olwg* yn *effeithiol*, ac yn *toddi* dy galon? Onid ydwyt yn *teimlo* 'r fath greadur ynfyd a thruenus y fuost; fel, er mwyn y pleserau daiarol a gwael y buost yn ymgais ar eu hôl, ddarfod i ti *ladd tywysog y bywyd* (d)? Gwêl y *clwyfau* dyfnion a gafodd wrth ddioddef drosot ti; O! edrych arno *ef*, yr hwn a *wahaneist*, a diammau y bydd i ti *alaru* (e), os nad yw 'th galon wedi ymgaledu fel y graig. Ar ôl un o'th bechodau y gelli edrych gan

(y) Rhuf. x. 6. (z) Col. i. 17. (a) Actau xvii. 27.
(b) Mat. xviii. 20. (c) Joan i. 29. (d) Actau iii. 15.
(e) Zec. xii. 10.

gan ddywedyd, ‘ Yr oedd yn fuddiol er mwyn *hwn*, i mi 'n llyn i *ddrygu* mâb Duw, a'i ofod i *ddioddef*?' A pha ryw demtafiwn a all ymofod arnat ar ol hyn, fel bo 'n iawn i ti ddywedyd, ‘ Er mwyn *pechod hwn, mi ailgroeſhoeliaf fy* Arglwydd (f)?' O bechadur, rhaid i ti *edifarhau*; ac edifarhau am *bob* pechod; a'u gadael: Ac os mynni edifarhau yn gywir ac yn *efangylaidd*, rhaid i ti ſefyll wrth *droed y groes*. Rhaid i ti aberthu pob rhyw *nwyd*, hyd yn oed yr *anwylaf*, pe bai fel y *braich a'r llygad dehau* (g): Ac fel y bo i ti allel gwneuthur fel hyn, mi a'th arweiniais at yr allor, ar ba un yr aberthodd Criſt ei hun, drofot ti, yn *offrwm peraidd* (h). Rhaid i ti *roddi dy hunan i* Duw, *fel un o farw 'n fyw* (i); am hynny y dangoſais â pha ryw *werth i'th brynodd*; *nid â phethau llygredig, megis arian ac aur*, ond *â gwerthfawr* waed mab Duw, yr oen difeius a difrycheulyd (k). Yn awr mi ofynaf i ti ger bron yr Arglwydd, pa beth a ddywed dy galon? Wyt ti 'n gofidio am dy anwireddau gynt? Wyt ti 'n foddlon i ddyfod yn ddiolchgar, ac ewyllyſgar waſanaethwr iddo ef, *yr hwn a'th brynodd â'i waed ei hun?*

§ 8. Mi debygwn fod y fath *fwriadau*, yn awr yn cyfodi yn dy galon. Pa mor drwadl ac effeithiol, nis gwn. Ond hyn ſy 'n ſicr, na rŷdd Duw byth achos i ti newid dy fwriad; canys er y gelli di fod yn gyfnewidiol, mae Iesu Grist yr *un* ddoe, heddyw, ac yn dragywydd (l). A'r rheſwm ſy 'n galw am edifeirwch a ffŷdd yn *awr*, fel pethau cymmwys ac angenrheidiol, a bâr mewn *grym*, tra boi priodoliaethau 'r bendigedig Dduw a Chriſt yr un.

§ 9. Ond er bod gennyt y fath olygiadau a bwriadau, etto rhaid i mi ddwyn ar gôf, mai nid hyn

(f) Heb. vi. 5. (g) Mat. v. 29, 30. (h) Eph. v. 2.
(i) Rhuſ. vi. 13. (k) 1 Pedr i. 18, 19. (l) Heb. xiii. 8.

hyn yn unig fy'n angenrheidiol er dy iechydwriaeth. Rhaid i ti nid yn unig i *fwriadu*, ond fel ac y rhoddo Duw nerth a chyfleuſtra, rhaid i ti hefyd i *weithredu*, fel un fydd wedi ei argyhoeddi o bechod, a'r angenrheidrwydd o ſancteiddrwydd. Ac fel y bo i ti allel cyflawnu pob peth, rhaid i ti 'n gyntaf, fel y *gwaith pennaf* i Dduw, (fel y dywed ein Harglwydd) i *gredu* yn yr hwn a anfonodd efe (m): Rhaid i ti ymddirlaid ynddo; a rhoddi dy hunan i ddwylaw Criſt, i gael dy achub yn y ffordd a drefnodd efe. Dyma *brif* weithred ffydd gadwedigol; a Duw a roddo i ti 'n brofiadol ei hadnabod; fel y gellych gyda 'r apoſtol *Paul*, hyd yn oed yn wyneb angau, ddywedyd, Mi wn i bwy y *credais*, ac y mae yn ddiammau gennyf ei fod yn abl i gadw 'r hyn a roddais atto erbyn y *dydd hwnnw* (n). I hyn 'r wyf yn dy annog; ac O na allwn fod mor ddedwydd, wrth geiſio eglurhau 'r gwirionedd, a'th wneud yn foddlon i dderbyn Criſt a'i iechydwriaeth! Gwybydd, nad oes *dyfod at* Dduw, a'i yſtyriaid ynddo 'i hun, allan o'r cyfryngwr. Nid yw nac yn ogoniant i Dduw, nac yn ddiogelwch i tithau, i ddyfod i'w breſennoldeb trwy un ffordd arall, ond trwy Griſt, yr hwn a *ordeiniodd* efe i ddwyn *pechaduriaid* ger ei fron. Ac os deui ryw ffordd arall, ti ddeui fel un nad yw 'n *bechadur*. Fe fydd dy waith yn ymddangos o flaen yr orſedd allan o'r cyfryngwr, yn arwyddo 'th fod yn *gwadu* 'r euogrwydd, yr hwn mae Duw 'n wybod fy 'n gorwedd arnat: Ac am hynny ni dderbyn mo 'th *weddi*, ac ni edrych arnat. O herwydd hyn y dywedodd ein Iachawdwr (yr hwn a wyddai gyflwr pob *dyn byw*, a'r ffordd o iechydwriaeth) yn yr yſtyr helaethaf, 'Nid yw *neb* yn dyfod at y TAD, ond trwof fi (o).'

§ 10. DERE gan hynny at y prynwr gogoneddus, yr hwn fy 'n hardd i bob llygad *ffydd* yn y gwaed a gollodd,

(m) Joan 6. 29. (n) 2 Tim. i. 12. (o) Joan xiv. 6.

a gollodd, a'r clwyfau a dderbyniodd ar y groes. Dôs atto, O bechadur, y funud hon, â'th holl bechodau o'th amgylch. Dôs yn *anghyfiawn*, fel yr wyt; canys os ni ffoi atto hyd oni byddech yn *gyfiawn* ac yn *ſanctaidd*, ni byddi byth yn gyfiawn ac yn ſanctaidd; canys pe bai unrhyw ffordd i gyfiawnder a ſancteiddrwydd, heb trwy Griſt, ni byddai raid byth i ddyfod atto *ef*. Fe fyddai hyn fel pe bai ddyn clâf yn eſgeuluſo myned at y meddyg nes ei iachâu, ac wedi hynny i fyned. Na thramgwydda wrthyf, am dy annog drachefn i fyned at Griſt *fel yr wyt*, a dywed, (ac O na allit y funud hon i ddywedyd o'th galon mewn gwirionedd) *Ieſu* bendigedig, myfi yw un o'r creaduriaid mwyaf truenus a phechadurus, ac a ymgrymmodd erioed o'th flaen: Etto wele fi 'n dyfod attat, am i mi glywed i ti unwaith i ddywedyd, *Deuwch attaf fi bawb ſy 'n flinderog ac yn llwythog, ac mi roddaf i chwi eſmwythâd* (p). Wele yr wyf yn dyfod, am i ti i gyhoeddi 'n raſol, a dywedyd, *pwy bynnag* a ddêl attaf fi *nis bwriaf ef allan* ddim (q). O frenin y gogoniant! O dywyſog heddwch! Wele fi bechadur truenus a damniol wedi diniſtrio fy enaid byth, oni rynga bodd i ti fy nghymmorth a'm hachub. Mi dorrais gyfraith y Tâd, a'th gyfraith ditheu, canys *un* ydwyt â'r Tâd (r). Mi a haeddais lîd a damnedigaeth; ac yr wyf y *funud hon* dan farn o dragywyddol ddiſtryw: Diſtryw, a drymhâir yn gyfattebol i'r diyſtyrwch a roddais arnat ti, O oen Duw, yr hwn a waedaiſt dros bechod: Mi a bechais yn dy erbyn, ac nis gallaf, ïe nis ceiſiaf, wadu; mi a bechais yn dy erbyn fel *Iachawdwr*, yn gyſtal ac *Arglwydd*. Ond wele fi 'n awr yn foddlon i ymoſtwng i ti; am hynny yr wyf yn dwyn fy enaid attat, yn *dylawd* a *dychrynedig* fel y mae, i gael ei hachub; ac os ni 'm hachub i, colledig

(p) Mat. xi. 28. (q) Joan vi. 37. (r) Joan x. 30.

colledig byth a fyddaf! O Arglwydd, wele fi 'n gorwedd wrth dy *draed*; eſtyn allan y deyrnwialen *aur* fel y byddwyf *fyw* (s)! Ac os rhynga bodd i'r brenin, rhodder i mi fy einioes (t). Nid oes ynnof allu ei brynu; am hynny, os yw yn *bleſer* i'th galon dofturiol i achub un o'r creaduriaid mwyaf *truenus* tan y nefoedd, wele yma gyfleuſtra. O Arglwydd, myfi (trwy fy ffolineb) geiſiais fod yn *hunan iachawdwr*; ond mi welaf fod yr ymgais yn *ofer*; am hynny yr wyf yn codi fy llygaid attat *ti*. Arnat ti, O Ieſu bendigedig, yr hwn wyt *ſicr a diogel*, y dymunwn daflu fy *angor*. Arnat ti, yr unig *ſylfaen ddiogel*, y dymunwn adeiliadu fy ngobaith am fywyd tragywyddol. I'th *addyſgiadau di*, yr hwn wyt *brophwyd* oddiwrth yr *Arglwydd*, y chwennychwn ymoſtwng; er bod dy athrawiaethau 'n bethau dirgeledig, etto, digon i mi yw i ti eu cyhoeddi hwynt. I'th *iawn*, *ufudd-dod* a'th *eiriolaeth*, yr hwn wyt *arch-offeiriad* mawr a chymmeradwy, yr ymddiriedaf. Ac i'th *lywodraeth*, O dderchafedig lywydd, yr ewyllyſiwn, gyda 'r parodrwydd a'r hyfrydwch mwyaf, i ymoſtwng; ac fel arwydd o gariad a pharch, mi a ewyllyſiwn *guſanu y Mâb* (u). O fy anwyl Iachawdwr, mi a ddymunwn i'th dderbyn a'th roeſawu gyda llawenydd anrhaethadwy, i orſedd fy nghalon. Ymderchafa a llywodraetha ynddi byth; O daroſtwng fy ngelynion, O Arglwydd, canys dy elynion di ydynt; a gwna fi 'n waſanaethwr ffyddlon a gwreſog i ti dy hun; *ffyddlon hyd angau, a gwreſog hyd dragywyddoldeb.*'

§ 11. Dyma ddylai fod *iaith* dy galon ger bron yr Arglwydd. A chofia mewn canlyniad o hyn, mai dyma ddylai fod lleferydd dy fywyd yn yr un modd: Pe amgen ni byddai geiriau 'th wefufau, ond *gwawdiaeth ofer*. Nid yw 'r cynnwrf mwyaf ſerchogaidd yn y nwydau, os na bydd ond *trangcedig*

(s) Eſt. iv. 11. (t) Eſt. vii. 3. (u) Saim ii. 12.

cedig a dieffaith, ond megis *ffagl o wêllt* yn cael ei gynnyg ar yr allor, yn llê *arogldarth*. Gyda pha fath oftyngeiddrwydd, cariad, a gwîr ymroddiad ac ymoftyngiad enaid, y rhaid i ti ymgrymmu yn fynych o flaen Crift; a phan yr ymadawech â'r orfedd, rhaid i ti gadw 'th olwg arno, i fyw i Dduw trwyddo, gan ymwadu ac annuwioldeb a chwantau bydol, ac ymddwyn yn ſobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y bŷd ofer a phrofedigaethus hwn (x). Rhaid i ti ofalu dangos dy gariad i Dduw trwy *ufudd-dod*; gan gydymffurfio hyd y bo boſſibl â'r *Iefu*, yn ei dymmer a'i fuchedd, yn yr hwn yr ydwyt yn credu. Rhaid i ti *ymgais* yn bennaf, i fod yn *battrwn byw o Grift*; fel, mor belled ac y dioddefo amgylchiadau, y gallo 'r fawl na chlywfant ac nis darllenafant fawr am y bendigedig *Iefu*, weled mewn *meſur* ynnot ti, pa fath oedd ei *fywyd* ef ar y ddaiar: Ac fe ddylai hyn fod dy ofal pennaf trwy 'th holl fywyd yn y bŷd. Rhaid i ti i'w *ganlyn* i ba lê bynnag yr elo; ei *ganlyn*, gan gymmeryd y *groes* ar dy yſgwydd, pa bryd bynnag y bo iddo ef orchymmyn i ti ei chymmeryd i fynu; ac felly i fod yn ffyddlon hyd *angau*, gan ddiſgwyl *coron y bywyd* (y).

§ 12. Hon, mor belled ac y gellais ddyſgu o *air Duw*, yw 'r *ffordd*, i ddiogelwch a gogoniant; ïe yr *unig* ffordd, a mwyaf *diogel*, ac a elli gymmeryd. Hon yw 'r *ffordd* y cerddodd holl weinidogion *ffyddlon* Crift, ac y maent yn gerdded; ac i'r ffordd hon y maent am dywys eraill, fel y caffont iechydwriaeth. Nis gallwn, ïe ni chwennychwn ni ei chyfnewid am unrhyw ffordd *arall*, er boddio 'n hunain, na 'n cyfeillion anwylaf. Hon yw yr *unig* ffordd, mor belled ac y gallwn ni farnu, trwy ba un mae 'n *weddus* i Dduw achub ei greaduriaid *fyrthiedig*. Am hynny, ddarllenydd, yr wyf yn attolygu

(x) Tit. ii. 12. (y) Dat. ii. 13.

attolygu arnat ei hyſtyriaid yn ddifrifol; a boed i'th gydwybod i atteb, fel ger bron Duw, pa un a'th fod yn ewyllyſgar i gyd-fyned â *hi*, neu nid wyt. Ond gwybydd, mai 'th *farwolaeth dragywyddol* yw ei gwrthod. Canys fel nad oes *enw* arall tan y *nêf*, wedi ei roddi ymmhlîth *dynion*, trwy ba un y mae i ni fod yn gadwedig, ond enw Iesu o *Nazareth* (z), felly nid oes un ffordd arall trwy ba un y gall Iesu ein hachub, ond yr hon a enwais.

Y Pechadur yn yſtyriaid yn bwyllog y buddioldeb o gydſyniad â'r ffordd hon o Iechydwriaeth.

'YSTYRIA, O fy enaid, pa atteb y roddi 'i'r fath *gynnygiadau?* Fe llefarwn yn ol 'llais cyntaf fy nghalon lygredig a dirywiedig, 'mi ddywedwn, *ealed* yw yr *ymadrodd*, pwy ddi-'chon wrando arno (a)? I gael fy naroſtwng, fy 'marweiddio, a'm gwneuthur yn llyn yn ddeiliad! 'I gymmeryd y *iau* arnaf, a'i *chario*, tra parhao 'fy mywyd! I roddi heibio bob rhyw *nwyd*, er 'bod mor anwyl a'm *llygad deheu*, ac yn ym-'ddangos mor angenrheidiol a'r *llaw ddeheu!* I 'roddi fynu, nid yn unig fy *mywyd*, ond hefyd 'fy *nghalon*, i fod dan orchymmyn a diſgybliaeth 'un arall! I gael y fath *feiſtr* arni, ac a ar-'glwyddiaetho ar lawer o'i *nwydau* anwylaf, gan 'beri iddynt weithredu 'n gwbl i'r gwrthwyneb! 'Llywydd, ac ſy'n goſod allan fod ei orchym-'mynion yn gofyn codi 'r *groes* a'i *ganlyn ef!* 'I gadw at y rheolau llymmaf o *dduwioldeb*, *ſob-'rwydd*, *cyfiawnder*, *a gwirionedd*; heb ymadael â 'hwynt un amſer yn *ewyllyſgar*, trwy unrhyw '*brofedigaeth*, er mwyn unrhyw *fudd*, nac er 'mwyn diangc rhag unrhyw *ddrwg*; ïe pe trwy 'hynny y gallwn achub fy *mywyd*; ond i'r gwrth-

F 'wyneb

(z) Actau iv. 12. (a) Ioan vi. 60.

'wyneb i ymddwyn ar *alwad* rhagluniaeth, fel pe 'bawn yn *caſhâu* fy *einioes* fy hun (b)! O Ar-'glwydd, mae hyn yn groes, ac yn anhawdd i 'gîg a gwaed: Ond mi wela fod *un peth* yn fwy 'anhawdd na hyn oll; ſef rhoddi fynu 'r *cwbl* 'o'm heiddo fy hun, fel *pethau dilês* i fy iechyd-'wriaeth. Er yr holl bethau uchod, fe gai *balch-der* fy nghalon ryw râdd o dufewnol bleſer, pe 'gallwn ond dirgel feddwl, i mi fedru *achub fy hun*; i'm bwriadau a'm doethineb, i *dorri* rhw-'ymau a chadwynau 'r gelyn; ac i mi dynnu 'allan o'm tryſorau fy *hun*, y gwerth a bwrca-'ſodd fy ngwaredigaeth. Ond a raid i mi gwym-'po o flaen un arall, yn wan, yn analluog, yn 'euog, ac yn ddamnedig? Ac a raid i'm rhwy-'medigaethau fod etto 'n fwy, a raid i *gyfryngwr* 'wneuthur rhan yn fy iechydwriaeth? A raid i 'mi fyned at y *groes* i gael achubaeth, ac ym-'ofyn fy ngogoniant trwy ei *gwaradwydd hi?* 'A raid i mi gymmeryd fy *nioſg* o bob rhyw 'hunan gyfiawnder, ac felly i yſtyriaid fy hun yn 'yr unrhyw gyflwr a'r *gwethaf* o ddynion? A 'raid i mi hefyd i ſefyll yn *euog* o flaen y *frawdle* 'ymmŷſg y drwgweithredwyr mwyaf, ac ymofyn 'gwaredigaeth trwy *râs* fel y cyfryw rhai?

'NIS gallaf ddywedyd mewn modd pwyllig, 'fod y dreſn hon o iechydwriaeth yn *afreſymmol*; 'canys mae fy nghydwybod yn tyſtio i mi *bechu*, 'ac am hynny nis gallaf gael fy nghyfiawnhâu 'o flaen Duw, fel creadur *ufudd* a *diniwaid*. 'Mae *hi* 'n cyhoeddi fod yr holl *amgylchiadau* 'uchod ac fy 'n tueddu i'm daroſtwng i, yn *addas*, 'ac yn *angenrheidiol:* Fod yn *iawn* i ddrwg 'weithredwr gael ei ddwyn ar ei liniau: Ac y 'dylai gwrthryfelwr roddi heibîo ei arfau o wrth-'ryfelgarwch, ac ymoſtwng o flaen ei lywydd, 'tra

(b) Luc xiv. 26.

'tra mae 'n ymofyn am ei bardwn a'i fywyd. 'Mae fy *rheſwm* yn gyſtal a'm *cydwybod* yn dy-'wedyd i mi, i fod yn *iawn* ac *angenrheidiol*, os 'câf *oll* fy achub, i mi gael fy achub rhag *ar-'glwyddiaeth* pechod, a *chariad* atto, yn gyſtal ac 'oddiwrth y ddamnedigaeth ſy 'n ei ganlyn; ac 'os rhŷdd trugaredd i mi gael *bywyd newydd*, 'wedi haeddu *marwolaeth dragywyddol*, i fod yn 'gymmwys i mi roddi fy *hun* i Dduw, fel un o 'farw 'n fyw (c). Ond O ys truan o ddŷn ag 'wyf, yr wyf yn profi *deddf* yn fy aelodau yn 'gwrthryfela 'n erbyn *deddf* fy meddwl (d), ac 'yn attal argyhoeddiad fy rheſwm a'm cydwybod. 'Pwy a'm gwared allan o'r caethiwed hwn? Pwy 'a'm galluoga i gyflawnu yr hyn, ac mae fy 'enaid yn weled ſy 'n iawn? O Arglwydd, dar-'oſtwng fy nghalon, ac na âd iddi gael ei thynnu 'gyda 'r fath rym *un ffordd*, tra mae galluoedd 'mwyaf *gogoneddus* y meddwl, yn chwennych ei 'thywys i *ffordd arall!* Gorchfyga bob rhyw 'egwyddor *bechadurus* ynnof, fel y bo 'n *llawen* 'gennyf gael yn llyn fy attal a'm doeth arwain! 'Yn enwedigol, daroſtwng fy malchder, y *llwgwr* '*arglwyddiaethol* hwnnw, pa un ſydd mor an-'weddus i'r fath greadur *llwm* ac *euog*, ac wyf 'fi; fel y bo *ffordd* iechydwriaeth yn dyfod yn '*ddymunol* yn fy ngolwg, yn ol y grâdd y bo hi 'n tueddu i'm *daroſtwng!* Yr wyf yn teimlo 'tueddiad ynnof i drigo yn *Sodom*, ond O Ar-'glwydd, bydd drugarog wrthyf, ac arwain fi allan 'o honi (e), cyn y delo '*ſtorom* dy ddialedd 'tanllyd arnaf, pan na bo dihangfa!'

(c) Rhuf. vi. 13. (d) Rhuf. vii. 24. (e) Gen. xix. 16.

PENNOD X.

Y Pechadur yn cael ei annog mewn modd difrifol i dderbyn Iechydwriaeth yn ffordd Duw.

§ 1. MI welais *argraffiadau* ac *argyhoeddiadau* o'r fath hyn lawer gwaith (os yw 'n gymmwys i farnu yn ol yr olwg) ac wedi 'r cwbl yn gwiſgo ymaith drachefn. Rhyw anhappus amgylchiadau a phrofedigaethau oddi allan ſydd yn cyd-daro â gwrthwynebrwydd y galon aſian oddi fewn, i'r *drefn* oſtyngedig a ſanctaidd hon o brynedigaeth, y fu 'n achos o ddiſtrywio *tarfeydd* o bechaduriaid. A thrwy *dwyll* pechod, hwy a *galedwyd* (f), hyd oni *ddrylliwyd* hwynt yn hollol heb *feddyginiaeth* (g), yn ol pob arwyddion. Am hynny, O greadur anfarwol, yr hwn wyt yn awr yn darllain y llinellau hyn, tra mae pethau yn y fath *ſefyllfa beryglus*; tra mae 'r meddwl megis yn y clorian, yn *tafoli* rhwng *gwrthod* a *derbyn*, yr efengyl ogoneddus, yr hon trwy gywirdeb fy nghalon y ſum i yn awr yn oſod ger dy fron, mi ddymunaf arnat unwaith ychwaneg i roddi ſyml wrandawiad, tra 'r wyf yn dadleu ar ran Duw, neu yn hytrach ar dy ran di dy hun: Tra 'r wyf megis *cennad* dros Griſt, fel pe bai Duw yn deiſyf arnat trwof fi, yr wyf yn erfyn dros Griſt *cymmoder di â Duw* (h); ac na bo i ti wedi 'r *deffroadau* a'r *ymoſyniadau* hyn, trwy ffolineb i wrthod cyngor a thoſturi Duw tuag attat, rhag mai 'th ofidus waith mewn tragywyddoldeb o drueni, fydd galaru am y fath ynfydrwydd.

§ 2. FE allid yn wîr i feddwl na byddai yn angenrheidiol i ymarfer *taerni* yn y peth hyn. Fe

(f) Heb. iii. 13. (g) Diar. xxix. 1. (h) 2 Cor. v. 20.

Fe fyddai 'n rheſymmol i un benderfynu, mae mor gynted ac y bo i bechaduriaid colledig glywed fod y Duw a ddigiaſent trwy eu pechodau yn barod i gymmodi, i fod ef yn cynnyg maddeuant llawn o'u *holl* bechodau, ïe ei fod ef yn foddlon eu mabwyſio yr awr hon i'w deulu, fel y bo iddo eu derbyn yn y diwedd i'w nefol breſennoldeb; y byddent *oll* gyda 'r parodrwydd a'r pleſer mwyaf i goſleidio 'r fath dirion gennadwri, ac i gwympo wrth ei draed mewn ſyndod, diolchgarwch, a llawenydd. Ond och i feddwl, yr ydym yn cael pethau yn hollol wrthwyneb. Ni welwn dorfeydd yn gwbl *ddigyffro*; a'r argraffiadau ſy 'n cael eu gwneud ar lawer mwy, ydynt weinion, ac yn myned heibio. Rhag ei bod felly gyda thi, O ddarllenydd, gâd i mi *gymmell* arnat y gennadwri, yr hon y gefais yr anrhydedd ei dwyn: Gâd i mi *erfyn* arnat i *gymmodi* â Duw, a derbyn maddeuant ac iechydwriaeth, yn y ffordd y mae efe yn ei chynnyg i ti mor *rhâd*.

§ 3. Mi 'th gymmhellaf trwy fawredd y Duw hwnnw, yn enw pa un yr wyf yn dyfod attat; llêf yr hwn ſy 'n llanw 'r nefoedd o barch ac ufudd-dod. Nid yw 'n llefaru 'n ofer wrth lengoedd o angylion; ond pe gallai fod unrhyw ddadl ymmŷſg yr yſbrydion gogoneddus hynny, fe fyddai ynghylch pwy gai 'n *gyntaf* gyflawnu ei orchymmynion *ef*. O na fydded iddo lefaru yn ofer wrthyt ti, O ddŷn truenus a marwol! Yr wyf yn dy gymmell trwy *ddychrynfeydd ei lid*, yr hwn all lefaru wrthyt trwy daran; yr hwn allai trwy un weithred o'i ewyllys i'th dorri ymaith o'r bywyd brau hwn, a'th anfon i waelod uffern. Mi attolygaf arnat trwy ei *drugareddau*, trwy ei *dyner drugareddau*; trwy ymyſgaroedd ei doſturiaethau, pa rai ſydd hyd yn hyn yn rhuo

am danat; megis tâd am ei *anwyl fâb*, ei *dyner blentyn*, yr hwn (er ei wrthryfelgarwch gynt) mae ef yn ei *dilifrifol gofio*, ac yn ei *garu etto* (i). Yr wyf yn erfyn arnat trwy holl *dadol ddaioni* Duw, na bo i ti ei *gymmell* ef, megis i roddi heibio ei dynerwch tadol, ac ymddangos yn dy erbyn fel cyfiawn *farnydd*; ac (yn ol ei fygythion mewn perthynas i'r fawl a alwodd yn ddiweddar ei *feibion a'i ferched)* i dân i gynnu yn ei lîd, a lloſgi hyd yn uffern iſod (k).

§ 4. YM mhellach, mi erfyniaf arnat trwy *enw* a *chariad* yr iachawdwr a fu farw dros bechaduriaid. Trwy ei ymoſtyngiad a'i gnawdoliaeth; trwy 'r *tylodi*, i ba un yn ewyllyſgar yr ymgrymmodd ei hun, fel y bae i ti gael dy gyfoethogi â thryſorau tragywyddol (l); trwy 'r *galwedigaethau* graſol, a roddodd, ac ſydd hyd yn hyn yn ſwnio yn ei air, hyd yn hyn yn dyfod megis yn gynnes o'i galon ef, ac am hynny 'n *feluſach* na mêl, neu ddiferiad diliau mêl (m). Mi erfyniaf arnat trwy ei *weithredoedd* galluog a rhyfeddol, y rhai oeddynt hefyd yn weithredoedd o *gariad*. Yr wyf yn erfyn arnat trwy goffadwriaeth o'r hyn a *dxioddefodd*, yn gyſtal a'r hyn y wnaeth ac a ddywedodd; trwy 'r *ing* y ddioddefodd yn yr *ardd*, pan orchguddiwyd ei gorph gan *ddefnynnau gwaed* (n) Mi attolygaf arnat trwy 'r holl ofid a deimlodd, pan *gadawodd* ei gyfeillion anwylaf ef (o), a'i elynion a ſychedent am ei *waed*, yn ei luſgo ymaith, fel y caethwas gwaelaf, ac fel y drwgweithredwr mwyaf ffieidd. Yr wyf yn erfyn arnat trwy yr ergidion, a'r cleiſiau, trwy 'r fflangellau a'r clwyfau, pa rai y ddioddefodd y llywydd nefol ar gam, tra yn nwylaw gwrthryfelwyr; trwy 'r gwaradwydd a'r poeri oddiwrth ba bethau ni

(i) Jer. xxxi. 20. (k) Deut. xxxii. 19, 22. (l) 2 Cor. viii. 9.
(m) Salm xix. 10. (n) Luc xxii. 44. (o) Mat. xxvi. 56.

ni *chuddiodd* ei *wyneb* hawddgar (p). Yr wyf yn erfyn arnat trwy y *wiſg o borphor*, y deyrnwialen o gorſen, a'r goron ddrain, y rhai a wiſgodd brenin y gogoniant, fel i'n goſodid ni ymmŷſg tywyſogion y nefoedd (q). Yr wyf yn attolygu arnat trwy yſtyriaeth o'r baich trwm ar ei yſgwyddau, ſef y *groes*, dan yr hon y dyheuodd, y trafferthodd ac y lleſgaodd, yn y ffordd ofidus tuag at *Golgotha* (r), fel y gwaredai ni rhag y *baich o bechod*. Mi attolygaf arnat trwy 'r *hoelion garw* a dorraſent wythenau, rhedwelieu, a gewynau, ei *ſanctaidd ddwylau a'i draed*; a thrwy yr anorchfygol, a'r buddugoliaethol gariad, pa un, tra yr oedd yr *haiarn* yn tyllu ei gnawd, a'i rhwymodd ef i lefain allan, *O Dâd, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur* (s). Yr wyf yn attolwg arnat trwy 'r anrhaethol *ing* y ddioddefodd, pan gyfodwyd ef i fynu ar y *groes*, dros chwech awr boenus, ar i ti agor dy galon i'r dylanwadau hynny pa rai fuant yn foddion i dynnu miloedd *atto ef* (t). Yr wyf yn attolygu arnat trwy 'r dirmyg a'r gwatwor a ddioddefodd Arglwydd y gogoniant ar y groes (u); trwy 'r *lloſgedig ſyched*, i dorri pa un, o braidd y cafodd ychydig o *finiger* (w); trwy y llêf alarus honno, pa un oedd mor rhyfeddol yng ngenau unig anedig Fâb y Tâd, *Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaiſt* (x)? Yr wyf yn erfyn arnat trwy y *grâs* a ddaroſtyngodd y *drwgweithredwr marwol*, ac a faddeuodd ei holl bechodau (y); trwy 'r *toſturi* hynny at bechaduriaid, trwy y *toſturi* hynny tuag attat ti, pa un oedd yn gweithredu yn ei galon, tra parhaodd bywyd ynddi, a'r hwn ni ddarfu pan ogwyddodd ei ben, gan ddywedyd, *gorphen-*

(p) Eſay l. vi. (q) Salm cxiii. 8. (r) Ioan xix. 17.
(s) Luc xxii. 34. (t) Ioan xii. 32. (u) Mat. xxvii. 39—44.
(w) Ioan xix. 28, 29. (x) Mat. xxvii. 46. (y) Luc xxiii. 42, 45.

nwyd, ac a roddodd i fynu yr yſbryd (z). Yr wyf yn erfyn arnat trwy ei orfoleddus *adgyfodiad*, trwy ba un yr amlygwyd ef yn Fâb Duw mewn gallu trwy 'r Yſbryd glân, yr hwn a weithredodd er dwyn hyn oll i ben (a); trwy 'r tynerwch graſol oedd yn cyd-fyned â hyn oll, pan ddywedodd ef wrth y wraig, o ba un *y buriodd allan ſaith o gythreuliaid*, mewn perthynas i'w *adiſgyblion* y rhai ymmddygaſent tuac atto mor *dwyllodrus*, gan ddywedyd, *Dôs, a dywed wrth fy mrodyr, yr wyf yn derchafu at fy Nhâd i a'ch Tâd chwithau, ac at fy Nuw i a'ch Duw chwithau* (b). Mi attolygaf arnat trwy yr ymoſtyngiad, trwy ba un y dywedodd wrth *Thomas* (pan ryfygodd ei angrheddiniaeth i geiſio 'r fath bethau) *Moes yma dy ſŷs, a gwêl fy nwylaw; ac eſtyn dy law, a dôd yn fy yſtlys; ac na fydd angrhedadyn, ond credâdyn* (c). Yr wyf yn attolwg arnat, trwy 'r ffyddlon ofal hynny am ei bobl, ac a aeth gydag ef i ardaloedd gwynfyd, ac a'i rhwymodd ef i anfon i lawr ei yſbryd yn ei holl ddoniau gwrthiol, i'r diben o ledu ei air achubol (d). Trwy 'r *llais* hwnnw o gydymdeimlad, ac o allu, trwy 'r hwn y dywedodd wrth *Saul*, pan yn *drygu* ei eglwys, *Saul, Saul, pa ham yr wyt ti yn fy erlid i* (e)? Trwy 'r hael ddaioni yr hwn a arbedodd y fath elyn, pan yn *crynu* wrth draed ei Arglwydd, ac a'i cyfododd ef i'r gyfryw *râdd* uchel o anrhydedd, fel na bu 'n ol mewn *dim* i'r apoſtolion *pennaf* (f). Trwy goffadwriaeth o'r hyn oll a wnaeth *Criſt* yn *barod* ar ran ei bobl; a'r hyn oll ac y maent yn ddiſgwyl y wna ef *rhagllaw* erddynt. Yr wyf yn erfyn arnat, ar air, trwy deyrnwialen ei râs, a chleddyf ei gyfiawnder, trwy ba un y

lleddir

(z) Ioan xix. 30. (a) Rhuf. i. 4. (b) Ioan xx. 17. (c) Ioan xx. 27. (d) Actau ii. 33. (e) Actau ix. 4. (f) 2 Cor. xii. 11.

lleddir ger ei fron ef, ei holl *elynion* gwargaled (g), na bo i ti waſtraffu 'th *amſer gwerthfawr*, yn yr hwn y mae ei yſbryd yn *anadlu* arnat; na bo i ti adael y cyfleuſtra hyn i fyned ymaith, ar y iawn ddenfydd o ba un, mae 'th ddedwyddwch tragywyddol yn ymddibynnu.

§ 5. Yr wyf yn dy gymmell trwy yr *ymyſgaroedd o doſturiaethau* yr wyt yn rhwym eu dangos tuag at *weinidogion ffyddlon Criſt*; yr rhai ſy'n myfyrio ac yn llafurio, yn pregethu ac yn gweddio, yn gwiſgo allan eu hamſer a'u nerth, ac mae 'n bur debyg, yn *byrhâu* eu *heinioes*, wrth geiſio dwyn oddiamgylch dy *iechydwriaeth di*, a'th fath. Trwy 'r *ſerch*, pa un ſy 'n peri i bawb ac a *garant ein Harglwydd Ieſu Griſt* mewn gwirionedd, i hiraethu am dy weled di 'n cael dy ddwyn yn ol atto ef. Yr wyf yn erfyn arnat trwy *gyfeillgarwch* y byw, a *choffadwriaeth* o'r meirw; trwy *ddiſtryw* yr rhai a gamddefnyddiaſant eu *dyddiau*, ac a *gollwyd* trwy eu *pechodau*; hefyd trwy *ddedwyddwch* y ſawl a gofleidiaſant yr efengyl, ac a *achubwyd* trwyddi hi. Mi 'th annogaf trwy *ddiſgwyliad* o'r dŷdd mawr, yn yr hwn yr *ymddengys* yr Arglwydd Ieſu o'r *nêf* (h); trwy 'r *dychrynfeydd* a fyddant yn cyd-fyned ac *ymollyngiad a thoddiad* yr *elfennau* (i); trwy *ſain utgorn yr archangel* (k); a thrwy 'r *farn* honno, pa un fydd yn anfeidrol fwy ofnadwy na'r cwbl oll allan o enau 'r barnwr, trwy 'r hon y penderfynnir gwaith y dŷdd mawr, ſef, *Deuwch* chwi *fendigedigion*, ac *ewch* chwi rai *melldigedig* (l).

§ 6. Yn ddiweddaf oll, mi attolygaf arnat trwy 'r yſtyriaeth o *werth dy enaid anfarwol dy hun*; trwy olwg ar *wely angau*, neu *ddiſymmwth* fynediad i'r bŷd anweledig; ac yn enwedig os dy-

(g) Luc xix. 27. (h) 2 Theſ. i. 7. (i) 2 Pedr iii. 10, 11.
(k) 1 Theſ. iv. 16. (l) Mat. xxv. 34, 41.

muni deimlo un wreichionen o gyſſur yn dy yſbryd ar ei ymadawiad, pan fo 'th *gnawd a'th galon yn pallu.* Trwy 'r yſtyriaeth o'th *berſonol* ymddangoſiad o flaen gorſeddfaingc Criſt (canys perſonol ymddangoſiad y raid ei fod, hyd yn oed i'r ſawl ſydd yn awr yn eiſtedd ar *orſeddfeingciau* eu hunain;) trwy *lawenydd* yr rhai *gwynfydedig*, a *phoenau* 'r *damnedigion*, y naill neu 'r llall y fydd dy dragywyddol *ran* dithau. Yr wyf yn garedigol yn erfyn arnat trwy *rym* yr yſtyriaethau hyn, fel yr attebych i mi, pan gaffwyf fy nghalw ar y dydd mawr i dyſtiolaethu i'th erbyn (a'r hyn ſy 'n anrhaethol fwy) ac fel y gallech atteb i gydwybod, ac i'r barnwr tragywyddol, na bo i ti adael y meddyliau, y gofalon, a'r myfyrdodau hyn fyned ymaith, nes dwyn pethau i benderfyniad dedwydd; hyd oni byddo i ti wneuthur dewiſiad o Griſt, a'i ffordd *ef* o iechydwriaeth; ïe hyd oni roddech dy hunan yn ſyml i fynu i Dduw trwy *rwymau cyfammod tragywyddol.*

§ 7. DYMA fi 'n gadael y cwbl o'th flaen, a cher bron Duw. Mi ddywedais i ti fy *neges*, my gyflawnais fy *nghennadwri*. Cadarnach rheſymmau nis gallaf eu harfer; yſtyriaethau, mwy anwyl, a mwy ofnadwy nis gallaf eu dwyn ar gôf i ti. Dewis gan hynny pa un y wnai, a myned allan, megis mewn *ſachliain*, gan daflu dy hun wrth draed yr hwn ſy 'n awr yn danfon attat yr iawn a'r graſol *dilerau* hyn, o faddeuant ac o heddwch; neu a ſefi di allan, hyd oni ymddangoſo *â'i gleddyf yn ei law*, i gyfrif â thi am dy *fradau* a'th ddrwgweithredoedd, ac ymmhlîth pethau eraill, am dy waith yn *diyſtyru* 'r *gennadwri hon.* Mi ewyllyſiwn i feddwl y goreu, ac nis gallaf gredu y bydd fy *llafur* hyn o *gariad*, mor hollol ddieffaith, fel na bo un enaid i gael ei

ei dwyn at draed Criſt, trwy galonnog ymoſtyngiad iddo, a goſtyngedig ffŷdd ynddo. Cymmer *eiriau* gan hynny gyda thi, a dychwel at yr Arglwydd (m); ac Oh na bae 'r geiriau canlynol, o leiaf mewn effaith, yn wîr iaith pob un a'u darlleno hwynt!

Y Pechadur *yn ymroddi i'r erfyniadau uchod, ac yn cyhoeddi ei hun yn ewyllyſgar i dderbyn iechydwriaeth trwy Griſt.*

'O ARGLWYDD bendigedig, digon yw! 'Iê mwy na digon! Nid yw 'n boſſibl 'fod yr holl reſymmau, y fath daer erfyniadau, 'a hyn yn angenrheidiol, i'm gwneuthur i 'n 'foddlon i dderbyn maddeuant, happuſrwydd, bywyd, a gogoniant tragywyddol. O iachawdwr 'trugarog, mae fy enaid wedi ei daroſtwng; fel 'yr wyf yn gobeithio fod araith dy ofid, wedi 'dwad yn iaith fy edifeirwch, ac y gallaf ddy'wedyd, fy nghalon ſydd fel cŵyr, *hi a doddodd* '*ynghanol fy mherfedd* (n).

'O brynwr graſol! Mi 'th eſgeuluſais yn 'ormodol yn barod. Mi a'th anfoddlonais yn 'rhy fynych, mi a'th *ailgroeſhoeliais* di trwy fy 'euogrwydd a'm hanedifeirwch, fel pe cym'meraſwn bleſer i'th *oſod yn watwor* (o). Ond 'mae fy nghalon yn awr yn plygu ger dy fron 'gan ymoſtwng i ti mewn modd diragrith. Nid 'wyf yn chwennych unrhyw ammodau amgen 'na 'r rhai hyn, ſef bod o honof yn eiddo i ti 'yn hollol. Wele fi yn rhoddi fy nghalon i ti 'mewn modd ewyllyſgar, ac megis yn *ddiyſgrifen*, 'gan ddymuno arnat fy anrhydeddu ac adnabyddiaeth o'th ewyllys, yn yſgrifennedig arni. *Dŷſg* 'i mi, O Arglwydd, i adnabod pa beth y ſynnu

(m) Hoſ. xiv. 2. (n) Salm xxii. 14. (o) Heb. vi. 6.

'*di* i mi *wneuthur*; canys yr wyf am ddyſgu y 'wers honno, a'i dyſgu i'r diben o'i *harferyd*. 'Os wyt yn gofyn oddiwrthyf fwy nag all fy 'ngalluoedd gweinion i atteb, yr wyf yn hyderu 'y bydd i ti gyfrannu i mi fwy o nerth; ac yn 'y gallu hynny, mi a'th waſanaethaf. O derbyn 'yr enaid, yr hwn a wnaethoſt yn foddlon i fod 'yn eiddo i ti!

'O IESU fendigedig, nid yw mwyach yn 'angenrheidiol i *attolwg* arnaf ac i'm *hannog*: 'Caniattâ i mi yn hytrach allel o honof ymbil 'arnat *ti*, gyda 'r *taerni* hynny, a weddai i 'bechadur colledig, pa un ſy 'n gweled, ac o'r 'diwedd yn gwybod, nad oes iechydwriaeth yn 'neb arall (p)! Caniattâ i mi, O Arglwydd, i 'ddyfod attat, ac i daflu fy hun wrth dy draed, 'yr hwn wyf megis *alldud* analluog, heb *lê* ganddo 'i ymgyſgodi ond yn dy fawr *doſturi di!* Fel un 'yn cael ei *ganlyn* gan *ddialydd y gwaed*, yn dwys 'ymofyn am dderbyniad i'r *ddinas noddfa* (q)!

'DISGWYLIAF wrth yr *Arglwydd*, diſgwyl fy 'enaid, ac yn ei *air* ef y gobeithiaf (r), ſef y 'bydd iddo ef yn *raſol* i'm derbyn (s). Mae fy 'enaid yn ymddiriaid yn dy *ddaioni*, gan dy add-'oli. Yr wyf yn dymuno anrhydeddu 'th *hir-amynedd* a gyd-ddygodd â mi hyd yn hyn; 'a'r gràs pa un ſy 'n awr yn fy ngwneuthur i 'n 'ewyllyſgar o'r galon i fod yn *eiddo* i ti; i fod 'yn eiddo i ti ar dy *delerau* dy hun; ïe, ar un-'rhyw *delerau*. O diogela 'r galon dwyllodrus 'hon i ti dy hunan! O una fi â thi dy hun, 'yn y fath anwahanol rwymau, fel nas gallo 'hudoliaethau *cîg a gwaed*, teganau 'r *byd* per-'yglus hwn, na thaer erfyniadau fy nghyfeillion 'pechadurus, fy nhynnu yn ol oddiwrthyt, a'm

'*ſoddi*

(p) Actau iv. 12. (q) Joſ. xx. 2, 3. (r) Salm cxxx. 5. (s) Hoſ. xiv. 2.

'ſoddi mewn euogrwydd newydd, a thragywy-
'ddol ddiſtryw! Bydd yn *fachnŷdd* dros dy wâs
'er daioni, O Arglwydd (t); fel y gallwyf yn gyſon
'ymafaelu ynnot, a thrwy hynny ar fywyd tra-
'gywyddol; hyd oni bo i mi yn y diwedd
'adnabod yn fwy hollol, trwy orfoleddus a thra-
'gywyddol *brofiad*, pa ryw gyflawn iachawdwr
'ydwyt ti. Amen.'

PENNOD XI.

Difrifol annerch at y ſawl ni chymmerant eu perſwadio i gwympo i mewn â galwad ac â diben yr efengyl.

§ 1. MI obeithiaf yn oſtyngedig, y bydd i'r pennodau blaenorol fod yn foddion i ddeffroi rhai pechaduriaid difraw, ac anheimladwy; yn foddion i'w hargyhoeddi o'r angenrheidrwydd o feddiannu iechydwriaeth yr efengyl; ac o'u gwneuthur yn ewyllyſgar i wneud derbyniad calonnog o honi. Etto nis gallaf wenhieithio i mi fy hun mor belled a meddwl, y bydd y peth felly gyda phawb, i ddwyław pa rai y daw y llyfr bychan hwn. Pa beth wyf *fi*, Och! Pa beth wyf *fi* well na 'm *tadau* (u), neu 'm *brodyr*, yr rhai *ym mhob oes* y fuant yn *achwyn*, mewn perthynas i dorfeydd o bechaduriaid, *Ar hyd y dŷdd ni eſtynnaſom ein dwyław at bobl anufudd, ac yn gwrth-ddywedyd* (x)? Llawer o'r fath a geir, mae 'n boſſibl ymmŷſg fy narllenwyr innau; llawer, ar ba rai, ni chaiff yr yſtyriaethau o *ddychryn* nac o *gariad* ddim *effaith* ddwfn a pharhaus:

(t) Salm cix. 122. (u) 1 Bren. xix. 4. (x) Rhuf. x. 21.

haus: Llawer o'r rhai, fel y dywedodd ein Harglwydd trwy *brofiad*, *y canaſom bibell iddynt, ni ddawnſiaſant, a phan canaſom alarnad iddynt, ni chwynfanaſant* (y). Nis gallaf ddywedyd ychwaneg i'w perſwadio hwynt; ac os gwnânt yn *yſgafn* o'r hyn y ddywedais yn barod, rhaid i mi a hwythau yn y fan hon gan hynny ymadael: Ac O nas gallwn wneud hynny yn y fath *fodd*, ac y bo rhyw raddau o argyhoeddiad yn cael ei ſefydlu ar eu calonnau; fel, er ymadael dros ychydig (gan eu danfon hwynt yn *ol i ail edrych* y pennodau o'r blaen, fel yr unig rai a berthynant iddynt yn eu cyflwr preſennol) y bo iddynt ar frys megis i'm *gorddiwais* drachefn, a phrofi yr rhan ſy 'n ol o'r traethawd hwn yn *addas*; yr hyn nid yw boſſibl iddynt yn eu cyflwr preſennol. O greaduriaid anhappus! Yr wyf yn eich gadael fel y gâd meddyg y clâf, yr hwn mae 'n ei *garu*, ac er hynny ynghylch ei roddi fynu, fel dŷn marwol: Wele efe yn dychwelyd drachefn a thrachefn, ac yn chwilio yr amrywiol arwyddion, i edrych a fydd un o honynt yn well na'r llall; ac yn rhoddi annogaeth i wneud cymhwyſiad o foddion o *newydd*.

§ 2. DYMA fel y dymunwn innau ddychwelyd attat ti *unwaith* etto. Nid wyt yn profi ynnot dy hunan unrhyw dueddiad i gofleidio 'r efengyl; i ffoi at Griſt, i roddi 'th hunan i waſanaeth Duw, ac i wneud Crefydd yn waith pennaf dy fywyd. Etto os na allaf dy wneud yn foddlon i hyn, boed i mi o leiaf allel dy rwymo i atteb i mi, neu yn hytrach i'th gydwybod, 'Pa ham nas gwnai 'r pethau uchod?' Ydyw 'th anufuddoddion yn tarddu oddiwrth angrhediniaeth o egwyddorion Crefydd? Os felly, mae 'r *clwyf* yn wahanol i'r hyn y fu hyd yma dan fy yſtyriaeth, ac

(y) Mat. xi, 17.

ac mae yn rhaid fod y *feddyginiaeth* yn wahanol. Nid dyma 'r *llê* i ymladd ac amheuon dидduwiaeth: Er hynny mi ewyllyſiwn i ti i fyml ymholi, pwy mor belled mae 'r amheuon rhain yn myned? A ydynt yn unig yngylch rhyw neillduol athrawiaethau o 'r efengyl, ynghylch pa rai yr ymreſymmais â thi; neu a ydynt ynghylch y cwbl o'r datguddiad Griſtianogol? Neu ydynt yn myned etto ym mhellach, ſef at Grefydd natur, yn gyſtal a'r un ddatguddiedig; fel na wyddaiſt yn iawn pa un a bod *Duw*, *rhagluniaeth*, a *bŷd* ar ol *hwn*, ai nid oes? Gan fod y pethau hyn oll yn wahanol, fe fydd o fawr ganlyniad i ti allel *gweled* y gwahaniaeth; fel y bo i ti wybod ar ba egwyddorion y gelli ddiogel *adeiliadu*, tra y byddech yn profi 'r pethau hynny, ynghylch pa rai yr ydwyt yn *amheus*. Pa amheuon bynnag ſydd yn dy feddwl, mi oſynnaf i ti ym mhellach, pa hyd y buont yn aros; a pha *foddion* a arferaiſt tuag at eu *ſymmud* hwynt? A ydwyt ti yn meddwl mewn *pethau* o gymmaint *bwys* y dioddefir i ti fyned yn y blaen mewn *yſgafnder*, gan eſgeuluſo chwilio i mewn i *wirionedd* pethau; wyt ti yn tybiaid y bydd hyn yn eſgus dros dy waith yn peidio bucheddu yn ol y gwirionedd datguddiedig? Onid yw *rheſwm* yn ſicrhau i ti, os yw 'r pethau hyn yn wîr (fel wrth dy waith yn *ammau* yn eu cylch, yr wyt yn addef y poſſiblrwydd o honynt o leiaf) eu bod yn anfeidrol fwy eu *pwys* na holl *achoſion* y bywyd hwn; pa un bynnag a'i drafferthon neu 'i bleſerau, er mwyn pa rai yr wyt yn eu heſgeuluſo hwynt? Pa ham gan hynny yr wyt yn aros yn *ddifraw*, ac yn *ddioglyd*, o wythnos i wythnos, ac o ſis i ſis, yr hyn mae 'n debygol yw llais cydwybod am danat.

§ 3. Wyt

§ 3. WYT ti yn barod i ofyn, ‘ Pa *ffordd* a gymmeraf i'r diben o ſymmud fy *amheuon*? Nid yw 'r cweſtiwn yn galed ac anhawdd ei atteb. Agor dy lygaid; rhô dy hunan i yſtyriaid: Dioddef i gydwybod lefaru; ac yr wyf yn gwîr gredu, os nad yw hi wedi caledu i râdd anghyffredin, y bydd i ti gael rhagddywediadau cyfrwys, er mwyn *profi* gwirionedd y Crefydd natur a'r un ddatguddiedig; ac hefyd o'r angenrheidrwydd hollol, o wîr edifeirwch, ffŷdd, a ſancteiddrwydd, tuag at gael bywyd o ddedwyddwch ar ol hwn. Os wyt yn meddu ar *ddyſgeidiaeth*, nis gelli lai na gwybod gan ba awdwyr, ac ym mha lyfrau, y mae 'r *gwirioneddau* mawrion hyn yn cael eu hamddiffyn. Ac os amgen, di elli gael ym mhob trêf ac ym mhob cymmydogaeth gan mwyaf, rai dynion ac ſ'o yn gymmwys i'th addyſgu yn y pethau y'n *profi* gwirion criſtianogaeth, ac o atteb eddau y gwrthddadleuon ac y mae meddyliau annyſgedig yn godi yn eu herbyn. Rhô dy hunan gan hynny yn ddiattreg, yn enw yr Arglwydd, i yſtyriaid y pethau uchod. Os wyt yn *aſtudio* oll, plŷg dy fyfyrdodau at y pethau hyn; ac na waſtraffa 'th amſer yn aſtudio *celfyddydau*, *prydyddiaeth*, *haneſion*, *cyfraith*, *neu phyſygwriaeth*, (y rhai ydynt oll mewn cymhariaeth mor yſgafn a *phluen*) tra 'r wyt yn eſgeulûſo *criſtianogaēth*. *Aſtudia* 'r gwirionedd o honi, fel am dy *fywyd*; canys llawer mwy na 'r bywyd fy 'n gorphwys arni. Hola pwy mor belled yr ydwyt wedi derbyn *boddlonrwydd*; a pha ham nad yw 'r boddlonrwydd y gefaiſt yn cyrhaeddyd ym mhellach.

CYMMARA 'r tyſtion o bob *tu*. Ac uwchlaw 'r cwbl, yſtyria *ddiben* a *thueddiad* y TESTAMENT NEWYDD. Edrych i ba lê i'th arwain di, a phawb a ufuddhânt iddo o'r galon, a chwedi hynny, dywaid onid *da* yw. Yſtyria hefyd, pa mor gyſtyllediq

gyſtylledig ŷw gwirionedd a daioni criſtianogaeth. Olrain athrawiaethau a buchedd ei hawdwyr; *bywiol ddelw* pa rai (os goddefi yr ymadrodd) ſydd byth yn cael ei chadw yn eu 'ſgrifenadau: Ac yna gofyn i'th galon dy hun, a elli di feddwl fod hyn oll yn *dwyll?* Yn *ffug* greulon, ac annuwiol? Canys felly y mae 'n rhaid ei galw, os yw mewn un modd dwyllodrus; peth wedi ei lunio i watwor *Duw*, ac i ddiſtrywio *dynion*; ïe, 'r goreu o ddynion; ſef y ſawl a barchedig wrandawſant ar gydwybod, ac oeddynt yn foddlon i ddioddef y *cyſyngderau* mwyaf, yn eu gwaith yn canlyn yr hyn oeddynt yn ei olygu 'n *wirionedd*. Goſod y *cweſtiwn* at dy galon, a gofyn, 'A allaf fi yn fy nghydwybod i gredu, fod criſtianogaeth y fath dwyll a hyn?' Allaf fi edrych i fynu ar *yr holwybodol Dduw*, gan ddywedyd, 'O Arglwydd, ti wyddaiſt mai o barch i ti, ac o gariad at wirionedd a rhinwedd, yr wyf yn gwrthod y *llyfr* hwn, a'r *ffordd* mae 'n ddangos i ddedwyddwch?'

§ 4. Ond mae 'n boſſibl yr attebi fod *rhwyſtrau* yn y ffordd.—Beth er hynny; a gawſant hwy erioed eu ſymmud ymaith? Dôs at y criſtianogion hynny o'th gydnabyddiaeth, yn awr mewn bywyd, am dduwioldeb, hynawſedd, a dyſgeidiaeth, pa rai yr wyt yn meddwl *orau*; os dioddef dy ragfarnau i ti feddwl yn *dda* am neb o'r fath ddynion: Mynega iddynt dy anhawſderau: Gwrando ar eu hattebion: Pwyſa hwynt yn ddifrifol, fel un a raid atteb i Dduw: A thra byddo *amheuon* yn parhâu, canlyn y gwirionedd hyd ac yr elo, a gwilia rhag ei *garcharu* mewn *anghyfiawnder* (z). Nid oes un peth yn fwy *gwrthyn* ac *anghyſſon*, na bod dŷn yn cymmeryd arno mewn modd difrifol ei fod yn cael anfoddlonrwydd

(z) Rhuf. i. 18.

lonrwydd yn y *tyſtion* dros wirionedd yr efengyl ac yn gwneud hynny 'n *reſwm* pa ham nas gall yn gydwybodol i fod yn Griſtion trwadal, pan y bo ar yr *un pryd*, yn myned yn groes i'r addyſgiadau egluraf o eiddo rheſwm a chydwybod, trwy fyw mewn *ymarferion pechadurus*, ac ſy'n cael eu ffieiddio hyd yn oed gan y cenhedloedd eulunaddolgar. O ddarllenydd, am y fath y *cywir* farnodd *Criſt*, pan ddywedodd, 'Maent yn gwneuthur *drwg*, ac am hynny, maent yn *caſáu* y goleuni, ac nid ydynt yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoeddaer eu *gweithredoedd* hwynt (a). Ond y mae *goleuni*, pa un a *eglurhâ* ac *argyhoedda* eu *gweithredoedd*, i ba un y bydd yn *rhaid* iddynt ddyfod; a'u rhwymo i ymoſtwng i gael eu manwl chwilio er mor boenus.

§ 5. YN y cyfamſer, os wyt wedi hollol fwriadu i beidio chwilio ym mhellach ynghylch y *matter*, o wîr ddymuniad na bo i ti ddwyn etto am dy ben ddiſtryw ſo waeth, rho gennad i mi o leiaf i attolygu arnat, i fod yn wagelog, rhag gweuthur dy hun yn agored i fwy o berygl, trwy 'r hyn ſydd raid i ti addef yn afreidiol, ſef dy *waith yn cynnyg attal eraill i gredu gwirionedd yr efengyl*. Er mwyn Duw, ac er dy fwyn dy hunan, gâd lonydd iddynt i fwynhau 'r gobaith a'r pleſerau hynny, nas gall dim eu rhoddi, ond *criſtianogaeth*; ac na fydded i ti ymddwyn fel pe bait yn ewyllyſio 'chwanegu at euogrwydd yr anghredadyn, y ddamnedigaeth ddeng-dyblyg hynny, pa un ſydd raid i'r ſawl a lygrant ac a ddiſtrywiant eneidiau eraill i ddiſgwyl, os yw 'r efengyl a wrthwynebaſent mor hŷ yn wirionedd, fel y mae 'n ddiammau ei bod; ac iddynt hwy 'n wirionedd dychrynllyd.

§ 6. Os na lwyddaf yn hyn, os bydd y balchder o ddangos *uwch graddau o ddealldwriaeth* i gario ymmlaen y darllenydd yn groes i'w ddaliadau hoff,

(a) Ioan iii, 20.

hoff, (ſef nad oes dim *niwaid* mewn *barn gyfeiliornus*; i fod pob rhyw grefyddau yn cyd-fyned a chymdeithiaſol rinwedd) i wneud ei oreu i ſathru dan draed ac i ddirmygu yr efengyl; mi a'i gollyngaf ef ymaith, trwy oſod ger ei fron un peth, ac wyf yn olygu yn gymmwys, wrth yſtyriaid pwys yr hyn ſydd ger ein bron. Os wyt, O ddarllenydd, wedi hollol fwriadu i beidio chwilio dim pellach i mewn i griſtianogaeth; ac i ymddwyn dy hun fel pe bait yn *ſicr* ei bod yn dwyll, eiſtedd i lawer gan hynny, a gwna *goſtyfr* (memorandum) o'r *bwriad* hynny. 'Scrifenna i lawr, gan ddywedyd; 'Ar y 'cyfryw ddiwrnod o'r gyfryw flwyddyn, mi *bwyllig* 'fwriadais i wrthwynebu criſtianogaeth tros fy holl 'fywyd, gan wneuthur a allwyf i'w *diddymmu*. Y 'dŷdd hwn y penderfynais, nid yn unig i ym-'wrthod â phob rhyw *ymoſtyngiad* i, a *diſgwyliad* 'oddiwrth, *Ieſu o Nazareth*; ond hefyd i wneud 'ef yn rhan o'm gofal pennaf mewn bywyd, i 'ddiſtrywio, mor belled ac y gallwyf, bob rhyw 'barch iddo ym meddyliau eraill; ac i ymegnio 'hyd yr eithaf, mewn ffordd o ymreſymmu, neu 'wawdio, i'r diben o attal ei Grefydd ef rhag cael 'parch; ac, os yw boſſibl, ei diwreiddio hi allan 'o'r bŷd; a hyn trwy dawel a ſefydlog ddiyſtyrwch 'o'r *dŷdd*, ym mha un y mae ei ganlynwŷr yn dywe-'dyd yr ymddengys efe, mewn mawredd a dy-'chryn, i gyflawnu y *dial* a fygythiodd ar ei ely-'nion.' A feiddi di 'n llyn i 'ſcrifennu a'i ſelio? Yr wyf yn hollol gredu fod llawer dŷn, a chwennychai gael ei yſtyriaid yn *ddeiſt* (ſef un yn gwadu dwyfol ddatguddiad) ac i allel 'chwanegu *rhîf* y *deiſtiaid*, ac nis gall 'ſcrifennu yn y modd uchod. Ac os nas gelli di, O ddarllenydd, wneuthur hyn, pa beth ſy'n dy attal? Mae 'r achos ſy 'n peri i ti fod yn wagelog yn y peth hyn yn eglur. Mae yn dy gydwybod ryw ddirgel grêd, fod yn boſſibl i'r

efengyl

efengyl hon ac ſy 'n cael ei gwrthod, ei gwrthwynebu, a'i dirmygu, i ymddangos yn *wirionedd*. Ac os oes y fath *dŷb* ynnot, boed i *gydwybod* gyflawnu ei *gwaith*, ac i'th argyhoeddi o'r annuwſol ynfydrwydd o weithredu, fel pe bae hi 'n *ddiamheuol* yn *dwyllodrus*. Boed iddi ddywedyd wrthyt mewn modd helaeth ac eglur, pwy mor boſſibl yw i'th gael yn y diwedd yn gwrthryfela yn erbyn Duw (b): Fod yn boſſibl (er maint dy hyfdra yn cyffroi *dychrynfeydd* yr Arglwydd) i ti ſyrthio yn ei ddwylaw *ef*; ac i ddigwydd clywed y *farn a ddibriſiaiſt*, yr hon pan glywech o enau 'r barnwr tragywyddol, nis gelli ei diyſtyru: Er dy holl ddirmyg, myfi a ddywedaf drachefn wrthyt, fe allai y bydd i ti glywed y *brenin* yn dywedyd WRTHYT TI, *Dôs ymaith felldigedig i'r tân tragywyddol a barotowyd i ddiafol a'i angylion* (c). Yn awr dôs rhagot i wyrdroi ac i oganu yr yſcrythur; dôs i oganu ei *rhyſwyr*, * ac i chwerthin am ben ymadroddion derchafedig ei *phrophwydi* a'i *hapoſtolion*; fel y gwnaeth rhai, ac na adawſant fawr ar eu hol, ond coffadwriaeth o'u hanwybodaeth, eu halogrwydd, a'u cynfigen. Dôs, a lleda lymman (banner) angrhediniaeth, ac ymfalchia yn *rhîf* y ſawl a ymroddant eu hunain dani. Ond cymmer ofal, na bo dirgel *ſaeth* oddiwrth y GALILEAN *diyſtyriedig* (*Ieſu*) i gael ei danfon i'th galon, er mwyn attal dy anadl afreolus cyn gallel dibennu yr ymadrodd a ewyllyſiech oſod allan yn ei erbyn *ef*.

§ 7. YN awr mi ymadawaf â'r *deiſt* a'r *ſceptic*, ac a gyfeiriaf fy ymadrodd at y *criſtion mewn enw*; os gellir mewn un modd i alw 'r fath yn *griſtion*, yr hwn, er cymmaint y ddywedais, nid yw 'n *teimlo* unrhyw *dueddiad* ynddo i ymoſtwng i lywodraeth a grâs y iachawdwr, enw pa un mae efe

(b) Actau v. 39. (c) Mat. xxv. 44.

* Sef y perſonau ac y mae 'r yſcrythur yn glodfori.

efe yn ddwyn. O bechadur, yr wyt yn troi ymaith oddiwrth fy Arglwydd, yn achos pa un yr wyf yn llefaru; ond gâd i mi i ofyn yn bryſſur, a dymuno arnat i ddwys yſtyriaid, pa ham yr ydwyt yn troi ymaith, ac at *bwy* yr ai di oddiwrtho ef, yr *hwn* y cyfaddefi fod *ganddo eiriau 'r bywyd tragywyddol* (d)? Yr wyt yn galw dy hunan yn griſtion, ac etto nis gellir dy wneud yn foddlon mewn modd yn y bŷd, i ymofyn iechydwriaeth mewn modd difrifol oddiwrth, a thrwy Iesu Grist, yr hwn wyt yn alw 'th feiſtr a'th arglwydd. Pa fodd yr attebi i gydwybod am dy waith yn eſgeuluſo dros un funud? Fe fuaſai 'r peth yn wahanol, pe buaſwn yn dy annog i dderbyn rhyw athrawiaeth ddadleugar. Pe buaſwn yn llafurio i geiſio 'th wneuthur yn *ddiſgybl* o ryw *ſect neilldual* o griſtianogion, fe fuaſai 'th waith yn *oedi* yn fwy rheſymmol: Nid yn unig hynny, ond fe fuaſai 'th waith yn gwrthod cwympo mewn, o boſſibl, yn weithred o *ddyledſwydd* i'n meiſtr mawr. Ond ai peth *dadleugar* ymmŷſg criſtianogion yw i fod Duw mawr, ſanctaidd, a chyfiawn, a pha un a ddylai 'r fath fod i gael ei barchu a'i garu; neu ynte ei eſgeuluſo, a'i ddianrhydeddu? Ai peth dadleugar yw pa un a ddylai pechadur i ddyfn edifarhau am ei bechodau, neu ynte fyned yn y blaen ynddynt? Ai athrawiaeth ddadleugar yn ein plith yw, i Ieſu ddyfod yn y cnawd a marw ar y groes er prynedigaeth pechaduriaid? Os nad peth dadleugar yw hyn, a fydd i neb ac ſy 'n credu mai efe yw Mâb Duw, a iachawdwr dynion, i ddadleu pa un a ddylai pechadur ddyfod atto am fywyd neu ei eſgeuluſo ef? Neu pa un ſy 'n fwyaf rheſymmol, i un ſy 'n proffeſu ei hunan yn *griſtion*, i *ymadael ac anghyfiawnder*, neu i rhoi ei hun i fynu i'r ymarferiad

(d) Ioan vi. 68.

feriad o hono? A yw gorchymmynion ein meiſtr mawr wedi eu rhoddi mor dywyll yn ei air, fel y mae llê i ammau yn bryſſur, pa un ai fod ef yn diſgwyl i'w ddeiliaid i fyw bywyd duwiol, ſanctaidd, goſtyngedig, yſbrydol, gwiliadwrus, a hunan-ymwadol, neu ynte i'r gwrthwyneb? A ddarfu i *Griſt* wedi cymmeryd arno ddwyn *bywyd ac anllygredigaeth i oleuni*, i adael y peth yn fwy anſicr nac o'r blaen, ſef, pa un ai bod ar ol y bŷd hwn gyflwr o ddedwyddwch ac o drueni; ac ar fedr pwy *fath*, y mae 'r gwahanol ſefyllfaodd hynny wedi eu trefnu? A yw e'n beth amheus pa un a fydd, neu nis bydd, i *Ddwy ddwyn pob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynnag ai da ai drwg* (e)? Neu a fydd yn rhaid wedi 'r farn honno, i'r rhai drygionus orfod myned ymaith i *goſpedigaeth dragywyddol*, a'r rhai cyfiawn i *fywyd tragywyddol* (f)? Nis gelli rhag cywilydd ddywedyd dy fod yn amhëus ynghylch y *pethau hyn*, ac etto i alw dy hun yn *griſtion*. Pa ham, gan hynny, na roddi hwynt at dy yſtyriaeth, ac ymddwyn fel y mae dy ddyledſwydd a'th fantais dy hunan mor eglur yn gofyn? O bechadur, mae 'r *achos* yn rhy amlwg; achos yw yn wîr ac ſy 'n gwbl anheilwng o gael ei alw 'n rheſwm: Hynny yw, oblegid fod dy *wagedd* a'th *nwydau pechadurus* wedi 'th ddallu a'th ynfydu. Mae gennyt rwy beth diflannedig ac ſy 'n llygadtynnu dy ddychymmyg a'th ſynwyrau, ïe ſy 'n anwylach gennyt na Duw a Chriſt; na 'th enaid dy hun, a iechydwriaeth. Ar air, yr achos yw, oblegid dy fod hyd yn hyn dan lywodraeth ſyniaeth *gnawdol*, yr hyn, pa beth bynnag o ffurf duwioldeb a gymmero, ac a broffeſo rai gweithiau, ſydd er hynny yn *elyniaeth yn erbyn Duw, ac nid yw 'n ddaroſtyngedig i ddeddf Duw, ac nis gall chwaith*

(e) Preg. xii. 14. (f) Mat. xxv. 46.

chwaith (g). Ac am hynny yr wyt yng nghyflwr y trueiniaid hynny, am ba rai y dywedodd ein Harglwydd yn nyddiau ei gnawd, ni *fynnwch ddyfod attaf fi fel y caffoch fywyd* (h), am hynny *y byddwch feirw yn eich pechodau* (i).

§ 8. Ni welaf fi yr atteb ef un diben yn yr *achos hyn*, i mi adnewyddu yr ymreſymmiadau a'r erfyniau, pa rai a arferais yn y pennodau o'r blaen. Fel y dywedodd ein prynwr bendigedig am y ſawl a wrthodent yr efengyl, *chwi a welſoch ac a'm caſaſoch I a'm Tâd hefyd* (k); felly gallaf finnau ddywedyd am danat ti; mi ddangoſais i ti Grist a'r Tad, yng ngeiriau, a'r modd mwyaf eglur; myfi ddangoſais y rhwymau yr ydwyt tanynt i'r naill a'r llall; mi oſodais ger dy fron dy euogrwydd a'th farnedigaeth; mi 'th gyfeiriais at yr unig feddyginiaeth; mi 'th gyfeiriais at y graig, ar ba un yr adeiliadais i fy ngobaith tragywyddol, a'r unig ffordd trwy ba un yr wyf yn diſgwyl iechydwriaeth. Mi orchymmynais iti 'r pethau hynny, pa rai os rhŷdd Duw y cyfleuſtra, a orchymmynaf yn y modd mwyaf difrifol a ſerchiadol, i'm plant, a'm holl gyfeillion anwylaf ar y ddaiar, hyd yn oed yn wyneb angau; gan gyfrif hynny yr arwydd oreu o'm cyfeillgarwch, a'r prawf mwyaf ſicr o'm cariad attynt. Ac os gan gredu 'r efengyl yn wîr, yr wyt yn bwriadu ei *gwrthod*, nid oes gennyf ond dy adael i ddiſgwyl y *canlyniad*. Er hynny fel *Moſes*, pan yr ydoedd yn myned allan y tro diweddaf o breſennoldeb *Pharoah*, ac yn gweled ei galon ef yn ymgaledu fwy fwy trwy 'r barnedigaethau air gwaredigaethau a gyfarfodaſent ac ef gynt, a gyhoeddodd iddo fwriad *Duw i dramwy trwy 'r tîr* mewn modd dychrynadwy *i daro 'r cyntaf-anedig ac angau*, ac a'i rhybuddiodd ef o'r *alarus lêf*, yr hon a barai gleddyf yr

(g) Rhuf. viii. 7. (h) Ioan v. 40. (i) Ioan viii. 24. (k) Ioan xv. 24.

yr angel diniſtriol ei chyfodi trwy ei holl deyrnas: (l) Felly finnau, O bechadur, gan fy mod yn awr yn dy adael, a lefaraf etto ym mhellach wrthyt, *gwrando neu baid* (m); ac mi gyhoeddaf y farn honno ac fy 'n llawer mwy ofnadwy, pa un y mae *cledd yf dialedd Duw* wedi ei hogi, ei dynnu, a'i drochi mēgis yn y nêf (n), yn parottoi ar dy gyfer; barn pa un a ddibenna mewn *gwaedd* llawer mwy ofnadwy, na 'r waedd honno yn yr *Aipht*, er bod o honot yn fwy 'th anrhydedd, ac yn fwy ſtyfnig, na 'r pennadur balch hynny! Iē, O bechadur, fel y gallwyf gyda 'r apoſtol *Paul*, pan yn troi at eraill, ac fy 'n fwy tebyg i wrando arnaf, *yſgwyd fy nillad a dywedyd, glân ydwyf fi ōddiwrth dy waed* (o); mi a ddywedaf wrthyt unwaith etto *pa beth fydd diwedd y pethau hyn*. Ac Oh na allwn lefaru yn effeithiol! Oh na allwn daranu yn dy gluſtiau yn y fath fodd uchel a dychrynadwy, ac a barai i ti ddeffroi; yn rhy uchel i gael i foddi gan ſŵn llawenydd cnawdol, neu ei farweiddio gan y pethau peryglus, trwy ba rai yr ydwyt yn ceiſio ſyfrdanu cydwybod!

§ 9. YMOFYN y DIGRIFON a'r GWLEDDOEDD y ſynnech, O bechadur, yr wyf yn dywedyd i ti, pe baet gymmaint mewn urddas, gallu, ac arderchawgrwydd ac ARCHDEYRN BABYLON, *y diſgynnir dy falchder i'r bêdd, a thrŵſt dy nablau; tanat y taenir prŷf, pryfed hefyd a'th doant* (p). Iē bechadur, *diwedd y pethau hyn yw* marwolaeth (p); marwolaeth yn yr yſtyr mwya ofnadwy i ti, os parhai yn y dymmer hon ac fy 'n awr yn dy lywodraethu. Mae 'n *boſſibl* i ti ei gochelyd; ac nis cai di ei hanghofio os yw boſſibl i'th attal trwy unrhyw beth ac allaf fi ei ddywedyd. Nid yw 'th *gryfdwr* yn gryfdwr cerrig, ac nid yw 'th *gnawd o brês* (r). Yr ydwyt

(l) Eccſod. xi. 4-6. (m) Ezec. ii. 7. (n) Eſay xxxiv. 5.
(o) Actau xviii. 6. (p) Eſay xiv. 11. (q) Rhuf. vi. 21. (r) Job vi. 12.

ydwyt yn agored i glefydau, yn gyſtal ac eraill; ac os na thorrir di lawr trwy angau diſyfed, ſe geir gweled ar fyr, pa mor wrol yr ymddygi ar wely marwolaeth, ac mewn golwg agos ar dragywyddoldeb. Tydi, yr hwn wyt yn awr yn diyſtyru *Criſt* a'i efengyl, a welir ar fyr yn lleſgâu ac yn ymollwng; dy flâs ar dy bleſerau cnawdol a'th gyfeillion ofer, a dderfydd. Ac os bydd i un neu arall o honynt yn ben uchel i ddyfod attat, ac mewn modd anifeilaidd a chreulon i geiſio difyrru marwol ddŷn a rhyw *wŷch hanes*, neu *halogedig gellwair*, ſe geir gweled pwy mor ddymunol fydd y fath bethau yn dy olwg. Fe geir gweled y pryd hynny pa ryw gyſſur fydd i ti o edrych yn ol ar dy fuchedd gynt; a pha obaith i edrych ym mlaen ar yr hyn ſydd etto i ddyfod. Mae 'n boſſibl y byddi 'r pryd hynny mewn ſyndod, ac yn grynnedig, yn ymofyn mewn modd ſyml, pa beth i *wneud i fod yn gadwedig*; gan alw am *weinidogion Criſt*, y rhai a ddibriſiaiſt am eu *difrifwch*; yn ceiſio achub dy enaid; ac er hyn ſ'allei, yn ſyrthio i ymleferydd neu lewygon marwol cyn gallo un ddyfod attat. Fe geir dy weled o boſſibl mewn *hîr* aſiechyd yn *gwenhieithio* i ti dy hun, gan ddywedyd, y bydd i ti er hyn oll i *iachâu*; ac felly yn rhoddi heibio bob rhyw ſyml ſyſyrdod, a chreſyddol ymddiddan, rhag ofn dy wneud trwy hynny yn iſel dy yſbrydoedd. Meddygon a'th gyfeillion trwy greulon gymmwynas, fel pe baent mewn cyngrair â *Satan* er mwyn gwneud diſtryw dy enaid mor ſicr ac ſy 'n boſſibl, a allant geiſio cynnal yn y blaen y cyfryw *duyll angheuol*.

§ 10. Ac os digwydd un o'r pethau hyn, hynny yw 'n fyr, os ni bydd i wrthiol weithred o râs i'th gippio fel pentewyn o'r gynneu dân, fflammiau yr hwn a ddechreuaſant megis i ymafaelu ynnot; nid yw 'r holl amgylchiadau galarus perthynol

i ſtafelloedd afiechyd a gwely angau, ond rhagarwyddion o bethau tragywyddol mwy ofnadwy. O pwy all rodd i darluniad o honynt! Pwy all ei dychymmyg! Pan fo 'th cyfeillion byw yn tyner alaru uwch ben y corph diffûn, ac yñ cymmeryd hoff gennad oddiwrtho cyn ei oſod i bydru yn y tywyll a'r diſtaw *fëdd*, i ba ddwylaw, O bechadur, y ſyrthia 'th *enaid!* Pa ryw ymddangoſiadau a agorant o flaen dy yſbryd, cyn y bo i'r cnawd a adawodd, i *veri*, neu 'th dywyll lygaid gael eu caead! Y pryd hynny y deall dy enaid beth yw *dychwelyd at Dduw*, i gael ei gwrthod ganddo, am i ti wrthod ei efengyl a'i Fâb, a diyſtyru yr *unig dreſn* o gymmod, yr hon oedd mor hynod oſtyngedig graſol. Y pryd hynny y cai wybod, pa beth yw cael dy ddiarddel gan *Griſt*, yr hwn ni fynnit ei dderbyn i'th galon; a pha beth (fel canlyniad ſicr a diattreg o hynny) yw cael dy adael yn nwylaw 'r drwg yſbrydion uffernol. Ni bydd mwy ddim *cyfeillgarwch:* Ni bydd neb i'th gyſſuro, neb i yſgafnhâu 'th ing a'th drueni: Ond o'r gwrthwyneb, *pawb* o'th amgylch a ymdrechant eu trymhâu a'u 'chwanegu. Rhaid i ti dreulio 'r blynyddoedd rhwng angau a'r adgyfodiad, mewn rhyw ddiſgwyl ofnadwy, ac mewn chwerwon floeddiadau dan euogrwydd a dychryn: Ac yno ti gai glywed utgorn yr *arch-angel*, ym mha ogof bynnag o'r tywyll fyd y byddech. Ei ſwn a dreiddia trwy dy garchar; ac er mor alaethus ac erchyll y bo, ti ddymunit er hynny, gael aros ynddo er mwyn cuddio 'th *euog ben*, yn hytrach na'i ddangos o flaen wyneb y barnwr ofnadwy hwnnw, oddiwrth ba un y bydd y *neſoedd a'r ddaiar yn ffoi ymaith* (s). Ond rhaid fydd i ti ddyfod allan, a chael dy ailgyſſylltu â chorph, yn awr wedi ei wneud yn gymmwys i ddioddef dros byth

(s) Datg. xx. 11.

byth y fath *boenau*, pa rai yn y ſtâd farwol hon a'i dryllient mewn *munudyn*. Nis mynnit ddyfod at Grift o'r blaen: Ond yr oeddit mewn modd ſynn yn ei eſgeuluſo ef, a hynny yn wrthwyneb i reſwm, cydwybod, a gwahoddiadau mwyaf tyner yr efengyl, ynghŷd â pharhâus rybuddion ei gweinidogion mwyaf ffyddlon. Ond yn awr, O bechadur, rhaid i ti ddyfod wyneb yn wyneb ac ef, os gellir galw 'r cyfarfod hwnnw felly, ym mha un nis maeddi gyfodi dy ben i edrych yn wyneb dy ofnadwy a'th anymbilgar farnwr. Yno o leiaf, pa mor belled bynnag y buom oddiwrth y naill a'r llall o rân *amſer*, a *lleſydd ein preſwylfod*, ynp cawn gyfarfod, a gweled pa mor wrol y *pery dŷ galon*, a pha mor *grŷf fydd dy ddwylaw, pan fyddo i'r Arglwydd wneuthur hyn* (t). Y pryd hynny yc âf fi dy weled, O ddarllenydd, pwy bynnag wyt ac ſy 'n myned ym mlaen yn dy anedifeirwch, ymm ŷſg miloedd a deng miloedd o drueiniaid diobaith, yn grynnedig ac wedi 'th orchguddio gan gywilydd. Pryd hynny y câf glywed dy floedd ymmyſg eraill, yn hollti hyd yn oed y nefoedd, ond yn *ofer* oll. Canys y barnwr a gyfyd oddiar orfedd barn yn y fath frenhinol fawredd, ac a'th âd di i gael dy yrru ar ffrwſt i'r *llosgfeydd tragywyddol*, i ba rai y barnodd ei gyſiawn ddialedd ef di, am nas *mynnaſit* gael dy achub rhagddynt. Wedi hyn, uffern a gaei ei ſafn arnat dros *byth*, ac *adſain* dy lefau a'th riddfannau ni chlywir mo honynt ymmyſg *Hallelujahs* y nefoedd, gan neb o'r ſawl a gânt *drugaredd gan yr Arglwydd yn y dŷdd hwnnw*.

§ 11. Dyma 'n ddiamheuol fydd *diwedd* y pethau hyn: Ac megis Criſtion, yr ydwyt ti yn proffeſu gwybod a chredu hyn oll. Mae 'r cyfryw bethau yn cyffroi fy nghalon i o leiaf, er na bo

(t) Ezec. xxii. 14.

i ti gael dy effeithio ganddynt. Yr wyf yn hollol gredu, y bydd i bob un a dderbynio iechydwriaeth a gogoniant, i ddwyn cymmaint o ddelw 'r iachawdwr, mewn doethineb a daioni, mewn ſêl dros Dduw a gwîr ymgais i ddwyn ymmlaen happuſrwydd yr holl greadigaeth, fel ac y bydd yn abl edrych ar yr olwg alarus hon, gyda chyduſynniad tawel; heb un poenus gynhyrfiad meddwl. Ond yr ydwyf fi etto 'n meddiannu *cîg a gwaed*; ac am hynny fy *ymyſgaroedd à gythryblwyd*, a'm llygaid a ddiferaſent gan ofid, wrth feddwl am bechaduriaid truenus, ac na thoſturiant wrth eu heneidiau anfarwol eu hunain; wrth feddwl eu bod mewn modd yſtyfnig, yn wrthwyneb i bob rhyw rybuddion, yn *rhedeg* i dragywyddol ddiſtryw. Ni atteb ef un diben yma i 'chwanegu *gweddi* neu *fyfyrdod* er mwyn i ti ei defnyddio.. O greadur tylawd, nid wyt ti yn foddlon i fyfyrio! Ac nis gwnai weddio! Etto fel ac y tywalltais fy nghalon lawer gwaith mewn gweddi dros farwol gyfaill, pan yr oedd grym ei glefyd yn ei wneud ef yn anghymmwys i gyd-uno â mi; felly mi a drôf fy hunan at Dduw ar dy ran di, O greadur anhappus! Ac os ffieiddi hyd yn oed î ddarllain yr hyn y mae fy nhoſturi yn adrodd; etto mi obeithiaf y bydd i'r ſawl a deimlant allu 'r efengyl ar eu heneidiau eu hunain (fel nas gallant lai na thoſturio wrth y fath ac wyt ti) gyd-uno â mi yn y fath galonnog erfyniadau a hyn er yn annrhefnus.

Gweddi yn achos Pechadur anedifeiriol, yn y cyſl'wr a ddarluniwyd uchod.

'HOLLALLUOG Dduw! *gyda thi pob peth* 'ſydd boſſibl (a): Attat ti gan hynny 'r 'wyf yn cyfeirio fy ngweddi ar ran yr enaid an-

'wyl

(a) Mat. xix. 26.

'wyl ac anfarwol hyn, ac ſydd yn ymgaledu yn 'erbyn yr efengyl dragywyddol, pa un y fu 'n *allu Duw er iechydwriaeth* miloedd a myrddiy-'nau; ac felly trwy ei bechodau, ſydd ar y 'ffordd i golledigaeth. Wele yr ydwyt ti 'n 'dŷſt, O Dduw bendigedig, yr ydwyt ti 'n dŷſt 'o'r eglurdeb a'r ſymlrwydd gyda pha rai y 'traddodais fy nghennadwri. Ger dy fron di y 'ſgrifennais y geiriau arſwydus hyn; ac yn dy 'breſennoldeb di y darllenwyd hwynt. Boed da 'yn dy olwg gan hynny, i yſgrifennu yn llyfr 'dy goffadwriaeth, mai os bydd i'r dyn *anwir* 'hwn i farw yn ei *anwiredd*, wedi ei rybuddio 'mewn modd mor bryſur ac eglur, *na bo ei waed 'ef yn cael ei ofyn ar fy llaw i* (w), nac ar law 'r cyfaill chriſtianogol hynny, pwy bynnag y fo, 'ac a all roddi 'r llyfr hwn iddo, o wîr ddym-'uniad i ddwyn oddiamgylch iechydwriaeth ei 'enaid. Bydd dŷſt, O fendigedig *Ieſu, yn y dydd 'y barnech ddirgeloedd dynion* (x), i'th efengyl gael 'ei phregethu i'r dŷn truenus hwn a galedwyd, 'ac i iechydwriaeth yn dy waed i gael ei chyn-'nyg iddo, er iddo barhau i'w dibriſio. A boed 'dy gennad anheilwng *yn bêr arogl Criſt* i'r enaid 'hwn, er bod o hono 'n *golledig* yn y diwedd (y)!

'Ond O na ryngai bodd i ti, wedi ei holl 'galedwch a'i anedifeirwch, trwy allu anorchfy-'gol dy effeithiol râs, ei ddeffroi a'i ddychwe-'lyd ef! Da y gwyddom y gelli di, O Arglwydd 'mawr, yr hwn a wnaethoſt yr enaid, i beri i '*gleddyf argyhoeddiad* i agoſhâu atto a'i drywanu. 'O na bae i ti yn dy anfeidrol gariad a'th ddo-'ethineb i drefnu ffordd i achub y pechadur hwn 'rhag angau; ïe, rhag marwolaeth dragywyddol! 'O na bae i ti yn ddiattreg ei achub! Ti a wydd-'aiſt, O Dduw, ei fod ef yn greadur marwol:

(w) Ezec. xxiii. 8, 9. (x) Rhuf. ii. 16. (y) 2 Cor. ii. 15.

'Ti a wyddaiſt gan hynny, os oes dim ac ellir 'wneud ar ei ran, fod yn rhaid ei wneuthur ar '*frŷs:* Ti a weli fod munud wedi ei nodi yn 'llyfr dy ddoeth a'th raſol *arfaethau*, ym mha 'un y ſefydlir ef yn ei ſtâd anghyfnewi-'diol: O na afaelit ynddo, tra ſo *ynghymdeithas* 'y *rhai byw*, a thra mae *gobaith* (z)! Ni chan-'niattâ dy anghyfnewidiol gyfreithiau, wrth reol 'pa rai y mae grâs yn cael ei weinidogaethu, i 'enaid gael ei dychwelyd a'i hadnewyddu, wedi 'myned i'r bŷd anweledig: O boed i'th yſpryd 'ſanctaidd i weithredu gan hynny, tra mae megis 'o fewn cylch ei weithrediadau! Gweithreda, O 'Dduw, yn y modd ac y bo boddlon gennyt; 'ond yn unig cymmer drugaredd arno! O Ar-'glwydd, cymmer drugaredd arno, fel na ſoddo 'i waelodion damnedigaeth a diſtryw, ar gyff-'iniau pa rai mae 'n ymddangos yr awr hon! 'O na ddygit ef, (os yw yn angenrheidiol, ac 'os dyna 'r ffordd mwyaf cymmwys yn dy olwg) 'trwy waelodion blinfyd a gorthrymder! O na 'byddai iddo, fel *Manaſſeh*, gael ei ddala mewn '*dryſni*; a llwyther ef â chadwynau cyſtudd, os 'bydd hynny yn foddion i'w ddwyn ef i ymo-'fyn am Dduw ei dadau (a). Ond nid wyf fi 'yn pennodi i'th anfeidrol ddoethineb; canys ti 'amlygaiſt dy *allu* yn y fath fodd rhyfedd a 'gogoneddus, fel ac yr wyf yn rhwym i ddiolch 'i ti am i mi gael ei brofi mor neillduol; oble-'gid trwy hyn fe 'm cadarnhawyd yn erbyn *coel* '*fyrbwyll* y ſawl a ddywedant yn ddiſail ac yn 'rhyfygus, fod y cyfryw beth yn *amhoſſibl*; er 'ei fod mewn gwirionedd *wedi ei wneuthur*. Mi a 'wn i ti wneuthur gwaith yn y dirgel trwy un 'weithred o eiddo 'r meddwl, pan yr oedd yr 'happus ddŷn a ddychwelwyd felly ym mhell

'oddiwrth

(z) Preg. ix. 4. (a) 2 Cron. xxxiii. 11, 12.

'oddiwrth foddion ac ordinhadau, yr hyn nis 'gallodd y rhybuddion mwyaf arſwydus, yr er-'fyniadau mwyaf tyner, y trallodion mwyaf of-'nadwy, na'r gwaredigaethau mwyaf rhyfeddol 'ei wneuthur.

'Gogonedda dy enw, O Arglwydd, a go-'gonedda dy ràs yn y ffordd y welo 'th anfei-'drol ddoethineb yn fwyaf addas! Yn unig dyro, 'yr wyf yn attolwg, gydag iſel ymoſtyngiad i'th 'ewyllys, i'r pechadur hwn gael ei gadw! Neu 'os amgen, na bo i'r llafur hwn o'm heiddo i 'fyned oll yn ofer; ond er i rai ei wrthod, ac 'felly i wneud eu diſtryw 'n drymmach, y bo 'i eraill i wrando, a byw! Rhô i'th weiſion 'hynny a ymdrechaſant i ddwyn oddiamgylch 'eu gwaredigaeth a'u happuſrwydd, eu gweled 'hwynt yn ardaloedd gwynfyd, fel *yſglyfaeth*, 'â pha rai yr anrhydeddaiſt hwynt fel offeryn-'nau o'u dychweliad; ac i uno â hwynt yn 'Halelujahs y nefoedd, gan ddywedyd, *Iddo ef yr 'hwn a'n carodd ac a'n golchodd oddiwrth ein pe-'chodau yn ei waed ei hun, ac a'n gwnaeth* (y rhai 'oeddem yn wrthryfelwyr damniol ac yn bechad-'uriaid aflan a melltigedig) *yn frenhinoedd ac yn 'offeiriaid i Dduw; iddo ef y bo 'r gogoniant a'r 'gallu yn oes oeſoedd. Amen.'*

PENNOD XII.

Gair at yr enaid a waſgwyd i lawr yn y fath fodd, gan deimlad o fawredd ei bechodau, fel nas dichon ddyfod at Griſt gydag unrhyw obaith o gael Iechydwriaeth.

§ 1. GAN fy mod wedi darfod â'r crea-duriaid anhappus hynny, pa rai ſy 'n dibriſio ac yn eſgeuluſo 'r efengyl; yr wyf yn troi

gyda phleſer at y cyfryw ac a wrandawant amaſ yn fwy parchus. Ymmŷſg yr amrywiol achoſion ac ſy'n ymgynnyg i ſy meddwl yr awr hon, ac yn galw am ſy nhyner, ſy ngharedigol a'm parchus ofal, nid oes un yn deilwng o fwy o doſturi, na'r hwn a enwais *yn nhitl* y bennod hon; nid oes un yn gofyn mwy diattreg ymdrechiad i'r diben o geiſio cyfrannu cyſſur iddo.

§ 2. Mae 'n boſſibl fod rhai creaduriaid trallodedig yn barod i weiddi allan, 'Digon yw: 'Na 'chwanegwch drymhâu ſy ngofid a'm trallod, 'ond hynny. Y farn y fuoch yn ei darlunio 'mor ofnadwy, yr hon a gaiff ei rhoddi a'i 'chyflawnu ar yr angrhediniol a'r anedifeiriol, yw 'y *farn* a berthyn i mi; a'i dychrynfaau ydynt ſy 'ofnau i. Canys ſy mhechodau a gyrhaeddaſant 'hyd y nefoedd, a'm hanwireddau hyd y cym'mylau (b). Mae ſy nghyflwr yn neilldual ath'riſt. Sicr yw na fu erioed bechadur mwy na 'myfi. Mi dderbyniais gynnifer o *fendithion*, ac 'mi fwynhâis gynnifer o ragorfreintiau, mi a 'glywais gynnifer o wahoddedigaethau graſol yr 'efengyl; ac etto ſy nghalon a barhaodd mor 'galed, a'm hanian ſydd mor bechadurus, rhifedi 'ſy mhechodau a'u hamgylchiadau ydynt o'r fath, 'fel na feiddiaf *obeithio*. Digon yw i Dduw ſy 'nghynnal i hyd yn hyn; digon yw ſy mod 'i ar ol treulio cynnifer o flynyddoedd mewn 'anwiredd, allan o uffern. Pob dyddiol hamdden 'ſydd fawr drugaredd; wrth feddwl am ba un, 'yr wyf yn ſynnu! Yr wyf yn gorwedd i lawr, 'ac yn rhyfeddu na buaſai marwolaeth a dam'nedigaeth wedi ſy ngorddiwais yn ſy ffyrdd y 'dŷdd aeth heibio. Yr wyf yn cyſodi ac 'yn ſynnu na buaſai ſy ngwely wedi ei wneud 'yn fedd i mi; na buaſai ſy enaid wedi ei 'neilldu

(b) Datg. xviii. 5.

'neillduo oddiwrth fy nghnawd, ac wedi ei am-
'gylchu cyn hyn gan gythreuliaid ac yſprydion
'damnedig!

'§ 3. Mi glywais y gennadwri o iechydwri-
'aeth; ond nid oedd yn ymddangos yn gennad-
'wri o iechydwriaeth i mi. Y mae rhai eneidiau
'happus ac y mae ganddynt obaith; ac y mae eu
'gobaith yn wîr yn Ghriſt, a grâs Duw, yr hwn
'a amlygwyd yntho ef. Ond maent hwy yn teimlo
'annogaethau, yn eu calonnau i agoſhâu atto ef,
'yr hyn nis beiddiaf fi. Criſt a grâs ſydd bethau
'ym mha rai 'rwyf yn ofni, nad oes i mi gyfran
'yr awr hon, na llê i ddiſgwyl y bydd byth.
'Y mae addewidion mawr iawn a gwerthfawr
'yng ngair Duw; ond y maent i mi fel llyfr
'ſeliedig, ac wedi eu cuddio oddiwrthyf *fi* o ran
'un defnydd perſonol a allaf wneuthur â hwynt.
'Mi a wn fod Criſt yn *abl* i'm *hachub:* Ac mi
'a wn ei fod ef yn *foddlon* i achub *rhai.* Ond
'nis gwn pa fodd y gallaf gredu i fod ef yn
'foddlon i'm achub *i*, y fath greadur aflan a
'phechadurus, ac y mae Duw a chydwybod yn
'weled y fûm; ïe ac wyf hyd y dŷdd hwn: A'r
'hyn oll a allaf ei wneuthur er mwyn credu hyn
'yw, cyfaddef nad yw yn gwbl amhoſſibl, ac
'nad wyf etto yn gorwedd mewn cyflawn ano-
'baith; er fy mod hyd yn oed ar y cyffiniau;
'ac yn diſgwyl bob dŷdd ac awr i fyrthio iddi.'

§ 4. Ni buaſwn, o boſſibl, yn ſylwi mor fanwl
ar y cyflwr hwn, oni buaſai i mi weled llawer
ynddo; ac mi 'chwanegaf ddywedyd er dy anno-
gaeth di, O ddarllenydd, os dyma dy gyflwr di,
i mi weled llawer ynddo, ac fy yn *awr* yn rhi-
fedi 'r criſtianogion mwyaf ſefydlog, cyſſurus, a
defnyddiol. Ac mi obeithiaf y bydd i ddwyfol
râs i'th wneud di yn un o honynt, os bydd i ti

ond gallel *llefain* o'r dyfnderoedd hyn ar *Dduw* (c); ac er dy fod yn ymddangos fel *Jonah* wedi 'th fwrw allan o'i bresennoldeb ef, i ti er hynny gyda *Jonah* allel *edrych tu a'i deml ſanctaidd* (d).

§ 5. Na thybia fy mod wrth geiſio 'th *reſymmu* di allan o'r cyflwr anghyſſurus hyn, yn dibriſio yr yſpryd ſanctaidd, ſwydd pa un yw bod y mawr *ddiddanydd:* Canys fel ffynnon fawr o *reſwm*, y mae efe yn gweithredu ar greaduriaid rheſymmol; ac yn yr ymarferiad o foddion rheſymmol, ac yſtyriaethau, mae 'n fwyaf cymmwys i ddiſgwyl y bydd iddo i weithredu. Canniattâ i mi gyfeirio fy ymadrodd attat gan hynny, mewn modd difrifol, ac i ofyn, pa reſwm ſydd gennyt i roddi dros yr achwyniadau nwydwyllt hyn yn dy erbyn dy hunan? Pwy reſwm ſydd gennyt i ddywedyd fod dy *gyflwr* di 'n waeth na neb, pan mae cynnifer yn dywedyd iddynt deimlo yr unrhyw bethau? Beth yw dy reſwm i farnu mor galed am danat dy hun, gan fod yr efengyl yn llefaru mewn geiriau mor raſol? Neu pa ham yr wyt yn barnu, nad yw 'r pethau graſol am barai y mae hi yn ſôn, wedi eu trefnu er dy fwyn di? Ti wyddaiſt fwy yn ſicr am lygredigaethau dy galon dy hun, nac am galonnau eraill; ac yr wyt yn barod i roddi mîl o garedigol eſguſodion dros eu hamlwg feiau a'u gwendidau hwynt, yr rhai nis gwnai dros yr eiddot dy hunan. Ac y mae 'n boſſibl fod rhai o'r ſawl ac wyt ti 'n eu golygu yn ſeintiau rhagorol, wrth gymmaru eu hunain â thi, yn ymoſtwng i'r llwch o flaen Duw, fel rhai yn gwbl anheilwng o gael eu cyfrif ymmŷſg y gwaelaf o'i bobl ef; ac yn dymuno eu bod yn debyg i ti, ym mha un maent yn meddwl eu bod yn gweled llawer mwy o ddaioni, a llawer

(c) Salm. cxxx. 1. (d) Jon. ii. 4.

a llawer llai o ddrwg, nac y maent yn ei weled ynddynt eu hunain.

§ 6. Ond i dybied y gwaethaf; beth er dy fod mewn gwirionedd, y pechadur mwyaf ffieidd ac a fu erioed ar wyneb y ddaiar? Beth er i'th *bechodau gyrhaeddyd* bob dŷdd *hyd y nêf, a'th anwireddau hyd y cymmylau* (e); i gyrhaeddyd yno wedi eu trymhâu yn y fath fodd, fel y buaſai 'n reſymmol i ddaiar a nefoedd dy ffieiddio, fel yr anghenfil gwaethaf mewn annuwioldeb? Er addef hyn oll, *a oes dim yn anhawdd i'r Arglwydd* (f)? Oes rhyw bechodau, am ba rai y gall pechadur fod yn edifarus, o'r fath ddwfn liw, fel nas gall *gwaed Criſt* eu golchi hwynt ymaith? Er y byddai yn ddirfawr anwiredd ac yn greulon ynfydrwydd, i neb i *bechu fel yr amlhao grâs* (g), etto pe bae rhîf dy bechodau uwchlaw yr hyn oll ac a faddeuodd dwyfol râs hyd yma, pwy all roddi *terfyn i Sanct yr Iſrael* (h)? neu pwy gymmer arno ddywedyd, nad yw 'n boſſibl i Dduw 'th ddewis di o blith eraill, *o herwydd dy fawr drueni*, i'r diben i fod yn *goffadwriaeth o drugaredd*, ac yn fuddugoliaethol arwydd o râs digymmar? Mae 'r apoſtol *Paul* mewn modd cadarn yn mynegu mai felly bu mewn perthynas iddo ef: A pha ham nas gelli di, er bod o honot y *pennaf* o bechaduriaid, i gael *trugaredd*, fel ynnot ti, *y pennaf o bechaduriaid*, y gallo *Ieſu Ghriſt i ddangos pob hîroddef, er ſiampl i'r rhai a gredant rhagllaw ynddo ef i fywyd tragywyddol* (i)?

§ 7. Er mor ddrwg-dybus wyt, mi chennychwn ofyn i ti yn eglur, a wyt ti yn dy gydwybod yn meddwl nad yw Criſt yn *abl i'th achub hi?* Beth onid yw efe ddim yn *abl i achub hyd yr eithaf, y rhai truyddo ef ſy yn dyfod at Dduw?*

(e) Datg. xviii. 6. (f) Gen. xviii. 14. (g) Rhuf. vi. 2.
(h) Salm lxxviii. 41, (i) 1 Tim. i. 25, 26. (k) Heb. vii. 25.

Yr wyt yn addef ei fod yn ddigon *abl*, ond nis gelli gredu ei fod ef yn *foddlon!* Pa fodd y gwyddâ ſt nad yw? Fe gynnorthwyodd y pechaduriaid mwyaf ac a ddaethant atto hyd yn hyn: Ac fe wnaeth gynhygiad o râs ac iechydwriaeth ar y telerau mwyaf dymunol ac annogaethol, gan ddywedyd, *Od oes ar neb ſyched, deued attaf fi yfed* (k): *A'r hwn ſydd a ſyched arno, deued. hwn ſydd yn ewyllyſio, cymmered o ddwfr y yn rhâd* (l): *Deuwch attaf fi bawb ſydd derog a llwythog, a mi a eſmwythâf arnoch* (m): Ac un peth yn ychwaneg, *a'r hwn a ddêl attaf fi, nis bwriaf ef allan ddim* (n). Gwîr, yr wyt yn barod i atteb, nis bwr efe un allan o'r *hyn oll y mae y Tâd yn ei roddi iddo*; a phe gwypwn fy mod i yn un o'r rhifedi hynny, yna mi allwn ddyfod atto yn llawen. O ddarllenydd, mi attolygaf arnat i edrych i'r teſtyn ei hun, a gwêl a oes yno y fath *benderfyniad.* A wyt ti yn darllain *yno, Nis bwriaf un o'r ſawl a roddodd y Tâd i mi allan?* Mae 'r geiriau wedi ei rhoddi mewn modd llawer mwy annogaethol: Pa ham gan hynny y dianrhydeddi ei ddoethineb a'i ddaioni, trwy 'r fath 'chwanegiad o'th eiddo dy hun? *Na ddyro ddim at ei eiriau ef, rhag iddo dy geryddu* (o): Cymmer hwynt fel ac y maent, ac ŷf y cyſſur y maent yn gynnyg. Fe wyddai ein Harglwydd i ba ryw gyfyng gyngor y byddai yn boſſibl i rai meddyliau ſyml gael eu tâflu trwy yr hyn a ddywedodd o'r blaen, *Yr hyn oll y mae y Tâd yn ei roddi i mi, a ddaw attaf fi*; ac am hynny megis i'r diben o'u dal i'r lan y mae 'r geiriau graſol hyn wedi eu 'chwanegu, *a'r hwn a ddêl attaf fi, nis bwriaf ef allan ddim*, mewn un modd, ar unrhyw gyfrif yn y bŷd.

§ 8. O

(k) Ioan vii. 37. (l) Dat. xxii. 17. (m) Mat. xi. 28.
(n) Ioan vi. 37. (o) Diar. xxx. 9.

§ 8. Os wyt ti gan hynny wedi 'th wangalonni a'th ddychrynu trwy olwg ar fawredd dy bechodau, na 'chwanega at eu pwys a'u rhîf yr *un hunnw*, fy'n fwy ac yn waeth na'r lleill oll, ſef amheuaeth o ffyddlondeb a grâs y prynwr bendigedig. Na wrthwyneba ddibenion ei gariad tuag [redacted] O enaid trallodedig, pwy yr wyt yn ei [redacted]wy yw yr hwn yr wyt yn crynu wrth feddagoſhâu atto? A oes rhyw beth dychryn y croeſhoeliedig brynwr, yn yr *oen a la[redacted]yd?* Os dygi dy enaid ac fy' mron ſoddi dan y baich o euogrwydd, i gael ei roddi i lawr wrth ei draed ef; pa beth wyt yn ei roddi, ond yſglyfaeth y gwaedodd ac y bu farw er mwyn ei feddiannu a'i achub? Ac a brynodd efe ef mor ddrûd, er mwyn ei wrthod mewn modd dirmygus? Dôs atto yn ddiattreg, a chwymp yn ei breſennoldeb, a dadleu 'th gyflwr truenus (yr hwn yn awr a fuaiſt yn ddadleu yn dy erbyn dy hun) fel annogaeth i 'th enaid i ddyneſu atto, ac fel rheſwm i gyffroi y gwaredwr toſturiol i'th dderbyn di. Dôs, gan wîr gredu, mai *llê yr amlhâodd pechod, rhagor yr amlhâodd grâs* (p). Bydd ſicr o hyn, ſef, os gall unrhyw bechadur addo iddo 'i hun, fwy ſicr a chroeſawus dderbyniad nac arall, mai nid yr un lleiaf euog a thruenus yw; ond yr hwn ſydd wedi ei *ddaroſtwng* fwyaf dan *deimlad* o'r trueni a'r euogrwydd hynny, ac yn gorwedd iſelaf yn yr amgyffred o'r peth hyn.

Myſyrdodau 'r Pechadur ar yr annogaethau uchod, yn dibennu mewn difrifol a goſtyngedig ddyſodiad at Griſt am drugaredd.

O FY enaid, pa beth a ddywedi am y pethau hyn? Onid oes o leiaf boſſiblrwydd i gael cymmorth trwy Griſt? Ac a oes poſſiblrwydd o gym-

(p) Rhuf. v. 20.

'gymmorth yn unrhyw ffordd arall? *Oes enw arall dan y nef wedi ei roddi, trwy yr hwn y mae yn rhaid i mi fod yn gadwedig?* Mi a wn nad oes (q). Rhaid i mi gan hynny ddywedyd, fel y gwahanglwyfion yn *Iſrael*, Os trigaf yma, mi a fyddaf *marw*; ac os yn *ofer* yr ymoſynnaf am drugaredd, ni bydd i mi ond *marw* (r). Fe allai y bydd iddo gadw yn fyw fy enaid; am hynny mi gyfodaf, ac a âf atto; neu yn hytrach gan gredu ei fod ef yma trwy ei breſennoldeb yſbrydol, er mor bechadurus a thruenus wyf, mi a fyrthiaf ar fy wyneb y funud hon o'i flaen ef, ac a dywalltaf fy enaid ger ei fron.

'IESU bendigedig, yr wyf yn rhoddi fy hunan i ti, fel creadur truenus, ac a yrrwyd gan *angenrheidrwydd* i wneuthur felly. Ac oni bae fy mawr angenrheidrwydd, nis gallaſwn gan gywilydd ymddangos yn dy breſennoldeb gogoneddus a ſanctaidd. Yr wyf wedi cael fy argyhoeddi yn drwadl, fod fy ynfydrwydd a'm pechodau yn fawr ac yn aneſguſodol; yn fwy nac allaf ddywedyd na'i feddwl. Yr wyf yn teimlo ffynnon o bechod yn fy natur ddirywiedig ac aflan, yr hon ſy 'n bwrw allan anwiredd, fel ac y mae ffynnon yn bwrw allan ei dwfr, ac yn fy ngwneuthur yn faich ac yn ddychryn i mi fy hun. Mae fy mhechodau wedi trymhâu yn y fath fodd, fel ac y mae yn ymddangos fel yn *rhyfyg*, i mi gymmaint a gofyn maddeuant am danynt. Ac etto, oni byddai yn fwy o ryfyg i ddywedyd eu bod yn fwy na 'th drugaredd, a rhinwedd dy waed di; i ddywedyd fod gennyt ddigon o allu ac o râs i faddeu ac achub pechaduriaid o râdd lai, tra mae fy math i yn gorwedd allan o'th gyrraedd? Gwared fi rhag y fath dŷb gableddus! Achub fi rhag y fath afreſymmol ddrwgdybiaeth!

'O Arglwydd,

(q) Actau iv, 12. (r) 2 Bren. vii. 4.

'O Arglwydd, ti elli di wneuthur pob peth, ac 'ni attalir un meddwl rhagddot ti (s). Yr ydwyt 'yn wîr, fel ac y tyſtia 'th air, *yn abl i achub hyd* 'yr eithaf (t). Am hynny, gan dorri trwy yr holl 'rwyſtrau o *gywilydd* ac *ofn*, pa rai a fynnent fy 'nghadw oddiwrthyt, yr wyf yn dyfod attat, gan 'ymoſtwng megis yn y llwch ger dy fron. *Ti* 'a adwaenoſt, O *Ddduw*, *fy holl ynfydrwydd*, *ac* 'nid yw *fy mhechodau guddiedig rhagot* (u). Nis 'gallaf, ac yr wyf yn gobeithio gallaf ddywedyd, 'nas chwennychwn, eu cuddio rhagot, nac 'roddi eſguſion am danynt. O Arglwydd, ach-'wyn arnaf fel y bo da yn dy olwg; ac mi addefaf 'fy hun yn *euog* o'th holl achwynion. Mi addefaf 'fy hun, yn gymmaint o bechadur ac y bo da 'gennyt fy ngalw: Ond etto pechadur wyf, ac ſy 'n dyfod attat ti i ymofyn maddeuant. Os 'rhaid i mi farw, mi fynnaf farw, mewn ymoſtyn-'giad a chyfaddefiad o gyfiawnder y farwol ddyr-'nod. Os fy ngholli a gâf, er hynny mi afaelaf 'megis *yng ngyrn yr allor*; gan ymoſtwng wrth dy 'ſtôl-draed di, er bod o honof y fath wrthryfelwr 'yn erbyn dy frenhiniaeth. Llawer a dderbyni-'aſant gyflawn faddeuant yno; ïe a gawſant ffafr 'uwchlaw eu gobaith. Ac a *ddarfu* dy holl doſtu-'riaethau di, O fendigedig *Ieſu?* A wnai di yn 'awr i wrthod creadur goſtyngedig, ſy 'n rhedeg 'attat am ei *fywyd*, ac nad yw 'n dadleu dim ond 'trugaredd a rhâd râs? *Cymmer drugaredd arnaf*, 'O drugaroccaf brynwr, *cymmer drugaredd arnaf*, 'a bydded *fy einioes yn werthfawr yn dy olwg di* (x). 'O na fydded i ti benderfynu 'm danfon i wared 'i'r cyflwr hynny o dragywyddol drueni ac ano-'baith, rhag pa un yr arfaethaiſt yn raſol achub 'llaweroedd!

'O Arglwydd,

(s) Job xlii. 2. (t) Heb. vii. 25. (u) Salm lxix. 5. (x) 2 Bren. i. 14.

'O ARGLWYDD, na fwrw fi allan o'th bresen-
'noldeb, ac na ddigia am fy mod yn rhyfygu ymaflyd
'yn dy frenhinol wisg, ac yn dywedyd, nis gwnâf,
'nis gallaf dy ollwng ymaith oni'm bendithi (y)!
'Oh cofia fod fy holl obaith o gaffael tragywydd-
'ol wynfyd, ac o ochelyd tragywyddol ddistryw,
'yn angori ynnot ti; mae dy wenau yn fywyd
'i'm gobaith, ond, wele hi 'n marw dan dy ŵg.
'O er mwyn fy enaid anfarwol, cymmer drugaredd
'arnaf! Ond os na thrugarhei er mwyn fy enaid i,
'etto gwna felly er mwyn llawer eraill, pa rai ar
'y naill law, a allant gael annogaeth oddiwrth dy
'drugaredd i mi, neu ar y llaw arall, eu mawr
'glwyfo a'u gwangalonni trwy fy anobaith a'm
'distryw! Yr wyf yn attolwg arnat, O Arglwydd,
'er dy fwyn dy hun, er mwyn amlygu rhŷdd a
'chyfoethog râs y Tâd. Mi attolygaf arnat er
'mwyn y gwaed a gollaist ti ar y groes; yr wyf yn
'attolwg arnat trwy 'r cyfammod o râs a heddwch,
'pa um y cyttunwyd arno rhyngot ti a'r Tâd, er
'mwyn iechydwriaeth pechaduriaid edifeiriol a
'chrediniol, *gwared fi!* Gwared fi! O Arglwydd,
'yr hwn wyf yn gwîr ddymuno i edifarhâu ac i
'gredu ynnot. Gwîr yw, mae pechadur wyf, yn
'nrhagywyddol ddistryw pa un, y mae 'n bosfibl
'i'th gyfiawnder gael ei ogoneddu: Etto os madd-
'eui i mi fy anwiredd, fe fydd arwydd-nôd i
'gael ei chyfodi er anrhydedd i'th râs, ac effaith
'dy werthfawr waed, yn gyfattebol i'r grâdd o
'drueni ac o waeledd, yr oedd yr hwn y daeth
'trugaredd hyd atto, pan oedd yn amddifad o honi.
'Llefara, O Arglwydd, trwy dy yspryd gogoneddus,
'fel y bo i'm holl ofnau gael eu gyrru ymaith!
'Edrych arnaf, gyda grâs a chariad yn dy wyneb,
'a dywed wrthyf, fel wrth lawer gweddiwr gost-
'yngedig gynt yn nyddiau 'th gnawd, *Dôs mewn*
'*heddwch, maddeuwyd i ti dy bechodau.* Amen!'

PEN-

(y) Gen. xxxii. 26.

PENNOD XIII.

Yr enaid amheus yn cael ei gynnorthwyo mewn modd mwy neillduol yn ei ymofyniadau ynghylch gwirionedd ei ffydd a'i edifeirwch.

§ 1. MEWN canlyniad o'r holl bethau difrifol y ſoniwyd am danynt yn y pennodau o'r blaen, yr wyf yn gobeithio mai nid rhyfyg dwyllodrus yw meddwl, y bydd rhyw faint o grefyddol argraffiadau i gael eu gwneuthur ar galonnau, na theimlaſant y cyfryw bethau erioed o'r blaen; neu gael eu hadfywio, llê yr oeddynt wedi marweiddio ac oeri. Etto yr wyf yn bur hyſpus, ac mi chwennychwn i titheu fod yn hyſpus, o'r mawr berygl ſydd mewn *hunan-weniaeth*, yn y matter pwyſfawr hyn; a pha mor angenrheidiol yw i rybuddio dynion yn erbyn penderfyniad rhy fuan eu bod wedi eu gwîr ddychwelyd, am eu bod wedi teimlo cyffroadau cynnes ar eu meddyliau, ac am eu bod wedi diwygio o ran pechodau mawrion eu bywyd gynt. Camſynniad yn y peth hyn, a ddichon fod o anfeidrol niweid: Fe all fod yn achos o'r heddwch twyllodrus hynny, ac a bâr i ddŷn i fendithio ei hunan yn ei galon, gan feddwl ei hun yn ddiogel, tra mae bygythion a melldithion cyfraith Dduw yn ſwnio yn ei gluſtiau, ac yn ſefyll yn ei erbyn: Ac yn y cyfamſer y mae 'n cymmhwyſo atto ei hun fîl o addewidion diſail, pa rai gan hynny a fyddant iddo fel gwîn cadarn i ddŷn mewn *gwrês*, neu ddiod-gwîſg i'r hwn ſo mewn *hûn-gluyf*. Y greig-leoedd a dderbyniaſent y gair gyda llawenydd, a chan addo cynhauaf, fe eginodd yn y man; er hynny fe wywodd yn fuan (z), ac ni chafodd un medelwr ei gofled oddiwrtho. Yn awr rhag mae dyma all fod dy gyflwr di, rhag i'm holl lafur i, a'th

(z) Mat. xiii. 5, 6.

i, a'th eiddo ditheu gael eu colli, ac i freuddwyd ofer am ddiogelwch ac happuſrwydd i'th ſoddi etto 'n ddyfnach mewn trueni a diſtryw, canniattâ i mi i'th arwain i ſyml chwilio cyflwr dy galon; fel y gallech yn well i farnu am danat dy hun, ac i wybod y gwahaniaeth rhwng bod o fewn i ychydig i deyrnas nefoedd, a dwad yn wîr aelod o honi.

§ 2. Ac y mae hyn yn ymddibynnu ar ddiragrithrwydd dy ffŷdd yn Ghriſt, pan y mae hi yn cael ei chymmeryd yn yr yſtyr helaethaf, fel yr eglurwyd uchod; hynny yw, pan fo 'n cynnwys *eaifeirwch a diogel fwriad o ufudd-dod newydd a thrwadl*, yr hwn, pa lê bynnag y mae mewn gwirionedd, y mae ffŷdd yn fywiol wreiddyn o hono. I'r diben gan hynny o'th gynnorthwyo i roddi iawn farn ar gyflwr dy enaid, rho gennad i mi ofyn i ti, neu 'n hytrach i ddymuno arnat i ofyn i ti dy hun, pa ryw olygiadau y gefaiſt, ac wyt yn awr yn gael, ar *bechod* ac ar *Griſt?* Pa fath yw 'th fwriadau ynghylch dy fuchedd am yr hyn all fod yn ol o'th fywyd? Ni ymreſymma fi yn helaeth am y pethau hyn, ond yn hytrach i'th gyfeirio di at yr hyn ac wyt yn ddarllain ac yn ſylwi arno dy hun; ac felly i farnu a yw 'th olygiadau ar y cyfryw bethau, yn cydfyned â gair Duw, y rheol fawr wrth yr hon y profir ni oll ar frŷs, ac wrth ba un y ſefydlir ein yſtâd dragywyddol mewn modd anghyfnewidiol.

§ 3. Difrifol chwilia yn gyntaf, pa ryw olygiadau y gefaiſt ar *bechod*, a pha beth a *deimlodd* dy galon mewn perthynas iddo. Fe fu amſer pan yr oedd yn ymddangos yn dêg, fel ac yr oedd dy galon yn cael ei llygad-dynnu ganddo, ac yr oedd y cyflawniad o hono yn waith pennaf dy fywyd. Ond ti gefaiſt wedi hynny dy ddidwyllo. Tydi a'i teimlaiſt ef yn *brathu fel ſarph, ac yn pigo fel neidr* (a). Ti edrychaiſt arno gyda mwy o ffieid-dra, nac

(a) Diar. xxiii. 32.

nac o bleſer a roddodd i ti erioed. Hyd yma y mae pob peth yn dda. Mae pob gwîr edifeiriol yn teimlo fel hyn; a rhai 'rwyf yn ofni, nad ydynt o'r nifer hynny. Gâd i mi ofyn, gan hynny, ym mhellach i ti, O ba lê y cyfododd y *caſineb* hyn? A darddodd ef yn hollol oddi ar *hunan-gariad?* Ai o herwydd i ti gael dy *gluyfo* ganddo yn unig? Ydwyt ti yn caſhâu pechod yn unig am iddo ddwyn barn a diſtryw ar dy enaid? A oedd dim anharddwch, hocced, a drygioni yn ymddangos ynddo, fel yr oedd yn cael ei gyflawnu yn erbyn y Duw bendigedig, fel bôd gogoneddus, haelionus, a thrugarog? A gefaiſt ti erioed dy archolli gan olwg ar yr aflan anniolchgarwch ac ſydd ynddo? Ac mewn perthynas i'r bwriadau hynny a gyfodaſent yn dy galon yn ei erbyn ef, yr wyf yn erfyn arnat i edrych y modd y cawſant eu ffurfio a'u cyflawnu. Oeddynt yn helaeth yn erbyn pob pechod? Oeddynt hefyd yn ddianwadal? Ac ymmyſg hyn oll, oeddynt yn fwriadau goſtyngedig? Pan gyhoeddaiſt ryfel yn erbyn pechod, a oedd yn erbyn pob rhyw bechod? A yw yn rhyfel anghymmodlon, pa un 'r wyt yn fwriadu trwy ddwyfol râs i gario ymmlaen hyd oni bo i ti naill ai gorchfygu, neu farw yn yr ymgais? Ac a wyt ti gan hynny yn fywiog yn dy ymdrechiadau, i ddaroſtwng ac i lâdd pechod? Os felly, pa ryw *ffrwythau addas i edifeirwch ydwyt yn eu dwyn* (b)? Gobeithio nad yw 'r cwbl yn rhedeg ymaith, mewn llifeiriant o driſtwch: *A beidiaiſt ti a gwneuthur drûg?* Ac a *ddyſgaiſt ti wneuthur dâ* (c)? A ydyw 'th ddi wygiad yn dangos dy fod yn edifarhau am dy bechod; neu a yw 'th ſyrthiadau o newydd i bechod, yn profi dy fod yn edifarhâu, hyd yn oed am yr hyn wyt yn alw *edifeirwch?* Oes ynnot dufewnol gaſineb at *bob* pechod, a fêl wirioneddol yn ei erbyn ef? Ac a yw

(b) Luc iii. 8. (c) Eſay i. 16, 17.

a yw hynny yn peri gofal i wilio yn erbyn yr achlyſuron o hono, a themtaſiwnau iddo? A wyt ti yn gwilio rhag yr amgylchiadau ac a fuant yn faglau i ti? Ac a wyt ti yn neillduol yn gwilio yn ddauddyblyg yn erbyn y pechod hwnnw ac ſydd yn fwyaf *parod* i'th amgylchu (d)? A wyt ti yn rhoi hwnnw heibio, fel y rhedech yr yrfa griſtianogol; yn ei roddi heibio, trwy 'r fath gadarn fwriad, na bo i ti ddychwelyd at.o mwy, na gwneud pellach cyfeillach ac ef, na rhoddi un cam mwyach tuag atto?

§ 4. CANNIATTA i mi i ofyn hefyd, pa ryw olygiadau ſydd gennyt ar GRIST? Pa beth wyt yn dybiaid am dano, ac am dy berthynas ac ef? A gefaiſt ti 'th gyflawn argyhoeddi, fod yn rhaid ſefydlu cyfaillgarwch rhwng dy enaid di ac ef? A wyt ti yn gweled ac yn teimlo dy fod yn rhwym, nid yn unig i dalu iddo ef ryw fath o addoliad o hirbell, ac annherchiad trangcedig, fel un doeth, haelionus, a rhagorol, i enw a choffadwriaeth pa un mae gennyt barch; ond hefyd fel ac y mae ef yn byw ac yn teyrnaſu; fel ac y mae ef bob amſer yn agos attat a phob amſer yn dy weled di; fod yn rhaid i ti godi 'th olygon tuag atto; agoſhâu at ei orſedd; a dal maſnach ac ef; ïe maſnach o'r canlyniad mwyaf, ar ba un mae 'th iechydwriaeth yn ymddibynnu?

§ 5. TI a ddygwyd i ymofyn, *A pha beth y deuaf ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymmaf ger bron yr uchel Ddduw* (e)? Ac yr oeddit unwaith o boſſibl yn meddwl am offrymmau o'th eiddo dy hun; ac a wyt ti yn awr yn gweled nad ydynt yn ddigonol, ac i fod yn rhaid i ti ddyfod at yr *Oen a dreſnodd Duw?* A gefaiſt ti olwg ar yr IESU *yn tynnu ymaith bechodau 'r byd* (f)? Wedi *ei wneuthur yn bech-aberth droſom ni, er nad adnabu*

(d) Heb. xii. 1. (e) Mic. vi. 6. (f) Ioan i. 29.

adnabu bechod, fel y gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef (g)? A edrychaiſt ti arno yn berffaith gyfiawn ynddo 'i hun; a chan anobeithio am gyfiawnhâd trwy unrhyw gyfiawnder o'th eiddo dy hunan, a *ymoſtyngaiſt ti i gyfiawnder Duw* (h)? A gafodd dy galon ei hargyhoeddi o'r gwirionedd pwysfawr hwn, ſef, os cai di byth dy achub, rhaid mai trwy Grist y bydd hynny? Os eſtyn Duw drugaredd i ti oll, rhaid ei bod er ei fwyn ef; os cai di byth dy ſefydlu yn nheml Dduw fry, y bydd raid i ti ſefyll yno fel tragywyddol arwydd o'r fuddugoliaeth a ynnillodd Criſt ar alluoedd uffern; y rhai, pe amgen, a fuddugoliaethaſent arnat ti?

§ 6. Fel hyn y dywaid yr Arglwydd, *Trowch eich wynebau attaf fi, fel i'ch achuber* (i): Ac y mae yn dywedyd, *Os derchefir fi, mi a dynnaf bawb attaf fy hun* (k). A droaiſt ti dy wyneb atto, fel yr unig iachawdwr? A dynnwyd di atto, trwy 'r ſanctaidd *fagnet** hynny, ſef dengar ddylanwad ei gariad, yn marw dros bechaduriad? A wyddaiſt ti beth yw dyfod at *Griſt* fel *pechadur tylawd, blinderog a thrwmlwythog*, i'r diben o gael *gorphwyſfa* (l)? A wyddaiſt ti beth yw *bwytta cnawd ac yfed gwaed Mâb y dŷn* yn yſprydol (m); hynny yw, i edrych ar Griſt croeſhoeliedig fel mawr gynhaliwr dy enaid, a theimlo dymuniad am ei fwynhau, gyda 'r unrhyw ddifrifwch ac y mae blŷs natur am ei ymborth angenrheidiol? A wyddaiſt ti beth yw rhoddi dy hunan i Griſt mewn modd calonnog, fel creadur tylawd, yr hwn a wnaeth ei gariad yn eiddo iddo 'i hun? A roddaiſt ti 'th enaid anfarwol iddo, i gael ei phuro a'i hachub; fel y bo iddi gael ei llywodraethu gan ei air a'i yſpryd; fel y bo iddo ei threfnu

er

(g) 2 Cor. v. 21. (h) Rhuf. x. 3. (i) Eſay xlv. 22.
(k) Ioan xii. 32. (l) Mat. xi. 28. (m) Ioan vi. 53.

* *Maen-tynnu.*

er ei ogoniant; i fod yn y gwaith, a than y ddiſgybliaeth, y welo ef yn dda, tra bo yn y cnawd; fel y bo iddo ei derbyn hi yn angau, a'i ſefydlu ymmyſg yr yſprydoedd hynny, ac y mae eu caniadau o fawl yn gwaſtadol amgylchu ei orſedd, ac y maent yn weiſion iddo byth? A fu i ti yn llyn i gydſynio yn galonnog? Ac a wyt ti wrth olygu hyn oll, yn foddlon i adnewyddu 'th gydſynniad? A wyt ti yn awr mewn modd pwyllog a ſefydlog yn adnewyddu, ac yn teimlo 'th holl enaid megis yn dywedyd, Amen, tra 'r ydwyt yn darllain hyn oll? Os felly, mi allaf gyda phleſer roddi i ti ddeheulaw cymdeithas, i'th annerch a'th goſleidio fel gwîr ddiſgybl i'r Arglwydd Iesu Grist; fel un a *waredwyd allan o feddiant y tywyllwch, ac a ſymmudwyd i deyrnas anwyl Fâb Duw* (n). *Os felly, mi allaf dy annerch yn yr Arglwydd*, fel un ac y mae gweinidog Ieſu Griſt wedi ei awdurdodi a derbyn gorchymmyn ddywedyd yn *gyſſurus* wrtho; ac yr wyf yn mynegu i ti, nid fy mod i yn dy ryddhau di ioddiwrth dy holl bechodau, canys bychan yw cael ein barnu gan farn *dyn*; ond i fod *y Duw bendigedig* ei hun, yn dy ryddhau di; dy fod ti yn un o'r rhai y dywedodd wrthynt, ac y mae yn gyſſon yn dywedyd wrthynt, yn yr efengyl, *Maddeuwyd i chwi eich pechodau* (o); am hynny dôs ymaith mewn heddwch, a chymmer gyſſur.

§ 7. Ond os wyt yn ddieithr i'r profiadau hyn, ac i'r dymmer y fum i yr awr hon yn ei darlunio, mae 'r gwaith mawr etto heb ei ddechreu; yr wyt ti 'n bechadur anedifeiriol ac anghrediniol, ac y mae *digofaint Duw yn aros arnat* (p). Pa fodd bynnag y cefaiſt dy ddeffroi a'th ddychrynu, pa fwriadau bynnag y ffurfieiſt ynghylch gwellhau dy fuchedd, pa mor uniawn bynnag yw 'th

(n) Col. i. 13. (o) Luc vii. 48. (p) Ioan iii. 36.

'th ddaliadau crefyddol, er mor bur all fod ffurfiau 'th addoliad, er mor boethed all fod dy ſêl, er mor llym all fod dy ymdrechiadau i farweiddio gweithredoedd y cnawd, pa mor ddynol bynnag allai 'th dymmer fod, ac er mor ddiddrwg yw dy fywyd, nis gallaf lefaru dim cyſſur wrthyt. Ofer yw 'th holl grefyddol obaith, os na bu gwîr a thufewnol ymoſtyngiad ger bron Duw am dy holl bechodau; os nad oes rhyfel wedi ei gyhoeddi yn erbyn pob rhyw beth ac ſydd yn anfoddloni Duw; os na bu 'r teimlad hwn o'th eiſiau o Griſt, ac o'th golledigaeth hebddo; yr ymroddiad hyn o'th enaid i'w ddwylaw ef trwy ffŷdd; os na fu gwîr ymofyniad am dano, ac ymwadiad â thi dy hun, fel y byddai i ti ſicrhau *angor dy obaith* ynddo ef; os na roddaiſt dy hun yn hollol, i fod bob amſer, ac ym mhob rhyw fodd, yn ffyddlon waſanaethwr Duw trwyddo ef; ac os nad wyt gyda hyn oll yn cyfaddef dy hun yn wâs anfuddiol, heb unrhyw ddiſgwyliadau eraill am dderbyniad ac am heddwch, ond yn unig trwy ei gyfiawnder a'i waed, a thrwy ddwyfol râs ynddo ef; os nad wyt yn profi 'r pethau hyn, rhaid i mi drachefn ddywedyd wrthyt, fod dy holl obaith yn ofer, ac i fod dy adeiladaeth ar y *tywod* (q). Y tŷ a gyfodaiſt yn barod, ſydd raid ei dynnu lawr i'r gwaelod, a'i ſylfaen gael ei ſymmud, a'i goſod o newydd, os amgen, ti gai di a'th holl obaith di 'ſgubo ymaith gydag ef, a'th gladdu mewn tragywyddol ddiſtryw.

Yr Enaid yn rhoddi ei hun i gael ei phroſi gan Dduw ynghylch gwirionedd ei ffŷdd a'i hedifeirwch.

'O ARGLWYDD Dduw, yr wyt yn chwilio 'calonnau ac yn proſi arennau holl feibion dynion (r). *Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy*

(q) Mat. vi. 26. (r) Jer. xvii. 10.

‘ *fy nghalon; prawf fi a gwybydd fy meddyliau; a*
‘ *gwêl a oes ffordd anmhuriol gennyf; a thywys fi yn y*
‘ *ffordd dragywyddol* (s). Onid yw fy nghydwybod
‘ yn tyſtio yn dy breſennoldeb, O Arglwydd, ſod
‘ fy ffydd a'm hedifeirwch y fath ac a ddarluniwyd
‘ uchod, neu o leiaf ei ſod gwîr ddymuniad fy
‘ enaid ei bod felly? Dere gan hynny, O ſanctaidd
‘ Yſpryd, yr hwn wyt yr awdwr o bob grâs a
‘ chyſſur, a gweithia 'r dymmer hon yn fwy cyf-
‘ lawn yn fy enaid! O dyro i mi y fath olwg ar
‘ bechod yn ei liwiau mwyaf ffiaidd, fel y teimlwyf
‘ farwol ac anghymmodlon elyniaeth atto! Goſod
‘ ger fy mron fawredd a thrugaredd y bendigedig
‘ Dduw, yn y fath fodd, ac y bo i'm calon i ddy-
‘ chrynu ac i doddi ger ei fron! *Taro 'r graig fel*
‘ *y bo i'r dyfroedd i lifo* (t); dyfroedd o wîr, didwyll,
‘ a mabol edifeirwch! *Argyhoedda fi*, O fendigedig
‘ *Yſpryd, o bechod, o gyfiawnder, ac o farn* (u)! Dan-
‘ gos i mi fy mod wedi diſtrywio fy hun, ac i ſod
‘ fy nghymmorth yn unig o Dduw (x), o Dduw
‘ trwy *Grift*, yn yr hwn yn unig yr eſtyn ef ei
‘ drugaredd i'm hachub. Yn ol dy ſwydd arben-
‘ nig, cymmer o'r eiddo Criſt a mynega hwynt i
‘ mi (y)! Mynega ei allu i achub; mynega ei
‘ ewyllyſgarwch i ymarferyd y cyfryw allu! Dyſg
‘ fy ffydd i edrych arno wedi ei eſtyn ar y groes, â
‘ breichiau agored, ac yſtlys waedlyd a thrwanedig;
‘ ac felly yn dywedyd wrthyf fi yn y modd mwyaf
‘ awdurdodol, i ſod llê yn ei galon i mi! Boed i mi
‘ wybod beth yw cael fy holl galon wedi ei daroſt-
‘ wng trwy gariad, wedi ei daroſtwng yn y fath
‘ fodd ac y bo i mi gael fy ngrhoeſhoelio gydag ef
‘ (z); fely bwyf farw i bechod ac i'r bŷd, ond yn
‘ fyw i Dduw, trwy Ieſu Criſt (a)! Boed i mi
allu

(s) Salm cxxxix. 23. 34. (t) Salm lxxviii. 20. (u) Ioan xvi. 18.
(x) Hoſe xiii. 9. (y) Ioan xvi. 15. (z) Rhuf. vi. 6.
(a) Rhuf. vi. 11.

'allel ymddiriaid yn ei gariaid a'i allu ef! Iddo ef 'y bo i mi allel rhoddi fy yſpryd yn drwadl! Boed 'i mi allel gwiſgo 'i ddelw, ac ufuddhâu i'w gyf-'reithiau! Boed i mi allel canlyn ei waſanaeth, 'a bod trwy amſer a thragywyddoldeb yn nôd o 'effeithioldeb ei efengyl, ac yn yſglyfaeth o'i orch-'fygol râs!

'O Dduw bendigedig, os oes un peth yn 'eiſieu tuag at fy ngwneuthur yn Griſtion cywir, 'amlyga ef i mi, a gweithia ef ynnof! Bwr i 'lawr, yr wyf yn attolwg arnat, bob rhyw obaith 'twyllodrus a rhyfygus ac ſydd ynnof, pa mor 'ddrŷd bynnag allo 'r adeiliadaeth fod, ac a gaffo '*n* llyn ei diſtrywio, ac er mor falch y bum i 'o'i haddurniadau ofer! Dyro i mi adnabod y 'gwaethaf o'm cyflwr, pa mor ofidus bynnag allo 'r 'fath wybodaeth fod; ac od oes unrhyw berygl 'yn aros, boed fy nghalon yn gyflawn deimladwy 'o hono tra mae meddyginiaeth i'w chael!

'Os oes unrhyw ddirgel bechod yn lletrua 'ynnof, yr hwn nid wyf wedi ymadael yn gywir 'ac ef, datguddia ef i mi, a thyn ef allan o'm 'calon, er gwreiddio o hono yn ddyfn, a phlethu 'ei wreiddiau o'i chwmpas oll, fel y be pob 'gwythen yn cael ei dolurio wrth ei dynnu ym-'aith. Tor ef ymaith, O Arglwydd, â llaw *greu-'lon drugarog!* Ac yn raddol, ïe, Arglwydd, dôs 'yn y blaen mewn modd buan, i *gyflawnu yr hyn 'ſydd hyd yma 'n ddiffygiol yn fy ffydd i* (d). Cyf-'lawna ynnof holl foddlonrwydd dy ddaioni (e): 'Cyfoethoga fi, O nefol Dâd, â holl raſau dy 'Yſpryd: Ffurfia fi i gyflawnder delw dy anwyl 'Fâb: Ac er ei fwyn ef, dere attaf ac amlyga 'dy raſol breſennoldeb yn fy enaid (f), hyd oni 'bo 'n addfed i gyflwr o ogoniant, i ba un y mae 'r gweithrediadau hyn yn tueddu i'w gym-'mhwyſo ef! Amen.'

(d) 1 Theſ. iii. 10. (e) 2 Theſ. i. 11. (f) Ioan xiv. 21, 23.

PENNOD XIV.

Mwy neillduol olwg ar amrywiol ganghennau 'r Dymmer Grifiianogol; trwy ba un y gall y Darllenydd gael ei gynnorthwyo i iawn farnu pa beth yw ei gyflwr, a pha beth a ddylai i fod †.

§ 1. PAN yftyriwyf anfeidrol bwys tragywyddoldeb, yr wyf yn gweled anhawfdra i foddloni fy hunan, trwy unrhyw beth ac a allaf ddywedyd wrth ddynion, ynghylch y pethau a berthynant i'w daioni tragywyddol. Mi a roddais i ti olwg, yr wyf yn gobeithio y gallaf yn wirioneddol i ddywedyd, i mi roddi i ti gywir, yn gyftal a ffyddlon olwg, ar dymmer *wîr yfprydol.* Er hynny, tuag at dy gynnorthwyo ym mhellach, mi a'i dangofaf hi i ti yn ei hamrywiol ganghennau, ac mewn gwahanol oleuni, fel y gallech farnu pa beth ydwyt o ran dy gyflwr, a pha beth a ddylit i fod. A thrwy hyn, yr wyf yn bwriadu, nid yn unig dy *argyhoeddi*, os wyt hyd yn hyn yn ddieithr i wîr Grefydd, ond hefyd i'th *adeiliadu*, os wyt yn awr trwy râs Duw mewn grâdd yn brofiadol o honi. Dedwydd y fyddi, ïe dedwydd uwchlaw darluniad, os wrth fyned o un erthygl at un arall, y gelli ddywedyd, 'Dyma fy ngharacter a'm tymmer i.' Nid bychan dy happufrwydd, os gelli ddywedyd, 'Hyn wyf yn *ddymuno* gael, ac yn *weddio* am fod; dyma yr hyn wyf yn *ymôfyn* ar ei ol, yn fwy nac unrhyw beth arall i'r gwrthwyneb, er nad wyf etto mewn meddiant o hono i'r grâdd y dymunwn.'

§ 2.

† *Nodwch.* Nid yw 'r bennod hon ond megis talfyrriad o'r llyfr rhagorol hwnnw o waith y Dr. *Evans*, ac a elwir y *Dymmer Grifiianogol*, mor belled ac y perthyn i'r darluniad o honi. Ac i'r diben o gael annogaethau i bob rhan o'r dymmer hon, rhaid i mi gyfeirio 'r darllenydd at y llyfr ei hun.

§ 2. Chwilia a phrawf gan hynny, *o ba yſpryd yr ydwyt* (a). A boed i'r hwn ſy 'n *chwilio 'r calonnau*, gyfeirio dy ymofyniad, a'th gynnorthwyo i iawn-farnu dy hunan, fel na 'th *ddamnier gyda 'r byd* (b).

§ 3. Gwybydd hyn yn gyffredinol, ſef, os wyt yn griſtion mewn gwirionedd, ti a *adnewyddwyd yn yſpryd dy feddwl* (c); a hynny yn y fath fodd, fel ac yr wyt wedi 'th *ail-eni*. Nid yw 'n ddigon i ti gymmeryd arnat enw newydd, i gael dy ddwyn dan ryw fath o attaliadau, neu wneuthur math o gyfnewidiad rhannol, mewn rhai pethau neillduol yn dy fuchedd. Rhaid fod y cyfnewidiad yn fawr ac yn gyffredinol, trwy 'th holl enaid a'th holl fywyd. Edrych gan hynny, pa un a gefaiſt olygiadau newydd ar bethau, neu oes gennyt ymarferol farn, wahanol i'r hon oedd gennyt o'r blaen; a yw 'r dibenion ſydd yn dy olwg yn dy weithrediadau, y ſerchiadau wyt yn deimlo 'n gweithredu yn dy galon, a'r arferion i ba rai mae 'r ſerchiadau hynny yn dy dywys, ar y cwbl, yn *hên* neu yn *newydd* *? Ym mhellach, os wyt yn griſtion mewn gwirionedd, yr wyt yn meddiannu *dwyfol anian* (d); dwyfol yn ei dechreuad, yn ei thueddiad, ac yn ei chyffelybrwydd. Chwilia gan hynny, pa un a blannodd Duw egwyddor yn dy galon, ac ſydd yn tueddu atto, ac yn dy wneuthur yn gyffelyb iddo. Prawf dy enaid yn ddifrifol, i edrych a oes ynddi mewn gwirionedd run o ddelw foeſol Duw; ſef o'i ddaioni, o'i gyfiawnder, o'i ſancteiddrwydd, ac o'i ffyddlondeb; canys mae 'r dŷn newydd wedi ei *greu yn ol delw Duw, mewn cyfiawnder a gwîr ſancteiddrwydd* (e), ac

(a) Luc ix. 55. (b) 1 Cor. xi. 31, 32. (c) Eph. iv. 23.
(d) 2 Pedr i. 4. (e) Eph. iv. 24. (f) Col. iii. 10.

* Fe all y darllenydd weled y pethau hyn yn cael eu egluro yn helaeth, yn y tair pregeth gyntaf o'm heiddo i ar *Atlenedigaeth*.

ac wedi ei *adnewyddu mewn gwybodzeth yn ol delw 'r hwn a'i creodd of* (f).

§ 4. Er mwyn i ti adnabod dy hun ym mhellach, ymofyn, a oes yr *un meddwl ynnot ti ac oedd hefyd yn Ghrift* (g); pa un a'th fod yn dwyn delw mâb Duw yn y cnawd; yr hon fy 'n dwyn y gyffelybiaeth mwyaf eglur a mwyaf rhagorol o'r Tâd, ac y welodd daiar na nefoedd erioed. Fe ddaeth y bendigedig Iesu i'r bŷd i fod yn batrwn i'w holl ganlynwyr; ac y mae 'n ficr mai efe yw 'r patrwn gorau i ni ganlyn ar ei ol: Canys y mae efe yn fiampl yn ein natur ni, ac mewn amgylchiadau o ddefnyddgarwch cyffredinol; fiampl yn cael ei chynnyg i ni o herwydd ei pherffeithrwydd difrycheulyd, ac o herwydd y berthynas anwyl ac y mae Crift yn fefyll ynddi tuag attom ni, fel ein cyfaill, ein hathro, a'n pen; fel yr unig hanfod ac a fefydla 'n cyffwr tragywyddol, ac mewn cyffelybrwydd i ba un y bydd yn rhaid i'n happufrwydd tragywyddol fod yn gynnwyfedig, os happus byth a fyddwn. Edrych gan hynny i *fywyd a thymmer Crift*, fel y maent yn cael eu hamlygu yn yr efengyl, ac ymofyn a oes dim yn debyg iddo yn dy fywyd di. Oes ynnot ti râdd o'i dduwioldeb ef, ei gariad, a'i ymoftyngiad i ewyllys Duw? Oes ynnot ddim o'i oftyngeiddrwydd, ei addfwynder, a'i gymmwynafgarwch i ddynion? Dim o'i burdeb, ei ddoethineb, ei ddifatterwch am y bŷd, ei amynedd, ei ddianwadalwch, a'i fêl? Ac yn wîr yr holl ganghennau eraill o'r dymmer griftianogol, a allant gael eu galw i mewn i'r diben o eglurhâu a chynnorthwyo dŷ ymofyniadau dan y pen hwn.

§ 5. Mi 'chwanegaf ddywedyd ym mhellach, os wyt yn gywir Griftion, yr wyt yn *fynniad yn yfprydol*, gan wybod mai *bywyd a thangnefedd yw*, ond fynniad y cnawd, marwolaeth yw (h). Am hynny, er

(f) Col. iii. 10. (g) Phil. ii. 5. (h) Rhuf. viii. 8.

er dy fod yn byw yn y cnawd nid wyt yn milwrio yn ei ol (i); nid wyt yn derbyn dy *reolau a'th archymmynion* oddiwrtho. Yr ydwyt yn gofalu 'n ewyllysgar am ei *angenrheidiau* ef, fel yr hyn fy 'n ddyledſwydd arnat; ond y mae hyn oll gyda golwg at ddaioni yr enaid rheſymmol ac anfarwol. Dy ddewiſiad, dy ymofyniadau, dy feddyliau, a'th ſerchiadau ydynt oll yn cael eu heffeithio gan gariad at *yſprydol bethau*, yn hytrach na phethau cnawdol. Ar air, yr wyt yn *rhodio* wrth *ffŷdd* ac nid wrth *olwg* (k). Gwrthrychau i ddyfod, anweledig, ac mewn meſur uwchlaw amgyffred, ydynt yn llanw 'th feddwl. Mae 'th ffŷdd yn gweithredu ar y bôd o Dduw; ei briodoliaethau, a'i ragluniaethau, ei fygythion, ei orchymmynion, a'i addewidion. Y mae hi yn gweithredu tuag at Grift, yr hwn *er nas gwelaiſt, ydwyt yn ei garu* ac yn ei anrhydeddu (l). Mae hi 'n gweithredu tuag at y bŷd *anweledig*, yr hwn a wyr ei fod yn *dragywyddol*, ac am hynny, yn deilwng o fwy o'th ſerchog ymofyniad, na'r pethau a welir, ac ydynt ond yn unig dros amſer (m).

§ 6. Dyma olygiadau cyffredinol wedi eu rhoddi i ti o'r Dymmer Griſtianogol, wrth ba rai yr wyf yn attolwg arnat i'th holi dy hunan: Ac yn awr mi a âf rhagof, i roddi i ti olwg ar ei hamrywiol ganghennau, perthynol i *Dduw*, ein *cymmydogion*, a'n *hunain*; ac o'r *cynnheddfau* hynny ac a raid gyd-fyned â phob un o'r canghennau hyn, megis *diragrithrwydd, tynerwch, dianwadalwch, ſêl, a doethineb*. Ac yr wyf yn erfyn dy aſtud wrandawiad tra bwyf yn ceiſio goſod rhai pethau perthynol i bob un o'r pennau uchod ger dy fron, trwy ba rai y bydd i ti allel barnu yn well am dy gyflwr a'th ddyledſwydd.

§ 7. Chwilia, yr wyf yn attolwg arnat gan hynny, *dymmer dy galon tuag at y bendigedig Dduw*. Wyt ti 'n cael yno barchus ofn, goruchel gariad at,

(i) 2 Cor. x. 3. (k) 2 Cor. v. 7. (l) 1 Pedr i. 8. (m) 2 Cor. iv. 18.

a pharch i'w briodoliaethau anghydmariaethol ogoneddus, dymuniad am ei fwynhâu fel y daioni pennaf, a chalonnog ddiolchgarwch iddo fel dy oruchel gymmwynaſwr? Elli di ymddiried i'w ofal? Elli di gredu ei dyſtiolaeth? A wyt ti yn dymuno rhoddi ufudd-dod parhaus i'w holl orchymmynion ef, ac ymoſtyngiad i holl drefniadau ei ragluniaeth? A wyt ti 'n golygu ei ogoniant fel dy ddiben pennaf, ac a yw e'n fawr orchwyl dy fywyd i gyflwyno dy hun yn gymmeradwy ger ei fron? A ydyw gofal i debygu iddo, a'i waſanaethu ef mewn yſpryd a gwirionedd (n); yn llywodraethu yn dy enaid?

§ 8. Mi a roddais ddarluniad helaeth yn barod o ffŷdd yn Ghriſt; gan hynny ni ddywedaf ddim ychwaneg ynghylch crêd yn ei allu a'i râs, y rhai ydynt gadarn ſylfaen iddi; nac ynghylch derbyniad o Griſt yn ei holl ſwyddau, neu ymroddiad yr enaid i'w law ef, yn yr hyn bethau, y mae natur ffŷdd yn gynnwyſedig.

§ 9. Os yw 'r ffŷdd hon yn Ghriſt yn wirioneddol, mae 'n ddiammau y bydd iddi weithio *cariad* tuag atto ef; yr hwn a ddengys ei hun, mewn parchus a ſerchiadol feddyliau am dano; mewn gwîr ffyddlondeb iddo; mewn gofalus gyflawniad o'i orchymmynion; mewn parch i'w achos, ei yſpryd, a'i gyfeillion; mewn parch i'r ordinhadau a drefnodd ef yn ei eglwys, er mwyn cofio am ei gariad yn marw; ac mewn cynnes ddymuniad am y nefol fŷd, llê mae efe yn preſwylio, a llê y preſwylia ar fyr ei holl bobl gydag ef (o).

§ 10. Yn gyttunol â gair Duw mi allaf ychwanegu i ddywedyd, y bydd i'r ffŷdd hon yn Ghriſt, a gwîr gariad atto, beri i'th enaid *lawenhâu ynddo*; yn y diben gogoneddus i ba un y daeth i'r bŷd; a'i hollol gymmhwyſder i ddwyn i ben ei ddiben; yn addewidion ei air; ac yn rhagorfreintiau ei bobl.

(n) Ioan iv. 24. (o) Ioan xvii. 24.

bobl. Fe fydd yn fatter o orfoledd gennyt, i'r fath brynwr ymddangos yn ein bŷd ni; ac fe fydd y llawenydd hynny ynnot ti, yn ol y grâdd o eglurdeb, trwy ba un y gwelwch dy hawl ynddo, a'th berthynas ac ef.

§ 11. Canniatta i mi i'th arwain i fyfyrio ychydig ar dymmer dy galon, tuag at yr *Yſpryd ſanctaidd.* Os *nad yw yſpryd Criſt gennym, nid ydym yn eiddo ef* (p). Os nid ydym yn cael ein *harwain gan yſpryd Duw, nid yaym yn blant i Dduw* (q). Gan hynny os wyt yn wîr griſtion, yr wyt yn dymuno cael dy *lenwi â'r yſpryd* (r); i gael o honot holl alluoedd dy enaid wedi eu darof-twng i'w awdurdod ef; i fod ei weithrediad ef ar dy galon, yn fwy diyſgog, nerthol, a dymunol Ac i'r diben o feithrin y dylanwadau ſanctaidd hyn, ti a fyddi yn treulio rhywfaint o amſer yn aml, mewn duwiol yſtyriaethau a myfyrdodau: Ti a fyddi 'n iawn ddefnyddio 'r amſerau ac y bo yn anadlu ar, ac yn tyneru dy enaid; ac yn chwennych ymgadw rhag y pechodau trwy ba rai y gallo gael ei drifthâu. Ti a fyddi yn ymdrechu yn ddifrifol â Duw mewn gweddi, am iddo gael ei *dywallt arnat yn fwy helaeth, trwy Ieſu Griſt* (s): A thi a fyddi 'n ewyllyſio cwympo i mewn â diben mawr ei anfoniad ef, ſef i ogoneddu Crist (t), ac i ſefydlu ei Deyrnas.—Ti a fyddi 'n chwennych ei ddylanwadau fel *yſpryd mabwyſiad*, fel y bo 'th addoliad yn fwy ewyllyſgar a ſerchiadol, dy ufudd-dod yn fwy gwrol, a'th alar am bechod yn fwy teimladwy; fel y bo 'th ymroddiad yn fwy addfwyn, a'th gariad yn fwy gwreſog; ar air, fel y bo i ti gael dy ddwyn trwy fywyd a marwolaeth, mewn tymmer plentyn, yr hwn ſo yn hoffi ei dâd, ac yn hiraethu am ei breſennold .b digyfrwng.

(p) Rhuf. viii. 9. (q) Rhuf. viii. 14. (r) Eph. v. 18.
(s) Tit. iii. 6. (t) Ioan xvi. 14.

§ 12 YM mhellach, os wyt yn griſtion mewn gwrionedd, yr wyt yn chwennych yr yſpryd fel *yſpryd o wrolder*. Ymmŷſg yr holl oſtyngeiddrwydd enaid a weithredir ynnot, ti a chwennychi allel bod yn *gawr* yn achos Criſt; i wrthwynebu gyda gwrol fwriad, ymdrechiadau mwyaf grymmus galluoedd y tywyllwch, tufewnol lygredigaeth dy galon dy hun, a phob rhyw anhawſderau a'th gyfarfyddo yn ffordd dy ddyledſwydd, tra byddech yn myned rhagot *yn gorchfygu ac i orchfygu*, yn ac hs, a thrwy nerth Criſt.

§ 13. YR holl bethau hyn allant gael eu hyſtyriaid, fel *canghennau o ddiwioldeb*; ac o'r fath ddiwioldeb ac ſy 'n *fuddiol i bob peth*, ac y mae *iddi addewid o'r bywyd ſydd yr awr hon, a'r hwn ſydd i ddyfod* (u).

§ 14. GAD i mi etto ym mhellach oſod ger dy fron rai canghennau o'r dymmer griſtianogol, ac a berthynant yn fwy neilldiol, *i ni ein hunain*. Ac y mae 'n rhaid i mi ddywedyd dan y pen hwn, os wyt griſtion mewn gwirionedd, diammau'th fod yn gwerthfawrogi 'r *enaid yn fwy na'r corph; a phethau tragywyddol yn fwy na phethau amſerol*. Gan wybod gwerth ac anrhydedd y rhan anfarwol, yr wyt wedi dyfod i gadarn fwriad o ſicrhau ei dedwyddwch, pa bethau bynnag ſydd raid eu dioddef, neu i ymwadu â hwynt i'r diben hynny.—Os wyt wîr griſtion, rhaid dy fod wedi 'th *wiſgo â goſtyngeiddrwydd* (x). Y mae ynnot ddyſn deimlad o'th amherffeithrwydd moeſol a naturiol; o fyrdra 'th wybodaeth; o wendid ac anwadalwch dy fwriadau; o'th ymddibynniad gwaſtadol ar Dduw, ac ar bob rhyw beth o'th amgylch. Ti a gefaiſt neilldiol deimlad o'th euogrwydd; coffadwriaeth o'r hyn a'th lanwodd o drallod a chywilydd, hyd yn oed pan mae gennyt ryw reſwm i obeithio fod dy bechod wedi ei faddeu.

Hyn

(u) 1 Tim. iv. 8. (x) 1 Pedr v. 5.

Hyn a attal bob rhyw ucheldrem a balchder, yn dy ymddygiad tuag at dy gŷd-greaduriaid. Hyn a'th ddŷſg, dan bob rhyw gyſtuddiedig ragluniaeth, gyda phob ſanctaidd ymoſtyngiad, i ddioddef *dîg yr Arglwydd*, fel un a *bechodd yn ei erbyn ef* (y).—Hefyd, os gwîr griſtion ydwyt, yr wyt yn llafurio am *burdeb enaid*, gan gynnal parhaus gaſineb at bob peth gwaharddedig. Coffadwriaeth o'th bechodau gynt a leinw 'th feddwl o gywilydd a gofid; ac felly ti a ymdrechi rhagllaw i wilio ar dy feddyliau a'th chwantau, yn gyſtal ac ar dy eiriau a'th weithredoedd; ac i ymgadw nid yn unig rhag *gwneuthur* drŵg, ond hefyd oddiwrth bob *rhîth drygioni* (z), a thebygol achlyſſuron o hono; a hynny o blegid fod gennyt gydwybod o berffaith ſancteiddrwydd y Duw hwnnw yr wyt yn cyfrinachu ac ef, ac o *buredig* natur y *gobaith* hynny (a), a ddyſgodd ef i ti gynnwys trwy 'r efengyl.

§ 15. Ynghlyn â hyn oll, y mae y rhinwedd hardd honno, *cymmedroldeb*; yr hon ſy 'n dy ddyſgu i ymarfer bwydydd a diodydd yn y fath fodd, ac na bo 'r corph yn cael ei anhwylo at waſanaeth yr enaid; hi a'th ddŷſg i ochelyd y fath ymgais attynt, ac a ledratto 'th amſer gwerthfawr, neu a fo yn achlyſſur o *draul* uwchlaw 'r hyn ac allo 'th amgylchiadau ddioddef; uwchlaw 'r hyn fo 'n cydfyned a'r elusennau hynny i'r tylawd, ac y mae eu perthynas hwy a thitheu â Duw, ac â'u gilydd, yn eu gofyn. Ar ain, hi a'th ddŷſg i wilio yn erbyn pob rhyw beth ac ſydd a thueddiad ynddo i gynnyddu nwydau anianol; yn erbyn pob peth ac allo dorri cymmundeb dy enaid â Duw; ac a fo 'n lleihâu 'th ſywiogrwydd a'th ſêl yn ei waſanaeth.

§ 16. Fe fydd i ddwyfol philoſophyddiaeth y bendigedig Iesu ddyſgu i ti y *dymmer o faddlonrwydd* hefyd. Hi a gymmedrola 'th ddymuniadau ar of y

(y) Mic. vii. 9. (z) 1 Theſſ. v. 22. (a) Ioan iii. 3.

pethau bydol hynny, am ba rai y mae llawer yn profi 'r fath ſyched didor; yr hwn ſydd bob amſer yn myned ar gynnydd gydag eſmwythder a llwyddiant. Hi a bâr i ti wilio yn erbyn anghymmhedrol ofal am y pethau hynny, ac allo 'th dynnu i anghofio 'th etifeddiaeth nefol. Os bydd i ragluniaeth i'th ſiommi yn yr hyn a gymmerych yn llaw, ti a fyddi 'n foddlon i ymoſtwng; os bydd eraſſi yn ſwy llwyddianus, nis eiddigeddi wrthynt, ond ti a fyddi 'n hytrach yn ddiolchgar i Dduw, am yr hyn y mae 'n ei weled yn dda i gyfrannu *iddynt hwy*, yn gyſtal ac *i titheu*. Ni ddioddef hi i ti, ymarferyd unrhyw foddion anghyfreithlon, er mwyn newid dy amgylchiad preſennol; a pha beth bynnag yw, ti a ymdrechi wneuthur y gorau o hono, gan gofio, mai dyna 'r hyn y dreſnodd anfeidrol ddoethineb a daioni Duw i ti; a bod y cwbl yn angymmariaethol well nac yr haeddaiſt; ïe, fod yr anghyfleuſterau a'r diffygiadau perthynol i'th gyflwr, oll yn tueddu i ddwyn ymmlâen dy gyflawn a'th dragywyddol ddedwyddwch.

§ 17. Ac at foddlonrwydd, os wyt ddiſgybl i Griſt, ti a 'chwanegi *amynedd* hefyd; ac *mewn amynedd ti a feddiannu 'th enaid* (b). Gwîr yw, nis gelli lai na *theimlo* y drygau a'r cyſtuddiau 'th gyfarfyddo; etto fe fydd dy *feddwl* yn *dawel a llonydd danynt*; ac yn ddiyſgog yn y canlyniad o'th ddyledſwydd, er bod cyſtuddiau 'n gwaſgu, a'r hyn wyt yn obeithio fwyaf am danynt, yn cael ei hîr attal oddiwrthyt. Amynedd a'th attal i dynnu canlyniadau byrbwyll ac afreſymmol, ac a'th gadarnhâ di yn erbyn ymoſyniad am ryddhâd trwy foddion afreolaidd; gan dy dueddu yn y cyfamſer, i fyned ymmlâen yn ſefydlog yn ffordd dy ddyledſwydd, nes gwelo Duw 'n dda i ymddangos ar dy ran, ac i *orchymmyn dy hun idda gan wneuthur yn dda* (c). Ti a fyddi hefyd yn ofalus

(b) Luc xxi. 19. (c) 1 Pedr iv. 19.

ofalus am i *amynedd gael ei pherffeith waith* (d), ac i lwyddo yn gyfattebol i'r amgylchiadau hynny pa rai fy 'n galw am neillduol ymarferiad o honi. Mewn ffordd o fiampl, yr wyf yn dywedyd, pan fo cyfluddiau yn ddibaid yn dyfod arnat, o amrywiol natur a thros hîr amſer, fel y gallech gyda 'r prophwyd, ddywedyd, '*dyfnder a eilw ar ddyfnder, a holl donnau a llifeiriant Duw a aethant troſofi* (e);' pan fo Duw 'n cyffwrdd â thi yn y man mwyaf tyner; pan nas gallech mewn un modd ddeall ei ddiben yn ei ymddygiad yn llyn tuag attat; pan fo 'th yſprydoedd naturiol yn weinion ac yn fethiedig; pan fo rhyw ffordd anghyfreithlon o eſmwythâd yn ymddangos yn hawdd ac yn agos; er hyn oll, fe fydd parch i ewyllys dy Dâd nefol i'th ddwyn ymmlâen yn erbyn yr holl bethau hyn, ac i'th gadw mewn llonydd ddiſgwiliad am waredigaeth, yn ei *ffordd* a'i *amſer* ef.

Nodwch, *Os ymddengys y bennod hon yn rhy faith i'w darllain ar yr un amſer oll, bi all yn gymmwys gael ei rhannu yn y fan hon.*

§ 18. Mi a'th arweiniais i gael golwg fer ar y dymmer griſtianogol mewn perthynas i Dduw a'n hunain; gad i mi 'chwanegu dywedyd, fod yr efengyl yn dyſgu gwerſi pwyſfawr eraill, perthynol i'n *cyd-greaduriaid*. Ac y maent oll yn gynnwyſedig yn hyn, '*Câr dy gymmodog fel ti dy hun* (f); *a pha bêth bynnag* (ar gyfnewidiad amgylchiadau yn iawn a rheſymmol) *a ewllyſiech ti i ddynion* ei wneuthur i ti, felly gwnâ ditheu iddynt hwy (g).' Crefydd y bendigedig Iesu, pan yn arglwyddiaethu yn dy enaid, a orchfyga afreoledd lywodraeth *hunan-gariad*, ac a'th ddŷſg mewn modd hynawſedd a thyner, i edrych ar dy gymmydog fel *rhan o honot dy hunan*.

(d) Iago i. 4. (e) Salm xlii. 7. (f) Rhuf. xiii. 9. (g) Mat. vii. 12.

Ac fel yr wyt yn ſynnied ynghylch yr eiddot dy hun, yr wyt yn ſynnied am yr eiddo ynteu hefyd; ac fel yr wyt yn amddiffyn dy enw da dy hun, ti amddiffynni yr eiddo ynteu hefyd. Ti a ddymuni ei ddaioni ef, ac a fyddi barod i gyflawnu ei ddiffygiadau, fel y chwennychit i arall i wneud â thithau. Ti a roddi y farn fwyaf tyner ar ei eiriau a'i weithredoedd; ti a ymbleſeri yn ei happuſrwydd, ac a gyd-ymdeimli â'i ofid, mewn rhyw feſur fel pe bae dy ofid dy hun. A'th ddeddwyddwch pennaf fydd cael yr rheol hon yn hyſpys i'th feddwl, y gyfraith auredd hon wedi ei hargraffu ar dy galon; a gallel o honot yn reddfol a dibartiol ei hyſtyriaid a'i chanlyn ar bob rhyw achlyſſur, pa un bynnag ai mawr ai bychan.

§ 19. Yr efengyl a'th ddŷſg ym mhellach i *wiſgo am danat addfwynder* (h), nid yn unig tuag at Dduw, gan ymoſtwng i'w air ef, a threfniadau ei ragluniaeth, fel ac y dangoſwyd o'r blaen; ond hefyd tuag at dy *frodyr ymmŷſg dynol-ryw*. Ei thawel addyſgiadau a'th ffurfia i arafwch tymmer, dan niweidiau a chyffroadau; fel na bo i ti ddigio heb, neu uwchlaw *achos*. Hi a'th ddŷſg di i wilio ar dy eiriau, fel na bônt yn cyffroi ac yn digloni a ſawl a ddylit yn hytrach geiſio eu hynnill trwy gariad, a thrwy dynerwch eu hadferyd. Addfwynder a bâr i ti fod yn ddiog i ymarfer unrhyw foddion ſarryg a gerwyn, os gelli mewn un modd eu gochelyd; ac i fod yn barod i dderbyn, ïe i gynnyg cymmod, wedi eu harferyd, os bydd etto obaith o lwyddiant. Mor belled ac y bo i'r gangen hon o'r dymmer griſtianogol i lywodraethu 'th galon, ti ewyllyſi i ochelyd yn ofalus bob peth ac all fod yn dramgwydd i eraill heb achos; ti a ymddygi dy hun mewn modd gweddus yn ol dy ſefyllfa; a'r dymmer hon a weithreda yn addas tuag at uchel ac iſel râdd; hi a'th ddŷſg

(h) Col. iii. 12.

ddŷſg i iawn anrhydeddu 'r naill, ac i beidio trawſarglwyddiaethu ar, a gormeſu, gofidio, na dirmygu 'r lleil. Hi a attal bob rhyw ruthr anghymmhedrol, a ſennau creulon mewn Crefydd; hi dyn i lawr y *digofaint hynny o eidda dŷn*, yr hwn yn llê *gweithredu cyfiawnder Duw*, ſy'n aml yn ei wrthwynebu ef (i), ac ſy 'n glwyf ac yn gywilydd i'r achos da, ym mha un mae 'n gweithredu mewn modd cynddeiriog a therfyſglyd.

§ 20. Ynghyd a hyn oll, mae ynnot *dymmer heddychlon*. Os wyt wîr griſtion, ti edrychi ar heddwch yn beth mor werthfawr, fel y bydd i yn llafurio hyd ac y *mae ynnot* (k) am dano, ac i'r diben o'i gadw. Fe gaiff y dymmer hon y fath effaith ar dy fuchedd, fel y byddech nid yn unig yn ochelgar rhag *rhoddi* tramgwydd, ac yn anhawdd gennyt ei *gymmeryd*, ond yn wîr awyddus i adferu heddwch ar frys, pan ſo wedi ei dorri; i gael o'r clwyf ei hiachâu tra mae 'n îr, cyn iddo grawnu a phydru. Ac yn ſwy enwedigol ſe bâr y dymmer hon i ti gadw *undeb yr yſpryd yngh wlwm tangnefedd* (l), gyda *phawb*, ym mhob man, ac ſydd yn galw ar enw ein Harglwydd Ieſu Griſt (m); yr hwn, os wyt yn ei wîr garu, ti a geri yr rhai hynny oll ac y mae gennyt lê i gredu ſydd yn ddiſgyblion ac yn weiſion iddo.

§ 21. Os un o'r rhifedi hynny ydwyt ti, ti a ymdrechi hefyd i *wiſgo am danat ymyſgaroedd trugareddau* (n). Bendithion Duw a'r prynwr bendigedig, a weithredant ar dy galon, fel y bo yr egwyddorion o doſturi ac o haelder yn cael eu gweithredu ynddi, ac a baro i ti *deimlo* ciſiau a gofidiau rhai eraill; hyn a bâr i ti fod yn awyddus i geiſio cyflawnu eu diffygion, ac hyd ac y bo cyfleuſtra, ti a wnai ddaioni i'w cyrph a'u heneidiau;

(i) Iago i. 20. (k) Rhuf. xii. 18. (l) Eph. iv. 3.
(m) 2 Cor. i. 2. (n) Col. iii. 12.

diau; gan ddangos dy gymmwynaſol ſerchiadau, trwy 'r fath addas weithredoedd, ac a brofo eu diragrithrwydd, ac a'u gwnelo yn fuddiol.

§ 22. Hefyd fel criſtion, ti a gynnheli y *gwirionedd* yn ddihalog; nid yn unig pan fyddech ar dy lŵ, ond hefyd yn dy holl eiriau cyffredin. Ti a gofi hefyd fod dy addewidion yn dy ddwyn dan y fath rwymedigaethau, fel nad oes llê mewn un modd i dorri trwyddynt. Ar y cwbl ti a ymdrechi fod dy eiriau a'th weithredoedd yn cydfyned, fel y perthyn i waſanaethwr *Duw 'r gwirionedd.*

§ 23. Ym mhellach, ymmŷſg dy ofal manylaf i gadw gorchymmynion Duw, ti a fyddi 'n cael llawer o amherffeithrwydd; o herwydd pa beth, ti a fyddi dan rwymau i weddio na bo iddo *fyned â thi i farn*, gan dy fod yn gwybod yn dda, *na chyfiawnheir neb byw yn ei olwg ef* (o); ti a fyddi ofalus *rhag barnu eraill* yn y fath fodd, ac y bo i'w farn ef mewn modd creulon gael ei goſod i'th erbyn ditheu (p). Ni bydd i ti eu barnu yn *ymhyrrus*, hynny yw, pan na bo gennyt ddim i ddywedyd yn feius am eu gweithredoedd; nac yn *fyrbwyll*, heb edrych i amgylchiadau pethau; yn *bartiol*, heb bwyſo pethau 'n ddifrifol ac yn oneſt; nac yn *angharedig*, gan roddi 'r lliw gwaethaf ar bethau ac allo fod yn eu natur eu hunain yn amhëus; gan farnu bwriadau yn ddrwg uwchlaw 'r hyn y maent yn eglur ymddangos eu bod; gan farnu cyflwr dynion yn ol rhyw *un* weithred neillduol; ac wrth hynny 'n cymmyſgu 'r euog a'r diniwaid ynghŷd. Y mae *cymmhedrolder*, gwahanol i'r pethau hyn, yn cael ei dyſgu gan yr efengyl; ac os daw 'r efengyl i'th galon yn ei gallu, hi a rŷdd y fwyall at wraidd y fath ddrygau a'r rhain.

§ 24.

(o) Salm cxliii. 2. (p) Mat. vii. 1, 2.

§ 24. Wedi egluro 'n fyr y canghennau mwyaf neilldu-ol o'r dymmer griſtianogol, mi ddiweddaf y darluniad o honi, trwy ddwyn ar gôf i ti rai o'r cynnheddau cyffredin, ſydd raid i gymmyſgu â'r holl bethau hyn; ſef, *uniondeb, tynerwch, ſêl, a doethineb.*

§ 25. Cofia bob amſer, mai enaid gwîr Grefydd yw uniondeb, neu ddiragrithrwydd. Diben unigol i ryngu bodd Duw, ac i gael ein hunain yn gymmeradwy ger ei fron, a ddylai 'n cyffroi a'n llywodraethu ni yn y cwbl ac a wnelom ynddi. Dan ddylanwad yr egwyddor hon, ti a ymofynni 'n ddiduedd i bob rhyw ddyledſwydd, ac a ymroddi dy hun i'r cyflawniad o honynt, mor belled ac y caffech adnabyddiaeth arnynt. Fe fydd dy galon ar waith yn yr hyn oll y wnelech. Fe fydd dy ymddygiad yn y dirgel a'r tywyllwch yn cydfyned â'th rodiad mwyaf cyhoeddus. Teimlad o'r ddwyfol awdurdod a'th ddŷſg *i gyfrif orchymmynion Duw yn iawn am bob peth; ac i gaſhâu pob llwybr gau* (q).

§ 26. Fel hyn y bydd dy *ymddygiad yn y bŷd mewn purdeb duwiol a ſymlrwydd* (r). Rhaid i ti hefyd orchymmyn i'th enaid i fod yn ſicr, a diymmod, a helaeth yngwaith yr Arglwydd yn waſtadol (s). Rhaid fod dy ddefoſiwn a'th Grefydd, nid yn unig yn beth diſymmwth, ac ar amſerau, ond yn reddfol ac yn barhâus. Rhaid fod ynnot fwriad i rodio 'n grefyddol bob amſer. Rhaid i ti wneuthur Crefydd yn waith cyffredin a pharhaus. Rhaid i ti ochelyd pechodau bwriadol a rhyfygus; a chynnal gwiliadwriaeth yn erbyn gwendidau cyffredinol y bywyd hwn; rhaid fod ymoſtyngiad o flaen Duw yn gyfattebol i bob rhyw gwympiadau, a bwriad newydd i barhâu yn ei waſanaeth ef. Yn y modd hyn y mae 'n

(q) Salm cxix. 128. (r) 2 Cor. i, 12. (s) 1 Cor, xv. 58.

'n rhaid i ti fyned ymmlâen trwy dy holl fywyd, heb wangalonni o herwydd hŷd, nac anhawſtra 'r ffordd; heb gymmeryd dy ddenu ar y naill llaw na 'th ddychrynu ar y llaw arall, gan yr holl, a'r amrywiol demtaſiwnau ac allant dy gylchynu ac ymoſod arnat. Rhaid i'th enaid gael ei ſefydlu ar y ſylfaen hon, ac ymddwyn dy hunan, fel un yn gwybod ei fod yn gwaſanaethu anghyfnewidiol Dduw, ac fel un ac ſy 'n diſgwyl *derbyn* oddiwrtho *deyrnas ddiſigl* (t).

§ 27. Ym mhellach, yn ol y grâdd ac y bo i'r efengyl lywodraethu yn dy galon, fe fydd dy yſpryd yn dyner, a'r *garreg* i gael ei throi 'n *gnawd*. Fe fydd ynnot chwennychiad am gael iawn a chyflym amgyffred o ddwyfol bethau; dy ſerchiadau yn barod i dderbyn argraffiadau cymmwys; dy gydwybod bob amſer yn dyner; ac ar y cwbl, i gael dy fwriadau yn ddaroſtyngedig i'r ddwyfol awdurdod, ac i galonnog ewyllyſio bod ac i wneuthur, yr hyn a ſynno Duw. Fe fydd gennyt fawr barch i air Duw, a gwiliadwriaeth ddifrifol yn erbyn pechod; gwiliadwriaeth yn erbyn y maglau ſy 'n cydfyned â llwyddiant bydol; a thyner ymoſtyngiad i gerydd yr Arglwydd: Ar air, ti a fyddi 'n dyner ofalus am beth bynnag a berthyn i anrhydedd Duw; yn ofalus rhag gwneuthur dim dy hunan, ac rhag dioddef un peth mewn eraill ac a allech attal, ac a fyddo 'n tueddu i ddigio Duw, neu i ddirmygu yr efengyl.

§ 28. A mwy na hyn oll, mor belled ac y bo i griſtianogaeth lywodraethu dy feddwl, ti a fyddi 'n llawn o *ſêl ſanctaidd* yngwaſanaeth dy brynwr a'th nefol dâd. Ti a fyddi 'n *dwyn mawr ſêl mewn pob peth da* (u), yn ol fel yr ymddangoſo 'r peth yn ddaionus ac yn bwyſfawr. Tydi a fyddi 'n neilldnol ſêlws i ddiwigio 'r hyn ſydd afreolaidd ynnot

(b) Heb. xii. 28. (u) Gal. iv. 18.

ynnot dy hunan, ac i weithredu hyd eithaf dy allu yn achos Duw. Ac nid yw boſſibl i ti allel edrych gyda llygad diofal ar ymarweddiad eraill o'th amgylch yn yr hŷn a berthyn i dduwioldeb; ond mor belled ac y bo yn unol â chariad, addfwynder, a doethineb, ti amlygi 'th anfoddlonrwydd i bob peth ynddynt, ac fo 'n dianrhydeddu Duw, ac yn drygu dynion. A thi a ymdrechi, nid yn unig i ddiwygio dynion yn eu moeſau, ond hefyd eu dwyn at wîr Grefydd, a'u bywhâu yn yr ymarferiad o honi.

§ 29. Ac heblaw hyn, ti a chwennychi i ymarfer y *doethineb* y roddodd Duw i ti, i farnu pa beth yn dy amgylchiadau preſennol, yw 'th ddyledſwydd i Dduw, i'th gymmydog, a thuag attat dy hunan; pa fodd i gyflawnu 'th ddyledſwydd yn gymmeradwy ger bron Duw, ac yn y modd mwyaf buddiol i ti dy hun; gan gofio mae y dŷn mwyaf doeth a mwyaf dedwydd, yw 'r hwn, trwy gyſſon fyfyrdod ſy 'n cael allan y cyfleuſterau mwyaf i wneuthur daioni, a thrwy fwriad bywiog a gwreſog ſy 'n torri trwy bob gwrthwynebiadau, fel y bo iddo allel iawn ddefnyddio 'r cyfleuſterau hynny.

§ 30. Dyma 'r fath olwg ar y dymmer griſtianogol wedi ei roddi i ti, ac oedd yn boſſibl, o fewn terfynau y gwaith bychan hwn; ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn gynnorthwy i lawer yn y gwaith mawr o hunan-ymholiad. Gâd i'th gydwybod i atteb, pwy mor belled y cyrrhaeddaiſt at, ac yr wyt yn dymuno 'r cyfryw dymmer; a boed i'r pethau neillduol y ſonwyd yma am danynt, i gael eu ſefydlu yn dy gòf ac yn dy galon, fel y bo i ti eu crybwyll o flaen Duw yn dy weddiau wrth orſedd grâs o ddŷdd i ddŷdd, fel y derbyniech bob angenrheidiol gynnorthwyon er mwyn eu goſod mewn ymarferiad.

Gweddi

GWEDDI, *yn fwyaf neillduol yn iaith yr yſgrythur; ym mha uny mae amrywiol ganghennau 'r Dymmer griſtianogol yn cael eu hail-adrodd yn y drefn ac y goſodwyd hwynt i lawr uchod.*

'ARGLWYDD bendigedig, yr wyf yn dy 'addoli di mewn modd goſtyngedig, fel 'tâd y goleuni, a rhoddwr pob rhôdd dda a 'pherffaith (x). Oddiwrthyt ti gan hynny, yr 'wyf yn ymoſyn pob rhyw fendithion, yn enwe-'dig y rhai a'm dygant attat ti, ac a'm cymmhwy-'ſant i'th fwynhâu 'n dragywyddol. O Dduw, 'yr wyf yn ymoſtwng ger dy fron, fel yr hwn 'ſy 'n *chwilio calonnau ac yn profi arennau plant* 'dynion (y). *Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy* 'nghalon; *prawf fi a gwybydd fy meddyliau: Gwel* 'a oes ffordd annuwiol gennyf, a thywys fi yn y 'ffordd dragywyddol (z). Rhô i mi wybod o ba 'yſpryd yr ydwyf (a), ac i gael fy nghadw rhag 'camſynniaid, yn yr hyn y bo cyfeiliornad yn-'ddo yn ddiſtryw tragywyddol! Boed i mi, O 'Dduw, i gael fy *adnewyddu yn yſpryd fy meddwl* (b)! 'Rhô i mi *galon*, ac *yſpryd newydd* (c)! Gwnâ 'fi yn gyfrannog o'r *ddwyfol anian* (d); ac me-'gis y mae 'r *hwn a'm galwodd i 'n* ſanctaidd, 'gwnâ finnau 'n *ſanctaidd ym mhob ymarweddiad* '(e). Boed ynnof yr un meddwl ac oedd hefyd 'yn Ghriſt Ieſu (f); boed i mi allel rhodio me-'gis y rhodiodd ynte (g)! Gwared fi rhag ſyn-'niaid yn gnawdol, yr hyn ſy 'n farwolaeth, a 'gwnâ i mi ſynniaid yn yſprydol, gan fod hynny 'yn fywyd ac yn dangnefedd (h)! A boed i mi allel

(x) Iago i. 1. (y) Jer. xvii. 10. (z) Salm cxxxix. 23. 24.
(a) Luc ix. 55. (b) Eph. iv. 23. (c) Ezec. xxxvi. 26.
(d) 2 Pedr i. 4. (e) 1 Pedr i. 15. (f) Phil. ii. 5.
(g) 1 Ioan ii. 6. (h) Rhuf. viii. 6.

'allel (tra bwyf yn rhodio 'r bŷd gweledig hwn) 'rhodio wrth ffŷdd ac nid wrth olwg (i); i mi gael 'fy nerthu yn y ffŷdd gan roddi gogoniant i Dduw '(k)!

'Boed i'th râs, yr hwn a ymddangoſodd i bob 'dŷn, yr hwn a ymddangoſodd *i mi* gyda 'r fath 'dyſtiolaeth ac eglurdeb, yn effeithiol i'm dyſgu 'i ymwadu ac annuwioldeb a chwantau bydol, ac i 'fyw yn ſobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol (l)! 'Gweithreda yn fy nghalon y duwioldeb hynny 'ac ſy 'n fuddiol i bob peth (m); a dŷſg i mi 'trwy ddylanwadau 'th yſpryd bendigedig, dy ga-'ru di, yr Arglwydd fy Nuw, â'm holl galon, 'â'm holl enaid, â'm holl feddwl, ac â'm holl 'nerth (n)! Nertha fi i roddi fy hunan i ti 'megis o farw 'n fyw (o); i roddi fy nghorph 'yn aberth byw, ſanctaidd a chymmeradwy yn 'dy olwg di, yr hyn yw fy rheſymmol waſanaeth '(p)! Boed i ſerchiadol, a ffyddlon barchu y 'bendigedig Ieſu, *Ieſu*, dy anwyl Fâb, yr hwn a 'wiſgodd gnawd, *diſgleirdeb dy ogoniant a gwîr 'lûn dy berſon* (q)! Ac er nas gwelais, boed i mi 'allel ei garu ef; yn yr hwn, *heb fod yr awr 'hon yn ei weled, ond yn credu, boed i mi allel 'llawenhâu â llawenydd annhraethadwy a gogon-'eddus* (r): A boed i mi allel byw bob dŷdd 'yn y cnawd trwy ffŷdd Mâb Duw (s)! Llanw 'fi â'th yſbryd (t); a boed iddo 'm harwain (u); 'a gwna 'n eglur, yn enwedig i'm henaid fy hun, 'fy mod yn blentyn Duw, ac yn etifaidd y go-'goniant! Rhô i mi nid yn unig i dderbyn 'yſpryd caethiwaid i beri ofn, ond yſpryd mab-'wyſiad, i'm galluogi *i lefain Abba Dâd* (x)! Boed iddo

(i) 2 Cor. v. 7. (k) Rhuf. iv. 20. (l) Tit. ii. 11. 12.
(m) 1 Tim. iv. 8. (n) Marc xii. 30. (o) Rhuf. vi. 13.
(p) Rhuf. xii. 1. (q) Heb. i. 3. (r) 1 Pedr i. 8.
(s) Gal. ii. 20. (t) Eph. v. 18. (u) Rhuf. viii. 14.
(x) Rhuf. viii. 15.

'iddo weithredu ynnof fel yſpryd nerth, cariad, 'a phwyll (y); fel y chwanegwyf at fy ffydd rin- 'wedd (z)! Boed i mi allel ymgryfhâu ac ym- 'wroli yn lew (a), fel dŷn (b), ac fel criſtion, 'yn y gwaith i ba un i'm galwech, ac yn y 'filwriaeth ac oedd gennyf mewn golwg pan ym- 'liſtiais dan *faner cadpen mawr ſy iechydwriaeth.* 'Dŷſg i mi, O Arglwydd, yn ddifrifol i yſtyriaid 'natur a gwerth fy enaid! Ac na âd i mi lafu- 'rio yn unig ac yn bennaf am y bwyd a dderfydd, 'eithr am y bwyd a beri i fywyd tragywyddol (c). 'Boed i mi ymoſtwng fy hun dan dy alluog 'law, i gael fy ngwiſgo â goſtyngeiddrwydd (d); 'ac i gael fy harddu ac yſpryd addfwyn a llo- 'nydd, *yr hwn ſydd ger bron Duw 'n werthfawr* '(e)! Rhô i mi fod yn bur o galon, fel y gall- 'wyf weled Duw (f); nertha fi i farweiddio fy 'aelodau, y rhai ſydd ar y ddaiar (g), fel os 'bydd i lygad deheu neu law ddeheu i'm rhwy- 'ſtro, y gallwyf i dynnu 'r naill, a thorri 'r llall 'ymaith (h)! Boed i mi allel ymgadw ym mhob 'peth (i), gan ddyſgu bod yn foddlon i'r hyn 'ſydd gennyf (k), a hynny ym mha gyflwr bynnag y 'byddwyf (l)! Caffed amynedd ei pherffaith waith 'ynnof, fel y bwyf berffaith a chyfan, heb ddiff- 'ygio mewn dim (m).

'FFURFIA fi, O Arglwydd, yr wyf yn attolwg, i 'iawn dymmer tuag at fy nghŷd-greaduriaid! Boed 'i mi garu fy nghymmydog fel fi fy hun (n); a 'gwneuthur i ddynion yr hyn a ewyllyſiwn wneuthur 'o honynt i minneu (o). Boed i mi allel *gwiſga*

'*add-*

(y) 2 Tim. i. 7. (z) 2 Pedr i. 5. (a) Joſua i. 7.
(b) 1 Cor. xvi. 13. (c) Ioan vi. 27. (d) 1 Pedr v. 5, 6.
(e) 1 Pedr iii. 4. (f) Mat. v. 8. (g) Col. iii. 5.
(h) Mat. v. 29, 30. (i) 1 Cor. ix. 25. (k) Heb. xiii. 5.
(l) Phil. iv. 11. (m) Iago i. 4. (n) Gal. v. 14. (o) Mat vii. 12.

'*addfwynder ac hîrymaros*, ymmŷſg y drygau a'r 'profedigaethau mwyaf (p); *ac os yw boſſibl hyd y* 'bo ynnof fi, *i fyw yn heddychlawn â phob dŷn* (q). 'Nertha fi i fod yn *drugarog megis y mae fy nhâd yr* 'hwn ſydd yn y nefoedd yn drugarog (r). Boed i mi 'allel dywedyd y gwîr o'r *galon* (s), ac mewn '*cariad* (t); gan wilio yn erbyn pob rhyw dymmer 'ddrwg ac enllibus; gan ofalu i beidio a *barnu* yn 'greulon, rhag fy *marnu innau* trwy greulondeb 'annioddefol (u).

'O Arglwydd, yr wyf yn attolwg arnat i 'weithredu ynnof yr holl gynnheddfau perthynol 'i'r dymmer griſtianogol, yr rhai a'i gwnânt hi yn 'gymmeradwy yn dy olwg di, ac yn harddwch i'm 'proffes inneu yn y bŷd. Adnewydda yſpryd un-'iawn o'm mewn (x); a gwnâ fi yn *Iſraeliad* yn 'wîr, heb unrhyw dwyll *gwirfodd* (y)! A thra 'byddwyf yn gwledda ar Griſt fel fy *mhaſc* a aber-'thwyd droſof, boed i mi allel cadw 'r wŷl gyda 'bara croyw o burdeb a gwirionedd (z). O Dduw, 'yr hwn wyt yn hollalluog ac yn anghyfnewidiol, yr 'wyf yn attolygu arnat, gwnâ fi 'n ſicr a diymmod, 'ac yn helaeth yn dy waith yn waſtadol, *fel un yn* 'gwybod na bydd fy llafur i yn ofer yn y diwedd (a)! 'Boed fy nghalon yn dyner fel y byddo 'th air a'th 'ragluniaeth gael argraff arni; boed ynddi (dan 'weithrediad dy yſpryd) wîr ofal i'th ogoneddu di! 'Boed ynnof ſêl dros fy Nuw (b), a hynny *yn ol* 'gwybodaeth (c) a *chariad* (d); dŷſg i mi yn dy 'waſanaeth i uno *doethineb y ſarph* â *gwroldeb y llew*, 'ynghyd â *diniweidrwydd y golommen* (e). Gwnâ

'fi trwy

(p) Col. iii. 12. (q) Rhuf. xii. 18. (r) Luc vi. 36.
(s) Salm xv. 2. (t) Eph. iv. 15. (u) Mat. vii. 1.
(x) Salm li. 10. (y) Ioan i. 47. (z) 1 Cor. v. 7, 8.
(a) 1 Cor. xv. 58. (b) Num. xxv. 13. (c) Rhuf. x. 2.
(d) 1 Cor. xvi. 14. (e) Mat. x. 16.

'fi trwy 'th râs yn ddiſglair ddelw o'm gwaredwr; a 'dŵg fi yn y diwedd, i wiſgo hardd gyffelybrwydd 'o'i ſancteiddrwydd a'i ogoniant, yn y bŷd llê mae 'efe yn preſwylio; fel y gallwyf roddi anrhydedd 'tragywyddol iddo *ef* ac i ti, O *Dâd y trugareddau*, 'gwerthfawr *rhôdd* pa un yw efe, ac i'th *yſpryd* ſanct-'aidd, trwy ddylanwadau graſol pa un yr wyf yn 'goſtyngedig obeithio y gallaf dy alw di FY NHAD, 'a 'r IESU FY IACHAWDWR! Amen.'

PENNOD XV.

Y darllenydd yn cael ei alw i yſtyriaid yr angenrheidrwydd o gynnorthwyon YSPRYD DUW *i'w ffurfio i'r dymmer uchod; a pha annogaeth ſydd iddo i obeithio am danynt.*

§ 1. ODDARLLENYDD, mi a roddais i ti yn awr ddarluniad o'r dymmer ac y mae 'r efengyl yn ei gofyn; yr hon (os wyt gywir griſtion) wyt yn hiraethu am ei chael, ac yn ymofyn am dani. Sicr yw, fod rhywbeth hyd yn oed yn yr *olwg* arni yn effeithio pob meddwl ac ſydd â blâs ar bethau hardd a rhagorol. Ac nid wyf yn ammau na bydd i tithau, fy anwyl ddarllenydd, deimlo rhywfaint o'i hargraffiad ar dy galon. Iê ti fyddi yn bywiog fwriadu o boſſibl ymofyn am dani yn ddiattreg; gan feddwl ei chael yn fuan. Yr wyt yn gweled y rheſymmoldeb o honi, a'r canlyniadau dymunol ſy 'n cyd-fyned â hi, perthynol i'th ddedwyddwch amſerol a thragywyddol; ac am hynny yr ydwyt yn bwriadu gweithredu yn unol â hi. Êr hynny, dioddef i mi mewn modd difrifol i adgoffa i ti yr rhai na bu eu *mhwynder ond fel gwlith boreuol*, yr

yr hwn ſy 'n *fuan yn ymadael* (a). Nis gallaf gymmhwyſo geiriau *Joſua*, a dywedyd wrthyt, *nis gelli waſanaethu yr Arglwydd* (b). Er hynny mi fentraf ddywedyd nas gelli yn *hawdd* ei wneuthur. Och! nis gwyddaiſt pa anhawſderau a themtaſiwnau o eiddo *Satan* a raid i ti dorri trwyddynt yn dy ffordd; nis gwyddaiſt pwy mor daer y gall dy gyſeillion pechadurus fod, yn ceiſio 'th dynnu yn ol i'r fagl a fyddech yn geiſio dorri; ac yn bennaf oll, nis gwyddaiſt pa mor ddichellgar y gweithreda dy lygredigaethau ynnot, i'r diben o arglwyddiaethu arnat. Ti a elli feddwl yn awr y bydd y golygiadau hyn i barhâu, gan fod yr egwyddorion a'r gwrthrychau i ba rai y perthynant yr un byth: Ond fe allai y bydd i'r dŷdd y *foru* i'th ddidwyllo, neu yn hytrach i'th *dwyllo* yn hyn o newydd; a hynny trwy oſod ger dy fron ryw beth diſtadl mewn *newydd-wiſg*, ac allo 'th arwain ymaith i angof o hyn oll. Iê cyn gorwedd o honot ar dy wely heno, fe all yr argraffiadau wyt yn awr yn deimlo, wiſgo ymaith. Fe all fod dymuniadau llygredig dy galon wedi eu denu yn awr i ychydig o ddiſtawrwydd, ac yn ymddangos megis yn feirw; er hynny mae 'n boſſibl y codant mewn modd ffyrnig o newydd, fel pe buaſent yn cyſgu yn unig i'r diben o adnewyddu eu grym: Ac os na fydd i ti gael dy gynnal trwy ryw allu heblaw 'th eiddo dy hun, ni wna 'r ymgais hyn am rydddid, ond peri i'th gadwynau fod yn fwy cywilyddus, trymion, a dinyſtriol rhagllâw.

§ 2. Pa beth a wnair gan hynny? A raid i'r pechadur a argyhoeddwyd orwedd i lawr dan anobaith? A dywedyd, 'Yr wyf fi yn garcharor anallnog, ac os ceiſiaf ymdrechu i ryddhâu fy hun trwy *drais*, mi allaf dorri fy aelodau yn gynt na fy rhwymau, ac felly, cynnyddu 'r drwg a chwennychwn ei ſymmud.' *Na atto Duw!* Nis gall dy adnabyddiaeth

(a) Hoſ. vi. 4. (b) Joſ. xxiv. 19.

ddiaeth o griſtianogaeth fod mor lleied, yr wyf yn credu, ſel nas gwyddaſt i fod yr athrawiaeth o *ddwyfol gynnorthwyon*, yn rhan fawr o honi. Nid wyf yn ammau nas darllenaiſt yn fynych am *ddeddf yſpryd y bywyd yn Ghriſt Ieſu, yn rhyddhâu oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth* (c); ac ſe ddywedwyd i ti, mai trwy yr *yſpryd* yr ydym yn *marweiddio gweithredoedd y corph* (d): Ti a glywaiſt fod *Paul* yn *gallel gwneuthur pob peth trwy Griſt* (e), *grâs* pa un ſy 'n *ddigonol*, a'i *nerth a berffeithir mewn gwendid* (f): Canniattâ i mi i'th alw i yſtyriaid hyn, ſel y gwirionedd mwyaf eglur, a mwya ei bwys.

§ 3. Mae Rheswm yn gyſtal a'r holl Yscrythur yn cyttuno â hyn. Mae 'r holl greadigaeth yn ymddibynnu ar Dduw o angenrheidrwydd: Oddiwrtho ef y mae *gwybodaeth* o bethau naturiol (g), a'n *cywreinrwydd* ynddynt ſydd o hono ef (h). Pa faint mwy y mae y mawr a'r rhagorol *waith o adnewyddu enaid*, yn goſod allan ei ddwyfol awdwr. Pan yr yſtyriech pwy mor amrywiol yw canghennau 'r dymmer griſtianogol, a pha mor wrthwynebol yw llawer o honynt i'r dymmer ac oedd yn llywodraethu dy galon a'th fywyd gynt; rhaid i ti weled fod *dwyfol dylanwadau* mor angenrheidiol i'w crëu a'u cynnyddu, ac yw effeithiau 'r haul a'r gwlaw, i beri i'r amrywiol blanhigion a blodau, yr ydau a'r ffrwythau i darddu a thyfu, pa rai ſydd yn gwiſgo 'r ddaiar â harddwch, ac yn cynnal bywyd dŷn ac anifail. Hyn a ymddengys etto yn fwy amlwg, pan yr yſtyriech y mawr *wrthwynebiad* ſydd i'r gwaith hwn, am yr hyn beth y ſoniaf yn fwy helaeth yn ol hyn; ac os na theimlaiſt hyn yn barod, yr achos yw, am nad oes fawr er pan ddechreuaiſt i feddwl am Grefydd.

§ 4. Gan hynny, os gwnai di yr *yſgrythur* yn

ŵr

(c) Rhuf. viii. 2. (d) Rhuf. viii. 13. (e) Phil. iv. 13.
(f) 2 Cor. xi. 9. (g) Salm xciv. 10. (h) Eccſod. xxxix. 3—6.

ŵr o'th gyngor ar y pen hwn (gan fyw fel criſtion, rhaid i ti ei chwilio bob dŷdd, a ffurfio 'th feddyliau a'th weithredoedd yn ei hol;) ti gai weled ei bod trwyddi oll yn dyſgu y fath ymddibynniad ar Dduw, ac wyf fi yma yn oſod ger dy fron. Ti gai weled yn neillduol, fod ymdaniad Crefydd yn yr enaid yn fatter o ddwyfol addewid; fod dechreuad a chynnyddiad grâs a duwioldeb yn y galon, yn cael eu goſod allan fel gwaith Duw, yr hwn ſydd yn *dechreu* ac yn *dwyn ymmlâen hyd ddŷdd Criſt* (i).

§ 5. MEWN canlyniad i hyn, rhaid i ti oſod yr egwyddor hôn i lawr fel peth ſicr, ſef, nad oes dim mewn Crefydd i gael ei gynnyg yn dy nerth dy hunan. Os bydd i ti un amſer anghofio hyn, a Duw yn bwriadu i'th achub, fe a'th ddaroſtwng trwy aml ſiommedigaethau, hyd oni ddyſgech hyn yn well. Ti gai achos i gywilyddio am y bwriad hyn ac arall, hyd oni bo i ti ſefydlu ar yr iawn a'r wîr ſylfaen. Fe fydd iddo, nid yn unig ddangos i ti yn gyffredinol fod dy nerth o'r nefoedd; ond yn neillduol, mai gwaith yr Yſpryd bendigedig yw puro 'r galon a chryfhâu bwriadau ſanctaidd; a'i fod yn ei holl weithrediadau i'w yſtyriaid fel *yſpryd Criſt*; yn gweithio yn ol ei gyfrwyddiadau ef, ac fel bywiol gyfranniad, oddiwrtho ef, fel PEN yr EGLWYS, tryſorwr mawr, a chyfrannwr y dylanwadau ſanctaidd a rhinweddol hyn. Am hynny y gelwir hwynt *cynnorthwy yſpryd Ieſu Criſt* (k), yr hwn a *ddyrchafodd deheu-law Duw Dâd, i fod yn dywyſog* ac yn *iachawdwr, i roddi edifeirwch i Iſrael, a maddeuant pechodau* (l); ac yn ei râs ef yn unig y rhaid i ni ymnerthu (m), o *gyflawnder* pa un yr ŷm yn *derbyn grâs am râs* (n).

I § 6.

(i) Phil. i. 6. (k) Phil. i. 19. (l) Actau v. 31.
(m) 2 Tim. ii. 1. (n) Ioan i. 16.

§ 6. Bod i ti gan hynny fwriadu yn lew, i wasanaethu Duw, ac i ofalu am dy enaid; etto mewn modd gostyngedig a diymffrost: *Canys yr ieuengctid a ddiffygia ac a flina, a'r gwŷr ieuainge gan syrthio a syrthiant; ond y rhai a obeithiant yn yr* Arglwydd yw 'r bobl *a adnewyddant eu nherth* (o). Pan y mae 'r enaid braidd (trwy olwg ar ei wendid) yn *ofni dywedyd* o flaen yr Arglwydd y gadawiff y pechodau trwy yr rhai a digiodd efe ef gynt; y cyflawniff y dyledswyddau a esgeulusodd, yn barhaus ac yn sywiog; pan y mae yn methu dim amgen na thywallt ei ddymuniadau gostyngedig a gwresog am Râs i'w nerthu i adael y naill ac i gyflawnu 'r lleill; mor belled ac y sylwais ac y profais i, dyna 'r prŷd y gellir dywedyd ei fod ar y *ffordd* i orchfygu temtasiwnau, ac i gyflawnu dyledswyddau.

§ 7. Ond ar y llaw arall, na fydded i deimlad o'th ymddibynniad ar Yspryd Duw, ac o'th anallu i gyflawnu unrhyw beth da ysprydol hebddo ef, i'th wangalonni, yn dy waith yn ymroddi i Dduw a Chrefydd; ond ystyria y sail sydd gennyt i obeithio y bydd ei gynnorthwyon i gael eu cyfrannu i ti yn ol dy eisiau. — *Goleuni natur*, tra mae yn dysgu i ni yr angenrheidrwydd o gael nerth oddiwrth Dduw, yn yr yrfa o rinwedd, a ddengys hefyd, y bydd i'r Bôd daionus ac sy 'n cyfrannu cynnifer o fendithion i'r rhan waethaf a mwyaf anheilwng ac anystyriol o ddynol-ryw, gymmeryd pleser i gyfrannu y cynnorthwyon grasol hynny i'r sawl ac sydd yn eu gofyn yn ostyngedig, er mwyn ffurfio eu hanfarwol eneidiau i'w ddelw, a'u cymmhwyso i fwynhâu 'r dedwyddwch hynny, ac y mae eu nhatur resymmol yn eu gwneuthur yn gymmwys iddo. — Gair Duw sydd mewn modd mwy neillduol yn cadarnhâu 'r gobaith hwn. Yno ni a glywn *ddwyfol ddoethineb* yn gweiddi ar yr rhai a hîr ddiystyrasent

(o) Esay xl. 30, 31.

tyraſent ei haddyſgiadau, gan ddywedyd, *Dychwelwch wrth fy ngherydd, ac mi a dywallta'f fy Yſpryd i chwi* (p). Ti a glywi 'r apoſtol yn dywedyd, *Awn yn hyderus at orſedd-fainc y grâs, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom râs yngymmorth cyfamſerol* (q). Iê yno ti a glywi ein *Harglwydd ei hun* yn ymreſymmu 'n felus ac yn gadarn, gan ddywedyd, *Os chwy-chwi gan hynny, y rhai ydych ddrŵg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant chwi; pa faint muy y rhŷdd eich Tâd o'r nêf yr Yſpryd Glân i'r rhai a ofynno ganddo* (r)? Y rhôdd, a'r addewid o'r Yſpryd, a roddwyd i Griſt pan gyfododd ef oddiwrth y meirw, fel pencyfammodwr ei holl wîr ddiſgyblion. A Duw a'i *tywalltodd ef arnom ni yn helaeth trwy Ieſu Griſt ein hiachawdwr* (s). A mi a allaf ychwanegu a dywedyd, fod y dymuniadau ſydd ynnot am fwy o'i gyfranniadau yn tarddu oddi ar y blaen ffrwyth a dderbyniaiſt yn barod: Am hynny ti a elli edrych arnynt yn *chwad* arnat, i *agor dy ſafn fel y bo i Dduw ei llanw* (t). Yr ydwyt yn ſychedu, ac am hynny ti a elli yn gyſſurus bledio fod *Ieſu wedi 'th wawdd atto ef i yfed*; gan addo, nid yn unig i ti gael yfed, ôs deuit atto ef, ond hefyd, y *bydd i afonydd o ddwfr bywiol i ddyliſo o'th grôth di*, er mwyn diſychedu eraill (u). Dôs ymmlâen gan hynny 'n llawen, i gyflawnu dyledſwyddau 'r fuchedd griſtianogol. *Dôs a llwydda yngbadernid yr Arglwydd*, gan gofio ei gyfiawnder ef yn unig (x). Ac fel arwydd o fwy o gyfranniadau, boed yn dy galon ddymuniadau gwreſog am fwynhâu 'r bendithion y ſum yn dy annog i ymofyn ar eu hol! Rhodded Duw i'th enaid i anadlu 'n ſanctaidd tuag atto, a thywallt ei hun o'i flaen bob dydd, yn y modd canlynol.

(p) Diar. i. 23. (q) Heb. iv. 16. (r) Luc xi. 13. (s) Tit. iii. 6. (t) Salm xxxi. 10. (u) Ioan vii. 37, 38. (x) Salm lxxi. 16.

GWEDDI *oſtyngedig am* DDWYFOL RAS, *i adnewyddu 'r enaid, a'i galluogi mewn Crefydd.*

'ODDUW bendigedig! Yr wyf yn gwîr 'gyfaddef ger dy fron di fy ngwendid a'm 'hanallu i gyflawnu un peth da yn yſprydol. Yr 'wyf wedi profi hyn fîl o weithiau; etto y mae fy 'nghalon ffôl yn rhy barod i *ymddiriaid ynddi a* 'hun (y), gan fwriadu pethau yn ei nerth ei hun. 'Am hynny boed hyn yn flaen-ffrwyth dy raſol 'weithrediad arni, ſef ei dwyn i oſtyngedig anobei'thio ynddi ei hun, ac i ymorphwys ynnot ti! Yr 'wyf yn mawr lawenhâu, O Arglwydd, yn y 'ſicrwydd a roddaiſt i mi o'th *barodrwydd* i gyfran'nu y fath ragorfraint. Yr wyf gan hynny, yn ol 'dy raſol alwad, yn *dyfod yn hyderus at orſeddfainc* 'y grâs, *fel y caffwyf râs yn gymmorth cyfamſerol* (z). 'Nid wyf, O Arglwydd Dduw, yn chwennych 'troi 'th râs i drythyllwch (a), nac i wneuthur fy 'anallu yn eſgus dros fy eſgeuluſtra a'm diogi. Yr 'wyf yn cyfaddef i ti roddi i mi yn barod, fwy o 'nerth nac y ddefnyddiais i; ac yr wyf yn beio 'arnaf fy hun, ac nid arnat ti, na buaſwn cyn hyn 'derbyn mwy helaeth cynnorthwyon. Yr wyf yn 'dymuno am yr hyn ſy 'n ol, i rodio yn yr ymar'feriad o bob rhyw foddion appwyntiedig; yn yr 'eſgeuluſtra o ba rai, nid yw 'r fath erfyniadau a'r 'rhain ond *difrifol wawdiaeth*, ac yn tueddu i'th 'annog i gymmeryd ymaith yr hyn ſydd gennyf, 'yn hytrach na llwyddo ger dy fron am ychwaneg. 'Ond gan fwriadu ymdrechu hyd yr eithaf, yr 'wyf yn difrifol ddymuno cyfranniadau 'th râs, 'fel y byddo i mi allel cyflawnu y bwriad hwn.

'MECHNIA *dros dy wâs er daioni*, O Arglwydd '(b)! Tan ar llêd dy ſanctaidd ddylanwadau yn fy 'enaid, fel y gallwyf gyflawnu pob dyledſwydd 'ac

(y) Diar. xxviii. 26. (z) Heb. iv. 16. (a) Judas 4. (b) Salm cxix. 112.

'ac wyt yn ofyn oddiwrthyf! Planna bob grâs a 'rhinwedd yn ddwfn ynnof; a chynnal y dymmer 'happus hon, ynghanol pob rhyw wrthwyneb[illegible]u, 'oddifewn ac oddiallan, i ba rai yr wyf yn waſ-'tadol yn agored, tra yn y byd hwn, a thra bwyf 'yn dwyn o'm hamgylch gynnifer o wendidau. 'Yr wyf yn attolygu arnat i lanw fy nghalon o 'ſerchiadau da tuag attat ti fy Nuw, a thuag at fy 'nghŷd-greaduriaid! Rhô i mi allel cofio fy mod 'bob amſer yn dy breſennoldeb di, ac i'th fod yn 'gweled pob meddwl yn fy enaid! A boed i mi 'gan hynny, allel gwilio y[illegible]rbyn *blaen-darddiad* 'pechod yn fy nghalon. Ac ïe! na chaffo *Satan* lê 'i'm llenwi â drŵg feddyliau, [illegible]wyf yn dymuno 'ar i ti, O Arglwydd, lanw fy nghalon â'th '*Yſpryd ſanctaidd*, a gwnâ dy drigfan ynddi! *Aros*, 'a rhodia ynnof (c); a boed fy *nghorph yn demel i'r* '*Yſpryd glân!*

'Bydded fy enaid wedi ei uno yn y fath fodd 'â Ieſu Ghriſt fy Arglwydd, fel y byddwyf o'r 'un *yſpryd* ac ef (e); a boed i mi deimlo ei fywiol 'ddylanwadau yn waſtadol yn fy nwyn ymmlâen, 'ac yn fy ngwneuthur yn goncwerwr ar bob tem-'taſiwn a llygredigaeth! Fel tra bo 'r *ieuengctid* 'yn diffygio, a'r *gwŷr ieuainge yn ſyrthio*, y gallwyf 'fi trwy *ddiſgwyl wrth yr Arglwydd adnewyddu* '*'m nerth* (f); a myned yn y blaen o râdd i râdd 'mewn ffŷdd, a chariad, ſêl a ſancteiddrwydd, hyd 'oni ymddangoſwyf yn *berffaith ger dy fron yn* '*Sion* (g), i yfed oddiwrthyt ti lawenydd [illegible] 'yr hwn wyt ffynnon dragywyddol o bob [illegible] 'trwy Ieſu Ghriſt fy Arglwydd, yn yr hwn [illegible] 'i mi *gyfiawnder a nerth* (h); i'r hwn yr wyf yn 'dymuno roddi dros byth, y clôd am fy nghyn-'nydd yn y naill a'r llall! Amen.'

(c) 2 Cor. vi. 16. (d) 1 Cor. vi. 19. (e) 1 Cor. vi. 17.
(f) Eſay xl. 30, 31. (g) Salm lxxxiv. 7. (h) Eſay xlv. 24.

PENNOD XVI.

Y CRISTION *yn cael ei rybyddio ynghylch, a'i galonnogi yn erbyn, y rhwyſtrau pa rai ſydd raid iddo ddiſgwyl gyfarfod â hwynt yn ei yrfa Grefyddol.*

§ 1. YMAE ein Harglwydd gyda 'r addaſrwydd mwyaf yn gorchymmyn i ni *ymdrechu i fyned i mewn trwy 'r porth cyfyng* (a); a thrwy hynny yn dangos, nid yn unig fod y ffordd yn gyfyng, ond hefyd wedi ei hamgylchu â gelynion cryfion a chyfrwys, ar bob llaw. A bydd ficr, O ddarllenydd, beth bynnag yw 'th ſefyllfa mewn bywyd, y bydd yn rhaid i ti gyfarfod, ac orfod ymdrechu â hwynt. Doethineb gan hynny, yw i ti roddi golwg neillduol arnynt yn dy fyfyrdodau, fel y gwypech y pethau ſydd i'th gyfarfod; ac i yſtyriaid pa ryw arfogaeth a raid fod am danat er mwyn ynnill y fuddugoliaeth. Ti a glywaiſt am danynt yn fynych megis dan dywyſiad y tri gelynion, y BYD, y CNAWD, a DIAFOL; ac mi ddymunwn i'th alw i yſtyriaid gallu y naill a'r llall fel y maent yn ymoſod i'th erbyn. O na bae i ti gael dy gyffroi i *gymmeryd attat holl arfogaeth Duw* (b), ac i ymwroli fel dŷn(c), ac fel criſtion!

§ 2. BOED i'th gydwybod atteb, onid ydwyt yn dwyn o'th amgylch natur *lygredig a dirywiedig?* Nid wyf yn ammau nad ydwyt yn teimlo ei heffeithiau hi. Yr wyt yn teimlo (fel y dywaid yr apoſtol yn ol iaith y criſtianogion eu hunain) y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr yſpryd, a'r yſpryd yn erbyn y cnawd, fel nas gelli bob amſer wneuthur yr hyn wyt yn ewyllyſio (d). Ti a ddygaiſt dueddiadau pechadurus gyda thi i'r byd; a thi a'u porthaiſt hwynt yn y fath fodd, fel ac y mae

(a) Luc xiii. 23. (b) Eph. vi. 13. (c) 1 Cor. vi. 13. (d) Gal. v. 17.

y mae eu grym wedi cynnyddu yn fawr; ac yn y canlyniad, ti gai weled nad oes torri trwy 'r *greddfau* rhain beb lawer o anhawſdra. Diammau y bydd i ti fynych gofio y modd y mae 'r *prophwyd* yn darlunio cyflwr ſydd yn debyg i'th gyflwr di; ie ei fod ef yn dywedyd yn gymmwys pan y mae 'n gofyn, *A newid yr Ethiopia ei groen, neu 'r llewpart ei frychni* (e)? Y mae 'n boſſibl i ti brofi 'r fath *awch* yn dy yſpryd, ac allo beri i ti dybiaid, y gorfydd i bob rhyw wrthwynebiadau gwympo o'th flaen yn ddiattreg. Ond yr wyf yn ofni y bydd i'r gelynion ac ſydd yn awr fel yn feirwon wrth dy draed, i adfywio, i gymmeryd eu harfau, ac i ymgyrch i'th erbyn mewn rhyw fodd neu gilydd. Ac fe ailai mae yr rhai yr oeddit yn edrych arnynt hawſaf eu gorchfygu, y rŷdd i ti fwyaf o boen; ac fe fydd y perygl mwyaf o boſſibl oddiwrth y gelynion oeddit yn edrych arnynt leiaf; yn enwedigol, balchder a diogi yſpryd, ymadawiad dirgelaidd y galon oddiwrth Dduw, ac anewyllyſgarwch i ymgyfeillachu ac ef, trwy ormodd ſerch at *bethau gweledig*, y rhai a allant fod yn fynych yn beryglus i'th iechydwriaeth, er nad ydynt wedi eu gwahardd yn hollol. Rhaid i ti ddyſgu i *ymwadu â thi di hun*, mewn miloedd o bethau ac allant fod ynddynt eu hunain yn ddiniweid, cyn y gallech fod yn *ddiſgybl i Griſt* (f).

§ 3. Rhaid i ti hefyd ddiſgwyl llawer o anhawſderau oddiwrth y *bŷd*; ſef, oddiwrth ei arferion, a'i ſiamplau. Fe fydd i Bethau 'r bŷd i'th attal yn y naill ffordd, a Dynion y bŷd yn y ffordd arall. Y mae 'n boſſibl i ti gael llai o gymmorth mewn Crefydd oddiwrth ddynion da, nac wyt yn awr yn barod i ddiſgwyl. Y mae 'r genedl breſennol yn gyffredin, yn ofalus iawn i ochelyd pob peth ac ſydd *debyg* i ymffroſt; ac y mae *enthuſiaſm* † yn beth

(e) Jer. xiii. 23. (f) Mat. xvi. 24.

† Tyb fod un yn cael ei gyfarwyddo trwy ddigyfrwng weithrediadau yr Yſpryd glan.

mor ofnadwy, fel ac y cai di weled llawer o'th frodyr criſtianogol yn *ſtudio* pa fodd i guddio eu duwioldeb a'u rhinwedd, yn fwy nac y mae eraill yn ceiſio cuddio eu hannuwioldeb a'u drygioni. Ac oddieithr fod dy ſefyllfa yn neillduol ddedwydd, tra byddech yn cael ond ychydig o gymmorth o'r naill du, diammau y cyfarfyddi â mawr wrthwynebiad o'r tu arall. Fe fydd gelynion Crefydd yn hŷ ac yn fywiog, yn eu rhuthriadau, tra bo llawer o'i chyfeillion yn ymddangos yn ddifatter: Ac fe wna un bechadur fwy o boſſibl er mwyn dy lygru, nac y wna dêg o griſtianogion tuag at dy ddiogelu a'th achub. Y rhai oeddynt gynt dy gyfeillion mewn pechod, a geiſiant trwy filoedd o ffyrdd i'th ddenu yn ol drachefn i'w cymdeithas, yr hon a anghofiaiſt: Rhai o honynt o boſſibl trwy ymddangoſiad a gariad attat; a llawer mwy trwy y ddichell honno o *wawdiaeth*, pa un ſydd agos yn anwrthwynebol. Fe allai y cai di 'th watwor gan y ſawl ac y mae 'n naturiol i ti ddymuno rhan yn eu ſerchiadau; a thydi gai weled mwy yn y dywediad hynny o eiddo 'r apoſtol nac y feddyliaiſt fod ynddo, *profedigaeth trwy watwor* (g), yr hyn y mae rhai 'n ofni yn fwy na 'r cleddyf neu 'r fflammau. Rhaid i ti ddiſgwyl myned trwy erledigaeth y tafod; a chael dy alw yn *lloerig*, neu allan o'th bwyll, a hynny yn unig oblegid dy fod yn dechreu ymarfer dy reſwm i iawn ddiben! ac o herwydd nas mynnit uno â'r ſawl ſy 'n diſtrywio 'u heneidiau, yn y ffordd o ynfydrwydd a phechod.

§ 4. Ac nid oes ammau na fydd i *Satan* wneuthur a allo er mwyn dy flino a'th wangalonni. Fe rŷdd i'th ddychymmyg y fath olwg ddengar ar y pleſerau, y cyfeillion *&c.* yr ydwyt yn rhwym eu gadael; a'r olwg fwyaf ofnadwy a gwangalonnus ar yr anhawſderau, y caledi, a'r peryglon, pa rai ſydd (fel

(g) Heb. xi. 36.

(fel y myn efe 'th berſwadio) yn anwahanol oddiwrth Grefydd. Ni bydd iddo i ymattal rhag darlunio Duw ei hun, ffynnon pob daioni a dedwyddwch, yn *feiſtr caled*, amhoſſibl i'w foddhâu. Efe a'th leinw â'r ofnau mwyaf truenus, ac fe a gais, yn y modd mwyaf creulon, i orfoleddu arnat fel ei gaethwâs, er ei fod yn dy weled yn *ddeiliad rhŷdd i'r Arglwydd*. Fe ymdrecha ar rai amſerau i'th *rwyſtro* yn dy ddyledſwyddau, trwy feddyliau aflan; ar brydiau eraill fe ymdrecha beri i ti *flino* arnynt, trwy 'th demtio i dreulio amſer anghymmhedrol ynddynt. Ar air, mae gan yr hên dwyllwr hwn gynnifer o ddichellion, fel pe bawn yn myned i'w darlunio, ac i roddi gochelliadau yn erbyn pob un o honynt, hwy a gymmerent lyfr cyfan: Ac efe a'th ganlyn â hwynt hyd ddiwedd dy bererindod; fe a profir bob peth a fo 'n debyg i wanhâu dy ddwylaw, ac i wneud dy galon yn alarus; fel (er nas dichon attal dy dragywyddol ddedwyddwch, o herwydd fod Duw yn raſol yn dy amddiffyn) y bo iddo o leiaf dorri dy heddwch, ac attal dy ddefnyddgarwch, yn dy daith i'r bythol wynfŷd.

§ 5. Dyma fel y mae pobl Dduw 'n teimlo; a dyma fel y cai ditheu deimlo mewn rhyw râdd, cs bydd i ti gael dy ran a bwrw 'th goelbren yn eu plith. Er hyn oll na ddigalonna, canys Criſt yw cadpen dy iechydwriaeth (h). Y mae 'n hyfryd i edrych arno fel y cyfryw. Pan gymmerom ni olwg ar y lluoedd hyn o elynion, ni a allwn gyfodi ein pennau yn eu mŷſg hwynt oll, gan ddywedyd, *Mwy yw yr hwn ſydd gyda ni, na 'r rhai ſydd yn ein herbyn* (i). Ymddiriaid yn yr Arglwydd a thi a fyddi fel mynydd *Sion, yr hwn ni ſyflir ond a bery yn dragywydd* (k). Pan ddelo dy elynion arnat, cofia fod yr Arglwydd gyda thi (l). Ymdrecha i fod yn hŷ ac yn ddewr; ymdrecha eu *gwrthwynebu*

(h) Heb. xi. 10. (i) 2 Bren. vi. 16. (k) Salm cxxv. 1 (l) Zec. x. 5.

hwynt yn gadarn yn y ffydd (m). Cofia fod *Duw 'n rhoddi nerth i'r diffygiol, ac yn amlhâu cryfder i'r rhai di-rym* (n). Fe a wnaeth felly fyrddiynau o weithiau cyn hyn, ac a wnâ felly fyrddiynau o weithiau etto i ddyfod. Pa nifer o weiniaid a orchfygafant eu cawraidd elynion yn eu harfau mwyaf dychrynadwy, pan aethant allan yn eu herbyn megis heb ddim ond *ffon dafl a charreg, yn enw Arglwydd Dduw byddinoedd Ifrael* (o)! Pa nifer o wragedd a phlant a fathrafant i lawr eu gelynion, ac o *wendid a wnaethpwyd yn gryfion* (p)!

§ 6. YMMYSG pob gwrthwynebiadau o'r ddaiar ac uffern, edrych i fynu, edrych ymmlâen, a thi gai deimlo dy galon yn cael ei hadfywio trwy 'r olwg. Mae 'th flaenor yn agos attat: Yn agos i'th gynnorthwyo, ac i'th wobrwyo. Pan fyddech yn teimlo 'r brofedigaeth yn gwafgu 'n drymmaf, cofia am dano ef, yr hwn a ddioddefodd hyd yn oed angau 'r groes, er mwyn dy wared di! Gwêl gadernid dy ddwyfol arweinydd, ac ymdrecha i gerdded yn ol ei draed ef. Gwrando ar ei lais, canys y mae efe 'n cyhoeddi yn uchel, gan ddywedyd, *Wele fi yn dyfod ar frŷs, a'm gwobr gyda mi* (q): *Bydd ffyddlon hyd angau, ac mi a roddaf i ti goron y bywyd* (r). Ac Oh! pa mor ddifglair yr ymddengys y goron hon! A pha hŷd y parhâ ei gogoniant! Pan fo 'r *gemmau*, pa rai fy 'n harddu coronau brenhinoedd y ddaiar trwy amryw oefoedd y bŷd, yn toddi yn y tân diweddâf, fe fydd hon yn parhâu; canys *coron annifianedig y gogoniant*, (s) y gelwir hi.

§ 7. GWIR yw, y bydd i'r rhai a *ymdroant i'w trofeydd, gael eu gyrru gyda gweithredwyr anwiredd* (t), i'r diftryw ofnadwy a barottôdd dwyfol gyfiawnder ar eu cyfer; a gwell fuafai iddynt fod heb adnabod

(m) 1 Pedr v. 9. (n) Efay xl. 29. (o) 1 Sam. xvii. 40—45.
(p) Heb. xi. 34. (q) Dat. xxii. 12. (r) Dat. ii. 10.
(s) 1 Pedr v. 4. (t) Salm cxxv. 5.

adnabod ffordd cyfiawnder, nag wedi ei hadnabod, i troi oddiwrth y gorchymmyn ſanctaidd (u). Ond yr wyf trwy ddwyfol râs, yn gobeithio pethau gwell am danat ti (x). Ac yr wyf yn gweddio o'm calon droſot, O ddarllenydd, ar i ti gael dy *gadw trwy allu Duw*, yn y modd mwyaf diogel, *trwy ffydd i iechydwriaeth* (y).

Yr *Enaid mewn arſwyd o herwydd yr anhawſderau uchod, yn ymroddi i ddwyfol amddiffyniad.*

'OFENDIGEDIG a hollalluog Dduw! Attat 'ti yr wyf yn ffoi. Wele fi wedi fy am-'gylchu ac anhawſderau ac â drygau; O eſtyn allan 'dy hollalluog fraich, ac achub fi: *Dangos dy ryfedd 'drugareddau, O achubydd y rhai a ymddiriedant 'ynnot, rhag y ſawl a ymgyfodant yn erbyn dy ddeheu-'law* (z). Yr wyf y dydd hwn mewn modd 'difrifol yn rhoddi fy hun i'th ofal: Boed i'th allu 'egnio ar fy rhan, a *channiattâ i mi lechu dan gyſgod 'dy adenydd* (a). Rhô i mi ddigonol râs, a *pher-'ffeithia dy nerth yn fy ngwendid* (b). Nis beiddaf 'i ddywedyd *na bydd i mi byth ymadael â thi* a'th 'wadu (c). Etto gobeithio gallaf mewn gwirio-'nedd ddywedyd, O Arglwydd, nid wyf yn *ewy-'llyſio* gwneuthur felly; ac yn ol fy ngolygiadau a'm 'bwriadau preſennol, fe fyddai *angau* yn llai dy-'chrynadwy i mi, na 'th ddigio di trwy un peth yn 'fwriadol ag yn wirfoddol. O diwreiddia 'r lly-'gredigaethau hyn o'm calon, pa rai a allant, yn 'awr y *brofedigaeth*, beri i mi olygu pethau mewn 'gwahanol oleuni, ac felly i'm bradychu i ddwylaw 'r gelyn! Cryfhâ 'm ffydd a'm gobaith, O Ar-'glwydd! Meddianna fi â bwriadau grymmus i

(u) 2 Pedr ii. 21. (x) Heb. vi. 9. (y) 1 Pedr ii. 5. (z) Salm xvii. 7.
(a) Salm lvii. 1. (b) 2 Cor. xii. 9. (c) Marc xiv. 31.

'wrthwynebu pob peth ac a ddelo yn fy ffordd 'i'r nefoedd; a gofod fy wyneb fel *calleſtr* (d) yn 'erbyn pob gwrthwynebiadau o'r ddaiar ac uffern. 'Os pechaduriaid a'm denant, na âd i mi gyttuno 'â hwynt (e); os bydd iddynt i'm dirmygu, na âd 'i mi ſylwi ar hynny; neu os bydd iddynt i'm by-'gwth na âd i mi ofni. Ond yn hytrach boed i 'ſêl ſanctaidd, wreſog, a doeth, godi ynnof trwy eu 'malis hwynt, fel y bo i mi geiſio eu hargyhoeddi 'a'u diwygio. O leiaf, na fydded yn gywilydd 'gennyf i ddadleu dy achos yn erbyn y mwyaf 'halogedig o watworwyr Crefydd! *Pâr i mi gly-'wed gorfoledd a llawenydd yn fy enaid*, ac mi a 'ymdrechaf i *ddyſgu dy ffyrdd i rai anwîr* (f), *a 'phechaduriaid a droir attat.* Ië, Arglwydd, tra 'bo fy ofnau yn aros; ac er yſtyriaid fy hun dan 'farn, yr wyf wedi 'm cyfiawn farnu am fy ynfy-'drwydd fy hun, ac am hynny yr wyf yn foddlon 'i fod yn ddadleuwr gyda thi yn fy erbyn fy hu-'nan.

'Cadw fi yn awr, a phob amſer! ac na âd 'i mi feddwl byth, i ba ſefyllfa ac oedran byn-'nag y delwyf, fy mod yn ddigon galluog o ho-'nof fy hun i ddwyn ymmlâen y frwydr, heb 'dy gynnorthwy di. Ac na âd i mi yn fy ma-'bandod preſennol mewn Crefydd, dybiaid fy 'hun mor wan fel nas gelli di fy nghynnal. I 'ba lê bynnag i'm harweinych, boed i mi i'th 'ddilyn; ac ym mha ſefyllfa bynnag y bo i ti 'm gofod, boed i mi yn yr unrhyw lafurio er 'dy ogoniant; boed i mi allel dwyn ymmlâen 'y rhyfel ſanctaidd yn erbyn gelynion fy iechyd-'wriaeth, a ſyrthio ynddo yn hytrach na throi 'fy nghefn yn gywilyddus ar y maes.

'O Brynwr gogoneddus, cadpen mawr fy 'iechyd-

(d) Eſay l. 7. (e) Diar. i. 10. (f) Salm li. 8, 13.

'iechydwriaeth, awdwr a pherffeithydd fy ffŷdd '(g), pan y bwyf mewn perygl o'th wadu fel '*Pedr*, edrych arnaf mewn modd brenhinol a 'thoſturiol (h), fel y bo i mi gael naill a'm cadw 'rhag ſyrthio, neu 'm dwyn yn ol yn fuan at 'Dduw a'm dyledſwydd drachefn! A dŷſg fi 'hyd yn oed trwy fy ſyrthiadau, i ymoſtwng fy 'hun yn fwy dwfn am bob peth beius, ac i ail-'ddyblu f' niwidrwydd a'm gofal rhagllâw! 'Amen!'

PENNOD XVII.

Y Criſtion yn cael ei annog i'r, a'i gynnorthwyo yn, y weithred o hunan-ymroddiad i waſanaeth Duw.

§ 1. GAN obeithio, er yr holl wrthwynebiad y ſydd neu a all fod i Grefydd, 'th fod (o herwydd yr yſtyriaeth o'r cynnorthwyon, a'r annogaethau rhagorol y ſoniwyd am danynt, yn y ddwy bennod o'r blaen;) yn bwriadu o'r galon i waſanaethu Duw, mi a ddymunwn yn awr i'th gymmell i wneuthur *ymroddiad ſyml o honot dy hunan*, i'r unrhyw. Boed i ti nid yn unig ffurfio 'r fath fwriad yn dy galon, ond hefyd i eglur draethu hynny o flaen yr Arglwydd. Y mae 'r modd ſyml hynny o'i wneuthur, yn ſicr yn rheſymmol yn natur pethau; a diammau ei fod yn fuddiol iawn er mwyn rhwymo wrth yr Arglwydd y fath galonnau twyllodrus, ac a wyddom fod gennym ni. Fe fydd yn hyfryd i feddwl am y fath ymroddiad, wedi ei wneuthur yn y cyfryw a'r cyfryw amſer, modd, llê, ac amgylchiadau; a fe fydd hyn yn foddion o effeithio 'r côf a'r

(g) Heb. xii. 2. (h) Luc xxii. 61.

a'r gydwybod. Yr yſtyriaeth o'th fod dan *adduned i Dduw*, a gadarnhâ dy galon yn awr y brofedigaeth; a choffadwriaeth o hyn, a rŷdd annogaeth i ti agoſhâu atto ef mewn rhydd-did a hyfdra goſtyngedig, dan yr yſtyriaeth o'th berthynas ac ef, fel dy *Dduw cyfammodol*, yn ol dy angenrheidiau rhagllâw.

§ 2. BOED i ti gan hynny wneuthur fel hyn, ac etto mewn *modd pwyllog*. Yſtyria 'n fanwl, pa beth yr ydwyt yn myned i'w wneuthur: Ac yſtyria, pwy mor rheſymmol yw i ti roddi dy hun yn galonnog ac yn llawen; *nid trwy gymmell, eithr yn ewyllyſgar* (a): Canys y mae Duw yn hyn, fel pob peth arall, *yn caru rhoddwr llawen* (b) Diammau nad oes un peth ac a ddylem wneuthur gyda mwy o lawenydd a chydſynniad calon, nac ymroddi ein hunain i'r Arglwydd; i'r Duw a'n creodd, ac a'n dygodd i'r bŷd hwn, ac ſydd mor hyfryd a chyflawn o bob angenrheidiau; i'r Duw a'n cynhaliodd yn ein dyddiau o dyner fabandod, yn ein dyddiau plentynaidd ac o ieuengctid, pan yn anyſtyriol; yr hwn a'n cynnorthwyodd a'n cynhaliodd, ac a'n diogelodd bob munud o'n bywyd hyd yn hyn! Ni all fod un peth yn fwy rheſymmol nac i ni gyfaddef Duw ein cyfiawn feddianydd a'n penllywydd; nag i ni roddi ein hunain iddo fel ein cymmwynaſwr graſlonaf, ac i'w geiſio ef, fel ein daioni pennaf. Nis gall un peth ymddangos yn fwy uniawn nac i ni, y rhai ydym greaduriaid ei allu, a gwerth gwaed ei Fâb, fod yn eiddo iddo, ac yn eiddo iddo byth. Os bydd y peth hyn i ymddangos mewn goleuni cywir, fe fydd yn ofid i'th enaid ddarfod i ti erioed ymadael â'r bendigedig Dduw a'i waſanaeth? ac ni bydd i ti ewyllyſio aros yn y cyflwr hyn o bellder oddiwrtho, un flwyddyn, nac

(a) 1 Pedr v. 2. (b) 2 Cor. ix. 7.

nac un diwrnod yn hwy. Fe fydd yn llawen gennyt i allel dwyn yn ol at Dduw ei greadur gwrthryfelgar; ac fel y rhoddaiſt gynt dy aelodau yn arfau anghyfiawnder i bechod, fe fydd yn bleſer gennyt i roddi dy hunan i Dduw, fel un o farw 'n fyw; ac i ymarfer dy *aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw* (c).

§ 3. Fe fydd yr *ymroddiad* hefyd mor *drwadl a chyflawn*, ac yw 'n llawen a diattreg. Yr hyn oll ac ydwyt, yr hyn oll fydd gennyt, a'r hyn oll ac a elli wneuthur; dy amſer, dy feddiannau, a'th lywodraeth dros eraill, a roddir iddo ef; fel y bo i'r cwbl rhagllâw gael èu hollol ddefnyddio yn ei waſanaeth ef, ac er ei ogoniant. Nis chwennychi attal dim rhagddo; ond ti a farni 'n ddifrifol dy fod yn *eiddo dy hun* yn yr yſtyriaeth oreu, pan fyddech yn *fwyaf hollol yn eiddo ef*. Rhaid i ti hefyd ar yr achlyſur hyn, roddi 'r cwbl oll ac a feddi i drefniad ei raſol a'i ddoeth ragluniaeth; a nid yn unig i *addef ei allu*, ond hefyd, ei ddiamheuol *hawl*, i wneuthur â thi, ac â oll a roddodd i ti, fel y bo *da yn ei olwg*; gan ddangos boddlonrwydd calon i'r hyn oll a wnaeth hyd yn hyn, ac i'r hyn oll a wnelo ym mhellach.

§ 4. Canniatta i mi ddywedyd etto ym mhellach, fod yn rhaid i'r ymroddiad hwn fod yn *barhaus*. Rhaid i ti roddi dy hunan i Dduw yn y fath fodd, na byddych *byth* i fod mwyach yn eiddo i ti dy hun: Canys mae *hawl* Duw fel ei *natur*, yn dragywyddol ac yn anghyfnewidiol; ac mewn perthynas i'w greaduriaid rheſymmol, yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd.

§ 5. Heblaw hyn, rhaid i fod yn ymroddiad wedi ei wneuthur yn y *modd mwyaf difrifol ac ſy 'n boſſibl*. Gwnâ felly mewn geiriau eglur a chyflawn. Ac fel y dywaid llawer o ddefnyddion, fe allai fod yn

(c) Rhuf. vi. 13.

yn fwy cymmwys lawer gwaith i'w wneuthur trwy *yſgrifen*. Goſod dŷ enw a'th ſêl wrth yr unrhyw, mae ar y cyfryw ddŷdd o'r cyfryw fis o'r cyfryw flwyddyn, yn y cyfryw lê, ar ol ſyml a chyflawn yſtyriaeth a myfyrdod, y daethoſt i'r penderfyniad happus hyn, ſef, *pa beth bynnag y wnelo eraill, y bydd i ti waſanaethu 'r Arglwydd* (d).

§ 6. Ti a elli o boſſibl, wneuthur y fath yſgrifen dy hun; ond os ewyllyſi yn hytrach i gael y fath beth wedi ei gwneuthur yn barod i'th law, mi a oſodaf ger dy fron ryw beth o'r natur hyn; a thi a elli yn hawdd wneuthur gwahaniaeth, fel y bo 'n gweddu i'th amgylchiadau, pan fo dim yn neillduol ynddynt. Ond pa beth bynnag y wnelech, pwyſa hynny 'n dda, a dwys fyfyria arno, fel na *fyddech rŷ bryſur â'th enau i draethu dim ger bron Duw* (e). A phan oſodech hyn mewn grym, boed i hynny gael ei wneud gyda mwy o bellder crefyddol oddiwrth wrthrychau gwelędig, nac arferol. Os yw 'n boſſibl, gwnâ 'r amſer hynny 'n ddŷdd o ddirgel ympryd a gweddi: A phan bo 'th galon wedi ei pharottoi, trwy gymmwys arſwyd o fawredd Duw, a goſtyngedig ymddiriaid yn ei ddaioni ef, ynghŷd â thaer ddymuniad am gael ei ffafr, yna cwymp ar dy liniau o'i flaen ef, a darllain dy yſgrifen mewn modd ſyml a phwyllog; a phan roddych dy law wrthi, dôd hi heibio mewn llê diogel, fel y bo i ti allel edrych arni pan fynnech; a gwnâ hi 'n rheol i ti dy hun i edrych iddi ar amſerau nodedig yn y flwyddyn, fel y gallech gadw coffadwriaeth o honi.

§ 7. CYMMER y drefn hyn o leiaf, hyd oni welych dy ffordd yn rhŷdd i fŵrdd yr Arglwydd, llê bydd i ti *adnewyddu* a *ſelio* yr unrhyw *gyfammod*, mewn modd mwy difrifol. A Duw a wnêl i ti allel ei gadw, ac yn dy holl ymarweddiad rodio ar ei ol!

(d) Joſ. xxiv. 17. (e) Preg. v. 2.

ol! Boed yn *angor* i'th enaid ym mhob rhyw brofedigaeth, ac yn *gordial* iddo ym mhob rhyw gyftudd! Boed i'r coffadwriaeth o'th gyfammod â Duw, roddi hyfdra i ti yn dy weddiau wrth orfedd grâs yn awr, ac i 'chwanegu nerth i'th yſpryd ar ei ymadawiad, trwy gael tufewnol dyſtiolaeth cydwybod, dy fod yn derchafu at dy Dduw, a'th dâd cyfammodol, ac at dy brynwr graſol, gallu a ffyddlondeb pa un, a ddiogel *gadw yr hyn a roddaiſt atto erbyn y dŷdd hwnnw* (f)!

Siampl o *Hunan-ymroddiad, neu ffurf o adnewyddiad ein cyfammod â Duw.*

'Y TRAGYWYDDOL a'r anghyfnewidiol 'Jehofah! Tydi wyt greawdwr mawr 'y nefoedd a'r ddaiar, ac Arglwydd gogoneddus 'dynion ac angylion! Yr wyf yn dymuno yr awr 'hon i gwympo i lawr yn dy breſennoldeb ofnadwy, 'gydag iſelder yſpryd a'r goſtyngeiddrwydd mwyaf, 'ac i daer weddio ar i ti beri iawn deimlad o'th 'ogoniant anrhaethadwy ac anamgyffredadwy i 'dreiddio trwy fy nghalon!

'Fe ddichon dychryn yn gyfiawn i ymaflyd 'ynnof (g), pan yr wyf fi, abwydyn pechadurus, 'yn rhyfygu i godi fy mhen tuag attat ti, ac i 'ynddangos ar y fath achlyſur yn dy breſennoldeb 'gogoneddus! *Pwy ydwyf fi, O Arglwydd Dduw, 'neu pa beth yw fy nhŷ* (h)? Pa beth wyf-fi o enedigaeth neu o naturiaeth, o garacter, neu haeddiant, 'fel y bo i mi lefaru am y peth hyn, a dymuno 'ſefyll yn un blaid yn y Cyfammod, tra 'r ydwyt 'ti, Brenin y Brenhinoedd ac Arglwydd 'yr Arglwyddi, yn ſefyll o'r blaid arall! Yr 'wyf yn *gwridio* ac yn *cywilyddio*, hyd yn oed pan 'yr wyf yn ſôn am y fath beth ger dy fron! Ond,

O Arglwydd,

(f) 2 Tim. i. 12. (g) Job xx. 6. (h) 2 Sam. vii. 18.

'O Arglwydd, mae 'th drugaredd yn gymmaint 'a'th ardderchowgrwydd. Os bydd i ti ddal cyf-'rinach â neb o'th greaduriaid, rhaid i'th natur 'dra derchafedig ymoſtwng yn anfeidrol iſel. Ac 'yr wyf yn gwybod dy fod yn a thrwy Iesu, Mâb 'dy gariad, yn daroſtwng dy hun i ymweled â 'dynion pechadurus a marwol, ac yn canniattâu 'iddynt agoſhâu attat, ac ymgyfeillachu 'n gyf-'ammodol â thydi: Ië, mi a welaf mai *tydi dy 'hunan* a drefnodd y ffordd o gymmod, ac i ti yn 'raſol ddanfon y cynnygiad o hyn at ddynion; 'canys nis gallaſai neb na ddyſgwyd gennyt ti i'w 'llunio, neu fod yn dueddol i'w chofleidio hi, hyd 'yn oed pan fai 'n cael ei chynnyg iddynt.

'Attat ti, gan hynny, yr wyf yn awr yn dy-'fod, wedi fy ngwahodd yn enw dy Fâb, gan ym-'ddiriaid yn ei gyfiawnder a'i râs ef. Gan daflu 'fy hunan wrth dy draed gyda chywilydd wyneb, 'a chan guro ar fy mron, yr wyf yn dywedyd gyda 'r *publican* goſtyngedig, *Duw bydd drugarog wrthyf 'bechadur* (i)! Yr wyf yn cyfaddef, O Arglwydd, 'fy mod yn droſeddwr mawr. *Fy mhechodau a 'gyrhaeddaſant hyd y nêf* (k), *a'm hanwireddau a 'dderchafaſant hyd y cymmylau* (l). Tueddiadau 'afreolaidd fy natur halogedig a dirywiedig, oeddynt 'mewn miloedd o ffyrdd yn gweithio ynnof i 'ddwyn ffrwyth i farwolaeth (m). A phe craff-'ech ar fy anwireddau, rhaid fyddai i mi aros yn 'fûd dan faich o euogrwydd, a ſoddi 'n ddiattreg 'i ddiſtryw.

'Ond yr ydwyt yn raſol yn galw arnaf i ddych-'welyd attat, er bod o honof fel *dafad gyfyr-'golledig*, *mâb afradlon*, *neu blentyn gwrthnyſig* (n). 'Wele fi gan hynny yn dyfod attat, O Arglwydd! 'Yr wyf yn dyfod dan argyhoeddiad, nid yn unig 'o'm

(l) Luc xviii. 13. (k) Dat. xviii. 5. (l) Jer. li. 9.
(m) Rhuf. vii. 5. (n) Jer. iii. 2.

'o'm pechod, ond hefyd o'm ffolineb. Wele fi 'n 'dyfod gyda chywilydd calon, gan gyfaddef o'm 'henaid, mewn modd gwirioneddol a goftyngedig, '*i mi wneuthur yn ynfyd, ac i mi gyfeiliornu yn* 'ddirfawr (o). Y mae coffadwriaeth o'r pethau hyn 'yn fyndod i mi fy hun! Etto *bydd di drugarog* '*wrth fy anghyfiawnderau, ac na chofia fy mhechodau* 'a'm *hanwireddau mwyach* (p)? O Arglwydd! 'Canniattâ i mi ddwyn yn ol y *galluoedd*, a'r '*cynneddfau*, pa rai trwy anniolchgarwch a chyffegr-'yfpailiad a gedwais o'th wafaneth hyd yn hyn; 'a derbyn, yr wyf yn attolwg arnat, ar dy greadur 'tylawd a gwrthryfelgar, yr hwn fy 'n awr yn 'gweled dy hawl ynddo, ac fydd yn dymuno bod 'yn eiddo i ti, yn fwy nac un peth arall yn yr holl 'fŷd!

'O FENDIGEDIG Dduw, yr wyf yn gwneud yr 'ymroddiad hyn o honof fy hun i ti, yn y modd 'mwyaf difrifol! Gwrandewch, O nefoedd, a chlyw 'dithau ddaiar, yr wyf y dŷdd heddyw yn cym-'meryd yr ARGLWYDD i fod yn DDUW *i mi* (q); 'yr wyf y dŷdd heddyw yn addunedu, ac yn cyhoe-'ddi fy hunan i fod yn un o blant ei gyfammod. 'Gwrando, O Dduw 'r nefoedd, ac yfgrifenna 'hyn yn llyfr dy goffadwriaeth (r), fef, fy mod o 'hyn allan yn *eiddo i ti*, a hynny yn drwadl. Yr 'wyf yn ewyllyfio, nid yn unig i gyffegru rhan 'o'm galluoedd a'm meddiannau i ti; neu ychydig 'o'm gwafanaeth, neu yr hyn oll ac a allwyf dros 'ryw amfer byr; ond yr wyf yn chwennych i fod '*oll* yn eiddo i ti, ac yn eiddo i ti byth. Yr wyf 'o'r dŷdd hwn yn fyml ymwrthod â'r arglwyddi 'eraill a arglwyddiaethafant arnaf (s), pob nwyd 'a phob pechod; ac yn dy enw di, mi a roddaf 'ymhyrriad tragywyddol i holl galluoedd uffern; yr 'rhai,

(o) 1 Sam. xxvi. 21. (p) Heb. viii. 12. (q) Deut. xxvi. 17.
(r) Mal. iii. 16. (s) Efay xxvi. 13.

'rhai, yn y modd mwyaf anghyfiawn, a deyrna-
'ſaſant ar fy enaid; ac i'r holl llygredigaethau a
'ddygodd eu temtaſiwnau i'm calon. Holl rannau
'ac aelodau fy nghorph, a holl gynneddfau fy
'meddwl, yr wyf yr awr hon yn roddi ger dy
'fron, *fel aberthau byw, ſanctaidd a chymmeradwy*
'*gan Dduw, yr hyn a wn fod fy ngwaſanaeth mwyaf*
'*rheſymmol* (t). I ti yr wyf yn cyſſegru fy holl
'feddiannau bydol: Yn dy waſanaeth yr wyf yn
'ewyllyſio treulio fy holl amſer ac ſydd yn ol ar y
'ddaiar, gan attolygu arnat i'm dyſgu a'm lly-
'wodraethu, fel pa un bynnag ai hîr ai byr fo
'fy arhosfa ar y ddaiar, y bo i bob blwyddyn, mîs,
'diwrnod, ac awr, gael eu treulio yn y fath fodd
'ac allo fod yn fwyaf effeithiol i ddwyn ymmlâen
'dy anrhydedd, ac amcanion dy raſol a'th ddoeth
'ragluniaeth. Ac yr wyf yn taer ymbil, pa *ly-*
'*wodraeth* bynnag y roddech i mi dros *eraill* trwy
'unrhyw berthynas mewn bywyd, neu mewn
'canlyniad i unrhyw neillduol barch ac allo gael ei
'roddi i mi, i ti roddi i mi hyfdra a gallu digonol i
'ymdrechu hyd yr eithaf, er dwyn ymmlâen dy
'ogoniant di trwy hyn oll: Gan fwriadu, nid yn
'unig y bydd i mi fy hun, ond pawb eraill, mor
'belled ac y gallwyf fi yn addas ac yn rheſymmol
'beri iddynt, *i waſanaethu yr Arglwydd* (u). Yn
'yr yrfa hon, O Dduw bendigedig, y dymunwn i
'*barhâu* 'n ſefydlog hyd derfyn bywyd; gan daer
'weddio ar fod pob diwrnod i ddyfod, yn cyfiawnu
'diffygiadau, ac yn diwygio pethau afreolaidd yn
'yr rhai a aethant heibio; ac ar i mi, trwy ddwyfol
'râs, nid yn unig i allel *cadw* yn y ffordd happus,
'ond hefyd i *gynnyddu* mewn bywiogrwydd, o
'ddŷdd i ddŷdd!

'Ac nid wyf yn cyfiwyno fy hun a'r cwbl oll ac
'a feddaf, i'th *waſanaeth* yn unig; ond wele fi 'n
'rhoddi

(t) Rhuf. xii. 1. (u) Joſ. xxiv. 15.

'rhoddi fy hun ac oll ſydd eiddof yn y modd mwyaf 'goſtyngedig *i'th ewyllys benarglwyddiaethol a ſanct-* 'aidd. O Arglwydd, yr wyf yn gadael oll a 'feddaf, ac wyf yn ddymuno, i'th drefniad, a'th 'hyfforddiad di, i wneuthur â hwynt fel y bo da 'yn dy olwg. Parhâ neu gymmer ymaith yr hyn a 'roddaiſt i mi; dyro i mi, neu attal rhagof, yr hyn 'wyf fi 'n ddychymmyg i fod yn ddiffygiol, fel y 'gwelych yn dda, O Arglwydd! Ac er na feiddaf 'ddywedyd, na bydd i mi byth rwgnach; ette yr 'wyf yn gobeithio y gallaf anturio ddywedyd, y 'bydd i mi nid yn unig ymdrechu ymoſtwng, ond 'hefyd i *ymfoddloni*; y bydd i mi nid yn unig 'ddioddef yr hyn a wnelech trwy 'th ragluniaethau 'mwyaf gorthrymmus, ond hefyd i *gydſynio, ac i* 'ddiolch i ti am y cwbl oll; gan fwriadu yn y cwbl 'ac a drefnych i mi, y bydd fy ewyllys yr un â'th 'ewyllys di; ac y bydd i mi edrych arnaf fy hun yn 'ddim, ac arnat ti, O Dduw tragywyddol, yn *bob* 'peth; gair pa un a ddylai benderfynu pob peth, a 'llywodraeth pa un a ddylai fod yn llawenydd yr 'holl greadigaeth reſymmol.

'Defnyddia fi, O Arglwydd, fel *offeryn* i 'ddwyn ymmlâen dy ogoniant; ac anrhydedda 'fi mor belled, trwy wneuthur neu ddioddef yr 'hyn a drefnech i mi, a chael dwyn rhyw faint 'o deyrnged o glôd i ti, ac o lês i'r bŷd ym 'mha un yr wyf yn byw! A rhynged bodd i ti o'r 'dydd hwn allan, i'm cyfrif yn un o'th *bobl briodol*, 'fel na bwyf mwy fel *dieithriad a dyfodiad, ond yn* 'gŷd-ddinaſydd â'r ſaint ac yn un o deulu Duw (w)!

'Derbyn, O nefol Dâd, dy afradlon hwn, ac 'ſydd yn dychwelyd attat! Golch fi yng ngwaed 'dy anwyl Fâb; gwîſg fi â'i gyfiawnder perffaith; a 'ſancteiddia fi 'n gwbl oll trwy dy Yſpryd! Diſtryw-'ia, yr wyf yn attolwg arnat, gallu pechod yn fy 'nghalon,

(w) Eph. ii. 19.

'nghalon, yn fwy fwy! A chyfnewid fi 'n fwy i'th 'ddelw dy hun, a gwnâ fi 'n gyffelyb i'r IESU, yr 'hwn wyf yn chwennych edrych arno o hyn allan, 'fel fy ATHRAW, fy ABERTH, fy EIRIOLWR, 'a'm HARGLWYDD! Cyfranna, yr wyf yn ymbil 'arnat, bob rhyw ddylanwadau angenrheidiol o 'eiddo 'th Yſpryd, tuag at fy ſancteiddio a'm di-'ddanu! A *dercha arnaf lewyrch dy wyneb*, fel y bo 'fy nghalon i gael ei llanw o hyfrydwch, ac â'r 'llawenydd mwyaf rhagorol (x).

'TREFNA fy achoſion, O Dduw, ſel y bo oreu 'er dy ogoniant di a'm dedwyddwch innau; a 'phan ddarfyddo i mi wneud, a dioddef dy ewyllys 'ar y ddaiar, galw fi oddi yma, y prŷd, a'r modd 'y bo da yn dy olwg: A boed i mi ond yn 'unig, yn angau, ac yngolwg tragywyddoldeb, 'gofio fy rhwymedigaethau hyn i ti, ac i dreulio 'fy anadl diweddaf yn dy waſanaeth! Boed i ti, 'O Arglwydd, pan welech loeſon angau arnaf, 'gofio hefyd y *cyfammod hwn*, er gallel bod o 'honof fi y prŷd hynny yn analluog i'w gofio. 'Edrych i lawr, O nefol Dâd, gyda golwg o doſ-'turi ar dy blentyn llêſg a marwol; boed i'th 'freichiau tragywyddol oddi tanaf, fel y bo i mi 'gael fy nghynnal; goſod rym a hyder yn fy 'yſpryd ar ei ymadawiad, a derbyn fi i freichiau 'th dragywyddol gariad. Groeſawa fy yſpryd i 'drigfannau *yr rhai a hunant yn yr Ieſu* (y), fel 'y bo i mi ddiſgwyl gyda hwynt am y diwrnod 'gogoneddus, ym mha un y bydd yr addewid 'ddiweddaf ac a roddaiſt i'th bobl gyfammodol 'gael ei chyflawnu, yn eu hadgyfodiad gorfoledd-'us, a'r helaeth fyneddiad a roddir iddynt i'r deyr-'nas dragywyddol (z), yr hon a ſicrhâiſt iddynt 'yn dy GYFAMMOD, ac yn y gobaith o ba un

'yr

(x) Salm iv. 6, 7. (y) 1 Theſ. iv. 14. (z) 2 Pedr i. 11.

'yr wyf yn awr yn gafaelu ynddo, gan ddymuno 'byw a marw â'm llaw megis ar y gobaith hynny.

'A PHAN y bo i mi 'n llyn gael fy rhifo ym-'mŷſg y meirw, a phob peth perthynol i'r bywyd 'marwol hwn wedi myned heibio byth, os bydd 'i'r yſgrifen ſyml hon o *goffadwriaeth*, trwy un-'rhyw ddigwyddiad ſyrthio i ddwylaw nêb o'm 'cyfeillion a fyddant fyw ar fy ol, boed yn foddion 'i wneuthur argraffiadau difrifol ar eu meddyliau. 'Boed iddynt ei darllain, nid fel fy iaith i, ond 'fel eu heiddo 'u hunain; boed iddynt ddyſgu 'ofni 'r Arglwydd fy Nuw, a chyda myfi, roddi 'eu hymddiriaid dan gyſgod ei adenydd, dros 'amſer a thragywyddoldeb. Boed iddynt hefyd 'ddyſgu addoli Duw 'r grâs gyda mi, yr hwn 'fy 'n tueddu 'n calonnau i ymgyfammodi ac 'ef, ac ſydd yn ymoſtwng i wneuthur derbyniad 'o honom, pan yn ewyllyſgar i ddyfod atto; gan 'briodoli hefyd gyda mi, a'r holl brynedigion, i'r 'TAD, ac i'r MAB, ac i'r YSPRYD GLAN, y 'gogoniant, yr anrhydedd, a'r clôd, ac ydŷnt 'ddyledus i bob un o'r dwyfol berſonau, am yr 'hyn y maent yn wneuthur er ein iechydwriaeth! 'Amen!'

PENNOD XVIII.

Ynghylch mynediad y Criſtion i gymmundeb eglwyſig, trwy barchus dderbyniad o Swpper yr Arglwydd.

§ 1. YR wyf yn gobeithio y bydd i'r bennod hon i'th gael yn un o bobl gyfammodol yr Arglwydd; a thrwy 'r cydſynniad mwyaf eglur, wedi ymroddi yn ſyml ac yn galonnog i'w waſanaeth

wasanaeth ef: Ac yr wyf yn gweddio o'm calon ar fod y cyfammod a wnaethoft ti ar y ddaiar gael ei ficrhâu yn y nefoedd. Ond er mwyn dy addyfg a'th adeiliadaeth pellach, dioddef i mi ddwyn ar gôf i ti, a ddarfod i'n *Harglwydd Iefu Grift* appwyntio *ffordd briodol* o amlygu ein cariad tuag atto, ac i ddifrifol adnewyddu ein cyfammod ac ef; yr hon (er nad yw yn gwahardd unrhyw ddull arall ac fo 'n addas) nis gellir mewn un modd ei rhoddi heibio, na'i hefgeuluſo, er mwyn unrhyw ordinhâd ddynol, er mor ddoeth a buddiol y gallo 'r fath appwyntiad ymddangos i ni.

§ 2. Fe ddarfu i'n Harglwydd ddoeth drefnu, fod y manteifion a gyfodant oddiwrth *gymdeithas* dynion â'u gilydd, gydfyned â Chrefydd; ac fel y mae criftianogion proffefedig yn ymgyfarfod ar ei orchymmyn ef, er mwyn cyflawnu dyledfwyddau cyhoeddus a berthynant i Grefydd; felly fe a drefnodd *ordinhâd gymdeithafol*, trwy ba un y mae 'r holl gynnulleidfa i ddyfod at ei fwrdd ef, i *fwytta o'r un bara ac i yfed o'r un cwppan.* Ac y maent i wneuthur hynny, fel arwydd o'u ferchiadol goffadwriaeth o'i gariad ef yn marw droftynt, o'u hymroddiad i Dduw, ac o'u gwîr gariad at eu gilydd, a phawb o'u cŷd-griftianogion.

§ 3. Ni châf fi aros yn awr i brofi mai dyma brîf ddibenion y gofodiad o *fwpper yr Arglwydd.* Boed i ti ond darllain y ddegfed a'r unfed bennod ar ddeg o epiftol cyntaf *Paul* at y *Corinthiaid*, a thi gai *brawf gyflawn* o hyn: Canys y mae 'n dywedyd yn eglur yno, i'n Harglwydd orchymmyn i fwytta bara ac yfed gwîn, er mwyn gwneuthur coffa am dano ef (a); ac felly, cynnifer gwaith bynnag ac y delom i'r ordinhâd hon, y dangofwn farwolaeth yr Arglwydd, yr hyn fydd raid ei wneuthur

(a) 1 Cor. xi. 24, 25.

thur hyd oni ddelo (b). Ac y mae 'r cwppan yn cael ei alw 'n bendant, *y Teſtament Newydd yn ei waed ef* (c); hynny yw, ſêl o'r cyfammod hwnnw, pa un a gadarnhawyd trwy ei waed ef. Mae 'n eglur gan hynny, y dylem ni agoſhâu at y bwrdd gyda golwg ar y cyfammod hwnnw, gan ddymuno mwynhâu ei fendithion, a bwriadu, trwy ddwyfol râs, i gydſynnio â'i ofynion. Gan yſtyriaid hyn oll, ni welwn, fel y dywaid yr apoſtol, fod i ni gymmundeb yng *nghorph a gwaed Criſt* (d); a chan ein bôd ni yn gyfrannog o'i fwrdd ef, ac o'r cwppan, y mae i ni gyfrinach â Chriſt, ac undeb â'n gilydd fel ei bobl ef: Megis ac yr oedd i'r cenhedloedd eulunaddolgar yn eu defodau, gymmundeb a'u duwiau hwynt; ac y rhoddaſent eu hunain iddynt; ac fel yr oedd yr Iuddewon, wrth fwytta eu haberthau, yn cyfrinachu â'r Jehofa mawr, ac yn ymroddi eu hunain iddo; felly y mae criſtianogion dan yr efengyl yn mwynhâu Criſt, ac yn ymroddi eu hunain iddo ef. Y mae 'r apoſtol ym mhellach yn dwyn ar gôf i'r *Corinthiaid*, mae er eu bod yn *llawer*, eu bod yn *un bara* ac yn *un corph*, gan eu bod oll yn gyfrannog o'r *un bara* (e), a chwedi yfed oll o'r *un ddiod yſprydol* (f); hynny yw, eu bod yn cyfarfod ynghŷd fel *un teulu*, gan uno mewn coffadwriaeth o'r un gwaed a'u prynodd hwynt oll, ac o'r *Arglwydd Ieſu*, eu *pen cyffredin*. Yn awr y mae 'n amlwg fod hyn oll yn wîr mewn perthynas i'r criſtianogion ym mhob oes o'r bŷd. Canniatta i mi gan hynny, yn enw a thrwy awdurdod fy meiſtr dwyfol, i'th annog di i gyflawnu 'r gorchymmyn hwn.

§ 4. Gad i mi i'th annog i dderbyn ſwpper yr Arglwydd, o blegid y tueddiad ſydd yn yr ordinhâd hon i ddwyn ymmlâen dy wîr leſhâd. Yr ydwyt

(b) *ad.* 26. (c) *ad.* 25. (d) 1 Cor. x. 16.
(e) 1 Cor. x. 17. (f) 1 Cor. xii. 13.

yn awr yn dechreu 'r fuchedd griſtianogol; ac mi a ddangoſais i ti yn helaeth y gwrthwynebiadau ſydd raid i ti ddiſgwyl cyfarfod â hwynt ynddi: Ac nid oes dim ond *cariad Criſt* ac a all dy galonnogi i dorri trwyddynt oll. Pa beth gan hynny a all ſod yn fwy dymunol nac i ti allel dwyn o'th amgylch bob amſer deimlad bywiol o hono? A pha beth a all gyffroi 'r cyfryw deimlad yn fwy, na 'r olwg arno ef yn marw dros bechod, yr hyn a amlygir yn y ſwpper ſanctaidd? Pwy all edrych ar y *bara* yn cael ei dorri, a'r *gwin* yn cael ei dywallt, heb yſtyriaid y modd y cafodd corph y bendigedig *Ieſu* ei ddryllio trwy ei ddioddefiadau, a'i waed ei dywallt *allan fel dwfr ar y ddaiar?* Pwy all feddwl am y loeſau tor-calonnus ac y deimlodd Mâb Duw, fel gwerth ein prynedigaeth a'n iechydwriaeth ni, heb deimlo ei galon yn toddi o doſturi, ac yn lloſgi o gariad a diolchgarwch? Pa fath olwg dderchafedig y roddir i ni ar *fendithion y cyfammod grâs* yn ſwpper yr Arglwydd, pan yr yſtyriom ei fod wedi ei gadarnhâu trwy waed unig-anedig Fâb Duw? A phan fôm yn agoſhâu at Dduw fel ein nefol dâd, gan roddi ein hunain yn y fath fodd fyml i'w waſanaeth, oni fydd yn tueddu yn fawr i ſefydlu 'r grediniaeth hon ar ein calon, ſef, mae nid eiddo 'n hunain ydym, gan ein bod wedi ein prynu trwy 'r fath werth (g)? Pa fath dueddiad ſydd yn hyn i oſod gwiliadwriaeth ynnom yn erbyn pob rhyw demtaſiwnau i'r pechodau, pa rai yr ymwrthodaſom â hwynt mewn modd mor ddifrifol, ac i'n gwneud yn ffyddlon iddo ef, i ba un y rhoddaſom ein heneidiau megis trwy *hŵ?* Ac onid yw 'n iawn fod ein calonnau wedi *cyd-gyſſylltu mewn cariad* (h), gan ein bod yn *un yn Ghriſt* (i)? Y mae ei waed ef yn *gwlwm* y gymdeithas; y mae yn ein huno yn yr yſpryd â'n gilydd; ac nid yn unig â'n gilydd, ond

(g) 1 Cor. vi. 19, 20. (h) Col. ii. 2. (i) Gal. iii. 28.

ond â phawb ac ſy 'n galw ar enw ein Harglwydd Ieſu Grift ym mhob llê, o'r eiddynt hwy a ninnau (k): Ac yr ydym trwy hyfryd obaith yn rhagflaenu 'r diwrnod gogoneddus hwnnw, ym mha un y bydd y gymmanfa 'n gyflawn, ac y cawn fod yn dragywyddol gyda 'r Arglwydd (l). Trwy 'r pethau hyn fe 'n tueddir i ymwadu â ni ein hunain, ac i godi 'r groes i ganlyn ein Harglwydd croeſhoeliedig (m): Ni gawn ein rhwymo i wneuthur a allom trwy weddi, a phob rhyw foddion addas i ddwyn ymmlâen ddaioni ei ganlynwyr a'i gyfeillion; i weini i'r ſawl a brynodd efe a'i briod waed, ac a fyddant ei gymdeithion ef a ninnau yn y gogoniant byth.

§ 5. Y mae ein prynwr bendigedig ym mhellach wedi ordeinio a gorchymmyn, i aelodau 'r fath gynnulleidfaoedd fod yn dyner ofalus i geiſio dwyn ymmlâen ddaioni yſprydol naill y llall. Ac i'w eglwyſydd gael eu cadw 'n bûr ac yn ſanctaidd; iddynt *dynnu ymaith* oddiwrth bob brawd ac a fo 'n rhodio 'n afreolaidd (n); i *graffu* ar yr rhai ſy 'n peri *anghydfod* yn eu plîth, yn erbyn yr athrawiaeth a ddyſgaſant, a *chilio oddiwrthynt* (o); ac os bydd neb heb ufuddhâu i'air Criſt trwy ei apoſtolion, i beidio *cymdeithaſu* ac ef, fel y *cywilyddio* (p); na bo iddynt i *gŷd-fwytta* gyda 'r ſawl ſy 'n *afreolaida* yn eu buchedd; ond i'r gwrthwyneb, i fwrw y dynion drygionus hynny *ymaith o'u plith* (q). Y mae yn eglur gan hynny, fod y cymmanfaoedd a'r goſodedigaethau hyn yn tueddu 'n fawr i anrhydedd criſtianogaeth, a llês y ſawl ſydd yn ei phroffeſu. Ac am hynny y mae pob rhyw yſtyriaeth o'n rhwymedigaethau i ufuddhâu i'n Harglwydd, ac o'r angenrheidrwydd o ddoeth ofalu am ein daioni ein hunain, a llês ein brodyr, yn galw ar bawb ac ſy

K 2 'n *caru*

(k) 1 Cor. i. 2. (l) 1 Theſ. iv. 17. (m) Mat. xvi. 24. (n) 2 Theſ. iii. 6. (o) Rhuf. xvi. 17. (p) 2 Theſ. iii. 14. (q) 1 Cor. v. 11, 13.

'n *caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn gwirionedd*, i gyduno â chymmanfaoedd y saint, yn y weithred syml hon o gymmuno ar y bwrdd sanctaidd.

§ 6. YR wyf gan hynny yn attolygu arnat, ac os gallaf ryfygu dywedyd felly, yn ei enw a'i awdurdod ef, yr wyf yn *gorchymmyn*, na bo i'r ordinhâd hon o eiddo ein Harglwydd croesholiedig, gael ei gosod heibio gennyt ti fel peth *dilès*: Ond os wyt yn ei garu ef, boed i ti yn gydwybodol gadw, ïe y *gorchymmyn hwn*, fel y lleill o'i eiddo. — Mi wn dy fod yn barod i ffurfio gwrthddadleuon: Ac fe ddarfu i mi mewn man arall atteb llawer o'r rhai mwyaf grymmys o honynt *, ac yr wyf yn gobeithio nid yn ofer. — Y cwestiwn mawr yw, *Pa un a th fod yn gymmwys*: Ac mewn cydgordiad â'r hyn y soniwyd am dano ymmlâen llaw, yr wyf yn meddwl fod yn hawdd i benderfynu y peth hyn yn fuan. A oeddyt ti, mor belled ac yr wyt yn adnabod dy galon, yn ddiragrith, pan *roddaist dy hun yn buyllog i Dduw trwy Grist*, yr hyn a orchymmynais i yn y bennod o'r blaen? Os felly (pa un ai fod trwy 'r gwefn y roddais ger dy fron, neu nid oedd) yr wyt yn sicr wedi cymmeryd gafael ar y *cyfammod* ac am hynny y mae gennyt *hawl i'r sêl* a berthyn iddo. — Ac nis gelli wrthddadleu yn erbyn yr ordinhâd hon ar unrhyw olwg arall. Os wyt yn chwennych *cofio marwolaeth Crist*; os wyt yn chwennych adnewyddu dy ymroddiad o honot dy hun i Dduw trwyddo ef; os wyt yn chwennych ymlistio dy hun i blîth ei bobl ef; os wyt yn ewyllysio eu caru, a gwneud y daioni a allech iddynt; ac ar y cwbl, os wyt yn bwriadu na fyddech byw mewn unrhyw ymarferiad pechadurus, nac yn yr ommeddiad o unrhyw ddyledswydd, yna mi a anturiaf yn hŷ i ddywedyd, nid yn unig fod i ti roeso i'r

* Gwel y *budwrydd* bregeth o'm heiddo i *ar bobl ieuainge*.

i'r ordinhâd, ond ym mhellach, ei bod wedi ei *gofod i'r fath ac ydwyt ti.*

§ 7. Mewn perthynas i wrthddadleuon eraill, y mae ychydig o eiriau yn ddigon mewn ffordd o attebiad. Y mae 'r *gwendid o egwyddorion crefyddol* yn dy enaid, os ydynt wedi eu gwîr blannu yno, mor belled o fod yn rheſwm yn erbyn ceiſio eu cryfhâu trwy 'r cyfryw foddion, fel y mae yn hytrach yn dangos yn y modd cadarnaf, yr angenrheidrwydd o hynny. Yr yſtyriaeth o fod yr ordinhâd hon yn cael ei *heſgeulujo* gan gynnifer o'r rhai ac ſy 'n galw eu hunain yn *griſtianogion*, a ddylai ennyn dy ſêl di yn fwy droſti, gan ei bod fel hyn yn cael ei dibriſio. — Ac am yr ofnau o chwanegu 'th euogrwydd trwy *wrthgiliad*, paid a'u llettua hwynt. Fe all dy ufudd-dod yn hyn trwy ddwyfol râs, fod yn feddyginiaeth o'r drwg yr wyt yn ei ofni; ac y mae 'n ſicr, ar ol yr hyn oll a wybuaiſt ac a deimlaiſt yn barod, cyn dy ddwyn i'th amgylchiad preſennol (fel y cymmerais yn ganniattaol) nad oes dim llê i feddwl am dynniad yn ol; dim llê hyd yn oed i'r gobaith truenus hynny, o fod yn llai 'th boenau, na 'r cyffredinolrwydd o'r ſawl a gollwyd. Rhaid i ti gan hynny, wneuthur dy iechydwriaeth mor *ſicr*, ac mor *ogoneddus*, ac yw boſſibl: ac ni wn i am un appwyntiad o eiddo ein prynwr bendigedig, ac ſydd yn tueddu yn fwy cyſſurus i'r diben gogoneddus hwn, na 'r ordinhâd hon, i ba un yr wyf yn dy annog iddi.

§ 8. Un peth yr wyf o leiaf yn ſefyll am ei gael, ac nis gallaf weled gyda pha wyneb y gelli ei naccâu ef i mi; ſef, *i gymmeryd o honot y matter hyn mewn modd difrifol at dy yſtyriaeth.* I ymofyn yn gydwybodol, a oes un rheſwm i gredu, mai ewyllys Duw yw i ti ddyfod yn awr i'r ordinhâd hon, ai nad yw: Ac i ti barhâu 'th fyfyrdodau, dy ymofyniadau, a'th weddiau, hyd oni chaffech annogaeth

pellâch i ddyfod, os yw 'r fath annogaeth yn angenrheidiol hyd yma. Canys bydd ſicr o hyn, ſef, fod y cyflwr ym mha un yr wyt yn anghymmwys i ddyfod i'r ordinhâd hon, yn gyflwr ac ſydd yn amddifad o'r parottoadau angenrheidiol i angeu a'r nefoedd; ym mha un gan hynny, os nad ydwyt yn ewyllyſio huno a heppian ar geulan diſtryw, ni ddylit orphwys gymmaint ac un diwrnod.

GWEDDI *i un ac ſydd yn gwîr ddymuno dyfod i Fwrdd yr Arglwydd, etto dan rai amheuon ynghylch ei hawl i'r ordinhâd honno.*

'O ARGLWYDD bendigedig, yr wyf yn dy 'glodfori di am dy ddoeth a'th raſol ap-'pwyntiadau, i'r diben o gynnyddu dy eglwys mewn 'ſancteiddrwydd a chariad. Yr wyf yn diolch am 'i ti orchymmyn i'th weiſion i ffurfio eu hunain yn 'gynnulleidfâoedd; ac yr wyf yn clodfori 'r iach-'awdwr graſlawn, yr hwn a appwyntiodd, megis 'â'i anadl ddiweddaf, ei *ſwpper ſanctaidd*, i fod trwy 'bob oes yn goffadwriaeth o'i farwolaeth, o gariad 'at eneidiau, ac yn rhwymyn yr undeb hynny, y 'mae ei fawredd yn ewyllyſio i'w bobl gynnal yn 'eu plîth. Yr wyf yn gobeithio y gallaf dy alw di, 'O Arglwydd, yn dŷſt o 'm dymuniad diragrith i 'allel rhoddi fy hunan i ti; ac y gallaf dy alw 'n 'dŷſt ar fy enaid, mai os wyf yn awr yn petruſo 'ynghylch y modd arbennig hyn o wneuthur felly, 'nad wyf ddim yn gwneuthur hynny o achos fy 'mod yn chwennych torri un o'th orchymmynion, 'na dibriſio un o'th fendithion. Yr ydwyf yn 'hyderu dy fod yn gwybod, fod fy ymaros hwn 'yn cyfodi yn unig oddiwrth y diffyg o ddeall fy 'nyledſwydd; ac ofn i halogi pethau ſanctaidd, 'trwy *ddyfodiad anghymmeradwy*. Etto, Arglwydd, 'y mae 'n ddiammau gan i ti roddi i mi barchus

'olwg

'olwg ar dy orchymmynion, a dymuniad o gael
'cymmundeb â thi, ynghŷd a boddlonrwydd i
'roddi fy hun yn hollol i'th wasanaeth, y gallaf
'edrych ar hyn fel *arwydd* er daioni, o'th fod yn
'foddlon i fy nerbyn i, ac nad wyf yn gwbl an-
'addas i'r ordinhâd, pa un yr wyf yn anrhydeddu
'mor fawr, ac yn ddymuno mor daer. Yr wyf
'gan hynny, y dŷdd heddyw yn oſtyngedig yn
'dymuno arnat, O Arglwydd, i'm dyſgu i adna-
'bod fy nyledſwydd, ac yn raſol i ddangos y ffordd
'ym mha un y dylwn rodio. Hola fi, O Arglwydd,
'a phrawf fi, chwilia fy *arennau a'm calon* (r)! A
'oes un rhyw bechod dirgelaidd, i garu ac i
'wneuthur pa un yr wyf yn foddlon? A wyf
'yn torri un o'th orchymmynion o wirfodd ac o
'egwyddor? Yr wyf yn gobeithio y gallaf dy alw
'di 'n dŷſt, nad oes. Na âd i mi gan hynny,
'ddrygu fy enaid fy hun trwy abſennu yn becha-
'durus ac yn ddiachos oddiwrth dy fwrdd ſanct-
'aidd! Ond pâr, O Arglwydd, yr ydwyf yn
'attolygu arnat, i'th air, dy ragluniaeth, a'th
'yſpryd, gŷdweithio, i'r diben o wneud fy ffordd
'yn waſtad (s)! Gwaſgara 'r amheuon ſydd yn
'aros ar fy meddwl, os wyt yn eu gweled yn ddi-
'ſail! Llanw fi â ffŷdd ſicrach, ac o gariad mwy
'gwreſog; a dadleu dy achos â'm calon yn y fath
'fodd, fel na bo hi yn abl i aros yn hwy rhag
'agoſhâu at dy fwrdd; yr hyn, os wyf yn waſanae-
'thwr i ti, yw fy nyledſwydd yn gyſtal a'm braint!
'Yn y cyfamſer, na âd i hyn fod yn hîr allan o'm
'meddwl ar un prŷd; ond boed i mi allel rhoddi
'pob diwidrwydd, os oes ettê unrhyw achos o
'amheuaeth, i geiſio ei ſymmud, trwy fwy ſerch-
'iadol ofal i ochelyd pob rhyw beth ac fo yn
'annymunol yngolwg dy ſancteiddrwydd, ac i
'gyflawn arferyd pob dyledſwydd! Boed i'r olwg

(r) Salm xxvi. 2. (s) Diar. xv. 19.

'ar Grift croeſhoeliedig, yn beth cynnefin i fy 'meddwl, a boed teimlad o'i gariad yn marw dros 'bechod, i gymmell fy enaid yn y fath fodd galluog, 'fel y bo i'm profiad fy hunan trwy fyned ar 'gynnydd, i brofi tu hwnt i bob dadl, mai myfi 'yw un o'r ſawl y trefnwyd y wlêdd hon o gariad 'ar eu llês!

'A mi a ddymunwn yr awr hon (gan fy mod 'yn un â'th eglwyſi yn yr Yſpryd, a chariad, er 'nad wyf trwy 'r fath rwymyn agos ac eglur ac 'y chwennychwn) i weddio o'm calon, ar i'th 'fendith fod ar dy holl bobl: Portha 'th etifeddiaeth, 'a derchafa hwynt yn dragywydd (t)! Boed i 'bob cymdeithas griſtianogol gynnyddu mewn 'gwybodaeth, ſancteiddrwydd, a chariad! Boed 'i'th holl offeiriaid gael eu gwiſgo ac iechywdwri-'aeth, fel y bônt yn foddion i wneud dy holl dde-'wiſedig bobl yn llawen (u)! A boed cynnydd ar 'dy eglwyſydd ym mhob man, trwy fod dynion yn 'ehedeg attynt, fel cwmmwl, ac fel colommennod 'i'w ffeneſtri (w)! Boed i'th fwrdd, O Arglwydd, 'fod yn gyflawn o wahoddedigion (x); ïe, boed i 'bawb a garant dy iechydwriaeth, a phawb a 'garant lwyddiant dy weiſion, ddywedyd, mawr-'yger yr Arglwydd (y)! Ac yr wyf yn taer weddio, 'ar fod pawb ac ſy 'n proffeſu iddynt dderbyn 'Crist Iesu *yr* Arglwydd, iawn ofalu *i rodio* '*ynddo* (z); ac i'n bod ni oll yn ymbarottoi erbyn 'yr amſer y caffom fyned at gynnulleidfa 'r rhai 'cyntaf-anedig, gyda 'r rhai y cawn uno yn yr addo-'liad mwy gogoneddus ac agos hynny at Dduw, 'pan fo 'r holl gyſgodau hyn yn cael eu goſod 'heibio; llê na bo rhaid wrth yr arwyddion hyn ym 'mhellach; ond y prynwr byw, a phreſennol fydd 'yn

(t) Salm xxviii. 9. (u) Salm cxxxii. 16. (w) Eſay lx. 8.
(x) Mat. xxii. 10. (y) Salm xxxv. 27. (z) Col. ii. 6.

'yn achos o lawenydd tragywyddol y rhai hynny,
'a gymmeraſant bleſer, tra yma yn ei abſennoldeb,
'i goffâu ei farwolaeth ef trwy gyſgodau! *Amen.*'

PENNOD XIX.

Rhai Hyfforddiadau mwy neillduol er mwyn cynnal Cymmundeb gwaſtadol â Duw, neu aros yn ei ofn ar hŷd y Dŷdd.

§ 1. YR wyf yn gobeithio fod y darllenydd erbyn hyn, trwy ddifrifol yſtyriaeth, hunan ymholiad, a gweddi, wedi dyfod i'r penderfyniad o agoſhâu at fwrdd yr Arglwydd, ac felly i ſelio ei addunedau yno. Mi a gymmeraf yn ganniattaol fod y peth ſyml hynny wedi ei gyflawnu 'n barod, neu o leiaf fod rhyw weithred bwyllog wedi ei gwneuthur, trwy ba un y rhoddodd ei hun i waſanaeth Duw; ac mai ei ofal preſennol yw, pa fodd i rodio yn ol ei addunedau i Dduw. Yn awr, er mwyn ei gynnorthwyo ym mhellach yn hyn, heblaw 'r olwg gyffredinol a roddais yn barod o ymarweddiad a thymmer y criſtion, mi gâf roddi rhai hyfforddiadau mwy neillduol, tuag at gynnal yr ymarweddiad duwiol, yſprydol, a nefolaidd hynny, ac a elwir, yn iaith yr yſgrythur, *rhodio gyda Duw, neu aros yn ei ofn ef ar hyd y dŷdd* (a). Ac ni wn i pa fodd i oſod allan fy meddwl yn y matter hwn yn well, na thrwy 'r llythr a 'ſgrifennais at ŵr ieuangc o fawr dduwioldeb, yn y flwyddyn 1727, â pha un yr oedd i mi y pryd hynny, gyfeillgarwch enwedigol; yr hwn, er mawr alar i bawb a'i hadwaenant ef, fu farw ym mhen ychydig o fiſoedd wedi ei dderbyn. Er hynny,

(a) Diar. xxiii. 17.

hynny, ſe fu fyw, yr wyf yn gobeithio, yn ddigon hîr i oſod yr *hyfforddiadau* mewn *ymarferiad*; yr hyn wyf yn chwennych, ac yn gweddio i bob *darllenydd* allel wneuthur, yn ol fel y bont yn gymmwys i'w gyrhaeddiadau a'i amgylchiadau mewn bywyd; gan eu hyſtyriaid hwynt wedi eu danfon megis atto ef yn unig. — Yr wyf yn dywedyd (ac yn dymuno i hynny gael ei yſtyriaid) fy mod yn chwennych i'm darllenydd weithredu yn ol yr hyfforddiadau hyn, *mor belled ac y bont yn gweddu i'w gyrhaeddiadau a'i amgylchiadau mewn bywyd*; canys yr wyf ym mhell o feddwl goſod i lawr y pethau canlynol fel rheolau cyffredin i *bawb*, neu i un dŷn yn y bŷd, *ar bob amſerau*. Boed i'r ſawl a allant, eu harfer, pan gaffont gyfleuſtra: A phan na allont eu harfer hwynt oll, etto boed iddynt arfer yr rhai mwya 'u pwys fel y bo gweddus. Gyda 'r fath ocheliad, yr wyf yn myned rhagof at y *llythr*; yr hwn, fel yr wyf yn gobeithio, ni bydd yn achos o wangalonni hyd yn oed y *gwannâf o griſtianogion*, gan i mi ofalu ymmlâen llaw, yn erbyn y perygl o'i gamddeall ef. Boed i ni yn oſtyngedig ac yn llawen wneuthur ein goreu, a gorfoleddu, o blegid fod i ni *dâd mor raſol*, yr hwn a adnebydd ein gwendidau; a'r fath *arch-offeiriad toſturiol*, ac ſy 'n cyflwyno y gwannaf o'n hymdrechiadau diragrith o ddyledſwydd a chariad, yn gymmeradwy ger bron Duw!

Fy anwyl Gyfaill,

GAN i chwi ddymuno gael fy meddyliau yn helaeth ac yn yſgrifennedig ar y peth y buom yn ymddiddan yn ddiweddar yn ei gylch, ſef, 'Pa ryw bethau a ddylem ni ſylwi arnynt mewn mŏdd neillduol yn ein buchedd o ddŷdd i ddŷdd, i'r diben o ſicrhâu a dwyn ymmlâen *fywyd o dduwioldeb ac o ddefnyddgarwch?*' Yr wyf yn rhoddi fy hun gyda llawenydd

llawenydd, i adgofio ac i ddoſbarthu yr ychydig bethau a ddywedais wrthych ar y pryd hynny; gan obeithio y bydd hyn o fendith i chwi yn yr achos mwya 'i bwys: ac y bydd hefyd yn foddion i ſefydlu ar fy meddwl fy hun deimlad mwy dyfn o'm rhwymedigaethau i drefnu fy mywyd yn ol y rheolau ac yr wyf yn eu rhoddi o flaen eraill.—Yr wyf yn cyfrif ymdrechiadau o'r natur hyn, rhai o'r ffrwythau mwyaf dymunol, a'r rhwymau cadarnaf o gyfeillgarwch; ac fel yr wyf yn gobeithio fod ein cyfeillgarwch ni i *bara byth*, yr wyf yn credu i *ofal o'r ddeutu i faithrin* y cyfryw beth, fod yn foddion i 'chwanegu at gyfeillgarwch, *anwylder tragywyddol.*

§ 2. Yr hyfforddiadau a ddiſgwyliwch oddiwrthyf fi, ar yr achlyſur hwn, ydynt yn ymrannu yn naturiol i'r *tri phen* canlynol. Sef, pa fodd y mae i ni ymddŵyn tuag at Dduw,—yn *nechreu*,—trwy *gorph*,—ac ar *ddiwedd* y dŷdd. Mi a ddywedaf fy meddyliau yn eglur ynghylch pob un o'r pennau hyn, gan adael i chwi farnu pwy mor belled y bo 'r hyn a ddywedwyf yn addas i'ch amgylchiadau chwi; ac mi a geiſiaf yn y cwbl, i gerdded y ffordd ganol, rhwng *manylrwydd coelgrefyddol* mewn pethau diſylwedd, ar y naill llaw, a *ſwrth eſgeuluſtra* o bethau pwyſfawr, ar y llaw arall; yr hyn, os dioddefwn i gymmeryd llê mewn pethau bychain, a ddyg ymmlâen eſgeuluſtra mwy pechadurus.

§ 3. (I.) Yn *nechreuad y dŷdd:* Y mae 'n ddiammau y dylem ofalu,—i dderchafu ein calonnau at Dduw, cyn gynted ac y deffrôm, a thra bom yn codi;—ac felly i roddi ein hunain yn ſyml ac yn ddiattreg i gyflawnu 'r dyledſwyddau perthynol i'r *boreu* yn y *dirgel.*

§ 4. Am y cyntaf o'r pethau hyn, fe ymddengys yn bûr naturiol: Canys y mae cynnifer o bethau ac allant beri llawer o ſyfyrdodau a gweddiau

dirgeledd a duwiol, fel y gellid tybiaid nas gallai unrhyw feddwl fyml lai na 'u hyſtyriaid. Tawelwch a ſirioldeb y meddwl pan ddeffrôm gyntaf; y dadebriad a gawſom trwy ein cŵſg; y diogelwch a gawſom pan nas gallaſem amddiffyn ein hunain; y gwiſgoedd gweddaidd a chynnes a drefnodd rhagluniaeth ar ein llês; dychweliad goleuni cyſſurus yr haul; neu hyd yn oed (fel nad yw yn anaddas i grybwyll *i chwi)* yr hyn a ddyfeiſiodd *celfyddyd*, a'r hyn a ddyſgodd, ac a ddarparodd awdwr mawr ein holl gyfleuſterau, er mwyn rhoddi i ni lawer o oriau defnyddiol yn abſennoldeb yr haul; y gobaith o gael dychwelyd i gymdeithas ein hanwyl gyfeillion, ac o dreulio un dŷdd yn ychwaneg yngwaſanaeth Duw, ac i ddiwigio ein meddyliau ein hunain; ac uwchlaw 'r cwbl, y gobaith bywiol o adgyfodiad gorfoleddus i dragywyddol ddŷdd o happuſrwydd a gogoniant: Un o'r pethau hyn, ynghŷd â llawer eraill nad wyf yn enwi, a allant ein llanw o gyſſurus *fyfyrdoadu* ac o *fawl*, tra yr ydym yn cyfodi. Ac er mwyn ein cynnorthwyo ym mhellach, tra fom wrthym ein hunain, mae 'n boſſibl nas bydd yn anaddas i ni weithiau *lefaru* wrthym ein hunain, ac wrth ein Tâd nefol, trwy 'r ymadroddion naturiol hynny o *lawenydd* a *diolchgarwch*. Canniattewch i mi, *Syr*, i 'chwanegu, mai os bydd i ni gael ein calonnau yn y fath hwyl ar ein deffroad cyntaf, fod *hynny* yn achos cyfiawn o ddiolchgarwch, a hynny 'n fwy, gan fod y fath hwyl, o boſſibl, yn attebiad o'r *weddi* gyda pha un y gorweddaſom i lawr.

§ 5. TUAG at ddwyn ymmlâen *Grefydd ddirgelaidd* yn y boreu, yr hyn a obeithiaf fydd ein gwaith cyntaf, nis gallaf oſod i lawr un rheol berffaith i *arall*. Rhaid i chwi, fy nghyfaill, mewn meſur ſylwi ar eich tueddiad eich hun. Y mae holl rannau 'n gwaſanaeth yn gynnwyſedig yn y drefn gyffredinol.

gyffredinol. A phe bawn i yn gofod i lawr unrhyw *drefn neillduol*, i'r fawl ac y mae ganddynt chwarter neu hanner awr i dreulio fel y mynnont yn y boreu, (yr hyn a all fod gan y rhan fwyaf o ddynol-ryw, os ymddygant yn ddoeth) mi a orchymmynwn iddynt yr hyn a ganlyn.

§ 6. I ddechreu *defoſiynau* 'r dŷdd trwy fyml *ddiolchgarwch*; a hynny ar eu gliniau gerbron Duw, ac yn gyffredin trwy leferydd iſel, deallądwy; gan gydnabod y trugareddau y buont yn eu hyſtyriaid tra 'r oeddent yn codi; heb byth anghofio cry-bwyll am Grist, yr hwn yw cadarn ſylfaen ein holl fendithion a'n holl obaith; nag anghofio diolch am ddylanwadau 'r Yspryd benđigedig, pa rai a dynnaſant eu calonnau at Dduw, neu fydd y pryd hynny yn eu rhwymo hwynt i'w geiſio ef. Ac y mae 'n rhaid i hyn, yn gyſtal a'r cyflawniadau rhagllâw, gael ei wneud mewn modd difrifol a diragrith; canys y mae peidio clodfori Duw o'n calon, yn ei olwg ef yr un peth a phe baem yn byw heb ddiolch iddo holl. Mae 'n addas i ddibennu 'r weithred hon o ddiolchgarwch, gydag eglur adnewyddiad o'n cyfammod â Duw, gan ddangos ein bwriadau i ymroddi iddo 'n barhaus, ac yn neillduol i fyw i'w ogoniant ef trwy 'r dŷdd a ganlyn.

§ 7. Wedi hyn, fe fydd yn gymmwys i gymmeryd golwg ar y dŷdd o'n blaen, mor belled ac y gallom ar y cwbl ragweled pa fodd y bo iddo gael ei dreulio; ac yſtyriaid yn bryſur, ac i ymofyn, pa beth a allaf wneuthur dros Dduw y dŷdd hwn? Pa beth fydd yn galw? Pa gyfleuſterau allaf ddiſgwyl gael, i dderbyn neu i wneuthur rhyw ddaioni? Pa demtaſiynau fydd yn debyg o'm cyfarfod, yn unrhyw lê, gyfeillach, neu amgylchiad? Ym mha bethau y bum yn feius yr amſer aeth heibio? A pha fodd y diogelaf fy hun oreu yn awr?

§ 8.

§ 8. Ar ol cymmeryd y fath olwg, fe fydd yn gymmwys i gyfeirio gweddi fer at Dduw, ac i deisyf arno i'n bywiogcâu i gyflawnu y dyledswyddau rhagweledig, ac i'n cynnorthwyo yn erbyn pob rhyw bergyl; i attolygu arno 'n llwyddo ym mhob gorchwyl a gymmerom yn llaw, er ei ogoniant ef; ar iddo hefyd roddi nerth i ni i iawn ddefnyddio pob cyfleusterau ac nad ydynt etto yn weledig, i wrthwynebu pob profedigaeth, na wyddom etto am danynt; ac i ddioddef mewn modd crefyddol ac amyneddgar, yr holl drallodion ac allant ein cyfarfod ar hyd y dydd.

§ 9. Mi 'th cynghorwn ym mhellach, i ddarllain rhyw ran o'r ysgrythur; nid llawer ar yr unwaith; na chwaith yr holl Fibl o'i fron; ond rhai rhannau ac a allent fod yn fwyaf defnyddiol; deg neu ddeuddeg o adnodau fydd, o bosibl, yn ddigon ar y tro, heb achos blino eich hun ynghylch eu cydsynniad, ac esponiadau cywraint, pa rai allant ddyfod yn eich ffordd, (er y cynghorwn i chwi fylwi ar y cyfryw bethau ar amserau eraill, yn ol eich gallu a'ch cyfleustra;) ond i'w hystyriaid mewn modd defosionol ac ymarferol yn unig. Cymmerwch yn y modd hyn, y cyfryw addysgiadau a ymgynnigont hawsaf i'ch meddyliau, ac adroddwch hwynt i'ch cydwybod, a gorchymmynwch i'ch calon mewn modd crefyddol i'w hystyriaid hwynt ac i fyw yn eu hôl, dan deimlad o'r dwyfol awdurdod sydd yn cydsyned â hwynt. Ac os gweddiwch am fendith ar y cyfryw ran o'r ysgrythur, gan adael y Bibl yn agored o'ch blaen, fe allai y bydd iddo gael dysnach argraff ar eich côf, ac ar eich calon; ac felly roddi i chwi amrywiol a helaethach meddyliau ac ymadroddion mewn gweddi.

§ 10. Fe ellir yn addas benderfynu y cwbl, trwy *Salm* neu *Hymn:* Ac yr wyf yn cŷdlawenhâu â chwi, fod gennym, trwy dduwiol lafur y *Doctor Watts*,

Watts, a beirdd duwiol eraill, y fath gyflawnder o ganiadau perthynol i'r yſtafell ac i'r teulu, ar y fath achoſion a hyn, yn gyſtal ac at waſanaeth y cyſſegr.

§ 11. [II.] Tuag at dreulio *corph* y dŷdd megis ac y dylem, y mae 'r hyfforddiadau canlynol yn ymddangos i mi o fawr bwys: — Sef, ein bod yn ſyml yn ein *crefyddol* gyflawniadau; — yn ddiwyd yn ein *galwedigaethau bydol*, — yn *ddoeth* ac yn *gymhedrol* yn *nifyrrwch* y dŷdd; — yn ſylwi ar *raglumiaethau* 'r dŷdd; — yn gwilio 'n fanwl yn erbyn *profedigaethau*; — yn cynnal bywiol a goſtyngedig *ymddibynniad* ar ddwyfol gynnorthwyon, yn gyfattebol i bob rhyw ddigwyddiad; — yn llywodraethu 'n *meddyliau* 'n iawn, — â'n *hymadroddion* ym mhob rhyw gyfrinach trwy 'r dŷdd. Dyma, *Syr*, bennau y bregeth a glywſoch fi 'n bregethu yn ddiweddar ar yr achlyſur hwn, am ba un y crybwyllaſoch yn eich cais, yr hwn wyf yn awr yn geiſio ei atteb. Mi a ſylwaf yn fyr gan hynny, ar y pethau mwyaf pwysfawr a berthynant i bob un o'r pennau neilldual hyn.

§ 12. [i.] I'r diben o ddwyn ymmlâen ein crefyddol gyflawniadau gyda *ſymlrwydd*, pa un bynnag ai cyhoeddus ai teuluaidd, boed i ni gymmeryd rhai munudau, cyn yr elom yn eu cylch hwynt, i ſyſyrio ar briodoliaethau y Duw yr ydym yn myned i ymddiddan ac ef; ar bwys y gorchwyl yr ydym yn myned yn ei gylch; ar y bûdd a'r pleſer ſydd o reolaidd a difrifol gyflawniad o hono; ac hefyd ar yr euogrwydd a'r ffolineb o gario ymmlâen ryw *ffurfioldeb rhagrithiol*. Pan fôm ar y cyflawniad, boed i ni gadw gwiliadwriaeth fanwl ar ein hyſprydoedd, ac i geiſio attal crwydriad cyntaf y meddwl. — A phan bo 'r ddyledſwydd *droſodd*, boed i ni 'n ddiattreg ymofyn, pa fodd y cafodd ei chyflawnu, gan ofyn i'n cydwybodau, a oes gennym lê i benderfynu

derfynu ein bod yn gymmeradwy gyda Duw ynddi? Canys y mae 'n boſſibl *cyflawnu* 'r dyledſwyddau hyn yn y *fath fodd*, ac y bo 'n calonnau yn uniawn yn dywedyd wrthym, fod yn amhoſſibl i ryngu bodd Duw: Ac os bu i ni yn ddiſulw, gwympo i'r fath gyflwr, ni a ddylem ymoſtwng yn ddyfn o flaen Duw, rhag bod hyd yn oed *ein gweddi yn bechod ger ei fron* (b).

§ 13. [ii.] Am yr oriau perthynol i *achoſion bydol*, pa un bynnag y byddom, ai gweithio â'n dwylaw neu ymboeni mewn rhyw rannau o ddyſgeidiaeth, na bônt yn ſefyll mewn cyſſylltiad uniawn-gyrchol â chrefydd; boed i ni fyned ynghylch, ac i ddwyn ymmlâen y cyfan, gyda theimlad o awdurdod Duw, a chyda golwg at ei ogoniant. Boed i ni ymgadw rhag tymmer freuddwydgar, gyſglyd, a ſwrth, ac a fo 'n *heppian* uwch ben ei gwaith, ac felly 'n gwneud ond megis gwaith *awr* mewn yſpaid dwy neu dair. Ond yn wrthwyneb i hyn, ac ſydd megis yn rhedeg trwy holl fywyd rhai dynion, pa rai ſy 'n tybiaid nad ydynt byth yn ſegur, boed i ni geiſio gwneud cymmaint ac a allom yn gymmwys, mewn ychydig bach o amſer; gan yſtyriaid nad oes gan neb o honom fawr o amſer i fyw. A boed ynnom deimlad crefyddol o'r angenrheidrwydd o *fendith Duw* ar y cwbl, er mwyn cael llwyddiant.

§ 14. [iii.] Mewn perthynas i'r *amſerau o ddifyrrwch*: Boed i ni edrych am fod ein digrifon yn *ddi-bechod*; ac i'n bod yn ymarfer â hwynt i *ddiben ddiben*, ſef, i'n cymhwyſo o newydd i ganlyn ein dyledſwyddau mewn bywyd; ac i ddwyn ymmlâen ogoniant Duw; yr hyn a ddylai fod diben pennaf ein holl weithredoedd. Ni a ddylem ofalu rhag iddynt beri dieithrwch rhwng ein calonnau â Duw; a rhag iddynt ddwyn gormod o'n hamſer: Gan gofio bob amſer, nad yw *gallwedd natur*, a rhagof-

(b) Salm ciz, 7.

rhagorfreintiau 'r Grefydd griſtianogol, wedi eu rhoddi i ni yn ofer; ond y dylem ni bob awr geiſio dwyn ymmlâen ryw ddibenion anrhydeddus; ac felly i ganlyn *digrifwch* a *phleſerau*, ddim pellach nac y bônt yn cydfyned â buchedd reſymmol a gwrol, duwiol, a chymmwynaſgar.

§ 15. [iv.] Ynghylch ſylwi ar *ragluniaethau*; fe fydd yn fuddiol i ni yſtyriaid ymweliad Duw tuag attom, yn ein *cyſſuron*, a'n *cyſtuddiau*. Am ein cyſſuron, ni a ddylem ſylwi pa un a'u bod yn gyffredin neu 'n anghyffredin: Ni a ddylem ryfeddu 'n bod yn cael ein hunain mewn gwaſtadol iechyd; fod gennym y fath gyflawnder o ymborth i'n cynnal; fod gennym gynnifer o ffyrdd i dreulio 'n hamſer mor hyfryd; fod gennym gynnifer o gyfeillion, a rheini mor rhinweddol a happus; fod ein gorchwylion yn myned ymmlâen mor llwyddianus; ein bod yn myned allan ac yn dyfod i fewn mor ddiogel; ein bod yn mwynhâu cymmaint o lonyddwch a ſirioldeb yſpryd, heb yr hyn, nis gallem fwynhâu unrhyw beth arall: Ni a ddylem yſtyriaid hyn oll, fel *rhoddion rhagluniaeth*, gan ddiolch i Dduw am danynt, tra yr ydym yn myned trwy amgylchiadau mor ddymunol. O'r tu arall, ni a ddylem yſtyriaid rhagluniaeth ym mhob rhyw *ſiommedigaeth*, *called*, a *phoen*, ac ym mhob rhyw ymddygiad *angharedig*, oddiwrth y ſawl ac oeddynt yn proffeſu eu hunain yn gyfeillion i ni: Ac ni a ddylem geiſio dwyn ein hunain i ymoſtyngiad amyneddgar, trwy yr yſtyriaeth hon, ſef, fod *llaw Dduw* ynddynt oll bob amſer, naill ai 'n gyfryngol, neu 'n ddigyfrwng; ac os nad ellir yn addas eu hyſtyriaid hwynt yn weithredoedd rhagluniaeth, eu bod er hynny dan *ei llywodraeth*. Ni a ddylem yn neilduol, yſtyriaid hyn mewn perthynas i ddigwyddiadau a chroeſau *bychain* (fel ac yr ŷm yn barod i galw hwynt) a'r ffoledd a'r gwendidau hynny

ſy

yn nhymmer ac ymarweddiad ein cyfeillion anwylaf, yr hyn os amgen, a fyddant yn barod i'n terfysgu. Y mae yn ſwy angenrheidiol i ni wilio ar ein meddyliau yn yr achos hyn, o herwydd fod llawer o ddynion *doeth* a *dâ*, yn colli 'r llywodraeth arnynt eu hunain, ar yr achlyſuron hyn ac a elwir mewn cymhariaeth yn *fychain*; pa rai ydynt, trwy gynnorthwy rheſwm a Chrefydd yn abl i gwrthſefyll *drallodion mawr*, yn eon ac yn gadarn.

§ 16. [v.] AM wiliadwriaeth yn erbyn temtaſiynau, y mae 'n angenrheidiol, pan fôm yn newid ein llê, neu 'n gorchwylion, i ofyn, Pa faglau ſydd wedi eu goſod i mi yn y ſefyllfa hon? Ac fel y dylem ofalu yn barhâus i ſylwi ar ein peryglon, felly ni a ddylem wilied yn enwedigol rhag y maglau, a ddarfu i ni eu rhagweled yn y borau. A phan fôm yn myned i'r amgylchiadau hynny, ym mha rai yr ydym yn diſgwyl cyfarfod â'r brofedigaeth, ni a ddylem trwy fyfyrdod ddywedyd, yn enwedig os bydd mewn peth o fawr bwys, — Wele yn awr yr ymryſon yn dechreu: Yn awr y mae Duw, a'r angylion bendigedig, yn ſylwi pa ryw gadernid a dianwadalwch ſydd yn fy enaid i; a phwy mor belled y bydd i ddwyfol awdurdod, a choffadwriaeth o'm gweddiau a'm bwriadau i'm cynnal, pan ddêl y profiad.

§ 17. [vi.] Ac mewn perthynas i *ymorphwyſiad ar ddwyfol râs*, rhaid ei fod yn drwadl: A chan ein bod yn ſefyll mewn eiſiau o hono, ni ddylem ni *byth anghofio* yr eiſiau hynny. Fe all munud a dreulir mewn ymofyniad gwreſog a goſtyngedig, am ddwyfol gynnorthwy, wneuthur mwy o ddaioni, na llawer o funudau a dreulier mewn ffordd o ymreſymmu yn unig: Ac er nas dylai *hyn* gael ei eſgeuluſo, gan mai mâth o ddwyfol lewyrchiad yw goleuni 'r deall; etto ni a ddylem ei ganl, n gyda

iawn

iawn deimlad o'n hymddibynniad ar Dad *y goleuni*, rhag pan dybiom ein hunain yn ddoethaf, i ni fod yn *ofer yn ein rhefymmau* (c). Boed i ni gan hynny, alw ar Dduw, gan ddywedyd yn llê ſiampl pan elom i weddio, 'Arglwydd! Pâr fod fy meddyliau 'n ſefydlog! Bywhâ fy ſerchiadau ſanctaidd, a thywallt arnaf Yſpryd grâs a gweddiau (d).' Pan fôm yn edrych yn y Bibl, neu ryw lyfr da arall, ni a ddylem ddywedyd, bob un o honom, 'Agor di fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith (e)! Goleua fy neall, a gwreſoga fy nghalon! Boed i ti gadarnhâu fy iawn fwriadau, a boed fy holl fywyd yn cael ei drefnu mewn modd addas.' Pan fôm yn myned ynghylch unrhyw orchwyl bydol, ni a ddylem weddio, 'Argwydd, trefna weithred ein dwylaw ynnom (f), a rhô dy fendith ar ein holl ymdrechiadau goneſt!' Pan elom i unrhyw ddifyrrwch, ni a ddylem ddywedyd, 'Arglwydd, bendithia ein holl ddigrifon, ac na âd i ni 'th anghofio di ynddynt, ond boed i ni bob amſer olygu 'th ogoniant!' Pan elom i unrhyw gyfeillach, fe ddylai 'n gweddi fod, 'Arglwyddd, boed i ni yn awr dderbyn a gwneuthur rhyw ddaioni.' Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'n genau, ond y cyfryw ag a fyddo da i adeiliadu yn fuddiol, fel y paro râs i'r gwrandawyr (g). Pan fôm yn myned ynghylch un peth anhawdd, ni a ddylem lefain, 'Arglwydd, dyro i ni ddoethineb ag ſydd ragorol i gyfarwyddo (h); dŷſg i ni dy ffyrdd, O Arglwydd, ac arwain ni ar hŷd lwybrau uniondeb (i)!' Pan fyddom yn ymladd a themtaſiynau, ni a ddylem weddio ar Dduw, gan ddywedyd, 'Boed i'th nerth di, O brynwr graſol, gael ei berffeithio yn ein gwendid (k)!'—Mae 'r *ſiamplau* hyn yn ddigon i egluro

(c) Rhuf. i. 21, 22. (d) Zech. xii. 10. (e) Salm cxix. 18.
(f) Salm xc. 17. (g) Eph. iv. 29. (h) Preg. x. 10.
(i) Salm xxvii. 11. (k) 2 Cor. xvi. 9.

egluro *diben yr hyfforddiad* hwn, er eu bod ym mhell o gynnwys yr holl amgylchiadau, ym mha rai y dylem yn gwbl ymorphwys ar *ddwyfol gynnorthwy*.

§ 18. [vii.] MEWN perthynas i *lywodraethu ein meddyliau yn y dirgel*, boed i ni arfer ein hunain i gadw ein meddyliau dan lywodraeth ddyladwy ar *bob rhyw achoſion*. Boed i ni ymgadw rhag y maglau hynny o eiddo 'r *nwydau*; a gormodol ſerch at unrhyw bethau amſerol, yr hyn a all ein difyddio ni o awdurdod arnynt. Bydded i ni oſod rhyw deſtynau buddiol ger bron ein meddyliau: Megis priodoliaethau 'r bendigedig Dduw; cariad Criſt; gwerthfawrogrwydd amſer; ſicrwydd a phwys angeu a barn, ynghŷd â thragywyddol wae, neu wynfyd, ac ſydd yn canlyn. Boed i ni hefyd yn y cyfamſer, fyfyrio ar yr hyn a wyddom am gyflwr ein heneidiau, fel yn cynnyddu neu 'n gwywo mewn Crefydd; ar y bregeth ddiweddaf y glywſom, neu ar y rhan honno o'r yſgrythur a ddarllenaſom ddiweddaf. — Yma, *Syr*, coſiwch yr hyn y ddywedais wrthych yn ein cyfrinach ddiweddaf; ſef y byddai 'n fuddiol i ni ddewis rhyw adnod o'r yſgrythur yn y boreu, a'i chadw hi mewn côf, gan fwriadu myfyrio arni bob amſer ac y bôm ar golled am fatter o dduwiol fyfyrdod, pan fo gennym hamdden i hynny. Hon a all fod yn fynych, ffynnon, o ba un y gall darddu llawer o bethau buddiol, a dymunol, pa rai, o boſſibl, nis gwelſom o'r blaen, yn y fath rym a chyſſondeb. Pe amgen, mae 'n ſicr gennyf, fod yn llawer gwell i ni adrodd yr un yſgrythur yn ein meddyliau gan-waith yn y dŷdd, gyda rhyw weddiau dirgel wedi eu ffurfio oddiwrthi, na 'u gadael hwynt yn agored i'r amryw bethau diſylwedd, pa rai, os amgen a allant eu llanw; *amrywiaeth* pa rai, nis dichon wneuthur iawn am eu *gwagedd* hwynt.

§ 19. [viii.] YN ddiweddaf, am *lywodraethu ein hym-*

hymddiddanion mewn cymdeithas; ni a ddylem gymmeryd gofal mawr, na bo dim yn diengyd oddiwrthom ac a'n gwradwyddo ni, neu 'n proffes o grifti-anogaeth rhagllâw: Dim a allo ddrygu 'r ſawl a ſo naill yn breſennol, neu 'n abſennol; dim maleiſus, na chelwyddog; dim a allo lygru, dim a allo gyftroi, na dim ac allo gamarwain y ſawl ac fyddo o'n hamgylch. Ac ni ddylem ni, mewn un modd, ymfoddloni am fod yr hyn y ddywedom yn *dainiweid*; ond fe a ddylai fod ynnom ddymuniad i'r cwbl fod yn *fuddiol* i ni ein hunain, ac i eraill. I'r diben hyn, fe weddai fod gennym ryw beth defnyddiol yn barod bob amſer, i ymddiddan yn ei gylch; ac fe all yr hyn a ddywedais dan y pen o'r blaen, ynghylch *addurniadau* 'r meddwl, fod o gynnorthwy yn y matter hwn. Ni a ddylem ddiſgwyl am gyfleuſterau addas, i ddwyn pethau buddiol i'n cyfrinach; ac os bydd i un cyfaill duwiol gynnyg at hyn, ni a ddylem geiſio bod yn *ail* iddo yn ddiattreg. Pan na bo 'n hymddiddanion yn troi yn uniawn ynghylch pethau crefyddol, ni a ddylem, er hynny ymdrechu ei wneud yn lleſol trwy ryw ffordd arall: Ni a ddylem yſtyriaid *ymarweddiad*, a *chymmwyſderau* ein cwmpeini, fel y gallom eu harwain i ymddiddan am yr hyn y maent yn ei ddeall oreu; canys fe all fod ymddiddan am y pethau hynny, yn fwyaf dymunol iddynt hwy, ac yn fwyaf lleſol i ninnau. Ac yn yr amſer y bo diſtawrwydd yn y gyfeillach, ni byddi ddim yn anaddas i anfon gweddiau dirgel a ſanctaidd i fynu at Dduw, am gynnorthwyon ei râs ef i ni a'n cyfeillion, yn ein hymdrechiadau 'n ceiſio gwneuthur daioni, y naill i'r llall.

§ 20. [III.] Yr *Hyfforddiadau* tuag at ddibynnu 'r dŷdd mewn modd crefyddol, a gâf fi yma eu henwi, ydynt y ddau hyn yn unig, — boed i ni 'n gyntaf edrych am fod y dyledſwyddau prydnhawnol yn

yn cael eu *iawn gyflawnu*, — A bydded i ni orwedd i lawr ar ein gwelyau gyda *duwiol dymmer*.

§ 21. (1) AM *dduwioldeb prydnhawnol yn y dirgel*, mi a ſylwaf ar drefn, pa un ſydd ryw beth yn wahanol i'r hon y ſoniais ei bod yn addas yn y boreu; gan yſtyriaid yr amgylchiadau hynny, ac a allant wneuthur cyfnewidiadau na feddyliwyd am danynt, yn addas rai prydiau. — Mi a gynghorwn, *Syr*, yn flaenaf i ddarllain rhan o'r yſgrythur, gyda myfyrdodau addas a gweddi, fel y ſylwais uchod: Wedi hynny i ddarllain hymn, neu ſalm: Ac ar ol hyn, i fyned ynghylch y gwaith o hunan-ymholiad, yr hwn a ddylai gael ei ddibynnu gyda gweddi mwy helaeth, na 'r hon a ganlynodd y darlleniad o'r yſgrythur, yn ol yr hyn a ddigwyddodd yn y dŷdd: Yn y weddi hon at orſedd grâs, fe fydd yn bur addas i ni attolygu ar Dduw i foddhâu ein pechodau o ommeddiad ac o droſeddiad drwy 'rd ŷdd; i ddiolch iddo am drugareddau tymhorol ac yſprydol; i roddi ein hunain i'w ofal dros y nôs fydd yn canlyn; i weddio dros eraill, pa rai y ddylem ddwyn ar ein calonnau ger ei fron ef; ac yn enwedig, y cyfeillion y buom yn cyfrinachu â hwynt y dŷdd o'r blaen, pa un ai yn berſonnol neu trwy lythyrau. Fe allai y digwydd llawer o bethau eraill nas darfu i mi eu crybwyll, ac a fo 'n addas i'w gwneud yn fatter o'n gweddiau y boreu a'r hŵyr; ond nid wyf yn gweled yn angenrheidiol mewn un modd i enwi 'r cwbl ar yr achlyſur preſennol.

§ 22. CYN yr ymadawyf â'r pen hwn, rhaid i mi gymmeryd fy rhydd-did i ddwyn ar gôf i chwi, fod *hunan-ymholiad* yn beth o gymmaint bwys, fel ac y bydd yn lleſol i ni ymadroddi 'chydig yn ei gylch. Ac y mae mor hawdd, fel (pan fo gennym gweſtiwnau cymmwys o'n blaen) y gall unrhyw ddŷn o ddeall cyffredin obeithio trwy ddwyfol fendith, i fyned trwyddo, gyda buddioldeb. Yr wyf

yn

yn cynnyg i chwi gan hynny, y cweſtiwnau canlynol; y rhai 'r wyf yn gobeithio, y gedwch yn agos attoch, er mwyn ymarfer â hwynt o ddŷdd i ddŷdd; gan wneuthur y cyfryw gyfnewidiadau a fo i chwi 'n farnu 'n gymmwys. — 'A ddeffroais i gyda Duw 'r boreu heddyw, gan gyfodi dan ddiolchgar deimlad o'i ddaioni ef? — Pa fodd y cafodd duwioldeb yr yſtafell ei dwyn ymmlàen y boreu hwn? — A offrymmais i foliannau difrifol, ac a adnewyddais i yr ymroddiad o honof fy hun i Dduw, gydag aſtudrwydd, a ſerchiadau cymmwys? — A fu i mi amcanu dwyn ymmlàen waith y dŷdd, yn ddoeth ac yn ddâ? — Pa fodd y ddarllenais yr yſgrythur, a llyfrau duwiol eraill? Oedd y darlleniad yn gwneud daioni i'm calon, neu a oedd y cwbl ddim ond *difyrrwch* yn unig? — Pa fodd y bu i mi gyflawnu dyledſwyddau Crefydd, pa rai a oeddynt yn orphwyſedig arnaf y dŷdd hwn, yn y teulu neu yn y cyhoedd? A gyflawnais i orchwylion y dŷdd yn ddiwyd ac mewn modd yſprydol; gan wneuthur pob peth yn *amſerol*, gyda *brys*, ac megis i'r ARGLWYDD (l)? Pa faint o *amſer* y *gollais* i heddyw, yn un rhan o'r dŷdd; a pha beth oedd yr achos o'i golli; Gyda pha ryw dymmer, a chyda pha reolau, y bu i mi ganlyn *pleſerau* 'r dŷdd hwn? A ſylwais i ar law Duw yn fy holl *drugareddau*, megis iechyd, firioldeb, ymborth, gwiſgoedd, llyfrau, diogelwch mewn teithiau, llwyddiant mewn gorchwylion, cyfrinach a chymmwynaſgarwch fy nghyfeillion, *&c.*? A welais i ei law ef yn fy *nghyſtuddiau*, yn enwedig mewn *pethau bychain*, pa rai oeddynt yn tueddu i'm gofidio ac i'm haflonyddu? A chan yſtyriaid ei ragluniaeth ef ym mhob peth, a dderbyniais i fy nghyfluron a'm trallodion, mewn modd diolchgar a goſtyngedig; Pa fodd y bu i mi wilio rhag temtaſynau 'r dŷdd, yn neillduol rhag y profedigaethau

(l) Col. iii. 23.

thau a ragwelais yn y boreu? A ddarfu i mi orphwys yn oſtyngedig ar ddwyfol gynnorthwy? A fum i byw trwy ffŷdd ym MAB DUW (m), gan barchu Criſt fel fy athro, fy mrenin, fy nghymmod a'm heiriolwr, fy ſiampl a'm bugail, fy nerth a'm rhagflaenor? A fu i mi heddyw edrych ymmlâen ar angau a thragywyddoldeb, gan yſtyriaid fy hun ar brofiad am y nefoedd, a thrwy râs yn diſgwyl am dani? A lywodraethais i fy meddyliau 'n iawn, yn enwedig yn y dirgel? Pa ryw deſtyn y ddewiſais i fyfyrio arno heddyw, a pha fodd y bu i mi fyfyrio arno? Pa fodd y bu i mi lywodraethu fy ngeiriau heddyw, yn y cyfryw a'r cyfryw gyfillach? A ddywedais i ryw beth yn llidiog, yn faeleiſus, yn enllibaidd, yn annoeth, neu yn ammherth'naſol? A fu 'm calon y dŷdd hwn yn llawn o gariad at Dduw, a holl dynol-ryw; a *ymofynnais* i am, ac a *gefais i*, *gyfleuſterau* i wneuthur neu i dderbyn rhyw ddaioni, gan ddefnyddio 'r unrhyw, y dŷdd hwn? — Gyda pha leſhâd ac aſtudrwydd y darllenais i yr yſgrythur y prydnawn hyn? Pa fodd y cyflawnais y ddyledſwydd o *hunan-ymholiad neithiwr*; a pha ſûdd a dderbynniais i oddiwrth y ſylwiadau a wneuthum y pryd hynny, ar fy eſgeuluſtra a'm camſynniadau gynt; Gyda pha fath dymmer y gorweddais i lawr, ac y rhoddais fy hunan i gyſgu?'

§ 23. [ii.] CHWI a welwch yn hawdd, *Syr*, fod y cweſtiynau hyn wedi eu goſod i lawr yn y fath fodd, fel ac y maent yn dalfyrriad o'r holl hyfforddiadau mwyaf ſylweddol ac a roddais yn y llythr hwn; ac yr wyf yn credu, nad oes achos i mi ddywedyd dim am ddefnyddioldeb y fath ymofyniadau, wrth un o'ch dealldwriaeth chwi. Fe fydd i gydwyſod eu hatteb hwynt mewn ychydig o funudau; ond os tybiwch chwi hwynt yn rhy aml neu

(m) Gal. ii. 20.

neu 'n rhy neillduol, chwi a ellwch eu talfyrru etto, er mwyn gwneud denfydd o honynt o ddŷdd i ddŷdd; gan gadw 'r rhai hyn erbyn amſerau o hunan-ymholiad mwy neillduol, yr hyn wyf yn obeithio fydd unwaith bob wythnos o leiaf. Wedi cyflawnu dyledſwyddau perthynol i'r yſtafell, fel hyn, cyn y bo i ſwrthni ein gwneud yn anghymmwys, ſe a ddylai 'r amſer rhwng hynny a'n myneddiad i gyſgu, gael ei dreulio yn ol y rheolau a oſodaf i lawr dan y pen neſaf.

§ 24. Nid oes dim ychwaneg i ſylwi arno ond yn unig y meddyliau gyda pha rai y dylem orwedd i lawr i gyſgu. Ac yma y mae 'n eglur, ei bod yn addas i yſtyriaid daioni Duw yn 'chwanegu un dŷdd a'i drugareddau, at y lleill o ddyddiau a thrugareddau 'n bywyd; i gymmeryd ſulw ar diriondeb rhagluniaeth yn rhoddi i ni drigfannau cyfleus, a gwelyau eſmwyth, ac yn parhâu iechyd ein cyrph, fel yr ydym yn gallel gorwedd i lawr yn llonydd amynt, a'r fath dawelwch meddwl, fel ac y mae gennym lê i obeithio am gŵſg cyſſurus: Dadebriad, nid i foddloni y natur anifeiledd yn unig, ond yr hyn a drefnodd ein greawdwr doeth er mwyn ein cadw 'n oſtyngedig, a'n galluogi ymmŷſg ein haml wendidau i ddwyn ymmlâen ei wafanaeth ef gydag adnewyddol hoywder. Fel hyn y gallwn, mewn yſtyr, roddi i Dduw oriau 'n cŵſg, yn gyſtal a'n horiau deffroedig. A phan fôm ar roddi ein hunain i *ddelw marwolaeth*, ſe fydd hefyd yn gymmwys i ni feddwl yn ddifrifol am ddiwedd pob dŷn byw, ac i adnewyddu 'r gweithredladau hynny o edifeirwch a ffŷdd, y rhai a feddyliem yn angenrheidiol, pe ni bae i ni ddeffroi mwy tu yma i'r bêdd. Chwi a welſoch, *Syr*, fyfyrdod o'r natur hynny yn fy llaw i unwaith, yr hyn fydd i mi roddi ar lawr yn yr ad-yſgrifen (Poſtſcript); am hynny, ni châf ychwanegu dim mwy dan y pen hwn, ond mi a

derfynaf yn y man hyn yr hyfforddiadau a ddeiſyfiaſoch dderbyn oddiwrthyf.

§ 25. Yr wyf yn credu i chwi ſylwi ar y pethau mwyaf pwyſig o honynt cyn hyn, gan lywodraethu eich buchedd yn eu hôl. A mi a lawenhâf yn fawr, os bydd i'ch gwaith yn adfyfyrio ar, ac yn profi y pethau hyn, fod yn foddion i'ch dwyn i agoſach cymmundeb â Duw, ac felly i wneud eich bywyd yn fwy dedwydd a defnyddiol, a'ch tragywyddoldeb, pa bryd bynnag y dechreuo, yn fwy gogoneddus. Nid oes un dŷn ar y ddaiar, yr hwn ni fynnwn ei waſanaethu gyda phleſer yn y pethau pwyſfawr hyn; ond mi a allaf yn ffyddlon ſicrhâu i chwi, fy mod, gyda neillduol barch,

Anwyl Syr,

Eich gwîr garedigol gyfaill a'ch gwaſanaethwr.

§ 26. Dyma, ddarllenydd, trwy gyfnewid rhai geiriau, *y llythr* a 'ſgrifennais i at deilwng gyfaill (yr hwn y mae 'n ddiammau gennyf fydd yn awr gyda Duw) ynghylch un flynedd ar bymtheg a aethant heibio: ac mi a allaf ſicrhâu fod profiad bob blwyddyn ar ol hynny, wedi 'm ſefydlu i yn y peth hyn, ſef, fod *un dydd* a dreulier fel hyn, yn dwyn mwy o gyſſur, na *blynyddoedd cyfain* wedi eu treulio mewn trythyllwch, ac eſgeuluſtra o Grefydd. Yr wyf yn dewis rhoddi 'r llythr fel ac y mae; o blegid fy mod yn meddwl y bydd i'r *rhydd-did* a'r *manylrwydd*, gyda pha rai y cynghorais fy nghyfaill, ymddangos yn fwy naturiol; ac am fy mod yn bwriadu rhoddi *annogaethau* i ſylwi ar yr hyfforddiadau hyn, yn y bennod neſaf, mi a gâf ddiweddu hon gyda 'r Myfyrdodau hynny, pa rai a addawais i'm cyfaill fel *ad-yſgrifen*; y rhai y ddymunwn i tithau fod mor gyfarwydd â hwynt, ac y gellych gofio 'r ſylwedd o honynt, pa bryd bynnag y rhoddech dy hun i gyſgu.

Golwg *fyml ar Farwolaeth, yn addas i'w chymmeryd pan orweddom i lawr i gyſgu.*

'O FY enaid, edrych ymmlâen ychydig gyda 'ſymlrwydd, a dŷſg ddoethineb trwy yſty-'riaid dy ddiwedd (n). Dyma un o'th ddyddiau 'etto wedi ei orphen a'i rifo fynu; ac fel yr wyf 'wedi dioſg fy nillad a gorwedd ar fy ngwely, felly 'y bydd i ddŷdd fy mywyd ddwad yn fuan i ben, 'felly y bydd yn rhaid i'r corph ei hun gael ei 'roddi heibio, a'i roddi i orphwys mewn gwely 'prîdd. Yno boed iddo orphwys; canys ni bydd 'i mi ofalu mwy am dano nag am fy nillad, pa 'rai yn awr a ddioſgais. Meddylia, O fy enaid, 'pan ddêl angau, y bydd yn rhaid i ti ddechreu ar 'y bŷd tragywyddol, a'th ſefydlu, un ai yn y 'nefoedd neu yn uffern. Holl amcanion, gobei-'thion, ac ofnau, pleſerau a gofidiau y bywyd hwn, 'a ddarfyddant, a bŷd yr yſprydoedd a egur o'th 'flaen. Ac O! Pwy mor gynted y dichon agor! 'Y mae 'n boſſibl i hyn fod, cyn dychwelo 'r haul 'goleuni a dŷdd arall. Fe allai na bydd i'r haul y 'foru oleuo fy llygaid i, ond yn unig i lewyrchu 'oddiamgylch *corph dideimlad*, yr hwn a all fod yn 'gorwedd yn llê 'r corph bywiol hwn. O leiaf, y 'mae marwolaeth llawer ym mlodau 'u hoedran, a 'llawer ac oeddynt yn fwy eu cymmwyſderau, eu 'duwioldeb, ac mewn golwg o fwy denſyddgarwch, 'na myfi, yn fy rhybuddio i 'n uchel, i beidio ac 'ymddibynnu ar hîr fywyd; ac yn galw arnaf yn 'hytrach, i ryfeddu fy mod wedi cael fy nghadw 'yma cŷd, nag i ſynnu os bydd i mi gael fy ſym-'mud yn fuan.

'Ac yn awr, O fy enaid, atteb megis yngwydd 'Duw; *A wyt ti 'n barod?* A wyt ti yn barod? A

(n) Deut. xxii. 29.

'oes un pechod heb i mi edifarhâu o'i blegid, a'i 'adael, yr hwn a all fy llanw o ofid ar fy ymadaw-'iad, ac i beri i mi grynu ar derfyn tragywyddoldeb? 'Ofna i aros dan yr euogrwydd o hono, ac ym-'ofyn y funud hon am waredigaeth trwy drugaredd 'Duw, a gwaed y prynwr bendigedig.

'ONd os yw 'r cyfrif mawr wedi ei wneuthur i 'fynu 'n barod; os bu i ti o'th galon edifarhâu am 'dy luoſog anwireddau, os bu i ti gyflwyno dy hun 'yn ddiragrith trwy ffŷdd i ddwylaw y bendigedig 'IESU, heb dorri 'th gyfammod ac ef, trwy ddych-'welyd i'r cyflawniad o bechod gwirfoddol, na 'fydded i ti gan hynny ddychrynu wrth feddwl am 'farwolaeth: Canys nis gall angau ddrygu yr enaid 'a roddodd ei hun i Dduw, ac ſydd wedi ei uno â'r 'prynwr mawr. Fe all dynnu ymaith fy ngyſſur-'on bydol; ac fe all ddiddymmu fy amcanion 'ynghylch gwaſanaeth pellach ar y ddaiar: Ond O 'fy enaid, y mae gwleddoedd dwyfol, a gwychach 'gwaſanaeth yn dy aros tu draw i'r bêdd. Bendi-'gedig byth y fo enw DUW, a chariad IESU, ac ſy 'n peri 'r golygiadau cyſſurfawr a gorfoleddus 'hyn! Mewn heddwch gan hynny, y gorweddaf, 'ac yr hunaf (o), heb ofni beth a ddigwyddo yn 'y nôs hon; pa un bynnag ai *bywyd*, ai *angau*, 'a drefno Duw i mi. O Dâd, i'th ddwylaw di 'y gorchymynnaf fy yſpryd (p); canys ti a'm 'prynaiſt, O DDUW 'r gwirionedd (q), ac am 'hynny y gallaf yn llawen adael ar dy ddewiſiad 'di, pa un a gaffwyf, ai deffroi yn y bŷd hwn, neu 'yn y bŷd arall. *Amen.*'

(o) Salm iv. 8. (p) Luc xxiii. 46. (q) Salm xxxi. 5.

PEN-

PENNOD XX.

Annogaethau difrifol tuag at dreulio 'n dyddiau yn y modd ac y dangoſwyd yn y bennod o'r blaen.

§ 1. MI a oſodais allan bethau yn y bennod o'r blaen, ac wyf yn ofni y fydd yn ymddangos i rai o'm darllenwyr yn waith *rhy galed*; fel mae arnynt eiſiau calondid i fyned yn ei gylch; ac yn wîr, y mae yn fuchedd, mewn llawer o yſtyriaethau, ym mhell uwchlaw yr hyn ac y mae 'r cyffredinolrwydd o griſtianogion yn ymarfer: Fel ac yr wyf yn ofni, y bydd llawer ac fydd yn deilwng o'r enw, yn meddwl fod yr hyfforddiadau uchod, ar ol fy holl ragofal trwy ba un y cynnygais hwynt, wedi eu cario i râdd o fanylrwydd afreidiol. Ond yr wyf yn cwbl gredu fod llawer o anrhydedd a chyſſur criſtianogaeth yn cael eu colli, o blegid fod y proffeſwyr o honi yn ſefydlu eu hamcanion yn rhy *iſel*; heb ffurfio meddyliau derchafedig, a rhagorol, ynghylch eu *galwedigaeth uchel a ſanctaidd*, fel y mae natur Crefydd yn gofyn, a gair Duw 'n dangos. Yr wyf yn cyflawn gredu, fod y dywediadau o *rodio gyda Duw*, o *fod yn ei ofn ar hyd y dydd* (a), ac yn bennaf, yr ymadrodd o garu yr Arglwydd *ein* Duw *â'n holl galon, â'n holl enaid, â'n holl feddwl, ac â'n holl nerth* (b), yn gofyn, os nid y cwbl ac a gynnygais yn eu holl amgylchiadau, etto 'r *ſylwedd* o honynt oll, yn ol ein dawn a'n cyfleuſtra: Ac nis gallaf lai na meddwl, y gallai llawer gael mwy o gyfleuſtra, ac o boſſibl, gynnyddu eu doniau hefyd, pe cymmerent fwy o ofal i lywodraethu eu hunain yn gymmwys; pe rhoddent heibio bob pleſerau gwâg ac afreidiol, pa rai fydd yn addas, ac yn ddymunol i'r rhan waelaf o ddŷn yn unig

(a) Diar. xxiii. 17. (b) Marc xiii. 20.

ac (i ddywedyd y goreu am danynt) ſydd yn ein difuddio ni o bleſerau, llawer gwell na hwynt eu hunain, os ni fyddent yn foddion i'n ſoddi mewn euogrwydd. Llawer o'r rheolau hyn a ymddangoſent yn hawdd i'w harferyd, pe bae dynion yn dyſgu *gwerthfawrogi amſer*, ac yn neillduol, i'w brynu ef oddiwrth gwſg afreidiol, yr hwn ſydd yn gwaſtraffu llawer oriau auredd o'r dŷdd: Oriau, ym mha rai y mae llawer o weiſion Duw yn ymbleſeru ynddo ef, ac yn yfed yn helaeth o ddwfr y bywyd, tra y mae eu brodyr hyn yn heppian ar eu gwelyau, ac yn ymbleſeru mewn breuddwydion, pa rai ſydd gymmaint yn *waelach* na'r *digrifon cyffredin* a berthynant i'r natur reſymmol, ac yw 'r pleſerau a berthynant i'r graddau mwyaf o ddiwioldeb, yn rhagori ar bob peth daiarol.

§ 2. YR wyf hefyd yn gwybod, fod y meddyliau yn bûr anſefydlog; ac i fod yn anhawdd i gadw 'r fath lywodraeth arnynt, a fyddai dymunol, a'r fath, ac y mae 'r drefn a oſodais i lawr, yn ofyn. Ond y mae cymmaint yn ymddibynnu ar hyn, tuag at anrhydedd Duw a'n dedwyddwch ninnau, fel ac yr wyf yn attolygu arnoch i roddi clûſt-ymwrandawiad amyneddgar ac aſtud, tra bwyf yn ymreſymmu â chwi; ac ar i chwi yſtyriaid fy rheſymmau, ac ſelly farnu, pa un, a bod y fath ymddygiad ac a oſodais i allan, ynddo ei hun yn rheſymmol, neu nid yw; ac i farnu pa un, a'i fod yn tueddu 'n fawr i'ch cyſſur a'ch defnyddgarwch mewn bywyd, i'ch tangnefedd yn angau, ac i ddwyn ymmlâen eich gogoniant tragywyddol.

§ 3. BOED i gydwybod atteb, onid yw fath fuchedd ac a oſodais i allan, *ynddi ei hun yn rheſymmol?* Edrych dros, a chwilia etto yr hyn a ddywedais; canys yr wyf yn gwybod yn dda, y gall rhyw wrthddadleuon gweinion gyfodi yn erbyn y *cyfan*, er na bônt yn y canlyniad yn perthyn ond i ryw

rannau

rannau yn unig, yn erbyn pa rai nis rhyfyga un dŷn rhefymmol i godi unrhyw wrthddadl oll. Cofia, O griſtion, a dŵg hyn yn dy gôf ac yn dy galon, tra 'r ydwyt yn yſtyriaid y pethau hyn, ſef, mai creadur Duw ydwyt ti, a'th fod wedi 'th bwrcaſu â gwaed Iesu; a dywaid onid ydyw 'r fath *berthynas* yn gofyn oddiwrthyt yr holl ddiwidrwydd a'r ymroadau yr wyf yn dy alw attynt. Barnwch i'r holl gynghorion a roddais, gael eu goſod mewn ymarferiad: Barnwch i bob dŷdd gael ei ddechreu a'i ddibennu gyda 'r fath dduwiol anadliad ar ol Duw, a chyda 'r fath ddirgel a ſanctaidd gyfrinach ac ef ac â'ch calon eich hun, foreu a hwyr: Bwriwch i chwi ofalu o ddŷdd i ddŷdd, pa fodd i drefnu 'ch amſer, ac i edrych pa fodd y cafodd ei dreulio: Barnwch fod y fath barch i Dduw, y fath deimlad o'i breſennoldeb, a'r fath ſêl dros ei ogoniant, i redeg trwy eich holl ymarferiadau crefyddol, trwy holl amſer eich achoſion bydol, ac o'ch difyrrwch: Barnwch fod y cyfryw yſtyriaeth o ragluniaeth, y fath wiliadwriaeth yn erbyn temtaſiynau, y fath ymorphwyſiad ar Dduw, y fath lywodraeth ar y meddyliau yn y dirgel, ac ar yr ymddiddanion mewn cyfeillach: Iê ym mhellach, barnwch fod pob rhyw hyfforddiad a roddais i, 'n cael ei ganlyn, oddieithr mewn rhyw achoſion neillduol, am ba rai y gellwch mewn cydwybod ddywed, 'Yr wyf yn gadael heibio y ddyledſwydd hyn, nid o ddiogi ac eſgeuluſtra, ond o blegid fy mod yn meddwl y byddaf yn rhyngu bodd Duw 'n well trwy wneuthur rhyw beth arall yn awr;' yr hyn a all yn aml ddigwydd yn yſtod bywyd dŷn, llê mae rheolau cyffredin wedi eu goſod i lawr yn y modd doethaf: Barnwch meddaf, i hyn oll gael ei wneud, nid dros ddiwrnod neu wythnos, ond trwy yr hyn ſydd yn ol o'r bywyd, pa un bynnag ai hwy neu fyrrach; a barnwch i hyn oll gael ei yſtyriaid ar derfyn bywyd

trwy gyflawn ymarferiad o'ch galluoedd rheſymmol: A fydd achos i ddywedyd yn y cyfryw olwg, 'Myfi a gymmerais ormod boen mewn Crefydd: Nid oedd awdwr fy môd yn haeddu dim o hyn oll oddiwrthyf fi: Fe fuaſai *ffai* na hyn o ddiwydrwydd, o ffyddlondeb ac o ſêl, yn ddigon o *daliad* am y gwaed a dywalltwyd i'm prynu. Digon allaſai fod rhan o'm calon, o'm hamſer, ac o'm llafur, i roddi iddo ef, pa un y roddodd i mi fy holl alluoedd; iddo ef, yr hwn a'm gwaredodd i o'r diſtryw hynny, ac a allaſai eu gwneuthur hwynt yn *boen tragywyddol i mi*; iddo ef, yr hwn ſydd yn fy nghyfodi i wledydd o wynfydedig anfarwoldeb.' A elli di, gydag unrhyw wyneb, ddywedyd fel hyn? Os na elli, yna y mae 'n ddiammau fod dy gydwybod yn tyſtiolaethu, fod y cwbl a oſodais ger dy fron, yn *rheſymmol*; fod dyledſwydd a diolchgarwch yn gofyn cymmaint; ac yn ganlynol, dy fod yn dwyn dy enaid dan euogrwydd, dy fod yn digio Duw, ac yn gweithredu 'n anghyſon â'th broffes griſtianogol, pan yr ydwyt yn wirfoddol yn dyfod yn fyr o gyflawnu un o'r dyledſwyddau hyn.

§ 4. YR wyf ym mhellach, yn attolygu arnat i yſtyriaid, onid yw y fath ymarweddiad yn tueddu 'n fawr i'th gyſſur a'th ddenfyddgarwch mewn bywyd. Yſtyria 'n ddifrifol, pa beth yw gwîr ddedwyddwch? Ydyw 'r fath i'w gael mewn pellder oddiwrth Dduw, neu yn yr agoſrwydd atto? Sicr yw, nis gelli fod yn griſtion, nis gelli fod yn greadur rheſymmol, os wyt yn ammau pa un a bod cymmundeb â Thâd gogoneddus yr yſprydoedd, yn bleſer ac yn ddedwyddwch: Ac os yw, yna y mae 'n ſicr, mai 'r rhai hynny ydynt yn mwynhâu fwyaf o hono, ac ſy 'n cadw golwg fwyaf parhâus arno. Nis gelli lai na gwybod, mai hyn ſydd yn gwneuthur i ſynu happuſrwydd y nefoedd; a phwy fwyaf gan hynny y fwynhâo unrhyw ddŷn o hyn ar y ddaiar,

ddaiar, mwya i gŷd o'r nefoedd ſydd yn dyfod i lawr i'w enaid. Os gwnaethoſt un mâth o brofiad o Grefydd, er ond dros rai miſoedd neu wythnoſau yn unig, y mae 'th brofiad yn abl gwneud i ti farnu pa ryw ddyddiau o'th fywyd oeddynt y rhai mwyaf dedwydd. Onid oeddynt y rhai hynny, ac y gweithredaiſt ynddynt oddiar yr egwyddorion hyn, a hynny yn y modd mwyaf ſefydlog, trwy bob awr o'th amſer, a phob amgylchiad o'th fywyd? Yr oedd dy waith yn *attal* dy dueddiadau, lawer prŷd, o boſſibl, yn annymunol; ond yr oedd hyn yn ſicr o gael ſymmud yn y modd mwyaf happus, trwy 'r boddlonrwydd ac yr oeddit yn gael oddiwrth gydwybod o hunan-lywrodraeth; yn dy waith yn cael y fath awdurdod ar dy *feddyliau*, dŷ *nwydau* a'th *weithredoedd*, ac ſydd yn llawer mwy gogoneddus, nag y gall unrhyw awdurdod dros eraill fod.

§ 5. Yr wyf hefyd yn dymuno arnat i yſtyriaid pwy mor belled y dichon y fath ymddygiad a hyn fod yn foddion i gynnyddu happuſrwydd eraill. Y mae 'n hawdd i ti weled ei fod yn tueddu 'n fawr i hynny; gan y bydd i'th galon bob amſer fod yn ewyllyſgar i ddiſgwyl am gyfleuſterau i wneuthur daioni, ac hefyd i ymafaelyd ynddynt gydag awydd a phleſer. Fe barai hyn i ti ofalu trwy 'th fywyd, i drefnu pethau yn y fath fodd, fel y bo *diwedd un weithred dda, yn ddechreuad un arall.* A thydi a ai ymmlâen yn y modd hyn mor naturiol, ac y mae 'r creaduriaid îs yn dwyn oddiamgylch y pethau hynny, ac ſydd yn cyſſuro ac yn cyfoethogi dynol-ryw; neu mor naturiol ac y mae 'r ddaiar yn dwyn ei chnydau o amrywiol ffrwythau tuag at eu cynnaliaeth. Ac er fod dynol-ryw yn y ſtâd lygredig hon, yn tueddu mor anhappus i ganlyn ſiamplau drŵg yn hytrach na 'r da; etto fe ellir diſgwyl, tra bo 'th oleuni yn llewyrchu felly ger bron dynion, y bydd i rai, wrth weled dy weithredoedd da di, ym-

drechu eu copio hwynt yn eu bywydau, a thrwy hynny, i ogoneddu dy Dâd yr hwn ſydd yn y nefoedd (c). Diammau y byddai prydferthwch y fath ſiampl yn cael effaith ar rai, ac yn peri iddynt o leiaf i geiſio ymdebygu i ti; ac fe fydd i bob rhyw ymgais dueddu 'r meddwl i ymdrech pellach. Fel hyn, trwy fendith Duw, y gelli gael hawl i ran o'r clôd ac o'r gwobrwy a berthyn, nid yn unig i'r daioni y wnaethoſt ti dy hun yn berſonol, ond o'r hyn y buaiſt yn foddion i ddwyn eraill i'w wneuthur. Ac nis dichon un llygad, oddieithr llygad Duw, ac ſydd yn treiddio trwy bob peth, weled i ba amſer a llefydd pellennig, y gall y canlyniadau gogoneddus o hyn gyrhaeddyd. Fe fydd yr effeithiau daionus a ganlynant y fuchedd hon, pa bryd bynnag yr ymddangoſont, i lanw dy galon o lawenydd hael, a mwy gogoneddus, nag allo unrhyw wrthrych daiarol roddi; ïe, 'r fath lawenydd, ac a fo debygcaf i'r pleſer mawr ac y mae 'r Duw bendigedig yn ei brofi, trwy wneuthur, a gweled, ei greaduriaid yn happus.

§ 6. Gwir yw, ymmŷſg dy holl dduwiol ofal a'th haelioni, y dichon cyſtuddiau ddyfod arnat ac mewn meſur i'th rwyſtro ynghanol dy amcanion: Etto y mae 'n ddiammau y byddant yn *llawer yſgafnach*, pan fo 'th galon yn cael ei llonni, trwy heddychol a gorfoleddus *adfyfyrdod* dy feddwl, a thrwy *dyſtiolaeth* mor anrhydeddus o eiddo 'th gydwybod, ger bron Duw a dynion. Fe fydd yn beth hyfryd a dymunol i ti fyned yn ol i ail-edrych dy ffyrdd, ac i feddwl, ddarfod i ti nid yn unig ymoſtwng yn wirioneddol am y pechodau hynny, pa rai allant gael eu dwyn i'th gôf trwy dy gyſtuddiau; ond hefyd, i ti roddi prawf ſylweddol o'r ymoſtyngiad hwnnw, trwy wîr ddiwygio yr hyn fu 'n feius, a thrwy weithredu gyda bwriadau bywiog a nerthol oddiar

(c) Mat. v. 16.

oddiar egwyddorion gwrthwynebol. A thra bo cymmundeb â Duw a gwneuthur daioni ſi ddynion yn orchwyl pennaf a dymunol dy *fywyd*, ſe ddaw mwyniant a chyſſur i mewn trwy filoedd o ffyrdd; ïe, hyd yn oed ynghanol y cyſtuddiau hynny, ac a'th anghymmwyſant yn gymmaint i fwynhâu pleſerau daiarol, fel ac y byddi yn cyfrif hyd yn oed y *ſŵn am danynt*, yn y cyfryw amgylchiadau, yn *waradwydd* ac yn *ddirmyg*.

§ 7. Ac o'r diwedd *ſe ddaw angau:* Fe ddaw yr awr ſyml a phwyſig honno, trwy yr hon yr aeth miloedd ac a fucheddaſant fel hyn ar y cwbl, a myrddiynau o'r rai ac oeddynt yn dibriſio duwioldeb. A boed i gydwybod atteb, os bu un erioed o'r myrddiynau hynny, yn gweled achos i lawenhâu yn angau o herwydd ei ddibriſdod; neu os bu un ymmŷſg y rhai mwyaf hynod a manwl o *griſtianogion*, yn galaru ar awr ei ymadawiad, o blegid iddo roddi ei galon a'i fywyd i Dduw trwy gymmaint ſêl; boed i gydwybod atteb, os oeddynt yn chwennych cael rhan o'r amſer a dreuliaſent yngwaſanaeth yr Arglwydd yn ol, er mwyn *cydymffurfio ym mhellach â'r bŷd hwn*; er mwyn boddi eu hunain yn ddyfnach yn ei bleſerau, neu ganlyn ar ol ei anrhydedd a'i bethau, gyda mwy o awydd nag y darfu iddynt wneud? Pe byddech di dy hun yn trengu dan law angau, a rhyw gyfaill, neu anwyl blentyn, yn ſefyll yn dy ymmyl, ac i'r llyfr hwn a'r bennod ddiweddaf ddigwydd dyfod ar dy feddwl, a gynghorech ti y cyfryw blentyn neu gyfaill, i beidio byw yn ol y rheolau a roddais i yno? Y mae 'n boſſibl fod y fath gweſtiwn yn afreidiol, gan fod yr atteb mor eglur a ſicr. Canniattâ i mi, gan hynny, i attolygu arnat ddyſgu *pa fodd i fyw*, trwy yſtyriaid *pa fodd yr ewyllyſiech i farw*, ac ar ba fath yrſa yr ewyllyſiech edrych yn ol arni, pan fyddech ar ymadael â'r byd hwn, a dechreu ar fŷd arall.

Meddylia yn ddifrifol; beth pe deuai arnat yn ddiſymmwth, ac i ti orfod myned i dragywyddoldeb trwy awr neu trwy un funud o rybudd, oni ddymunech fod y dŷdd diweddaf o'th fywyd wedi ei ddechreu, as os byddai 'n ddŷdd o iechyd, ei fod wedi ei dreulio yn ol yr hyfforddiadau uchod? Oni ewyllyſiech i'th Arglwydd i'th gael yn y fath feddyliau ac ynghylch y fath bethau? Oni fyddai 'th rhedegfa a'th daith o'r ddaiar i'r nefoedd, yn fwy hawdd ac yn fwy hyfryd trwy 'r fuchedd hon? Ac o'r tu arall, pe deuai angau arnat yn fwy grâddol, oni fyddai coffadwriaeth o'r fath fywyd duwiol, ſanctaidd, goſtyngedig, diwyd, a defnyddiol, wneuthur *gwely marwolaeth* llawer hawſach ac eſmwythach nag y byddai, pe byddech fyw 'n wrthryfelwr? Na atto Duw i ti ymorphwys ar y pethau hyn fel dy ſail am dragywyddol happuſrwydd: Ond dan deimlad o'th aml *wendidau*, boed i ti fyrthio wrth draed CRIST, fel y bo i ti ymddangos ger bron DUW wedi 'th wiſgo â'i GYFIAWNDER ef, a'th olchi â'i WAED oddiwrth dy bechodau. Diammau fel *Criſtion*, y byddi yn angau yn edrych ar bob egwyddor ddâ ac a gefaiſt yn dy galon, ac ar bob gweithred ddâ a gyflawneiſt yn dy fywyd, yn EFFEITHIAU GRAS. Etto oni fydd yr yſtyriaeth, na *dderbyniaiſt râs Duw 'n ofer* (d), yn rhoddi 'r fath hyfrydwch ac a dalai ei brynu â deng mîl o fydoedd? Pa fath bleſer i feddwl, i ti oddiar egwyddor oſtyngedig a diolchgar o gariad, *ogoneddu 'th nefol Dâd ar y ddaiar*, ac mewn rhyw râdd, er mai nid i'r perffeithrwydd ac y dymunit, i ti *gyflawnu 'r gwaith a roddais efe i ti i'w wneuthur* (e): I ti dros lawer o flynyddoedd ac aethant heibio, fyw ar gyffiniau 'r nefoedd, gan ymdrechu ffurfio dy galon a'th fuchedd i'r unrhyw ddûll, a thymmer a buchedd ei thrigolion hi?

§ 8.

(d) 1 Cor. xv. 10. (e) Ioan xvii. 4.

§ 8. Ym mhellach, yr wyf yn attolygu arnat i ystyriaid, yr olwg y gai ar y peth hyn pan *elech i'r gogoniant*, os bydd (fel yr wyf yn gobeithio y bydd) i ddwyfol drugaredd i'th dwyn di yno. A fydd i'th ofal, neu 'th esgeuluſtra yn y fuchedd ſanctaidd hon, gael dim effaith ar dy dderbyniad yno? A fydd e'n beth difatter yngolwg y bendigedig Iesu, yr hwn ſydd yn cyfrannu coronau, ac yn trefnu gorſeddfeingciau yn y nêf, pa un ai ymmŷſg y rhai mwyaf *ſwrth*, neu ynte ymmŷſg y rhai mwyaf *gwreſog* o'i weiſion, y rhodiaiſt ti? Diammau y byddi di 'n chwennych cael *mynediad helaeth i deyrnas dy Arglwydd a'th iachawdwr* (f); a pha beth all fod yn fwy effeithiol i hynny, na bod bob *amſer yn helaeth yn ei waith ef* (g)? Nis gelli feddwl mor wael am y ſtâd ogoneddus honno, a thybiaid y bydd i ti edrych o'th gwmpas a dywedyd yn dy galon, trwy ddirgel ſiommedigaeth, i ti briſio 'n ormodol yr etifeddiaeth a dderbyniaiſt, ac i ti ymofyn ar ei hôl gyda gormod ſêl. Diammau na bydd i ti achwyn am i ti ofalu 'n ormodol am dani, a rhoddi gormod o'th feddyliau arni: Eithr i'r gwrthwyneb, mae gennyt y rheſwm cryfaf i gredu, pe bae unrhyw beth yn peri llîd a gofid yno, fe fyddai hynny o blegid na ddarfu i ti, ymmŷſg cynnifer o annogaethau a rhagorfreintiau, ymegnio mwy er mwyn meddiannu 'r fath etifeddiaeth ragorol.

§ 9. Ond ni ymhelaethaf ar beth mor eglur a hwn; ond mi ddibennaf y bennod hwn trwy ddwyn ar gof i ti, fod dy waith yn dioddef i'th galon ymfoddloni mewn modd pwyllog â'r unrhyw amherffaith gyrhaeddiadau mewn Crefydd, ac i edrych ar fwy o gadarnhâd a chynnydd ynthi, yn bethau afreidiol, ïe, 'n bethau ac yr ydwyt yn dirgel fwriadu na bydd i ti ymofyn ar eu hôl, yn *un o'r*

(f) 2 Pedr i, 11. (g) 1 Cor. xv. 58.

o'r arwyddion mwyaf anffaeledig ac allaf fi feddwl am dani, dy fod di hyd yn hyn yn hollol ddieithr i'r *egwyddorion dechreuol* o honi.

GWEDDI *addas i gyfiwr Enaid ac fy 'n chwennych bucheddu yn ol yr hyfforddiadau uchod.*

'ODDUW bendigedig! nis gallaf wrthddy-
'wedyd awdurdod y rheſymmau hyn: O na
'bae i mi deimlo yr effeithiau parhaus o honynt,
'yn fwy nag erioed! Tydi ydwyt y ffynnon fawr o
'bob bôd, ac o bob happuſrwydd; ac megis y der-
'byniais *i fy môd* oddiwrthyt ti, oddiwrthyt ti he-
'fyd y mae fy holl *ddedwyddwch* yn dylifo yn
'ddioed; a phwy agoſaf y bwyf attat, mwya pûr a
'melus yw 'r ffrŵd. *Gyda thi y mae ffynnon y by-*
'*wyd, yn dy oleuni di y gwelwn ni oleuni* (h)!
'Gwrthrych pennaf fy ngobaith, yw cael trigo
'gyda thi 'n dragywydd. Cyfranna i mi yn awr
'flaen-brawf o'r dedwyddwch hwnnw! Dyro i mi,
'yr wyf yn attolygu arnat, brofi *gwyn fydedigrwydd*
'*y dŷn a ofna 'r* ARGLWYDD, *ac ſydd yn hoffi ei*
'*orchymmynion ef yn ddirfawr* (i); a ffurfia fy
'nghalon trwy 'th râs yn y fath fodd, ac y gallwyf
'*radio yn dy ofn ar hyd y dŷdd* (k)! Boed i'm
'meddyliau gael eu cyfeirio atttat ti pan ddeffro-
'wyf; ac hyda 'r peledr cyntaf o oleuni ac a ymwelo
'a'm llygaid, O ARGLWYDD, *dercha di arnaf*
'*lewyrch dy wyneb* (l)! Pan fo i'm cynneddfau
'gael eu deffroi o'r ſtâd dorredig honno, ym mha
'un yr oeddent yn aros, tra wedi eu cladd'u, ac
'megis eu diddymmu, mewn cŵſg, boed i mi allel
'cyfflwyno 'm gweithredoedd cyntaf i ti, O DDUW,
'yr hwn wyt yn rhoddi i mi oleuni; yr hwn wyt
'yn rhoddi i mi bob boreu, megis bywyd a deall
'*newydd.*

(h) Salm xxxvi. 9. (i) Salm cxii. 1. (k) Diar. xxiii. 17.
(l) Salm iv. 6.

'*newydd*. Cynnorthwya 'm calon i dywallt allan 'ei hun ger dy fron di, gyda mabaidd barch, 'rhydd-did, ac anwylder! A boed i mi allel *gu-* '*rando* ar Dduw, megis yr ewyllyſiwn iddo *ynteu* '*wrando* arnaf fi! Nertha fi i ddarllain dy Air 'gyda difrifwch a phleſer! Boed i'm henaid gael 'ei ffurfio trwyddo, i'th ddelw di; a boed i mi 'allel ei guddio ef yn fy nghalon, fel na phechwyf 'yn dy erbyn (m)! Wedi 'm calonnogi trwy 'r 'annogaethau mawrion ac y mae yn oſod o'm 'blaen, bydded i mi allel bob *boŕeu a hwyr*, ad- 'newyddu yr ymroddiad o honof fy hun i ti trwy 'Iesu Grist dy anwyl Fab; a chan dderbyn 'cynnorthwyon *newydd* oddiwrtho ef, trwy dy fen- 'digedig Yſpryd, dylanwadau pa un ſydd yn fywyd 'i'm henaid, boed i mi ganlyn ol ei draed.

'Gan gael fy mharottoi fel hyn, boed i ti, O 'Arglwydd, i'm dwyn yn dy law trwy holl ddy- 'ledſwyddau a rhagluniaethau 'r dŷdd! Ac yn yr '*atwediğaeth* i ba un y rhyngodd bodd i ti fy ngalw, 'bydded i mi rodio gyda thydi (n); a hynny heb 'fod yn *ddiog meŵn diwydrwydd, eithr yn wreſog yn* '*yr yſpryd, yn gwaſanaethu 'r Arglwydd* (o)! Boed 'i mi weled gwerthfawrogrwydd amſer, ac felly 'i'w ddefnyddio ef yn barhâus i'r diben goreu, yn 'y cyfryw ddyledſwyddau a dŕefnaiſt i mi; pwy 'mor wael bynnag y bônt yn ymddangos, ac er 'mor boenus y gallont ſod. Boed holl lafur fy 'mywyd i'th ogoniant ti, O Arglwydd; a phâr i 'mi ymofyn am holl gyſſuron bywyd i'r unrhyw 'ddiben; fel pa un bynnag a wnelwyf, ai bwytta ai 'yfed, neu pa beth bynnag a wnelwyf, y bo i mi 'olygu dy ogoniant (p). A boed i mi allel cyr- 'haeddyd y diben hwn; boed i bob rhyw ddad- 'ebriad, a phob gollyngdod oddiwrth orchwylion, 'i'm

(m) Salm cxix. 11. (n) 1 Cor. vii. 20. (o) Rhuf. xii. 11.
(p) 1 Cor. x. 31.

'i'm cymhwyſo i'th waſanaethu di yn fwy bywiog
'a ſefydlog.

'Bydded i'm llygad fod yn wiliadwrus i ſylwi
'ar y bendithion a ddiſgynant oddiwrthyt ti; a boed
'i yſtyriaeth diolchgar *o'th law di* ynddynt, ychwa-
'negu arogl-peraidd a blâs i gydfyned â'r cwbl oll!
'A phan ddêl *cyſtuddiau*, pa rai mewn bŷd fel hwn
'ſydd i'w diſgwyl, boed i mi allel cofio eu bod yn
'deilliaw oddiwrthyt ti; a boed i hynny i'm cym-
'modi â hwynt, gan gredu fod yr unrhyw gariad
'ac ſydd yn rhoddi i ni ein *bara beunyddiol*, yn
'trefnu ein *croeſau beunyddiol*; pa rai a ewyllyſiwn
'gymmeryd i fynu, fel y gallwyf ganlyn fy Ar-
'glwydd (q), gyda 'r un fath dymmer ac a ym-
'ddangoſodd ynddo ef, pan ydoedd yn myned i
'*Galfaria* er fy mwyn i, gan ddywedydd gydag ef,
'*Y cwppan a roddes y Tâd i mi, onid yfaf ef* (r)? A
'phan elwyf i brofedigaeth, boed i ti, O Arglwydd,
'*i'm gwared i rhag drŵg* (s)! Gwna fi 'n deim-
'ladwy, yr wyf yn attolygu arnat, o'm gwendid
'fy hun, fel y bo i'm calon gael ei derchafu attat ti
'am gyfraniadau o nerth preſennol yn gyfattebol
'i'm diffygiadau! Pan bwyf ynghymdeithas eraill,
'boed hyn fy ngofal a'm dymuniad, ſef, gallel o
'honof wneud a derbyn cymmaint o ddaioni ac fo
'n boſſibl; boed i mi allel bob amſer atteb mawr
'ddibenion bywyd, trwy 'th ogoneddu di, a thanu
'wybodaeth lleſol a dedwyddwch trwy 'r bŷd!
'Pan y bwyf wrthyf fy hun, boed i mi gofio fod
'fy nefol Dâd yn breſennol gyda mi; a dyro i mi
'fwynhâu y pleſer a gyfyd oddiwrth dy breſennol-
'deb di, a theimlo 'th allu bywiol, yn deffroi fy
'enaid i wîr ddymuniad i geiſio *meddwl* a *gweith-*
'*redu*, fel yn dy olwg di!

'Bydded i'm dyddiau gael eu *treulio* yn y modd
'hyn; a'u *dibennu* yn dy ofn, a than yſtyriaeth
'o'th

(q) Marc viii. 34. (r) Ioan xviii. 11. (s) Mat. vi. 13.

'o'th raſol breſennoldeb! Cyferfydd â mi, O Ar-
'glwydd, yn fy *mrhydnawnol ddefoſiwn o'r neilldu*;
'a boed i mi allel dewis yr amſer mwyaf addas i
'hynny. Rhô nerth i mi i ddarllain ac i weddio
'yn aſtud ac yn ddiwyd; a phan bwyf yn edrych
'yn ol ar fy muchedd, boed i mi wneuthur felly
'yn *ddiduedd!* Na âd i *hunan-gariad* danu lliw
'twyllodrus dros fy ymddygiad; ond boed i mi
'allel *barnu fy hun*, fel un a fai 'n diſgwyl gael ei
'*farnu* gan yr Arglwydd, ac fel un a fae 'n
'ofalus iawn am gael ei gymmeradwyo gennyt ti,
'yr hwn wyt yn chwilio pob calon, ac ni anghofi
'byth yr un o'm gweithredoedd (t). Cyfeirier fy
'ngweddi ger dy fron o ddŷdd i ddŷdd, fel arogl-
'darth, a derchafiad fy nwylaw fel yr offrwm bo-
'reuol a phrydnhawnol (u)! Bydded i mi roddi
'fy ngalluoedd i gyſgu mewn tawelwch; gan gael
'tyſtiolaeth cydwybod i mi fyw i Dduw ar hŷd y
'dŷdd, a chan lawen gredu fy mod yn gymmerad-
'wy gyda thydi trwy Iesu Grist fy Arglwydd,
'a thrwy obeithio yn oſtyngedig yn dy drugaredd
'trwyddo ef, pa un bynnag a fo i'm dyddiau gael
'eu heſtyn ar y ddaiar, neu ynte i weddill fy mly-
'nyddoedd gael eu torri ymaith (x). Os daw
'angau yn *raddol* attaf, boed iddo 'm cael yn
'gwneuthur fel hyn; ac os gelwir fi 'n ddiſym-
'mwth i newid dau fŷd, boed i'm dyddiau a'm
'horiau diweddaf gael eu treulio fel hyn; fel y bo
'i mi gael mynediad tawel a melus o waſanaeth
'amſer, i anfeidrol well gwaſanaeth mewn cyflwr
'o anfarwoldeb! Yr wyf yn gofyn hyn oll *trwyddo*
'*ef*, yr hwn, tra ar y ddaiar, oedd patrwn a ſiampl
'mwyaf godidog o bob rhinwedd a grâs, a'r hwn
'ſydd yn awr yn byw ac yn teyrnaſu gyda thi, ac
'yn *abl i achub hyd yr eithaf* (y): Atto ef yr wyf
'yn

(t) Amos viii. 7. (u) Salm cxli. 2. (x) Eſay xxxviii. 10.
(y) Heb. vii. 25.

'yn chwennych ffoi, gan gyfaddef yn oſtyngedig,
'wedi gwneuthur y cwbl, mai *gwâs anfuddiol yd-*
'*wyf* fi (z); *iddo ef byddo 'r gogoniant*, yn oes
'oeſoedd. *Amen.*'

PENNOD XXI.

Y Criſtion ieuangc yn cael ei annog i ochelyd y Temtaſiwnau, pa rai a allant ei attal i redeg yr yrfa a oſodais o'i flaen.

§ 1. YR wyf yn gobeithio y bydd i'r darluniad a roddais uchod, o'r pleſer a'r bûdd ſydd yn cydfyned â bywyd o ymroddiad i Dduw, ac o gymmundeb ac ef, i'th rwymo di, fy anwyl ddarllenydd i ffurfio rhai bwriadau yn ei gylch, ac i ymdrechu, mewn rhyw feſur, i ganlyn y fath fuchedd. Ond wrth yſtyriaid natur, a ſylwi ar drefn pethau, y mae yn ymddangos yn eglur, y bydd, (heblaw 'r gwrthwynebrwydd cyffredinol y ſoniais am dano o'r blaen, ac ſydd yn cydfyned â'r dechreuad o'r fuchedd griſtianogol) i ti hyd yn oed ar ol hynny, gyfarfod â llawer rwyſtrau yn dy waith yn ymgais at *dduwioldeb ddychynnaidd*, ac yn dy waith yn canlyn buchedd a fo 'n hynod fanwl a defnyddiol. A thra y mae 'n boſſibl i ti allel trwy rai ymdrechiadau grymmys ſiommi rhai o'r gelynion hynny a fo 'n ceiſio 'th attal rhag cymmeryd ſulw ar Grefydd un amſer; etto fe fydd y rhai hyn yn rhuthro arnat o newydd; a am hynny rhaid i ti ymdrechu 'n wrol ac yn barhâus yn eu herbyn. Canniattâ i mi fod yn fanwl yn fy rhybudd yn erbyn ychydig o'r rhai *pennaf* o honynt. Yma y mae 'n rhaid i mi ſylwi 'n neillduol ar yr anhawſderau a darddant oddiwrth *ſwrthni*;

(z) Luc xvii. 10.

wrthni; *cariad at bleſerau*; *at gyfeillion ofer*; *ac* oddiwrth *ofalon bydol*. Fe ddichon y naill a'r llall o'r pethau hyn, fod yn fagl i unrhyw griſtion, ond yn neillduol i griſtianogion ieuainge, â pha rai y chwennychwn ymddiddan yn awr mewn modd neillduol a pharchus.

§ 2. Yr wyf yn attolygu arnat gan hynny, yn y llê cyntaf, i wilio yn erbyn *tymmer fuſgrell a dioglyd*. Y mae cariad at *eſmwythder* yn dyfod i mewn i'r galon, trwy amryw eſguſodion cymmeradwy, pa bethau ſydd yn cael eu canniattâu 'n fynych, pan y ſo temtaſiynau *mwy* 'n cael eu gwrthod. Nid yw *tam-dreulio ychydig o amſer* yn ymddangos i lawer o ddynion doeth a da, ond *matter bâch*; er fod hyn, weithiau, yn eu gyrru hwynt i llawer o anghyfleuſderau. Y mae hyn yn eu harwain yn fynych i dorri ar draws amſerau rheolaidd perthynol i ddeſoſiwn; yn peri iddynt roddi heibio ryw orchwylion, ac a allant gael eu cyflawnu yn ddioed; ond gan eu goſod heibio o ddŷdd i ddŷdd, y maent yn aros heb eu cyflawnu oll; a thrwy hynny y mae 'r gwaſanaeth mewn bywyd yn brinnach, a'r gwobrwyon yn y bŷd tragywyddol yn cael eu lleihâu 'n gyfatteb ol: Fe fyddai yn hawdd i brofi hefyd, fod hyn yn gwneud yr enaid yn agored lawer gwaith i demtaſiwnau pellach, trwy ba rai y clwyfir hi, mewn canlyniad o i bod yn *ſegur*. Gwilia gan hynny, yn erbyn y temtaſiwnau cyntaf o'r natur hyn. Cofia, fod enaid dŷn yn *fôd bywiog* ac ei bod hi yn cael ei *gwynfŷd* oddiwrth ei *bywiogol weithrediadau*. Gwreſoga gan hynny, lwynau dy feddwl (a). Ymdrecha i gadw dy hun ar *waith da* bob amſer. Bydd *fanwl*, os gallaf gyda goſtyngeiddrwydd a pharch ddywedyd felly, *i gadw 'th amſerau goſodedig i gyfarfod â 'th Dduw*. Cyferfydd ac ef y boreu ar y wawr; ac na ddywaid gyda 'r *diogyn*, pan ddêl yr awr gymmwys i godi

(a) 1 Pedr i, 13.

i godi, ychydig o huno ac o heppian ym mhellach (b). Rhô 'r amſer a welo *callineb* yn gymmwys, i gyfrinach, a difyrrwch. A phan elo 'r cyfryw amſer heibio os na bydd i ryw beth pwysfawr na râgwelaiſt dy attal, *cyfod a dôs ymaith*. Ymâd â chyfeillach dy gyfeillion anwylaf, a *dychwel at dy orchwyl*, pa un bynnag ai yn y maes, y ſiop, neu ynte yn yr yſtafell y bo. Canys trwy weithredu 'n groes i ddywediadau dirgel dy feddwl, ynghylch yr hyn a fo 'n ymddangos oreu y funud breſennol i'w wneuthur, er na byddo hynny ond megis treulio *hanner awr*, ſe fydd i ryw râdd o euogrwydd newydd ddyfod i mewn, ac ſe fydd i reddf gael ei mheithrin, ac a allo ddwyn gyda hi, ganlyniadau llawer gwaeth. Yſtyria, gan hynny, pa ddyledſwyddau ſydd i'w cyflawnu, ac ym mha amſer. Trefna dy ffordd mor ddoeth ac y gellych, a chanlyn hi yn ddiyſgog; oni fydd i ryw beth anniſgwyliadwy gyfodi, ac a baro i ti gredu fod dy ddyledſwydd yn galw arnat i ryw ffordd arall: Canys rhaid rhoddi llê i'r fath attaliadau na feddyliwyd am danynt. Ond os mewn canlyniad i hyn, y byddi un amſer yn rhwym i adael o'r neilldu ryw beth o bwys, ac y bwriadaiſt ei wneuthur heddyw, gwnâ hynny, os yw boſſibl, y foru: Ac nag ymofyn am waith *newydd*, nes darfod yr hyn a luniaiſt yn barod; oddieithr fod llê i gredu y bydd i'r peth newydd, fod nid yn unig yn *fwy difyrrus*, ond hefyd yn *fwy ei bwys*. A chofia bob amſer, y gweddai i *waſanaethwr Criſt* benderfynu yr holl bethau ar bob achlyſur, fel *yngwydd ei Arglwydd*.

§ 3. Gwilia hefyd rhag gormod *ſerch at bleſerau cig a gwaed*, fel peth a fydd o fawr rwyſtr i ti yn yr yrfa griſtianogol y bum yn dy annog i'w rhedeg. Nis gelli lai na gwybod i *Griſt* ddywedyd, fod yn rhaid i ddŷn ymwadu ac ef ei hun, a chyfodi ei

(b) Diar. vi. 10.

ei groes beunydd, os myn fod yn ddiſgybl iddo ef (c). Crist, yr hwn yw awdwr, ac etifaidd pob peth, *nis boddhâodd ef ei hun* (d); ond fe ymoſtyngodd i newyn, i galedi, ac anhawſderau, yn ffordd ei ddyledſwydd; a hynny i'r *grâdd eithaf*, rai prydiau, er mwyn gogoniant Duw a iechydwriaeth dynion. Yn y ffordd hon y mae 'n rhaid i ni ei ganlyn ef; ac fel na wyddom pa mor gynted y cawn ein galw i wrthwynebu hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod (e), goreu i ni, mae yn ddiammau, i ymgynnefino ar ddiſgybliaeth honno, i ymarfer pa un y mae 'n boſſibl i ni gael ein galw allan, hyd yn oed yn y fath fodd creulon, a gorfod colli 'n bywyd. Bywyd eſmwyth a moethus a 'chwanega *rym temtaſiwnau*, pa rai a allant gael eu gorchfygu 'n hawdd gan un a fae wedi ymarfer ei hun i *ddioddef cyſtudd fel milwr da i Ieſu Griſt* (f). Hyn a bàr y fath ſerch at y bŷd hyn, ac a'n gwnelo yn anfoddlon i ymadael ac ef; yr hyn ſy 'n anweddaidd i'r ſawl ac ſydd yn *ddiethriaid a phererinion ar y ddaiar*; y rhai ydynt yn diſgwyl cael eu galw ar frys i feddiant o'r *wlâd well*, pa un y maent *yn ei cheiſio* (g). Yſtyria ym mhellach, fod yr hyn ac y mae 'r bŷd yn alw 'n *fywyd pleſerus*, yn ſicr yn *fywyd treulſawr* hefyd; yr hyn a all o boſſibl dy ddwyn di, fel y bu 'n foddion i arwain eraill, i fyw uwchlaw yr hyn a drefnodd rhagluniaeth at dy gynnal; ac felly ſyrthio 'n fuan i dylodi. Ac er, mewn achoſion eraill, y dylai *toſturi gael ei ddangos i'r tyawd*, etto tylodi yw hwn ac ſy 'n gyfiawn ddirmygus, oblegid ei fod yn *effaith ynfydrwydd dŷn ei hun*; a phan ddelo 'th *angen arnat fel gŵr arfog* (h), ti a gei weled dy hun, nid yn unig wedi 'th ddioſg o'r cymmwyſderau hynny, y rhai pe amgen a allaſit eu diogelu er mwyn cyflawnu 'r gweithredoedd hynny o eluſen, pa rai ydynt y fath harddwch

(c) Luc ix. 23. (d) Rhuf. xv. 3. (e) Heb. xii. 4.
(f) 2 Tim. ii. 3. (g) Heb. xi. 13—16. (h) Diar. vi. 11.

harddwch i'r broffes griſtianogol, ond hefyd dan demtaſiynau cryfion o boſſibl, i ymarfer rhyw *gyfrwyſderau*, ac i gydſynniaid â phethau pa rai a fyddo yn gwbl anghyſſon a character criſtion a dŷn oneſt. Llawer a wnaethent broffes hŷ o Grefydd unwaith, wedi bod yn euog o rês o'r fath waradwyddus ddichellion, a ſyrthiaſant o'r diwedd i'r enw goganus o *dorfaſnachwyr**; ie i fŷſg y rhyw *waethaf y honynt*; ſef y rhai a afradlonaſant eiddo rhai eraill, ac felly a ddrygaſant, ac a dorraſant o boſſibl, rai o'u cŷdgreaduriaid llafurus, er mwyn porthi eu nwŷdau ynfyd, trythyll, a balch, yr hyn oedd yn *gywilydd* i'w teuluoedd yn y cyfamſer, a phan na allent eu porthi 'n hwy, ydynt yn *boen* iddynt. Y fath beth fydd yn waradwydd ofnadwy i Grefydd: Y fath waradwydd iddi, fel y chwennychai ddŷn duwiol i fyw ar *fara* a *dwfr*, ie i farw yn niffyg y pethau hyn, yn hytrach na bod yn achos o hono.

§ 4. Gwilia gan hynny, yr wyf yn attolygu arnat, yn erbyn pob peth ac allo fod yn tueddu at hyn, yn neillduol trwy fod yn *ddiwyd* yn dy *orchwylion*, yn *ddoeth* ac yn *gymmhedrol* yn dy *araul*, yr hyn all, dân fendith Duw, wneuthur dy negeſau bydol yn llwyddiannus, dy iechyd yn grŷf, a'th feddwl yn eſmwyth. Ond nis gall hyn byth fod heb gadw gwiliadwriaeth ddiyſgog arnat dy hun, gan ddewr ymwrthod â llawer o gynnygion ac a all *ſwrthni* a *thrythyllwch* oſod ger dy fron mewn modd dengar; dros yr hyn y dadleuant gan ddywedyd, *nad yw 'r peth y maent yn ofyn ond bychan iawn*. Cymmer ofal yn yr yſtyr hyn, rhag bod o honot yn debyg i'r rhieni *calon-dyner* hynny, pa rai trwy borthi blŷs eu plant ym mhob peth ac y maent yn chwennych, ydynt yn eu hannog i fod o'r diwedd yn fwy *gormeſol* ac *arglwyddiaidd* yn eu cais; a thrwy hyn yn ymddangos fel rhai a fyddai 'n dewis cael eu *diſtrywio* gyda

* Bankrupts.

gyda 'u plant, yn hytrach na'u hattal yn yr hyn a fo 'n ymddangos yn beth diſtadl. Cofia ac yſtyria 'r dywediad rhagorol hynny, a ſeliwyd ac a wiriwyd trwy golledigaeth miloedd; 'Yr hwn a ddibriſio *bethau bychain*, a *gwymp* bob yn ychydig ac yn ychydig.'

§ 5. Yn yr olwg hyn ar bethau, rhô gennad i mi, fy anwyl ddarllenydd, i'th rybuddio di 'n dyner ac yn ddifrifol, i ochelyd y maglau a oſoder i ti gan *gyfeillion ofer*. Nid wyf, fel o'r blaen, yn ſôn am gyfeillion ac fo 'n gyhoeddus afreolaidd ac annuwiol. Mi a obeithiaf fod rhywbeth yn awr yn dy dymmer a'th ddibenion, ac a bâr i ti droi ymaith oddiwrth y cyfryw rai gyda *ffieidd-dra a dychryn*. Ond yr wyf yn dymuno i ti yſtyriaid y gall fod y cymdeithion hynny 'n beryglus, pa rai ar y cyntaf ni roddant i ti fawr o achos i arſwydo: Yr wyf yn meddwl y ſawl, er nad ydynt yn elynion cyhoeddus o Grefydd, ac yn ganlynwyr proffeſedig o ddrygioni ac afreolaeth, ſydd etto yn amddifad o un adnabyddiaeth ymarferol o ddwyfol râs ar eu calonnau, mor belled ac y gellir barnu trwy eu cyfrinach a'u hymddygiad. Rhaid i ti o angenrheidrwydd fod yn fynych gyda 'r fath ddynion; ac y mae criſtianogaeth nid yn unig yn canniattâu, ond yn gofyn, i ti ar bob achlyſſur, pan gyfarfyddech â'r fath, i ymddiddan â hwynt yn *fwynaidd*, ac yn *barchus*: Etto gochel ddewis y cyfryw i fod dy *gyfeillion mwyaf mynweſol*, ac na threulia y rhan fwyaf o'r munudau a fo gennyt i gyfrinachu, yn eu cyfeillach hwynt. Canys y mae 'r fath gyfrinach yn eglur yn tueddu i ddenu yr enaid oddiwrth Dduw, ac i'w hanghymmwyſo hi i bob rhyw yſprydol gymmundeb ac ef. Er mwyn i ti gredu hyn, edrych yn ol ar dy brofiad dy hun, wedi bod o honot oriau ynghŷd ymmŷſg dynion o'r fath ymarweddiad. Onid wyt yn profi dy hun yn fwy annu-

eddol

ddol i'r ymarferiad o ddyledſwyddau Creſydd? Onid wyt yn cael dy galon yn raddol mewn modd diarwybod yn tueddu i gŷdymffurfio yn fwy fwy â'r bŷd hwn; ac i edrych ar y gwrthrychau a'r ymarferiadau hynny, gyda dirgel gaſineb, pa rai y mae rheſwm yn ein cyfeirio ni attynt fel y pethau gwychaf a mwyaf dymunol? Dal ſulw ar yr arwyddion cyntaf o hyn, a gwilia rhag y fagl mewn prŷd: Ac i'r diben hynny ymdrecha i gael y fath gyfeillach ac ſo wedi ei gwreiddio ar dduwioldeb, ac yn cael ei pharhâu trwy 'r unrhyw. Bydd yn *gyfaill i'r rhai oll a ofnant Dduw, ac i'r rhai a gadwant ei orchymmynion* (i). Ti a wyddaiſt yn dda, mai hwynt hwy yw 'r rhai *rhagorol y ddaiar* yngolwg Duw; boed gan hynny, dy holl *hyfrydwch dithau ynddynt* (k). Ac fel na bo i ti golli 'r bûdd enwedigol ac ſydd yn tarddu o'u cyfrinach, ymdrecha i wneud y goreu o'r amſer y dreuliech yn eu mŷſg. Fe ddywedodd y doethaf o ddynion, mai er ſod *cyngor yng nghalon gŵr megis dyfroedd dyfnion*, hynny yw, pan ſo 'n gorwedd yn ddyfn ac allan o olwg, etto *gŵr call a'i tyn allan* (l). Cais gan hynny, ar y fath achoſion, mor belled ac y bo gweddaidd a chyfleus, i droi 'r gyfrinach i ſod yn un grefyddol. A phan bo bethau defnyddiol a ſyml yn cael eu crybwyll o'th flaen, cymmer afael arnynt, gan ymhelaethu yn eu cylch; ac i'r diben o hynny preſwylied *gair Criſt* ynnot yn helaeth (m), a gwnâ ef bob amſer yn *ŵr o'th gyngor* (n).

§ 6. Trwy ymddwyn fel hyn, ti a ddiogelir, nid yn unig rhag y maglau ſydd oddiwrth *ſegurdod* a *gloddeſt*, ond hefyd rhag yr *haint* a gyfyd oddiwrth bob rhyw *ſiampl* ddrŵg. Hyn hefyd a bâr i ti wilio rhag *gormod ffrŵſt* ynghylch pethau bydol, yr hyn a all fyned â'th holl feddyliau a'th amſer, a thrwy hynny

(i) Salm cxix. 63. (k) Salm xvi. 3. (l) Diar. xx. 5.
(m) Col. iii. 16. (n) Salm cxix. 24.

hynny i dagu *gair Duw*, a'i wneud mewn meſur mawr, os nid yn gwbl, *ddiffrwyth* (o). Y mae pobl ieuaingc yn gyffredinol yn llawn o amcanion. Gan eu bod heb brofi ond ychydig mewn cymmariaeth, o flinder yng ngorchwylion y bŷd, nac ychwaith, fawr o rwyſtrau na ſiommedigaethau mewn bywyd, y maent yn hawdd yn llyngcu 'r pethau hyn, ac megis yn eu diddymmu hwynt yn eu dychymmygion; gan feddwl y bydd eu gwrolder, eu diwydrwydd, a'u cyfrinach hwynt, yn abl i orchfygu pob anhawſdra. Ond y mae profiad yn dangos i'r gwrthwyneb. Mi a'th gynghoraf di gan hynny, i fod yn ofalus rhag boddi dy hun mewn mwy o negeſau nag a allech ddwyn i ben fel y gweddai i ti, a hynny yn gyttunol â gofal am dy enaid, ac â gwaſanaeth Duw; yr hyn yn ſicr ni ddylent gael eu heſgeuluſo mewn un modd. Diammau fod *doeth ofal am dy orchwylion bydol*, yn galw am y gocheliad hwn; gan fod yn eglur i bob un ac ſy'n dwys yſtyriaid, fod tyrfaoedd yn diſtrywio 'u hunain, wrth eu gwaith yn *crafangcu* mwy nac a allont reoli yn gyfleus. O blegid hyn, ni welwn yn aml, pan y mae dynion a'u bwriad ar fod yn gyfoethog, eu bod yn *gwanhâu eu hunain â llawer o ofidiau* (p); yn diſtrywio eu teuluoedd, ac yn anheithio llawer eraill o'u cwmpas: Y rhai, pe buaſent foddlon i gymmhedrol orchwylion, ac i gymmhedrol ynnill, a allaſent lwyddo; a thrwy ddwyfol fendith ddyfod ymmlâen yn raddol i gynnydd anrhydeddus. Ond pe ni byddai unrhyw berygl oll i'w ddiſgwyl ar y pen hyn, pe baet mor ſicr o ddyfod yn *fawr* ac yn *gyfoethog*, ac wyt o *ddryſu* ac o *flino dy hun* trwy amcanu at hynny, etto yſtyria, yr wyf yn attolygu arnat, pwy mor anſicr yw 'r pethau hyn oll. Yſtyria pwy mor fynychedd y mae *bwrdd brâs* yn dyfod yn *fagl*, a'r hyn a

(o) Mat. xiii. 22. (p) 1 Tim. vi. 10.

ddylai fod er *daioni* i ddŷn, yn dyfod yn *dramgwydd iddo* (q). Na anghofia 'r addyſg ſer honno, ac ſydd mor gyflawn o'r doethineb mwyaf; '*un peth ſy 'n angenrheidiol* (r).' Meddwl bob dŷdd tra mae y pethau mawrion a gwychion y bywyd hwn yn diſgleirio ger bron dy lygaid, pa mor gynted y daw 'r angau, pa un a'th dloda di ar unwaith; pa mor gynted y bydd iddo 'th ddioſg o'th holl feddiannau, ond yn unig y tryſorau pa rai a fo 'r enaid noeth yn ei dwyn gydag ef i dragywyddoldeb, pan fo yn ymadael â'r corph yr hwn a gleddir. Tragywyddoldeb! Tragywyddoldeb! Tragywyddoldeb! Dŵg yr yſtyriaeth o hono gyda thi, os bydd boſſibl, trwy bob awr o'th fywyd; gan gwbl gredu nad oes gennyt unrhyw *neges* na *bûdd* i ofalu am danynt ar y ddaiar, ac ſydd yn anghyſon à'r fath yſtyriaeth: Canys beth bynnag a allo rwyſtro 'r olwg ſyml ar dragywyddoldeb, nid yw 'n *ddyledſwydd* arnat, ac nis gall roddi un *lleſhâd* i ti. Gwîr yw, fod y rhan fwyaf o ddynion yn ymddwyn fel pe baent yn meddwl, mae 'r unig beth ac y gais Duw ganddynt i'r diben o ſicrhâu ei heddwch ef, yw *caſglu cymmaint ac a fo boſſibl o'r bŷd ynghŷd*; o leiaf, cymmaint ac a allent heb fod yn euog o waradwyddus anfoeſoldeb, ac heb beryglu 'r *cwbl oll*, trwy 'chwanegu ychydig. Ac mewn trefn i ddwyn ymmlâen eu daiarol ymgais, hwy a ddywedant wrth eraill, ac wrthynt eu hunain o boſſibl, nad ydynt ond ymofyn am gyfleuſderau *i fwy o ddefnyddgarwch*. Ond mewn effaith, os ydynt yn meddwl dim amgen na *gallu* i fod yn fwy defnyddiol, yr hyn, pan y maent yn meddu arno, *his defnyddiant*, y maent yn gyffredinol yn twyllo 'u hunain: ac y mae 'r hyn a ddywedant yn rhyw ffordd neu gilydd, yn eſgus gwâg. Y mae dynion yn ymgais am y bŷd fynychaf, naill ai i'r diben o bentyrru cyfoeth, er mwyn y pleſer

(b) Salm lxix. 22. (r) Luc x. 42.

y pleſer gwael a gwaradwyddus o gael *dlrych arno* tra fyddont byw, ac o feddwl y byddir yn dywedyd am danynt ar ol eu marwolaeth, iddynt adael cynnifer *o gannoedd neu filoedd ar eu hôl*; a hynny, y mae 'n bûr debygol, i fod yn *fagl* i'w *plant*, neu ynte eu *hetifeddion*, (canys nid yw 'r gwagedd hyn yn perthyn yn unig i'r ſawl ydynt rieni plant:)— Neu ynte i gael eu treulio hwynt ar eu *meluſchwant*, ac i'r diben [illegible]rochi eu hunain yn y pydew o drythyllwch, yn yr hwn y mae, os nid rheſwm, etto Creſydd yn cael ei cholli yn fuan, a'r pleſerau gwychaf a allant ddyfod i galon dŷn, ſy 'n cael eu llyngcu i fynu gyda hi. Ar yr olwg hyn, y mae 'r *cyfoethogion* yn gyffredin yn ymddangos i mi yn wrthrychau o fwy o doſturi na 'r *tylodion:* Hyd yn oed pan fo 'r naill a'r llall o honynt, (yr hyn ſydd yn beth cyffredin) yn byw *heb ofn Duw* o flaen eu llygaid; y mae 'r cyfoethogion yn camddefnyddio llawer mwy o roddion da yr Arglwydd, ac am hynny y mae 'n debygol iawn y cânt *deimlo* eu trueni 'n fwy yn y bŷd o ddiſtryw, yr hwn ſydd yn aros i bechaduriaid anedifeiriol.

§ 7. Ac O ddarllenydd anwyl, rhag i ti dybiaid dy hun yn ddiogel oddiwrth y fath berygl, rhô gennad i mi ddywedyd wrthyt, fod gennym reſwm i feddwl fod llawer yn awr mewn cyflwr truenus iawn, pa rai a feddyliaſant yn ddifrifol am Grefydd unwaith, pan oeddynt yn taro allan mewn *amgylchiadau iſel* mewn bywyd; ond y maent wedi troi eu cefnau ar y Duw byw, a dewis *Mammon*, ac felly 'n ymfalchio yn y *cadwynau auraidd* hynny, pa rai ſy 'n bûr debygol o'u dwyn ar frys i *gadwynau tywyllwch*, a'u gadael yno. Gan fod y fath ganlyniadau dinyſtriol yn cydfyned â ſerch at y bŷd hwn, *na wynfyded dy galon wrth bechaduriaid* (s); ac na fydd, o chwant i feddiannu eu golud hwynt, yn euog o'r

(s) Diar. xxiii. 17.

fath ynfydrwydd a rhoddi dy hun yn agored i'r perygl dauddyblyg hwn, ſef, naill ai *ſiommedigaeth* yn yr *ymgais*, neu *ddiſtryw* trwy dy *lwyddiant*. Cwttoga 'th ddymuniadau; ac ymdrecha i fod yn foddlon ar ychydig: Ac os bydd i ragluniaeth i'th alw di allan i weithredu mewn cylch mwy ehang, ymoſtwng mewn ufudd-dod i ragluniaeth, gan gyfrif hyn ymmŷſg y lleill o brofedigaethau 'r bywyd hwn, ac yn galw am fwy o râs i ſefyll fel milwr da. Canys bydd ſicr o hyn, mai fel ac y bo 'th achoſion bydol yn amlhâu, fe fydd dy ofalon a'th ddyledſwyddau yn fwy hefyd; ac y mae 'n debygol y bydd i ſiommedigaethau a gofidiau gynnyddu yn gyfatteb ol.

§ 8. AR air, boed i ti, ar y cwbl, ddyſgu marw, trwy ddwyfol râs, i'r bŷd preſennol; i edrych arno fel yſtâd iſel o fôd, yr hwn ni ddarfu i Dduw erioed appwyntio i fod yn brîf ddedwyddwch, nag yn ofal pennaf, un o'i blant: Bŷd, ym mha un y mae rhywbeth yn wîr i'w fwynhâu, ond y mwyniant pennaf ſydd oddiwrth Dduw ei hun. Bŷd yw hwn, lle rhaid i ti ddioddef llawer gydag amynedd ac ymoſtyngiad; ac ym mha un y mae rhyw ddyledſwyddau pwyſfawr i gael eu cyflawnu, a gyrfa o ddiſgybliaeth i fyned trwyddi, yr hon ſydd i'th wneud yn gymmwys i 'ſtâd well; ac i ba un yr ydwyt yn agos, fel criſtion, ac i'r hon y bydd i Dduw dy alw ar frys o boſſibl; ond yn ddiammau os cedwi dy ffordd, fe fydd iddo 'th alw yn y *modd* a'r *amſer* mwyaf cymmwys. Gâd y cwbl, gan hynny, i'w drefniad ef. Boed i'th obeithion a'th ofnau, dy ddiſgwyliadau a'th ddymuniadau, ynghylch y bŷd hwn, gael eu cadw mor iſel ac ſy 'n boſſibl; a bydded i'th holl feddyliau gyduno i ymofyn, pa fath un yn dy amgylchiadau preſennol y fyn Duw i ti fod; a pha fath ymddygiad yw hwnnw, trwy ba un y gelli yn y modd mwyaf effeithiol ryngu ei fodd, a'i ogoneddu ef?

GWEDDI

Gweddi *'r Criſtion ieuangc am ddwyfol nerth i ymgadw rhag y maglau uchod.*

'O Dduw bendigedig! Ymmŷſg yr anneirif 'faglau a pheryglon, pa rai a'm cylch-'ynant, canniattâ i mi allel edrych i fynu attat ti, 'gan attolygu arnat mewn modd goſtyngedig, i'm 'hamddiffyn oddiwrth y rhai a ymgyfodant i'm 'herbyn (t), ac i fod dy olwg arnaf er daioni (u)! 'Pan ſo ſwrthni a diogi yn dyfod arnaf, boed i ti 'm deffroi o bob rhyw freuddwydion ofer, trwy 'fywiol a ſerchiadol olwg ar y bŷd tragywyddol ac 'anweledig, i ba un yr wyf yn gogwyddo! Boed i 'mi allel cofio 'n waſtadol, pa ryw anfeidrol leſhâd 'ſydd o ddiwyd ac iawn ymarferiad o'r munudau 'darfodedig hynny, pa rai a drefnaiſt i mi fel *amſer parottoad* erbyn tragywyddoldeb!

'Os pechaduriaid a'm denant, na âd i mi 'gyttuno â hwynt (x)! Boed ſanctaidd gyfrinach 'â thydi fy Nuw, yn peri i mi ddiflaſu ar gyfeillach 'y ſawl ac ydynt ddieithriaid i ti, a rhai a chwen-'nychant dorri fy enaid oddiwrthyt! Cynnorthwya 'fi i anrhydeddu y rhai a'th ofnant di, O Arglw-'ydd (y); a chan rodio gyda 'r fath ddynion 'ſanctaidd a doeth, bydded i'm henaid gynnyddu 'mewn doethineb a ſancteiddrwydd o ddŷdd i 'ddŷdd (z)! Bywhâ fi, O Arglwydd, trwyddynt 'hwy, fel y bo i ti fywhâu eraill trwof finneu! 'Gwnâ fi yn ddefnyddiol offeryn i ennyn fflam o 'gariad dwyfol, a'i chynnyddu, ym mynweſau fy 'nghŷd-greaduriaid; a bydded iddi fyned o galon 'i galon, a chynnyddu 'n fwy fwy ar bob munud!

'Cadw fi, O Arglwydd, rhag *cariad at drythyll bleſerau cîg a gwaed*! Boed i mi gofio 'n waſtadol

(t) Salm lix. 1. (u) Jer. xxiv. 6. (x) Diar. i. 10.
(y) Salm xv. 4. (z) Diar. xiii. 20.

'fod *ſynniad y cnawd yn farwolaeth* (a)! Bydded da 'gennyt, gan hynny, i buro ac adnewyddu fy 'enaid, trwy ddylanwadau ſanctaidd Yſpryd, fel y 'gallwyf bob amſer *ymgadw* rhag pob rhyw bleſerau 'anghyfreithlon, gyda mwy *gofal* nag y mae eraill 'yn eu *canlyn* hwynt; a boed i mi allel ymarferyd 'yn ſobr â 'r pleſerau a ganniattaiſt ti i'r natur 'ddynol, a'r hyn y mae natur pethau 'n wneud yn 'angenrheidiol yn y fuchedd hon! Nertha fi bob 'amſer i gadw golwg ar ragoroldeb fy rhan reſym-'mol ac yſprydol; a boed i mi allel ymgais ar ol 'pleſerau 'r *dŷn* a'r *criſtian*, fel fy nedwyddwch 'pennaf! Bydded i'm henaid allel cyfodi ar aden-'ydd myfyrdodau ſanctaidd, tu a gwledydd y go-'goniant anweledig; a boed i mi allel ymbarottoi 'trwy ddwyfol râs i fwynhâu gwleddoedd yr yſpry-'dion angylaidd ſy 'n byw yn dy breſennoldeb 'di, mewn *happus anghymmhwyſder* i'r mwynhâd 'o'r pleſerau ammhûr hynny, ac ydynt yn fynych 'yn maglu 'r yſprydoedd a breſwyliant yn y cnawd, 'ac yn peri iddynt yn aml anghofio eu *huchel* 'naturiaeth, a'r *gobeithion* gogoneddus hynny, pa 'rai yn unig ſy 'n gyfattebol i'r fath wŷch natur-'iaeth.

'DYRO, O Arglwydd, i mi *wybod y ſefyllfa* a 'gyfnaiſt i mi mewn bywyd; ac felly boed i mi 'allel cyflawnu 'r dyledſwyddau a berthynant iddi 'yn ddiyſgog! Etto gwared fi rhag y gofal ang-'hymmhedrol hwnnw am y bŷd preſennol, ac a 'dynno fy meddyliau a'm hamſer yn y fath fodd, ac 'y bo i mi anghofio yr *un peth angenrheidiol!* 'Bydded fy chwant am dryſorau bydol gael ei 'gymmhedroli, trwy 'r yſtyriaeth o'u hanſicrwydd 'a'u hannigonolrwydd; a thra bo eraill yn tryſori 'iddynt eu hunain dryſorau ar y ddaiar, rhô i mi 'fod yn *gyfoethog tuag at Dduw* (b). Na fydded 'i mi

(a) Rhuf. viii. 6. (b) Luc xii. 21.

'i mi fod, byth yn *rhy bryſur* ynghylch pethau 'r
'ddaiar, fel na bo gennyf amſer i yſtyriaid yr
'achoſion pwyſig perthynol i'th ogoniant di, a
'daioni fy enaid fy hun; na âd i mi byth ofalu am
'y bŷd hwn, mor belled ac eſgeuluſo 'r hyn a
'berthyn i'm tragywyddol ddedwyddwch! Nertha
'fi i dramwy trwy 'r ddaiar â'm gobaith a'm calon
'wedi eu ſefydlu ar y nefoedd; a boed i mi deimlo
''th ddylanwadau graſol yn tynnu 'n gryfach gryf-
'ach, fel y bwyf yn tynnu 'n nês nês i'r canol-
'bwynt dymunol hynny; hyd oni ddêl y *munud*
'*happus*, ym mha un y bydd i holl wrthrychau
'daiarol gilio o'r golwg, a gogoniant y bŷd nefol
'lewyrchu ar fy enaid, yr hwn fydd wedi ei
'nerthu a'i gymmhwyſo i dderbyn y fath amly-
'giadau, ac nas gall ſefyll danynt yn breſennol!
'Amen.'

PENNOD XXII.

Yr Cyflwr o ddadfeiliad yſprydol ac o nychdod mewn Crefydd, yn ei yſtyriaid.

§ 1. OS byddaf mor ddedwydd a thyccio gyda thi trwy 'r cynghorion a'r rhybuddion ac a roddais, ti a fyddi 'n debygol o fyned ymmlâen mewn Crefydd gydag hyfrydwch a chyſſur; ac fe fydd dy lwybr yn y cyffredin fel goleuni 'r boreu, yr hwn a oleua fwy fwy hŷd ganol dydd (a). Ond ni feiddaf fi wenhieithio i mi fy hun mor belled a diſgwyl llwyddo yn y fath fodd, ac y bo i ti gael dy garrio uwchlaw yr amrywiol dymmherau, yr ymddygiadau, a'r ſefyllfaoedd hynny, y bu 'r go-

(a) Diar, vi. 18.

eu o ddynion mewn meſur mwy neu lai yn achwyn o'u plegid ym mhob oes. Yr wyf yn mawr ofni, er mor wreſog yw dy galon yn breſennol trwy'r darluniad a roddais o Grefydd, er y bydd i wrthrychau *ffydd* a *gobaith* barhâu yn anghyfnewidiol, y bydd i'th dymmer di tuag attynt gyfnewid. Yr wyf yn ofni 'n fawr, y bydd i ti deimlo dy feddwl yn gwanhâu ac yn *blino* yn ffyrdd daionus yr Arglwydd; ïe y bydd i rywbeth lwyddo gyda thi mor belled a'th dynnu ryw gam oddiarnynt, a thrwy hynny ddyfod yn yſglyfaeth i rai o'r profedigaethau hynny, ar ba rai yr ydwyt yn awr yn edrych gyda diyſtyrwch ſanctaidd. Yn y canlyniad o hyn, fe fydd i Dduw *guddio ei wyneb* oddiwrthyt; fe fydd yn debygol o eſtyn allan ei *law geryddol* yn dy erbyn; a thi gei weled amſer gofidus, er bod yn awr yn gyſſurus, yn llawenhâu yn yr Arglwydd, ac yn ymhyfrydu yn Nuw dy iechydwriaeth (b). Mi a obeithiaf gan hynny, y bydd o ryw waſanaeth (os bydd i'r fath beth ac ſy 'n rhy debygol i ddigwydd) i ſylwi ar y pethau hyn yn fwy neillduol: Ac yr wyf yn gweddio o'm calon, ar i Dduw gwneuthur yr hyn a ddywedwyf yn foddion i adferu, i gyſſuro, ac i nerthu dy enaid, os bydd iddo ddioddef i ti wyro oddiwrtho mewn un grâdd.

§ 2. Mi a gâf yn flaenaf ſylwi ar y cyflwr o *ddadfeiliad* ac o *nychdod mewn Crefydd*. A chyn yr elwyf ym mhellach, dymunaf arnat i yſtyriaid, na châf fi ddim ſôn dan y pen hyn, am bob rhyw drai yn y gwrês hynny, ac y mae 'r criſtion ieuange yn ei deimlo pan fo 'n dyfod yn brofiadol gydnabyddus o bethau dwyfol. Y mae ein natur wedi ei ffurfio yn y fath fodd, fel ac y mae *gwrthrychau newyddion* yn cael effaith neillduol arni: ac y mae 'n ſerchiadau yn cael eu cyffroi 'n llawer haws pan yn ieuaingc, na phan fôm wedi cyrraedd ym mhellach

(b) Hab. iii. 18.

mhellach yn ein taith trwy 'n bywyd. Nid yw y peth hyn yn cael ei iawn yſtyriaid o boſſibl. Yr ydys yn gyffredin yn pwyſo gormod ar *fywiogrwydd y ſerchiadau*; ac felly o eiſiau 'r pethau hyn, y mae 'r criſtion, yr hwn ſydd wedi addfedu trwy râs, a chwedi mawr gynnyddu mewn cymmhwyſder i ogoniant, rai gweithiau 'n barod i alaru o blegid *dychymmygol yn hytrach na gwîr ddadfeiliad*; ac i ddywedyd heb gyfiawn ſail, *O na bawn i fel yn y miſoedd o'r blaen, fel yn y dyddiau pan gadwai Duw fi* (c)! Wrth yſtyriaid hyn, y mae braidd yn amhoſſibl i ddywedyd i chwi yn rhy fynych, 'fod Crefydd yn bennaf yn gynnwyſedig *yn ymoſtyngiad yr ewyllys* i Dduw;—yn ein *gofal gwaſtadol* i ochelyd pa beth bynnag ac a wyddom fod yn ei ddigio ef;—yn y *cyflawniad* o'r hyn a drefnodd ef i ni wneuthur mewn bywyd;—ac yn ein gwaith yn *lledu ei ogoniant* trwy geiſio dwyn ymmlâen *ddedwyddwch ein cŷd-greaduriaid*.' Dyma 'r rhain a ddylem ſylwi arnynt yn fwyaf neillduol, gan edrych trwy 'r cwbl ar fod yr *annogaethau* oddiar ba rai y bôm yn gweithredu, yn *bûr* ac yn *ddiniwaid*; canys ni a wyddom mai ar y pethau hyn y mae Duw, 'r hwn ſydd yn *chwilio 'r galon*, yn edrych fwyaf: ac yn hyn oll, ni a ddylem ymoſtwng ein hunain ger ei fron ef, dan deimlad o'n haml wendidau, gan ffoi at WAED CRIST, a GRAS yr EFENGYL.

§ 3. GAN roddi 'r gocheliad hwn, mi a âf rhagof i roddi darluniad mwy neillduol o gyflwr y *criſtion* pa un ſydd yn *dadfeilio* mewn *Crefydd*; a hynny mor belled ac y bo 'n addas heb dorri ar draws yr hyn a gâf yſtyriaid yn y pennodau canlynol.—Rhaid ſylwi fod nychdod mewn Crefydd yn gynnwyſedig yn bennaf yn hyn, ſef, 'Mewn angôf o *ddwyfol wrthrychau*;—mewn *byrdra* yn y cyflawniad o'r amrywiol ddyledſwyddau hynny, yr

(c) Job xxix. 2,

ydym yn rhwym i'w cyflawnu, mewn canlyniad o'r *ymroddiad difrifol* o honom ein hunain i wasanaeth Duw.'—Fe fydd llawer o arwyddion o hyn, yn gyfattebol i'r amgylchiadau a'r perthynasau y gosodwyd y cristion ynddynt; etto fe fydd rhai o'r arwyddion hynny yn fwy cyffredin, ac yn hawdd i'w hadnabod: Ac am hynny y mae 'n addas iawn i ddal sulw arnynt; yn enwedig pan ystyriom fod y dirywiadau hyn yn dyfod ar ddynion yn fynych fel *penwynni ar Ephraim, heb wybod iddynt* (d).

§ 4. DDARLLENYDD hawddgar, os digwydd i ti byth fyrthio i'r cyflwr hyn, fe ymddengys yn gyntaf o bossibl mewn byrdra yng nghyflawniad o *ddyledswyddau 'r ystafell*. Nid am fy mod i yn meddwl, ac yn penderfynu, y bydd i ti eu cwbl esgeuluso un amser: ond o blegid y byddi yn *rhedeg* drostynt yn *oer* ac yn *ffurfiol*. DIOGI, neu ryw un o'r MAGLAU y bum i yn galw arnat i'w gochelyd yn y bennod o'r blaen, a ffynna gyda thydi mor belled (er gwybod o honot o bossibl, fod yr *amser addas* o fod yn *yr ystafell*, wedi dyfod) a pheri i ti *orwedd* ar dy *wely* rai *boreuau*; i aros mewn *cyfrinach*; neu mewn rhyw *orchwylion* yn y *prydnawnau*; fel na bo gennyt un cyfleusdra, na chymmhwyster, i fyned at Dduw yn y dirgel. Brŷd arall, er dyfod o honot i'th *ystafell mewn amser addas*, fe all rhyw lyfr a fyddit yn chwennych ei ddarllain, rhyw lythyrau a chwennychit ysgrifennu, neu ryw ddifyrrwch i gynnyg ei hun, gan ddadleu am gael dy *sulw blaenaf*. Fe all y fath bethau gymmeryd mwy o'th amser nag a dybiaist yn angenrheidiol ar y cyntaf; ac o herwydd hynny ti a gwttogi, ac a ai trwy 'th weddi ddirgel ar frys; ac y mae 'n bossibl y llwyr esgeuluso ddarllain yr ysgrythurau. Fe allai y dadleui gan ddywedyd ar y fath achlysur, Nid yw hyn ond *unwaith*: Etto fe fydd i ti arfer yr un rhydd-did

(d) Hos. vii. 9.

rhydd-did yr *ail* a'r *drydydd* waith; ac fe fydd hyn yn hawſach o amſer i amſer, ac yn peri llai gofid, nag ar y cyntaf. A thrwy y fath ymddygiad, fe fydd i Dduw gael ei watwor, a'th enaid dy hun gael ei ſiommi o'i *ymborth yſprydol*; fe fydd gair Duw 'n cael ei ddibriſio, a hunan ymholiad ei lwyr anarfer; fe â gweddi ddirgel yn *faich* yn hytrach nag yn bleſer; ïe 'n ddefod ofer, yn hytrach na gwarogaeth* ddefoſionol yn gymmwys i gael ei derbyn gan ein *Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd.*

§ 5. Os na fydd i ti ddiwygio 'r pethau hyn yn ddiattreg, hwy a ymdanant etto ym mhellach, ac a gyrhaeddant hyd at ddyledſwyddau perthynol i *Grefydd gymdeithiaſol.* Fe fydd i ti ar frys deimlo eu heffeithiau hwynt yn y teulu ac yn yr eglwys. Ac os na bydd i ti *eu teimlo*, fe fydd yr *argoel ettb 'n waeth.* Meddyliau gwibiog a fwytânt ymaith *galon* y dyledſwyddau a gyflawnech. Nid wyf yn credu fod y criſtianogion mwyaf rhagorol, yn cael y fraint o fod yn gwbl rŷdd oddiwrthynt: Ond y mae 'n debygol *na bydd i ti*, yn yr amgylchiadau hyn, broſ ond ychydig o aſtudrwydd, nag o un peth ac a fo 'n debyg i dufewnol dduwioldeb. A phan gyflawnech y cyfryw ddyledſwyddau digalon, ni bydd i ti yſtyriaid ond ychydig pwy mor lleied o Dduw y fwynhâiſt ti ynddynt, a pha mor lleied o anrhydedd y gafodd ef trwyddynt. Y mae 'n boſſibl mai 'r *ſacrament o ſwpper yr Arglwydd* (gan ei bod yn tueddu mor rhagorol i wneud yr enaid yn ſefydlog, ac i ddeffroi ei ſerchiadau ſanctaidd a mwyaf gwreſog) fydd yr *ordinhâd ddiweddaf* ym mha un y bydd i ti *deimlo* 'r cyfryw *ddadfeiliad.* Etto pwy a all ddywedyd y bydd i'r bwrdd ſanctaidd fod yn foddion i'th gadw 'n waſtadol yn ddeffrous ſefydlog? Gan i ti 'n ddiachos eſgeuluſo ymbarottoi, di a fyddi yn agoſhâu gyda llai o aſtudrw-

* Homage.

ydd ac ehangder calon, na chyffredin. Ac y mae 'n boſſibl, ar ol y fath hynod ddieithrwch ac anheimladrwydd meddwl, i'r diffyg o fûdd dueddu i *droi dy gefn ar dy lê*, a'th ddyledſwydd. A phan gaffo 'th elynion yſprydol di i'r man hyn unwaith, y mae 'n debygol y bydd i ti ſyrthio trwy raddau cyflymach nac erioed; ac fe fydd dy wrthwynebiad o honynt fyned yn wannach wannach.

§ 6. PAN ddarfyddo 'th gariad at *Dduw 'r Tâd*, a'r *Arglwydd Ieſu Griſt*, fe fydd i'th ſerchiadau cynnes at dy *frodyr yn Ghriſt*, a'th ofal am fod yn ddefnyddiol mewn bywyd, ddarfod yn yr un modd: Yn enwedig pan fo un peth i gael ei wneud er *bûdd yſprydol*. Fe fydd gennyt ryw eſgus neu gilydd am yr eſgeuluſtra o grefyddol gyfrinach, nid yn unig ymmŷſg dy gymmydogion a'th gyfeillion criſtianogol, pan fo cyfleuſdra addas yn ymgynnyg; ond dros dy eſgeuluſdra o ymddiddan yn grefyddol, hyd yn oed â'r ſawl ac allant fod yn aelodau o'th deulu di dy hun, a'r ſawl (os wyt wedi 'th oſôd yn y fath berthynas uchel mewn bywyd) *a rodded dan dy ofal*.

§ 7. TRWY yr eſgeuluſtra hyn, fe fydd i'th *ſerch*, naill ai at *bleſerau cîg a gwaed*, neu ynte at *achoſion bydol*, gynnyddu. Rhaid i'r enaid gael rhyw beth i ymarferyd ei hun yn ei gylch, ac i ymbleſeru ynddo: ac fel y bo iddo droi at un neu 'r llall o'r pethau uchod, fe fydd rhyw demtaſiynau neu gilydd i ymgynnyg. Fe allai y bydd i ſerch at cwmpniaeth a'r gwleddoedd a berthynant iddi, beri i ti rai gweithiau dorri trwy derfynau dirweſt ac apwyntiadau bywyd. Brydiau eraill, fe ddichon, trwy fod y bŷd yn myned yn fwy yn dy olwg, i lwyddiant dy gŷd-greaduriaid, aflonyddu dy feddyliau, ac i'th daflu i *geccraeth a chynnen*, ym mha bethau, y mae 'n anhawdd iawn i gadw 'r enaid mewn *tawelwch a diniweidrwydd*. Ac y mae 'n boſſibl,

boſſibl, pan ſo gweinidogion neu gyfeillion criſtianogol eraill yn ſylwi arnat, ac yn ymdrechu 'n ffyddlon i'th ddwyn i'r iawn, y bydd i *uwchder meddwl*, yr hyn ſy 'n fynych yn cydfyned â'r fath gyflwr wneud y fath ymdrechiadau yn annymunol dros ben. Ni all *cornwyd yr enaid* (os gallaf ei alw felly) *ddim dioddef cyffwrdd ac ef*, pan ſo yn eiſiau mwyaf; ac fe fydd i un o'r arwyddion mwyaf haelionus a hunan ymwadol o *gariad criſtianogol*, gael ei throi yn achlyſur o oerfelgarwch ac o ddiflaſdod; ie o boſſibl yn achlyſur o elyniaeth.

§ 8. Ac i benderfynu 'r cwbl, y mae 'n boſſibl i'r fath ddirywiad lanw 'th feddwl o ragfarn yn erbyn hyd yn oed yr *athrawiaethau* hynny, ac a allent fod y mwyaf effeithiol er dy ddychweliad: Ac fe ddichon y gelyn lwyddo mor belled a pheri i ti goelio na chollaiſt ti *ddim* mewn Crefydd, er dy fod yn agos i golli 'r *cwbl oll*. Fe all dy arwain i dybiaid nad oedd dy SEL gynt, ond rhyw WALLGOFRWYDD; ac nad oedd dy rodiad rheolaidd a ſanctaidd ger bron Duw, ond rhyw FANYLRWYDD *afreidiol*. Ië ym mhellach, ti a elli o boſſibl edrych arnat dy hun yn myned ar gynnydd yn fawr mewn dealldwriaeth, o blegid i ti ddyſgu gan ryw *athrawon newydd*, mai os bydd i ddŷn ymddwyn yn ddynol ac yn dda ei natur tuag at ei gŷd-greaduriaid, heb *farnu* na *difenwi* neb, ond y ſawl ac ſydd yn aflonyddu eraill trwy eu *daliadau cyfyng*, (canys y mae 'r fath ddynion yn gyffredin yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth y ſawl ac ydynt wrthrychau o'r *cymmwynaſgarwch helaeth*, a'r *cariad diduedd* hynny, am yr hwn y ſonir mor aml,) i fod ef o angenrheidrwydd mewn cyflwr diogel, er nad yw yn cyfrinachu ond yn anaml â Duw; etto y mae pob peth yn dda, os bydd iddo ond meddwl yn barchus am dano, a pheidio a'i annog i ddigofaint trwy bechodau gwaradwyddus.

§ 9. Yr

§ 9. YR wyf yn ſylwi ar y peth hyn fel y *râdd bellaf o daadfeiliad crefyddol*; ac yr wyf yn oſni y ceir gweled trwy brofiad, fod y dŷn ac a ymadawo â bywyd Crefydd mor belled a hyn, wedi dyfod i gyffiniau 'r cyflwr o wrthgiliad î bechod rhyfygus a gwirfoddol, yr hyn a gai ei yſtyriaid dan y pen neſaf: Y mae 'r cyflwr uchod yn ofnadwy, o blegid ei fod hefyd yn tueddu i attal yn y modd mwyaf effeithiol, yr ymarferiad o bob moddion addas, a'r bûdd hynny trwyddynt, i'r diben o gael adferiad; a hynny o blegid y dŷb ddiniſtriol hon, ſef eu bod yn *afreidiol*. Y mae y râdd hon o ddirywiad, yn debyg i'r llewygon a'r cyſgadrwydd hynny, y rhai a ragflaenant y parlus mûd a marwolaeth.

§ 10. NID wyf mewn un modd yn bwriadu yn y man hyn ſylwi ar yr amrywiol egwyddorion peryglus, pa rai a allant yn awr ymgynnyg i'r meddwl, gan oſod ſylfaen i heddwch, pa un ſydd gau a thwyllodrus. Y maent yn ddirifedi, ac yn peri cyfeiliornad weithiau ar bob llaw. Ond os bydd i Dduw dy ddeffroi i ddarllain dy Fibl yn aſtud, ac i deimlo yr yſpryd trwy yr hwn yr yſgrifennwyd ef, fe fydd i bob rhan o hono lewyrchu mewn argyhoeddiad ar y meddwl, ac i danu goleuni i'r diben o waſgaru 'r cyſgodau hyn o dywyllwch.

§ 11. FY nibeu penſaf yn ymddiddan â thi dan y pen hyn yw, i'th gynhyrfu, os yw boſſibl, ar yr ymddangoſiad cyntaf o *ddadfeiliad*, i ſefyll ar dy wiliadwriaeth, ac i fuan ymdrechu i geiſio adferu dy hun. Ac mi a ewyllyſiwn i ddwyn ar gôf i ti, fod yn rhaid i'r *feddyginiaeth* ddechreu, yn y ſman y dechreuodd y *clefyd*, ſef yn yr *yſtafell*. Cymmer amſer i adgofio, a gofyn yn ddifrifol i'th gydwybod, pa fodd y mae rhwng dy enaid a'r Duw bendigedig? A yw pethau fel ac y buont unwaith, neu fel yr ewyllyſiech eu bod pe gwelech dy fywyd yn darfod, a'th enaid yn myned yn ddiattreg i'r tragywyddol fŷd

fŷd? Fe fydd i un meddwl fyml am dragywyddoldeb gywilyddio mîl o'n heſguſodion gwâg, trwy ba rai yr ydym yn twyllo ein heneidiau yn yr anghôf o hono. A phan deimlech dy galon yn dirgel ymollwng, yr hyn fydd yn naturiol ar y fath achlyſur, paid a cheiſio lleihâu dy feiau, gan geiſio eſguſodi a chuddio yr hyn nas gelli lai na'u dirgel *gondemnio*; —ond cwymp dan argyhoeddiad, ac ymoſtwng am dy droſedd. Tywallt dy galon o flaen yr Arglwydd, ac ymofyn am adnewyddol ddylanwadau ei Yſpryd a'i râs. Dychwel gyda mwy o fanylrwydd at hunan-ymholiad, ac at dduwioldeb yr yſtafell. Darllain yr yſgrythurau yn fwy diwyd, yn neillduol y rhan fwyaf yſprydol a dwyfol o honynt. Ymdrecha i'w gwreiddio hwynt yn dy galon, gan geiſio teimlo yr hyn ſy 'n rheſymmol i ti gredu a deimlodd y dynion ſanctaidd a'u hyſgrifennodd hwynt, mor belled ac y bo 'n gyttunol ac amgylchiadau pethau. Agor dy enaid gyda phob ſymlrwydd i dderbyn pob rhyw addyſg o air Duw; a gwilia rhag y pethau ac a allant attal dy feddwl rhag ymbleſeru mewn Crefydd dufewnol, er na bo dim yn bechadurus yn y cyfryw bethau, ynddynt eu hunain. Ar y cwbl, hwy a allant fod yn *gyfreithlon*; ac o boſſibl yn *fuddiol* i rai; ond os cânt yr effaith uchod ar dy feddwl, diammau nad ydynt yn *fuddiol* i ti. Yn yr amgylchiadau hyn, ymofyn yn bennaf dim am gyfrinach â'r criſtianogion hynny, cynnydd pa rai mewn Crefydd a all ymddangos yn hynod, y rhai ydynt hefyd yn harddu eu proffes mewn modd tra dymunol. —Ymdrecha i allel bod yn gyfrannog o'u hegwyddorion a'u tymmherau hwynt, a rhô dy galon a'th achos yn agored o'u blaen, mor belled ac y bo doethineb yn canniattâu. Darllain ar amſerau cyfleus y llyfrau hynny ac ſy 'n cynnwys duwioldeb ymarferol, i ba rai y troſglwyddodd yr awdwyr duwiol eu meddyliau a'u calonnau, a thrwy

ba

ba rai y gelli ditheu gael prawf megis o natur criſtianogaeth ddilwgr. Ac i benderfynu, cymmer afael ar y cyfleuſtra cyntaf o agoſhâu at fwrdd yr Arglwydd; ac nag arbed na phoen nag amſer i'r diben o ſyml ymbarottoi i hynny. Yno adnewydda dy gyfammod â Duw; rhô dy enaid o newydd i ddwylaw Criſt, gan edrych ar ryfeddodau ei gariad yn marw dros bechaduriaid, hyd oni bo i'r fflam o gariad ac ſy 'n diffoddi, gael ei hail-ennyn yn dy enaid, ac hyd oni bo i ti brofi cryfach bwriadau nac erioed, *i fyw iddo ef, yr hwn a fu farw droſot ti* (e). Gwilia ar dy galon, fel y bo i'r argraffiadau da a deimlech, gael eu parhâu. Na orphwys hyd nes bo i ti gael dy gadarnhâu mewn Crefydd yn gymmaint ac erioed; ïe hyd oni bo i ti gynnyddu yn fwy nac erioed o'r blaen; canys ſicr yw fod llê i gynnyddu etto 'n fawr, a ſêl i geiſio myned ymmlâen fwy fwy, yw yr unig foddion i'th ddiogelu rhag y perygl o fyned yn ol, ac o wrthgilio etto fwy fwy.

§ 12. Ni châf fi ddim 'chwanegu, ond yn unig i ddywedyd wrthyt, fod yn angenrheidiol i ti i ymarfer â'r moddion hyn *ar frys*; os amgen, fe fydd dy fynediad yn y ffordd lydan ac fydd yn arwain i ddiſtryw yn fwy cyflym, nac yr ydwyt ti o boſſibl yn yſtyriaid: Ac fe fydd i ti yſgatfydd gael dy adael gan Dduw, i ſyrthio i ryw bechodau mawrion a gwaradwyddus, y rhai a lanwant dy gydwybod o'r *fath boen a dychryn*, fel nad yw 'r poen o *ddryllio eſgyrn* (f), ond ammherffaith gyffelybiaeth o hono.

Gweddi *i un dan ddadfeiliad yſprydol.*

'Y TRAGYWYDDOL a'r anghyfnewidiol 'Jehofa! Yr un yn dy Fôd, dy Bric-'doliaethau, a'th Ogoniant. Ieſu Griſt dy unig-'anedig

(e) 2 Cor. v. 15. (f) Salm li. 8.

'anedig Fâb, ſydd yr un ddoe, heddyw, ac yn 'dragywydd (g). Y mae 'r bŷd tragywyddol, i ba 'un yr wyf yn pryſſuro, o fawr bwys bob amſer; 'ac y mae dyfnach, a mwy ſyml yſtyriaeth o hono 'yn cael ei ſefydlu ar y meddwl aſtud, yn ol fel y 'mae 'n dyfod yn nês nês. Ond Och! y mae fy 'ngolygiadau, fy ſerchiadau, a fy mwriadau goreu 'i yn anwadal bob amſer, fel y corph gwael hwn, 'pa un ſy 'n cyfnewid bob dŷdd ac awr, yn ei 'gyflwr a'i amgylchiadau. O ba lê, Arglwydd, o 'ba lê y mae 'r cyfnewidiad ac yr wyf fi 'n awr yn 'ei broſi yn nhymmer fy meddwl tuag attat ti? Pa 'beth yw 'r achos o'r fath ymadawiad enaid oddi- 'wrthyt ti? Pa fodd nas gallaf agoſhâu attat gyda 'r unrhyw anwylder mabol a chariad, ac y galla- 'ſwn gynt? Pa ham os wyf yn dy waſanaethu oll, 'yr wyf mor hwyrdrwm yn dy waſanaeth? A pha 'ham y mae dyledſwyddau Crefydd, yn y cyflawn- 'iad o ba rai yr oedd fy mrhîf hyfrydwch gynt, yn 'awr wedi eu myned yn faich? Pa lê, O Arglwydd, 'y mae fy *nedwyddwch gynt* (h), pan yr oedd fy 'llawenydd ynnot ti fel fy Nhâd nefol mor eglur, fel 'ac y gallaſai dieithriaid ſylwi arno; a phan yr oedd 'fy nghalon megis yn torri droſodd o gariad attat, 'ac o ſêl yn dy waſanaeth, fel ac y buaſai yn fatter 'o hunan ymwadiad i mi attal amlygiadau o'r 'pethau hyn yn fy enaid, hyd yn oed pan yr oedd '*doethineb* a *dyledſwydd* yn galw arnaf i wneud 'felly?

'Och Arglwydd! *I ba lê y ſyrthiais!* Mae 'th 'lygad di yn fy ngweled bob amſer; ond O! pwy 'mor anhebyg i'r hyn oeddwn unwaith! Er mor 'oer a dideimlad ydwyf, etto yr wyf yn gorfod '*gwridio* wrth edrych yn ol ar fy ffyrdd.—Ti a'm '*gweli yn y dirgel* (i), a thi a'm gweli o boſſibl yn 'difyrru fy hun â rhyw deganau, ar y cyfryw

'amſerau

(g) Heb. xiii. 8. (h) Gal. iv. 15. (i) Mat. vi. 6.

‘ amſerau ac oeddwn yn arfer eu rhoddi mewn
‘ modd ſyml a diattreg i'th waſanaeth di. Ti a'm
‘ gweli yn dyfod i'th breſennoldeb megis o'm
‘ hanfodd; a thra yr ydwyf ger dy fron, yr wyf
‘ mor gaeth yn fy yſpryd, fel nas gallaf wybod yn
‘ iawn pa beth i lefaru wrthyt, er mai tydi yw 'r
‘ *Duw y mae i mi wneuthur ac ef*; ac er mae cadw
‘ cyfrinach oſtyngedig a pharchus â thydi, yw 'r
‘ peth mwyaf lleſol ac angenrheidiol mewn bywyd.
‘ A phan yr wyf yn ceiſio llefaru wrthyt, O! pa
‘ mor *oer* a *ffurfiol* yw fy nghalon? Y mae fy
‘ *nychymmygion* a'm *gwefuſau* ar waith o boſſibl;
‘ ond pa lê y mae 'r dwys anadliad a'r dymuniadau
‘ gwreſog hynny ar ol Duw, pa rai a deimlais
‘ gynt yn fy yſpryd? Pa lê y mae 'r orphwysfa
‘ hyfryd ac a deimlais unwaith ynnot ti, pan yn
‘ yr agoſrwydd attat yr oeddwn yn bwriadu os
‘ byddai boſſibl, na chai dim i'm ſymmud o honi?
‘ Ond O! pa mor belled yr wyf yn awr wedi fy
‘ ſymmud? Wedi darfod a'm *deſoſiynau* byrrion, os
‘ gellir eu galw yn ddeſoſiynau, pa mor gynted yr
‘ wyf yn dy anghofio di, gan ymroddi mor lleied
‘ i'th waſanaeth, ac yn ymddangos mor lleied dan
‘ effaith dy gariad, fel y gallai ddŷn dieithr ddal
‘ cyfrinach â mi dros hîr amſer, heb wybod i mi
‘ erioed gael adnabyddiaeth arnat, ïe heb allel deall
‘ wrth fy ymddiddan a'm hymddygiad, i mi gym-
‘ maint a gwybod, a chlywed fod Duw? —— Yr
‘ ydwyt, O Arglwydd, yn fy ngalw i'th *dŷ ar dy*
‘ *ddŷdd ſanctaidd*; ond pa mor ddigalon yr wyf yn
‘ dy waſanaethu yno? Nid wyf yn offrymmu ond y
‘ *corph yn unig!* Canys y mae fy *meddyliau* a'm
‘ *ſerchiadau* ynghylch gwrthrychau eraill, hyd yn
‘ oed pan fwyf yn agoſhâu attat ti â'm *genau* ac yn
‘ dy anrhydeddu â'm *gwefuſau* (k). — Yr wyt yn
‘ fy ngalw i i'th *fwrdd*; ond y mae fy nghalon wedi
‘ rhewi

(k) Eſay xxix. 13.

'rhewi yn y fath fodd, fel nad yw hi 'n toddi ond 'ychydig iawn, hyd yn oed wrth *droed y groes*; nid 'yw 'n teimlo ond ychydig rinwedd hyd yn oed 'yng *ngwaed yr Iesu*, i'w mheddalhâu! O greadur 'truenus ag wyf! Yr wyf yn gwbl anheilwng o 'gael fy ngalw yn eiddo i ti! Nid wyf yn haeddu 'cael y llê gwaelaf ymmŷſg dy blant, ac ymmhlîth 'dy deulu di; ond yn hytrach o gael fy mwrw 'allan, a'm diſtrywio byth!

'O Arglwydd, ai dyma 'r fath waſanaeth yr 'addawais unwaith i ti? Ai dyma 'r fath daledigaeth 'wyf yn ei wneuthur am dy ofal rhagluniaethol 'am danaf bob dŷdd, am aberthu dy Fâb, am gyf-'raniadau dy Yſpryd, am faddeuant o'm pechodau 'mawrion a dirifedi, ac am y gobaith o ogoniant 'tragywyddol, pa un nis haeddais, ïe pa un a 'fforffettiais mor aml? O Dduw, y mae arnaf gy-'wilydd i ſefyll, neu i blygu glîn ger dy fron. Toſtu-'ria wrthyf, yr wyf yn attolygu arnat, a chym-'morth fi: O blegid yr wyf yn wîr yn wrthrych o 'doſturi! Y mae fy enaid fel yn y llŵch o'th flaen, 'O *bywhâ fi yn ol dy air* (l)! Na âd i mi ddiofalhàu 'ym mhellach, canys yr wyf ar geulan diſtryw! 'Meddyliais am fy ffyrdd, O dyro i mi râs i *droi fy 'nhraed at dy dyſtioliaethau di*; *i fryſſio ac heb oedi i 'gadw dy orchymmynion* (m). *Chwilia fi, O Dduw, 'a phrawf fi* (n)! Dôs at y dechreuol wreiddin o'r 'afiechyd hwn, ac ſydd wedi ymdanu trwy holl 'alluoedd fy enaid; a meddyginiaetha fi! O Ar-'glwydd, dangos *bechod* i mi yn y fath fodd ac y bo 'i mi allel edrych arno gyda *ffieidd-dra!* Boed i mi 'gael y fath amlygiad o Griſt Ieſu yr Arglwydd, 'fel y bo i mi allel edrych arno, *a galaru* (o), ïe fel 'y bo i mi edrych arno a'i garu. Boed i mi gael 'fy neffroi o'r cŵſg i ba un y ſyrthiais; a dyro 'i mi,

(l) Salm cxix. 25. (m) Salm cxix. 59, 60. (n) Salm cxxxix. 23.
(o) Zec. xii. 10.

'mi, O Arglwydd, fwy o fywyd a bywiogrwydd 'yſprydol, nag a dderbyniais oddiwrthyt hyd yn 'hyn! Ië boed i mi gael fy mywhâu a'm nerthu, 'nid yn unig i ynnill y tîr a gollais, ond hefyd i 'fyned rhagof ar gynnydd, gyda mwy o gyflymdra 'nac erioed. Tywallt i lawr arnaf, O Arglwydd, 'dy Yſpryd yn ei ddoniau mewn modd tra helaeth; 'a boed iddo breſwylio ynnof, megis mewn *teml* 'wedi ei chyſſegru iddo 'i hun (p): A boed i'r 'gwaſanaeth a fo 'n cael ei ddwyn ymmlâen yn ol 'ei gyngor, a than ei lywodraeth ef, gael ei dderbyn 'yn *aberth cymmeradwy* (q) ger dy fron bob amſer. 'Boed i'r arogldarth fod nid yn unig yn barhâus, 'ond hefyd yn beraidd; a *lloſged y tân* ſanctaidd 'bob amſer ar allor fy nghalon (r); ac na âd i un o 'leſtri teml yr Yſpryd glân gael ei halogi, trwy gael 'ei arferyd i waſanaeth aflan a gwahardddedig! 'Amen.'

PENNOD XXIII.

Galarus gyflwr dŷn wedi ei ſyrthio i bechod adnabyddus a gwirfoddol, ar ol rhoddi ei hun mewn modd ſyml i Dduw, ac ar ol meſur o gynnydd mewn Crefydd.

§ 1. RHAID cyfaddef fod y grâdd o *ddadfeiliad*, pa un a oſodais i allan yn y bennod o'r blaen, yn deilwng o ddyfn alarnad: Etto dedwydd y fyddi di, fy anwyl ddarllenydd, os na bydd i ti byth trwy *broſiad*, wybod am ddirywiad gwaeth. Ti a feddyli o boſſibl, yn ol yr olwg, ſydd gennyt yn awr ar bethau, na bydd i ti ar unrhyw yſtyriaeth gymmeryd dy ddenu yn y peth lleiaf,

(p) 1 Cor. iii. 16. (q) Rhuf. xii. 1. (r) Lef. vi. 13.

lleiaf, i weithredu 'n groes i lais dy gydwybod, ac i Yſpryd Duw, yr hwn ſy 'n ei goſod ar waith. Yr wyt yn meddwl o boſſibl, mai gwell i ti farw na phechu; a da 'r ydwyt yn tybiaid: ond fe a ſeddyliodd *Pedr* mai gwell oedd marw mewn Crefydd na gwadu Criſt (a), ac etto fe a *ſyrthiodd:* ac am hynny, *na fydd uchelfryd, eithr ofna* (b). Nid yw 'n amhoſſibl i ti ſyrthio hyd yn oed i'r pechod hwnnw, pa un y meddyliaiſt nad oedd y perygl lleiaf, neu i'r hwn y bwriadaiſt yn ei erbyn yn y modd mwyaf difrifol, ac am ba un yr edifarheiſt yn chwerw doſt yn barod! Ti a elli gwympo iddo *drachefn a thrachefn.* Ond Och! os gwnai, ïe pe baet ond unwaith yn ſyrthio yn fwriadol ac yn rhyfygus, pa mor ddyfn yr archollai hynny dy galon? Pa mor ddrûd y gorfydd i ti dalu am bob rhyw bleſer, trwy yr hwn i'th dwyllwyd gan y brofedigaeth! Pa ryw ofnadwy lanaſtra a wnai ar dy holl enaid? Y mae 'n alarus i feddwl am dano. Ti a deimli o boſſibl yn y cyflwr hynny fwy o driſtwch a phoen yn dy gydwybod, pan ddelech i yſtyriaid pethau 'n ddifrifol, nac y brofaiſt erioed, pan i 'th ddeffrowyd ac i'th ddychwelwyd gyntaf; canys pechod a ymddengys yn llawer mwy pechadurus yn awr, na'r pechodau a wnaethoſt yn dy gyflwr annychweledig gynt. Mi a adwaenwn yn dda yr hwn a ddywedodd, 'Nad oedd y poenau a'r llwgfeudd ac a brofodd y pechadur yn ei edifeirwch cyntaf, yn haeddu ſôn am danynt ar yr un dŷdd â'r hyn ac y mae 'r gwrthnyſig o galon yn ei deimlo, *pan gaffo ddigon o'i ffyrdd ei hun* (c).'

§ 2. Gwir yw ei fod ef yn ddigon i archolli calon un dŷn, i feddwl am y modd y byddi'th galon di gael ei thrywanu; y modd y bydd i'th gyſſuron, dy arwyddion o gyfnewidiad, a'th holl obaith, gael eu cymmylu. O! pa fath dywyllwch a ymdanna ar bob

(a) Mat. xxvi. 35. (b) Rhuf. xi. 20. (c) Diar. xiv. 14.

bob tu, fel na bydd i haul, lloer, na ſêr i ymddangos yn dy awyr. Fe fydd i'th holl ddiddanwch yſprydol ymadael; ac fe à dy holl fwyniant amſerol yn ddiflàs. Ac os daw clefydon arnat, fel y mae 'n bûr debygol y daw, i'r diben o'th adferu, fe fydd i gydwybod euog flaenllymmu a gwenwyno pob ſaeth. Yno fe fydd i *Satan*, gelyn mawr dy enaid, gyfodi yn dy erbyn yn ei holl *ddichellion* a'i *allu*; a chan gymmeryd mantais oddiar dy *gwymp*, fe ymdrecha i'th ſathru lawr i ddiſtryw hollol a diobaith. Fe gais dy *berſwadio* i gredu, dy fod yn barod wedi ſyrthio tu hwnt i bob poſſiblrwydd o ddychweliad: Fe ddywaid na wiw i ti mwyach ymgais am ddychwelyd; ac fe gais gennyt goelio na bydd i bob ymdrech, i bob grâdd o ddiwygiad, a phob gweithred o edifeirwch, ond gwneud dy gyflwr yn llawer gwaeth, a'th ſoddi ddyfnach ddyfnach yn uffern.

§ 3. FEL hyn y bydd iddo trwy *ddychryn* geiſio 'th gadw di oddiwrth y feddyginiaeth honno, ac ſydd yn ſicr o fewn dy gyrraedd. Ond na wrando arno. Fe fydd dy gyflwr yn *alarus*; ac fe fydd dy waith yn aros yn llonydd ynddo, yn ei wneud etto 'n llawer gwaeth; canys fe fydd i'th galon ymgaledu etto fwy fwy, ac nis gelli ddiſgwyl dim ond diſtryw ofnadwy a diſymmwth. Ond bendigedig fyddo 'r Arglwydd, nid yw 'th gyflwr hyd yma 'n ddiobaith. *Dy gleiſiau a bydraſant gan dy ynfydrwydd* (d); er hynny nid ydynt yn anaele. *Y mae triagl yn Gilead, y mae yno phyſygwr* (e); na wna dy gyflwr gan hynny yn anobeithiol, trwy ddywedyd, *nid oes obaith* (f), ac felly myned ar ol dy eulunod a geraiſt. Gâd i mi ddywedyd wrthyt yng ngeiriau Duw wrth ei *bobl wrthgiliedig* yn yr unrhyw amgylchiad, pan yr oeddent yn meddwl nad oedd obaith, *Dychwelwch, medd yr Arglwydd, ac ni adawaf i'm llid ſyrthio arnoch*

(d) Salm xxxviii. 5. (e) Jer. viii. 22. (f) Jer. ii. 25.

wch (g). Llêf am adnewyddol râs, ac ar ei bwys dere 'n ol. Dywaid gyda *Dafydd*, *Cyfeiliornais fel defad wedi ei cholli*; *cais dy wâs, o blegid nid anghofiais dy orchymmynion* (h); ac mi a obeithiaf fod y coffadwriaeth o honynt yn arwydd er daioni. Ond os dychweli oll, *dychwel ar frys*. Na ddyro gam pellach yn ffordd diſtryw i ba un y cyfeiliornaiſt. Na feddwl i 'chwanegu *un pechod* ym mhellach at dy gôfreſtr gynt, ac yno edifarhâu; megis na bae ond yr un peth ar y cwbl. Fe ddichon yr *ail gyfeiliornad* fod yn waeth na 'r *cyntaf*; fe ddichon agor y ffordd i lawer mwy, gan dynnu ar ei ol y fath ganlyniadau ofnadwy, tu hwnt i'r hyn a allech di ddychymmyg yn breſennol. *Bryſia* gan hynny, ag nag *oeda*. *Diangc am dy einioes* (i), cyn y bo i'r *faeth ddryllio dy afu* (k). *Na ddyro gûſg i'th lygaid, na hûn i'th amrantau* (l): Na orwedd i lawr ar dy wely dan euogrwydd, rhag i ddrŵg i'th orddiwes; rhag ofn i glefydd dwyfol gyfiawnder dy daro, a rhag tra fyddech yn bwriadu dychwelyd y foru, i ti y nôs hon gorfod diſgyn i uffern.

§ 4. Dychwel yn fuan; a dychwel yn *ddifrifol*. Y mae rhai difinyddion godidog a duwiol wedi lleſaru ar y pen hyn, mewn dull ac ſy 'n ymddangos yn agored i gael ei wyrdroi er mawr ddiſtryw, pan y maent yn annog dynion ar ol cwympo, 'i beidio aros i edrych y tîr, ac i yſtyriaid pa fodd y cawſant eu bwrw i lawr, ond i gyfodi 'n *ddiattreg*, gan adnewyddu eu gyrfa.' Mewn pethau o lai pwys, y mae 'r cyngor yn dda: Ond pan y fo cydwybod wedi dioddef mor erchyll trwy bechu 'n wirfoddol, yn fwriadol, ac yn erbyn gwybodaeth (yr hyn ni bydd yr wyf yn gobeithio ond yn anaml ymmŷſg y rhai ac ydynt yn proffeſu Creſydd mewn gwirionedd) nis gallaf feddwl fod na rheſwm na 'ſgrythur, yn annog

(g) Jer. iii. 12. (h) Salm cxix. 176. (i) Gen. xix. 17.
(k) Diar. vii. 23. (l) Diar. vi. 4.

annog y fath ymddygiad: Yn enwedig os bu y weithred mor dra phechadurus yn ei natur, fel ac y buasai syrthiad iddi trwy y brofedigaeth mwyaf crŷf a dismmwth, yn mawr gywilyddio, yn dychrynu, ac yn gofidio 'r enaid. Y mae 'r fath gwymp yn *ofnadwy*, ac fe a ddylai gael ei syml ystyriaid. Os dyma 'th gyflwr galarus di, O fy narllenydd, myfi a ddymunwn dosturio wrthyt a galaru drosot; ac mi a attolygaf arnat, fel ac yr ydwyt yn gwerthfawrogi heddwch, iechyd, bywyd, a dychweliad dy enaid, na bo i ti ddiofalhâu *un awr* yn hwy. Dôs yn ddiattreg o'r neilldu, a myfyria 'n syml ar dy gyflwr. Tor trwy bob rhyw addewidion a gorchwylion, oddieithr yr hyn *nas gelli mewn cydwybod adael heibio dros ychydig oriau*, yr hyn nis dichon ddigwydd ond yn anaml yn yr amgylchiad yr wyf yn awr yn sôn am dani. Dyma 'r *un peth angenrheidiol*. Rhô dy hun gan hynny yn ei gylch megis ger bron Duw; a gwrando yn amyneddgar ac yn ostyngedig, yr hyn oll ac sydd gan gydwybod i ddywedyd wrthyt, er y gall hi 'th waradwyddo a 'th geryddu 'n llymdost. Gweddia 'n daer ar i Dduw lefaru wrthyt trwy gydwybod, fel y bo i ti hollol adnabod a theimlo, pwy mor *ddrŵg a chwerw yw i ti ei wrthod ef* (m). Ystyria ym mha ryw *amgylchiadau* yr oeddit yn pechu yn erbyn Duw; yn enwedig cofia am y pechodau hynny, a wnaethost yn ei erbyn, a thrwy gamddefnyddio ei drugaredd a'i ddaioni ef. Ystyria fawredd dy bechodau, nid yn unig fel ac y maent yn erbyn dy *addunedau*, a'th rwymedigaethau syml i Dduw, ond hefyd fel y maent yn erbyn yr amlygiad a gefaist o gariad Crist, yr hwn a seliwyd hyd yn oed trwy ei *briod waed*. Ai dyma 'r taliad wyt yn roddi iddo? Onid digon oedd i Grist gael ei ddrygu a'i ddiystyru fel hyn *gan ei elynion?* A raid iddo gael hefyd ei *glwyfo* yn

(m) Jer. ii. 19.

yn nhŷ ei *garedigion* (n)? A gefaiſt ti 'th *ryddhâu* ? *wneuthur y ffieidd-dra hyn oll* (o)? A fu i'r bendigedig Iesu *riddfan a marw* droſot, er mwyn rhoddi rhydd-did i ti bechu yn erbyn Duw yn fwy hŷ, ac i'r fath râdd uchel? O! meddwl pwy mor gyfiawn y gallaſai 'r Arglwydd dy fwrw di allan o'i olwg, gan dy oſod yn un o'r nodau pennaf o'i ddialedd! Edrych a *bery dy galon, ac a gryfhâ dy ddwylaw*, pe bae ef yn gwneuthur-â thi fel hyn (p)! Och! ſe fydd yr yſtyriaeth o'th brofiadau gynt, gwneud dy ddiſtryw a'th drueni yn drymmach, yr hyn ſydd raid ei deimlo mewn tragywyddol *alltudiaeth* oddiwrth Dduw, a phob trugaredd!

§ 5. Portha 'r fath *fyfyrdodau a'r rhain*. Sâf yn oſtyngedig yn y fath olwg a hyn ar dy bechodau. Pwy fwyaf ffieidd a phoenus y fo 'r olwg amynt, mwya i gŷd o lê ſydd i obeithio y bydd hi 'n fuddiol i ti. Ond nac aros yn y pethau hyn. Diben yr holl *fyfyrdodau* hyn yw, nid i'th ofidio 'n ddibaid, ond i'th feddyginiaethu; nac i ofidio ddim pellach nac fo 'n ddigonol i gael iachâd. Rhaid i ti yn wîr *edrych ar bechod*, ond rhaid i ti hefyd yn y fath amgylchiad, *edrych ar Grift*, os byth yr edrychi arno; edrych arno ef yr hwn wyt yn awr wedi ei *wânu* 'n fwy nac erioed, a galara am dano mewn modd tyner a diragrith (q). Y Duw hwnnw a bechaiſt yn ei erbyn, cyfreithiau pa un y dorraiſt, cyfiawnder pa un y bu i ti megis ei annog, trwy dy druenus a'th ynfyd wrthgiliad, ſydd er hynny 'n *Dduw trugarog* (r). Nis gelli fod mor barod i ddychwelyd atto, ac yw efe i'th dderbyn. Y mae efe hyd yn oed yr awr hon yn ymgais am heddwch, trwy 'r argraffiadau tyner ac y mae efe 'n wneuthur ar dy galon di. Ond cofia 'r *fforad y bydd iddo ymgymmodi*; ſef, trwy 'r un ffordd ac y dychwelaiſt ar y

(n) Zec. xiii. 6. (o) Jer. vii. 10. (p) Ezec. xxii. 14.
(q) Zec. xii. 10. (r) Deut. iv. 31.

cyntaf atto, yn enw, a thrwy haeddiant ei anwyl fâb. Dere gan hynny gydag ymorphwyſiad goſtyngedig arno ef. Dôs o newydd at Ieſu, gan attolygu arno i daenellu ei waed megis ar dy enaid, fel y bo i ti gael dy buro; a'th euogrwydd trwy hynny gael ei ſymmud ymaith. Fe fu i'r pechod hyn o'th eiddo di, yr hwn a ragwelodd y Duw bendigedig, drymhâu dioddefiadau dy brynwr ſanctaidd: Yr oedd yn achos o dywallt ei waed ef. Dôs yn oſtyngedig gan hynny, a goſod dy glwyfau megis dan ddiferiad y *balm* gwerthfawr hwnnw, trwy ba un yn unig y gallant gael iachâd. Fe fydd i'r iachawdwr trugarog i'th ddychwelyd gyda phleſer, pan orweddech fel ymbiliwr goſtyngedig wrth ei draed, ac fe gymmer ran yn yr heddwch a'r dedwyddwch hynny gyda thi, ac a fydd ef ei hunan yn raſol yn ei gyfrannu. Trwyddo ef adnewydda 'th gyfammod â Duw; y cyfammod a dorraiſt; yr hwn dorriad, fe allaſai i ddwyfol gyfiawnder beri i ti atteb am dano trwy bethau ofnadwy (s): Ond wele *drugaredd* yn canniattâu *cymmod*. Boed i goffadwriaeth o'th waith yn ſyrthio, i'th rwymo i ymgyfammodi o newydd gyda dyfnach yſtyriaeth o'th wendid dy hun, a mwy calonnog ymorphwyſiad ar ddwyfol ràs er dy ddiogelwch, nac erioed o'r blaen. Mi a wn y bydd arnat *gywilydd* i ymddangos ymmŷſg plant Duw yn ei gyſſegr, ac yn neillduol wrth ei fwrdd ſanctaidd, pan fo'th gydwybod dan gymmaint o euogrwydd: Etto tor trwy y cywilydd hynny, os bydd ti ragluniaeth ganniattâu: Yr wyt yn chwennych ymoſtwng ger bron dy dâd, yr hwn a ddigiaiſt; ond y mae 'n ſicr nad oes un *llê* ac y mae 'n debyg i ti ymoſtwng yn fwy nac yn ei *dŷ* ef, ac nid oes un ordinhâd yn cael ei gweini yno, ac all dy ddaroſtwng di 'n fwy, na 'r hon ſy 'n *portreiadu Criſt croeſhoeliedig o flaen dy lygaid* (t). *Pechaduriaid*

(s) Salm lxv. 5. (t) Gal. iii. 1.

aduriaid yw 'r unig ddynion ac y mae ganddynt neges wrth fwrdd yr Arglwydd; ac fel *pechaduriaid* y mae 'r *goreu* o ddynion yn agoſhâu. Fel y cyfryw dere ymmlâen; ïe fel y *pennaf o bechaduriaid*; fel un ac ſydd yn ſefyll dan angenrheidrwydd o waed Ieſu, yn gymmaint ac un creadur euog ar wyneb y ddaiar.

§ 6. Gad i mi ddwyn ar gôf i ti un peth ychwaneg: Os bu dy gwymp o'r fath fel ac y bu 'n *waradwydd ac yn dramgwydd i eraill*, na chais ffoi rhag y moddion ac a arferont er marweiddio pechod; ond bydd foddlon gwympo ger eu bron mewn dyfn ymoſtyngiad: Canys dyna 'r moddion rhagorol a drefnodd Duw yn ei ddoethineb a'i ddaioni er dy feddyginiaeth yn y fath amgylchiad. Cyfaddef dy bechod gyda 'r boddlonrwydd mwyaf: Addef ei bechadryſrwydd eithaf: A chais weddiau, a maddeuant y ſawl a dramgwyddaiſt. Dyna 'r prŷd, ac nid cyn hynny, y byddi yn *llwybr heddwch:* Nid wrth leihâu dy fai, nid trwy wneud gwâg eſguſodion, nid trwy wrthwynebu 'r dull a'r môdd ac y bo eraill yn ymddwyn tuag attat; fel pe bae 'r grâdd lleiaf o ſarrygrwydd wrth geryddu 'n ffyddlon, yn gymmaint o *fai* a rhyw *anfoeſoldeb* ac oedd yn achos o'r cerydd. Yr achos o'r pethau hyn yw balchder a hunan-gariad: Y mae 'r clwyf wedi caledu, chwyddo, a llidio, a'r teimlad o hono ſydd wedi ei golli, ac y mae 'n rhaid ei dyneru a'i oeri, cyn y byddo 'n boſſibl ei iachâu ef. Ni bydd cael ei feio a'i farnu gan ddynion, ond peth bâch yngolwg enaid wedi ei ddaroſtwng a'i ddryllio dan yr yſtyriaeth o'i fod wedi haeddu *barn Duw*, a thragywyddol ddiſtryw. Fe fydd y cyfryw un yn ceiſio gogoneddu Duw, trwy ymoſtwng dan ei fai; ac fe fydd yn ofni rhag i eraill gael eu twyllo i lettya meddyliau gwell am dano, nac y mae efe yn wybod yn dufewnol ei fod yn haeddu. Dyma 'r fath

feddyliau y mae Duw yn ei rhoddi i ddŷn gwîr edificiriol yn y fath amgylchiad; ac felly y mae yn ei ddwyn ef i'r fath barch a derbyniad ymmŷſg eraill; yr hyn, er nas gŵyr ef pa fodd i'w geiſio, y mae Duw yn ei roddi er mwyn ei gyſſur a'i ddefnyddgarwch: Ac y mae 'n amhoſſibl i gael y fath gymmeradwyaeth trwy unrhyw ffordd arall. Ond y mae addefiad rhŷdd o fai, a dyſn ymoſtyngiad am dano, yn bethau mor anrhydeddus, fel ac y mae pawb yn gorfod eu cymmeradwyo. Y mae dynion yn toſturio wrth y pechadur ac a ddygwyd i'r fath dymmer; ac yn ymdrechu ei gyſſuro trwy ddangos arwyddion nid yn unig o'u cariad, ond hefyd o'u cymmeradwyaeth.

§ 7. ESGUSODWCH fy ngwaith yn myned oddi ar fy ffordd i ſôn am y pethau ac ſy 'n perthyn mor dda i rai cyflyrau; te pethau a fyddent yn berthynol i lawer mwy, pe bae iawn ddiſgybliaeth yn cael ei harfer mewn eglwyſydd: Canys pe felly, ni chai dynion eu derbyn i ſwpper yr Arglwydd wedi cwympo i bechodau amlwg a gwaradwyddus, hyd oni chyfaddefent yn fyml eu troſedd, ac hefyd edifarhâu am dano. Ar y llaw arall, fe all fod gwrthgiliad ofnadwy mewn llawer, fel ac y mae 'r bai 'n fawr ger bron Duw, er nad yw wedi ymddangos i ddynion. Yn yr achos hyn, cofia fod i ti wneuthur â Duw yn unig, o flaen llygad pa un y mae pob peth yn amlwg, yn ei gyſiawn liw: Boed i'th enaid blygu ger ei fron ef, gan ymofyn am gymmod trwy haeddiant ei fâb a fu farw. A phan wnelech fel hyn, na thybia, mae am i ti dderbyn arwyddion o faddeuant, fod yr euogrwydd o'th wrthgiliad i gael ei anghofio ar unwaith. Cadw hynny yn dy gôf, fel y bo yn fatter o ocheliad rhagllâw: Galara o'i blegid ger bron Duw yn aml, yn enwedig yn dy weddiau dirgel: Ac edrych gyda golwg oſtyngedig ar greithiau y clwyfau, pa rai y barodd dy ynfyd-

rwydd,

rwydd, er eu bod trwy ddwyfol râs, wedi eu hollol iachâu. Y mae Duw 'n cadarnhâu ei gyfammod, nid i'r diben o fymmud yr yſtyriaeth o bob rhyw ffeidd-dra gynt, ond fel y *cofiech di dy ffyrdd, ac y cywilyddiech, ac na bo i ti agoryd dy ſafn mwy gan dy waradwydd, pan ddyhudder fi tuag attat ti am yr hyn oll a wnaethoſt, medd yr Arglwydd Dduw* (u).

§ 8. Yn awr os wyt yn chwennych meddiannu 'r fath dymmer, ac i allel dychwelyd trwy 'r fath gamrau a hyn, yna fyrthia yn ddiattreg o flaen Duw, a thywallt dy galon yn ei breſennoldeb yn y fath eiriau a hyn.

Gweddi *i un wedi fyrthio i bechodau mawrion, ar ol addunedau a rhwymedigaethau Crefyddol.*

'SANCT, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw y 'lluoedd! Pan yſtyriwyf yn fyml dy burdeb 'difrycheulyd, a threfniadau manol a diduedd dy 'lywodraeth ſefydlog, ynghŷd a'th hollalluogrwydd, 'ac fy 'n abl dwyn i ben yn ddiattreg **bob rhyw** 'feddwl yn dy galon i **bob** perffeithrwydd, y mae 'n gymmwys i mi ymddangos yr awr **hon** o 'th 'flaen gyda chywilydd a dychryn, mewn **braw a** 'fyndod enaid., Y dŷdd hwn, O fy **Nuw, y dŷdd** 'tywyll a galarus hwn, mi a **ddymunwn edrych** 'yn ol ar y pydew, o ba un y **tardd ein heuog**-'rwydd a'n trueni, ſef gwrthgiliad ein **rhïeni cyntaf,** 'gan ddywedyd gyda 'th wâs pechadurus *Dafydd,* '*Wele mewn anwiredd i'm lluniwyd, ac mewn pechod* 'y *beichiogodd fy mam arnof* (w). Mi ddymunwn 'i allel y dŷdd hwn alaru o blegid yr holl ganlyn-'iadau dinyſtriol ac fy 'n cydfyned à'r fath ened-'igaeth amhûr, fel ac y maent yn perthyn i mi fy 'hun. Ac O! pa mor lluoſog ydynt!—Pan yr

(u) Ezec. xvi, 63. (w) Salm li, 5.

'ystyriwyf bechodau fy ſtâd annychweledig, a'm 'gwendidau rhagllâw mewn bywyd, yr wyf yn 'gorfod ſynnu! Ond pa faint mwy o achos ſydd 'gennyf i ſynnu, a chywilyddo o blegid yr olwg 'ſydd yn awr ger bron fy nghydwybod i, ac o 'flaen dy lygad ditheu, yr hwn ſy 'n gweled pob 'peth! *Canys ti, O Arglwydd, a adwaenoſt fy yn-'ſydrwydd, ac nid yw fy nghamweddau guddiedig 'rhagot* (x), *ti a gyfrifaiſt fy holl ſymmudiadau* oddi-'wrth dy ddeddfau (y): Ti a weli, a thi a roddi 'yn llyfr dy goffadwriaeth, bob rhyw anufudd-dod 'a gwrthryfel yn dy erbyn di a'th gyfraith: Ti a 'weli fy nghamweddau yn yr holl amgylchiadau 'pa rai ſydd yn eu gwneuthur hwynt yn dra phech-'adurus, yn gyſtal, ac yn llawer gwell, nag y gallaf 'ſi eu gweled. *Pa fodd gan hynny, y gallaf godi fy 'wyneb attat* (z); *yr wyf yn llawn o warthrudd* (a), 'ac yr wyf yn teimlo dirgel ofid yn y meddwl o 'ddyfod attat: Etto, *Arglwydd, at bwy yr âf ſi ond 'attat ti* (b)*?* Attat ti, ar ba un y mae 'm bywyd 'a'm marwolaeth yn ymddibynnu; tydi, yr hwn 'yn unig a elli ſymmud y bai-h hwn o euogrwydd, 'ac ſydd yn awr yn fy ngwaſgu i lawr i'r llŵch; yr 'hwn yn unig a elli ddychwelyd fy enaid i fwyn-'hâd o'r orphwysfa a'r heddwch hynny a gollais; 'pa rai yr wyf yn haeddu eu colli 'n dragywydd.

'Wele ſi, Arglwydd, yn ſyrthio wrth dy 'draed! Wele ſi 'n cyfaddef fy hun yn euog ger 'dy fron, ac yn taflu fy hunan i ddwylaw 'th gyf-'iawnder, oddiwrth ba un nis gallaf ddiange! Nid 'oes gennyf air i ddywedyd i'r diben o eſguſodi fy 'hun: Canys nis gall eiriau byth oſod allan wrth-'uni, a haeddiant fy mhechodau! Tydi, a thydi 'yn unig, a wyddaiſt yn berffaith pa mor bechad-'urus ydynt. Dy anfeidrol wybodaeth di yn unig

'a all

(x) Salm lxix 5. (y) Salm lvi. 8. (z) Ezra ix. 6.
(a) Job x. 15. (b) Ioan vi. 68.

'a all amgyffred y dyfnder anfeidrol o ddrŵg ac 'ſydd ynddynt: Canys y mae yn amhoſſibl i mi 'ar lawer o gyfrifon, ei wybod. Nis gallaf fi gyn-'nwys gogoniant dy berſon ſanctaidd, awdurdod 'pa un a ddibriſiais, na rhifedi 'r amrywiol drugar-'eddau yn y mwynhâd, ac yn erbyn pa rai y 'pechais. Nis gallaf fi ddychymmyg pa mor werth-'fawr yw gwaed dy anwyl fâb, yr hwn a ſathrais i 'dan draed mewn modd anniolchgar; nag ych-'waith *ardderchowgrwydd dy yſpryd bendigedig*, 'gweinidogaeth pa un a wrthwynebais, a gwaith 'yr hwn a geiſias ei ddiſtrywio â'm holl egni, gan 'ymdrechu i ddiwreiddo planhigion ei ràs ef; y 'rhai a ddylaſwn yn hytrach eu hamddiffyn trwy 'golli fy mywyd, a'u dyfrhâu megis â'm gwaed. 'O pa mor ffiaidd ac ynfyd yr ymddygais! Och! 'ddarfod i mi o newydd agoryd clwyfau 'm henaid, 'pa rai allaſent fod yn angau i mi er ys llawer 'dŷdd, oni buaſai i'th law di gymmwyſo meddy-'giniaeth, oni buaſai i'th unig anedig fâb golli ei 'waed i'r diben o'i pharottoi hi! I mi dorri 'r *cyfammod a wnaethum â thi trwy aberth* (c); ïe 'aberth Ieſu fy Arglwydd: A thrwy hynny, yr 'wyf yn euog o'i gorph a'i waed ef (d). O fy 'ngoſid, ddarfod i mi hefyd ddianrhydeddu Cre-'fydd trwy fy muchedd anaddas, ac i fod yn fodd-'ion i agor ſafnau ei gelynion gwaethaf i'w dir-'mygu o'm plegid î, ac i lanw eraill o ragfarn yn 'ei herbyn er eu diſtryw tragywyddol!

'O Arglwydd Dduw, y mae 'n rhyfeddod 'gennyf fy mod i yma i gyfaddef y pethau hyn. 'Y mae 'n rhyfedd na buaſit cyn hyn, *yn dŷſt cyflym* 'yn fy erbyn* (e); na buaſit wedi danfon mellt tan-'llyd dy lîd allan yn fy erbyn, a'm gwaſgu hyd yn 'uffern; a'm gwneuthur yn ddychryn i bawb o'm 'hamgylch, yn gyſtal ac i mi fy hun, trwy roddi

(c) Salm l. 5. (d) 1 Cor. xi. 27. (e) Mal. iii. 5.

'i mi deimlo dial a diſtryw gwaeth na neb o'r 'colledigion di-obaith yn y trueni.

'O Dduw, y mae 'th *amynedd* yn rhyfeddol! 'Ond pa faint mwy rhyfeddol yw 'th *râs*, yr hwn 'ſydd wedi fy holl ynfydrwydd yn fy ngalw i 'attat! Tra yr ydwyf yn cyhoeddi barn yn fy er-'byn fy hun, ſef fy mod yn haeddu marw, a marw 'n dragywyddol, yr ydwyt ti yn danfon attaf 'eiriau 'r bywyd tragywyddol, ac yn fy ngwahodd 'fel plentyn gwrthnyſig i ddychwelyd attat (f). 'Wele, Arglwydd, gan fod dy air yn fy ngalw, 'a'th râs yn fy annog, yr ydwyf yn dyfod attat; er 'cymmaint yw fy meiau yr wyf yn attolwg ar i ti 'eu maddeu hwynt oll yn rhâd: Canys mi a wn, 'er fod fy mhechodau i wedi cyrhaeddyd hyd y 'nefoedd (g), fod dy drugaredd di, O Arglwydd, 'yn uwch na 'r nefoedd (i). Eſtyn y drugaredd 'hon i mi, O nefol dâd; amlyga yn awr gyfoeth 'dy râs, ynghŷd a rhinwedd gwaed dy anwyl fâb! 'Canys ſicr yw, os bydd i'm pechodau i, y rhai 'ydynt fel y *porphor*, gael eu gwneud fel y gwlân 'ac fel yr eira (k), ac os bydd i'r fath wrthgiliwr ac 'wyf fi gael ei ddwyn i ogoniant tragywyddol, ſe 'fydd i'r dduaiar gael ei llanw o ryfeddod, a'r 'nefoedd o fawl; ac ſe fydd i'r pechaduriaid mwyaf 'ddyfod attat ti 'n llawen i geiſio maddeuant, gan 'fy mod i, y *pennaf* o honynt, wedi cael trugaredd. 'O na bae i ti (wedi i mi orwedd yn alarus, ac 'megis yn gwaedu wrth dy draed hyd y gwelech 'di 'n dda) yn y diwedd iachâu fy enaid hwn ſydd 'wedi pechu yn dy erbyn (l); i roddi i mi *ogoniant 'yn llê lludw, olew llawenydd yn llê galar, a gwiſg 'moliant yn llê yſpryd cyſtuddiedig* (m)! O na rodd-'ech i mi o'r diwedd *orfoledd dy iechydwriaeth!* O

'gwna

(f) Jer. iii. 22. (g) Dat. xviii. 5. (i) Salm cviii. 4.
(k) Eſay i. 18. (l) Salm xli. 4. (m) Eſay lxi. 3.

'gwna i mi glywed gorfoledd a llawenydd, fel y 'llawenycho 'r eſgyrn a ddrylliaiſt (n). Yna pan 'ſo teimlad o'th gariad maddeuol yn dywalldedig 'ar fy nghalon, yn peri llawenydd ynddi, mi a 'gyhoeddaf dy râs i eraill; *mi a ddyſgaf dy ffyrdd i 'rai anwîr, a phechaduriaid a droir attat* (o): A'r 'ſawl a wrthgiliaſant oddiwrthyt ti, a gânt eu han-'nog i ddychwelyd attat trwy fy mhrofiad cyſſu-'rus i o'th râs, yr hyn a gyhoeddaf er dy ogon-'iant, er bod hynny er cywilydd wyneb i mi fy 'hun. *Bydded llawenydd yr Arglwydd yn nerth 'gwaſtadol i mi* (p)! Fel y gallwyf rhagllâw i'th 'waſanaethu di, gyda mwy o ſêl a bywiogrwydd 'nag erioed!

'Yr wyf yn gofyn y pethau hyn gydag ymoſt-'yngiad goſtyngedig i'th ewyllys di; canys ni ryf-'ygaf i orchymmyn i ti pa beth i wneud. Os 'wyt yn gweled yn oreu i'm gadael i yn ſiampl i 'eraill, trwy wneud i mi rodio mewn *tywyllwch* 'dros fy holl ddyddiau, ac yn y diwedd i farw dan 'gwmmwl, *dy ewyllys di a wnelir!* Ond, O Dduw, 'eſtyn dy drugaredd i'm henaid pechadurus yn y 'diwedd, er mwyn dy anwyl fâb; a rhô i mi ryw 'lê, pa bae hynny wrth *draed dy weiſion eraill*, yng 'ngwledydd y gogoniant! O dŵg fi yn y diwedd '(er cael o honof fy arwain trwy y dyffryn tywyllaf 'a rodiodd neb erioed) i'r bŷd gwynfydedig hwn-'nw, llê ni bydd i mi ymadael â Duw, clwyfo 'm 'cydwybod, na dianrhydeddu dy ſanctaidd enw 'byth mwy! Yno y bydd i'm tafod gael ei ollwng 'yn rhŷdd, er cael ei rwymo yn hîr yma gan gyw-'ilydd ac euogrwydd; a chlôd anfarwol a gaiff ei 'roddi i'r *gwaed* hwnnw a brynodd y fath adyn 'ffieidd, ac oedd gaethwâs i bechod (canys y fath 'fydd raid i mi gyfaddef fy mod unwaith) ac a'm

(n) Sa'm li. 8. 12. (o) Salm li. 13. (p) Neh. viii. 10.

'dygodd o bob caethiwed ac aflendid, i gael rhan 'yn anrhydedd a harddwch ſanctteiddrwydd y ſawl 'ydynt *frenhinoedd ac offeiriaid i Dduw* (q). *Amen.*'

PENNOD XXIV.

Cyflwr y Criſtion wedi colli llewyrch wyneb Duw.

§ 1. YMAE achos, yr hwn a ddigwydd yn fynych yn y ſuchedd griſtianogol, ac a elwir gan y ſawl a arferant eu hunain yn fawr i dduwioldeb, '*Colli wyneb Duw.*' Y mae 'r ymadrodd wedi ei fenthycca allan o air Duw; yr hyn a'i cadw ef rhag *diyſtyrwch*, yr wyf yn gobeithio, pan fo 'n cael ei arfer. Fy ngwaith yn y bennod hon fydd, i ddarlunio 'r cyflwr hyn mor eglur ac y gallwyf: ac felly rhoddi rhai cyfarwyddiadau i ti pa fodd i ymddwyn pan ſyrthiech iddo, fel ac y mae 'n bûr debygol y bydd i ti ſyrthio iddo cyn y bo i ti orphen dy daith trwy 'r bŷd anial hwn.

§ 2. YSTYR yr ymadrodd a ddeallir mewn rhan, trwy ymadrodd cyferbyniol iddo, ſef, fod *Duw yn peri i'w wyneb lewyrchu ar ei bobl*; neu ei fod yn *dyrcha llewyrch ei wyneb arnynt*. Y mae hyn debygid yn dwyn cyffelybrwydd i'r ymddangoſiad hyfryd a dymunol hynny yn wyneb cyfaill, (yn neillduol os bydd mewn ſefyllfa uchel mewn bywyd) pan fo 'n cyfrinachu â'r ſawl ac y mae efe yn garu yn anwyl, ac yn ymhyfrydu 'n fawr yn eu cyfeillach. Am hynny y dywaid *Job*, pan yn llefaru am y parch ac oedd ei gyfeillion yn ddangos iddo, *Os chwarddwn arnynt, ni chredent, ac ni wnaent i lewyrch fy wyneb ſyrthio* (a); hynny yw, hwy ofalent yn y fath amgylchiad cyſſurus, rhag gwneuthur un peth ac

(q) Dat. i. 6. (a) Job xxix. 24.

ac a fae yn debyg o'm hanfoddloni ac i beri gŵg ar ſy wyneb. *Dafydd*, pan yn dymuno cael amlygiad o heddwch Duw, a ddywaid, *Arglwydd dyrcha arnaf lewyrch dy wyneb*; ac fel effaith o hynny y mae efe yn dywedyd, *rhoddaiſt lawenydd yn ſy nghalon mwy na'r amſer yr amlhaodd eu hŷd a'u gwin hwynt* (b). Ac y mae 'r prophwyd trwy 'r fath ymadrodd yn meddwl o boſſibl am lewyrch diſclair y *Shecinah*; ſef y diſgleirdeb hynny yn y cwmmwl, fel arwydd gweledig o breſennoldeb Duw ymmŷſg yr *Iſraeliaid*, yr hyn oedd yr Arglwydd yn ei amlygu ar rai amſerau nodedig, fel tyſtiolaeth o'i ffafr, ac o'u cymmeradwyaeth hwynt ger ei fron. — Ar y llaw arall gan hynny, mae fod *Duw yn cuddio 'i wyneb*, yn cynnwys attaliad o'r arwyddion o'i ffafr; ac felly i gael ei yſtyriaid yn nôd o'i anfoddlonrwydd. Fel hyn y mae 'r prophwyd *Eſay* yn gwneud defnydd o'r ymadrodd, gan ddywedyd, *Eich anwireddau chwi a yſgarodd rhyngoch chwi a'ch Duw, a'ch pechodau a guddiaſant ei wyneb oddiwrthych, fel na chlywo* (c). A thrachefn, *Cuddiaiſt dy wyneb oddiwrthym*, (heb ſylwi ar ein cyſtuddiau) *difeaiſt* ni o herwydd ein hanwireddau* (d). Felly hefyd pan y dywedir fod *Duw yn cuddio ei wyneb oddiwrth ein pechodau* (e) yr yſtyr yw, ei fod ef yn eu mhaddeu hwynt, heb gymmeryd dim pellach ſulw o honynt. Yr un peth ſydd i'w ddeall wrth fod Duw yn *cuddio ei hgaid*, rhag dynion o ymarweddiad annymunol: pan fyddont yn dyfod â'u herfyniadau o'i flaen, nis gall edrych arnynt. Eglur yw mae dyma yſtyr yſgrythurol yr ymadrodd; ac yn yr yſtyr hyn yr arferir ef gan *griſtianogion* yn ein dyddiau ni: A phôb peth ac ſy 'n *arwydd o anfoddlonrwydd Duw tuag attynt*, a amlygir trwy yr unrhyw.

§ 3. Sulwn ym mhellach, mae nid bendithion amſerol a berthynant i'r bywyd hwn, yw yr *unig*

(b) Salm iv. 6, 7. (c) Eſay lix. 2 (d) Eſay lxiv 7. (e) Salm l. 9.
* *Toddaiſt.*

bethau trwy ba rai y mae 'r ſaint yn barnu fod Duw yn ymddangos ei ddaioni iddynt a'i gariad tuag attynt. *Dafydd* (er cael addewidion o'r pethau hyn yn barhaus dan y gyfraith) a gafodd ei ddyſgu i edrych ymmlâen am fendithion rhagorach; ac felly y mae efe yn eu darlunio yn bethau gwell nac *ŷd a gwîn* (g), ac yn fendithion o wahanol natur. Ac os nad ydwyt ti yn teimlo eu bod felly, y mae yn eglur dy fod di yn hollol anwybodus o'r hyn yr wyf fi yn ſôn am dano, a'th fod heb ddyſgu y wers gyntaf mewn Crefydd. Yr hyn oll ac y mae *Dafydd* yn ei ddywedyd ynghylch edrych ar brydferthwch yr Arglwydd (h), neu i gael ei ddigoni â mêl ac â braſder ar ei wely wrth gofio am ei Dduw (i), ac ynghylch cael ei ddigoni a daioni ei dŷ, ſef ei deml ſanctaidd (k), ſydd i'w gymmeryd yn yr un yſtyr; ac nid ydyw y fath ymadroddion yn gofyn am fawr o eſponiad i'r enaid profiadol. Ond y mae y ſawl ac ſydd wedi profi llewyrch wyneb Duw, yn abl (yn ol grâdd y profiad hynny) deall beth a feddylir wrth ei fod ef 'yn cuddio ei wyneb, neu wrth ei waith yn tynnu yn ol yr arwyddion a roddodd i'w bobl unwaith, o'i breſennoldeb a'i ffafr; yr hyn ſydd weithiau yn gwneud yr enaid yn llawn o chwerwon ofidiau, hyd yn oed dan wenau rhagluniaeth a llwyddiant bydol; a'r hyn ſydd brydiau eraill yn gwneuthur eyſtuddiau yn felus, ac yn llyngcu i fynu y teimlad o honynt.

§ 4. AM hynny rhô gennad i mi ddwyn ar gôf i ti, fy *nghyfaill criſtianogol* (canys felly i'th alwaf yn awr) i fod yn boſſibl i tithau golli y teimlad o gariad, ac arwyddion o ddaioni Duw tuag attat, a hynny ar frŷs, er ei bod yn awr fel llewyrch

(g) Salm iv. 7. (h) Salm xxvii. 4. (i) Salm lxiii. 5, 6.
(k) Salm lxv. 4.

llewyrch haul ar ganol dŷdd yn dy enaid. Ti a elli golli yr olwg gyſſurus ſydd gennyt yn awr ar ogoniant y dwyfol briodoliaethau, wrth fyfyrio ar ba rai yr ydwyt yn teimlo cymmaint o foddlonrwydd tufewnol. Ti a elli feddwl am ddwyfol ddoethineb, a gallu, am ddwyfol drugaredd a ffyddlondeb Duw, yn gyſtal ac am ei gyfiawnder a'i ſancteiddrwydd, ac heb gael ond ychydig o foddlonrwydd enaid yn yr olwg arnynt. Ti a elli olygu y priodoliaethau hyn ac heb deimlo dim argraffiadau bywiol ar dy feddwl, mwy na phe baet yn edrych ar ryw wrthrychau cyffredin. Ti a elli weithiau feddwl dy fod wedi colli golwg ar fawr ſylwedd y geiriau hyn, er i'r yſtyriaeth o'u cynhwyſiad cyn hyn megis lyngcu i fynu dy enaid mewn gorfoledd, ſyndod, a chariad. Y mae yn boſſibl i ti golli pob dymunol deimlad o gariad a daioni Duw tuag attat. Fe all dy enaid ammau 'th berthynas â Duw; ac fe all holl waith ei yſpryd bendigedig gael ei orchguddio a'i dywyllu yn y fath fodd yn dy galon, fel y bo i'r *caracter* trwy ba un y gellir adnabod llaw y gweithydd hwnnw, mewn meſur mawr gael ei golli; a thi a elli fod yn barod i feddwl nad oeddit ond yn twyllo dy hunan trwy dy holl obaith blaenorol. Yn ganlynol i hyn, fe all yr ordinhadau, ym mha rai yr ydwyt yn awr yn gorfoleddu, fyned yn bûr ddifûdd; a hynny yn yr amſer ac y byddech yn dymuno am gael cymmundeb â Duw trwyddynt. Ti a elli glywed y gwirioneddau mwyaf efangylaidd yn cael eu hegluro, ti a elli wrando ar freintiau plant Duw, yn cael eu goſod allan yn y modd mwyaf ſerchiadol, ac heb allel gweled fod i ti ran na chyfran ynddynt; ac oddiwrth yr oerfelgarwch a'r anheimladrwydd hynny, ti a elli benderfynu ym mhellach nad oes i ti ddim a

wneech

wnelech â hwynt. Yn y fath amgylchiad, *dy galon a fyfyria ofn* (l); a chwedi 'th orchguddio fel hyn gan ofid fe fydd y breintiau mwyaf gwerthfawr yn trymhâu dy alar, pan fyddech yn yſtyried dy fod unwaith wedi profi blâs arnynt, eithr dy fod yn awr wedi ei golli. Ac felly ti a fyddi yn barod i edrych ar y ſawl na theimlodd erioed ddim argraffiadau crefyddol ar eu heneidiau, yn fwy happus na thydi; o leiaf yn llai truenus. Ti a elli o boſſibl yn yr oriau galarus hyn, ammau pa un a weddiaiſt ti erioed; a pha un a oedd yr hyn a alwaiſt yn *fwynhâd o Dduw*, ddim amgem na dedwyddwch gau, wedi ei weithio ynnot gan Satan, gelyn mawr eneidiau, i'r diben i beri i ti dybied fod dy gyflwr yn dda, fel y byddai i ti barhâu yn yſglyfaeth mwy ſicr iddo ef.

§ 5. HYN a all fod dy gyflwr ditheu dros ryw amſer; ac fe all ordinhadau fod yn ddifûdd, a'th waith yn ymofyn am breſennoldeb Duw ynddynt, fod yn ofer. Ti a elli o boſſibl dywallt dy enaid o flaen yr Arglwydd yn y dirgel, ac felly dyfod i'r addoliad cyhoeddus, heb brofi ond ychydig foddlonrwydd yn unrhyw ddyledſwydd, ond gorfod cwyno gyda 'r *Salmydd*, *Fy Nuw, llefain yr ydwyf y dydd, ac ni wrandewi; y nôs hefyd, ac nid oes oſteg i mi* (m); neu ynte gyda *Job*, *Wele ymmlâen yr âf, ond nid ydyw efe yno; yn ôl hefyd, ond ni fedraf ei ganfod ef; ar y llaw aſſwy, llê y mae efe yn gweithio, ond ni fedraf ei weled ef; ar y llaw ddeheu y mae yn ymguddio fel na châf ei weled* (n): Ac felly fe fydd i'r hyn a ymddangoſodd yn debyg i Grefydd yn dy feddwl, fod fel wedi toddi ymaith trwy alar, ei fferru i ofn, neu ynte fod megis wedi ei falurio i ddyfn deimlad o'th anheilyngdod dy hun; ac mewn canlyniad o hyn, nis beiddi gymmaint a chodi 'th olygon i fynu

ger

(l) Eſay xxxiii. 18. (m) Salm xxii. 2. (n) Job xxiii. 8, 9.

ger bron Duw, ac fe fydd arnat gywilydd braidd i gymmeryd dy lê ymmŷſg y ſawl ac wyt yn edrych arnynt yn weiſion iddo. Mi a wn mae dyma fel y profodd rhai criſtianogion rhagorol, y rhai y bu eu cynnydd mewn Crefydd yn neilldnol; ïe rhai ac y bu da gan Dduw eu hanrydeddu uwchlaw llawer o'u brodyr, trwy yr hyn a wnaeth efe erddynt a thrwyddynt. Wedi gwneuthur darluniad fel hyn o'r cyflwr, canniattâ i mi oſod ger dy fron rai cyfarwyddiadau yn ei gylch ef; ac na fydded i ti edrych ar yr hyn a gaffo ei ddywedyd, yn *wâg opiniwn*, gan ei fod yn tarddu ar y naill law oddiar wîr a mynych olwg ar rai yn y fath gyflwr, ac ar y llaw arall oddiar wîr a gwreſog ddymuniad i eſmwythâu y galon dduwiol a thyner, yn y fath gyflwr anghyſſurus: Ac yr wyf yn ſicr y bydd i'r ymgais hwn foddio *bugail mawr y defaid* (o), yr hwn a orchymmynodd i mi *ddiddanu 'r gwan eu meddwl* (p).

§ 6. Ac yn y llê cyntaf yr wyf yn dy gynghori i fanwl chwilio, Pa un a bod dy ofid preſennol yn tarddu oddiwrth *achoſion gwîr yſprydol?* Neu onid yw yn tarddu yn hytrach oddiwrth ryw *anhwylder yn y corph*, neu ryw beth yn *amgylchiadau dy fywyd*, ym mha rai y trefnodd rhagluniaeth i'th fod? Y mae yr effaith fod ein cyrph yn ei gael ar ein hyſpryddoedd anfarwol tra bom yn yr yſtâd hon, mor eglur, fel nas dichon un dŷn yſtyriol lai na'i gweled; ac etto fe debygid nad yw y cyfryw effaith yn cael ei hyſtyriaid yn ddigonol yn yr achoſion hyn; a dyma all fod achos dy driſtwch di. Y mae cyflwr y gwaed yn fynych y fath, fel ac y mae o angenrheidrwydd yn dwyn prûdd feddyliau, hyd yn oed mewn breuddwydion, ac yn anhwylo yr yſpryd i gymmeryd pleſer mewn unrhyw beth: A chan fod y peth felly, pa ham y meddyliwn ni fod ein triſtwch yn

(o) Heb. xiii. 20. (p) 1 Theſ. v. 14.

yn cyfodi oddiwrth unrhyw neillduol ddwyfol anfoddlonrwydd, pan fôm yn colli ein pleſer arferol mewn Crefydd? Neu pa ham y tybiwn fod Duw wedi cilio oddiwrthym, oblegid ei fod ef yn dioddef *achoſion naturiol* i ddwyn eu *heffeithiau priodol*, heb dorri y perthynas ſydd rhyngthynt mewn *ffordd wrthiol?* Pan y bo 'r peth fel hyn, fe ddylid ymofyn am *Ddoctor phyſygwriaeth*, yn hytrach na *Doctor diſinyddiaeth*; neu o leiaf, y naill gyda 'r llall; canys fe all phyſygwriaeth, ymborth, ac awyr iachus, ynghŷd ac yſgogiad cymmhedrol, wneuthur mwy o lês mewn ychydig wythnoſau, nac a allo 'r rheſymmau cryfaf, y cynghorion a'r cyſſuron mwyaf gwreſog, eu gwneuthur dros fiſoedd lawer.

§ 7. HEBLAW hyn, fe ddichon triſtwch a gwendid y meddwl, darddu oddiwrth rywbeth anghyſſurus yn dy *amgylchiadau bydol*; fe all y pethau hyn dywyllu a thrallodi y meddyliau, chwerwi y dymmer, ac felly 'th wneud i râdd fawr yn anghwymmwys i gyflawni dyledſwyddau Crefydd, ac i fwynhâu pleſer: Ac os felly, rhaid ymofyn am feddyginiaeth trwy ymoſtyngiad i ddwyfol raglunaeth; trwy neillduo dy feddyliau hyd ac y bo 'n boſſibl oddiwrth y bŷd preſennol, trwy ddoeth ymgais i yſgafnhâu y baich o hono hyd ac y gallech; a hynny trwy ochelyd gwaſtraff ar y naill law, a thrwy ddiwidrwydd yn dy orchwylion ar y llaw arall, mewn goſtyngedig ymorphwyſiad ar ddwyfol fendith; gan ymdrechu trwy 'r cwbl i edrych i fynu trwy ffŷdd, ar yr hwn ſydd yn dioddef i'w blant gael eu dwyn i gyfyngderau weithiau, fel y bo iddynt gael eu dwyn i'w garu ef yn fwy trwy ei ddaionus ffordd yn eu dwyn hwynt allan o'u gofidiau.

§ 8. O YSTYRIAID y pethau hyn, fe allai wrth chwilio y caid gweled fod y gofid yr achwynir o'i blegid, yn tarddu oddiar bethau nad oeddit yn meddwl

meddwl am danynt ar y cyntaf. Ond pan fo 'r corph mewn cyflawn *iechyd*, a'r amgylchiadau bydol yn *eſmwyth*; pan fo yr *yſprydoedd* yn fywiog ac yn tueddu at *bleſerau daiarol*, a blâs ar bleſerau Crefydd megis wedi darfod; pan fo yr enaid wedi ei llanw o gyſgadrwydd ac anheimladrwydd yſprydol; pan fo wedi ei gwanhâu fel un yn glâf o'r *parlys*, fel nad yw gymmwys i ymarferiadau crefyddol, er nad yw yn profi y triſtwch dyfn a dychrynadwy hynny, ac y ſoniais am dano o'r blaen fel effaith *meiancoli*; na chwaith y *pryder* hynny ynghylch angenrheidiau bywyd, yr hyn ſydd yn naturiol yn cydfyned ac amgylchiadau cyfyng: Rhaid i mi roddi gwahanol gyngor yn yr achos hwn, ac i'th annog yn y modd mwyaf aſtud a diduedd ac ſy 'n boſſibl, i chwilio beth yw yr achos o'r drŵg mawr hwn, dan ba un yr ydwyt yn galaru yn gyfiawn. Y mae yn debygol iawn mae pechod yw 'r achos yn y cyffredin; rhyw bechod dirgel anamlwg i'r bŷd; canys y mae 'r pechodau hynny ac ſy 'n amlwg i, ac yn cael eu beio gan, ein cŷd-greaduriaid, o boſſibl yn perthyn i'r hyn y ſoniwyd am dano yn y bennod o'r blaen, am eu bod o angenrheidrwydd yn adnabyddus ac yn fwriadol. Yn awr y mae llygaid Duw wedi ſylwi ar y drygau hynny, pa rai a guddiaiſt ti rhag dy gŷd-greaduriaid; ac mewn canlyniad o'th ofal i'w cuddio rhag eraill, pan nas gallei lai na gwybod eu bod yn agored ger ei fron ef, y mae Duw wedi gweled ei hun yn cael ei ddiyſtyru gennyt mewn modd neillduol: Ac am hynny y mae efe yn amlygu ei gyfiawn anfoddlonrwydd. O na fydded i'r hyn a ddywaid y prophwyd byth gael ei anghofio, yr hyn ſydd mor eglur yn cael ei lefaru, mor hyddyſg i bawb, etto heb ei brofi yn ddigonol gan unrhyw galon: *Eich anwireddau chwi a yſgarodd rhyngoch chwi a'ch Duw, a'ch pechodau a guddiaſant*

guddiaſant ei wyneb oddiwrthych, fel na chlywo (q). Ac y mae Duw trwy hyn yn amlygu ei drugaredd, er fod ei ymweliad yn ymddangos i ni yn ſarrug; na fydded i ti edrych ar dy brofedigaethau preſennol gan hynny yn unig fel dy ddrygfyd, ond edrych ar y cwbl yn foddion i'th ddeffroi di i ymdrechu, fel *Joſua*, i *oſod ymaith oddiwrthyt yr yſgymmyn beth*, bydded y peth y fo, ac nid i dybiaid ei fod yn ddigonol i ti aros mewn dagrau o oſtyngeiddrwydd ger bron yr Arglwydd. Boed i ti ofalu yn ddiattreg ar fod dy falchder yn cael ei ddaroſtwng, dy wiliadwriaeth yn cael ei chynnal, dy ſerchiadau gormodol at y bŷd yn cael eu marweiddio, ac ar y cwbl fod dy barodrwydd i'r nefoedd yn myned ar gynnydd ym mhob yſtyriaeth. Dyma ddibenion dy nefol dâd yn ymweled â thi trwy ofidiau; a bydded dy ofal pennaf ditheu i allel ceiſio cyd-weithio a hwynt.

§ 9. Derbyn y cyngor hyn gan hynny, fel y mwyaf ei bwys ac a ellir ei roddi i ti, ſef, *i ddechreu holi dy gydwybod yn ddiattreg, yn y modd mwyaf manwl.* Gwrando ar yr hyn oll a ddywaid hi wrthyt. Ac os cei di achos i ammau fod un peth allan o'i lê, ymofyn pa beth yw; ac i'r diben hynny, chwilia holl ddirgelion y galon: Gwnâ ddenfydd i'r diben hyn o gynghorion dy gyfeillion, a gwaradwyddiadau dy elynion; cofia am ba beth y ceryddodd dy galon di ar fwrdd yr Arglwydd, ac am ba beth i'th geryddai pe baet ar wely angau, ac i fyned yr awr hon i dragywyddoldeb. Pan welech un peth yn feïus, goſod ef i lawr, a dôs ymmlâen i chwilio hyd oni allech ddywedyd, 'Dyma 'r llygredigaethau ſy 'n aros yn fy nghalon; dyma fy mhechodau ac ynfydrwydd fy mywyd; hyn a *eſgeuluſais*; a dyma yr hyn a *wneuthum* allan o'i lê.' A phan fo 'r cyfrif mor gyflawn ac a ellych ei wneuthur,

(q) Eſay lix. 2.

thur, ymrô trwy nerth Duw i *ddiwygio*, neu yn hytrach ddechreu diwygio pob peth a fo yn feius pan welech ef. *Dychwel at yr Hollalluog a thi a adeiledir; ſymmudi anwiredd yn mhell oddiwrth dy lueſtai. Yna yr ymhoffi yn yr Hollalluog, ac a ddyrcheſi dy wyneb at Dduw. Ti a weddii arno ef, ac efe a'th wrendy; ti a deli dy addunedau iddo ef, a'i oleuni a lewyrcha ar dy ffyrdd* (r).

§ 10. Bydded i ti yn y cyfamſer ddiſgwyl wrth Dduw gyd a'r goſtyngeiddrwydd mwyaf, a phlygu i ddiſgybliaeth dy nefol dâd, gan addef ei gyfiawnder, ac ymddiried yn ei drugaredd; hyd yn oed pan fo 'th gydwybod dawelaf, ac heb oſod dim yn dy erbyn yn rhagor na *gwendidau cyffredin* pobl Dduw: Etto boed i ti blygu ger ei fron ef, a chyfaddef fod dy *ddyddiau goreu* mor llawn o *ddrŵg*, a'r *goreu* o'th waſanaeth mor ammherffaith, fel ac yr ydwyt o blegid *hynny* yn haeddu y cwbl, a llawer mwy nac yr ydwyt yn ddioddef; i ti haeddu, nid yn unig i'th haul gael ei gymmylu, ond iddo ei fachlud heb godi byth mwyach; ond gadael dy enaid mewn tywyllwch tragywyddol. Tra y mae 'r cwmmwl yn aros, na fydd anamyneddgar. *Paid a digofaint*, ond yn hytrach boed i'th enaid mewn modd tawel, ſanctaidd, ac addfwyn, *ddiſgwyl wrth yr Arglwydd* (s). Bydd foddlon i aros ei amſer ef, yn foddlon i fod dan ei ŵg ef, mewn goſtyngedig obaith y bydd iddo o'r diwedd *ddychwelyd a thrugarhâu wrthyt* (t). Nid yw efe wedi hollol anghofio i drugarhâu, ac ni fwriadodd na byddai efe boddlon mwy (u). O blegid *nid yn dragywydd y gwrthyd yr Arglwydd*; ond er iddo *gyſtuddio, etto fe a doſturia yn ol amlder ei drugareddau* (x). Nid yw efe mewn cymmariaeth wedi 'th adael ond megis dros ennyd fechan; ond ti a elli obeithio yn oſtyngedig

(r) Job xxii. 23, 26, 27. 28. (s) Salm xxxvii. 8, 34.
(t) Jer. xii. 15. (u) Salm lxxvii. 7, 9. (x) Galar. iii. 31, 32.

gedig y bydd iddo 'th gaſglu â mawr drugareddau, ac y bydd iddo â thrugaredd dragywyddol drugarhâu wrthyt (y). Nid fy ngeiriau i yw y rhai addas hyn, ond ei eiriau ef; ac y maent yn gwiſgo yr athrawiaeth hon fel ar eu hwynebau, ſef, y dichon enaid ac ſydd yn awr wedi colli llewyrch wyneb Duw, o'r diwedd gael ei *gaſglu gan yr Arglwydd*, ac felly fod *yn wrthrŷch o'i dragywyddol ddaioni ef.*

§ 11. OND tra parhao 'r tywyllwch, dôs rhagot yn ffordd dy ddyledſwydd. Gwnâ ddefnydd parhaus o foddion ac ordinhadau: Darllain a myfyria: Gweddia, ïe cân hefyd foliant i Dduw, er gorfod ei wneuthur â *chalon drom. Dôs rhagot ar hyd ôl y praidd* (z); a thi a gyfarfyddi o boſſibl â *bugail eneidiau.* Goſod dy hun o leiaf yn y ffordd: Ac y mae 'n boſſibl i ti trwy hynny gael ganddo mewn modd ſerchog edrŷch arnat; ac un olwg, ïe un trô yn y meddwl, yr hyn a all ddigwydd mewn munud awr, a ddichon *greu nefoedd yn dy enaid ar unwaith.* Dôs at *fwrdd yr Arglwydd*; ac os na elli *lawenhâu*, dôs yno i *alaru. Dôs a galara am y bendigedig iachawdwr, pa un a wahaneiſt trwy dy bechodau* (a); dôs a galara am i ti dorri y cyfammod, pa un a ſicrheiſt mor fynych ger bron Duw ar ei fwrdd. Fe all Criſt wneuthur ei hun yn adnabyddus i ti yn *nhorriad y bara* (b), ac y mae 'n boſſibl y cei di weled er ſyndod i ti dy hun, ei fod ef *yn agos attat*, pan feddyliaiſt ei fod bellaf oddiwrthyt; yn agos attat pan feddyliaiſt dy fod *wedi 'th fwrw ymaith o'i ŵydd.* Ymofyn am dy gyſſuron yn y fath ymarferiadau a hyn; ac nid yn nigrifon ofer y bŷd, a phleſerau cîg a gwaed. Nis gallaf byth anghofio yr hyn a ddywedodd dŷn duwiol, pan yr oedd ei galon ym mron dryllio dan ofidiau o'r fath hyn! 'Arglwydd, eb efe, *os na châf fi*

(y) Eſay liv. 7, 8. (z) Can. i. 8. (a) Zec. xii. 10.
(b) Luc xxiv. 35.

ſi'th fwynhâu DI, *na âd i mi fwynhâu dim arall; and boed i mi fyned i wared i'm bêdd mewn galar ar dy ol.*' Ac nid oedd dim yn rhyfedd gennyf glywed i'r baich gael ei ſymmud ymaith, *a gorfoledd iechydwriaeth Duw gael ei adferyd*, cyn gynted ac y darfu iddo anadlu hyn mewn gweddi ger bron yr Arglwydd.

§ 12. Ni 'chwanegaf ond un cyfrwyddyd arall, ſef, gwneuthur o honot gymmhwyſiad o'r newydd *o waed Ieſu*, trwy yr hwn yr heddychwyd dy enaid â Duw. Efe yw *ein tangnefedd ni, a thrwy i waed ef y'n gwnaethpwyd yn agos* (c): Ynddo ef, fel anwylyd ei enaid, y dywaid Duw iddo *gael ei lwyr foddloni* (d); ac yn Ghriſt y'n *gwnaeth ni yn gymmeradwy, er gogoniant ei râs ef* (e). Dôs gan hynny, O griſtion, trwy ffŷdd at y croeſhoeliedig iachawdwr: Dôs atto ef fel at arch-offeiriad trugarog, *tywallt dy fyfyrdod o'i flaen ef, a mynega dy gyſtudd ger ei fron ef* (f). Goſod yn agored o'i flaen ef, ofid ac ing dy enaid, yr hwn a ddywedodd unwaith, (ac O ryfeddod! iddo ef yn anad neb ddywedyd felly) *Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaiſt* (g)? Edrych i fynu am drugaredd a gwarediaeth atto ef, yr hwn *ei hunan a ddioddefodd*, a hynny nid yn unig ei *demtio*, ond o ran unrhyw deimlad o gyſſur, ei *adael hefyd*, fel y byddai iddo ef gael ei ddyſgu i doſturio wrth y ſawl ſydd yn yr unrhyw gyflwr alarus, ac i fod yn *ewyllyſgar*, yn gyſtal ac yn *abl*, i'w cynnorthwyo hwynt (h). Efe yw yr *Emmanuel, Duw gyda ni* (i); a thrwyddo ef yn unig y mae 'r Tâd yn amlygu i ni belydrau tirion ei drugaredd a'i râs. Boed i ti gan hynny yn ddiattreg ymofyn am adnabyddiaeth newydd o hono. Edrych ar ei fywyd a'i farwolaeth: Gwrando

(c) Eph. ii. 13, 14. (d) Mat. iii. 17. (e) Eph. i. 6.
(f) Salm cxl i. 2. (g) Mat. xxvii. 46. (h) Heb. ii. 18.
(i) Mat. i. 23.

ando ar ei eiriau ef: A gwêl ei weithredoedd; a thrwy hynny, fe tydd i ti yn ſicr deimlo cyſſur melus a ſanctaidd yn ymdanu trwy dy holl enaid. Ti a gei dy ddwyn i dymmer ddiſtaw lonydd, ym mha un y bydd i ffŷdd a chariad weithredu yn grŷf, ac rydd Duw o boſſibl i ti glywed *llais diſtaw main* ei yſpryd er dy ddiddanwch (k), fel y bo i'th enaid dorri allan mewn cân o fawl, ac felly gael dy *lawenhâu yn ol y dyddiau i'th gyſtuddiwyd* (l). Ac yn y cyfamſer fe ddichon iaith y weddi ganlynol fod yn addas i ti.

Gweddi *oſtyngedig i un wedi colli wyneb Duw.*

'Y BENDIGEDIG Dduw! *gyda thi y mae ffynnon y bywyd* (m), a dedwyddwch. 'Yr wyf yn gogoneddu dy enw am gael o honof 'erioed brofi o'th ffrydiau; ddarfod i mi erioed 'deimlo y pleſer neillduol ac a dardd oddiwrth 'lewyrch dy wyneb, a'th gariad yn dywalltedig ar 'fy enaid. Ond och! y mae 'r amſeroedd hyfryd 'y bum yn profi 'r pethau hyn, yn awr wedi dar'fod; ac y mae y *coffadwriaeth* o honynt, yn peri 'i mi dywallt *fy enaid ynnof* (n). Mi a ewyllyſiwn 'ddyfod ger dy fron fel cynt, ac i'th alw gyda 'r 'unrhyw anwylder, *fy nhâd, a'm Duw:* Ond och! 'nis gwn i pa fodd i wneuthur felly. Y mae *ofn* 'ac *euogrwydd* yn cyfodi i attal y fath hyfryd iaith 'a hon. Yr ydwyf yn dy geiſio, O Arglwydd, 'ond wele yr wyf yn dy geiſio yn ofer. Yr wyf 'yn chwennych gweddio, ond y mae fy ngwefuſau 'wedi eu ſelio i fynu. Yr wyf yn ceiſio darllain 'dy air, ond y mae 'th addewidion wedi eu cuddio 'oddiwrth fy llygaid. Yr wyf yn agoſhâu at yr 'ordinhadau ac oeddynt gynt yn faeth ac yn gyſſur i'm

(k) 1 Bren. xix. 12. (l) Salm xc. 15. (m) Salm xxxvi. 9. (n) Salm xlii. 4.

'i'm henaid; ond och! nid ydynt yn awr ond 'megis cyſgod: Y mae 'r fylwedd wedi ymadael: 'Y mae 'r gallu bywiol wedi ehedeg ymaith, ac 'nid ydynt ond megis *delw* ar y goreu o'r hyn a 'oeddynt unwaith i mi.

'Ond O Arglwydd, a ydwyt ti wedi 'm *bwrw i* 'heibio yn dragywydd? *Ac oni byddi di foddlon mwy* '(o)? A fwriadaiſt ti trwy farn ofnadwy, i'm 'henaid gael ei gadael mewn *gauaf parhâus*, fel 'galarus arwydd o dywyllwch tragywyddol? Gwîr 'yw, mi a haeddais i hynny fod. Yr wyf yn 'cyfaddef, O Arglwydd, mae fy haeddiant yw cael 'fy mwrw ymaith o'th olwg gyda diyſtyrwch; mi 'a haeddais i gael fy ngadael i ſoddi yn ddyfnach 'nac yr wyf o lawer: Ti a allaſit yn gyfiawn beri 'i *gyſgod marwolaeth fod ar fy amrantau* (p), ac i 'dywyllwch du dew y *carchar tragywyddol* i'm cyl-'chynu. Etto oni chyfodaiſt ti dorcheydd i fynu (y 'rhai fel finneu a haeddaſent gael eu rhoddi i *gad-'wynau tywyllwch* (q), i fwynhâd o'th ogoniant 'frŷ, llê nad oes un cwmmwl yn abl byth i dy-'wyllu rhyngddynt a thydi? Trugarhâ wrthyf, O 'Arglwydd, trugarhâ wrthyf (r)! Ac er i'm pech-'odau yn awr gyfiawn haeddu i ti guddio dy wyneb 'oddiwrthyf (s), er hynny bydded da yn dy olwg 'yn ol dy raſol air, i *guddio dy wyneb oddiwrth fy* 'mhechodau, *a dilea fy holl anwireddau* (t)! Llaw-'enhâ fy nghalon trwy arwyddion o'th ffafr, *a* 'dywed wrth fy enaid, *Myfi yw dy iechydwriaeth* (u).

'Cofia, O Arglwydd Dduw, cofia y dŷdd 'dychrynllyd ym mha un y bu Ieſu dy anwyl fâb, 'ddioddef yr hyn a haeddodd fy mhechodau i! 'Cofia yr ing trwy ba un y tywalltodd efe ei enaid 'o'th flaen, gan ddywedyd, *Fy Nuw, fy Nuw, pa ham*

(o) Salm lxxvii. 7. (p) Job xvi. 16. (q) 2 Pedr ii. 4.
(r) Salm cxxiii. 3. (s) Eſay lix. 2. (t) Salm li. 9.
(u) Salm xxxv. 3.

T

'*ham y 'm gadewaiſt* (x)! O Arglwydd, oni ddi-
'oddef efe hyn oll fel y byddai i bechaduriaid
'edifeiriol a goſtyngedig gael eu dwyn yn agos attat
'ti, ac i edrych arnat gyda chyſſur, fel eu tâd a'u
'Duw? Fel hyn yr ydwyf fi yn chwennych dyfod
'attat. O iachawdwr bendigedig, oni chefaiſt ti
'dy anfon *i roddi i alarwyr Sion ogoniant yn lle*
'*lludw, olew llawenydd yn lle galar, a gwiſg moliant*
'*yn lle yſpryd cyſtuddiedig* (y)? O golch ymaith fy
'nagrau i, eneinia fy mhen ac olew llawenydd, a
'gwiſg fi â gwiſgoedd iechydwriaeth (z). — *O na*
'*wyddwn pa le y cawn di* (a)! O na chawn wybod
'pa beth a barodd i ti gilio oddiwrthyf! Yr ydwyf
'yn *ceiſio* ac yn *chwilio ſy ffyrdd* (b): O na bae i
'ti fy *chwilio i, a gwybod fy nghalon, i'm proſi a*
'*gwybod fy meddyliau*; *ac os oes ffordd annuwiol gen-*
'*nyf, datguddia hi, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol*
'(c); i'r ffordd honno ac a ddichon arwain fy enaid
'i gael heddwch a gorphwyſfa (d), a phroſi amly-
'giadau o'th gariad yn Ghriſt!

'O Dduw! yr hwn a orchymmynaiſt i'r goleuni
'lewyrchu o dywyllwch (e), llefara 'r gair, ac fe
'fydd i oleuni ymdanu trwy fy enaid innau ar
'unwaith. *Agor fy ngwefuſau, a'm genau a fynega*
'*dy foliant* (f); ïe fy enaid a dyr allan mewn llawen
'ganiad, ger bron y ſawl ac allent gael eu digalon-
'ni trwy fy nhriſtwch preſennol, fel arwydd o'r
'pleſer a'r cynnorthwyon ſydd yn cyd-fyned â
'Chrefydd.

'ETTO Arglwydd, yr wyf yn ymddaroſtwng i'th
'ewyllys di. Os rhaid i'm ffŷdd gael ei phroſi
'yn y modd hyn, trwy rodio mewn *tywyllwch*, tros
'ddiwrnodau, miſoedd, a blynyddoedd etto i ddy-
'fod, er cyhŷd y gallont ymddangos, neu y bydd-
on

(x) Mat. xxvii. 46. (y) Eſay lxi. 3. (z) Eſay lxi. 10.
(a) Job xxiii. 3. (b) Galar. iii. 40. (c) Salm cxxxix. 23, 24.
(d) Jer. vi. 16. (e) 2 Cor. iv 6. (f) Salm li. 15.

'ont, wele fi yn foddlòn i drefniadau 'th ewyllys
'di. Yr wyf yn dymuno 'th addoli fel *Duw Iſ-*
'*rael yr achubwr*, er dy fod yn *Dduw ac fy 'n ym-*
'*guddio* (g): Yr wyf yn *gobeithio yn enw yr Ar-*
'*glwydd, ac yn ymddiried yn fy Nuw* (h); ïe *pe*
'*lladdech fi, etto mi a obeithiaf ynnot* (i), ac mi a *ddiſ-*
'*gwyliaf am danat yn fwy na'r gwilwyr am y boreu*
'(k); ſe allai y *bydd goleuni yn yr hwyr* (l). Mi
'a wn i ti rai gweithiau amlygu dy doſturiaethau
'i'th weiſion *ar awr eu marwolaeth*; gan roddi
'iddynt (pan oedd hi 'n *dra iſelaf* ar eu hyſpryd-
'oedd naturiol) *lanw cyflawn* o ogoniant dwyfol,
'a thrwy hynny, *tywyllwch* a gafodd ei droi yn *ol-*
'*euni o'u blaen hwynt* (m). Bydded da yn dy olwg
'i oleuo dyffryn cyſgod angau â'th breſennoldeb,
'pan fyddwyf yn myned trwyddo, ac eſtyn allan
'dy *wialen a'th ffon i'm cyſſuro* (n), fel y bo i'm
'crynfâu ddarfod, a'r tywyllwch roddi adſain cani-
'adau o fawl! Ond os yw 'th oruchel ewyllys i
'ofid a thywyllwch barhâu tra parhao 'r gwaed i
'gerdded, neu hyd yr anadliad diweddaf, O pâr
'i'r pethau hyn ddarfod ar fy ymadawiad oddi
'yma, a dŵg fi i'r *goleuni* a hauwyd i'r *cyflawn*, ac
'i'r *llawenydd* ſydd ynghadw *i'r rhai uniawn o ga-*
'*lon* (o); O dŵg fi i'r ardaloedd llê nad oes un
'cwmmwl, ond tragywyddol ddiſgleirdeb a gorfo-
'ledd, a llê bydd i eneiniad dy yſpryd gael ei dyw-
'allt yn gyflawn ar dy bobl, heb guddio dy wyneb
'oddiwrthynt byth mwy (p). Dyma dy *iechyd-*
'*wriaeth*, *O Arglwydd*, am yr hon yr wyf yn *diſ-*
'*gwyl* (q); a thra teimlwyf ddymuniadau fy enaid
'yn cael eu tynnu allan ar ei hol, ni anobeithiaf
'byth ei mwynhâu hi. Parhâ a chynnydda y

(g) Eſay xlv. 15. (h) Eſay l. 10. (i) Job xiii. 15.
(k) Salm cxxx. 6. (l) Zech. xiv. 7. (m) Eſay xiii. 16.
(n) Salm xxiii. 4. (o) Salm xcvii. 11. (p) Ezec. xxxix. 29.
(q) Gen. xlix. 18.

'dymuniadau hyn; ac yn y diwedd bydded i ti
'fwy na'u digoni hwynt oll, *trwy gyfoeth dy râs yn*
'*Ieſu Griſt. Amen!*'

PENNOD XXV.

Y Criſtion yn ymorcheſtu dan ddirfawr Gyſtuddiau.

§ 1. YN gymmaint a bod *dŷn wedi ei eni i ſtinder, fel yr eheda gwreichionen i fyny* (a); ac i *Adda* ſefydlu ar ei holl hiliogaeth yr etifeddiaeth athriſt o *adfyd* yn eu ffordd i angeu, diammau fod ef yn beth doeth ac angenrheidiol *i ni oll* ddiſgwyl cyfarfod a phrofedigaethau a chyſtuddiau yn ein bywyd; ac felly dy ddoethineb di, O ddarllenydd, pwy bynnag wyt, yw ymdrechu i wregyſu dy arfogaeth am danat, ac i oſod dy hunan mewn ſefyllfa gymmwys i wrthſefyll y cyfryw brofedigaethau ac allant ddigwydd i'th ran fe *Dŷn* ac fel *Criſtion*. Parottôa dy hun i dderbyn dy gyſtuddiau a'u dioddef hwynt yn gyttunol â'r ddau *garacter* uchod. Gan yſtyried hyn, pan welech eraill dan y baich, meddwl, pwy mor boſſibl yw i titheu gael dy ddwyn i'r unrhyw anhawſderau, neu 'r cyffelyb. Goſod dy enaid fel yn eu lle hwynt. Meddwl pa fodd y byddai i ti allel dwyn y baich, dan ba un y maent hwy yn gorwedd; ac ymdrecha ar unwaith i'w cyſſuro hwynt, ac i gadarnhâu dy galon dy hun; neu yn hytrach, gweddia ar i Dduw wneuthur felly. A chan ſylwi pa mor ddaroſtyngedig yw dynion i ofidiau yn y bywyd marwol hwn, boed i ti gymmedroli 'th ddiſgwyliadau oddiwrtho. Cyfod dy feddyliau uwch ei law

(a) Job v. 7.

law ef; a boed i ti lunio 'th amcanion am happuſrwydd, yn unig yn y bŷd hwnnw, llê nas gall ſod dim ſiommedigaeth: Ar yr un prŷd, clodfora Dduw am dy lwyddiant hyd yn hyn, gan gydnabod mae ei ragluniaeth neilldual ef yw yr achos dy ſod di cyhyd yn aros heb dy glwyfo, pan y mae cynnifer o gafodydd o ſaethau yn ehedeg o'th gwmpas, a chynnifer yn ſyrthio o'th amgylch, ar dy ddeheulaw ac ar dy law aſſwy.

§ 2. A phan ddelo dy dro ditheu, fel y mae yn ddiau y daw, o'r awr gyntaf a gafaelo cyſtudd ynnot, edrych ar law Duw yn y cwbl, ac na fydded i ti golli golwg arno trwy unrhyw ail achos ac a allo ei beri yn breſennol. Gofala yn gyntaf i *ymddaroſtwng dan alluog law Duw, fel i'th ddercbafo di mewn amſer cyfaddas* (b): Cyfaddef ei *fod ef yn gyfiawn, yn yr hyn oll a ddigwyddodd i ti* (c), ac iddo ef i'th *goſpi di yn llai na'th anwiredd* (d). Parottôa dy hun i ddioddef ei geryddol law gydag amynedd, i ogoneddu ei enw ef trwy ymoſtwng i'w ewyllys, i gwympo i mewn â dibenion graſol ei ymweliad, ac i ddiſgwyl yn llonydd am y diben, beth bynnag y fo.

§ 3. Ac fel y bo i *amynedd gael ei pherffaith waith* (e), edrych yn ddwys ac yn fynych ar dy waeledd a'th bechaduruſrwydd dy hun. Yſtyria, pa gynnifer o weithiau y *fforffettiaiſt* ti bob trugaredd, ac yr *haeddaiſt* ti bob barn. Ac yſtyria hefyd hîr-amynedd Duw tuag attat, pa un ſydd yn gweithredu mor rhyfeddol er dy ddaioni hyd yr awr hon; ïe yſtyria, nid yn unig ei amynedd, ond hefyd ei *haelioni*. Er mor gyſtuddiedig ydwyt, (canys yr wyf yn awr yn llefaru wrthyt fel dan y waſgfa) etto edrych o'th amgylch ar yr aml drugareddau ſydd yn dy feddiant, a bydd yn ddiolch-

(b) 1 Pedr v. 6. (c) Neh. ix. 33. (d) Ezra ix. 13.
(e) Iago i. 4.

gar am danynt. Meddwl y gallant gael eu ſymmud ymaith: Beth pe 'r eſtynnai Duw ei law i'th erbyn, gan 'chwanegu *poen* at *d'lodi*, neu d'lodi at boen; ïe gan 'chwanegu at y pethau uchod, y *golled o'th gyfeillion*, trwy farwolaeth; oni byddai 'th gyflwr yn llawer gwaeth? Clodfora Dduw am ei ddaioni nad yw 'r peth fel hyn; a gwilia rhag i'th anniolchgarwch di fod yn foddion i'w annog ef i amlhâu dy ofidiau. Yſtyria hefyd yr *angenrheidrwydd ſydd i ti gael dy ddiſgyblu fel hyn*; meddwl, pa gymmaint o iechyd a all hyn fod i'th enaid, a pha mor drugarog yw ein Tâd nefol, yn yr holl geryddon trwy ba rai y mae efe yn ymweled â'i blant.

§ 4. O ystyried y pethau hyn oll, y mae 'n rheſymmol i ddiſgwyl y bydd i ti, nid yn unig i *ymoſtwng* i'th gyſtuddiau, fel pethau *anocheladwy*, ond hefyd i *ymhyfrydu* ynddynt; i ti nid yn unig gyfiawnhâu, ond gogoneddu Duw am eu danfon hwynt; ïe i ti ogoneddu Duw â'th galon ac â'th weſuſau hefyd. Na fydded i ti edrych ar *fawl* yn beth anaddas ar y fath achlyſur; ac nac edrych ar y mawl hynny yn ddigonol, a fyddo yn tarddu oddiar ryw gyſſuron ac a fo yn aros; eithr gwybydd mae dy ddyledſwydd yw, bod nid yn unig yn ddiolchgar *mewn* cyſtuddiau, ond hefyd *am* gyſtuddiau.

§ 5. Duw ei hun a ddywedodd, *Ym mhob peth byddwch ddiolchgar* (f); ac efe a ddyſgodd ei weiſion i ddywedyd, *Yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthrymderau* (g). Diammau eu bod hwynt yn arwyddion o ddwyfol drugaredd i bawb o'r gwîr gredinwyr; canys y *nêb y mae yr Arglwydd yn ei garu y mae yn ei geryddu, ac yn fflangellu pob mâb a dderbynio*, gydag anwylder neillduol (h). Edrych ar dy gyſtuddiau gan hynny yn y goleu hyn, ſef, yn *geryddon*

(f) 1 Theſ. v. 18. (g) Rhuf. v. 3. (h) Heb. xii. 6.

geryddon cariad; ac yna dyweded dy galon, onid yw cariad yn galw am ſawl. Dywed 'Dyma 'r 'moddion trwy ba rai y mae Duw yn ſy ngwneu-'thur i yr yn ffurf a delw ei fâb; fel hyn y 'mae efe yn ſy nghymmwyſo i er mwyn cael 'mwynhâu cyflawn ogoniant. Trwy hyn y mae 'efe yn marweiddio fy llygredigaethau ac yn cryf-'hâu fy ngraſuſau; a thrwy y pethau hyn y mae 'efe mewn modd doeth yn fy nhynnu yn nês 'atto ei hun, gan fy addfedu i anrhydedd ei nefol 'deyrnas. *Rhaid yw i mi fod mewn triſtwch* (i); 'a diammau y gŵyr efe yn well nac y gallaf fi ei 'ddyſgu, beth yw y rhaid o hyn; efe a ŵyr pa 'mor neillduol addas yw 'r cyſtudd hwn, i atteb fy 'rhaid preſennol, ac i wneuthur y daioni neill-'duol hynny, ac a fwriadodd efe yn raſol i mi, 'trwy y fath ymweliad. Fe fydd i'r *gorthrymder* 'hwn beri *dioddefgarwch*, *a dioddefgarwch brofiad*, '*a phrofiad obaith*; ïe y fath *obaith ac ni chywily-'ddia*, gan fod cariad Duw wedi ei dywallt yn fy 'nghalon (k), ac yn tywynnu trwy fy ngorth-'rymderau, fel yr haul trwy dyner ŵlaw, gan beri 'i ffrwythlondeb gyd-ymgymmyſgu ac wylofain.'

§ 6. Tra fyddech fel hyn yn edrych ar dy orthrymderau (pa bethau bynnag y fônt) yn dyfod o law Duw, boed i ti ddwys ofalu i geiſio eu *defnyddio i'r dibenion yr anfonwyd hwynt*. Ac fel y gallech wneuthur felly, ymofyn yn gyntaf, i ba ryw ddibenion yr anfonodd Duw hwynt. Galw ar holl aſtudrwydd dy enaid, i *wrando y wialen, a'r hwn a'i hordeiniodd* (l); a gweddia yn daer am i ti allel deall ei lais. Hola dy fywyd, dy eiriau, a'th galon; a gweddia ar Dduw i'th dywys yn dy ymofyniadau, fel y *dychwelech at yr Arglwydd yr hwn a'th darawodd* (m). Er mwyn cael cynnorth-

(i) 1 Pedr i. 6. (k) Rhuf. v. 3—5. (l) Mic. vi. 9.
(m) Eſay ix. 13.

wy yn y matter hwn, galw attat dy gyfeillion duwiol, ac yn neillduol gweinidogion yr efengyl: Ymbil, nid yn unig am eu gweddiau hwynt, ond hefyd am eu cyfarwyddiadau, ynghylch yr hyn a all fod dibenion mwyaf tebygol rhagluniaeth yn y fath ymweliad; ac annog hwynt i ddywedyd wrthyt yn rhŷdd yr hyn a ymddangoſo i'w meddyliau ar y pen hyn. Ac os cânt trwy fath achlyſſur eu harwain i ſôn am ryw bethau ammherffaith yn dy *garacter* a'th ymddygiad di, edrych ar hynny yn arwydd o'u cyfeillgarwch, a derbyn ef, nid yn unig yn amyneddgar, ond yn ddiolchgar. Y mae yn beth anaddas iawn i griſtion un amſer ddigio wrth neb o'i gŷd-greaduriaid ac a'i hyfforddiant ac a'i ceryddant; ond yn neillduol anaddas pan y mae ei nefol dâd yn ei geryddu ef. Fe a ddylai yn hytrach ar y fath amſer a hyn, ymofyn am gyfarwyddiadau, a chynnyg yn ewyllyſgar ei archollion i gael eu chwilio gan feddyg ffyddlon a medrus.

§ 7. A phan gaffech, trwy unrhyw foddion, beledr o oleuni i'th dywys i adnabod diben y fath ymweliadau yn rhagluniaeth tuag attat, gwilia, rhag i ti mewn un grâdd ymgaledu yn erbyn Duw, gan rodio yn wrthwyneb iddo ef (n). Y mae gwrthnyſig anewyllyſgarwch i ymoſtwng dan ddyrnod rhagluniaeth, pan fo 'r diben yn hyſpys i ni, *yn aigio yr Arglwydd mewn modd anrhaethol.* Cais gan hynny yn y fan, i ddiwigio yr hyn wyt yn weled yn feius: A chais ddyſgu y gwerſi cyffredinol hyn, ſef, goſtyngeiddrwydd mwy i ewyllys Duw; tawel ddifatterwch am y bŷd hwn; a phleſer mwy mewn cyfrinach â Duw, ac mewn golwg ar y bŷd tragywyddol anweledig, yr hwn ſydd yn agoſhâu. A pha gyfattebolrwydd bynnag y welech rhwng yr amgylchiad hyn neu arall yn dy gyſtuddiau, a'th droſeddiadau gynt, bydd yn neillduol ofalus i ymddwyn,

(n) Lev. xxvi. 27.

ddwyn, yn ol y llais enwedigol ac eglur hynny o eiddo 'r wïalen. Ac felly, di gei o boſſibl achos cyflym a hynod i ddywedyd, *da oedd i mi gael fy nghyſtuddio* (o); a chyda lluoedd eraill, ddyſgu cyfrif yr amſerau hynny, yn y rhai i'th *brofwyd doſtaf*, ymmŷſg y munudau gwychaf a mwyaf melus o'th holl fywyd. I'r dïben hyn, parhâ yn ddyfal mewn *gweddi*; a boed i ti dywallt y fath erfyniadau, os nid yn y geiriau hyn, yn fynych, ac mewn modd gwreſog ger bron Duw.

Gweddi *oſtyngedig at* Dduw *oddiwrth un ac ſydd yn cael ei waſgu dan fawr Orthrymder.*

'O ARGLWYDD derchafedig! tydi ydwyt 'gyfiawn a graſol lywydd yr holl grea-'digaeth! er mor wael a diſtadl gall y rhan fe-'chan hon o'th lywodraeth ehang ymddangos, 'nid ydwyt yn dibriſio y ddaiar a'i thrigolion; ond 'yr ydwyt yn ſylwi arni yn y modd mwyaf daroſt-'yngedig a graſol. Tydi ydwyt yn *teyrnaſu*, ac 'am hynny yr wyf finnau yn *llawenhâu*; canys y 'mae hynny yn wîr yn fatter o orfoledd cyffredi-'nol (p). Yr wyf yn credu fod dy ragluniaeth yn 'gofalu am, ac yn llywodraethu pob peth; ac yr 'wyf yn hollol gredu dy fod di yn trefnu pob peth 'a berthyn i mi, ac i amgylchiadau fy ſefyllfa yn 'y bŷd hwn, mewn modd doeth, ſanctaidd, a da. 'Yr wyf yn chwennych edrych trwy bob achoſion 'îs tuag attat ti, llygaid pa un ſydd ar dy holl 'greaduriaid; attat ti, yr hwn wyt yn *llunio goleuni* 'ac yn creu tywyllwch, yn gwneuthur llwyddiant ac 'yn creu drygfyd (q); attat ti, O Arglwydd, yr 'hwn a elli pan fynnech, newid y naill am y llall; 'yr hwn a elli droi y canol-ddŷdd mwyaf diſglair

(o) Salm cxix. 71. (p) Salm xcvii. 1. (q) Eſay xlv. 7.

' yn ganol-nôs, a'r tywyllwch eithaf yn hanner
' dŷdd.

' O lywydd doeth a thrugarog y bŷd! llawer
' gwaith y dywedais, *dy ewyllys di a wnelir:* Ac yn
' awr y mae 'th ewyllys yn rhy boenus i mi. Ond
' a fydd i mi gan hynny, wrthddywedyd yr hyn
' a ddywedais mor fynych? *Na atto Duw!* Yr
' wyf yn dyfod yn hytrach, i daflu fy hunan wrth
' dy draed di, gan gyhoeddi fy ymoſtyngiad rhŷdd
' a chyflawn i'th holl ewyllys ſanctaidd. O Ar-
' glwydd, yr ydwyt ti yn gyfiawn yn y cwbl! Yr
' wyf yn cyfaddef yn dy ofnadwy a'th anrhydeddus
' breſennoldeb, fy mod i wedi haeddu hyn oll, ïe
' a deng mîl mwy (r); yr wyf yn cydnabod mae
' dy drugaredd di yw yr achos na ddarfu am danaf
' (s), ac fod un grâdd o gyſſur etto yn aros. O
' Arglwydd! yr wyf yn cyfaddef fod pechodau *un*
' *dŷdd* o'm bywyd wedi haeddu yr holl geryddon
' hyn; ac fod pob dŷdd o'm heinioes wedi bod yn
' fwy neu yn llai pechadurus. Taro gan hynny,
' O farnydd cyfiawn! ac etto mi a'th foliannaf am
' na ddanfonaiſt y cleddyf yn llê 'r fflangell hon, i
' wneuthur holl waith ofnadwy cyfiawnder, ac i
' dywallt allan fy ngwaed yn dy breſennoldeb di.

' Ond a gâf fi lefaru wrthyt yn *unig fel fy mar-*
' *nydd?* O Arglwydd, ti a ddyſgaiſt i mi enw mwy
' tyner; ti a ymoſtyngaiſt i alw dy hunan *fy Nhâd*,
' ac i ddywedyd am geryddon, eu bod yn ffrwythau
' dy gariad. O croeſaw, croeſaw, i'r cyfryw orth-
' rymderau ac ydynt arwyddion o'th dadol ſerch,
' ac yn nodau o fy mabwyſiad i'th deulu di! Ti a
' wyddaiſt pa ryw ddiſgyblaeth ſydd yn ddiffygiol
' arnaf. Ti a weli, O Arglwydd, pa ryw ffolineb
' ſydd yn rhwym yn fy nghalon i, yr hwn wyf dy
' blentyn tlawd, cyndyn, ac anyſtyriol; a thi a
' wyddaiſt pa ryw wialenodau a fflangellau ſydd yn
' angen-

(r) Ezra ix. 13. (s) Galar. iii. 22.

'angenrheidiol i'r diben o'i yrru ymaith. Mi a 'chwennychwn ymoſtwng yn iſel i dâd yr yſpryd- 'oedd, yr hwn ſydd yn fy ngheryddu er fy *lleſhâd* '(t). Mi a ewyllyſiwn ddioddef dy ergidion di, 'nid yn unig am nas gallaf eu gwrthwynebu 'hwynt, ond o blegid fy mod yn dy garu ac yn 'ymddiried ynnot ti. Yr wyf yn tawel ymfodd- 'loni ac yn gorphwys yn dy ewyllys, yn gyſtal ac 'yn ymoſtwng iddi; gan ddywedyd, *Da yw gait 'yr Arglwydd* (u): Ac yr wyf yn ewllyſio, nid yn 'unig i fy ngenau ymfoddloni ac yn dywedyd fel 'hyn, ond hefyd fy enaid. Ië Arglwydd, yr wyf 'yn dymuno 'th *foliannu* am i ti ddangos cym- 'maint o gariad tuag attaf fi, fel ac y mae 'r fath 'foddion wedi eu cymhwyſo at wellhâu afiechyd fy 'meddwl, ac am dy fod mor garedigol ofalus i'm 'gwneud i yn gymmwys i ogoniant. Nid wyf yn 'gwrthddadleu i gael fy nghyſtuddio, nac i gael fy 'nghyſtuddio yn y ffordd hon yn neillduol. *Y 'cwppan â roddes y Tâd yn fy llaw, oni yfaf ef* (x)? 'Hyn a wnâf trwy dy gymmorth di. Yn unig 'bydded da yn dy olwg, O Arglwydd, i ſefyll ar 'fy rhan, ac i edrych yn raſol arnaf ynghanol fy 'nioddefiadau! Cynnal fy enaid, yr wyf yn atto- 'lygu arnat, trwy gymmyſg dy gyſſuron â'm 'gorthrymderau; ac mi a fyddaf yn llawen yn y 'fath gyſtuddiau! Hyn fu profiad llawer; pa rai 'a edrychaſant yn ol ar ddyddiau eu cyſtudd gyda 'phleſer, gan gyfaddef ddarfod i'w cyſſuron lyngcu i 'fynu eu holl driſtwch: Ac a *ballodd dy drugareddau* (y)? *A fyrhaodd dy fraich* (z), fel nas gelli 'wneuthur yr un modd â myfi? Os yw fy ngha- 'lon yn llai tyner a theimladwy, ti a elli beri i'r 'cyſtudd hwn fod yn foddion i feddyginaethu 'r 'cyfryw anhwyl. Boed felly; ac yn dy ffordd

(t) Heb. xii. 9, 10. (u) 2 Bren. xx. 19. (x) Ioan xviii. 11.
(y) Eſay lxiii. 15. (z) Num. xi. 15.

'a'th amſer dy hun, gweithia allan ſy ngwaredigaeth: *Dangos dy ryfedd drugareddau, O achubydd y rhai a ymddiriedant ynnot* (a)! Canys mi a wn yn dda, mai er mor dywyll y dichon y nos hon o orthrymder ymddangos, os bydd i ti ddywedyd *Bydded goleuni, goleuni a fydd.* Ond ni fynnwn i fod yn daer am ddim, cyn yr amſer y bo i'th ddoethineb a'th ddaioni di yn trefnu ei gyfrannu: Canys y mae ſy ngofal yn llawer mwy am i'm cyſtuddiau gael eu *ſancteiddio*, nac am iddynt gael eu *ſymmud.* Bydded i ti, O Dduw, ſy nghyfrif i ymmŷſg y dynion dedwydd hynny, pa rai, tra yr ydwyt yn eu ceryddu, ſy 'n cael eu dyſgu allan o'th gyfraith (b)! *Gwna i mi wybod*, yr wyf yn attolygu arnat, *pa ham yr ymryſŏni â mi* (c); a pha ham i'm puri â'r tân, yr hwn ſydd mor boenus i mi, tra yr ydwyf yn myned trwyddo! Onid ydwyt yn *ceryddu* dy blant i'r diben hyn, ſef, *fel y byddont yn gyfrannogion o'th ſancteiddrwydd* (d)? A thi a wyddaiſt, O Dduw, mae dyma 'r hyn yr wyf fi yn ei geiſio. Yr ydwyf yn gyfrannog o'th ddaioni di bob dŷdd a munud o'm bywyd. Yr wyf yn gyfrannog o'th efengyl, ac yr wyf yn gobeithio ſy mod hefyd mewn rhyw feſur yn gyfrannog o râs yr efengyl yn gweithredu ar ſy nghalon: O! bydded i mi deimlo ei weithrediadau yn fwy fwy, fel y byddwyf hefyd yn helaeth gyfrannog o'th ſancteiddrwydd yn yr un modd; fel y bwyf gael ſy ngwneud debygach debygach i ti, O Dduwben digedig, mewn *meddwl a thymmer*, yr hwn wyt y copi mwyaf rhagorol o bob perffeithrwydd! Bydded i'm henaid gael ei thoddi, er gorfod o honof ddioddef megis poethder eithaf y danllyd ffwrn o brofedigaethau, os bydd i mi ond cael ſy ngoſod ym *mowld* yr efengyl, ac

'felly

(a) Salm xvii. 7. (b) Saim xciv. 12. (c) Job x. ii.
(d) Heb. xii. 10.

'felly i ddwyn dy hawddgar a'th ddiſglair ddelw
'di! O Arglwydd, fy enaid a hiraetha am danat
'ti, ïe a waedda am y Duw byw (e)! Yn dy bre-
'ſennoldeb di, a than naws dy gariad, mi a allaf
'ddioddef unrhyw drallod; ac yr wyf yn ewyllyſ-
'gar i ddioddef pob peth, os bydd i mi trwy hyn-
'ny gael fy ngwneud yn fwy bywiog yn dy olwg,
'ac yn fwy cymmwys i'th deyrnas. Fe dderfydd
'dyddiau fy ngorthrymder; fe ddaw 'r awr o'r
'diwedd pan *ſychech ymaith fy holl ddagrau* (f): ac
'er aros o honi, etto mi a ddiſgwyliaf am dani (g).
'Y mae fy nghalon ffôl yn barod i gynnyddu
'mewn cariad at y ddaiar, er amled fy mhrofe-
'digaethau, gofidiau, a'm ſiommedigaethau; ac yr
'ydwyt ti, O Dduw, yn ymddwyn yn raſol tuag
'attaf fi, trwy dorri y rhwymau ac ſydd am fy rhwy-
'mo i yn fwy ſefydlog wrthi hi. Boed i'm henaid
'allel amgylch wregyſu ei hun, gan danu ei had-
'enydd megis mewn diſgwyliad am yr awr wyn-
'fydedig honno, ym mha un y caiff hi adael yn ol
'ar unwaith ei holl ofidiau a'i rhwyſtrau, ac ehedeg
'ymaith i helaeth fyfyrio gydag hyfrydwch tragy-
'wyddol yn ardaloedd rhydd-did, heddwch, a
'gorfoledd! Amen.'

PENNOD XXVI.

Y Criſtion yn cael ei gynnorthwyo yn ei ymoſyniaa ynghylch cynnydd ei Râs.

§ 1. OS wyt ti trwy ddwyfol râs wedi 'th *ail-eni*, nid o hâd llygredig, eithr anllygredig (a), ſef trwy air Duw, yr hwn ſydd yn aros

(e) Salm lxxxiv. 2. (f) Datg. xxi. 4. (g) Hab. ii. 3.
(a) 1 Pedr i. 25.

yn dragywydd, nid yn unig yn y bŷd ac yn yr eglwys, eithr hefyd yn y calonnau ym mha rai yr hauwyd ef; fe fydd i ti fel plant bychain newydd eni, chwennych didwyll laeth y gair, fel y cynnyddech trwyddo ef (b). Ac er nad ydym ond plant ar y goreu yn y 'ſtâd hon, mewn cymmariaeth i'r hyn yr ydym yn obeithio fod yn y nefol fŷd, pan ddelom yn *wŷr perffaith at feſur oodran cyflawnder Criſt* (c); etto gan fod gennym ymarferiad o reſwm wedi ei ſancteiddio mewn rhan, diammau ein bod yn chwennych fyned yn y blaen ar gynnydd. A thithau, fy narllenydd, *os profaiſt fod yr Arglwydd yn dirion* (d), ydwyt yn ddiammau yn profi y dymuniad hyn. Mi a geiſiaf gan hynny, ymdrechu i'th gynnorthwyo yn yr ymofyniad hwn, ſef, A yw Crefydd yn myned ar gynnydd yn dy enaid? ac yn y man hyn yr wyf yn dy rybuddio rhag *gau arwyddion o gynnydd mewn grâs*; ac felly mi a gâf oſod o'th flaen di rai nodau mwy ſicr, ar ba rai y gelli ymorphwys.—Yn gyntaf mi a ddymunwn ſylwi, na ddylit ti ddim meſur cynnydd dy râs yn unig wrth dy gynnydd mewn gwybodaeth, ſêl, neu unrhyw nwyd arall o eiddo 'r meddwl; ond wrth *fwriad a gogwyddiad ſefydlog a gwaſtadol yr ewyllys tuag at Dduw*; ac wrth dy dueddiad i ufuddhâu i'w orchymynnion ef, i ymoſtwng i'w drefniadau ef, ac i fod yn offeryn i ddwyn i ben ei fwriadau ef yn y bŷd.

§ 2. RHAID addef fod *gwybodaeth*, a *ſêl* mewn Crefydd, yn bethau dymunol iawn; canys heb ryw râdd o'r cyntaf, nis dichon Crefydd fod yn *rheſymmol*, ac y mae yn rheſymmol i gredu nas dichon fod Crefydd wirioneddol mewn un dŷn heb ryw gymmaint o ſêl yn cyd-fyned â hi. Etto, fe all fod llawer o *ddeall pen*, a llawer o *nwydau poethion*, heb ddim Crefydd. Fe all yr ymarferiad o'n galluoedd naturiol

(b) 1 Pedr i. 2. (c) Eph. iv. 13. (d) 1 Pedr ii. 3.

naturiol ynghylch y prawf o wirionedd y datgudd-iad dwyfol, a'r cyhoeddiad o honi yn yr yſgrythur, ſod yn foddion i lanw pen *y dŷn mwyaf drygionus*, a chorph o ddefnyddiaeth iachus, a'r galon yn cael ei gadael heb na chredu na theimlo un o'r cyfryw athrawiaethau. Darluniad ffraeth o ddioddefaint Criſt, o'r farn a fydd, a lawenydd y ſeintiau, ac o drueni y damnedigion, a all gyffroi calon y dŷn, na chredodd yn iawn am y fath bethau erioed; yn yr un modd ac yr ydym yn fynych yn profi ein ſerchiadau yn cynhyrfu wrth wrando araeth ragorol, er ein bod yn gwybod ar yr un prŷd, ei bod heb ei ſylfaenu ar ddim ond dychymmyg yn unig. Fe all tynerwch naturiol neu ryw achoſion damweiniol, y rhai ydynt yn rhy wael i ſŏn am danynt, lanw 'r llygaid o ddagrau, y rhai a redant yn helaeth ar bob rhyw achlyſur. Diffyg amynedd a all beri i'r *gwaed ferwi*, pan fo dŷn yn clywed yr athrawiaethau pa rai y fu efe yn gyhoeddus ac yn rymmus yn amddiffyn, yn cael eu dadleu a'u gwrthwynebu; yr hyn beth ſydd yn wrthwyneb i yſpryd mwynaidd criſtianogaeth. Hyn o boſſibl a'i harwain ef i dywallt allan ei ſêl a'i gynddaredd mewn modd digllon ger bron Duw, gan feddwl (mae fel Duw 'r gwirionedd) ei fod ef yn batrwn o'r athrawiaethau hoff hynny, trwy ymddangoſiadau têg pa rai y cafodd ef ei hunan o boſſibl gam arwain. Ac os yw y fath ddiwygiad tremmiol, neu 'r fath ſerchiadol ruthr o eiddo 'r meddwl yn boſſibl llê nad oes dim Crefydd, y mae yn amlwg y dichon llawer o ddeall ac o ſêl gyd-ſefyll â grâdd iſel iawn o honi. Mi a ewyllyſ-iwn gan hynny, O fy nghyfaill, i'th arwain di i feddyliau mwy derchafedig, ac at arwyddion mwy cywir o gynnydd grâs; mi a fynnwn dy gyfeirio di at yſgrifenadau ymarferol dynion eraill, ac yn enwedig neb, at lyfr Duw, er mwyn profi pa mor gywir ydynt. Yr wyf gan hynny yn attolygu arnat

i alw

i alw ar dy galon i atteb, megis ger bron Duw, i'r fath ymofynion a hyn.

§ 3. A ydwyt ti yn gweled fod *dwyfol gariad*, ar y cwbl, *yn myned ar gynnydd yn dy enaid?* A ydwyt ti yn cael dy hunan yn fwy teimladwy o bresennoldeb Duw; ac a ydyw y fath deimlad yn fwy hyfryd yn awr nac o'r blaen? A elli di, pan fyddo 'th ysprydoedd naturiol yn isel, a phan na fyddech mewn tymmer wresog yn dy enaid i ymarfer â duwioldeb, a elli di, er hyn oll, ddywedyd fod dy galon yn profi gorphwysfa dawel a dymunol, yn y meddwl fod Duw yn agos attat, ac yn gweled holl feddylfryd dy enaid; pan fyddech megis yn tynnu ar i fynu, gan daflu golwg hiraethlon tuag atto ef, er nas gelli ddywedyd dy fod yn deimladwy o gyfranniadau ei râs? A ydwyt ti yn foddlon i agor dy galon o'i flaen ef i gael ei chwilio? i'w rhoddi iddo ef yn noeth, ac mewn modd diffuant, gan ddywedyd gyda *Dafydd, O Arglwydd, ti a adwaenoſt dy wâs* (e). A ydyw cyfraith sanctaidd Dduw yn myned yn fwy cymmeradwy yn dy olwg, yr hon yw *copi* o'i briodoliaethau moesol ef? A ydwyt ti yn y dŷn oddifewn *yn cyfrif ei orchymynnion ef yn uniawn am bob peth* (f)*?* A ydwyt ti yn canfod, nid yn unig yr angenrheidrwydd o, ond hefyd, y rhesymmoldeb, yr harddwch, a'r pleser, sydd mewn ufudd-dod; ac a wyt ti yn profi dy fod yn dirmygu yn fwy y pethau hynny ac a gynnigir fel gwerth am dy ddiniweidrwydd, a'r pethau ac a'th demtiant i beryglu dy hawl yn heddwch a chyfeillgarwch Duw? A wyt ti yn cael ynnot dy hun ddymuniad gwir i geisio rhyngu bodd Duw? A hynny nid yn unig o blegid ei fod ef mor alluog, a chanddo gymmaint o lywodraeth ar ddâ a drŵg; ond hefyd o barch i'w natur hawddgar? Ac a wyt ti yn cael dy galon yn greddfol gymmodi ac ef, gan blygu yn y modd

(e) 2 Sam. vii. 20. (f) Salm cxix. 128.

modd mwyaf iſel i ewyllys dy Arglwydd, yn yr hyn a orchymynnodd i ti ei wneuthur, ac yn yr hyn a drefnodd i'th gyfarfod yn dy daith? A ydwyt ti yn gweled fod dy ewyllys di yn awr yn ſwy parod ym mhob ryw amgylchiad i ddwyn y rau, ac i ymoſtwng i ddwyfol appwyntiad, pa beth bynnag a drefno Duw i ti ddioddef, neu i ymwadu ac ef? A elli di *mewn amynedd feddiannu dy enaid* (g)? A elli di ddangos mwy o dawelwch a ſirioldeb parhaus, pan fyddo Duw yn ergidio at y pethau mwyaf anwyl i ti yn y bŷd hwn, ac yn gweithredu yn y modd mwyaf gwrthwynebol i'th fûdd preſennol, i'th nwydau a'th ddymuniadau naturiol? Os gelli, y mae yn arwydd mwyaf rhagorol a diamheuol, fod grâs wedi tyfu i fynu ynnot, i râdd tra gwrol.

§ 4. Ymofyn hefyd, pa *ſerchiadau ydwyt yn broſi yn dy galon yn gweithredu tuag at ddynolryw yn gyffredinol o'th gwmpas*. A yw dy galon yn llifo troſodd o gymmwynaſgarwch diragrith a pharhaus? A ydwyt ti yn fwy teimladwy nac oeddit unwaith, o'r rhwymau, pa rai ſydd yn uno holl ddynolryw, yn enwedig *criſtianogion*, yn un gymdeithas, ac yn eu gwneud hwynt yn *frodyr* ac yn *gyd-ddinaſyddion*? A wyt ti yn teimlo fod yr holl nwydau angharedig ſydd ynnot yn darfod, a ſerchiadau cymdeithiaſol yn cryfhâu ac yn myned ar gynnydd? Ac er nad oedd *hunan-gariad* yn egwyddor lywodraethol ynnot, er pan ydwyt yn *griſtion*, etto gan fod peth gweddill o hynny yn aros o'th fewn, ac yn ymddangos ar rai prydiau yn fwy neillduol, a ydwyt ti yn ymladd yn ei erbyn, ac yn ynnill tîr? A wyt ti yn edrych arnat dy hunan fel un o'r rhîf luoſog hynny, ac ſydd yn yſtyried eu bûdd neillduol eu hunain yn beth o ychydig bwys, mewn cymmariaeth i ddaioni a bûdd cyffredin y gymdeithas i ba un y maent yn perthyn; gan gredu y dylyt ar bob achlyſur

(g) Luc xxi. 19.

achlyſur, roddi heibio dy fantais dy hun, pan yn gwrthwynebu y llês cyffredin?

§ 5. CHWILIA dymmer dy galon yn neillduol tuag at y rhai hynny ac yr ydwyt yn teimlo rhyw ddirgel gaſineb attynt, neu o leiaf bellder oddiwrthynt; y rhai y mynnai calon heb ei ſancteiddio eu caeu allan o fŷſg y ſawl ac y-fae yn garu? Pa fodd y mae dy galon tuag at y ſawl ac ſydd o wahanol farn ac ymddygiad mewn pethau crefyddol? Nid ydwyf yn dywedyd fod *cariad criſtianogol* yn dy rwymo i edrych ar bob cyfeiliornad yn beth diniweid. Nid yw ein gwaith yn ofni, rhag i afiechyd ein cyfaill brofi yn fwy diniſtriol nac y mae efe yn meddwl, mewn un modd yn brawf o ddiffyg cariad tuag atto; ond i'r gwrthwyneb, fe ddichon ein *tynerwch* tuag atto ar rai prydiau 'chwanegu ein hofnau, a'n cyffroi i geiſio ei feddyginiaethu ef. Ond etto y mae *caſineb at berſonau* dynion, o blegid ein bod ni yn meddwl eu bod hwynt yn camſynnied, a'n gwaith yn goſod allan fod pob gwahaniaeth mewn barn a buchedd yn ddiniſtriol ac yn ddamniol, a thrwy hynny yn torri pob cariad a chymmundeb criſtianogol, yn arwyddo gwaeth pethau na 'r hyn a farnir. A ydwyt ti yn caru délw Criſt ar y cyfryw ddŷn ac ſydd yn barnu yn ei gydwybod y dylai efe addoli Duw mewn modd gwahanol i'th drefn di? Ië ym mhellach, a elli di garu a pharchu yr hyn ſydd yn hardd a rhagorol yn y ſawl ac yr ydwyt yn gweled llawer yn ddiffyg? yn y rhai y mae cymmyſgedd o gyndynrwydd a chyfyngder yſpryd, yr hyn a all eu harwain o boſſibl i'th ddiyſtyru ac i'th oganu di? A elli di garu y rhai hynny fel diſgyblion a gweiſion i Griſt, er eu bod trwy fêl gyfeiliornus, yn barod i fwrw dy enw di allan megis drŵg (h), ac i rybuddio eraill i'th ochelyd di fel un peryglus? Os felly, y mae yn

(h) Luc vi, 22.

yn arwydd nid bychan o fod cariad brawdol yn buddugoliaethu ynnot, a Chrefydd yn myned ar gynnydd yn dy enaid.

§ 6. Ystyria ym mhellach ar y pen hyn, pwy mor belled y gelli di *ddioddef cam?* Y mae math o galedrwydd enaid yn yr yſtyr hyn, ac ſydd yn profi cyflwr o gaderndid mewn rhinwedd a duwioldeb. A yw pob cam ac ydwyt yn gael yn dy derfyſgu di, fel ac yr ydwyt yn llunio pa fodd y bydd i ti allel talu 'r pwyth; neu o leiaf pa fodd y bydd i ti allel gwaradwyddo yr hwn a wnaeth yn anghyfiawn â thi? Neu ynte, a elli di wrthſefyll yr ergyd mewn modd tawel, gan droi dy feddwl at wrthrychau eraill, a chan doſturio wrth, a gweddio dros y cyfryw rai ac a wnaethant gamwedd â thi gyda 'r tymmerau a'r bwriadau mwyaf fileinig? Dyma dymmer yn wîr gyffelyb i dymmer Criſt, ac efe a'i harddel hi fel y cyfryw; fe a'th arddel di fel un o'i filwyr, ïe fel un o'i filwyr glewaf, yn enwedig os bydd i'r dymmer hon i'th ddwyn mor belled a *gorchfygu drygioni trwy ddaioni* (i). Gwilia ar dy yſpryd ac ar dy dafod, pan fo neb yn gwneud cam â thi; edrych, pa un a'th fod yn barod i fyfyrio arno, i'w oſod yn y goleu gwaethaf i ti dy hun, i achwyn o'i blegid wrth eraill, ac i feio y ſawl a fynnent dy ddryga, hyd ac y gallech yn gyfiawn? Neu ynte, a wyt ti yn barod i oſod y lliw mwyaf dymunol ar y tramgwydd; i'w eſguſodi mor belled ac y mae yn rheſymmol; ac er dued y gallo wedi 'r cwbl ymddangos, a wyt ti yn barod i'w faddeu o'th galon, a hynny cyn y bo ymoſtyngiad yn cael ei wneud am dano, na maddeuant yn cael ei ofyn i ti? Ac fel arwydd o'th fod yn gwîr faddeu, a ydwyt ti yn ymofyn pa ryw ddaioni a allech wneud i'r hwn a'th ddrygodd, er mwyn dyſgu iddo dymmer well?

§ 7.

(i) Rhuf. xii. 21.

§ 7. HOLA dy hun ym mhellach, mewn perthynas *i ddrygau a thrallodion y bywyd hwn*, ynghylch hyd yn oed anwadalwch pethau yma, pa fodd yr ydwyt ti yn ymddwyn danynt? A ydwyt ti yn profi fod dy enaid yn dyfod yn fwy fwy gwrol yn yr yſtyr hyn? A oes ynnot ti lai o ofnau droganllyd, ac o ddychryndod ac ſydd yn dy aflonyddu ynghylch yr hyn a allo ddigwydd mewn bywyd, nac oedd ynnot unwaith? A elli di ymddiried yn noethineb a daioni Duw, i drefnu dy achoſion, a hynny gyda mwy o ſirioldeb a boddlonrwydd, nac o'r blaen? A ydwyt ti yn alluog i gaſglu dy feddyliau ynghŷd yn fwy, wrth ſylwi ar dy amgylchiadau preſennol, fel ac yr ydwyt yn caſglu beth yw dy ddyledſwydd *yn awr*, beth bynnag a drefno Duw i ti yn *ôl llaw?* A phan deimlech wŷn cyſtudd, a ydwyt ti yn gwneuthur llai o fatter o hono? A yw dy galon di yn myned trwodd yn fwy hawdd at nefolaidd wrthddrychau, heb unrhyw drymdriſt ofal am gael ſymmud y baich hyn ac arall, os bydd i'r cwbl ond cael eu ſancteiddio i ddwyn ymmlâen dy gymmundeb â Duw, ac i'th addfedu i ogoniant?

§ 8. HOLA hefyd, pa un a'th fod yn cynnyddu mewn *goſtyngeiddrwydd?* Grâs diſtaw yw hwn, er hynny y mae yn dra rhagorol; a'r ſawl ac ſydd wedi cynnyddu fwyaf ynddo, ydynt y rhai anwylaf gan Dduw, a'r gwrthddrychau mwyaf cymmwys i dderbyn amlygiadau o'i breſennoldeb ef. A ydwyt ti yn teimlo dy feddwl yn cael ei wanhâu yn fwy fwy o falchder ac o ddychymmygion trahâus; ac heb fod mor barod i edrych yn ol ar yr hyn waſanaeth a gyflawnaiſt, ac ydwyt i yſtyried yr hyn ſydd o'r blaen, ynghyd â'r tufewnol ammherffeithrwydd ac ſydd yn dy galon? A ydwyt ti yn edrych ar dy lithriadau a'th gamymddygiadau o ddŷdd i ddŷdd gyda mwy o dynerwch, gan alaru ger bron yr Arglwydd

glwydd am y pethau ac yr oeddyt yn edrych arnynt unwaith, yn rhy ddiſdadl i wneud ſulw o honynt; etto pan ddelech i'w chwilio fel ger bron Duw, ti a gei weled nad ydynt yn hollol wrthwyneb i'th ewyllys, nac yn rhŷdd oddiwrth euogrwydd? A wyt ti yn teimlo yn dy fynwes ddyfnach amgyffred o anfeidrol fawredd y Duw bendigedig, ac o ogoniant ei briodoliaethau naturiol a moeſol? Ac a yw y fath olwg yn dy ddiddymu di megis yn ei breſennoldeb, fel yr ydwyt yn cyfrif dy hun *yn llai na dim, ac na gwagedd* (k)? Os dyma dy dymmer, Duw a edrych arnat gyda ſerch neillduol, ac a ymwel â thi â bendithion mwy rhagorol ei râs.

§ 9. Ond y mae cangen ac effaith fawr arall yn tarddu oddiar oſtyngeiddrwydd criſtianogol, ac fe fyddei fy ngwaith yn eſgeuluſo ſôn am dani yn fai anfaddeuol. Rhô gennad i mi, gan hynny, i ofyn; A wyt ti yn mynych adnewyddu 'th ddyfodiad, dy ddiragrith ddyfodiad, at *gyfiawnder a gwaed Ieſu Griſt*, gan deimlo pa mor anheilwng ydwyt ti i ymddangos ger bron Duw, mewn unrhyw ffordd arall? A yw yr olwg ar lygredigaethau dy galon yn dy ddwyn yn iſel o flaen yr Arglwydd, er bod dy fuchedd mewn meſur mawr wedi ei gwellhâu? A wyt ti yn fwy taer am gael profiad o ddylanwadau bywiog yr Yſpryd ſanctaidd; ac a oes gennyt y fath adnabyddiaeth ar dy anallu dy hun, ac ſy 'n dy rwymo di i ymddibynnu yn hollol ar gyfranniadau ei râs ef i *gynnorthwyo dy wendid* (l), ynghyflawniad dy holl ddyledſwyddau? A elli di, ar ddiwedd dy ddyddiau mwyaf hynod o ddefnyddgarwch a chrefyddol, wridio ger bron Duw o blegid dy amherffeithrwydd, tra mae eraill o boſſibl yn barod i ryfeddu a chlodfori dy ymddygiad? A thra yr ydwyt yn rhoddi y gogoniant o'r hyn oll ac ſydd yn uniawn iddo ef, oddiwrth ba un y derbyniaiſt

(k) Eſay xl. 17. (l) Rhuf. viii. 26.

byniaiſt nerth a grâs, a wyt ti *yn dyfod at waed y tanhelliad*, i gael dy wared oddiwrth yr euogrwydd ac ſydd yn ymgymmyſgu ei hun hyd yn oed â'th waſanaeth goreu? A wyt ti yn dyſgu derbyn pethau da rhagluniaeth, nid yn unig gyda diolchgarwch, fel y maent yn dyfod oddiwrth Dduw, ond hefyd gyda chymmyſgedd o gywilydd a ſyndod, gan gydnabod nad ydwyt yn eu haeddu, a'th fod bob awr yn fforffettio dy hawl iddynt? Ac a ydwyt ti yn cyfiawnhâu rhagluniaeth yn dy gyſtuddiau a'th ſiommedigaethau, a hynny pan fo llawer yn blodeuo o'th gwmpas mewn llwyddiant, pechodau pa rai fuant o leiaf yn fwy cyhoeddus ac erchyll na'th anwireddau di?

§ 10. A YDWYT ti hefyd yn myned ar gynnydd mewn ſêl a bywiogrwydd yngwaſanaeth Duw, ac yn dy waith yn ceiſio dedwyddwch dynolryw? A yw gwirionedd dy gariad yn ymddangos, trwy fod gweithredoedd da yn llifo yn barhaüs oddiwrtho? A elli di edrych ar ofidiau rhai eraill gyda thoſturi tyner, gan lunio pa fodd y bydd i ti allel eu cyſſuro hwynt? A oes teimlad yn dy ſynwes, dy fod ti yn ſynychach *yn dychymmyg haelioni* (m)? Ac a wyt ti yn cael ynnot barodrwydd i ymwrthod â'th fûdd ac â'th bleſerau dy hun, er mwyn gallel gwneud daioni i eraill? A wyt ti yn cael dy ddychymmygion yn gyflawn o ddyfais, pa fodd y gellych oreu danu yr efengyl, ddwyn ymmlâen achos Criſt yn y bŷd, a gwneud dy gŷd-greaduriaid yn fwy dedwydd? A wyt ti nid yn unig yn *gweddio* am y pethau hyn, ond hefyd yn *llafurio* am danynt; a hynny yn y fath fodd ac fy 'n profi 'th fod yn oneſt yn dy weddiau? Ac a wyt ti yn teimlo ynnot barodrwydd i wneuthur yr ychydig a ellych yn achos Crefydd, er dy fod yn gweled eraill, ac allent, pe mynnent, yn

(m) Eſay xxxii. 8.

yn gyflëus wneuthur llawer mwy, *yn anewyllysgar i wneuthur dim?*

§ 11. Ac, i beidio ymhelaethu ar y pen cynnwysfawr hyn, ymofyn etto unwaith, Pa fodd y mae 'th ſerchiadau yn ſefyll am y bŷd hwn, a'r hwn a ddaw? A wyt ti yn profi dyſnach argyhoeddiad o wagedd y pethau a welir ac ydynt amſerol (n)? A ydyw 'th ddiſgwyliad am gyſſur oddiwrthynt, a'th ſerch attynt, yn lleihâu? Yr ydwyt yn foddlon i aros yn y bŷd hwn, hyd ac y gwelo 'th dâd nefol yn dda; ac y mae hynny yn gymmwys: Ond a wyt ti, er hynny, yn teimlo 'th gadwynau yn ymollwng ac ſydd yn dy ddal i lawr, fel ac yr ydwyt yn foddlon o'th galon i ymadael â'r ddaear, ar y rhybudd byrraf; fel pe bae da gan Dduw i'th alw di yn ddiſymmwth ymaith, a hynny o ganol dy ofalon, dy bleſerau, dy ddiſgwyliadau a'th obaith, y byddit yn ewyllyſgar i gael dy ſymmud, heb ddywedyd, 'Arglwydd, gâd i mi aros etto ychydig yn 'hwy, fel y gallwyf fwynhâu y wlêdd ddymunol 'hon ac arall, fel y bo i mi ddwyn i ben y bwriad 'hyn neu arall?' A elli di feddwl gyda greddfol dawelwch a boddlonrwydd calon, (pe fyddai hynny ewyllys Dduw) wedi gorwedd i lawr ar dy wely, am beidio cael deffroi byth mwy; neu wedi yr elech allan o'th dy, am beidio dychwelyd byth drachefn? Ac ar y llaw arall, pa mor drymmed bynnag y gallo 'th feichiau fod mewn bywyd, a ydwyt ti yn ewyllyſgar i'w dwyn hwynt, mewn ymoſtyngiad i ewyllys dy dâd nefol, er gorfod gwneuthur felly dros lawer o flynyddoedd etto i ddyfod; ac er bod i'r blynyddoedd hynny ddwyn gyda hwynt fwy o orthrymderau nac y welaiſt erioed o 'r blaen? A elli di ddywedyd gyda chalon dawel a ſefydlog, os nid gyda 'r fath ſerchiadau tyner ac y dymunech, Wele dy waſanaethwr, dy blentyn, yn dy law, gwnâ â mi

(n) 2 Cor. iv. 18.

â mi fel y bo da yn dy olwg (o)! Y mae fy ewyllys i wedi megis ei thoddi a'i llyngcu i fynu yn dy ewyllys di; ‘ yr wyf yn foddlon i gael fy nerchafu ‘ neu 'm daroſtwng, i gael fy nwyn allan neu i fewn, ‘ i fod yma neu accw, yn yr amgylchiad hyn neu ‘ arall, fel y rhyngo bodd i ti, ac fel y bo yn gweddu ‘ oreu i drefn dy lywodraeth fawr ac ehang, yr hon ‘ drefn ſydd yn amhoſſibl i mi, na holl angylion y ‘ nefoedd, i'w gwneud yn well.'

§ 12. Y RHAI hyn, os wyf fi yn deall pethau 'n iawn, ydynt rai o'r tyſtion mwyaf ſylweddol o gynnydd a chadernid mewn Crefydd. Ymofyn ar eu hôl: Diolch i Dduw am danynt, mor belled ac yr ydwyt yn eu gweled ynnot dy hun; ac ymdrecha i gynnyddu ynddynt o ddŷdd i ddŷdd, dan ddylanwadau dwyfol râs, i ba un yr wyf yn dy orchymmyn o'm calon, ac yr wyf yn ymbil arnat i fynych orchymmyn dy hunan i'r unrhyw.

Y Criſtion yn taer weddio am gynnydd mewn grâs.

‘ O ARGLWYDD, tydi ydwyt y byth fen- ‘ digedig ffynnon, o ba un y tardd ein ‘ bywyd naturiol ac yſprydol! Yr wyf yn diolch i ‘ ti fy mod i yn fyw, ac yn adnabod rhan o ymar- ‘ feriadau a pleſerau y bywyd crefyddol. Yr wyf ‘ yn dy fendithio am i ti anadlu ynnof dy fywiol ‘ anadl dy hun, er fy mod unwaith yn farw mewn ‘ pechodau a chamweddau (p); fel ac yr ydwyf ‘ mewn yſtyr neillduol i'th blant di, yn enaid byw ‘ (q). Etto yr wyf yn taer ddymuno ar i mi nid ‘ yn unig allel *byw*, ond hefyd i *gynnyddu*; i gyn- ‘ nyddu mewn grâs, a gwybodaeth o'm Harglwydd ‘ a'm Iachawdwr Ieſu Griſt (r), ar yr adnabyddi- aeth

(n) 2 Sam. xv. 26. (p) Eph. ii. 1. (q) Gen. ii. 7.
(r) 2 Pedr iii. 18.

'aeth o ba un, y mae yn eglur fod fy ngynnydd 'yn ymddibynnu. Gan yſtyried hyn, yr wyf yn 'oſtyngedig yn ymbil arnat, i ffurfio fy meddwl i 'iawn farn mewn Crefydd, fel na bo i mi farnu 'am râs trwy unrhyw gam dybiau yn ei gylch ef, 'na meſur fy ngynnydd ynddo, trwy y pethau 'hynny ac allant fod ddim amgen nac effeithiau 'natur yn unig, ac o boſſibl, ei heffeithiau llygred-'ig hefyd. Gwnâ i mi ymofyn am fwy o gariad 'dwyfol attat ti, fy Nuw, a'm tâd yn Ghriſt, am 'fwy o ymroddiad, ac o rŷdd ymoſtyngiad i'th 'ddoeth a'th ſanctaidd ewyllys di, ac am fwy o 'gymmwynaſgarwch tuag at fy nghŷd-greaduriaid: 'Pâr i mi gynnyddu mewn amynedd a chadernid 'enaid, mewn goſtyngeiddrwydd a ſêl, mewn tu-'eddiad meddwl mwy yſprydol a nefolaidd, ac 'mewn gofal, pa un bynnag ai gartref y byddwyf 'ai oddi cartref, fy mod yn gymmeradwy gan yr 'Arglwydd (s), fel pa un bynnag ai byw ai marw 'y byddwyf, fod hynny er ei ogoniant ef! Ar 'air, gan y gwyddaiſt fy mod i yn newynu ac yn 'ſychedu am gyfiawnder, gwnâ fi yr hyn y bo dy-'munol gennyt fy ngweled. Tyn ar fy enaid, 'trwy dawel ddylanwadau dy yſpryd graſol, y fath 'ddelw ac y bo i'th lygad di, O nefol Dâd, edrych 'arni gyda phleſer; y fath ac a fyddo i ti ei har-'ddel fel dy ddelw dy hun. O Arglwydd, yr wyf 'yn gwybod nad ydwyf wedi cael gafael; ïe y mae 'fy enaid yn cael ei gorchguddio gan gywilydd 'wrth feddwl pa mor belled wyf o fod yn berffaith: 'Eithr un peth wyf yn ewyllyſio (yn ol mawr 'ſiampl dy apoſtol, a ſiampl mwy perffaith ei Ar-'glwydd) ſef, *anghofio 'r pethau ſydd o'r tu cefn, ac ymeſtyn at y pethau ſydd o'r tu blaen* (t).

'O na bae i ti borthi fy enaid â'th air ac â'th 'yſpryd! gan fy mod, fel yr wyf yn gobeithio, wedi

(s) 2 Cor. v. 9. (t) Phil iii. 12, 13.

'wedi fy ail-eni, nid o hâd llygredig, eithr anllygredig, ſef trwy air Duw, yr hwn ſydd yn byw ac yn parhâu yn dragywydd (u), yr wyf yn chwennych didwyll laeth y gair, fel y cynnyddwyf trwyddo ef (x); fel y delwyf yn ŵr perffaith at feſur oedran cyflawnder Criſt (y); a bydded fy ngynnydd yn amlwg i bawb (z): Ac wedi cael o honof fwynhâu dedwyddwch y ſawl ac ydynt yn blaguro yn dra rhagorol yn dy ddaiarol lŷs, boed i ti 'm ſefydlu yn dy baradwys fry! Yr wyf yn gofyn, ac yn gobeithio am hyn, trwyddo ef yn unig, o gyflawnder pa un yr ydym oll yn derbyn grâs am râs (a): Iddo ef y byddo y gogoniant yn awr, ac yn ddiddiwedd (b)! Amen.'

PENNOD XXVII.

Y Criſtion wedi mawr gynnyddu mewn Grâs, yn cael dwyn ar gôf iddo amryw Drugareddau yr Arglwydd, a'i annog i'w garu ef, ac i ymlawenhâu ynddo.

§ 1. MI a gaf yma gymmeryd yn ganniattâol fod fy narllenydd wrth hunan ymholi yn gweled ei fod ef yn myned ar gynnydd mewn grâs. Ac os wyt yn dymuno i'r cynnydd gael ei ddwyn ymmlâen a'i gydnabod, gâd i mi alw ar dy enaid i ymarfer cariad mwy gwreſog tuag at Dduw, a Mawenydd ynddo ef, yr hyn ſydd yn cryfhâu, yn derchafu, ac yn addas i *garacter* y criſtion ſydd wedi cynnyddu 'n fawr mewn grâs; ac yr wyf yn attolygu arnat i yſtyried y pethau hyn, nid yn unig

(u) 1 Pedr i. 23. (x) 1 Pedr ii. 2. (y) Eph. iv. 13.
(z) 1 Tim. iv. 15. (a) Ioan i. 16. (b) 2 Pedr iii. 18.

unig yn *fraint*, ond hefyd yn *ddyledſwydd* arnat. Cariad yw yr egwyddor hael a rhagorol o bob rhyw ufudd-dod gwirioneddol a derbyniol; ac à chariad, pan wedi ei ddoeth ſefydlu, y mae yn angenrheidiol i fod llawenydd yn cydfyned, a hynny yn naturiol yn ôl y grâdd o hono yn y galon. Y mae yn achos o gyfiawn alar i ddŷn ac edrycho i fewn i natur criſtianogaeth, feddwl pa ryw fywyd iſel a daiarol, y mae hyd yn oed y cyffredinolrwydd o griſtianogion diragrith yn fyw yn yr yſtyr hyn. *Llawenhewch gan hynny, yn yr Arglwydd, y rhai cyfiawn, a moliennwch wrth goffadwriaeth ei ſanctteiddrwydd ef* (a), ac yn yr holl ogoniant a'r priodoliaethau ac ſydd yn gynnwyſedig yn yr enw derchafedig, rhyfeddol, a dymunol hwnnw, yr Arglwydd dy Ddduw! Na fydded i ti dreulio 'th funudau yn unig mewn cyfaddefiadau ac erfyniadau, er bod y cyfryw bethau yn angenrheidiol bob dŷdd: Eithr boed i ti roddi rhan helaeth o'th amſer i gyflawni y nefolaidd a'r angylaidd waith o *fawl*. Ymdrecha i gael dy galon bob amſer yn gyflawn o hyn.

§ 2. Onid oes pelydrau gwaſtadol a digonol yn cael eu gwaſgaru oddiwrth dâd y goleuni a chariad, pa rai a allant ennyn fflam o gariad gwreſog yn dy fynwes di? Tyred, fy nghyfaill a'm brawd criſtianogol, tyred, a chyda mi rhô olwg ar ddaioni 'th nefol dâd. Ac O na roddai efe i mi y fath deimlad o hono, fel y gallwn ei oſod ef allan mewn modd cymmwys; fel tra bwyf yn myfyrio, yr ennyno tân yn fy nghalon i fy hun (b), a hwnnw i gael ei gyfrannu i'th galon ditheu. O na allwn, trwy yr hyn wyf yn ei yſgrifennu, fyned o enaid i enaid; gan adfywio ym mynwes pob un a ddarlleno y llinellau hyn, feddyliau mwy teilwng o blant Duw, ac o etifeddion gogoniant, y rhai ſydd i dreu-

(a) Salm xcvii. 12. (b) Salm xxxix. 3.

lio tragywyddoldeb yn yr ymarferiadau ſanctaidd, i ba rai yr wyf yn awr yn ymdrechu eu cyffroi!

§ 3. ONID oes gennyt ti achos i fabwyſio geiriau *Dafydd*, gan ddywedyd, *O mor werthfawr yw 'th feddyliau gennyf, O Dduw, mor fawr yw eu ſwm hwynt; pe cyfrifwn hwynt, amlach ydynt na'r tywod* (c)! Ti a wyddaiſt yn wîr pa lê i ddechreu cyfrif, canys daioni Duw a ddechreuodd i ti pan y cefaiſt dy fôd. Gwnâ goffa am dano gan hynny, gyda chalon ddiolchgar. Clodfora am ddarfod i'r llygaid, pa rai a welſant dy anelwig ddefnydd, fod yn ofalus am danat pan i'th wnaethpwyd yn ddirgel, ac am iddynt wilied droſot ar ol llaw; ac am i'r llaw, yr hon a luniodd dy aelodau, pan nad oedd yr un o honynt (d), nid yn unig eu llunio hwynt, ond er yr amſer hynny, fod yn ofalus i gadw dy eſgyrn, fel na thorrwyd un o honynt (e): Ac mae am hynny yr ydwyt yn fyw. Edrych yn ol ar y llwybr a gerddaiſt er yr amſer y dygodd Duw di o grôth dy fam, a dywaid, onid yw yr holl ffordd megis yn llawn o nodau ac o goffadwriaethau o ddaioni Duw i ti? Cofia y lleſtydd y preſwyliaiſt ynddynt, a'r dynion y bu i ti gyfrinach agos â hwynt; a galw i gôf y trugareddau a dderbyniaiſt ti yn y cyfryw fannau, ac oddiwrth y cyfryw ddynion, fel offerynnau o ddaioni ac o ofal Duw. Cofia am yr anhawſderau a'r peryglon a'th gylchynaſant; ac edrych yn ol yn aſtud ar yr hyn a wnaeth Duw er mwyn i'th wared oddiwrthynt, neu 'th gynnal trwyddynt. Cofia pa mor fynych y buaiſt megis o fewn cam i angau; a meddwl pa mor fuan y darfu i Dduw rai gweithiau ymddangos er dy ddiogelwch, a hynny cyn dy fod yn deimladwy o'th berygl. Meddwl am yr yſtafelloedd ym mha rai y buaiſt yn gorwedd yn glâf, o ba rai y meddyliaiſt unwaith o boſſibl na ddeuit allan mwy; ac ddywedaiſt

(c) Salm cxxxix. 17, 18. (d) Salm cxxxix. 15 16. (e) Salm xxxiv. 20.

aiſt gydag *Hezekiah*, yn nhorriad dy ddyddiau, Af i byrth y bêdd, difuddiwyd fi o weddill fy mlynyddoedd (f). Y mae 'n boſſibl i Dduw 'chwanegu llawer o flynyddoedd at dy fywyd wedi hynny; ac nis gelli wybod pa faint ſydd etto yn ol, na pha faint o ddefnyddgarwch ac o happuſrwydd a all gyd-fyned â phob un o honynt. Edrych yn ol ar yr amgylchiadau hynod hynny yn rhagluniaeth, a fu yn achos o'th glymmu â rhwymau cariad â rhai o'th gyfeillion, yr hyn yw dy happuſrwydd pennaf, oddieithr dy undeb â Duw. Ac nag anghofia yr amryw weithiau pan yr oedd y bywydau gwerthfawr hynny yn cael eu bygwth, bywydau ac oeddynt o boſſibl yn fwy gwerthfawr yn dy olwg na'th einioes dy hun, y modd y bu i Dduw i'w rhoddi hwynt yn ol megis o gyffiniau y bêdd; ac ſelly peri i anwylder newydd darddu oddiar y fath amgylchiad tyner, yn dy holl gyfrinach â hwynt rhagllâw. Na ollwng yn angof 'chwaith, y modd y bu i Dduw mewn ffordd o râs gynnal eraill o'th gyfeillion yn eu munudau diweddaf, gan eu nerthu hwynt i adael ar eu hôl arogl peraidd o dduwioldeb; yr hyn ſy 'n peri fod coffadwriaeth ddymunol am danynt, ïe yr hyn a'th adfywiodd ditheu pan ar lewygu dan ofidiau ac a deimlaiſt ar eu hymadawiad; ac ar y cwbl, y mae hynny yn gwneud hyd yn oed coffadwriaeth o'u marwolaeth yn hyfryd.

§ 4. Ond y mae hi yn llawn brŷd i mi bellach geiſio arwain dy feddyliau i yſtyried y trugareddau yſprydol, pa rai a gyfrannodd Duw yn dra helaeth i ti. Edrych yn ol, megis ar y graig o ba un i'th naddwyd, ac ar geudod y ffôs i'th gloddiwyd o honi (g). Myfyria yn aſtud ar y cyflwr ym mha un y cafodd dwyfol râs afael arnat: Dan ba ryw euogrwydd a llygredd! Ym mha berygl a diſtryw! Meddwl pa fath oedd, ac O! meddwl etto yn fwy nerthol,

(f) Eſay xxxviii. 10. (g) Eſay li. 1.

neillduol, pa fath y fuaſai dy gyflwr! Llygad Duw, yr hwn ſydd yn treiddio i'r bŷd tragywyddol, a welodd beth ac yr oedd dy feddwl di yn anwybodus ac yn anyſtyriol o hono, tra yr oeddyt yn dy ddifyrru dy hun â theganau ac â phleſerau yr amſer preſennol: Fe a'th welodd di ar gyffiniau tragywyddoldeb, ac a doſturiodd wrthyt; fe a welodd y byddech ym mhen ychydig bach y fath greadur analluog a thruenus, ac yw y pechadur ſydd yn awr wedi marw, yr hwn ſydd, gyda ſyndod anfeidrol a dychryn tragywyddol, wedi derbyn ei ſentens anniſgwyliadwy, ac y buaſit megis yntef, yn cael dy daro â braw ac anobaith diddiwedd! Fe a welodd Duw hyn, ac a doſturiodd wrthyt ti; a chan fod yn drugarog, trwy gyngor ei dragywyddol gariad a'i ràs, fe a barottodd brynwr i ti, ac a'th brynodd iddo ei hun trwy *waed ei anwyl fâb:* Gwerth, os myfyri arno, ac os yſtyri yn ſyml pa beth oedd, diammau y bydd iddo gael y fath effaith arnat, fel y bydd i ti gwympo i lawr ger bron Duw, gyda chywilydd a rhyfeddod, wrth feddwl i'r fath gael ei roddi erioed am danat ti! I'r diben o'th wared di ym mhellach, fe ddanfonodd ei râs i'th galon; ac felly, er dy fod gynt yn *dywyllwch*, yr ydwyt yn awr *yn oleuni yn yr Arglwydd* (h). Efe a weithiodd y cyfnewidiad happus ac wyt ti yn awr yn ei deimlo yn dy enaid, a thrwy ei yſpryd ſanctaidd, yr hwn a roddwyd i ti, efe a dywalltodd ar lêd ynnot yr egwyddor yna o gariad (i), pa un ſydd megis yn ail-ennyn trwy yſtyried y pethau hyn, ac yn myned yn fflam boethach nac o'r blaen yn dy galon. Hyd yma efe a'th gynhaliodd di yn dy yrfa griſtianogol; a chwedi cael cymmorth gan Dduw, wele yr wyt yn aros hyd y dŷdd hwn (k). Efe a'th fendithiodd, ac nid yn unig hynny, ond efe a'th wnaeth yn fendith i eraill (l): Ac er na buaſit

(h) Eph. v. 8. (i) Rhuf. v. 5. (k) Actau xxvi. 22.
(l) Gen. xii. 2.

buaiſt mor ddefnyddiol, ac yr ydoedd yr hael a'r ſanctaidd egwyddor a blannodd ef yn dy galon yn dymuno; etto ti a wnaethoſt ryw faint o ddaioni yn y ſefyllfa ym mha un i'th oſodwyd.

Fe a gafodd rhai o'th frodyr ymmŷſg dynol-ryw eu diwallu gennyt, a rhyw greadur anyſtyriol o boſſibl a gafodd ei ddwyn yn ol i rinwedd a dedwyddwch, trwy fendith Duw ar dy ymdrechiadau di. Fe allai fod rhai ar y ffordd i'r nêf yn moli Duw am danat; a rhai yno yn barod, o boſſibl, yn hiraethu dy weled yn dyfod attynt hwy, fel y gallont ddiolch i ti mewn modd mwy rhagorol am y daioni a dderbyniaſent trwyddot.

§ 5. Cristion, edrych o'th gwmpas ar yr amryw, a'r anneirif fendithion, â pha rai i'th angylchynwyd yn barod; a derchafa 'th olwg etto yn uwch, at y pethau y mae ffŷdd yn eu gweled tufewn i'r llen. Meddwl am y llawenydd (er ei fod yr awr hon yn anhyſpus i ti) gyda pha un y bydd i ti oſod i lawr bob baich yn y bêdd, ac y bydd i'th yſpryd anfarwol dderchafu yn yſgafn ac yn orfoleddus, yn ſanctaidd ac yn happus at Dduw, *ffynnon*, o ba un y mae pob peth yn derbyn ei *fôd*, ſancteiddrwydd, a phleſer; at Ieſu, trwy yr hwn y mae pob bendith yn dilifo i ti, a'r hwn a drefna i ti orſeddfainge yn agos ei orſedd ei hun, fel y bo i ti allel edrych ar, a bod yn gyfrannog o'i ogoniant dros byth. Meddwl hefyd am y mawr orfoledd gyda pha un y bydd i ti dderbyn drachefn dy gorph gwael llygredig hwn, ar foreu-ddŷdd yr adgyfodiad, wedi ei wneuthur ar ddelw Criſt; ac wrth feddwl am y pethau hyn, dywed, 'Nid myfi yn unig 'ſydd yn gobeithio am y pethau hyn, ond y maent 'yn wrthddrychau gobaith miloedd a myrddiynau 'gyda myfi. Y mae torfeydd, y rhai wyf yn gyf-'rif ymmŷſg fy nghyfeillion anwylaf ar y ddaiar, 'yn cŷdlawenhâu â mi, wrth feddwl am yr amſer-

'oedd hyfryd ſydd i ddyfod: Y mae Duw yn 'rhoddi i mi rai gweithiau i weled gwenau eu 'hwynebau, y gobaith melus a goſtyngedig ſydd 'yn ſirioli yn eu llygaid, ac yn llewyrchu trwy 'eu dagrau o ddiolchgarwch; ac i glywed ychydig 'o'u tufewnol foddlonrwydd a'u gorfoledd, mor 'belled ac y dichon geiriau eu goſod allan. Iē, 'y mae torfeydd mwy, ac a fu unwaith mor 'anwyl yn fy ngolwg (er i mi eu goſod hwynt yn 'y bēdd, ac wylo uwch ben eu llŵch hwynt) yn 'byw i Dduw; yn byw mewn meddiant o'r fath 'ddedwyddwch nas gellir eu amgyffred, ac yn y-'fed yn helaeth o ddwfr y bywyd, yr hwn ſydd yn 'rhedeg yn ffrydiau parhaus, ar ei ddeheulaw ef.'

§ 6. O GRISTION, yr ydwyt mewn undeb a pherthynas barhaus â'r cyfryw rai. Nis dichon *angau* dorri yr anwylder ac ſydd a'i ſail mewn duwioldeb; ac ni ddylai dy wneuthur ditheu yn anyſtyriol o happuſrwydd y cyfeillion hynny, am ba rai yr ydwyt yn cynnal coffadwriaeth barchus. Y maent yn byw i Dduw, ac yn weiſion iddo ef; y maent yn ei waſanaethu ac yn gweled ei wyneb ef (m); ac nid ydynt hwy yn gwneud i fynu ond rhan fach o'r gymmanſa ogoneddus honno yn y nêf. Y mae yno fyrddiynau mor deilwng o'th barch, a'th gariad ac ydynt hwythau, yn rhodio ardaloedd gwynfyd; ac a fydd i ti ddim llawenhâu yn eu gorfoledd hwynt? Ac a fydd i ti beidio ac addoli y ffynnon dragywyddol o ſanctteiddrwydd a dedwyddwch, o ba un y tardd eu holl ffrydiau o gyffuron? Iē ym mhellach, gan fod yr *angylion* bendigedig yn dy waſanaethu di, O griſtion, ac yn dy ddwyn yn eu breichiau fel un o etifeddion iechydwriaeth (n), onid wyt ti yn llawenhâu yn eu dedwyddwch hwythau hefyd? Ac onid wyt ti yn moliannu y Duw hwnnw, pa un ſydd yn rhoddi iddynt

(m) Datg xxii. 3, 4. (n) Heb. i. 14.

iddynt ragorol ogoniant, yn ol eu natur dra derchafedig, yn rhoddi iddynt nefoedd, ac fydd yn eu gwneud hwynt yn gyflawn o wynfydedigrwydd, a hynny pan y maent megis yn ymadael â hi, i'r diben o wafanaethu arnat ti ar y ddaiar?

§ 7. Cofia, yr oedd, y mae, ac fe fydd, y Duw bendigedig ynddo 'i hun yn anfeidrol mwy dedwydd na'r creaduriaid mwyaf happus. Fe fydd i wynfydau yr yfprydoedd bendigedig, pa rai fydd yn cylchynu ei orfedd ef, a'th ddedwyddwch ditheu, barhâu yn ddiddiwedd. Y goleuadau hyn a lewyrchant yn ffiam anfethedig, a thithau a lewyrchi ac a lofgi megis yn eu plîth, pan fo haul a fêr wedi diffodd: Etto cofia y bydd i'th holl oleuni darddu oddiwrth Dduw, y môr diwaelod o ogoniant. Fe fydd i anghyfnewidiol dâd y goleuni dywallt allan ei belydrau ar holl drigolion y nefoedd; ac fe fydd eu llewyrch a'u dedwyddwch hwynt felly yn *cynnyddu i dragywyddoldeb.* Ymoftwng i lawr, O blentyn Duw, O etifedd y gogoniant, ymoftwng, a bydded i'r cwbl ac fydd ynnot uno mewn gweithred o gariad tra diolchgar; a boed i'r hyn oll ac fydd o'th gwmpas, a'r cwbl ac fydd mewn golwg yn y diderfyn dragywyddoldeb, gyduno i dderchafu dy enaid mewn gorfoledd, fel y bo i ti allel dechreu ar waith a gwynfydedigrwydd y nefoedd, yn dy waith yn plygu o flaen Arglwydd y nêf; trwy agor dy galon i dderbyn ei rafol ddylanwadau ef; trwy anadlu allan ger ei fron ef arogldarth o fawl, yr hyn beth y mae pelydrau cynnes ei brefennoldeb a'i gariad yn tueddu 'n fawr i'w ddwyn ymmlàen, a'i wneud i berarogli yn hynod, fel rhai o ffrwythau ei baradwys fry.

Yr Enaid duwiol a diolchgar yn ymlawenhâu yn y mwynhâd o fendithion rhagluniaeth a grâs; ac yn tywallt ei hun allan ger bron Duw, mewn ymarferiadau cryfion a gwreſog o Gariad ac o Fawl.

'O FY Nuw, digon yw! Mi a fyfyriais, ac 'wele fe ennynodd *tân* (o)! Ond O ym 'mha ryw iaith y dichon y fflam dorri allan! Beth 'amgen a allaf ddywedyd na hyn, ſef fod fy nghalon 'yn dy ryfeddu di, yn dy foli, ac yn dy garu! Y 'mae fy lleſtr bychan yn gyflawnder hyn o'th 'flaen di, fel y bo i'm calon gael ei haddaſu i 'dderbyn etto fwy fwy. Tydi ydwyt fy ngobaith 'a'm cymmorth; fy ngogoniant a derchafydd fy 'mhen (p); a phan oſodwyf fy hun dan ddylan'wadau 'th yſpryd daionus, i gyfrinachu â thydi, 'y mae miloedd o feddyliau tra dymunol yn tarddu 'ynnof yn y fan; a miloedd o ffynnonau cyſſur yn 'cael eu hagoryd, ac yn rhedeg i mewn i fy enaid 'gyda 'r fath ddadebriad a gorfoledd, fel ac yr wyf 'yn profi fod pob *munud* yn cynnwys ynddi gym'maint o happuſrwydd ac ſydd mewn llawer diwr'nod, wythnoſau, a miſoedd. Yr wyf yn dy foli'annu di, O Arglwydd, am fy enaid, yr hwn a 'greuaiſt; yr hwn a ddyſgaiſt i ddywedyd, a hynny 'yr wyf yn gobeithio i'r diben happuſaf, *Pâ lê y 'mae Duw yr hwn a'm gwnaeth* (r)? Yr wyf yn 'dy fendithio am y deall â pha un yr harddaiſt fy 'enaid; ac am y grâs trwy yr hwn i'm ſancteidd'iaiſt; er bod y planhigyn nefol wedi ei blannu 'mewn tîr diffrwyth, ac am hynny nid yw yn bla'guro i'r grâdd y dymunwn.

'YR wyf hefyd yn dy glodfori di am y corph a 'roddaiſt i mi, ac am ei gynnal hyd yn hyn mewn 'bywyd a grym; ac am ei fod ef, nid yn unig yn 'gymmwys

(o) Salm xxxix. 3. (p) Salm iii. 3. (r) Job xxxv. 10.

'gymmwys i fwynhâu y gwleddoedd a barottoaiſt
'ti ar gyfer ei amryw ſynwyrau, ond hefyd (yr hyn
'ſydd yn fwy na'r cwbl) yn gymmwys mewn
'rhan o weithredu yn fywiog yn dy waſanaeth di.
'Yr wyf yn dy ganmol am ſymmudiad rhŷdd ac
'eſmwyth fy aelodau, a hynny, fel yr wyf yn gob-
'eithio mewn ufudd-dod i ddywediadau 'th yſpryd,
'gan fy arwain gennyt ti. Diolch i ti, nad yw
'ceidwaid fy nhŷ etto yn crynu, na'r gwŷr cryfion
'yn crymmu; ac am nad yw y rhai ſydd yn edrych
'trwy y ffeneſtri wedi tywyllu, na merched cerdd
'wedi goſtwng i lawr: Clôd i'th fawredd, O
'Dduw, na thorraiſt ti y llinyn arian a'r cawg aur
'cyn hyn (s); canys dy law di ſydd yn cryfhâu
'fy ewynnau, yn cynnal, ac yn dadebru fy yſpryd-
'oedd mewn modd anfeidrol ddoeth a helaeth.

'Yr wyf yn dy glodfori am dy fawr ddaioni yn
'cynnal dynol-ryw yn gyffredinol o ddŷdd i ddŷdd,
'eithr yn bennaf, am fy nghynhaliaeth fy hun;
'am y fort a arlwyaiſt ger fy mron, ac am fy
'nghwppan llawn (t). Yr wyf yn dy fendithio
'am fy *mlŷs*, fel nad yw daionus gyfraniadau 'th
'ragluniaeth i mi fel *ſeigiau o fwyd ger bron y marw*.
'Clôd i ti na adewaiſt i mi *fwytta fy mwyd yn unig*
'(u), eithr gallel o honof ei rannu i gynnifer o
'gyfeillion dymunol, y rhai ſydd yn 'chwanegu mel-
'uſdra bywyd cymdeithiaſol at gyſſuron y bywyd
'anifeilaidd, ar yr amſerau ac y bwyf yn bwytta fy
'ymborth cyffredin. Yr wyf yn diolch i ti am
'gynnifer o anwyl berthynaſau gartref, am gym-
'maint o gyfeillion ar lêd y bŷd, y rhai ſydd yn
'abl i'm gwaſanaethu mewn llawer modd, ac am
'eu bod yn cael eu tueddu i wneuthur felly.

'Ac ni chwennychwn i anghofio cydnabod dy
'ddaioni yn fy ngwneuthur i yn alluog i *waſa-*
'*naethu eraill*; ac am i ti roddi i mi brofi pa faint

(s) Preg. xii. 3, 4, 6. (t) Salm xxiii. 5. (u) Job xxxi. 17.

‘ mwy o ddedwyddwch ſydd mewn rhoddi na der-
‘ byn (x). Diolch i ti am galon i gydymdeimlo
‘ â'r anghenus, ac am feddwl, yr hwn ſydd gyda
‘ phleſer yn gofalu yn ebrwydd pa fodd y bydd i
‘ mi allel eu diwallu hwynt, yn ol y cymmorth
‘ bychan a roddaiſt ti: Canys hyn hefyd a ddaw
‘ oddiwrthyt ti, O Arglwydd y lluoedd (y), yr hwn
‘ wyt awdwr mawr o bob rhyw dueddiadau hael-
‘ ionus, o bob bwriad doeth, ac o bob ymdrechiad
‘ llwyddianus i danu happuſrwydd ymmŷſg dynol-
‘ ryw, neu i allel mewn un modd i leihâu eu
‘ gorthrymderau.

‘ O ARGLWYDD, os yw yn gymmwys i mi fel
‘ hyn i ddiolch i ti am y pleſer yr wyt yn ei roddi
‘ trwy gyd-ymdeimlad â'r *gorthrymedig*, diammau
‘ y dylwn i'th glodfori yn llawer mwy am y ded-
‘ wyddwch ſydd yn tarddu oddiwrth gyd-ymdeim-
‘ lad â'r ſawl ſydd yn *happus*, ac yn gyflawn wyn-
‘ fydedig. Diolch i ti am y ffrydiau ac ſydd yn
‘ dyfrhâu paradwys, ac yn peri iddi flaguro, ac i
‘ gynnyddu bob amſer mewn ffrwythau dymunol.
‘ Yr wyf yn dy foliannu di am yr orphwysfa a'r
‘ llawenydd ac ydwyt yn eu rhoddi i lawer ac oeddynt
‘ unwaith yn werthfawr yn fy ngolwg ar y ddaiar;
‘ gofidiau pa rai yr oeddwn yn ceiſio eſmwytho, a
‘ gorfoledd pa rai, yn enwedig ynnot ti, yr oeddwn
‘ yn ymdrechu i ddwyn ymlâen. Yr wyf yn
‘ dy foli am wynfydedigrwydd pob ſaint a phob
‘ angel o gylch dy orſeddfaingc; a chyda neillduol
‘ bleſer yr wyf yn diolch i ti am y gobaith a blan-
‘ naiſt yn fy mynwes, y câf fi, ar fyr, weled a phroſi
‘ yn eglur, pa fath yw eu dedwyddwch hwynt, yr
‘ hwn ſydd yn awr yn ymddangos i mi o bell trwy
‘ *ddrŷch ffydd*, yr hwn ſydd mewn cymmariaeth yn
‘ dywyll. Yr wyf yn awr trwy dy râs yn teimlo
‘ fy mod yn cael fy nwyn ymlâen tuag at yr
‘ ardaloedd

(x) Actau xx. 35. (y) Eſay xxviii. 29.

'ardaloedd gwynfydedig hynny. Yr wyf hyd yn 'oed yr awr hon yn diſgwyl am dy iechydwriaeth '(z), gyda 'r dymuniad cynnes hynny ar y naill 'llaw, yr hwn nis dichon golwg ar ei *mawredd* lai 'na'i gyfodi ym mhob enaid credinol, a chyda 'thawel ymoſtyngiad ar y llaw arall i'th ewyllys di, 'yr hyn ſydd yn cael ei barhâu ynnof trwy anghyf-'newidioldeb dy addewidion.

'O fy Nuw, pa beth a ddywedaf wrthyt! Pa 'beth, ond fy mod yn dy *garu* uwch law yr hyn 'ac all tafod fynegu! Fy mod yn dy garu am yr 'hyn yr ydwyt i'th greaduriaid, pa rai yn eu ham-'rywiol ddull ydynt yn waſtadol yn derbyn oddi-'wrthyt ti eu bodau, eu deall, a'u dedwyddwch, a 'hynny mewn rhifedi a graddau tu hwnt i yr hyn 'ac allaf fi ddychymmyg. Ond O! yr ydwyf yn 'dy garu etto yn llawer mwy, o blegid yr hyn yr '*ydwyt ynnot dy hun*; am y tryſorau o berffeith-'rwydd ac ſydd ynnot, yr rhai nis gallodd y creadi-'gaeth leihâu, na 'r amryw effeithiau ac ydwyt 'yn eu gyfrannu i'th greaduriaid eu diyſpyddu. Y 'cyfryw berffeithrwydd ſydd yn dy wneuthur di yn 'hunan-ymddibynnol ac yn hunan-ddedwydd; ïe 'hyn a'th wnai di yn anfeidrol ogoneddus, pe dar-'fyddai dy holl gyfraniadau, o wychder a ded-'wyddwch. O Arglwydd, tydi ydwyt y mwyaf, 'y cyntâf, a'r gogonedduſaf o bob bodau! O 'meddianna fy enaid i yn ei holl alluoedd. Di-'ammau gennyf dy fod yn ei meddiannu. Tra 'r 'ydwyf yn teimlo dy yſpryd ſanctaidd yn anadlu 'ar fy nghalon ac yn ennyn ynddi y fath ffiam o 'gariad attat ti, nis gallaf ammau dy râs, mwy nac 'y gallaf ammau fod ynnof fywyd naturiol, tra 'mae yn weithgar, a thra yr wyf yn teimlo ei effei-'thio. Diammau os teimlais i newyn erioed, y 'mae fy enaid yn *newynu am gyfiawnder* (a), ac

(z) Gen. xlix. 18. (a) Mat. v. 6.

'yn hiraethu am fwy o gydymffurfiad â'th natur 'wynfydedig, ac a'th ewyllys ſanctaidd di. Os 'teimlodd taflod fy ngenau ſyched un amſer, y 'mae fy enaid yn *ſychedu am y Duw byw* (b), ac 'yn brefu am fwy o gyfraniadau o'i râs ef. Os bu 'y corph hwn un amſer yn flinedig trwy weithio 'neu ſiwrneia, ac felly yn profi hiraeth am fy 'ngwelu, ac yn llawenhâu am gael o hono i orph-'wys yno; yna y mae fy enaid yn melus orphwys 'ar dy fynwes di, O nefol dâd: Wele fi yn chwen-'nych dychwelyd i'm gorphwyſfa, gan gofleidio fy 'Nuw, yr hwn a fu dda wrthyf (c). Os gwelais 'i wyneb cyfaill erioed gyda chyſur a boddlon-'rwydd, yr wyf yn llawenhâu yn yr olwg ar dy 'wyneb di, O Arglwydd, ac yn fy ngwaith yn dy 'alw fy nhâd *yn Grift*, canys felly yr ydwyt, a thi 'a fyddi yn dâd i mi dros amſer a thragywyddol-'deb. Pa beth ſydd gennyf i wneuthur mwy, ond 'cyflwyno fy hun i ti, i wneuthur â mi fel y bo da 'yn dy olwg, yn y bŷd hwn ac yn yr hwn a ddaw; 'gan adael i ti drefnu matterion a *dethol fy etifedd-'iaeth i mi* (d): Ac felly bydded fy ngofal pennaf, i 'allel dy waſanaethu di, a'th foliannu di, fy nedwydd-'wch mwyaf cyflawn. Fy enaid a lŷn wrth fy 'Nuw, canys ei ddeheulaw a'm cynnal (e). Cyn-'halied dy law fi bob amſer, a mi a redaf attat, 'hyd oni chyflawner fy holl ddymuniadau yn y 'tragywyddol fwynhâd o honot ti yn y bŷd a 'ddaw! Amen.'

(b) Salm xiii. 2. (c) Salm cxvi. 7. (d) Salm xlvii. 4.
(e) Salm lxiii. 8.

PEN-

PENNOD XXVIII.

Y Criſtion ſefydlog yn cael annogaeth i ymegnio, i'r diben o fod yn ddefnyddiol.

§ 1. YR hyn a ddarluniais i yn y bennod o'r blaen, y fydd, yr wyf yn gobeithio, fynych weithrediadau dy enaid ger bron yr Arglwydd. Yn y modd hyn y bydd i ti anadlu cariad a diolchgarwch allan yn ei ddwyfol breſennoldeb, yr hyn a ddaw trwy gyfryngdod *Ieſu* i fynu fel arogldarth yn gymmeradwy o'i flaen. Ond rhaid i ti gofio mae nid hyn yn unig y fydd effeithiau cariad at Dduw. Os bydd cariad yn ddiragrith, ni fydd yn treulio 'i hun mewn *geiriau yn unig*, eithr fe ymddengys mewn gweithredoedd, ac fe a ddûg ffrwythau priodol o wîr gariad at dy gyd-greaduriaid, ac o ddymuniad parhaus, ac o ymdrechiadau diflino i allel gwneuthur daioni iddynt.

§ 2. Ti a ddywedi fel hyn, 'A ddarfu i dâd y 'trugareddau edrych arnaf fi gyda golwg raſol; a 'ddarfu iddo ef, nid yn unig faddeu i mi filoedd o 'bechodau, ond hefyd i'm cyfoethogi â'r fath am-'rywiol roddion daionus! O pa beth a dalaf iddo 'am danynt oll! O bydded i'r tragywyddol wiri-'onedd i'm dyſgu! Dyſgwch fi, O chwi fy henaf 'frodyr yn nheulu fy nefol dâd! Ac yn neillduol, 'bydded i ti, O yſpryd cariad a doethineb, i'm 'dyſgu pa beth a allaf wneuthur i ddangos allan fy 'nghariad at Dduw, yr hwn yw y tragywyddol 'ffynnon o gariad; pa beth a allaf wneuthur er 'mwyn dangos fy ffyddlondeb iddo ef, yr hwn a 'wnaeth gymmaint eiſoes droſof, ac ſydd yn fy 'rhwymo i'w garu, a'r hwn a gydnebydd, ac a

'wobrwya

'wobrwya gyda phleſer fy holl ufudd-dod ſerchi-'adol iddo ef.'

§ 3. HYN, O griſtion, yw y gorchymmyn a glywſom o'r dechreuad, ac ſe a barhâ byth mewn grym, ſef, bod i'r hwn ſydd yn caru Duw, garu ei frawd hefyd (a); ac y dylent amlygu y cariad hwnnw, nid ar air ac ar dafod yn unig, eithr mewn *gweithred a gwirionedd* (b). Rhaid i ti garu 'th gymmydog fel ti dy hun; i garu holl greadigaeth Duw: Ac mor belled ac y cyrhaeddo 'th awdurdod di, i ymdrechu eu gwneud yn ddedwydd.

§ 4. Ië, ti a ddywedi, 'Yr wyf yn caru holl 'ddynol-ryw. Yr wyf yn teimlo y *gadwyn auraidd* 'o gariad dwyfol yn ein cylchynu ni oll, ac yn ein 'rhwymo ni yn un corph, ac yn goſod ynnom 'megis un enaid. Boed i wîr ac uchel happuſ-'rwydd ymdanu yn barhaus ac yn dragywyddol 'trwy yr holl fŷd o ufudd a rheſymmoi greadur-'iaid Duw, trwy y nefoedd a'r ddaiar! A bydded 'i bob creadur gwrthryfelgar ac ſydd yn gymmwys 'o gael ei ddychwelyd, gael ei wneud yn ufudd! 'Ië bydded i angenrheidiol goſp y rhai anfeddygin-'iaethol gael ei goruwch-lywodraethu, gan anfeid-'rol ddoethineb a chariad tuag at gynnyddu daioni 'y creadigaeth yn gyffredinol.'

§ 5. DYMA feddyliau cymmwys iawn; ac os ydynt, O ddarllenydd, yn wîr feddyliau a phrofiad dy galon di, fe fydd i ofal ſyml, i geiſio gweithredu mewn ymoſtyngiad i feſurau dwyfol ragluniaeth yn ei holl rannau hyd ac y bo ynnot, yn cydfyned â hwynt. Ac i'r diben hyn, hwy a barant i ti yſtyried yn neillduol holl amgylchiadau dy fywyd a'th fŵd; ſel y gwelech pa gyfleuſterau ſydd gennyt i wneuthur daioni, a pha fodd y bydd i'r cyfryw gyfleuſterau gael eu defnyddio oreu. Edrych i mewn i'r pethau hyn gan hynny; nid i'r diben o ymfalchio

(a) 1 Ioan iv. 21. (b) 1 Ioan iii. 18.

ymfalchio yn neillduol gyfraniadau dwyfol raglunaeth a grâs, neu i orfoleddu fel pe baet heb dderbyn (c); ond i'r diben o fod yn ffyddlon i'th Arglwydd mawr, goruwchwiliwr pa un ydwyt ti, a thrwy yr hwn yr wyt yn meddiannu pob talent, pa rai (o ran dim hawl fydd gan dy gydgreaduriaid i ddywedyd dim wrthynt) elli alw dy eiddo dy hun. A chan fod i ni yma amryw ddoniau yn ol y grâs a roddwyd i ni (d), bydded i ni ddal y clorian â llaw ddiduedd, fel y gallom iawn farnu pa beth a gais yr Arglwydd gennym; fef gwneuthur yr hyn a allom i lunio ac i ddwyn ymlâen y daioni cyffredin. Ond O! pwy mor anfynych y mae dynion yn dwyn eu hunain i gyfrif fel hyn mewn modd oneſt! A pha faint o golled y mae 'r byd o'n cwmpas a'n heneidiau ein hunain yn ei gael o eiſieu y ffyddlondeb hyn!

§ 6. A roddodd yr Arglwydd *ddyſg a dawn* i ti? Fe 'u rhoddodd hwynt, nid i'r diben i ti ddifyrru ac i harddu dy hun, ac i ennyn goleu i'r diben o beri i ddynion edrych arnat a chael eu dallu: Ond fe roddwyd y pethau hyn i ti er mwyn dy arwain di ac eraill i adnabod *Tâd y goleuni*. A'th ddyledſwydd trwy y pethau hyn yw, naill ai ceiſio harddu a chynnyddu y natur ddynol, neu ynte i droi mewn modd uniawn a mwy neillduol at bethau dwyfol, gan ddadleu achos Crefydd, i amddiffyn ei gwirioneddau, i annog dynion i ymarfer â hi, i geiſio troi dynion oddiwrth y cyfryw ffyrdd ac ſydd yn eu dwyn i ddianrhydeddu Duw, ac i ddiſtrywio eu heneidiau eu hunain; i'r diben hyn, dy ddyledſwydd yw, profi beth all y ſymlrwydd a'r tynerwch mwyaf, â pha rai y gellych wiſgo 'th ymddiddanion, wneuthur tuag at eu dwyn i rodio llwybrau rhinwedd ac happuſrwydd.

§ 7.

(c) 1 Cor. iv. 7. (d) Rhuf. xii. 6.

§ 7. A roddodd Duw i ti *awdurdod a llywodraeth* ar ryw gymdeithas fawr neu fechan? Cofia i ti dderbyn hyn fel y byddai i Dduw gael ei anrhydeddu, ac er mwyn gwneud y rhai ſydd danat mewn gwlâd neu deulu, yn ddedwydd. Bydd ofalus gan hynny, fel pa un bynnag ai y wialen ai y cleddyf a ymddiriedwyd i ti, na bo i ti ei *ddwyn yn ofer* (e). Ai ſwyddog gwladol ydwyt? A oes i ti ran yn y gwaith mawr o oſod cyfreithiau; bydded i ti barchu awdurdod y penllywydd, ac ymgeleddwr mawr yr holl gymdeithas, ſef *y Duw byw*: Ac na fydded i ti wneuthur na chydſynnio ac unrhyw gyfraith, ac y bo 'th gydwybod yn dywedyd wrthyt (ac yſtyried yr amgylchiadau preſennol) ei bod yn cydſefyll â'i ewyllys ef; ac na bo gennyt ſail i gredu dy fod wrth ſefydlu y cyfryw un, yn *weinidog Duw er daioni* (f). Ai dy ſwydd yw goſod y cyfreithiau *ſydd*, mewn grym? Goſod *fywyd* ynddynt, trwy eu cyflawnu yn ddewr, yn gyfattebol i natur y ſwydd arbennig ac ydwyt yn ei dwyn. Nac ymfoddlona ar wâg enw o awdurdod. Na fydded i ti megis cyſgu ar y faingc: Bydd ddeffrous, bydd weithgar, a ſylwa ar yr hyn a wneir o'th amgylch. Diogela yr uniawn a'r diniwaid, tor yn gandrill holl allu 'r gorthrymwr. Dŵg i'r amlwg y galon anoneſt hyd ac y gellych. Bydded i ti *ddirmygu* yn gyſtal a *gorchfygu*, y drygwr ac ſydd yn ceiſio gwneud ei neillduol gywreinrwydd yn orchgudd neu yn ddiogelwch i'w ddrygioni.

§ 8. A ydwyt ti ddim ond *pen teulu?* Llywodraetha yno er gogoniant i Dduw. Bydded i ti drîn achoſion yr *ymerodraeth fechan honno*, gyda 'r un fath olwg, a'r un fath egwyddorion, ac a oſodais i ger bron y mawrion a'r galluog. Dy blant a'th waſanaeth-ddynion ydynt dy ddeiliaid naturiol. Bydded i ti gadw trefn dda yn eu mŷſg hwynt, fel y bônt

(e) Rhuf. xiii. 4. (f) Rhuf. xiii. 4.

y bônt dan reolaidd ddiſgyblaeth. Dyro iddynt addyſgiadau yn egwyddorion Crefydd, fel y deallont pa mor fuddiol a rheſymmol yw y fath ddiſgyblaeth; a gwna iddynt weithredu yn ol y cyfryw addyſgiadau, hyd ac y gellych. Gwîr yw, nis gelli di gyfnewid eu calonnau hwynt; etto ti a elli gyfnewid eu hymddygiad mewn meſur mawr: A thrwy hynny, eu cadw hwynt rhag llawer o faglau; ti a elli wneuthur llawer tuag at eu gwneuthur hwynt yn aelodau deſnyddiol o'r gymdeithas wladol, ac felly eu goſod megis ar *ffordd Duw* (g), fel y bo iddo o boſſibl wrth fyned heibio, eu bendithio hwynt â chyfoeth ei râs. Gwnâ dy oreu i ddangos iddynt eu hangenrheidrwydd o'r fath fendith; ymdrecha i'w dwyn hwynt i werthfawrogi y pethau hyn, ac felly i ymofyn ar eu hol, gan gredu eu bod yn anfeidrol fwy gwerthfawr nac un peth arall.

§ 9. Ym mhellach; a gyfododd Duw di i *barch* ymmŷſg dy gyd-greaduriaid, yr hyn nid yw bob amſer yn gyfattebol i broffes a ſefyllfa dynion mewn bywyd? A yw dy gynghorion yn cael eu gwrando yn aſtud? A oes ymofyniad am dy gyfeillach? A yw yr Arglwydd yn rhoddi i ti gymmeradwyaeth ger bron dynion, fel ac y maent nid yn unig yn goſod y lliw goreu ar dy eiriau, ond hefyd yn edrych dros dy feiau (y rhai y mae 'th gydwybod di yn eu gweled) ac yn yſtyried dy weithredoedd yn y goleu mwyaf tirion a llarrol? Ti a ddylit edrych ar hyn, nid yn unig fel daioni rhagluniaeth, ac fel annogaeth i ti i gyflawnu 'th ddyledſwydd yn yr amſer i ddyfod, yn ei hamrywiol ganghennau, eithr yn gyfleuſdra i fwy o ddefnyddgarwch, nac y gallaſit fod yn dy ſefyllfa breſennol heb hynny. Os yw 'th *garacter* o bwys yn y bŷd, goſod hynny yn y iawn glorian. Ymdrecha i gadw i fynu anrhydedd rhinwedd a duwioldeb. Eſtyn dy law yn ſerchus i'r

(g) Salm lxxxv. 13.

i'r ſawl ſydd yn deilwng o barch, er eu bod yn cael eu diyſtyru a'u ſathru.. Amddiffyn y gwirionedd; bydd yn gynghorwr heddwch; bydd yn ſiampl mewn hynawſedd; a gwna yr hyn oll ſydd yn boſſibl i ti er mwyn uno calonnau dynion, yn enwedig dynion da, â'u gilydd, er gwahaniaethu o honynt yn eu barnau ynghylch achoſion ac athrawiaethau Crefydd, mor belled ac ſydd yn boſſibl i ddynion da i ddadleu. Bydded i'th ymddygiad gwiliadwrus a goſtyngedig di yn y fath amgylchiadau anrhydeddus, ac ymmŷſg cynnifer o arwyddion o barch cyffredinol, i ddirgel geryddu balchder a byrbwylldra eraill, nad ydynt yn hynod mewn dim arall; y rhai, er derbyn talentau rhagorol, a ddylent gael eu diyſtyru, fel rhai dilês i'r gymdeithas gyhoeddus mewn meſur mawr, hyd oni bo i'r fath yſpryd o falchder a byrbwylldra gael ei ddaroſtwng. Na chymmer dy attal yn dy yrfa o haelioni ac o rinwedd trwy yr ychydyg *eiddigedd a chabl*, a gyfarfyddech â hwynt ynddi. Bydded i ti yn aſtud olygu y daioni cyffredin, gan gadarn ymdrechu ei ddwyn ymlâen; a gâd i ragluniaeth amddiffyn dy enw da di, rhag malais a chelwydd; pa rai yn fynych a wrthwynebant eu gilydd, heb dy ymdrechiadau di, gan wneud yr *awdwyr* o honynt yn fwy *cywilyddus*, neu (os na ddaw hynny yn agos attynt) yn fwy *gwaradwyddus*, nac y dichon dy ddynoldeb di ddymuno eu bod.

§ 10. ETTO ym mhellach, mi a ofynaf, A fendithiodd Duw di mor belled a rhoddi i ti *gyfoeth*? A oſododd efe di yn y fath amgylchiadau fel ac y mae gennyt fwy nac ſydd yn hollol angenrheidiol i ti ac i'th deulu? Coſia am y cyfrif fydd yn rhaid i ti roddi ar frys. Coſia, pa faint o rwyſtr yw y pethau hyn yn fynnych yn ffordd iechydwriaeth dynion, a phwy mor fynych y maent yn eu gwneud yn anhawdd i fyned i mewn i deyrnas Dduw, yn

ol

ol geiriau ein Harglwydd (h). Gweddia gan hynny, yn ddifrifol ac yn barhâus, na bo cyfoeth yn *fagl* ac yn *gywilydd* i ti, fel y mae i'r rhan fwyaf o'r ſawl a feddiannant bethau da y byd hwn. Goſod heibio, yr wyf yn attolygu arnat, ryw ychydig o'th feddiannau at eluſenau, a hynny yn ol fel ac y bo Duw i'th lwyddo. Trwy hyn ſe fydd gennyt dryſor tuag at haelioni bob amſer wrth law: A thi a fyddi o boſſibl yn fwy rhŷdd i gyfrannu pan fyddech yn edrych ar y peth fel wedi ei roddi eiſoes, fel nad yw bellach mewn un modd yn eiddo i ti, er ei fod heb ei roddi i feddiant unrhyw berſon neillduol. Nid fy llê i yw dywedyd pa faint y ddylit oſod heibio fel hyn. Fe allai y *drydydd* ran, neu yr *hanner*, fod yn rhy fâch i'r ſawl ac ſydd yn gyfoethog iawn, ac heb ddim plant. Ac i'r ſawl y mae eu cyfoeth yn brin, a'u traul yn fawr, ſe ddichon fod y *ddegfed ran yn ormod* iddynt hwy i gyfrannu. Eithr gweddia ar i Dduw i dywys dy feddwl yn y peth hyn, fel ac y caffech dyſtiolaeth dy gydwybod dy fod yn rhyngu ei fodd ef. Profa y ffordd hon dros un flwyddyn; a thrwy ſylwi ar bethau yn y cyfryw flwyddyn, bydded i ti ddyſgu pa fodd i ymddwyn dros un arall. Cofia bob amſer fod Duw yn y llê cyntaf yn gofyn *cyfiawnder*, ac yn *ail*, *eluſen*, yn ol dy allu: Canys nid oes gennyt ddim hawl i roddi eiddo 'th gymmydog i'r tlawd; eithr tâl ei gyfiawnder iddo ef, a chyfranna o'th eiddo dy hun. Etto ar yr un amſer cymmer ofal rhag y tŷb twyllodrus a dinyſtriol hynny, ſef, i fod cyfiawnder a'th deulu yn gofyn i ti adael dy *blant yn dra chyfoethog*; yr hyn a fu o boſſibl, yn achos i Dduw gymmeryd ymaith fywydau plant anwyl y cyfryw rieni cynnil, ac oeddynt yn tryſori *rhan y tlawd* ar eu cyfer hwynt; a pha ryw ganlyniadau dinyſtriol all ddyfod i gwrdd y ſaw lſydd etto yn fyw, yr

(h) Mat. xix. 24.

yr Arglwydd ei hunan a ŵyr; ac yr wyf yn gweddio o'm calon na bo i ti na'th eiddo byth wybod trwy brofiad.

§ 11. Ac fel y bo i'th galon gael ei hagoryd etto yn fwy, ac fel y bo i'th haelioni gael bod i'r dibenion goreu, rhô gennad i mi ſylwi yn fyr ar amrywiol ffyrdd y gellych di ymddangos yn eluſengar, a'r rhai ſydd yn galw am yſtyriaeth y ſawl a gyfododd Duw mewn ſefyllfa i wneuthur llawer o ddaioni yn yr yſtyr hyn. Yn gyntaf, edrych o 'th gwmpas ar y gymmydogaeth yn yr hon yr ydwyt yn preſwylio. Yſtyria pa nifer o ddynion oneſt a llafurus, ac o boſſibl duwiol hefyd, ſydd yn ymorcheſtu yn galed i fyw yn y byd. Meddwl pa faint o gyſur a allai hynny fod iddynt hwy, ac allech di i roddi iddynt heb un anghyfleuſdra, allan o'r helaethrwydd a roddodd Duw i ti. Rhô gluſt i bob rhyw *alwad anarferol am eluſen*, yn neillduol os bydd at ryw achos cyffredin a chyhoeddus; cynnorthwya trwy 'th ſiampl, a'th *intereſt*, yr hyn a all fod o lawer mwy o ddenfydd na'r ſwm ac ellych i roddi dy hunan. Bydded gennyt dafod i ddadleu dros achos yr anghenus, yn gyſtal a llaw i gyfrannu iddynt; ac ymdrecha i gywilyddio yr eſguſodion diſail ac y mae cybydd-dod yn roddi yn fynych yng ngenau llaweroedd, a rhai trwy eu dyfais a ymdrechant i oſod *barnais* dêg arnynt, ond y mae hi mor deneu fel ac y mae *tîr garw* yn ymddangos trwyddi. Edrych pa nifer o *blant t'lodion* ſydd yn rhodio oddiamgylch, yn *noeth* ac yn *annyſgedig*; ac felly ar y ffordd i bob math o annuwioldeb a thrueni; Yſtyria pa beth a ellych wneuthur tuag at ddilladu ac addyſgu rhai o honynt o leiaf, yn egwyddorion Crefydd. Pe bae pob teulu ac ſydd yn abl ar y fath achoſion i gyfrannu, yn edrych gyda thoſturi ar *un teulu t'lawd* yn eu cymmydogaeth, ac yn eu cymmeryd dan eu gofal i'w porthi, eu gwiſgo a'u

a'u dyſgu, i'w cynnal mewn cyſtuddiau, i'w hamddiffyn mewn camwedd, ac i gyfarwyddo y ſawl a fo 'n eu llywodraethu, yn ol fel y byddo amgylchiadau yn galw, pe bae hyn oll yn cymmeryd llê, O pwy fath olwg wahanol y fyddai ar bethau yn ein mŷſg ni yn fuan? Edrych pwy ſydd yn glâf, fel, os oes un *eluſendŷ i'r cleifion* yn agos attat, y gallech eu goſod hwynt yno: Ac os bydd y fath gyfleuſdra, cais wneud y a daioni allech iddynt gartref, trwy eu porthi, eu cynghori, a thrwy roddi iddynt y cyfryw *phyſygwriaeth* ac a fo buddiol. Sylwa ar *dylodi yſprydol* dynion yn yr un modd; ac i'r diben o'u cyfoethogi hwynt, mi a ewyllyſiwn i ti ſod yn helaeth yn dy eluſen tuag at ddwyn gwŷr ieuainge, o *ddawn* a *duwioldeb*, i fynu mewn dyſgeidiaeth i waith y *weinidogaeth*. Na rwgnach roddi rhan o'r hyn a roddodd Duw i ti, er cynhaliaeth i'r ſawl ac ſydd wedi rhoddi heibio bob golygiadau a gofalon amſerol, er mwyn *gweini i ti efengyl Criſt*; canys diammau ſod ganddynt gyfiawn hawl i ddiſgwyl am gynhaliaeth, ac a'u gwnelo hwynt yn gymmwys i'r gwaſanaeth poenus, i ba un y rhoddaſant eu hunain er dy fwyn di, ac er mwyn yr Arglwydd. A thra yr ydwyt yn cael dy *ddigoni â daioni tŷ Dduw, ſef ei deml ſanctaidd* (i), toſturia wrth y rhai ſydd yn preſwylio mewn tîr diffaith; a bydded yn llawen gennyt i allel gwneuthur rhywbeth tuag at anfon ar lêd yr efengyl ogoneddus i fŷſg y cenhedloedd ym mannau pell y bŷd, yr hwn a fu hyd yn hyn yn guddiedig oddiwrthynt, er bod adnabyddiaeth, a pharchus dderbyniad o honi, yn *fywyd tragywyddol*. Dyma rai eluſenau o fawr bwys, y rhai a ddymunwn oſod ger bron y ſawl ac y darfu rhagluniaeth ei cyfoethogi yn hynod: A dyma yſtyriaeth ac ſydd yn gwneuthur *aur yn fwy gwerthfawr* nac yr ymddengys yn un goleu arall, ſef, ei ſod yn gymmwys

(i Salm lxv. 4.

gymmwys i gymmaint o ddaioni, ac i gael ei ddefnyddio i'r fath ddibenion. Ond os nad oes gennyt *aur* i'w roddi i'r pwrpas hyn, rho dy *arian:* Neu os nad oes gennyt arian, cofia nad yw Duw yn diyſtyru yr *hatling*, pan fo yn dyfod o galon eluſengar a hael (k); bydded i ti fwrw hynny i'r dryſorfa yn llawen, os na bydd 'chwaneg gennyt i roddi.

§ 12. Ac fel y gallech atteb yr aml a'r taer ofynion am eluſenau, yſtyria yn ddifrifol pa *fodd yr ydwyt yn byw*. Nid wyf yn dywedyd y dylit ti fyw fel un o'r tlodion ſydd yn ymddibynnu ar dy haelioni di. Y mae 'r gymdeithas, fel ac y mae pethau wedi eu ſefydlu yn breſennol, nid yn unig yn dioddef, ond hefyd yn gofyn, i rai dynion roddi rhydd-did iddynt eu hunain i fwynhâu gwychder a phleſerau bywyd; ac wrth ddarparu ar gyfer y cyfryw rai, y mae torfeydd o deuluoedd tlodion yn cael eu cynnal mewn modd mwy anrhydeddus a chyſſurus, er mwy o fûdd iddynt eu hunain a diogelwch i'r wladwriaeth, nac y gallent fod pe bae yr arian ac y maent yn dderbyn am eu gwaith, neu ynte am yr hyn y maent yn werthu, yn cael eu rhoddi iddynt trwy eluſen: Ac nis gallaf fi feddwl fod rhoddion Duw i gael eu gwrthod fel cynnifer o faglau neu felldithion, yn hytrach na bendithion. Fe fyddai hyn yn attal dibenion daionus a graſol ein creawdwr, ac yn *fradwriaeth yn erbyn holl dreſn natur*, pe dygid ef ymlâen i'r manolrwydd eithaf. Bydded i roddion rhagluniaeth gael eu harferyd; etto rhaid edrych eu bod yn cael eu harferyd mewn modd cymmhedrol a doeth, rhag trwy 'th ynfydrwydd, iddynt fyned yn *fagl* (l). Bydded i gydwybod, fy narllenydd anwyl, ddywedyd, pa faint o'r pethau a roddodd dy nefol dâd i'th feddiant, ſydd wedi eu rhoddi er dy fwyn di

(k) Marc xii. 42, 43. (l) Salm lxix. 22.

di dy hun, a pha faint er mwyn dy frodyr; ac na fydd byw fel pe na byddai i ti un brawd, megis pe baet yn meddwl mae 'r prîf ddiben o'th anfoniad i'r bŷd oedd *boddhâu dy hun*, trwy bob rhyw fawredd a moethau ac allech feddwl am danynt. Yr wyf yn ofni, mae yn hyn y mae yr oes bresennol yn cyfeiliorni, ac nid yn y llym farwhâd o'r aelodau fydd ar y ddaiar. Hola gan hynny dy *draul*, gan ei gymmaru â'r hyn wyt yn dderbyn i fewn bob blwyddyn. Fe all fod yr hyn fydd yn gamnoladwy mewn arall o uwch fefyllfa, yn gywilyddus waſtraff ynnot ti. Ac nis gelli yn ſicr ddywedyd nad ydwyt yn myned dros y terfyn, am nad ydwyt yn rhedeg mewn dlêd, neu o blegid dy fod yn abl gofod heibio ryw ran er mwyn cyfoethogi dy deulu. Os wyt ti yn cael dy wneud yn analluog i wneuthur dim i'r t'lawd, neu yr hyn fydd i'w ddiſgwyl oddiwrthyt yn ol dy fefyllfa mewn bywyd, trwy 'th fywoliaeth frâs a boneddigaidd, yna gwybydd nad yw yr Arglwydd yn foddlon i'r fath ymddygiad; a thi a ddylit, fel yr wyt i atteb ger ei fron ef, i gaethiwo dy hun. Diammau y bydd rhagluniaeth yn hael tuag at y fawl ac y mae gwîr egwyddor o ffŷdd yn Griſt, a chariad diragrith at Dduw a dynion ynddynt, er na bo 'r cyfryw egwyddor yn torri allan mewn daioni a defnyddgarwch i'r grâdd y gweddai iddi; etto bydd yn ſicr o hyn, fef, y bydd i'r hwn ac fydd yn rhoddi i bob un yn ol ei weithredoedd, i fanwl fylwi ar *raddau* 'th *ddaioni* di, yn y dŷdd y byddi yn derbyn dy wobr: Ac am hynny y mae pob eſgeuluſdra yn dwyn gydag ef y fath *golled*, nas gellir ei wneud i fynu dros dragywyddoldeb. Gâd i mi ddywedyd wrthyt ym mhellach, fod pob rhyw eſgeuluſdra gwirfoddol yn gwneuthur y meddwl o hŷd yn wannach ac yn fwy fwy dioglyd, ac o'r diwedd yn llai ei duedd i geiſio ynnill y tîr a gollwyd,

ac

ac i gadw hyd yn oed yr hyn a gadwyd hyd yn hyn.

§ 13. Na fydded i ti achwyn fy mod yn gosod arnat bethau rhy drymion. Nid wyf ond ceisio 'th ddwyn di i fwynhâu *pleserau* mewn ffordd mwy rhagorol; ac y mae 'r *cynnilwch*, yr hyn yw ffynnon yr haelioni y soniais am dano, mor belled o ddrygu 'th enw da di, fel ac y mae yn sicr o'th dderchafu ymmŷsg dynion *doeth a da*. Ond y mae gennyt annogaethau llawer mwy rhagorol na chlôd dynion ger dy fron. Yr wyf yn llefaru wrthyt ti fel *plentyn i Dduw* ac fel *aelod i Grist*; ac am hynny wedi 'th rwymo yn y fath undeb agos â'r holl rai mwyaf t'lawd ac sydd yn credu ynddo ef. Yr wyf yn llefaru wrthyt ti fel un o etifeddion y gogoniant tragywyddol, yr hwn a ddylai gynnwys meddyliau uchel a rhagorol, mewn rhyw râdd yn gyfattebol i'w etifeddiaeth.

§ 14. Rhô dy feddwl, gan hynny, ar waith i ystyried pa ddaioni a ellych wneuthur; naill ai yn dy berson dy hun, neu trwy eraill o'th gyfeillion a'th gydnabod; a phan wypech yr hyn a ddylech wneuthur, dôs yn ei gylch yn wrol, fel ym mrhesennoldeb ac yn enw yr Arglwydd. A chan mai yr Arglwydd sydd yn rhoddi doethineb, ac mai allan o'i enau ef y mae gwybodaeth a deall yn dyfod (m), dôs at ei orseddfaingc ef, ac ymofyn am yr hyfforddiad a'r grâs hynny, ac sydd yn addas i'th amgylchiadau presennol, ac a allo fod yn effeithiol i ddwyn y ffrwythau hynny o sancteiddrwydd ac o ddenyddgarwch, i'w ragorol ogoniant ef, ac i anrhydedd dy broffes gristianogol.

Y Cristion

(m) Diar. ii. 6.

Y Criſtion yn gweddio am gymmorth i fod yn fwy defnyddiol.

'O DAD y trugareddau, ac awdwr mawr pob 'daioni, pa un bynnag ai naturiol ai yſ-'prydol! Yr wyf yn dy fendithio di am bob rhyw 'dalent, trwy ba un y cyfoethogaiſt y fath greadur 'anheilwng ac y mae yn rhaid i mi gyfaddef fy 'mod i. Y mae fy enaid yn mawr gywilyddio ger 'dy fron di, wrth yſtyried pa mor lleied o ddden-'fydd wyf wedi wneuthur o honynt. Och! pa 'beth a wneuthum mewn cymmariaeth i'r hyn a 'allaſit yn rheſymmol ddiſgwyl i mi wneuthur, 'trwy y rhoddion naturiol a roddaiſt i mi, trwy 'gymmwyſderau bywyd, trwy fy amſer, fy meddi-'annau, a'm hawdurdod ar eraill! Och! o blegid 'fy eſgeuluſtra a'm hynfydrwydd, yr wyf yn gorfod 'edrych yn ol ar *ddiffeithwch*, lle y gallaſwn weled 'maes ffrwythlon, a chynhauaf cyflawn! Yr wyf yn 'wîr yn cyfiawn haeddu i gael fy nioſg o'r cwbl oll, 'i ti 'm dwyn i gyfrif buan, a'm heuog-farnu am 'fy mod mewn llawer modd wedi bod yn anffydd-'lon i ti, i'r bŷd, ag i'm henaid fy hun; ac mewn 'canlyniad i'r farn honno, i gael fy anfon i garchar 'y tywyllwch eithaf a thragywyddol! Ond tydi, 'O Arglwydd, a faddeuaiſt yn rhâd y ddyled ofnadwy 'o fîl o dalentau. Gogoniant y fo i'th enw am 'hynny. Derbyn, O Arglwydd, derbyn yr ym-'roddiad newydd wyf yn awr yn ei wneuthur o 'honof fy hun a'r cwbl ac a feddaf, i'th waſanaeth. 'Yr wyf yn cydnabod mae o'th law di dy hun yr 'wyf yn ei rhoddi i ti (n). Gwnâ fi, yr wyf yn at-'tolygu arnat, yn oruchwiliwr ffyddlon i ti, fy 'Arglwydd mawr; ac na fydded i mi feddwl am

(n) 1 Cron. xxix. 14.

'unrhyw fûdd neillduol i mi fy hun, yn wahanol
'ac yn wrthwyneb i'th ogoniant di!

'Yr wyf yn dy glodfori di, O Dduw, pob grâs,
'os wyf, tra yn llefaru wrthyt, yn teimlo cariad at
'dy greaduriaid di yn cyfodi yn fy enaid; os wyf
'yn teimlo fy nghalon yn agored i gofleidio fy mro-
'dyr ymmŷſg dynol-ryw! O gwnâ fi yn ffyddlon
'i ddoſparthu, yr hyn oll a roddaiſt yn fy llaw i'r
'diben i eſmwythâu arnynt. ac fel y gwypwyf pa
'faint yw fy rhan fy hun, bydded i mi allel dal y
'clorian a llaw gywir, ac i farnu yn ddiduedd
'rhyngof fy hun a hwynt hwy. Bydded i mi allel
'derbyn yr hyn a roddaiſt i mi a'm heiddo, gyda
'diolchgarwch! A rhô nerth i mi i gyfrannu y
'rhan arall gyda ffyddlondeb a doethineb, ac hefyd
'gyda llawenydd! Tywys fy llaw, O dâd tragyw-
'yddol a thrugarog, tra yr ydwyt yn rhoddi yr
'anrhydedd i mi o fod yn offeryn i roddi allan
'ychydig o'th roddion daionus; fel y gallwyf eu
'cyfrannu llê mae mwyaf eu heiſiau, a llê yr at-
'tebont y diben goreu. Ac os yw yn ol dy ewyll-
'ys raſol, amlhâ yr hâd (o); llwydda fi yn fy
'achoſion bydol, fel y bo gennyf beth i gyfrannu i'r
'rhai y mae eiſiau arnynt; a bydded i mi fel hyn
'i gael fy arwain i ardaloedd tragywyddol lawndid
'a thragywyddol gymmwynaſgarwch. Bydded i
'mi yno gyfarfod â llaweroedd, i ba rai y bum yn
'gymmwynaſwr ſerchog ar y ddaiar; ac os yw yn
'ol dy ewyllys, bydded i mi gael cyfarfod â'r ſawl
'y bum yn foddion i'w dwyn i'r llwybr ſydd yn
'arwain i'r drigfan wynfydedig! Bydded iddynt
'i'm croeſawi yn eu trigfannau o ogoniant. A
'bydded i ti, O Arglwydd, dderbyn yr holl glôd
'trwy *Ieſu Griſt*; wrth draed yr hwn yr wyf yn
'chwennych plygu; ac wrth draed pa un, ar ol yr
'yrſa mwyaf defnyddiol mewn bywyd, yr ewyllyſ-
'iwn

(o) 2 Cor. ix. 10.

'iwn yn y diwedd farw, gyda chymmaint o oftyn-
'geiddrwydd, a phe bawn yn ymarfer y weithred
'gyntaf o ffŷdd ynddo ef, ac megis pe na chawfwn
'unrhyw gyfleuſdra, trwy un deyrnged o ufudd-
'dod a diolchgarwch yn ei wafanaeth yn fy mywyd,
'i brofi ei chyweirdeb!'

PENNOD XXIX.

Y Criſtion yn gorfoleddu yngolwg Angau a Barn.

§ 1. PAN ddarfu gweledigaethau yr Arglwydd i *Ioan* y diſgybl anwyl yn ynys *Patmos*, y mae yn eglur iddo ef yr hwn a roddodd y cyfryw weledigaethau (ſef *Ieſu*, y tŷſt ffyddlon a chywir) i ddibennu yn y geiriau pwyſfawr a bywiog hyn: Yr hwn ſydd yn tyſtiolaethu y pethau hyn ſydd yn dywedyd, *Yn wîr yr wyf yn dyfod ar frys. Amen. Yn wîr tyred, Arglwydd Ieſu* (a)! Tyred fel ac y dywedaiſt yn ſicr ac ar frys! A chofia pwy bynnag ydwyt, O Griſtion, ac ſydd yn darllain y geiriau hyn, fod dy Arglwydd yn llefaru yn yr un iaith wrthyt tithau; ſef, *wele fi yn dyfod ar frys.* Wele fe yn dyfod ar frys trwy angau, i droi yr agoriad, ac i agor drŵs y bêdd i'th ddêrbyn di yno, ac i'th arwain trwyddi i barthau y bŷd anweledig, pa rai ſydd yn awr yn anhyſpys i ti. Ac nid oes fawr o amſer hyd oni ddelo y barnwr ac ſydd yn awr yn ſefyll wrth y drŵs (b) i'r farn gyffredinol: Ac er y dichon cannoedd o flynyddoedd fod rhwng hyn a'r dŷdd hwnnw, etto nid yw y cwbl ond amſer bach iawn yn ei gyfrif ef, yr hwn ſydd yn gweled ag un olwg yr holl oeſoedd anfeſuredig, o dragywyddoldeb

(a) Dat. xxii. 20. (b) Iago v. 9.

oldeb hyd dragywyddoldeb. Nid yw mîl o flynyddoedd yn ei olwg ef, ond megis un dŷdd, ac un dŷdd megis mîl o flynyddoedd (c). Yn y ddau yſtyr hyn, wele fe yn dyfod ar frys; ac yr wyf yn gobeithio y gelli di roddi dy *Amen yn llawen*, am nad yw y rhybudd yn ofnadwy ac yn anhyfryd yn dy gluſtiau: Eithr bod ei ddyfodiad ſicr a buan, yn wrthrych o'th obaith hyfryd, ac o'th ddiſgwyliad hiraethlon.

§ 2. Yr wyf yn ſicr mae rheſymmol yw fod y peth felly: Er hynny fe all natur, yr hon ſydd yn hoffi bywyd, ac yn anewyllyſgar i ymadael â hîr drigfan adnabyddus, a myned i gyflwr hollol ddieithr, gilio rhag marwolaeth; ac arſwydo wrth feddwl am y modd ofnadwy ac y bydd i'r bŷd ymollwng, ac felly i edrych ar ddŷdd y farn gyda rhywfaint o ddychryn, am hynny, fy *mrawd yn yr Arglwydd* (canys felly y gallaf yn awr i'th alw) yr wyf yn ewyllyſio ymreſymmu ychydig â thydi ar y pen hyn, ac erfyn ar i ti edrych ar y pethau pwyſig hyn yn fwy aſtud, y rhai wyf yn obeithio fydd yn llai anhyfryd, yn ol fel yr arferech â hwynt. Ië yr wyf yn gobeithio y bydd i ti yn llê neidio yn ol wrth feddwl am angau, ymeſtyn tuag atto gydag hyfrydwch a llawenydd.

§ 3. MEDDWL, O griſtion, pan ddelo Criſt i'th alw di ymaith trwy farwolaeth, y bydd yn dyfod i'th ryddhâu o'th holl ofidiau preſennol, — i'th wared oddiwrth weddillion llygrediaeth, — ac i'th ddwyn i fyw gydag ef ei hun, mewn perffaith ſancteiddrwydd a gorfoledd. Ti a fyddi oddicartref o'r corph dros ychydig, eithr gartref gyda 'r Arglwydd (d).

§ 4. GWIR yw efe a'th alw di ymaith o'r bŷd hwn. Ond O! pa beth yw y bŷd preſennol fel y carech ef, ac y glynech ynddo gyda 'r fath awydd? Pa

(c) 2 Pedr iii. 8. (d) 2 Cor. v. 8.

Pa mor ddiſdadl yw yr holl fwyniant a berthyn iddo; a pha mor aml yw ei helbulon, ei faglau a'i ofidiau? Edrych ar dy bererindod yn y goleu hyn, a dywed, er i ddaioni a thrugaredd i'th ganlyn di holl ddyddiau dy fywyd (e), oni fu hyd yn oed *trugaread* ei hun yn plannu drain yn dy lwybrau mewn meſur, gan ddyſgu i ti weled, trwy bethau doeth ac angenrheidiol, er gorfod poeni rai gweithiau, mae nid dyma 'th *orphwyſfa di* (f)? Edrych yn ol ar dy *lawenydd* a'th *obaith*, a gwêl pa môr wywedig ydynt, a phob arwyddion o honynt yn agos i ddarfod, oddieithr galarus goffadwriaeth am danynt yn dy galon ofidus. Edrych ar feddau y rhai a lyngcaſant i fynu amryw o 'th gyfeiliion anwylaf a mwyaf dymunol, a hynny o boſſibl ym mlodau 'u hamſer, a phan yr oedd dy gyfrinach â hwynt yn yn feluſaf; ac os byw y fyddi ychydig yn hwy, ſe dorr i lawr yr anwylaf ac ſydd heddyw 'n fyw. Yſtyria 'r byw yn gyſtal a'r rhai ſydd wedi marw: Gwêl gyflwr y natur ddynol dan amryw arwyddion galarus o'i hymadawiad oddiwrth Dduw, a dywed, pa un dŷn doeth a da a ewyllyſiai drigo yma byth? Mi a debygwn pe bawn yn ſicr ddiogel rhag y ſaethau ac ſydd yn ehedeg o'm hamgylch, nad allwn lai na galaru, wrth weled y modd y maent yn clwyfo eraill, ac wrth glywed griddfannau y ſawl ſydd yn ſyrthio trwyddynt o ddŷdd i ddŷdd. Y mae clefydau a gorthrymderau dynion mor amled, a'r hyn ſydd yn waeth, y mae anhwyldeb eu meddyliau mor amrywiol ac ofnadwy, fel ac y mae 'r bŷd yn ymddangos yn debyg i yſpytty (*Hoſpital*): Ac nis gall ŷ dŷn ac y mae ei galon yn dyner, lai na theimlo ei yſprydoedd yn pallu, tra y mae yn tramwy ar hyd-ddo, ac yn edrych ar gyflwr galarus ei gydgreaduriaid; yn enwedig, pan yſtyrio pa mor lleied a all efe wneuthur er dychweliad y rhai y mae

(e) Salm xxiii. 6. (f) Mic. ii. 10.

ynddo dosturi attynt. Ai *Cristion* ydwyt ti, ac onid yw yn frâth calon i ti-feddwl fel y mae 'r natur ddynol wedi soddi mewn drygioni a gwarth? I weled y rhyfyg trwy ba un y mae rhai yn gwneud eu hunain yn *bechaduriaid cyhoeddus ac aflan*; a'r modd y mae enw Crist yn cael ei ddifenwi, gan ormod o'r rhai sydd yn galw eu hunain ei bobl ef? Onid wyt yn galaru wrth weled gweithredoedd ffieidd ac anghyfreithlon y sawl ac sydd yn byw yn annuwiol; ac wrth feddwl am wendidau y rhai hynny ac y mae gennym obaith gwell am danynt? Wrth ystyried y pethau hyn, oni ddymunit i ymadael â'r fâth fŷd, ym mha un nis gall *enaid cyfiawn* a thosturiol lai na *blino* o ddŷdd i ddŷdd, trwy weled cymmaint o bechod a thrueni (g).

§ 5. OND i ddyfod yn nês; yr wyf yn gofyn, Onid wyt ti yn teimlo rhywbeth o'th fewn dy hun, ac sydd yn peri i ti hiraethu am ymadael ag ef; yr hwn pe amgen, a wnai hyd yn oed paradwys ei hun yn chwerw? Rhyw beth, pe bae yn parhâu, a berai ofid i'th enaid hyd yn oed yn nghymdeithas y gwynfydedigion? Onid ydwyt yn prosi *gweddillion pechod*; yr hyn sydd yn ganlyniad galarus o wreiddiol ymadawiad dy natur oddiwrth Dduw? Onid ydwyt yn ymorchestu yn erbyn rhyw lygredd bob dŷdd, neu o leiaf yn griddfan o blegid gwendid dy râs! Onid wyt yn fynych yn prosi dy yspryd yn hurt ac yn llêsg, pan yr ewyllysiech i fod yn fwyaf gwresog yn ngwasanaeth Duw? Onid yw 'th galon yn fynych yn anheimladwy o amlygiadau mwyaf cyfoethog ei gariad ef, a'th ddwylaw yn llêsg yn ei wasanaeth, hyd yn oed pan fo yr *ewyllysio yn barod gennyt* (h)? Onid yw 'th fywyd ar y goreu, yn ymddangos yn ddifudd, mewn cymmariaeth i'r hyn y wyddaist y ddylai ei fod, a'r hyn wyt yn ewyllysio ei fod? A wyt ti ddim yn fynych yn dywedyd,

O na

(g) 2 Pedr ii. 8. (h) Rhuf. vii. 18.

O na bae i mi adenydd fel colommen, fel yr ehedwn ymaith ac y gorphwyſwn (i)?

§ 6. A ddylit ti ddim llawenhâu gan hynny, wrth feddwl fod yr Ieſu yn dyfod i'th wared oddiwrth y pethau hyn? I fod ef yn dyfod, i atteb dy holl ddymuniadau, pa rai a oſododd efe yn dy galon? I fod ef yn dyfod i'th ddwyn di i fŷd o burdeb a llawenydd, lle bydd i ti ei waſanaethu ef mewn modd mwy bywiog a rhagorol, a hynny yn ddiflino?

§ 7. O gristion, pa mor fynych y bu i ti daflu golwg hiraethlon tu a 'r porth dymunol, gan ewyllyſio croeſi y môr garw annymunol a pheryglus, ac fydd rhyngot a'r hyfryd wlâd? Pan welodd dy Arglwydd yn dda ymoſtwng i ymweled â'th enaid mewn ordinhadau ar y ddaiar, er nad oedd ond megis dros ennyd, O! fel yr oeddit yn bendithio yr amſer, a'r llê, gan edrych arno (er ei fod ar lawer o gyfrifon yn annymunol) yn borth y nêf ei hun (k)? A yw yr olwg ar y porth mor ddymunol, ac oni fydd yn llawer mwy dymunol i fyned i mewn iddo? A yw cyfeillach Ieſu yn beth mor rhagorol dros awr, ac oni fydd yn anfeidrol fwy o ddedwyddwch i ti gael preſwylio gydag ef dros byth? 'Ti a elli yn addas ddywedyd, Arglwydd, pan breſwyliwyf gyda thi mi a gâf fyw mewn ſanctteiddrwydd, canys tydi dy hunan ydwyt ſanctteiddrwydd; mi a gâf fyw mewn cariad, canys cariad ydwyt ti; mi a gâf fyw mewn llawenydd, canys tydi ydwyt ffynnon o lawenydd, fel ac yr ydwyt yn y Tâd a'r Tâd ynnot ti (l). Bydded i ti roeſawi ei ddyfodiad ef gan hynny, i'th gymmeryd ymaith ar dy air, ac i gyflawnu ei addewid ar ba un y gorphwyſodd dy enaid yn fynych gyda heddwch a phleſer nefol, ſef, Y Tâd, yr wyf yn ewyllyſio fod y

(i) Salm lv. 6. (k) Gen. xxviii. 17. (l) Ioan xvii. 21.

rhai a roddaiſt i mi, breſwylio llê yr wyf fi, fel y gwelont ſy ngogoniant a roddaiſt i mi (m).

§ 8. Ac yſtyried hyn, ti a elli yn ſicr ddywedyd pwy gynta y delo Criſt, goreu oll. Beth er i'th ddyddiau gael eu byrhâu? Beth er i ti orfod gadael llawer o bleſerau heb eu profi, a llawer o fwriadau heb eu dibennu? A yw e ddim yn ddigon fod yr hyn ſydd wedi ei dynnu oddiwrth y bywyd marwol hwn, yn cael ei 'chwanegu at y bywyd tragywyddol a gogoneddus; ac i ti gael treulio 'r dyddiau a'r blynyddoedd hynny gyda Chriſt, ac yn ei waſanaeth ef yn y nefoedd, y rhai pe amgen y gawſit dreulio gydag ef, ac iddo, ar y ddaiar, mewn modd llawer mwy amherffaith.

§ 9. Rhaid i ti olygu, nid yn unig fywyd yr enaid ar ol marwolaeth eithr fod amſer yn dyfod yn ſuan, pan gaiff y corph ei uno â hi drachefn. Canys pan mae Criſt yn ſôn am ei ddyfodiad i farn, fe ddywed, *Wele yr ydwyf yn dyfod ar frys.* Ac wrth gymmaru yr amſer rhwng angau a barn, a'r tragywyddoldeb gwynfydedig ſydd i ganlyn, neu â'r oeſoedd a aethant heibio er pan ddechreuodd yr haul i feſur allan dyddiau a blynyddoedd i'r ddaiar, fe ymddengys, nad oes ond ychydig o amſer i'r corph fod mewn cyflwr gwahanedig. Gan y bydd dyfodiad Criſt i farn yn dra buddiol yn yr yſtyr hyn hefyd, oni fydd iti ganu 'th ran yn yr *anthem* hon, gan ddywedyd, *Amen, felly tyred, Arglwydd Ieſu!*

§ 10. GWIR yw O griſtion, fe fydd yn *ddŷdd arſwyaus.* Dŷdd, ym mha un y caiff natur ei thaflu i'r fath gymmyſgedd, nas gall neb ei oſod allan etto: Canys nid yw daiargrynfau, mynyddoedd tanllyd, difrodaeth dinaſoedd trwy dân yſol, neu wledydd yn cael eu gorchguddio gan anfonydd neu foroedd, ddim i'w cyffelybu i'r dŷdd ofnadwy hwnnw; y prŷd hynny y nefoedd a ânt heibio gyd â thwrwf

(m) Ioan xvii, 24.

â thwrwf, a chan loſgi a ymollyngant, a'r ddaiar a'r gwaith a fyddo ynddi a loſgir (n). Y dŷdd hwnnw y ffu holl natur mewn ſyndod oddiwrth wyneb y barnwr mawr (o), ac fe fydd gweiddi mawr y prŷd hynny, yn llawer mwy nac a glywyd yn ngwlâd yr *Aipht*, pan nad oedd dŷ ar nad ydoedd ynddo un marw (p). Fe all fod dy *gnawd* yn barod i grynu wrth feddwl am y pethau hyn, etto diammau fod dy yſpryd yn llawenhâu yn Nuw yr iachawdwr (q). Ti a elli yn gyfiawn ddywedyd, wele deued y dŷdd hwnnw, ynghŷd â'i holl ddychrynfëydd! Ië fel y criſtianogion y mae yr apoſtol yn ſôn am danynt (r), ti a elli fryſio at ddyfodiad dŷdd ofnadwy goleu y farn gyffredinol. Canys fe ddaw dy Arglwydd y prŷd hynny, i gyfiawnhâu yr amrywiol bethau ac oeddynt o'r blaen yn dywyll yn nghamrau rhaglunaeth, ac am eu bod yn dywyll yr oeddynt yn cael eu cablu. Fe a ddaw, i amlygu ei ardderchowgrwydd, gan ddiſgyn o'r nêf gyd a bloedd a llêf yr Arch-angel ac ag udgorn Duw (s); gan eiſtedd ar orſeddfaingc anfeidrol, ragorach na gorſeddfeingciau tywyſogion daiarol na nefol, wedi ei wiſgo a'i ogoniant ei hun a'r Tâd (t), a chwedi ei amgylchu ac anneirif lu o weiſion diſglair, fe fydd yn ogoneddus iawn yn ei ſaint ac yn rhyfeddol yn y rhai oll ſy 'n credu (u). Fe fydd i'w elynion gael eu dwyn i'r amlwg hefyd, i addurno ei fuddugoliaeth. Fe fydd y ddraig yno i'w gweled yn ymdreiglo yn y llŵch, ac yn cael ei ſathru ganddo ef a'i holl weiſion: Yno bydd y rhai a'i barnaſant ef unwaith, yn crynu ger ei fron; a'r rhai a fu yn plygu eu gliniau mewn gwatwor, a fyddant mewn gwyllt anobaith yn gweiddi ar y mynyddoedd a'r creigiau i ſyrthio arnynt, a'u cuddio rhag wyneb *oen Duw* (x), yr hwn a

(n) 2 Pedr iii. 10, 12. (o) Dat. xx. 11. (p) Eccſod. xii. 30.
(q) Luc i. 47. (r) 2 Pedr iii. 4. (s) 1 Theſ. iv. 16.
(t) Luc. ix. 26. (u) 2 Theſ i. 10. (x) Dat. vi. 16.

ddygaſant ymaith unwaith i'r *lladdfa* yn y modd mwyaf annrhugarog.

§ 11. O GRISTION, onid yw 'th galon yn llammu wrth feddwl am hyn oll? Ac onid ydwyt ti yn barod yn awr, tra yr ydwyt yn darllain y llinellau hyn, i ddechreu y floedd o fuddugoliaeth, yn yr hon y byddi yn uno y prŷd hynny? Y mae Criſt yn diſgwyl fod dy feddyliau yn ymdderchafu, ac yn cael eu heffeithio trwy olwg ar ei fuddugoliaeth ef; ac y mae efe yn foddlon ar yr un prŷd i ti gofio am y *rhan berſonol* a fydd i ti dy hun, yn ngogoniant a *llawenydd* y dŷdd gwynfydedig hwnnw: Ac y mae efe yn awr yn golygu yn raſol, yr hyn a gyflawna ei allu a'i gariad er dy iechydwriaeth. A beth nis gall ei wneuthur? Fe a ddaw i dorri barrau 'r bêdd, ac i adfywio dy farwol gorph. Gwîr yw, a rhaid yw i'th gorph orwedd yn y prîdd, ac aros yno dros amſer, fel tyſtiolaeth o anfoddlonrwydd Duw am bechod; ïe 'r pechod cyntaf a wnaed yn ei erbyn ef, mewn canlyniad o ba un, ni ddiangc neb o'i anwylaf blant. Ond y dŷdd hwnnw ti a gei gluſt *newydd* i glywed llêf mâb Duw, a llygad i weled ei ogoneddus ymddangoſiad; a thi a lewyrchi fel yr haul (y) pan gyfodo mewn awyr glîr, yr hwn ſydd fel gŵr priod yn dyfod allan o'i yſtafell (z). Fe a wiſgir dy enaid megis â newydd ddillad, i'r diben o harddu ei ddyfodiad gogoneddus; fe a'th wiſgir, nid â bratiau marwol, eithr â gwiſgoedd gogoniant: Canys efe a gyfnewidia ein cyrph gwael ni, ac a'n gwna yr un ffurf a'i gorph gogoneddus ef ei hun (a). A phan fyddech fel hyn wedi 'th frenhinol wiſgo, fe a'th *anrhydedda* di, ynghŷd â'i holl bobl, ger bron yr holl fydoedd. Ti a elli yn awr o boſſibl gael dy waradwyddo, a dy euogfarnu am bethau ac y mae dy enaid yn eu ffieiddio: Eithr y pryd hynny Criſt a ddŵg allan dy gyfiawnder fel y goleuni,

(y) Mat. xiii. 43. (z) Salm xix. 5. (a) Phil. iii. 21.

leuni (b), a'th iechydwriaeth fel lamp yn lloſgi (c). Y prŷd hynny, er cael dy ddiyſtyru gan ddynion, Duw a'th addef yn eiddo iddo ef; ac er cael dy gyfrif fel yſgubion y bŷd, a ſorod pob peth, Ieſu a ddengys dy fod yn werthfawr yn ei olwg ef fel ei dryſor, yn y dŷdd y gwnelo briodoledd (d). Pan fyddo ef yn goſod heibio holl annuwiolion y tîr fel ſothach (f), efe a 'th gyhoedda di yn *gyfiawn*, ger bron dynion ac angylion; ac er torri o honot y gyfraith ddwyfol, ac felly gyfiawn haeddu cael dy euogfarnu, etto gan dy fod wedi 'th wiſgo â chyfiawnder dy brynwr mawr, ſef y cyfiawnder ſydd o Dduw trwy ffŷdd (g), fe fydd i gyfiawnder ei hunan i'th ryddhâu, ac i gyduno â thrugaredd i roddi i ti goron y bywyd (h). Criſt a'th addef di ger bron dynion ac angylion (i); a chan dy gyhoeddi di yn wâs da a ffyddlon, fe a ddywed, *Tyred i mewn i lawenydd dy Arglwydd* (k): Efe a lefara am danat ti gydag anwylder, fel ei frawd, ac a edrych ar y caredigrwyd a ddangoſodd neb tuag attat fel peth a ddangoſwyd iddo ef ei hun yn berſonol (l). Y prŷd hynny y bydd i ti, O griſtion, yr hwn oeddit o boſſibl yn eiſtedd yn y *llê gwaelaf*, yn ein cymmanfaoedd ni ar y ddaiar, yr hwn nad oedd neb o gyfoethogion a gwŷr mawrion y bŷd yn ymoſtwng i edrych arnat, nac yn ymddiddan â thi, gael dŷ alw i eiſtedd gyda *Chriſt ar orſeddfaingc barn*; ac i gydgyhoeddi barn ar ddynion ac angylion gwrthryfelgar.

§ 12. Ond nid yw y fuddugoliaeth honno i ddarfod mewn un dŷdd: Eithr pan gyfodo 'r barnwr oddiar ei orſedd, a derchafu i lŷs ei dâd, fe â 'r *gwynfydedigion* gydag ef; y prŷd hynny y cei di ym-

(b) Salm xxxvii. 6. (c) Eſay lxii. 1. (d) Mat. iii. 12.
(f) Salm cxix. 119. (g) Phil. iii. 9. (h) 2 Tim. iv. 8.
(i) Luc xii. 8. (k) Mat. xxv. 21. (l) Mat. xxv. 40.

ymmŷſg eraill dy dderchafu gyda 'th iachawdwr at ei dâd ef a'th dâd ditheu, at ei Dduw ef, a'th Dduw ditheu (m). Ti gei ymddangos yn y *Jeruſalem newydd*, yn y ddelw newydd ogoneddus a dderbyniaiſt; yn gyfattebol i ba un, fe fydd yn ddiammau ragorol ddiwygiad ar gynneddfau y meddwl: A thi a gei breſwylio dros byth yn y ddinas honno, ym mha un y cei *ddigonolrwydd llawenydd ger bron Duw* (n). Ti a gei ymadael â'r bŷd a ymollyngodd, a myned i'r nefoedd newydd a'r ddaiar newydd, llê y mae cyfiawnder yn cartrefu byth (o). Yno cei weled rhîſ etholedigion Duw yn llawn; ac happuſrwydd pob un o honynt yn gyflawn. Yno yr ymddengys yr holl gynnulleidfa o flaen Duw, fel y briodaſferch gwraig yr oen (p), ar yr hon yr edrych ei nefol briod gyda phleſer annhraethadwy, gan addef nad oes arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw (q); canys hi a fydd y prŷd hynny y fath un, ac y bwriadodd efe ei gwneud, pan roddodd ei hun droſti i'w phrynu hi i Dduw â'i briod waed (r). Fel hyn y bydd i'r ſaint fod dros byth gyd a'u gilydd, a chyda 'r Arglwydd (s), heb ddim cyfnewidiad ŷr oeſoedd tragywyddoldeb. Fe fydd eu dedwyddwch yr un, a'r blâs arno yr un, neu yn hytrach yn *cynnyddu*, fel y bo eu heneidiau yn tynnu 'n nês nês atto ef, yr hwn yw 'r ffynnon o bob happuſrwydd, a chanolbwynt anfeidrol berffeithrwydd.

§ 13. Yn awr edrych o'th gwmpas, a dywed, A oes unrhyw beth ar y ddaiar, o blegid ac er mwyn yr hwn y gellit weiddi, *Arglwydd, oeda'r cyfnewidiad?* A oes un peth ac all dy attal i ddywedyd, *Amen, tyred ar frŷs!*

MYFYRDOD

(m) Ioan xx. 17. (n) Salm xvi. 11 (o) 2 Pedr iii. 13.
(p) Dat. xxi. 9. (q) Eph. v. 27. (r) Dat. v. 9. (s) 1 Theſ. iv. 17.

Myfyrdod *a Gweddi y Criſtion, calon pa un ſydd yn cynnheſu wrth olygu 'r tragywyddol wynfyd.*

'O ARGLWYDD bendigedig! Y mae fy 'enaid yn ennyn ynnof, trwy olwg ar y 'dedwyddwch ſydd yn ol i'th bobl, ac yn der-'chafu attat ti yn y ffiam. Ti a ddywedaiſt, 'dy fod yn dyfod ar frys: Ac yr wyf finnau 'yn atteb yn llawn gan ddywedyd, *Amen, tyred 'Arglwydd Jeſu* (t). *Tyred*, canys y mae arnaf 'hiraeth am gael darfod â'r bŷd hwn; i gael 'darfod â'i feichiau, ei orthrymderau a'i faglau! '*Tyred*, canys yr wyf yn hiraethu am gael eſgyn 'i'th breſennoldeb i gael gweled dy lŷs uchod!

'O Ieſu bendigedig, y mae angau fel wedi ei 'gyfnewid, a'i yſtyried yn y goleu hyn. Ni welaf 'mo *frenin y dychryniadau* mwy, gan fy mod mor 'agos i frenin *grâs a gogoniant*. Yr wyf yn cly-'wed trwſt dy draed gyda llawenydd yn dyfod nês 'nês: Tyn ymaith y llen pan welech yn ddâ! Agor 'ddryſau fy ngharchar, fel y delo 'm henaid at-'tat, gan daflu ei hunan wrth dy draed yr *Ieſu*, 'yr hwn er nad ydwyf yn ei weled, ydwyf yn ei ga-'ru, a chan gredu ynddo, yr ydwyf yn llewenhâu, 'â llawenydd anrhaethadwy a gogoneddus (u)! 'Tydi, O Arglwydd, a ddangoſi i mi lwybr y by-'wyd; dy law a'm tywys i'r drigfan ddedwydd, i 'fwynhâu digrifwch tragywydd ar dy ddeheulaw (x). 'Ti a roddi i mi drigfan ymmŷſg dy ffyddlon wei-'ſion, yſprydoedd pa rai ſydd yn awr gyda thi tra 'mae eu cyrph un cyſgu yn y llŵch. Fe fu llawer o 'honynt fy nghydymdeithion yn dy lafur waith 'yma, ac yn amynedd a chyſtudd dy deyrnas (y); 'ie fy anwyl gydymdeithion a'm brodyr. O dang-'os i mi, O Iachawdwr, pa mor ogoneddus a hap-'pus y gwnaethoſt hwynt. Dangos i mi i ba ryw ddull

(t) Dat. xxii. 20. (u) 1 Pedr i. 8. (x) Salm vi. 11. (y) Dat. i. 9.

'ddyll a bywyd gwell y dygaiſt hwynt, y rhai ydym
'ni yn alw y *meirw!* Ym mha ryw waſanaeth
'gwell ac ehang y goſodaiſt ti hwynt, fel y gallwyf
'i'th foliannu yn well nag y gallaf yr awr hon, am
'dy ddaioni iddynt. Ac O Arglwydd! dyro i mi
'ran o'u gwaith ac o'u bendithion, ac i allel codi
'cân o gariad ac o ddiolchgarwch, fel ac y maent
'hwy ſydd yna ger dy fron.

'O fy mrhynwr bendigedig! fe ſydd i'm henaid
'ymeſtyn am obaith gwell a mwy gogoneddus, hyd
'yn oed yn y nêf; gan ddiſgwyl am dy ymddango-
'ſiad olaf. Yno y bydd i mi hiraethu yn fwy nac
'yr wyf yn awr, am gael gweled dy ragluniaeth yn
'cael ei hamddiffyn, ac am amlygiad o'th fuddugoli-
'aeth; i weled llŵch dy weiſion yn cael ei adfywio,
'ac angau, eu gelyn diweddaf hwy a thithau, yn cael
'ei lyngcu i fynu mewn buddugoliaeth (z). Mi a
'fyddaf yn hiraethu am yr anrhydedd mwy ac yd-
'wyt wedi ei fwriadu i mi, a'r dedwyddwch per-
'ffaith i ba un y dygi dy holl bobl. *Tyred, Arglwydd*
'Ieſu, tyred ar frys, a fydd yn ymgymmyſgu â cha-
'niadau paradwys, ac yn ſwnio ar dafodau myrddi-
'wnau o'th ſeintiau, pa rai a blannodd dy râs yno.

'Ond O fy Arglwydd, derbyn yn y cyfamſer,
'derbyn y clôd ac y mae fy nghalon ddiolchgar am
'roddi i ti, dan deimlad o'r gobaith gogoneddus a
'roddaiſt ynnof! Tydi a oſodaiſt y llawenydd hwn
'ynnof, ac a gyfodaiſt yn fy enaid y fath chwenny-
'chiad gogoneddus; pe amgen mi a fuaſwn yr awr
'hon, yn ymdreiglo ym mhleſerau natur a thega-
'nau y bŷd hwn, ac yn edrych gyda dychryn ar yr
'awr, pa un ſydd yn awr yn wrthddrych o'm dy-
'muniad mwyaf gwreſog.

'O bydd gyda mi bob amſer hyd ddiwedd y by-
'wyd marwol hwn! A rhô' nerth i mi wneuthur
'dy orchymmynion tra bwyf yn diſgwyl am dy
iechydwriaeth!

(z) 1 Cor. xv. 26, 54.

'iechydwriaeth! Bydded fy llwynau wedi eu hamgylch wregyſu, a'm lamp yn lloſgi (a); a bydded fy nghluſtiau yn agored i wrando am yr arwydd hyfryd o'th ddyfodiad: A phan ddelech, bydded i'm henaid redeg allan i'th gyfarfod gyda phleſer, ac i gael ei nerthu trwy farwolaeth i ddirbyn yr amlygiadau gogoneddus hynny, dan barai nis gallai y natur farwol hon ſefyll.' Canniattâ yr hyn wyf yn awr yn ei ofyn gennyt er mwyn teilyngdod a haeddiant gwaed fy Arglwydd a'm Iachawdwr Ieſu Griſt. Amen.'

PENNOD XXX.

Y Criſtion yn anrhydeddu Duw trwy ei ymddygiad ym Marwolaeth.

§ 1. FY anwyl ddarllenydd, mi a ymdrechais fel hyn i'th arwain trwy yr amrywiol amgylchiadau, pa rai ſydd yn ſicr o gymmeryd lle yn y fuchedd ddynol a chriſtianogol; am hynny na fydded i ti edrych arnynt yn bethau dychymmygol yn unig. Ac mi a allaf ddywedyd yn llawen ac mewn gwirionedd, i mi nodi allan y llwybr yr hwn a gerddais i fy hun, a'r hwn wyf yn ddymuno ei ganlyn hyd y diwedd. Yr wyf wedi ymddiried bywyd tragywyddol fy enaid fy hun, ar y ſylfaen, i'r hon i'th gyfarwyddais ditheu. Yr hyn a oſodais ger dy fron fel yr achos mwya 'i bwys mewn bywyd, yw yr unig beth a ddymunwn i fy hun i'w wneuthur fy ngorchwyl pennaf: A'r pleſer mwyaf yr

(a) Luc xii. 35.

yr wyf yn ddiſgwyl neu yn ddymuno yn yr hyn ſydd yn ol o'm pererindod ar y ddaiar, yw yr hyn y bum yn dy annog di i'w geiſio, ac yn ymdrechu i'th gynnorthwyo i'w feddiannu. Y fath gariad at Dduw, y fath fywiogrwydd yn ei waſanaeth, y cyfryw olwg hyfryd ar y pethau ſydd tu draw i'r bêdd, ydynt yn fy marn i (Duw 'n dŷſt) yn fwy o wynfydedigrwydd nac un peth arall ar y ddaiar: Ac ni fynnwn i er deng mîl o fydoedd, golli fy rhan yn y pethau hyn, neu i ymfoddloni i golli y pleſer ac a roddant, hyd yn oed tra bwyf yn preſwylio yn y babell hon.

§ 2. Yr wyf yn gobeithio yn oſtyngedig y bydd i'r oriau a dreuliech yn myfyrio ar y pethau eglur hyn ac hawdd eu deall, dan fendith Duw, i droi allan yn amſer buddiol mewn rhyw râdd i'th enaid; ac y byddant yn foddion naill ai i'th ddwyn i ffordd y bywyd a heddwch, neu ynte i'th adfywio fel y rhedech hi yn gyflymach. Fe fyddai yn llawenydd calon i mi pe gallwn fod o ddenfydd i ti hyd ddiwedd dy bererindod. Y mae un amgylchiad etto i ddyfod, ac y bydd i ti orfod myned trwyddi yn anffaeledig; amgylchiad yw honno ac y mae rhyw beth mor ddychrynllyd yn cydfyned â hi, fel nas gallaf lai na cheiſio dywedyd rhyw ychydig er mwyn dy gynnorthwyo ynddi; yr wyf yn meddwl am *ddyffryn tywyll cyſgod angau*. Yr wyf yn ewyllyſio 'n fawr, er mwyn anrhydedd dy broffes a chyſſur dy enaid, ac er mwyn bûdd a llawenydd y ſawl a fyddant byw ar dy ol, i ti allel *marw*, nid yn unig yn *ddiogel*, ond hefyd yn *anrhydeddus:* ac am hynny mi a geiſiaf ar fy ymadawiad, i roddi i ti rai hyfforddiadau pa fodd y dylai criſtion ymddwyn i 'r diben hyn. Yr wyf yn cyfaddeſ y gall rhagluniaeth drefnu amgylchiadau dy farwolaeth yn y fath fodd, ac na chaffech gyfleuſtra i ymddwyn yn ol yr hyfforddiadau a gâf fi yn awr oſod ger dy fron. Fe all rhyw

rhyw beth anniſgwiliadwy oddi allan, neu ynte oddi fewn, i'th chwildroi di i'r nefoedd megis *heb wybod i ti*; a thi a gei weled dy hun wedi myned yno yn hytrach trwy droſglwyddiad na thrwy farwolaeth. Y mae yn boſſibl i rym cyſtudd gael y fath effaith ar dy ddealldwriaeth, fel na bo i ti allel gwybod ym mha ryw amgylchiadau y byddych; ac o blegid hynny fe all dy farwolaeth ymddangos i ti yn beth mor rhyfedd, a phe baet yn marw yngha-nol iechyd; er fod eraill o'th amgylch yn gweled awr dy ymadawiad yn ſicr yn agoſhâu.

§ 3. Ond gan ei fod yn debygol ar y cwbl y bydd i ti gael ymadawiad mwy *teimladwy* o amſer i dragywyddoldeb; a chan fod cymmaint yn ymddi-bynnu ar dy ymddygiad yn amſer cyſtudd ac yn awr marwolaeth, rhô gennad i mi ſylwi ar rai hyfforddiadau eglur pa fodd y dylech ymddwyn ar y fath amſer, os bydd i Dduw ond rhoddi cyfleuſtra. Ni fydd ef ddim yn anaddas i ti ddarllain Pen. xxix, drachefn, pan deimlech arwyddion o ryw glefyd ofnadwy: Ac yr wyf yn gobeithio y bydd i'r hyn wyf yn ei ddywedyd o fendith i ti, gan fy mod yn profi ynnof dueddiad i lefaru wrthyt ti gyda 'r tyner-wch neillduol hynny ac ydym yn deimlo tuag at gyfaill pan ar ymadael; i ba un (gan nad ydym yn diſgwyl cael ymddiddan ac ef byth mwyach) yr ydym yn anfon allan ein *holl galon* ym mhob gair.

§ 4. Mi a'th gynghoraf di gan hynny, yn y llê cyntaf, i ymdrechu i ddanfon ymaith bob rhyw ofalon bydol mor gynted ac y bo 'n boſſibl, trwy ſefydlu a threfnu dy feddiannau a'th negeſau amſerol mewn prŷd; a hynny yn y modd mwyaf rheſymmol a chriſtianogol ac y gellych. Mi a ddy-munwn na bo i ddim o'r natur hyn *ffwdanu dy feddwl* pan fyddech leiaf abl i'w ddioddef; nac i beri cynnen a gofid ymmŷſg y ſawl a gaffo 'th etifedd-iaeth. Gwnâ yr hyn a fyddech gêr bron Duw yn

edrych

edrych arno y peth *mwyaf cyfiawn*; a'r hyn a fyddech yn cael llê i gredu y fo mewn gwirionedd yn rhyngu ei fodd ef. Trefna 'th achoſion yn y modd mwyaf doeth a mwyaf ſicr ac ſy 'n boſſibl; ac yna edrych ar y bŷd a'i ofalon fel llê nad oes gennyt ti ddim neges ynddo, mwy na 'r fawl ſydd wedi marw; oddeithr i ti allel gwneuthur rhyw ddaioni i'r trigolion ſydd ynddo, naill ai trwy air neu weithred, tra fyddech yn teithio tuag adref.

§ 5. Mi a'th gynghoraf hefyd fel y byddech yn barottach i ymddangos ger bron Duw yn y farn, i edrych yn ddifrifol ym mha gyflwr y mae 'th enaid anfarwol. Cofia mae peth mawr yw ymddangos ger bron yr Arglwydd; canys rhaid i ti fefyll o'i flaen ef, nid fel ymbiliwr wrth orſeddfaingc ei râs ef, eithr o flaen gorſeddfaingc barn, yn yſpryd noeth, a'th amſer o brofiad wedi darfod, a'th gyflwr tragywyddol i gael ei fefydlu yn y fan. Ymoſtwng o newydd ger bron yr Arglwydd mewn duwiol driſtwch, o blegid holl amherffeithrwydd dy fuchedd, er i ti yn gyffredinol roddi dy fywyd i w waſanaeth ef. Ymbil am drugaredd Duw o newydd yn ol ei addewid yn y cyfammod gràs yn *ngwaed Criſt*, trwy yr hwn yn unig y mae trugareddau yr Arglwydd yn dylifo. Bydded i ti roddi dy hun o newydd i Dduw, gan fod yn foddlon i w waſanaethu ef, fel y bo da yn ei olwg, pa un bynnag ai yn y bŷd hwn, ai yn yr hwn a ddaw. A chan yſtyried dy bechaduruſrwydd dy hun ar y naill law, a daioni a doethineb Duw ar y llaw arall, galw ynghŷd holl nerthoedd dy enaid i ddioddef hyd ac y bo 'n boſſibl pa beth bynnag a ofodo ei law geryddol ef arnat ym mhellach, ac i dderbyn yr ergyd diweddaf fel un a fyddai wedi bwriadu i ymoſtwng hyd yr eithaf i dàd gogoneddus yr yſprydoedd.

§ 6. Pa beth bynnag a ddioddefech, ymdrecha i ddangos dy hun yn ſampl o amynedd. Bydded i'r

gràs

gràs hwnnw gael ei berffaith waith (a); a chan nad oes ond ychydig gan y cyfryw ràs rhagorol i'w wneuthur mwyach, bydded iddo ddibennu dy fywyd mewn modd anrhydeddus. Na fydded iti ddywedyd un gair grwgnachlyd; ac i'r diben na bo hynny, gwilia ar bob meddwl: A phan bo unrhyw anfoddlonrwydd yn cyfodi ynnot, edrych trwy ffydd ar *Grift croeſhoeliedig*, a gofyn i'th galon, 'onid oedd y *groes*, ar yr hon y bu efe farw, yn llawer mwy poenus na'r *gwely* ar ba un yr ydwyf fi yn gorwedd? Onid oedd ei ſefyllfa ef, ymmŷſg gelynion gwaedlyd, yn anfeidrol fwy ofnadwy na 'm hamgylchiad i, ymmŷſg cynnifer o gyfeillion tyner ofalus a ſerchog? Oni phwyſodd baich trwm fym hechodau i arno ef yn llawer trymmach nac y mae y cyſtuddiau hyn yn pwyſo arnaf fi? etto efe ddioddefodd y cwbl oll fel oen a arwainwyd i'r lladdfa (b).' Bydded i goffadwriaeth o'i ddioddefaint ef feluſu'th orthrymderau di; îe beri i ti lawenhâu pan fyddech yn cael dy alw i ddwyn y groes, dros ychydig cyn cael o honot wiſgo 'r goron. Cyfrif hyn yn bob llawenydd, ſef dy fod yn cael cyfleuſtra unwaith etto i anrhydeddu Duw trwy amynedd, pa un ſydd yn awr megis ar ei gorchwyl diweddaf, ac a ddertydd o boſſibl ym mhen ychydig o oriau mewn cyflawn wynfydedigrwydd tragywyddol. Ac yr wyf yn gobeithio y bydd i'r pethau hyn, nid yn unig ddiſtewi pob rhyw achwyniadau nwydwyllt ynnot, eithr i lanw 'th enau o *foliant* i'r Arglwydd; ac y bydd i ti lefaru wrth bawb o'th amgylch, nid am ei gyfiawnder yn unig, ond hefyd am ei ddaioni. Mi a hyderaf y bydd i ti amlygu dy lawenydd tu fewnol yn y cyfryw fodd, ac y gellych roddi eſponiad bywiol ac adeiliadol o eiriau yr Apoſtol, pan y mae 'n dywedyd *fod gorthrymder yn peri dioddefgarwch*; *dioddefgarwch brofiad*; *a phrofiad obaith*; *y cyfryw obaith ac ni chywilyddia tra*

(a) Iago i. 4. (b) Eſay liii. 7.

tra mae cariad Duw wedi ei dywallt ar lêd yn ein calonnau ni, trwy yr yſpryd glân yr hwn a rodded ini (i).

§ 7. Ac yn awr, fy anwyl gyfaill, *yn awr* yw yr amſer, pan ddiſgwylir iti mewn modd enwedigol i ddwyn *tyſtiolaeth amrhydeddus* am werthfawrogrwydd *Crefydd.* Dywed gan hynny, yn gyſtal ac y gellych, wrth bawb o'th gwmpas (canys nis gelli byth oſod allan yn gyflawn) pa ryw gyſſur a chynnorthwy a gefaiſt ynddi. Mynega iddynt pa fodd y bu i Grefydd oleuo arnat yn yr amgylchiadau tywyllaf mewn bywyd: A dywed, fel ac y mae hi yn dy heddychu di ac angau, fel ac yr ydwyt yn ei weled ef yn agoſhâu. Yn yr amſer hynny fe fydd i'r hyn a ddywedech ymddangos yn beth o fawr bwys i bawb o'th amgylch; ac ynghanol dy wendid, trwy ba un y byddi yn ymorcheſtu i lefaru, fe fydd i ti gael gwrandawiad tyner, aſtud, a pharchus. Wrth yſtyried y pethau hyn, pan fo amſer dy ymddattodiad yn agoſhâu, bydded iti anadlu allan dy orfoledd mewn modd difalch a rhŷdd, os bydd i ti y prŷd hynny deimlo (fel yr wyf yn gobeithio y bydd) dedwyddwch a llawenydd ſanctaidd yn yr Arglwydd. Bydded i ti o leiaf amlygu dy dawelwch a'th heddwch tu-fewnol, os bydd dy enaid y prŷd hynny yn dawel ac yn heddychol, fel y bo i eraill gael eu hannog i rodio 'r ffordd ac ſydd yn arwain i'r fath ddiwedd happus. Mynega i bawb fel yr wyt yn teimlo gwagder y bŷd hwn, fel y bo iddynt ddyſgu ei garu ef yn llai: Dywed hefyd, pa faint o gynnorthwy ſylweddol ydwyt yn ei dderbyn trwy 'r efengyl, fel y delont i'w gwerthfawrogi hi yn fwy; canys nis gallant lai na gwybod y bydd yn rhaid iddynt hwythau orfod gorwedd ar welu marwolaeth, ac felly i ſefyll mewn diffyg o'r holl gynnorthwy, ac a fo 'n boſſibl i'r efengyl ei hun i roddi iddynt, yn yr awr honno.

§ 8.

(c) Rhuf. v. 3, 4, 5.

§ 8. Ac er mwyn dwyn ymlâen argyhoeddiad yn fwy, gorchymmyn i bawb o'th amgylch yn y modd mwyaf ſyml, am iddynt dreulio eu bywydau yn ngwaſanaeth *Duw*, ac i lywodraethu eu humain yn ol egwyddorion gwîr Grefydd. Y mae 'n boſſibl dy fod yn cofio i *Joſua* a *Dafydd*, ynghŷd a dynion da eraill, wneuthur felly, pan yr oeddent yn gweled eu diwedd yn agoſhâu. Nis gelli wybod pa ryw argraff a all rhybuddion cyfaill neu rïeni wrth farw, gael ar y ſawl ac oeddynt o'r blaen yn diyſtyru yr hyn oll a gafodd ei ddywedyd wrthynt gennyt ti, a chan eraill. O leiaf, prawf beth a ellych wneuthur, ac wrth farw, ymdrecha i ogoneddu Duw ac achub eneidiau; cais hau hâd dedwyddwch a daioni yn y bŷd, llê na bydd î ti gael medi mwy: Ac y mae yn boſſibl iddo dyfu yn gynhauaf ffrwythlon, pan ſo 'th gorph di 'n cael ei orchguddio gan dywarch; ac os amgen, fe fydd dy ymdrechiadau yn gymmeradwy gan Duw: Ac fe fydd i'r angylion a ſo o gylch dy wely, yn barod i dderbyn dy enaid, edrych y naill ar y llall gyda boddlonrwydd, gan ddywedyd, 'Dyma beth yw *marw fel criſtion*, 'a gwneud iawn ddefnydd o farwolaeth.'

§ 9. Ac yn dy ymddiddan diweddaf â'th gydgreaduriaid, pwy bynnag a ddygo rhagluniaeth yn agos attat, bydd ofalus i ddywedyd wrthynt, pwy mor drwadl a hyfryd yr wyt yn pwyſo, nid ar dy *haeddiant* a'th *uſudd-dod dy hun*, eithr ar yr hyn a *wnaeth* ac a *ddioddefodd dy brynwr* mawr dros bechaduriaid. Dangos i bawb dy fod yn marw megis wrth *droed y groes:* Ac ni fydd dim yn fwy cyſſurus i ti dy hun, na dim yn fwy addyſgiadol i eraill. Bydded enw 'r Ieſu gan hynny yn dy enau di tra y gellych ei lefaru; a bydded yn dy galon pan na ellych ei lefaru mwy, ac ymdrecha i fod y weithred ddiweddaf o eiddo 'th enaid tra yn y corph, yn weithredo ffŷdd oſtyngedig yn Ghriſt. Dere at

D duw

Dduw trwyddo ef; dôs fel o'r tu fewn i 'r llen, wedi 'th daenellu megis o'r newydd a gwaed y taenelliad. Y mae yn beth ofnadwy i'r fath bechadur ac ydwyt ti, fy nghyfaill criſtianogol, er cymmaint dy rinweddau, ſefyll o flaen y Bôd anfeidrol bûr a ſanctaidd, yr hwn a wybu dy holl ffyrdd a'th holl galon, a'r hwn ſydd yn berffaith hyſpys o bob rhyw gymmyſgedd o ammherffeithrwydd ac oedd yn cŷd-fyned â'th ddyledſwyddau goreu: Ond os myned y wnei yn enw 'r Ieſu, di gai brofi 'r ffordd yn ddiogel ac yn dra dymunol.

§ 10. Mi a ſylwaf etto unwaith ym mhellach, mae er mwyn meddiannu cyſſur yn awr marwolaeth, a chael dy gynnal tra fyddech yn tramwy y ffordd boenus a thywyll, anghênraid yw i ti gymmeryd gair Duw yn ffon yn dy law. Bydded i lyfrau a chyfeillion wneud eu gwaſanaeth diweddaf i ti yn awr. Galw attat, os yw 'n boſſibl, ryw griſtion profiadol, pa un a deimlodd allu gair Duw ar ei galon ei hun; a dyged yr yſgrythur, a thywyſed dy feddwl at rai o'r addewidion gwerthfawr hynny, pa rai fuant yn ymborth ac yn llawenydd i'w enaid ef ei hun. I'r diben hyn mi a geiſiaf oſod ger dy fron di yn y fan hon *gaſgliad* o rai o'r addewidion yſgrythurol, pob un o honynt ſydd yn fwy gwerthfawr na *miloedd o aur ac arian* (d). Ac er mwyn dangos pa mor werthfawr ydynt yn fy ngolwg i, mi a ddywedaf, mae fy nymuniad yw (os rhŷdd Duw gyfleuſdra) gael o honof glywed eu darllain i mi yn bwyllog ar fy ngwely angau, fel y gallwyf adnewyddu y blâs hyfryd, pa un a gefais arnynt lawer gwaith, diolch fo i'r Arglwydd. Bydded i'th enaid di a'm henaid innau gael eu gwneuthur yn dawel y prŷd hynny (pa beth bynnag allo fod terfyſg y natur anifeilaidd) tra fyddo Duw yn llefaru wrthym yn yr un modd ac y llefarodd ef wrth ei weiſion

(c) Salm cxix. 72.

weiſion gynt; neu yn y iaith trwy ba un y dyſgodd efe hwynt pa fodd i lefaru wrtho, a'i geiſio ef mewn amgylchiadau tra pheryglus.

§ 11. A all unrhyw annogaeth fod yn eiſiau tuag at beri i'r Criſtion fyned ymlàen yn llawen yn ei ffordd i'r nêf, pan y mae 'r Arglwydd yn dywedyd fel hyn, Nac ofna, canys yr ydwyf fi gyda thi; na lwfrhâ, canys myfi yw dy Dduw: Cadarnhâf di, cynnorthwyaf di hefyd, a chynhaliaf di â deheulaw fy nghyfiawnder (e). Ac nid dŷn yw efe i ddywedyd celwydd, na mâb dŷn i edifarhâu: A ddywedodd efe, ac nis cyflawna? A lefarodd efe, ac oni chywira (f)? Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm hiechydwriaeth, rhag pwy yr ofnaf, yr Arglwydd yw nerth fy mywyd, rhag pwy y dychrynaf (g)? Y Duw hwn yw ein Duw ni, byth ac yn dragywydd: Efe a'n tywys ni hyd angau (h.) Am hynny, er rhodio o honof trwy lynn cyſgod angau, nid ofnaf niwaid; canys yr wyt ti gyda mi, dy wialen a'th ffon a'm cyſſurant (i). Am dy iechydwriaeth di y diſgwyliais, O Arglwydd (k). Eſtyn dy drugaredd i'r rhai a'th adwaenant, a'th gyfiawnder i'r rhai uniawn o galon; canys gyd â thi y mae ffynnon y bywyd, ac yn dy oleuni di y gwelwn oleuni (l). Dangoſi i mi lwybr bywyd, digonolrwydd llawenydd ſydd ger dy fron, ar dy ddeheu law y mae digrifwch yn dragywydd (m): Digonir fi pan ddihunwyf â'th ddelw di (n); canys mi a wn i bwy y credais, ac y mae yn ddiammau gennyf i fod ef yn abl i gadw yr hyn a roddais atto erbyn y dŷdd hwnnw (o). Am hynny llawenychodd fy nghalon, ac ymhyfrydodd fy ngogoniant; fy nghnawd hefyd a orphwys mewn gobaith (p). Canys os ydym yn credu farw *Ieſu*, a'i adgyfodi, felly y rhai a hunaſant yn

(e) Eſay xli. 10. (f) Num. xxiii. 19. (g) Salm xxvii. 1.
(h) Salm xlviii. 14. (i) Salm xxiii. 4. (k) Gen. xlix. 18.
(l) Salm xxxvi. 9, 10. (m) Salm xvi. 11. (n) Salm xvii. 15.
(o) 2 Tim. i. 12. (p) Salm xvi. 9.

yn yr *Iefu*, a ddŵg Duw hefyd gyd ag ef (q).—— Yr wyf yn rhoddi i'm defaid fywyd tragywyddol (medd *Iefu* 'r bugail da) ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddŵg neb hwynt allan o'm llaw i (r). Hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i, cael o bob un ſydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragywyddol; a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dŷdd diweddaf (s). Na thralloder eich calon, yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynnof finnau hefyd: Yn nhŷ fy nhâd y mae llawer o drigfannau, pe amgen oni a ddywedaſwn i chwi; yr wyf fi yn myned i barottoi lle i chwi: Ac os myfi a âf ac a borottoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn ac a'ch cymmeraf chwi attaf fy hun, fel lle yr wyf fi, y byddech chwithau hefyd (t). Dôs at fy mhrodyr, dywed wrthynt, yr wyf yn derchafu at fy nhâd i a'ch tâd chwithau, at fy Nuw i a'ch Duw chwithau (u). Y Tâd, y rhai a roddaiſt i mi, yr wyf yn ewyllyſio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwynthau hefyd gyda myfi; fel y gwelont fy ngogoniant a roddaiſt i mi: Fel y byddo ynddynt hwy y cariad â'r hwn y ceraiſt fi a minneu ynddynt hwy (w).——A'r hwn ſydd yn tyſtiolaethu y pethau hyn ſydd yn dywedyd, yn wîr yr wyf yn dyfod ar frŷs. Amen. Yn wir tyred Arglwydd Iefu (x). O angau, pa le y mae dy golyn? O uffern pa le y mae dy fuddugoliaeth? Ond i Dduw y byddo 'r diolch yr hwn ſydd yn rhoddi ini y fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iefu Griſt (y).

§ 12. Fel hyn bydded i'r Duw hwnnw, pa un ſydd yn adnabod eneidiau ei blant yn eu cyfyngderau (z), yngolwg yr hwn y mae marwolaeth ei ſaint yn werthfawr (a), i'th gynnal di a minneu, pan fy

(q) 1 Theſs. iv. 14. (r) Ioan x. 28. (s) Ioan vi. 40.
(t) Ioan xiv. 1. 2. 3. (u) Ioan xx. 17. (w) Ioan xvii. 24. 26.
(x) Dat. xxii. 20. (y) 1 Cor. xv. 55. 57. (z) Salm xxxi. 7.
(a) Salm cxvi. 15.

fo natur mewn cyfyngder ac yn methu! Bydded iddo 'n cyfrif ni gyda 'r rhai happus hynny, ac a wnaethpwyd yn fwy na choncwerwyr yn angau! A bydded iddo dywallt arnom y cynnorthwyon hynny o eiddo 'i yſpryd ac a'n galluogo ni i anadlu allan ein heneidiau wrth ymadael â'r byd fel y canlyn; er methu o honom ni ddywedyd geiriau, na'u deall hwynt pe byddent yn cael eu darllain i ni! Bydded i ni allel myfyrio ar angau a barn gyda ſerchiadau addas, a thryſori *un weddi* yn ychwaneg erbyn amſer ofnadwy ein hymddattodiad! Ac O na bae i'r weddi hon, ynghŷd a'r holl weddiau eraill a ddanfonaſom erioed at orſedd grâs, ddyfod mewn coffadwriaeth ger bron Duw (c), yn y prŷd ac y bo 'n cnawd a'n calon yn pallu!

Myfyrdod a Gweddi addas i Griſtion pan fyddo ar ymadael â'r byd hwn.

'O ARGLWYDD, penllywodraethwr yr holl 'fydoedd, gweledig ac anweledig! Tydi 'wyt yn ben-arglwydd ar fywyd ac angau, ar ddaiar 'a nefoedd! Bendigedig y fo dy enw am i mi 'erioed gael fy nyſgu i ymofyn am danat: Wele 'fi unwaith yn ychwaneg yn tywallt allan fy enaid 'ger dy fron; daroſtwng dy raſol glûſt, O Dduw, 'a deled fy llêf yn gymmeradwy o 'th flaen.

'Fe ddaeth yr awr i ti 'm cymmeryd i ymaith 'o'r bŷd hwn, â pha un yr wyf wedi bod yn gyd-'nabyddus dros hîr amſer, ac i'm harwain i fŷd 'arall, pa un ſydd etto yn anadnabyddus i mi. 'Cynnorthwya fi, yr wyf yn attolygu arnat, i ym-'ddwyn yn y cyfnewidiad fel y gweddai i un o hâd '*Abraham*, yr hwn wedi ei alw gennyt ti i dderbyn 'etifeddiaeth, a ufuddhaodd, ac a aeth allan, er na

(c) Actau x. 4, 31.

'wyddai efe yn gwbl i ba lê yr oedd i fyned (d)
'ïe fel plentyn i *Dduw*, yn gwybod mae trwy ben-
'arglwyddiaethol râs, i fod yn rhyngu fodd ei dâd
'i roddi iddo ef y deyrnas (e).

'YR wyf yn cydnabod, O Arglwydd, fod y
'*ſentens* o farwolaeth, dan ba un yr wyf yn trengu,
'yn farn gyfiawn; ac yr wyf yn gweled dy ddoeth-
'ineb a'th ddaioni di, yn trefnu fy nhâith i fyned
'trwy y *dyffryn tywyll*, yr hwn ſydd yn awr o'm
'blaen. Nertha fi yn y ſiwrnau hon i'th anrhyd-
'eddu di, ac i harddu fy mrhoffes: Ac felly mi
'a'th fendithiaf am y loeſion trwy ba rhai y bydd i
'ti gael dy ogoneddu, a'r rhan farwol a phechad-
'urus hon o'm natur innau gael ei thorri ymaith.
'O dâd graſol, ni ewyllyſiwn ymadael a'th ddaiar,
'a'r tŷ hwn o glai, ym mha un y preſwyliais cy-
'hŷd ar ei hwyneb, heb roddi diolch i ti am yr holl
'helaeth ddaioni yr hwn a beraiſt i fyned heibio fel
'o flaen fy wyneb (f), yn fy holl daith trwy yr an-
'ial iſod. Mi a ewyllyſiwn â'm hanadl ddiweddaf,
'i ddwyn tyſtiolaeth am dy ffyddlon ofal am danaf,
'yr hwn yn ol dy air, *ni attaliaiſt addiwrthyf ddim*
'*daioni* (g). Yr wyf yn diolch i ti, O Dduw, am
'arbed fy mywyd hwn cyhŷd, er ei fod yn llawn o
'euogrwydd, yn ddiffrwyth, a chwedi eſfforffettio
'filoedd o weithiau: Ac am i ti ei gynnal trwy 'r
'fath helaeth gyfraniadau. Clôd i ti am wneuthur
'dechreuad fy môd mor gyſſurus yma. Diolch i
'ti, Arglwydd, am dy drugareddau i mi trwy 'r
'dyddiau a'r noſweithiau, trwy 'r miſoedd a'r blyn-
'yddoedd, pa rai ſydd yn awr wedi dirwyn i ben:
'Yr wyf yn diolch i ti am dy drugareddau i mi
'trwy fy mabandod, ynghŷd ag eraill a gyfrannaiſt
'yn ol llaw; am y cyfeillion dymunol a roddaiſt i
'mi yn nhŷ fy mhererindod, pa un bynnag ai byw

'ai

(d) Heb. xi. 8. (e) Luc xii. 32. (f) Eccſod. xxxiii. 19.
(g) Salm xxxiv. 10.

'ai marw ydynt yn awr; am yr holl gymmorth a
'dderbyniais oddiwrth eraill; ac am yr holl gyfleuſ-
'derau a roddaiſt i mi i wneuthur daioni i gyrph
'neu eneidiau fy mrodyr ymmyſg dynol-ryw. Dai-
'oni a thrugaredd yn ddiau a'n canlyniaſant i holl
'ddyddiau fy mywyd (h), ac y mae yn rheſymmol
'i mi gyfodi gyda diolchgarwch oddiar fy mwrdd,
'pa un a gafodd ei arlwyo gennyt ti â'r fath wledd-
'oedd cyfoethog a hyfryd; ac er hyn oll, ni bydd
'achos i mi driſtâu am fy mod yn gorfod gadael y
'pethau dymunol yma; canys, O Dduw, mi a wn
'fod dy drugaredd i bara 'n dragywydd. Ni wnâf
'gam â'th ffyddlondeb ac â'th ddaioni mor belled
'a meddwl, fy mod i yn darfod ac happuſrwydd,
'am fy mod yn ymadael â'r ddaiar. Yr wyf yn
'diolch i ti am fy nyſgu i olygu pethau gwell trwy
'dy Fab Iesu. Y mae holl alluoedd fy enaid yn
'dy fendithio, am i mi erioed glywed am ei enw a'i
'farwolaeth ef. Ac mi a ewyllyſiwn i'th addoli ac
'i ddiolch i ti mewn modd mwy rhagorol nac y
'gallaf tra yn y corph, am amlygiadau o gyfoeth
'dy râs ynddo ef; am ei addyſgiadau a'i ſiamplau;
'am ei wâed a'i gyfiawnder; ac am yr Yſpryd ben-
'digedig yr hwn a roddaiſt i mi, i dynnu fy ngha-
'lon bechadurus attat ti dy hun, a than rwymau dy
'gyfammod; ïe i rwymau 'r cyfammod hwnnw ac
'ſydd wedi ei luniaethu yn hollol ac yn ſier (i), a'r
'hwn, nis gall angau (er gwahanu fy enaid a'm
'corph yn awr) byth mo'u dattod. Yr ydwyf yn
'diolch i ti, O Arglwydd, am nad wyf yn marw
'mewn cyflwr anedifeiriol ac heb fy ail-eni; eithr i
'ti yn raſol i'm deffroi a'm hargyhoeddi; am i ti
'adnewyddu a ſancteiddio fy nghalon, ac am i ti
'trwy dy yſpryd weithio ynnof wîr ffydd ac edifeir-
'wch, ynghŷd â dechreuad o fywyd dwyfol. Diolch
'i ti am weinidogion ac ordinhadau, am ſabboth-

(h) Sâlm xxiii. 6. (i) 2 Sam. xxiii. 5.

'au a dyddiau fy ſacramentau, ac am yr ymborth[h]
'wythnoſol a miſol a gefais trwyddynt. Yr wy[f]
'yn diolch i ti am ffrwythau *gwlâd Canaan*, pa ra[i]
'a ddanfonaiſt i mi yn yr anialwch; ac am y rhai
'wyt yn awr yn ddanfon i mi ar lan yr *Iorddonen*.
'Diolch i ti am dy air, a'r addewidion mawr iawn
'a gwerthfawr ynddo ef, pa rai ſy fel *cordial* cynnes
'yn gwreſogi fy nghalon yn yr awr hon o oerfel-
'garwch natur. Tydi a roddaiſt addewidion o
'gynhaliaeth yn angau, o ogoniant ar ol hynny, ac
'o adgyfodiad y corph i fywyd tragywyddol. O
'fy Nuw, yr wyf yn eu hollol gredu hwynt oll, ac
'yn diolch i ti am danynt; ac er mor fawr a rhy-
'feddol ydynt, yr wyf yn diſgwyl am eu cyflawniad
'trwy *Ieſu Griſt*, yn yr hwn y maent oll yn Ie ac
'yn Amen (k). Cofia dy air wrth dy wâs, yn yr
'hwn a peraiſt i mi obeithio (l)! Mi a gyfammodais
'â thi, nid yn unig am bethau da 'r bywyd hwn,
'y rhai y dyſgodd dy gariad fi eu dibriſio mewn
'cymmariaeth, eithr hefyd am fywyd tragywyddol,
'yr hyn ſydd o rŷdd râs, trwy Ieſu Ghriſt ein Har-
'glwydd (m). Ac yn awr, canniattâ i mi allel ym-
'afaelyd yn fy hawl iddo, ac i orchymmyn fy yſ-
'pryd i law fy Arglwydd, canys ti a'i prynaiſt ef,
'O Arglwydd Dduw y gwirionedd (n). Dy eiddo
'wyf, cadw fi (o), a gwnâ fi yn happus! Ond a allaf
'fi ryfygu dywedyd, *dy eiddo di ydwyf?* O Dduw,
'gan ſefyll ar gyffiniau dau fŷd, mi a welaf bethau
'megis ac y maent, yn dy *breſennoldeb di* ac yn
'*ngoleuni tragywyddoldeb*. O pa mor anheilwng
'ydwyf fi i gael byw gyda ſeintiau ac angylion yn
'y gogoniant! Och! y mae gennyf achos i edrych
'yn ol gyda dyfn oſtyngeiddrwydd ar fywyd di-
'ffrwyth ac euog, trwy ba un yr haeddais i gael fy
'mwrw i lawr i uffern. Etto y mae gennyf yr un
'cyſſur

(k) 2 Cor. i. 20. (l) Salm cxix. 49. (m) Rhuf. vi. 23.
(n) Salm xxxi. 5. (o) Salm cxix. 94.

'cyſſur hwn i feddwl am dano, ſef i mi *ffoi at groes*
'*Criſt*; ac wele yr wyf yn awr yn dyfod atti o
'newydd. Fe fyddai 'r meddwl o ymddangos ger
'dy fron di, O Dduw, yn fy nghyfiawnder amher-
'ffaith fy hunan, fyrddiynau o weithiau yn waeth
'nag angau ei hunan. O Arglwydd! rhaid i mi
'ddyfod attat ti fel pechadur; etto fel pechadur ac
'ſydd wedi credu yn dy Fâb am faddeuant a bywyd;
'wele fi 'n cwympo o'th flaen di, fel un aflan a
'thruenus; ond ti a wnaethoſt dy Fâb i'th holl
'bobl, yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, yn ſanc-
'teiddrwydd ac yn brynedigaeth (p). Rhô i mi
'ran ymmŷſg canlynwyr Ieſu! Ymwêl â mi fel un
'o'i gyfeillion a'i frodyr ef: Canys ti a wyddaiſt
'i'm henaid i'w garu ef, i ymddiried ynddo yn ol
'yr efengyl. Ac *mi a wn i bwy y credais* (q). Fe
'all y llengoedd uffernol geiſio peri i mi lwfrhâu yn
'y dyffryn tywyll; ond yr wyf yn llawenhâu am
'fod fy enaid i yn nwylaw y bugail da (r); a
'chan gyſſurus ymorphwys ar ei ffyddlon ofal ef,
'mi a allaf *ſtalens* fy holl elynion yſprydol. Yr
'wyf yn derchafu fy llygaid a'm calon atto ef, yr
'hwn a fu farw ac ſydd yn awr yn fyw, ac a fydd
'byw 'n dragywydd; yr hwn y mae agoriadau uff-
'ern a'r holl fydoedd anweledig yn ei law (s). O
'Ieſu bendigedig, wele fi 'n marw dan dy law di,
'ac nid ofnaf ddim niweid oddiwrth law fy iachaw-
'dwr! Nid ofnaf y farwolaeth a drefnodd fy Ar-
'glwydd anwyl i mi, yr hwn a fu farw ei hunan,
'i'r diben o wneud fy angau i yn ddiogelwch ac yn
'happuſrwydd i mi. Wele fi 'n dyfod Arglwydd,
'wele fi 'n dyfod, nid yn unig gyda boddlonrwydd,
'eithr gyda chydſynniad llawen. Yr wyf yn diolch
'i ti am gofio am danaf er daioni; am dy fod ti yn
'dryllio fy nghadwynau, ac yn fy ngalw i rydd-did
gogo-

(p) 1 Cor. i. 30. (q) 2 Tim. i. 12. (r) Ioan x. 28.
(s) Dat. i. 18.

'gogoneddus plant Duw (t). Diolch i ti am nad 'yw boddlon gennyt i'm gadael i fyw 'n hwy 'mewn pel der oddiwrthyt; eithr ar ol hîr abſen-'noldeb, yr ydwyt yn awr yn fy ngalw i adreſ, ac 'i aros gartref byth mwy. Y mae fy natur wan 'yn llewygu wrth olygu 'r gogoniant ac fydd yn 'dechreu gwawrio arnaf: Ond ti a wyddaiſt, Ar-'glwydd graſol, pa fodd i'w ddwyn ef i mewn i'm 'henaid yn y fath fodd graddol, ac i beri i'th 'nerth gael ei berffeithio yn fy ngwendid (u), fel 'na bo i mi gael fy ngorchfygu. Mi a, edrychaf i 'lawr unwaith etto ar y bŷd hwn, ac wyf ar ym-'adael ac ef, gan ddymuno 'i lwyddiant; yn enwe-'dig llwyddiant dy eglwys di ynddo. Mi a i cerais 'hi fel aelod fyw o'r corph, ac mi a'i caraf hi hyd 'y diwedd. Yr wyf yn oſtyngedig yn ymbil arnat 'gan hynny, i'w diogelu hi a i phuro, ac i'w huno 'mewn cariad fwy-fwy. Tywallt arni fwy o yſ-'pryd doethineb, o ſancteiddrwydd a chariad; fel y 'bo i'r *anialwch* yn y diwedd gael ei wneuthur 'fel gardd yr Arglwydd (w), a phob cnawd a gaiff 'weled dy iechydwriaeth di (x)!—Ac am danaf fy 'hun yr wyf yn gweddio arnat, o nefol Dâd, i'm 'dwyn ar adenydd cariad tragywyddol i'r orphwyſ-'fa heddychlon, ſanctaidd a gorfoleddus hynny, a 'drefnodd dy drugaredd, ac a bwrcafwyd â gwaed 'fy mhrynwr Ieſu i mi. Dŵg fi at gymmanfa yr 'rhai cyntaf-anedig, at fyrddiwn o angylion, ac at 'yſprydoedd y rhai a berffeithiwyd (y). A pha 'beth bynnag a drefnech i'm corph hwn i ddioddef, 'bydded i'm henaid fyfyrio mewn modd dedwydd 'a ſefydlog ar y gogoniant tu a pha un y mae hi 'yn cyfodi. Bydded i ffŷdd gyflawnu ei gorch-'wyl diweddaf mewn modd anrhydeddus. Rhô 'gymmorth i mi allel treulio 'r ychydig funudau

'fydd

(t) Rhuf. viii. 21. (u) 2 Cor. xii. 9. (w) Eſay li. 3.
(x) Luc iii. 6. (y) Heb. xii. 22, 23.

'ſydd yn ol i mi ar y ddaiar, er gogoniant i ti; gan 'gyfodi gyda chariad yn fy nghalon, a mawl ar fy 'nhafod, tu a 'r bŷd llê y mae cariad a mawl yn 'berffaith! Bydded hon fy nghân ddiweddaf ar y 'ddaiar, pa un wyf ar fyned i'w dechreu yn y nef-'oedd; *Bendith ac anrhydedd, gogoniant a gallu; a 'fyddo i'r hwn ſydd yn eiſtedd ar yr orſedd-fainc, ac 'i'r Oen, yn oes oſoedd* (z). *Amen.*

(z) Dat. v. 13.